HM Government

# LEVELLING UP



## Sicrhau Ffyniant Bro ledled y Deyrnas Unedig

# Sicrhau Ffyniant Bro ledled y Deyrnas Unedig

Cyflwynwyd i'r Senedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro,
Tai a Chymunedau drwy
Orchymyn Ei Mawrhydi
2 Chwefror 2022

CP 604

OGL

© Hawlfraint y Goron 2022

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn:
*correspondence@levellingup.gov.uk*

ISBN 978-1-5286-3017-7
E02694177 02/22

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ddeunydd ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan HH Associates Ltd.
ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys


**Rhagair gan y Prif Weinidog** **viii**

**Rhagair gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac Andrew Haldane** **x**

**Crynodeb gweithredol** **xii**

**Pennod 1 Anghyfartaleddau Daearyddol y Deyrnas Unedig: Sbardunau a Dulliau Polisi Posibl** **1**

1.1 Hanes Cryno Anghyfartaleddau Daearyddol 1
1.2 Anghyfartaleddau Daearyddol ledled y DU 16
1.2.1 Graddau'r anghyfartaleddau daearyddol ledled y DU 16
1.2.2 Sut mae anghyfartaleddau daearyddol y DU yn cymharu â rhannau eraill o'r byd 19
1.2.3 Mesurau ehangach anghyfartaleddau daearyddol 21
1.2.4 Anghyfartaleddau daearyddol ar lefel leol 27
1.2.5 Anghyfartaleddau daearyddol dros amser 30
1.2.6 Dinasoedd a chynhyrchiant 33
1.2.7 Gwahaniaethau daearyddol a symudedd cymdeithasol 37
1.2.8 Clystyru daearyddol ac economaidd 39
1.3 Egluro Daearyddiaethau Economaidd 42
1.3.1 Damcaniaeth twf economaidd 42
1.3.2 Daearyddiaeth economaidd newydd 44
1.3.3 Daearyddiaeth gymdeithasol a seilwaith cymdeithasol 45
1.3.4 Cyfalaf ac arweinyddiaeth sefydliadol 47
1.3.5 Systemau addasol cymhleth 48
1.3.6 Cysoni'r dulliau 50
1.4 Ffactorau Strwythurol yn y Dyfodol a fydd yn Llywio Daearyddiaeth Economaidd y DU 51
1.4.1 Llwybr y DU tuag at Sero Net 52
1.4.2 Effaith COVID-19 55
1.4.3 Trawsnewid technolegol 56

1.5 Fframwaith ar gyfer Gwerthuso Anghyfartaleddau Daearyddol 58
1.5.1 Cyfalaf dynol 59
1.5.2 Cyfalaf ariannol 66
1.5.3 Cyfalaf cymdeithasol 69
1.5.4 Cyfalaf ffisegol 71
1.5.5 Cyfalaf anniriaethol 77
1.5.6 Cyfalaf sefydliadol 84
1.5.7 Crynodeb a synthesis 87
1.6 Rhyngddibyniaeth y gwahanol fathau o Gyfalaf 89
1.7 Rôl Polisi Cyhoeddus 95
1.7.1 Dymunoldeb Polisi Twf Lleol 96
1.7.2 Ymarferoldeb Polisi Twf Lleol 100

**Pennod 2 Diwygio Systemau 105**

2.1 Cyflwyniad 105
2.2 Egwyddorion Cyfundrefnau Polisi Llwyddiannus 105
2.2.1 Hanes dulliau polisi cyhoeddus yn y DU 106
2.2.2 Gwersi o ddulliau polisi blaenorol 110
2.2.3 Gwersi o gyfundrefnau polisi eraill 114
2.2.4 Egwyddorion cyfundrefn bolisi lwyddiannus 116
2.3 Cyfundrefn Bolisi Newydd 117
2.3.1 Cenadaethau tymor canolig 117
2.3.2 Ailwampio proses gwneud penderfyniadau llywodraeth ganolog 122
2.3.3 Grymuso gwneud penderfyniadau lleol 133
2.3.4 Rôl data, a gwaith monitro a gwerthuso 149
2.3.5 Tryloywder ac atebolrwydd 156

**Pennod 3 Y Rhaglen Bolisi 159**

3.1 Cyflwyniad 159
3.2 Rhoi Hwb i Gynhyrchiant, Cyflogau, Swyddi a Safonau Byw drwy Helpu'r Sector Preifat i Dyfu 160
3.2.1 Erbyn 2030, bydd cyflogau, cyflogaeth a chynhyrchiant yn uwch ym mhob rhan o'r DU, a bydd gan bob ardal ddinas a all gystadlu ar lefel fyd-eang, a bydd y bwlch rhwng y rhannau sy'n perfformio orau ac ardaloedd eraill yn lleihau. 160
3.2.2 Erbyn 2030, bydd lefel y buddsoddiad cyhoeddus domestig mewn ymchwil a datblygu y tu hwnt i ardal y De-ddwyrain Fwyaf yn Lloegr yn cynyddu 40% o leiaf, a thros gyfnod yr Adolygiad o Wariant bydd yn cynyddu traean o leiaf. Bydd y cyllid ychwanegol hwn gan y llywodraeth yn ceisio sicrhau bod o leiaf ddwywaith cymaint o fuddsoddi yn y sector preifat dros yr hirdymor er mwyn ysgogi arloesedd a sicrhau twf o ran cynhyrchiant. 170
3.2.3 Erbyn 2030, bydd cysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus leol ledled y wlad yn llawer agosach at safonau Llundain, drwy well gwasanaethau, prisiau tocynnau symlach a system docynnau integredig. 176

3.2.4 Erbyn 2030, bydd gan y DU fand eang a all drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit a signal 4G, a bydd gan y mwyafrif o'r boblogaeth signal 5G 183

3.3 Lledaenu Cyfleoedd a Gwella Gwasanaethau Cyhoeddus 186

3.3.1 Erbyn 2030, bydd nifer y plant cynradd sy'n cyrraedd y safon ddisgwyliedig mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg wedi cynyddu'n sylweddol. Yn Lloegr, bydd hyn yn golygu y bydd 90% o blant yn cyrraedd y safon ddisgwyliedig, a bydd canran y plant sy'n cyrraedd y safon ddisgwyliedig yn yr ardaloedd sy'n perfformio waethaf wedi cynyddu dros draean. 187

3.3.2 Erbyn 2030, bydd nifer y bobl fydd yn cwblhau hyfforddiant sgiliau o ansawdd uchel yn llwyddiannus wedi cynyddu'n sylweddol ym mhob rhan o'r DU. Yn Lloegr, bydd hyn yn arwain at 200,000 yn fwy o bobl yn cwblhau hyfforddiant sgiliau o ansawdd uchel yn llwyddiannus bob blwyddyn, a gaiff ei lywio gan 80,000 yn fwy o bobl yn cwblhau cyrsiau yn yr ardaloedd hynny sydd â'r nifer lleiaf o bobl fedrus. 193

3.3.3 Erbyn 2030, bydd y bwlch o ran Disgwyliad Oes Iach rhwng ardaloedd lleol lle mae ar ei uchaf ac ar ei isaf wedi lleihau, ac erbyn 2035 bydd wedi cynyddu bum mlynedd. 200

3.4 Adfer Ymdeimlad o Gymuned, Balchder Lleol a Pherthyn 206

3.4.1 Erbyn 2030, bydd balchder mewn lle, megis boddhad pobl â'u tref leol a'r ffordd y maent yn cymryd rhan mewn digwyddiadau diwylliannol a chymunedol lleol, wedi cynyddu ym mhob rhan o'r DU, a bydd y bwlch rhwng yr ardaloedd sy'n perfformio orau ac ardaloedd eraill yn lleihau. 207

3.4.2 Erbyn 2030, gall rhentwyr ddilyn llwybr cadarn i brynu eu cartref eu hunain, a bydd nifer y prynwyr tro cyntaf yn cynyddu ym mhob ardal; ac uchelgais y llywodraeth yw sicrhau bod nifer y cartrefi a gaiff eu rhentu nad ydynt yn cyrraedd y safon wedi lleihau 50%, gyda'r gwelliannau mwyaf i'w gweld yn yr ardaloedd sy'n perfformio waethaf. 221

3.4.3 Erbyn 2030, bydd nifer yr achosion o laddiadau, trais difrifol a throseddau mewn cymdogaethau wedi lleihau, a chanolbwyntir ar yr ardaloedd yr effeithir arnynt fwyaf. 228

3.5 Grymuso Arweinwyr a Chymunedau Lleol 233

3.5.1 Erbyn 2030, bydd pob rhan o Loegr sydd am gael bargen ddatganoli yn ei chael, a bydd y pwerau a roddir ar y lefel uchaf o ddatganoli neu'n agos at hynny; hefyd ceir setliad cyllido hirdymor syml. 234

**Pennod 4 Y Camau Nesaf 245**

4.1 Cyflwyniad 245

4.2 Ymgysylltu, ac Ymgynghori Anffurfiol 245

4.3 Deddfwriaeth Bellach 247

4.4 Casgliad 248

**Cyflawni dros bob rhan o'r Deyrnas Unedig 249**

# Rhestr o Ffigurau a Thablau


| | | |
|---|---|---|
| Ffigur 1.1 | Y Dinasoedd Mwyaf yn y Byd ers 7,000 CC | 2 |
| Ffigur 1.2 | Y newid ym mhoblogaeth dinasoedd penodol yn y DU 1821-2021 (1821=100) | 5 |
| Ffigur 1.3 | Gwerth ychwanegol gros enwol (wedi ei lyfnhau) fesul awr a weithiwyd (£), awdurdodau lleol ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon, 2019 | 6 |
| Tabl 1.1 | Maint y bwlch: Gwahaniaethau mewn gwerth ychwanegol gros fesul awr a weithiwyd mewn £ a chanran, gwledydd a rhanbarthau/awdurdodau lleol y DU a Phrydain Fawr, 2019 | 7 |
| Ffigur 1.4 | Dosbarthiad gwerth ychwanegol gros fesul awr a weithiwyd (£), awdurdodau lleol yn ôl gwledydd a rhanbarthau Prydain Fawr, 2019 | 7 |
| Ffigur 1.5 | Cyflog wythnosol gros canolrifol (£) ar gyfer holl swyddi cyflogeion, awdurdodau lleol y DU, 2021 | 8 |
| Tabl 1.2 | Maint y bwlch: Gwahaniaethau mewn cyflog wythnosol gros canolrifol mewn £ a chanran, gwledydd a rhanbarthau/awdurdodau lleol y DU, 2021 | 9 |
| Ffigur 1.6 | Dosbarthiad cyflog wythnosol gros canolrifol (£) ar gyfer holl swyddi cyflogeion, awdurdodau lleol yn ôl gwledydd a rhanbarthau Prydain Fawr, 2021 | 9 |
| Ffigur 1.7 | Cyfran y boblogaeth 16-64 oed â chymwysterau lefel 3 + yn ôl awdurdod lleol, y DU, 2021 | 10 |
| Tabl 1.3 | Maint y bwlch: Gwahaniaethau yn y boblogaeth â chymwysterau Lefel 3+ ar ffurf canran, gwledydd a rhanbarthau/awdurdodau lleol y DU, 2021 | 11 |
| Ffigur 1.8 | Dosbarthiad cyfran y boblogaeth 16-64 oed â chymwysterau lefel 3+, awdurdodau lleol yn ôl gwledydd a rhanbarthau'r DU, 2021 | 11 |
| Ffigur 1.9 | Disgwyliad oes iach adeg geni (Dynion), awdurdodau lleol y DU, 2017-2019 | 12 |
| Tabl 1.4 | Maint y bwlch: Gwahaniaethau mewn disgwyliad oes iach (Dynion) mewn blynyddoedd a chanran, gwledydd a rhanbarthau/awdurdodau lleol y DU, 2017-19 | 13 |
| Ffigur 1.10 | Dosbarthiad disgwyliad oes iach adeg geni (Dynion), awdurdodau lleol yn ôl gwledydd a rhanbarthau'r DU, 2017-2019 | 13 |
| Ffigur 1.11 | Disgwyliad oes iach adeg geni (Menywod), awdurdodau lleol y DU, 2017-2019 | 14 |
| Tabl 1.5 | Maint y bwlch: Gwahaniaethau mewn disgwyliad oes iach (Menywod) mewn blynyddoedd a chanran, gwledydd a rhanbarthau/awdurdodau lleol y DU, 2017-19 | 15 |
| Ffigur 1.12 | Dosbarthiad disgwyliad oes iach adeg geni (Menywod), awdurdodau lleol yn ôl gwledydd a rhanbarthau'r DU, 2017-2019 | 15 |
| Ffigur 1.13 | Patrymau gofodol: Pa ardaloedd a gaiff eu gadael ar ôl fwyaf? Awdurdodau lleol yn y chwartel isaf o ran sgiliau sy'n cyfateb i lefel 3+ ymhlith oedolion, Gwerth Ychwanegol Gros fesul awr a weithiwyd, Cyflog Wythnosol Gros Canolrifol a disgwyliad oes iach | 18 |
| Ffigur 1.14 | Cynhyrchiant rhanbarthol, gwledydd a rhanbarthau Prydain Fawr, 1900-2019 | 19 |
| Ffigur 1.15 | Cymhareb o'r 20% o ranbarthau mwyaf cyfoethog i'r 20% o ranbarthau mwyaf tlawd, gwledydd OECD, 2008 a 2018 | 20 |
| Ffigur 1.16 | Y gydberthynas rhwng cynhyrchiant llafur (gwerth ychwanegol gros fesul awr a weithiwyd) a metrigau eraill | 21 |

| | | |
|---|---|---|
| Ffigur 1.17 | Mesurau incwm a chynhyrchiant o gymharu â chyfartaledd y DU, gwledydd a rhanbarthau'r DU, 2019 | 23 |
| Ffigur 1.18 | Boddhad mewn bywyd, awdurdodau lleol y DU, 2020 | 25 |
| Ffigur 1.19 | Penderfynyddion boddhad mewn bywyd: Cymarebau ods ffactorau sy'n effeithio ar foddhad mewn bywyd, y DU, mis Ebrill 2016 i fis Mawrth 2017 | 26 |
| Ffigur 1.20 | Gwerth ychwanegol gros fesul swydd a lenwyd, awdurdodau lleol yn ôl gwledydd a rhanbarthau'r DU, 2019 | 28 |
| Ffigur 1.21 | Amddifadedd incwm yn Kensington a Chelsea | 28 |
| Ffigur 1.22 | Amddifadedd incwm yn Middlesbrough | 29 |
| Ffigur 1.23 | Amddifadedd incwm yn ôl Moran's I, awdurdodau lleol yn Lloegr, 2019 | 29 |
| Ffigur 1.24 | Cyfraddau cyflogaeth, Rhanbarthau Ystadegol Safonol Prydain, 1901 i 1971; cyfradd cyflogaeth (16+), gwledydd a rhanbarthau'r DU, 2004 i 2020 | 31 |
| Ffigur 1.25 | Disgwyliad oes adeg geni, gwledydd a rhanbarthau'r DU, 2011-2003 i 2016-18 | 32 |
| Ffigur 1.26 | Gwerth ychwanegol gros fesul awr vs. maint y boblogaeth, dinasoedd dethol yng ngorllewin Ewrop, 2011 | 33 |
| Ffigur 1.27 | Cynhyrchiant mewn Dinasoedd Craidd o gymharu â dinasoedd ail haen mewn gwledydd eraill, 2016 | 34 |
| Ffigur 1.28 | Dwysedd y boblogaeth mewn ardaloedd trefol (heb gynnwys ardaloedd trefol â llai na 10,000 o bobl fesul cilomedr sgwâr), y DU a gwledydd eraill yng ngorllewin Ewrop | 35 |
| Ffigur 1.29 | Enillion canolrifol yn 28 oed i fechgyn a oedd yn cael prydau ysgol am ddim yn 16 oed, ar draws awdurdodau lleol yn Lloegr lle gwnaethant dyfu i fyny | 38 |
| Ffigur 1.30 | Map dangosol o glystyrau a chryfderau sectoraidd y DU | 40 |
| Ffigur 1.31 | Cynhyrchiant (gwerth ychwanegol gros fesul awr a weithiwyd) yn erbyn incwm (incwm gwario gros aelwydydd y pen), awdurdodau lleol Prydain Fawr, 2018 | 43 |
| Ffigur 1.32 | Cynhyrchiant a chymhlethdod economaidd, ardaloedd trefol Prydain Fawr, 2019 | 49 |
| Ffigur 1.33 | Allyriadau net o garbon deuocsid y pen, awdurdodau lleol yn y DU, 2019 | 53 |
| Ffigur 1.34 | Cyfleoedd cyflogaeth posibl ac anghenion sgiliau o symud i Sero Net, gwledydd a rhanbarthau'r DU | 54 |
| Ffigur 1.35 | Cyfran y swyddi sy'n wynebu risg uchel o awtomeiddio, awdurdodau lleol yn Lloegr, 2017 | 57 |
| Ffigur 1.36 | Cyfalaf Dynol Gwirioneddol y pen (16-65 oed), gwledydd a rhanbarthau'r DU, 2018 | 59 |
| Ffigur 1.37 | Cyfran y boblogaeth 16-64 oed â lefelau gwahanol o gymwysterau, gwledydd a rhanbarthau'r DU, 2019 | 60 |
| Ffigur 1.38 | Cyfran y boblogaeth 16-64 oed â chymwysterau lefel 3+, dosbarthau awdurdodau lleol Prydain Fawr, a Gogledd Iwerddon, 2020 | 61 |
| Ffigur 1.39 | Y gydberthynas rhwng cymwysterau lefel 3 a rhai cyfatebol neu uwch ac ennill cymwysterau TGAU, yn ôl awdurdod lleol (Lloegr yn unig) | 62 |
| Ffigur 1.40 | Cyfradd llwyth achosion y Lwfans Cymorth Cyflogaeth (poblogaeth o oedran gweithio), gwledydd a rhanbarthau'r DU, Chwefror 2021 | 63 |
| Ffigur 1.41 | Cyffredinrwydd gorbwysau a gordewdra, awdurdodau lleol yn Lloegr, 2019/2020 a chyfraddau smygu, awdurdodau lleol Prydain Fawr 2019 | 64 |
| Ffigur 1.42 | Cyfran ecwiti a chytundebau cyllid dyledion o gymharu â gwerth ychwanegol gros, gwledydd a rhanbarthau'r DU, 2021 | 67 |
| Ffigur 1.43 | Dosbarthiad ecwiti ar draws awdurdodau lleol yn y DU, 2011-2020 | 68 |
| Ffigur 1.44 | Lleoliad daearyddol parau buddsoddwr-buddsoddai, gwledydd a rhanbarthau'r DU, 2011-2020 | 69 |
| Ffigur 1.45 | Sgôr Mynegai Anghenion Cymuned Ymddiriedolaeth Leol, awdurdodau lleol yn Lloegr, 2019 | 70 |

| | | |
|---|---|---|
| Ffigur 1.46 | Boddhad â'r ardal leol, rhanbarthau Lloegr, 2020-21 | 71 |
| Ffigur 1.47 | Swyddi y gellir eu cyrraedd mewn 60 munud ar gyfer pob swydd o fewn pum milltir | 72 |
| Ffigur 1.48 | Cymhareb prisiau tai i enillion yn seiliedig ar breswylfan, dosbarthau awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr, 2020 | 73 |
| Ffigur 1.49 | Stoc gyfalaf fesul gweithiwr, is-ranbarthau ITL2 y DU, 2019 | 75 |
| Ffigur 1.50 | Trefniant cyfalaf sefydlog gros o gymharu â Llundain, gwledydd a rhanbarthau'r DU, 2000-2019 | 76 |
| Ffigur 1.51 | Buddsoddiad Uniongyrchol o Dramor fesul swydd y gweithlu, gwledydd a rhanbarthau'r DU, 2019 | 77 |
| Ffigur 1.52 | Incwm o eiddo deallusol yn ôl darparwyr Addysg Uwch, is-ranbarthau ITL2 y DU, 2018 | 78 |
| Ffigur 1.53 | Ceisiadau patent, is-ranbarthau ITL2 y DU, 2012 | 79 |
| Ffigur 1.54 | Patentau uwch-dechnoleg, is-ranbarthau ITL2 y DU, 2012 | 80 |
| Ffigur 1.55 | Canran cyflogaeth mewn swyddi STEM, is-ranbarthau ITL2 y DU, 2019 | 81 |
| Ffigur 1.56 | Swyddi uwch-dechnoleg, is-ranbarthau ITL2 y DU, 2019 | 82 |
| Ffigur 1.57 | Sgôr arferion rheoli, gwledydd a rhanbarthau Prydain Fawr, 2020 | 83 |
| Ffigur 1.58 | Gwariant ymchwil a datblygu, gwledydd a rhanbarthau Prydain Fawr, 2019 | 84 |
| Ffigur 1.59 | Canran yr oedolion sy'n cytuno y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol, rhanbarthau Lloegr, 2020/21 | 85 |
| Ffigur 1.60 | Sgôr Gwead Cymdeithasol Pellach, awdurdodau lleol ym Mhrydain Fawr, a Gogledd Iwerddon, 2020 | 86 |
| Ffigur 1.61 | Cryfder rhwydweithiau lleol Partneriaethau Menter Lleol – Canran y partneriaethau sy'n cytuno/anghytuno bod y cyrff canlynol yn chwarae rôl lawn a gweithgar yn y bartneriaeth, 2015 | 87 |
| Ffigur 1.62 | Fframwaith Cyfalaf Ffyniant Bro | 88 |
| Ffigur 1.63 | Cyfrannau carfannau o'r boblogaeth sy'n symud rhanbarth ITL1 a chyflogwr, 2017 | 90 |
| Ffigur 1.64 | Cyfran yr holl raddedigion sy'n symud yn ôl sefydliad a dosbarth gradd 2013/14 i 2014/15 | 90 |
| Ffigur 1.65 | Patrymau symudedd graddedigion, 16-27 oed, 2013/14 i 2016/17 | 91 |
| Ffigur 1.66 | Cyfran y graddedigion sy'n symud rhanbarthau ac yn newid swyddi, a'r amrywiad o ran cyfradd cyflogaeth graddedigion | 93 |
| Ffigur 1.67 | Cynnydd damcaniaethol mewn enillion gwario (enillion canolrifol llai rhent canolrifol) o ganlyniad i symud awdurdod lleol | 93 |
| Ffigur 1.68 | Cyfran y bobl sy'n symud rhanbarth a chyflogwr, i'r rhai wedi'u geni y tu allan i'r DU a'r rhai wedi'u geni yn y DU, 1994 i 2017. | 94 |
| Ffigur 1.69 | Cyfran y graddedigion sy'n aros gartref ac mewn swyddi nad ydynt yn swyddi i raddedigion | 95 |
| Tabl 1.6 | Buddiannau Ffyniant Bro sy'n Cyfateb i Incwm – darluniad | 97 |
| Ffigur 1.70 | Cynnyrch domestig gros fesul twf blynyddol y pen ac anghydraddoldeb rhyngranbarthol, rhanbarthau TL3 OECD (heb gynnwys economïau pontio blaenorol), 2000-2017 | 99 |
| Ffigur 2.1 | Canrif o bolisi twf lleol | 108 |
| Tabl 2.1 | Cenadaethau Ffyniant Bro | 120 |
| Ffigur 2.2 | Cronfeydd cyllido twf lleol a gyflwynwyd yn y DU ers 2011-12 | 127 |
| Tabl 2.2 | Mannau Twf: Nifer y rolau a fydd wedi symud y tu allan i Lundain erbyn 2025 a 2030 | 131 |
| Ffigur 2.3 | Daearyddiaethau Bargen Ddatganoli Lloegr a Bargeinion Dinesig a Thwf | 134 |
| Tabl 2.3 | Fframwaith Datganoli | 140 |
| Tabl 2.4 | Mentrau enghreifftiol yn y sector preifat | 147 |
| Ffigur 2.4 | Archwiliwr data is-genedlaethol SYG | 152 |

| | | |
|---|---|---|
| Ffigur 3.1 | Gwelliannau signal gigabeit, gwledydd a rhanbarthau'r DU, 2019, 2021 a 2025 (rhagamcanol) | 184 |
| Ffigur 3.2 | Gwelliannau signal 4G, gwledydd a rhanbarthau'r DU, 2021 a 2026 | 184 |
| Ffigur 3.3 | Cyrhaeddiad 8, awdurdodau lleol yn Lloegr, 2018/19 | 188 |
| Ffigur 3.4 | Ardaloedd Buddsoddi mewn Addysg, Lloegr | 191 |
| Ffigur 3.5 | Disgwyliad Oes a Disgwyliad Oes Iach, cymdogaethau yn Lloegr fesul degradd amddifadedd, 2017-2019 | 201 |
| Tabl 3.1 | Cyllid Tir Llwyd | 210 |
| Ffigur 3.6 | Derbynwyr y Gronfa Ffyniant Bro a'r Gronfa Trefi, awdurdodau lleol yn y DU | 240 |




# Rhagair gan y Prif Weinidog



Ers y diwrnod cyntaf, prif genhadaeth y llywodraeth hon fu sicrhau ffyniant bro ledled y wlad.

Cymryd y camau radical sydd eu hangen er mwyn ein gwneud yn fwy ffyniannus ac unedig drwy fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau rhanbarthol a lleol sy'n rhoi cymunedau dan anfantais annheg, ac annog y sector preifat i fuddsoddi mewn ardaloedd ledled y DU.

Er mai ni yn sicr yw un o'r economïau mwyaf a chryfaf yn y byd, ni hefyd yw un o'r rhai mwyaf anghytbwys. Yn y wlad hon mae'r man lle cewch eich geni yn un o'r prif ffactorau sy'n pennu eich llwybr mewn bywyd, y cyfleoedd a gewch, a hyd yn oed am faint o flynyddoedd y gallwch ddisgwyl byw.

Nid yw hyn yn beth newydd. Mae gwleidyddion wedi bod yn ymwybodol o'r anghydraddoldeb rhanbarthol hwn cyhyd ag y mae wedi bodoli, ond rydym wedi bod yn fodlon canolbwyntio ar ddarlun mawr twf cenedlaethol – gwastraff talent a gwastraff potensial economaidd y wlad hon.

Er mwyn datrys y mater, nid cyfyngu ar lwyddiant yr ardaloedd hynny sy'n gwneud yn dda yw'r ateb. Yn hytrach rwy'n benderfynol o dorri'r cysylltiad rhwng daearyddiaeth a ffawd, fel ei bod yn gwneud synnwyr busnes da i'r sector preifat fuddsoddi mewn ardaloedd sydd wedi cael eu gadael ar ôl am ormod o amser o lawer.

Os bydd y mannau hynny nad ydynt yn perfformio cystal ar hyn o bryd yn mynd ati o ddifrif, bydd cynnyrch domestig gros (GDP) yn cynyddu ddegau o biliynau bob blwyddyn. Mae hynny'n golygu mwy o dwf, mwy o swyddi, a chyflogau uwch ledled y DU. Ac os gallwn sicrhau ffyniant bro yn y wlad hon – a chau ein bwlch cynhyrchiant – ni fydd â'r economi fwyaf ffyniannus yn Ewrop.

Dyna'r ddamcaniaeth; mae'r Papur Gwyn hwn yn disgrifio'r broses o'i rhoi ar waith. Noda'r camau ymarferol y bydd y llywodraeth hon yn eu cymryd ym mhob maes, o addysg i'r celfyddydau i fuddsoddi, a fydd yn gwneud y wlad hon yn un well a thecach i bawb ohonom.

Ni fydd yn hawdd. Mae'r heriau rydym yn eu hwynebu wedi datblygu dros genedlaethau ac ni ellir datrys y problemau dros nos. Ond mae'r Papur Gwyn hwn yn gam cyntaf hanfodol i wneud hynny. Dyma'r cynllun mwyaf cynhwysfawr ac uchelgeisiol o'i fath y mae'r wlad hon wedi'i weld.

Mae'n pennu gweledigaeth ar gyfer y dyfodol a fydd yn gweld gwariant cyhoeddus ar ymchwil a datblygu yn cynyddu ledled y wlad; bydd cysylltedd trafnidiaeth yn cyrraedd lefelau tebyg i Lundain yn ein holl drefi a dinasoedd, a rhyngddynt; cyflwynir band eang cyflymach ym mhob cymuned; bydd disgwyliadau oes yn cynyddu; bydd lefelau troseddau treisgar yn gostwng; bydd ysgolion yn gwella; a bydd y sector preifat yn mynd ati i fuddsoddi'n sylweddol.

Byddwn yn chwyldroi democratiaeth leol, ac yn manteisio ar bŵer aruthrol data nid dim ond ar lefel genedlaethol a lefel ranbarthol, ond yr holl ffordd i lawr i gymdogaethau. Cyflwynir ffordd newydd sbon o feddwl o fewn llywodraeth ganolog, gan gydnabod nad yw llwyddiant cenedlaethol ar ei ben ei hun yn ddigon os yw'n celu methiannau lleol.

Byddwn yn defnyddio'r rhyddid sydd wedi'i adfer yn sgil Brexit – o ran masnach, rheoleiddio, mewnfudo, caffael cyhoeddus a mwy – i helpu busnesau, cymunedau ac unigolion ledled y wlad.

A dim ond megis dechrau yw hynny, oherwydd mae pawb yn gwybod nad mewn ambell ran o'n gwlad yn unig mae talent ac egni a brwdfrydedd a dawn wedi'u lleoli. Maent i'w gweld ar hyd a lled y DU yn gyfartal, a dyna fel y bu hi erioed.

Cyfleoedd yw'r broblem, a datrys hyn yw her economaidd, gymdeithasol a gwleidyddol ein hoes.
Gyda'r Papur Gwyn hwn, mae'n her y bydd y llywodraeth hon yn parhau i'w hateb.

# Rhagair gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac Andrew Haldane





"Stay local, go far." Dyma oedd y cri ar boster diweddar yn Teesside, ac mae'r rhan hon o'r wlad yn llwyddo i gyflawni'r nod, wrth i'w heconomi uwch-dechnoleg, sgiliau uchel a chyflogau uchel gael ei hadfywio'n ddiweddar o dan arweinyddiaeth ysbrydoledig y maer, Ben Houchen. Gwelwn straeon tebyg o lwyddiant ar hyd a lled y wlad.

Ond nid dyma'r darlun cyfan o ran y DU. Mae anghydraddoldebau daearyddol sylweddol rhwng ein dinasoedd, trefi a phentrefi, a'r tu mewn iddynt. Am bob llwyddiant lleol, clywir am y trafferthion a brofir rywle arall. Er bod talent wedi'i dosbarthu'n gyfartal ledled y DU, nid dyna yw hanes cyfleoedd. I lawer, rhaid gadael eich milltir sgwâr i gamu ymlaen.

Mae ffyniant bro yn genhadaeth – sy'n rhannol economaidd, rhannol gymdeithasol, rhannol foesol – i newid hynny unwaith ac am byth. Y nod yw cynnig cyfleoedd, sicrhau ffyniant a chreu balchder mewn mannau sydd wedi cael eu llesteirio'n rhy hir. Rhaid sicrhau bod pawb yn gwybod sut beth yw llwyddo, gan gynyddu safonau byw pobl a hefyd eu helpu i fyw'n hirach a mwynhau bywyd o ansawdd gwell.

Ni all yr un ymyriad byrdymor gyflawni'r fath newid. Mae angen inni sicrhau bod pob ffactor sy'n ysgogi cynnydd a ffyniant pobl yn rhan o'r darlun – buddsoddiadau, sgiliau, arloesedd, cyllid, ymddiriedaeth a sefydliadau. Ac mae angen inni ddwyn pob rhan o gymdeithas ynghyd, gan sicrhau bod y gorau o blith y llywodraeth, y sector preifat a chymdeithas sifil yn gweithio mewn partneriaeth.

Dyma a wnaeth drawsnewid Fflorens adeg y Dadeni ac a wnaeth sbarduno'r Chwyldro Diwydiannol ym Mhrydain, a dyma sydd wrth y llyw yn ninasoedd mawr y byd heddiw megis Seoul, Efrog Newydd a Llundain. Er mwyn sicrhau ffyniant bro ac uno ein gwlad, rhaid inni droedio llwybr tebyg, sy'n gofyn am fodel newydd o ran llywodraeth y DU a'r ffordd y caiff y DU ei llywodraethu.

Mae'r model newydd hwn yn seiliedig ar set uchelgeisiol o genadaethau, gan ysgogi pob sector i weithredu er mwyn gwella swyddi, incymau, iechyd, sgiliau, trafnidiaeth, balchder mewn lle, diogelwch a llesiant ledled y DU. Mae'r cenadaethau meintiol clir hyn yn golygu na all neb fod yn ansicr mwyach ynghylch yr hyn y mae llwyddiant o ran ffyniant bro yn ei olygu.

Er mwyn cyflawni'r cenadaethau hyn bydd angen i bob rhan o'r wlad dorchi llewys, a bydd Llywodraeth y DU yn gweithio gyda phob haen o lywodraeth, yn cynnwys y gweinyddiaethau datganoledig, cymdeithas sifil a'r sector preifat. Ar yr un pryd, mae Whitehall yn cael ei ailwampio fel bod lle wrth wraidd prosesau gwneud penderfyniadau, yn cynnwys symud rhagor o weision sifil y tu allan i Lundain. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddatganoli pwerau gwneud penderfyniadau ymhellach i arweinwyr lleol sydd yn aml yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau. Mae fframwaith datganoli newydd yn darparu trywydd clir ar gyfer gwneud hynny.

Wrth wraidd hyn oll bydd gwell data a thryloywder, goruchwyliaeth a dadansoddeg, gwerthuso ac arbrofi. A law yn llaw â phwerau lleol mae cyfrifoldebau lleol. Mae'r gwaith o fonitro perfformiad a pholisïau lleol yn hanfodol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu deall gan ddinasyddion lleol a'u bod yn ymateb iddynt, a bod arweinwyr lleol yn eu gwella dros amser. Bydd corff llywodraeth leol newydd yn gyfrifol am oruchwylio hyn a sicrhau tryloywder, a bydd gan y llywodraeth gyfrifoldeb statudol i adrodd ar hynt y gwaith o gyflawni'r cenadaethau.

Mae hwn yn gynllun clir a mesuradwy y gellir ei roi ar waith i sicrhau ffyniant bro ledled y DU, o Aberdeen i Antrim, ac o Gasnewydd i Gaerhirfryn. Ac er bod y Papur Gwyn yn gynllun hirdymor i newid y DU, mae hefyd yn pennu rhai camau cyntaf pwysig. Yn eu plith mae gwahodd arweinwyr lleol sy'n cynrychioli naw miliwn o bobl i ddechrau negodi er mwyn cytuno ar fargeinion datganoli newydd; Academi Genedlaethol ar-lein newydd, drawsnewidiol, yn y DU a 55 o Ardaloedd Gwella Addysg newydd; 20 o brosiectau adfywio trawsnewidiol newydd; cryn dipyn yn fwy o wariant ar ymchwil a datblygu y tu allan i ardal y De-Ddwyrain Fwyaf yn Lloegr, gan sefydlu Sbardunwyr Arloesedd newydd i sbarduno clystyrau arloesi; trawsnewid ansawdd tai, yn arbennig yn y sector rhentu preifat a'r sector tai cymdeithasol; manylion y Gronfa Ffyniant Gyffredin gwerth £2.6bn i adfer balchder mewn lle ledled y DU; rhoi hwb i fuddsoddi mewn diwylliant lle mae wedi bod ar goll ers gormod o amser; a rhoi mwy o bwerau ac arian i gymunedau lleol.

Wrth i'r rhaglen hirdymor hon o newid gael ei chyflwyno, dechreuir teimlo'r gwahaniaeth mewn cymunedau, gweithleoedd, tafarndai, bwytai a theatrau, ac ar gaeau pêl-droed ac ar y stryd fawr. Mae pobl yn haeddu byw mewn gwlad lle nad yw bywyd yn loteri cod post, a lle gallwch fynd ymhell yn eich milltir sgwâr. Mae cyhoeddi'r Papur Gwyn hwn yn gam pwysig tuag at y nod hwnnw.

# Crynodeb gweithredol

> **Mae'r Deyrnas Unedig yn stori o lwyddiant heb ei fath**

Mae'r Deyrnas Unedig yn stori o lwyddiant heb ei fath – gwladwriaeth amlddiwylliannol, amlgenedlaethol, amlethnig, sydd â'r darlledwr gorau yn y byd; sector y celfyddydau hynod greadigol; Gwasanaeth Iechyd Gwladol sy'n gofalu am bawb; elusennau a grwpiau gwirfoddol sy'n gwneud llu o bethau da bob dydd; gwyddonwyr o'r radd flaenaf sy'n ymestyn ein gwybodaeth bob blwyddyn; entrepreneuriaid sy'n datblygu'r cynhyrchion a'r gwasanaethau sy'n rhoi modd i fyw a swyddi i gynifer o bobl; a miliynau o ddinasyddion y mae eu caredigrwydd a'u tosturi wedi bod mor amlwg yn ystod pandemig COVID-19.

Ond nid yw pawb yn profi llwyddiant y DU yn yr un ffordd. Er bod talent wedi'i dosbarthu'n gyfartal ledled ein gwlad, nid dyna yw hanes cyfleoedd. Mae sicrhau ffyniant bro yn genhadaeth i herio a newid yr annhegwch hwnnw. Mae sicrhau ffyniant bro yn golygu rhoi cyfle i bawb ffynnu. Mae'n golygu bod pobl ym mhob man yn byw'n hirach ac yn byw bywydau mwy bodlon, ac yn cael budd o'r cynnydd parhaus mewn safonau byw a llesiant.

Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol inni ddileu'r anghydraddoldeb daearyddol sydd mor nodweddiadol o'r DU. Rhaid iddo ddechrau drwy wella arloesedd a dynamiaeth economaidd fel bod y wlad gyfan yn profi twf, a bod y sector preifat yn mynd ati i greu swyddi a chreu cyfleoedd i bawb. Er bod busnesau ac arloeswyr heb eu hail ledled y DU, mae twf economaidd a'r lefelau uwch o gynhyrchiant sy'n ei lywio wedi'u gorgrynhoi mewn ardaloedd penodol, yn arbennig de-ddwyrain Lloegr. Mae rhestr hirfaith o fusnesau a mannau â lefelau isel o gynhyrchiant yn egluro pam mae twf cynhyrchiant yn y DU yn rhy isel o gymharu â'n cystadleuwyr.

> **Mae ffyniant bro yn golygu rhoi cyfle i bawb ffynnu**

Mae'n hanfodol ein bod yn cynnal ac yn gwella straeon llwyddiant economaidd, academaidd a diwylliannol siroedd, trefi a dinasoedd mwyaf cynhyrchiol y DU. Ond mae'r un mor bwysig ein bod yn gwella cynhyrchiant, yn rhoi hwb i dwf economaidd, yn annog arloesedd, yn creu swyddi da, yn gwella cyrhaeddiad addysgol ac yn adnewyddu gwead cymdeithasol a diwylliannol y rhannau hynny o'r DU sydd wedi llesteirio ac nad ydynt – hyd yn hyn – wedi cael eu cyfran deg o lwyddiant ein cenedl.

Mae Llywodraeth y DU wedi gwneud cynnydd wrth ledaenu cyfleoedd ledled y wlad ers 2019, ochr yn ochr â lliniaru effeithiau gwaethaf y pandemig, drwy'r canlynol:

- £5bn ar gyfer Prosiect Gigabeit i gyflwyno band eang a all drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit i 85% o'r DU erbyn 2025, a'r fargen Rhwydwaith Gwledig Cyffredin gwerth £1bn â chwmnïau symudol i gyflwyno signal 4G i 95% o'r DU erbyn diwedd 2025;
- setliadau trafnidiaeth cyfunol pum mlynedd gwerth £5.7bn mewn wyth dinas-ranbarth y tu allan i Lundain, a £5bn ar gyfer bysiau a theithio llesol dros dymor y Senedd hon; a £96bn ar gyfer y Cynllun Rheilffyrdd Integredig i gyflwyno teithiau cyflymach, mwy rheolaidd a mwy dibynadwy ledled gogledd Lloegr a Chanolbarth Lloegr;

- fformiwla newydd ar gyfer cyllido ysgolion yn Lloegr er mwyn dod â'r loteri cod post blaenorol i ben, a £4bn ychwanegol ar gyfer ysgolion yn Lloegr y flwyddyn nesaf, yn cynyddu i £4.7bn yn 2024-25
- buddsoddiad o £3.8bn mewn sgiliau a gynllunnir erbyn 2024-25 a Gwarant Sgiliau Gydol Oes yn Lloegr, gan alluogi 11m o oedolion i ennill cymhwyster Safon Uwch neu gymhwyster cyfatebol am ddim, yn ogystal â rhaglen rhifedd newydd i oedolion ledled y DU a bŵt-campau sgiliau;
- £23.3bn yn ychwanegol ar gyfer y GIG yn Lloegr dros gyfnod Adolygiad o Wariant 2021, ymrwymiad i godi 40 o ysbytai newydd erbyn 2030 ac uchelgais i recriwtio 50,000 o nyrsys ychwanegol;
- cyfradd dapro is ar gyfer Credyd Cynhwysol – i lawr o 63% i 55% – a Chyflog Byw Cenedlaethol uwch, gan sicrhau bod gwaith yn talu i filiynau o bobl, a'u galluogi i gadw mwy o'u henillion;
- 20,000 o heddweision ychwanegol ar ein strydoedd erbyn 2023 a Chronfa Strydoedd Mwy Diogel gwerth £70m i wella'r amgylchedd a gostwng lefelau troseddau mewn ardaloedd lle ceir lefel uchel o droseddau;
- rheoli ein system fewnfudo drwy ddod â'r gallu i symud yn rhydd i ben a chyflwyno system fewnfudo newydd sy'n seiliedig ar bwyntiau, gan roi'r rhyddid i'r DU benderfynu pwy sy'n dod i'n gwlad yn seiliedig ar y sgiliau y gall pobl eu cynnig;
- £1.49bn mewn Bargeinion Dinesig a Thwf ledled yr Alban, £791m ledled Cymru a £617m ledled Gogledd Iwerddon;
- wyth Porthladd Rhydd arloesol sy'n creu swyddi ac yn sicrhau buddsoddiad a ffyniant ledled Lloegr, ynghyd ag ymrwymiad i gyflwyno rhagor o Borthladdoedd Rhydd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon;
- 101 o drefi ledled Lloegr yn cael £2.4bn o'r Gronfa Trefi i gyflawni eu potensial economaidd, a Chronfa Strydoedd Mawr y Dyfodol gwerth £830m yn adfywio 72 o drefi a strydoedd mawr, ac yn eu helpu i adfer o'r pandemig;
- Cronfa Adfer Diwylliant gwerth £2bn, sy'n helpu amgueddfeydd, theatrau, sinemâu a sefydliadau treftadaeth i oroesi'r pandemig;
- £4.8bn o fuddsoddiad mewn seilwaith trefi ledled y DU drwy'r Gronfa Ffyniant Bro;
- Cronfa Perchenogaeth Gymunedol gwerth £150m, sy'n rhoi'r cyfle i bobl ledled y DU fod yn berchen ar eu tafarndai neu eu caeau pêl-droed lleol;
- £26bn o fuddsoddiad cyfalaf cyhoeddus ar gyfer y chwyldro diwydiannol gwyrdd a symud i Sero Net;
- symud swyddogaethau a gweision sifil Llywodraeth y DU allan o Whitehall, gan sicrhau nad yw'r gwaith o sicrhau ffyniant bro yn cael ei bennu o Lundain, a chreu swyddi lleol a sicrhau y gwneir penderfyniadau yn agosach i'r cymunedau y mae'r Llywodraeth yn eu gwasanaethu, yn cynnwys symud Trysorlys EM i Darlington, Swyddfa'r Cabinet i Glasgow, y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu i East Kilbride a'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau i Wolverhampton.

Noda'r papur hwn y camau nesaf yn y rhaglen hon i sicrhau ffyniant bro ledled y DU. Rhaid i'r rhaglen hon fod yn eang, yn ddofn ac yn hirdymor. Rhaid iddi fod yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n dangos bod angen cymysgedd o ffactorau i drawsnewid lleoedd a rhoi hwb i dwf lleol: arloesedd cryf a hinsawdd sy'n denu'r sector preifat i fuddsoddi ynddi, gwell sgiliau, gwell systemau trafnidiaeth, mwy o fynediad i ddiwylliant, mwy o falchder mewn lle, mwy o ymddiriedaeth, mwy o ddiogelwch a sefydliadau mwy cadarn.

Mae hanes yn dangos yr hyn sy'n bosibl o ddilyn y trywydd hwn. Ffynnodd Cyfnod y Dadeni mewn dinas-daleithiau yn yr Eidal a wnaeth gyfuno arloesedd ym maes cyllid â datblygiadau technolegol, y gallu i ddysgu, gwaith artistig a oedd yn torri tir newydd, amgylchedd adeiledig prydferth ac arweinyddiaeth sifil gref. A digwyddodd y Chwyldro Diwydiannol cyntaf ym Mhrydain drwy ryngblethu offerynnau ariannol arloesol, gwobrau gwell am fentergarwch, athrofeydd newydd, gwell trafnidiaeth a chystadleuaeth iach rhwng arweinwyr lleol ac entrepreneuriaid. Mae angen dilyn yr un trywydd er mwyn llywio cynhyrchiant, arloesedd a thwf ledled y DU heddiw.

Mae'r model Medici cyfoes hwn, ein rysáit ar gyfer Chwyldro Diwydiannol newydd yn yr unfed ganrif ar hugain, yn dibynnu ar ddefnyddio llu o ymyriadau a sbarduno amrywiaeth o sectorau. Bydd ffyniant bro yn ei gwneud yn ofynnol inni wneud y canlynol:

> **“Rhaid i'r Rhaglen hon fod yn eang, yn ddofn ac yn hirdymor”**

a. rhoi hwb i gynhyrchiant, cyflogau, swyddi a safonau byw drwy helpu'r sector preifat i dyfu, yn enwedig mewn mannau lle mae ar ei hôl hi;
b. lledaenu cyfleoedd a gwella gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig mewn mannau lle mae hynny wannaf;
c. adfer ymdeimlad o gymuned, balchder lleol a pherthyn, yn enwedig mewn mannau lle collwyd hynny;
d. grymuso arweinwyr lleol a chymunedau, yn enwedig mewn mannau lle mae diffyg cyfrwng lleol.

Nid yw ffyniant bro yn golygu sicrhau bod pob rhan o'r DU yr un peth, na chreu gelyniaeth rhwng un rhan o'r wlad ac un arall. Nid yw ychwaith yn golygu lleihau llwyddiant ardaloedd mwy ffyniannus. Yn wir, drwy estyn cyfleoedd ledled y DU, gallwn leddfu'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus, tai a meysydd gwyrdd yn ne-ddwyrain Lloegr. A gall ffyniant bro wella llesiant yn ne-ddwyrain Lloegr drwy wella cynhyrchiant yng ngogledd Lloegr a Chanolbarth Lloegr.

Felly, mae'n ymwneud â llwyddiant y wlad gyfan: gwireddu potensial pob man a phob unigolyn ledled y DU, gan adeiladu ar ei gryfderau unigryw, cynnig cyfleoedd i unigolion a busnesau, a dathlu diwylliant pob dinas, tref a phentref unigol. Bydd hyn yn gwneud yr economi yn gryfach, yn fwy cyfartal ac yn fwy cydnerth, a bydd yn helpu pobl i fyw bywydau gwell a hirach.

Gallai'r wobr economaidd sy'n deillio o ffyniant bro fod yn anferthol. Os eir ati i sicrhau ffyniant bro mewn mannau sy'n tanberfformio er mwyn iddynt fod yn agosach at gyfartaledd y DU, gan eu helpu i wireddu eu potensial, gallai roi hwb i GDP cyfanredol y DU a hynny ddegau o biliynau o bunnoedd bob blwyddyn. Byddai sicrhau ffyniant bro ym meysydd sgiliau, iechyd, addysg a llesiant yn cyflawni buddiannau tebyg o ran eu maint. Dros amser, gallai'r enillion hyn fod yn fwy na GDP blynyddol y DU yn hawdd. Mae llwyddiant y gwaith o sicrhau ffyniant bro yn ymwneud â sicrhau bod mwy o gyfleoedd economaidd ar gael ymhob man ac i bawb, yn hytrach nag ad-drefnu'r cyfleoedd hynny sydd ar gael.

# Anghyfartaleddau Daearyddol y Deyrnas Unedig: Sbardunau a Dulliau Polisi Posibl

## *Sut beth yw daearyddiaeth economaidd a chymdeithasol y Deyrnas Unedig?*

Mae gan y DU wahaniaethau daearyddol mwy o faint na llawer o wledydd datblygedig eraill a hynny mewn perthynas â sawl mesur, yn cynnwys cynhyrchiant, cyflogau, cyrhaeddiad addysgol ac iechyd. Mae ardaloedd trefol a threfi arfordirol yn dioddef troseddau i raddau anghymesur, ac mae mannau â lefelau arbennig o uchel o amddifadedd, fel hen gymunedau glo, ystadau trefol sydd ar y cyrion a threfi glan môr yn wynebu'r lefelau uchaf o anghenion cymunedol, a lefelau isel o gyfleoedd i'r bobl sy'n tyfu i fyny yno.

Mae'r anghyfartaleddau hyn yn aml yn fwy o fewn trefi, siroedd neu ranbarthau na rhyngddynt. Maent yn hyper-leol a gall fod pocedi tlawd a chefnog yn yr un ardal. Yn wir, mae llawer o'r ardaloedd o amddifadedd gwaethaf yn ninasoedd mwyaf llwyddiannus y DU. Er bod newid yn bosibl, mewn rhai achosion, mae'r gwahaniaethau hyn wedi bodoli am y rhan fwyaf o'r ganrif ddiwethaf. Ac mae rhai o ddinasoedd mwyaf llwyddiannus y DU – megis Birmingham, Manceinion, Leeds, Glasgow a Chaerdydd – ar ei hôl hi o gymharu â dinasoedd tebyg eraill ledled y byd o ran cynhyrchiant ac incymau.

## *Beth sy'n sbarduno anghyfartaleddau daearyddol ar hyn o bryd, a beth a wnaiff hynny yn y dyfodol?*

Dros y ganrif ddiwethaf, mae llawer o dueddiadau wedi dod ynghyd i greu'r patrymau gofodol a welir ledled y DU heddiw. Mae globaleiddio, cynnydd technolegol, datblygiadau mewn trafnidiaeth, logisteg a phŵer, a symud o ddiwydiant trwm i sectorau gwybodaeth-ddwys, yn ogystal â'r cynnydd mewn gwyliau tramor a'r newid o hyfforddiant technegol i addysg prifysgol, wedi cael effaith fawr a phellgyrhaeddol ar ddaearyddiaeth economaidd y DU.

Mae'r fath ddynameg o ran yr economi fyd-eang wedi bod o fudd i'r DU yn gyffredinol, gan wella cynhyrchiant, cynyddu lefelau cyfoeth a gwella safonau byw drwy fwy o arloesedd a chystadleuaeth. Fodd bynnag, nid yw'r fath ddynameg wedi cael yr un effeithiau economaidd a chymdeithasol cadarnhaol ledled y DU. Tra bod Llundain a chryn dipyn o dde-ddwyrain Lloegr wedi cael budd yn economaidd, mae hen ganolfannau diwydiannol a llawer o gymunedau arfordirol wedi dioddef. Mae hyn wedi gadael ei ôl ar lawer o'r mannau hyn, gan niweidio sgiliau, swyddi, arloesedd, balchder mewn lle, iechyd a llesiant.

## *Pa ffactorau a wnaiff helpu i sicrhau ffyniant bro?*

Er mwyn sicrhau ffyniant bro, mae angen cynllun gweithredu hirdymor â phwyslais penodol, ynghyd â fframwaith clir i nodi sbardunau anghyfartaledd gofodol a gweithredu arnynt. Dengys tystiolaeth o amrywiaeth o ddisgyblaethau y gellir crynhoi'r sbardunau hyn ar ffurf chwe math o "gyfalaf".

- **Cyfalaf ffisegol** – seilwaith, peiriannau a thai.
- **Cyfalaf dynol** – sgiliau, iechyd a phrofiad y gweithlu.
- **Cyfalaf anniriaethol** – arloesedd, syniadau a phatentau.
- **Cyfalaf ariannol** – adnoddau sy'n cefnogi'r gwaith o gyllido cwmnïau.
- **Cyfalaf cymdeithasol** – cryfder cymunedau, cydberthnasau ac ymddiriedaeth.

- **Cyfalaf sefydliadol** – arweinyddiaeth leol, a gallu ac adnoddau.

Mae'r chwe math o gyfalaf yn y fframwaith hwn yn bwysig yn unigol. Fodd bynnag, maent yn wirioneddol bwysig gyda'i gilydd, pan fyddant yn ategu ei gilydd fel y gwelwyd yn yr Eidal yn ystod Cyfnod y Dadeni neu yn y DU yn ystod y Chwyldro Diwydiannol. Cydgrynhoi yw'r enw ar y broses hon.

Mae'r mannau hynny lle mae'r chwe math o gyfalaf i'w gweld yn sylweddol yn cael budd o gylch rhinweddol o gydgrynhoi. Maent yn gartref i bobl fedrus â swyddi o ansawdd uchel, lle ceir ysgolion o'r radd flaenaf a phrifysgolion sy'n cystadlu ar lwyfan byd-eang. Mae ganddynt ffyrdd da, trenau a gwasanaeth rhyngrwyd cyflym. Mae'r trigolion yn byw mewn tai o ansawdd uchel. Mae cyllid ar gael er mwyn i fusnesau lleol fuddsoddi ac arloesi, ac mae cymunedau wedi'u rhwymo gan gydberthnasau da ac ymdeimlad cryf o berthyn. Gall arweinwyr lleol adeiladu ar y sylfeini hyn er mwyn gwneud gwelliannau i'w cymuned leol.

I'r gwrthwyneb, lle mae'r fath gyfalaf yn wan neu wedi dirywio, ni all mannau ddenu na chadw talent, mae busnesau yn llai tebygol o fuddsoddi ac arloesi, nid yw'n debygol y bydd gan sefydliadau dinesig allu nac adnoddau, ac mae diffyg balchder mewn cymunedau lleol. Mewn rhai mannau mae'r cylch cythraul hwn wedi cael effaith niweidiol ar sgiliau, busnesau, cyllid a diwylliant, ac mae cymunedau a chanol trefi wedi bod yn dirywio ers degawdau. Gyda'i gilydd mae'r ffactorau hyn – yn gadarnhaol mewn rhai mannau, ond yn negyddol mewn mannau eraill – wedi ehangu anghyfartaleddau daearyddol yn y DU dros amser. Heb gymryd camau polisi, byddant yn parhau i wneud hynny.

Diben ffyniant bro yw anelu at sicrhau bod y chwe chyfalaf i'w gweld ym mhob man ledled y DU, fel nad oes angen i bobl adael eu milltir sgwâr i fyw bywyd bodlon. Mae'n golygu cymryd camau i adfywio cyfalaf pan fydd yn wan neu wedi dirywio, gan droi cylchoedd cythraul yn gylchoedd rhinweddol. Drwy ledaenu cyfleoedd yn fwy cyfartal ledled y DU, byddai pobl mewn mannau a oedd yn arfer dioddef yn gallu cyflawni eu potensial, gan fyw bywydau hirach, iachach a mwy bodlon. Wrth i bob rhan o'r DU gyflawni ei photensial, byddai'r economi gyfan yn fwy o faint ac yn fwy cyfartal.

## Newid Systemau: Cyfundrefn Bolisi Newydd i Sicrhau Ffyniant Bro

Bu sawl ymgais i fynd i'r afael ag anghyfartaleddau daearyddol yn y DU dros y ganrif ddiwethaf. Fodd bynnag, nid oeddent yn ddigonol i gau'r bylchau sydd wedi bod yn ehangu. Y rheswm dros hynny yw mai camau byrdymor a gymerwyd, nad oedd iddynt raddfa ac na chawsant eu cydgysylltu, ac a waethygwyd gan ddiffyg data a goruchwyliaeth effeithiol. Hefyd ni fu gan arweinwyr lleol y pwerau na'r atebolrwyddau i gynllunio na chyflawni polisïau effeithiol i fynd i'r afael â phroblemau lleol a chefnogi pobl leol. Ers 2010 dilynwyd trywydd mwy o rymuso ar lefel leol – a hynny drwy gyflwyno'r Ddeddf Lleoliaeth, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, Bargeinion Dinesig a meiri metro wedi'u hethol yn ddemocrataidd. Ond erbyn hyn mae angen pwyslais o'r newydd sydd wedi'i gydgysylltu i symud hyn ymlaen.

Gan ddysgu gwersi o'r gorffennol, mae angen cyfundrefn bolisi newydd er mwyn gwyrdroi'r tueddiadau hanesyddol hyn sydd wedi ymwreiddio'n ddwfn. Yn y bôn, mae hynny'n ymwneud â chreu'r *wybodaeth*, *cymhellion* a *sefydliadau* cywir i gyflawni newidiadau sylweddol o ran y ffordd y caiff penderfyniadau eu gwneud, ble y cânt eu gwneud a chan bwy. Nid yw newid systemau yn golygu cyfres o fentrau polisi newydd sgleiniog, ond byrdymor yn y pen draw. Mae'n golygu diwygio'r llywodraeth a'r system lywodraethu yn y DU drwyddi draw. Mae'n golygu rhoi pŵer mewn dwylo lleol, ynghyd â'r wybodaeth gywir, a sicrhau bod hyn wedi'i wreiddio mewn sefydliadau dinesig cryf.

Mae'r gyfundrefn bolisi newydd hon yn seiliedig ar bum elfen gydatgyfnerthol.

**Yn gyntaf, mae Llywodraeth y DU yn pennu cenadaethau clir ac uchelgeisiol** i sicrhau cysondeb ac eglurder mewn perthynas ag amcanion polisi ffyniant bro. Bydd y rhain yn sail i waith polisi ar draws y llywodraeth, yn ogystal â chataleiddio arloesedd a chamau gweithredu gan y sector preifat a'r sector cymdeithas sifil. Mae'r cenadaethau hyn yn uchelgeisiau sydd gan Lywodraeth y DU i bob rhan o'r DU. Bydd y gwaith o'u cyflawni, wrth barchu'r setliadau datganoli yn llawn, yn gofyn am gydweithio'n agos â'r gweinyddiaethau datganoledig. Mae'r cenadaethau yn ymdrechion treigl dros ddegawd a chânt eu hadolygu gan Lywodraeth y DU o bryd i'w gilydd.

> **Mae Llywodraeth y DU yn pennu cenadaethau clir ac uchelgeisiol**

| Cenadaethau Ffyniant Bro | |
|---|---|
| **Maes Ffocws** | **Cenhadaeth** |
| *Rhoi hwb i gynhyrchiant, cyflogau, swyddi a safonau byw drwy helpu'r sector preifat i dyfu, yn enwedig yn y mannau hynny lle maent ar ei hôl hi* | |
| Safonau Byw | Erbyn 2030, bydd cyflogau, cyflogaeth a chynhyrchiant yn uwch ym mhob rhan o'r DU, a bydd gan bob ardal ddinas a all gystadlu ar lefel fyd-eang, a bydd y bwlch rhwng y rhannau sy'n perfformio orau ac ardaloedd eraill yn lleihau. |
| Ymchwil a Datblygu | Erbyn 2030, bydd lefel y buddsoddiad cyhoeddus domestig mewn ymchwil a datblygu y tu hwnt i ardal y De-ddwyrain Fwyaf yn Lloegr yn cynyddu 40% o leiaf, a thros gyfnod yr Adolygiad o Wariant bydd yn cynyddu traean o leiaf. Bydd y cyllid ychwanegol hwn gan y llywodraeth yn ceisio sicrhau bod o leiaf ddwywaith cymaint o fuddsoddi yn y sector preifat dros yr hirdymor er mwyn ysgogi arloesedd a sicrhau twf o ran cynhyrchiant. |
| Seilwaith Trafnidiaeth | Erbyn 2030, bydd cysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus leol ledled y wlad yn llawer agosach at safonau Llundain, drwy well gwasanaethau, prisiau tocynnau symlach a system docynnau integredig. |
| Cysylltedd Digidol | Erbyn 2030, bydd gan y DU fand eang a all drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit a signal 4G, a bydd gan y mwyafrif o'r boblogaeth signal 5G. |

| **Cenadaethau Ffyniant Bro** | |
|---|---|
| **Maes Ffocws** | **Cenhadaeth** |
| *Lledaenu cyfleoedd a gwella gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig mewn mannau lle mae hynny wannaf* | |
| Addysg | Erbyn 2030, bydd nifer y plant cynradd sy'n cyrraedd y safon ddisgwyliedig o ran darllen, ysgrifennu a mathemateg wedi cynyddu'n sylweddol. Yn Lloegr, bydd hyn yn golygu y bydd 90% o blant yn cyrraedd y safon ddisgwyliedig, a bydd canran y plant sy'n cyrraedd y safon ddisgwyliedig yn yr ardaloedd sy'n perfformio waethaf wedi cynyddu dros draean. |
| Sgiliau | Erbyn 2030, bydd nifer y bobl sy'n cwblhau hyfforddiant sgiliau o ansawdd uchel yn llwyddiannus wedi cynyddu'n sylweddol ym mhob rhan o'r DU. Yn Lloegr, bydd hyn yn arwain at 200,000 yn fwy o bobl yn cwblhau hyfforddiant sgiliau o ansawdd uchel yn llwyddiannus bob blwyddyn, a gaiff ei lywio gan 80,000 yn fwy o bobl yn cwblhau cyrsiau yn yr ardaloedd hynny sydd â'r nifer lleiaf o bobl fedrus. |
| Iechyd | Erbyn 2030, bydd y bwlch o ran Disgwyliad Oes Iach rhwng ardaloedd lleol lle mae ar ei uchaf ac ar ei isaf wedi lleihau, ac erbyn 2035 bydd wedi cynyddu bum mlynedd. |
| Llesiant | Erbyn 2030, bydd llesiant wedi gwella ym mhob rhan o'r DU, a bydd y bwlch rhwng y rhannau sy'n perfformio orau ac ardaloedd eraill yn lleihau. |
| *Adfer ymdeimlad o gymuned, balchder lleol a pherthyn, yn enwedig mewn mannau lle collwyd hynny* | |
| Balchder mewn Lle | Erbyn 2030, bydd balchder mewn lle, megis boddhad pobl â'u tref leol a'r ffordd y maent yn cymryd rhan mewn digwyddiadau diwylliannol a chymunedol lleol, wedi cynyddu ym mhob rhan o'r DU, a bydd y bwlch rhwng yr ardaloedd sy'n perfformio orau ac ardaloedd eraill yn lleihau. |
| Tai | Erbyn 2030, gall rhentwyr ddilyn llwybr cadarn i brynu eu cartref eu hunain, a bydd nifer y prynwyr tro cyntaf yn cynyddu ym mhob ardal; ac uchelgais y llywodraeth yw sicrhau bod nifer y cartrefi a gaiff eu rhentu nad ydynt yn cyrraedd y safon wedi lleihau 50%, gyda'r gwelliannau mwyaf yn yr ardaloedd sy'n perfformio waethaf.[1] |
| Trosedd | Erbyn 2030, bydd nifer yr achosion o laddiadau, trais difrifol a throseddau mewn cymdogaethau wedi lleihau, a chanolbwyntir ar yr ardaloedd yr effeithir arnynt fwyaf. |
| *Grymuso arweinwyr lleol a chymunedau, yn enwedig mewn mannau lle mae diffyg cyfrwng lleol* | |
| Arweinyddiaeth Leol | Erbyn 2030, bydd pob rhan o Loegr sydd am gael bargen ddatganoli yn ei chael, a bydd y pwerau a roddir ar y lefel uchaf o ddatganoli neu'n agos at hynny; hefyd ceir setliad cyllido hirdymor syml. |

1 Bydd y Llywodraeth yn ymgynghori ar yr effaith ar y farchnad rhentu preifat ac yn enwedig y rhai ar yr incymau isaf. Darperir rhagor o fanylion pan fydd yr adolygiad o'r Safon Tai Gweddus wedi cael ei gwblhau.

**Yn ail, bydd y broses o wneud penderfyniadau ar lefel llywodraeth ganolog yn cael ei hailbennu'n llwyr** fel bod polisïau yn gydnaws â'r agenda ffyniant bro a bod ystyriaethau gofodol yn fater o drefn ar draws Whitehall. Bydd hyn yn gofyn am fwy o dryloywder ynghylch dyraniad daearyddol cyllid a symleiddio cyllido twf lleol. Bydd yn golygu sicrhau bod ffyniant bro yn rhan annatod o benderfyniadau llywodraeth ganolog a bydd adrannau yn atebol am hynny. A bydd yn golygu bod adnoddau ychwanegol yn cael eu dosbarthu i ardaloedd lleol, yn cynnwys symud 22,000 o weision sifil y tu allan i Lundain erbyn 2030.

**Yn drydydd, bydd Llywodraeth y DU yn grymuso'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau mewn ardaloedd lleol** drwy sicrhau bod gan arweinwyr a busnesau yr adnoddau sydd eu hangen arnynt. Bydd fframwaith newydd yn ymestyn, dyfnhau a symleiddio datganoli lleol yn Lloegr. Rhoddir cymorth parhaus i ardaloedd â bargeinion Dinesig a Thwf yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, partneriaethau rhanbarthol megis Pwerdy'r Gogledd a Pheiriant Canolbarth Lloegr, a mentrau lleol yn y sector preifat. Bydd Llywodraeth y DU yn cefnogi clystyrau o weithgarwch economaidd sydd eisoes yn bodoli ac sy'n blaguro yn y sector preifat, a hynny ledled y DU, a fydd yn llwyfan i greu swyddi a thorri tir newydd.

**Yn bedwerydd, bydd Llywodraeth y DU yn trawsnewid ei dull o ymdrin â data a chynnal gwerthusiadau** er mwyn gwella'r broses o wneud penderfyniadau lleol. Yn y gorffennol, bu'n anodd gweld beth sy'n cael ei wario, ble a sut, a'i effaith. Nod Strategaeth Data Is-genedlaethol y Swyddfa Ystadegau Gwladol yw gwella data is-genedlaethol y DU, gan fapio daearyddiaethau economaidd lleol a helpu i wella tryloywder ac atebolrwydd i'r cyhoedd. Mae Llywodraeth y DU yn darparu adnoddau a mapiau rhyngweithiol i hwyluso'r broses hon. Bydd hefyd yn annog defnydd arloesol o ddata amser real ar lefel leol, gan sicrhau bod gan arweinwyr ledled y DU y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gyflawni, arbrofi a gwerthuso yn gyflym ac yn effeithiol.

**Yn bumed, bydd Llywodraeth y DU yn creu cyfundrefn newydd i oruchwylio ei chenadaethau ffyniant bro**, gan bennu dyletswydd statudol i gyhoeddi adroddiad blynyddol yn dadansoddi cynnydd a Chyngor Cynghorol allanol newydd ar Ffyniant Bro. Bydd y Cyngor yn cefnogi Gweinidogion drwy gynghori ar gynllun polisi ffyniant bro, y gwaith o'i gyflawni a'i effaith. Bydd yr adroddiad blynyddol yn hysbysu'r cyhoedd am hynt y cenadaethau fel bod ffyniant bro yn destun proses graffu allanol fanwl gywir, yn cynnwys gan y Senedd.

> **Bydd y broses o wneud penderfyniadau ar lefel llywodraeth ganolog yn cael ei hailbennu'n llwyr fel bod polisïau yn gydnaws ag agenda ffyniant bro**

Dros amser, bydd y pum elfen hyn gyda'i gilydd yn gwella'r wybodaeth a'r cymhellion sydd gan y sawl sy'n gwneud penderfyniadau yn lleol ac yn genedlaethol, a bydd yn cryfhau'r sefydliadau sy'n hybu prosesau trawsnewid lleol. A'r newidiadau hynny i system lywodraethu a llywodraeth y DU fydd yn sicrhau llwyddiant wrth gyflawni cenadaethau tymor canolig ffyniant bro.

### *Sut yr eir ati i sicrhau ffyniant bro ledled yr Undeb?*

Dim ond fel prosiect cenedlaethol a rennir y gall ffyniant bro lwyddo. Mae'r chwe chyfalaf – ffisegol, dynol, anniriaethol, ariannol, cymdeithasol a sefydliadol – yn rhychwantu meysydd cyfrifoldeb a haenau o lywodraeth ledled y DU. Mae pob cyfalaf yn dibynnu ar ei gilydd a dim ond os bydd pob un ohonynt yn ffynnu mewn man penodol y bydd yn llwyddo. Er enghraifft, gall Llywodraeth y DU ddefnyddio ei grym economaidd cyfunol i ddenu buddsoddiadau a chreu swyddi, ond mae deilliannau addysgol, a gyflawnir gan weinyddiaethau datganoledig, yn hanfodol i ddatblygu gweithlu a all achub ar y cyfleoedd hyn.

Mae'r setliadau datganoli yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cydnabod mai llywodraethau datganoledig sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu gwasanaethau penodol, megis iechyd ac addysg. Ond mae'r hyn a gyflawnir er budd y DU gyfan. Mae ein sylfaen drethu eang a weithredir ledled y DU eisoes yn ariannu gwasanaethau cyhoeddus ledled y DU, gan sicrhau er enghraifft y gall y GIG ddiwallu anghenion pobl yng Nghymru, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod angen i bob haen o lywodraeth ddod ynghyd â nod cyffredin. Mae Llywodraeth y DU yn ymrwymedig i hwyluso cydweithredu ac ymgysylltu â'r llywodraethau datganoledig a rhanddeiliaid yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

## Y Rhaglen Bolisi: Mentrau Polisi i Sicrhau Ffyniant Bro yn y Deyrnas Unedig

Er mwyn cyflawni'r cenadaethau tymor canolig uchelgeisiol bydd angen model newydd o dwf economaidd, buddsoddiad cyhoeddus a phreifat, amgylchedd sy'n ystyriol o fusnes, cymhellion i flaenfuddsoddi a marchnad lafur sgiliau uchel, cyflogau uchel.

Anelwn at gyflawni ein cenadaethau erbyn 2030. Ond rydym hefyd yn cydnabod bod angen i rai cymunedau a phobl gael mwy o gymorth yn y tymor mwy byrdymor. Bydd y polisïau a nodir yma yn dechrau cael effeithiau amlwg, ar y stryd fawr ac mewn cymunedau lleol, dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

> **“Mae llywodraeth y DU am sicrhau bod cyflogau, cyflogaeth a chynhyrchiant wedi cynyddu ym mhob rhan o'r DU”**

### *Rhoi hwb i gynhyrchiant, cyflogau, swyddi a safonau byw drwy helpu'r sector preifat i dyfu*

Mae economi gynhyrchiol sy'n gweithio'n dda ym mhob rhan o'r DU yn hanfodol i sicrhau ffyniant bro. Erbyn 2030, mae Llywodraeth y DU am sicrhau bod cyflogau, cyflogaeth a chynhyrchiant wedi cynyddu ym mhob rhan o'r DU, gyda'r bwlch rhwng y rhai sy'n perfformio orau ac ardaloedd eraill yn lleihau (Cenhadaeth Un).

Mae hynny'n golygu cefnogi'r sector preifat – sy'n bennaf gyfrifol am greu cyfoeth – i fuddsoddi mwy, tyfu mwy a chymryd mwy o risgiau. Yn ogystal â datblygu model rheoleiddio gwell a mwy hyblyg ar gyfer busnes y tu allan i'r UE, byddwn hefyd yn diwygio rheolau'r UE sydd wedi hen ddyddio sy'n cyfyngu ar fuddsoddi o gronfeydd pensiwn a chronfeydd eraill fel bod modd gweld mwy o arian yn llifo i mewn i asedau cyfalaf hirdymor.

Hefyd, y tu allan i'r UE, mae'r DU yn sicrhau bod mantais gystadleuol mewn gwyddoniaeth a thechnoleg wrth wraidd model economaidd newydd. Bydd cyfres o fuddsoddiadau Ymchwil a Datblygu newydd yn cryfhau ein sail wyddoniaeth ledled y wlad. Rhaid i'r cynnydd mewn buddsoddiad cyhoeddus mewn ymchwil a datblygu i £20bn erbyn 2024-25 a'r targed i gyfanswm buddsoddiad y DU mewn ymchwil a datblygu gyrraedd 2.4% o gynnyrch domestig gros erbyn 2027 arwain at fwy o fuddsoddi ym mhob rhan o'r DU. Bydd yr **Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn anelu at fuddsoddi o leiaf 55% o'i holl gyllid ymchwil a datblygu domestig y tu allan i ardal y De-ddwyrain Fwyaf erbyn 2024-25**; bydd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynyddu'r buddsoddiad yn y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd y tu allan i Lundain, Rhydychen a Chaergrawnt; a bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn ehangu ôl troed rhanbarthol y Labordy Gwyddoniaeth a Thechnoleg Amddiffyn. Bydd y rhain yn cyfrannu at ein huchelgais i gynyddu cyfanswm y buddsoddiad cyhoeddus domestig mewn ymchwil a datblygu y tu allan i ardal y De-ddwyrain

Fwyaf o leiaf draean dros gyfnod yr Adolygiad o Wariant ac o leiaf 40% erbyn 2030, gyda'r cyllid ychwanegol hwnnw gan y llywodraeth yn ceisio sicrhau o leiaf ddwywaith cymaint o fuddsoddiad sector preifat yn yr hirdymor i ysgogi arloesedd a thwf mewn cynhyrchiant (Cenhadaeth Dau).

Hefyd, bydd Llywodraeth y DU yn targedu **£100m o fuddsoddiad mewn tri Sbardunwr Arloesedd newydd**, partneriaethau preifat-cyhoeddus-academaidd a fydd yn anelu at efelychu modelau Stanford-Silicon Valley ac MIT-Boston Fwyaf o glystyru rhagoriaeth ymchwil a'i fabwysiadu'n uniongyrchol gan ddiwydiannau cynghreiriol. Bydd y cynlluniau peilot hyn yn canolbwyntio ar Fanceinion Fwyaf, gorllewin Canolbarth Lloegr a Dinas-Ranbarth Glasgow. Y clystyrau hyn fydd ein Pedwaredd Ffowndri Chwyldro Diwydiannol, gan sicrhau ein bod yn arwain ymchwil wyddonol yn fyd-eang.

Rhaid inni gefnogi busnesau twf uchel a gwyrdroi'r dirywiad hanesyddol mewn gweithgynhyrchu yn y DU â mwy o'r math o arloesi sy'n nodweddu economïau megis De Korea ac Israel. Mae'r gigaffatri Britishvolt newydd yn Blyth, buddsoddiad GE mewn canolfan gweithgynhyrchu llafnau tyrbinau gwynt newydd yn Teesworks yn Redcar, ymrwymiad newydd Nissan ac Envision i weithgynhyrchu cerbydau trydan yn Sunderland, a'r bysiau hydrogen newydd sy'n cael eu hadeiladu yn Ballymena, sydd eisoes ar strydoedd Aberdeen, i gyd yn enghreifftiau o arloesi ym maes gweithgynhyrchu gwyrdd gan ddod â swyddi sgiliau uchel a chyflogau uchel i ardaloedd sydd wedi wynebu anawsterau economaidd yn y gorffennol.

> **Y clystyrau hyn fydd ein Pedwaredd Ffowndri Chwyldro Diwydiannol**

Felly rhaid inni hefyd ledaenu cyfalaf a buddsoddiad ariannol i'r mannau, prosiectau a phobl sydd eu hangen fwyaf. Bydd y £3bn y mae Llywodraeth y DU yn ei fuddsoddi yn y genhedlaeth nesaf o **Gronfeydd Buddsoddi Rhanbarthol Banc Busnes Prydain** a'r **Gronfa Fuddsoddi Prydain Fyd-eang** newydd yn ei gwneud yn haws i fusnesau bach a chanolig gael gafael ar gyllid, a bydd yn cynyddu buddsoddiadau symudol yn fyd-eang ledled y DU. Mae hyn yn adeiladu ar gynnydd a wnaed i gefnogi bancio lleol, drwy ragor o fanciau her a banciau cydweithredol.

Mae ffyniant bro yn gofyn am ddefnyddio ffynonellau cyfalaf nad ydynt wedi'u defnyddio'n ddigonol o'r blaen. Dyna pam rydym yn defnyddio'r system dreth i gymell buddsoddiad y sector preifat, drwy Borthladdoedd Rhydd, Ardaloedd Menter a'r Uwch-ddidyniad. Hefyd dyma pam mae'r Prif Weinidog a'r Canghellor wedi galw ar i fuddsoddwyr sefydliadol y DU achub ar y cyfle am “Glec Fawr Buddsoddi” i roi hwb i dwf hirdymor Prydain. Bydd Llywodraeth y DU yn mynd ymhellach ac yn gweithio gyda **Chronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol i gyhoeddi cynlluniau i gynyddu lefelau buddsoddi lleol, yn cynnwys pennu uchelgais i fuddsoddi hyd at 5% o asedau mewn prosiectau sy'n cefnogi ardaloedd lleol**.

Y tu hwnt i'r UE, byddwn yn defnyddio pŵer caffael cyhoeddus i gefnogi cymunedau, gan symud i ffwrdd o ddull seiliedig ar reolau cymhleth yr UE a gynlluniwyd yn bennaf i hwyluso Marchnad Sengl yr UE, ac yn lle hynny fabwysiadu dull syml newydd sy'n blaenoriaethu twf a chynhyrchiant yn y DU. Rydym eisoes wedi cyflwyno polisi sy'n caniatáu cadw contractau llai yn ôl i gyflenwyr yn y DU a byddwn yn deddfu i roi gwerth cymdeithasol wrth wraidd gwariant y llywodraeth – gan greu llinyn o welliannau cymdeithasol a chyfrifoldeb dinesig drwy wariant blynyddol Llywodraeth y DU ar gaffael, sef £300bn.

Rhaid sicrhau bod dinasoedd, trefi a chymunedau wedi'u cysylltu'n ffisegol ac yn ddigidol er mwyn iddynt ffynnu. Rydym am i rwydweithiau trafnidiaeth yn ein holl ganolfannau trefol mawr fod yn llawer agosach at safon Llundain.

Byddwn yn gweithredu'r Cynllun Rheilffyrdd Integredig £96bn, gan wella'r rhwydwaith rheilffyrdd yng ngogledd Lloegr a Chanolbarth Lloegr, ac yn buddsoddi £24bn yn ein ffyrdd a'n traffyrdd prysuraf, £5.7bn mewn Setliadau Trafnidiaeth Gynaliadwy Dinas-Ranbarth a £5bn ar gyfer bysiau a rhwydweithiau seiclo a cherdded. Gyda'i gilydd, bydd hyn yn golygu bod cysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus ledled y wlad yn agosach at safonau Llundain (Cenhadaeth Tri).

Byddwn yn gwella cysylltedd digidol drwy Brosiect Gigabeit a'r Rhwydwaith Gwledig Cyffredin, felly, erbyn 2030, bydd Llywodraeth y DU a'r sector preifat yn darparu band eang a all drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit a signal 4G, a bydd gan y mwyafrif o'r boblogaeth signal 5G (Cenhadaeth Pedwar).

Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r anghyfartaleddau o ran cyflogau isel a welir mewn ardaloedd ledled y wlad, bydd Llywodraeth y DU yn parhau i gynyddu'r Cyflog Byw Cenedlaethol. Yn y cyfamser, mae cyflwyno system fewnfudo sy'n seiliedig ar bwyntiau yn rhoi mwy o reolaeth i'r DU dros bwy sy'n dod i'r wlad hon yn seiliedig ar eu sgiliau, gan sicrhau bod hyn yn unol ag anghenion yr economi.

Mae cefnogaeth y sector preifat yn hanfodol er mwyn cyflawni'r cenadaethau hyn. Mae Llywodraeth y DU yn ymrwymedig i alluogi a grymuso'r sector preifat i gynyddu buddsoddiadau, swyddi a thwf ar lefel leol.

### *Lledaenu cyfleoedd a gwella gwasanaethau cyhoeddus*

Mae gwella cynhyrchiant, a lledaenu ffyniant, yn hanfodol yn dibynnu ar wella addysg a sgiliau pobl – gan sicrhau y gall pawb fynychu ysgolion da a chael y cyfle i gael addysg a hyfforddiant o'r radd flaenaf. Mae iechyd da yr un mor bwysig o ran lledaenu cyfleoedd, gan gyfrannu nid yn unig at yr economi ond hefyd sicrhau y gall pawb, ble bynnag y maent yn byw, fwynhau bywydau bodlon a chynhyrchiol. Yn ogystal â chefnogi canlyniadau iechyd a deilliannau addysgol cadarnhaol, mae gwasanaethau cyhoeddus cryf hefyd yn denu talent a buddsoddiadau newydd i ardal, gan roi hwb i economïau lleol.

Bydd Llywodraeth y DU yn llywio gwelliannau pellach i ysgolion yn Lloegr drwy 55 o **Ardaloedd Buddsoddi mewn Addysg** newydd mewn mannau lle mae cyrhaeddiad addysgol ar ei wannaf ar hyn o bryd. Bydd yr Adran Addysg yn cynorthwyo ymddiriedolaethau aml-academi cryf i ehangu i'r ardaloedd hyn ac yn cynnig taliadau cadw er mwyn helpu ysgolion sy'n wynebu heriau cyflenwi yn yr ardaloedd hyn i gadw'r athrawon gorau mewn pynciau blaenoriaeth uchel. Bydd buddsoddiadau dwysach ar gael ar draws rhai Ardaloedd Buddsoddi mewn Addysg i fynd i'r afael â materion ehangach a all fod yn cyfyngu ar welliannau i ysgolion. Bydd Llywodraeth y DU yn sicrhau y gall plant talentog o gefndiroedd difreintiedig fynychu safle darparwr ôl-16 sydd â hanes o gamu ymlaen i brifysgolion mawr drwy agor ysgolion newydd am ddim i bobl ifanc 16-19 oed a dargedir mewn ardaloedd lle mae eu hangen fwyaf, megis Ardaloedd Buddsoddi mewn Addysg blaenoriaeth uchel.

Hefyd, byddwn yn creu **Academi Genedlaethol y DU**. Fel y gwnaeth y DU dorri tir newydd gyda'r Brifysgol Agored, bydd y gwasanaeth addysg ddigidol newydd hwn yn cynorthwyo disgyblion o bob cefndir ac ardal yn y DU i lwyddo ar y lefelau uchaf. Bydd Academi Genedlaethol y DU am ddim ac ar gael ar-lein i gefnogi gwaith ysgolion ar hyd a lled y wlad. Bydd yn galluogi myfyrwyr i feithrin gwybodaeth a sgiliau datblygedig ychwanegol, gan gynnig hyd yn oed fwy o gyfleoedd i bob plentyn ffynnu.

Gyda help y diwygiadau hyn, byddwn yn canolbwyntio ar ddileu anllythrennedd ac anrhifogrwydd. Erbyn 2030, ein nod yw y bydd 90% o blant oed cynradd yn Lloegr yn cyrraedd y safon ddisgwyliedig ar gyfer darllen, ysgrifennu a mathemateg, a bydd canran y plant sy'n cyrraedd y safon ddisgwyliedig yn yr ardaloedd sy'n perfformio waethaf wedi gwella traean (Cenhadaeth Pump).

Byddwn hefyd yn cynyddu ymdrechion i sicrhau bod gan bob myfyriwr y sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr. Bydd ein diwygiadau yn anelu at sicrhau bod cyflogwyr lleol wrth wraidd y broses o ddarparu sgiliau; cryfhau sefydliadau sy'n hygyrch yn lleol, yn arbennig y rhwydwaith cenedlaethol o golegau addysg bellach; sicrhau y gall pob unigolyn gael gafael ar hyfforddiant drwy gydol ei oes; a chynnig cyfleoedd newydd i gael gafael ar swyddi o ansawdd uchel a chamu ymlaen yn y gweithle.

Caiff y gwaith o ariannu cyrsiau a llywodraethu colegau ei drawsnewid yn unol ag anghenion cyflogwyr. Caiff **Cynlluniau Gwella Sgiliau Lleol**, ynghyd â chyllid cefnogol, eu sefydlu ledled Lloegr i nodi'r newidiadau allweddol sydd eu hangen mewn man er mwyn sicrhau bod hyfforddiant sgiliau technegol yn fwy ymatebol i anghenion sgiliau. Caiff naw Athrofa Dechnoleg newydd, sydd â chysylltiadau cryf â chyflogwyr, eu sefydlu yn Lloegr, gan helpu i roi hwb i sgiliau technegol uwch mewn pynciau STEM.

Byddwn yn cyflwyno'r cynnig **Camu Ymlaen yn eich Gwaith** er mwyn helpu pobl ar incymau isel i fynd i'r afael â rhwystrau i gyfleoedd cyflogaeth gwell. Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn darparu £1.3bn dros gyfnod Adolygiad o Wariant 2021 i ddarparu cymorth cyflogaeth i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd. Mae hyn yn adeiladu ar y Strategaeth Anabledd Genedlaethol, y Papur Gwyrdd ar Iechyd ac Anabledd, ac ymgynghoriad Mae Iechyd yn Fusnes i Bawb. Bydd y cynllun Lluosi yn targedu anghyfartaleddau mewn lefelau rhifedd ledled y DU, drwy fuddsoddi £560m mewn cyrsiau i oedolion.

Drwy ddiwygio sgiliau a buddsoddi mewn sgiliau, erbyn 2030, byddwn yn anelu at gynyddu'n sylweddol nifer y bobl sydd wedi cwblhau hyfforddiant sgiliau o ansawdd uchel yn llwyddiannus ledled y DU, yn cynnwys 200,000 yn rhagor o bobl yn cwblhau hyfforddiant sgiliau o ansawdd uchel yn llwyddiannus bob blwyddyn yn Lloegr, a lywir gan 80,000 yn rhagor o bobl yn cwblhau cyrsiau yn yr ardaloedd â'r lefel isaf o sgiliau (Cenhadaeth Chwech).

Un o'r anghydraddoldebau gwaethaf a wynebir gan ein cymunedau mwyaf difreintiedig yw iechyd gwael. Gwnaeth pandemig COVID-19 danlinellu'n ddi-os yr anghyfartaleddau iechyd sy'n bodoli yn y wlad hon. Yn fuan bydd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cyhoeddi **Papur Gwyn sydd wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â phrif sbardunau anghyfartaleddau mewn canlyniadau iechyd**. Fodd bynnag, byddwn yn gweithredu nawr i ymdrin ag un o'r prif ffactorau sy'n cyfrannu at lefelau salwch: deiet gwael a gordewdra. Byddwn yn gweithredu ar argymhellion o adolygiad annibynnol Henry Dimbleby tuag at Strategaeth Fwyd Genedlaethol, yn cynnwys treialu Bwyta'n Iach Cymunedol a chwyldro coginio mewn ysgolion. Byddwn yn cyflwyno Cynllun Rheoli Tybaco newydd ac yn sefydlu o leiaf 100 o Ganolfannau Diagnostig Cymunedol yn Lloegr erbyn 2025 i'w gwneud yn haws cael gafael ar wasanaethau diagnostig.

Bydd y newidiadau hyn, ymhlith rhai eraill, yn cyfrannu at gau'r bwlch mewn Disgwyliad Oes Iach rhwng ardaloedd lleol lle mae ar ei uchaf a'i isaf erbyn 2030, ac yn cynyddu Disgwyliad Oes Iach bum mlynedd erbyn 2035 (Cenhadaeth Saith).

“Bydd ein diwygiadau yn anelu at sicrhau bod cyflogwyr lleol wrth wraidd y broses o ddarparu sgiliau”

Gyda'i gilydd, bydd y cenadaethau hyn yn helpu i gyflawni'r uchelgais gyffredinol i wella llesiant ym mhob rhan o'r DU, a bydd y bwlch rhwng y rhannau sy'n perfformio orau ac ardaloedd eraill yn lleihau (Cenhadaeth Wyth).

A chan fod y cyfrifoldeb am ledaenu cyfleoedd a gwella gwasanaethau cyhoeddus yn un a rennir gan bob haen o lywodraeth, byddwn yn gweithio gydag arweinwyr lleol o bob cwr o'r DU a'r gweinyddiaethau datganoledig i ddwyn ynghyd dystiolaeth o'r "hyn sy'n gweithio" o bolisïau i leihau anghyfartaleddau gofodol, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae cyfrifoldebau polisi wedi'u datganoli ac mae grwpiau gwahanol wedi cyflawni polisïau mewn ffyrdd arloesol.

### *Adfer ymdeimlad o gymuned, balchder lleol a pherthyn*

Defnyddir Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU gwerth £2.6bn i adfer balchder lleol ledled y DU drwy ganolbwyntio buddsoddi ar dri phrif faes buddsoddi: gwella cymunedau a lleoedd, pobl a sgiliau, a chefnogi busnesau lleol. Byddwn yn dileu biwrocratiaeth hen gronfeydd rhanbarthol yr UE. Yn hytrach, caiff arweinwyr lleol eu grymuso i gyfeirio cyllid tuag at eu blaenoriaethau lleol eu hunain, boed hynny'n hyrwyddo marchnadoedd awyr agored newydd, lleihau sbwriel, graffiti ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, adfywio'r stryd fawr, cefnogi busnesau lleol neu feithrin sgiliau sy'n diwallu anghenion y farchnad lafur leol ac yn cefnogi'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur.

> **"Defnyddir Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU gwerth £2.6bn i adfer balchder lleol ledled y DU"**

Byddwn hefyd yn **adfywio 20 o'n trefi a'n dinasoedd** drwy gynnull ac unioni tir llwyd a gweithio gyda'r sector preifat i gyflwyno datblygiadau trawsnewidiol sy'n cyfuno tai, safleoedd manwerthu a busnesau mewn cymdogaethau newydd prydferth a chynaliadwy, y gellir eu cerdded. Bydd y datblygiadau newydd hyn, ymhlith rhai eraill, yn cael eu cefnogi gan Swyddfa Lle a fydd yn torri tir newydd o ran dyluniad a harddwch, gan hyrwyddo gwell estheteg bensaernïol er mwyn sicrhau eu bod yn gwella aneddiadau sy'n bodoli eisoes, ac yn wledd i'r llygad ac yn codi'r galon.

Byddwn yn ystyried pa fesurau eraill a all wneud y stryd fawr a chanol trefi yn galon sy'n curo ein cymunedau unwaith eto, yn cynnwys ffyrdd o gymell landlordiaid i lenwi unedau gwag. Er enghraifft, pwerau i awdurdodau lleol ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid rentu eiddo sydd wedi bod yn wag ers amser hir i ddarpar denantiaid, megis busnesau lleol neu grwpiau cymunedol.

Bydd sicrhau bod harddwch naturiol yn hygyrch i bawb yn rhan ganolog o'n system gynllunio, gyda Lleiniau Glas gwell o amgylch trefi a dinasoedd, a gefnogir gan Strategaethau Adfer Natur wedi'u hadlewyrchu wrth greu lleoedd, a chreu coetir a gefnogir ledled y DU.

Gan adeiladu ar y Papur Gwyn hwn, byddwn yn cyhoeddi'r ail adroddiad ar brawfesur polisïau o safbwynt anghenion cefn gwlad yn Lloegr y gwanwyn hwn. Bydd yr adroddiad hwn yn nodi sut mae adrannau'r llywodraeth yn gweithio i gefnogi ffyniant bro mewn ardaloedd cefn gwlad, drwy ddulliau wedi'u targedu lle bo angen, a sut rydym yn atgyfnerthu'r economi cefn gwlad, gan ddatblygu seilwaith cefn gwlad, darparu gwasanaethau cefn gwlad a rheoli'r amgylchedd naturiol.

Er mwyn i ffyniant bro olygu rhywbeth i bobl yn eu bywydau beunyddiol, mae angen inni gyrraedd pob cymuned yn y wlad, o ganol dinasoedd i gefn gwlad, er mwyn dechrau ailadeiladu cyfalaf cymdeithasol a hunanddibyniaeth yn ein cymdogaethau y cefnwyd arnynt fwyaf. Mae angen i hyn lifo drwy lywodraeth ganolog a llywodraeth leol, drwy Aelodau Seneddol a'u swyddfeydd lleol, dyngarwyr, gwirfoddolwyr, ysgolion, meddygon teulu ac arweinwyr cymunedol eraill. Byddwn yn treialu set o ddulliau Cyfamod Cymunedol:

cytundebau newydd rhwng cynghorau, cyrff cyhoeddus a chymunedau eu hunain i rymuso cymunedau i lywio'r gwaith o adfywio eu hardaloedd a gwella gwasanaethau cyhoeddus.

Ni ellir gwneud gwaith adfywio a arweinir gan y gymuned â ffrwd ariannu anwadal sy'n creu gobaith cyn ei ddinistrio, gan adael pobl yn llai gobeithiol ac yn fwy drwgdybus, ac yn teimlo'n fwy di-bŵer nag erioed. Byddwn yn ystyried Cronfa Cyfoeth Cymunedol, cynhwysiant ariannol a mathau eraill o fuddsoddi cymunedol fel rhan o'n hymgynghoriad ar £880m mewn cyllid Asedau Segur, ac yn canolbwyntio arian loteri ar gyrraedd yr ardaloedd bach mwyaf difreintiedig yn y wlad. Yn y fath ysbryd adnewyddu dinesig, byddwn hefyd yn sicrhau bod rhagoriaeth ym myd y campau ac yn y maes diwylliannol yn cael ei rhannu'n decach ledled y DU.

Gyda'r Sefydliad Pêl-droed yn Lloegr, a Chymdeithasau Pêl-droed Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, rydym yn cyflwyno caeau llawr gwlad ledled y DU – eleni mae Llywodraeth y DU wedi cyfrannu cyllid i gyflwyno dros 800 o gaeau gwair newydd a 60 o gaeau gwair artiffisal newydd yn Lloegr yn unig. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo £205m i adeiladu ar hyn ledled y DU dros y tair blynedd nesaf. Bydd hyn yn sicrhau bod gan glybiau lleol a thimau ysgolion y cyfleusterau sydd eu hangen arnynt i ffynnu. Hefyd rydym wedi cefnogi, mewn egwyddor, brif argymhelliad yr Adolygiad o Lywodraethu Pêl-droed wedi'i Arwain gan Gefnogwyr yn nodi bod angen rheoleiddiwr annibynnol cryf ar bêl-droed, ac rydym wedi ysgrifennu at Awdurdodau Pêl-droed i ofyn pa gamau y byddant yn eu cymryd ar unwaith i ddiogelu hunaniaethau, traddodiadau a chyfleusterau lleol.

Byddwn hefyd yn sicrhau bod sefydliadau diwylliannol mawr yn chwarae eu rhan wrth sicrhau bod rhagoriaeth yn hygyrch i bawb. Wrth inni gymryd camau breision i **gynyddu gwariant ar ddiwylliant y tu allan i Lundain**, bydd 100% o'r cynnydd yng nghyllid Cyngor Celfyddydau Lloegr a gyhoeddwyd yn Adolygiad o Wariant 2021 yn cael ei wario y tu allan i Lundain, gan gefnogi theatrau, amgueddfeydd ac orielau, llyfrgelloedd a neuaddau dawns mewn trefi nas buddsoddwyd ynddynt yn y gorffennol. Byddwn yn ystyried sut y gall rhagor o brif sefydliadau diwylliannol cenedlaethol ategu cryfder ein treftadaeth ddiwylliannol hanesyddol mewn dinasoedd mawr megis Stoke a Manceinion.

At hynny, caiff £560m ei fuddsoddi mewn pobl ifanc ar gyfer cyfleusterau, gwasanaethau a phrofiadau ieuenctid newydd a gwell yn Lloegr lle mae eu hangen fwyaf, a chaiff **Gwarant Ieuenctid Cenedlaethol** newydd ei lansio fel y gall pob person ifanc yn Lloegr, erbyn 2025, fwynhau gweithgareddau rheolaidd y tu allan i'r ysgol, ynghyd ag anturiaethau oddi cartref a chyfleoedd gwirfoddoli. Byddwn yn sicrhau bod Gwobr Dug Caeredin yn cael ei chynnig i bob ysgol uwchradd y wladwriaeth yn Lloegr. Byddwn yn rhoi'r cyfle arbennig i fwy o fyfyrwyr ymuno â'r cadetiaid, gan gynnig mwy o gefnogaeth i sector ysgolion y wladwriaeth gynyddu'r nifer sy'n ymuno â'r **Llu Cadetiaid Cyfunol**. Bydd hyn yn cynnwys cysylltu'r gwaith o gyllido unedau cadetiaid mewn ysgolion preifat â gofyniad i sicrhau y cefnogir y gwaith o ehangu lluoedd cadetiaid mewn ysgolion y wladwriaeth a mynediad agored i fyfyrwyr mewn ysgolion y wladwriaeth cyfagos.

Bydd y llywodraeth hefyd yn arwain drwy esiampl, drwy **adleoli mwy o rolau uwch-wasanaeth sifil** y tu allan i Lundain. Rydym eisoes wedi sefydlu campws economaidd newydd yn Darlington, canolfan ar gyfer y Swyddfa Gartref yn Stoke ac ail bencadlys ar gyfer Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau yn Wolverhampton. Bydd mwy o rolau yn y gwasanaeth sifil yn symud i leoliadau ledled y DU, yn cynnwys Glasgow, Caeredin, Caerdydd, Belfast, Manceinion, Newcastle, Birmingham, Bryste a Leeds, wrth i wneuthurwyr penderfyniadau allweddol gael

eu symud i fod yn agosach at y rhai y maent yn eu gwasanaethu. Mae'r Papur Gwyn yn atgyfnerthu ein hymrwymiad i'r rhaglen Mannau Twf ac yn cadarnhau niferoedd manwl adrannau a'r lleoliadau ar gyfer adleoli staff hyd at 2025 a 2030.

Ein nod gyda'r diwygiadau hyn yw gwella balchder mewn lle ledled y DU, gan leihau'r bwlch rhwng y rhannau sy'n perfformio orau ac ardaloedd eraill (Cenhadaeth Naw).

Mae tai o ansawdd gwael, gorlenwi a dibyniaeth ar lety dros dro i deuluoedd agored i niwed hefyd yn cyfrannu at iechyd gwael a bywyd o ansawdd gwael i lawer yn ddiangen. Byddwn yn gweithredu mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, adeiladu mwy o dai yn Lloegr, yn cynnwys mwy o dai cymdeithasol sy'n wirioneddol fforddiadwy. Yn ail, byddwn yn lansio ymgyrch newydd ar ansawdd tai i sicrhau bod cartrefi yn addas ar gyfer yr 21ain ganrif.

Byddwn yn sicrhau y gall mwy o bobl o lawer fforddio prynu eu cartref eu hunain. Mae'r cynllun Cymorth i Brynu a gafodd ei lansio'r llynedd yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar brynwyr tro cyntaf a byddwn yn adeiladu ar y Cynllun Gwarant Morgeisi drwy weithio gyda'r diwydiant benthycwyr i sicrhau bod cynifer o forgeisi â blaendal isel â phosibl ar gael. Hefyd, byddwn yn gwella'r broses o brynu a gwerthu tai, gan weithio gyda'r diwydiant i sicrhau bod y wybodaeth hanfodol sydd ei hangen ar brynwyr ar gael yn ddigidol lle bo modd o ffynonellau sydd wedi'u dilysu ac yr ymddiriedir ynddynt. Byddwn hefyd yn dileu'r rheol gyllido 80/20 a wnaeth ganolbwyntio buddsoddiadau yn Llundain Fwyaf, ac yn lle hynny byddwn yn buddsoddi mewn mwy o gartrefi yng ngogledd Lloegr a Chanolbarth Lloegr er mwyn lleddfu'r pwysau ar dde-ddwyrain Lloegr.

> **“Byddwn yn cyflwyno deddfwriaeth newydd i wella ansawdd a phroses reoleiddio tai cymdeithasol”**

Er mwyn cyflawni ein cenhadaeth i wella cyflwr tai, byddwn yn cyflwyno deddfwriaeth newydd i wella ansawdd a phroses reoleiddio tai cymdeithasol, gan roi gwybodaeth am berfformiad i breswylwyr fel bod modd iddynt ddwyn eu landlord i gyfrif a sicrhau, pan fydd preswylwyr yn gwneud cwyn, fod landlordiaid yn cymryd camau cyflym ac effeithiol i unioni pethau. A byddwn yn cyhoeddi Papur Gwyn nodedig yn y gwanwyn i ymgynghori ar gyflwyno Safon Tai Gweddus gyfreithiol rwymol yn y Sector Rhentu Preifat am y tro cyntaf erioed, yn ystyried **Cofrestr Genedlaethol ar gyfer Landlordiaid** ac yn cyflwyno'n gynt na phryd fesurau eraill i ailosod y gydberthynas rhwng landlordiaid a thenantiaid, yn cynnwys drwy roi diwedd ar achosion o droi allan heb fai o dan adran 21.

Bydd hyn i gyd yn helpu i sicrhau, erbyn 2030, y gall rhentwyr ddilyn llwybr cadarn i brynu eu cartref eu hunain, a bydd nifer y prynwyr tro cyntaf yn cynyddu ym mhob ardal; a'n huchelgais yw sicrhau bod nifer y cartrefi a gaiff eu rhentu nad ydynt yn cyrraedd y safon wedi lleihau 50%, gan weld y gwelliannau mwyaf yn yr ardaloedd sy'n perfformio waethaf (Cenhadaeth Deg).

Rydym yn benderfynol o fynd i'r afael â'r troseddau, achosion o gamddefnyddio cyffuriau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n cael effaith niweidiol ar gynifer o gymunedau. Rydym yn buddsoddi **£50m o'r Gronfa Strydoedd Mwy Diogel** bob blwyddyn yn ystod cyfnod Adolygiad o Wariant 2021 fel bod gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ac awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i fynd i'r afael â throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Drwy hyn, erbyn 2030, byddwn wedi lleihau nifer y lladdiadau, trais difrifol a throseddau mewn cymdogaethau, gan ganolbwyntio ar yr ardaloedd yr effeithir arnynt fwyaf (Cenhadaeth Un-ar-ddeg).

Byddwn hefyd yn lleihau'r ffactorau sy'n niweidio balchder pobl yn eu hardal a disgwyliwn i bobl wneud iawn â'u cymunedau pan fyddant wedi torri'r gyfraith. Mae gormod o gymunedau yn dioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddoldeb, a gyflawnir gan blant weithiau. Felly byddwn yn gweithio gyda

**phartneriaid ar draws y system cyfiawnder ieuenctid** i sicrhau bod pobl ifanc 16 a 17 oed sy'n cyflawni troseddau yn gwneud iawn â'u cymunedau drwy lafur gweladwy i wella'r amgylchedd lleol.

### *Grymuso arweinwyr a chymunedau lleol*

Mae meiri eisoes wedi dangos sut y gall arweinyddiaeth leol gref wella cyfleoedd economaidd a chyfleoedd eraill mewn ardaloedd trefol, a byddwn yn sicrhau bod y model yn cael ei gryfhau, ei ymestyn a'i fabwysiadu'n ehangach. Mae meiri, sydd â mandad uniongyrchol, tymor sefydlog, pŵer cynnull, cymhelliant clir i ddangos gwelliant economaidd ac atebolrwydd am ehangu cyfleoedd, yn gweithio i'w cymunedau. Ac mae datganoli pŵer a chyfrifoldeb am dwf economaidd i arweinydd lleol atebol mewn modd ystyrlon wedi'i brofi i helpu ardaloedd a fu'n dirywio unwaith i adfer.

Byddwn yn ehangu, yn dyfnhau ac yn symleiddio datganoli ledled Lloegr er mwyn sicrhau, erbyn 2030, fod pob rhan o Loegr sydd am gael bargen ddatganoli yn ei chael, gyda phwerau ar y lefel uchaf o ddatganoli neu'n agos at hynny, ynghyd â setliad cyllido hirdymor syml (Cenhadaeth Deuddeg).

Rydym am greu chwyldro datganoli, gan gyflwyno model newydd ar gyfer siroedd â meiri neu “lywodraethwyr”. Byddwn yn cychwyn negodiadau ar **fargeinion datganoli dyfnach sy'n torri tir newydd ag awdurdodau cyfun gorllewin Canolbarth Lloegr a Manceinion Fwyaf**. Bydd y bargeinion hyn yn lasbrint ar gyfer awdurdodau cyfun maerol eraill, a chroesewir cynigion am ragor o bwerau. Yn yr un modd, byddwn yn ad-drefnu daearyddiaeth awdurdodau cyfun maerol, lle bo angen, er mwyn sicrhau bod mwy o gydlyniant economaidd. Byddwn ymhellach yn gwahodd naw ardal i gytuno ar **Fargeinion Sirol** newydd ac yn ceisio cytuno ar **fargeinion pellach ar gyfer awdurdodau cyfun maerol**, gan ymestyn datganoli i rannau ehangach o Loegr.

> **“Byddwn yn ymestyn, dyfnhau a symleiddio datganoli ledled Lloegr”**

Mae hefyd yn bwysig bod datganoli yn cyd-fynd ag atebolrwydd cliriach a mwy penodol. Ar draws y sector llywodraeth leol, byddwn yn cryfhau tryloywder i bobl leol ac yn cyhoeddi data manwl gywir y gellir eu cymharu ar berfformiad. Caiff **corff annibynnol newydd** ei sefydlu i lywio hyn, gan rymuso dinasyddion, cryfhau gwybodaeth arweinwyr lleol am eu gwasanaethau, a chynyddu dealltwriaeth llywodraeth ganolog o'r sector. A byddwn yn cefnogi arweinwyr lleol i wneud gwahaniaeth yn eu cymunedau drwy symleiddio'r dirwedd gyllido anghyfartal fel bod arweinwyr lleol mewn sefyllfa well i gefnogi twf economaidd, yn ogystal â sicrhau bod arweinwyr lleol wrth wraidd penderfyniadau'r llywodraeth gyda rôl newydd i feiri ac arweinwyr lleol cryf wrth lywio strategaeth twf leol.

## Y Camau Nesaf

Mae ffyniant bro yn brosiect hirdymor. Mae'n rhaglen newid sy'n gofyn am newid sylfaenol i'r ffordd y mae llywodraeth ganolog a llywodraeth leol, y sector preifat a chymdeithas sifil yn gweithredu. Bydd Llywodraeth y DU yn cychwyn proses ymgysylltu ac ymgynghori barhaus a systematig ag ystod eang o randdeiliaid, yn cynnwys y gweinyddiaethau datganoledig, ar y Papur Gwyn.

Byddwn yn amlinellu rhagor o fanylion am nifer o'r ymrwymiadau polisi hyn mewn cyhoeddiadau i ddod. Hefyd, byddwn yn cyflwyno deddfwriaeth i'r Senedd i nodi'n statudol y newidiadau sydd wrth wraidd ffyniant bro, ochr yn ochr â mesurau cynllunio ehangach.

Y Papur Gwyn hwn yw'r catalydd ar gyfer cyflawni rhaglen newid hirdymor i wireddu potensial pobl a lleoedd ledled y DU. Bydd hyn yn creu swyddi, yn llywio cynhyrchiant, yn gwella ansawdd bywyd pobl ac yn helpu i adfer eu balchder yn y mannau lle maent yn byw.



# Pennod 1 Anghyfartaleddau Daearyddol y Deyrnas Unedig: Sbardunau a Dulliau Polisi Posibl

Er mwyn lleihau anghyfartaleddau gofodol, mae'n bwysig dechrau drwy ddeall beth sy'n eu hachosi. Yn y bennod hon, defnyddir tystiolaeth hanesyddol, ddamcaniaethol ac empiraidd i egluro'r hyn sy'n sbarduno anghyfartaledd gofodol, yn y DU a thu hwnt. Yna amlinellir fframwaith ar gyfer asesu a deall yr anghyfartaleddau hyn; buddiannau mynd i'r afael â nhw; a sut y gallai polisi cyhoeddus wneud hynny yn y ffordd fwyaf effeithiol.

## 1.1 Hanes Cryno Anghyfartaleddau Daearyddol

Mae pob system naturiol a phob system gymdeithasol yn newid yn araf dros ddegawdau neu hyd yn oed ganrifoedd. Mae'r fath ymdonni yn cael ei lywio gan newidiadau yn yr amgylchedd naturiol, technoleg ac ymddygiad. Ac nid yw systemau economaidd yn eithriad.[2] Wrth i economïau ymdonni dros amser, felly hefyd sefyllfa economaidd y lleoedd a'r cymunedau sy'n rhan ohonynt.

Mae gwahaniaethau yn naearyddiaeth economaidd gwlad neu ardal ar unrhyw un adeg, a newidiadau mewn daearyddiaethau economaidd dros amser, yn un o nodweddion anochel economïau dynamig sy'n datblygu. I ryw raddau, gall y newidiadau hyn gael eu croesawu wrth i economïau addasu i amgylchiadau newydd, ac achub ar gyfleoedd newydd. Am y rheswm hwnnw, galwodd Joseph Schumpeter, yr economegydd o Awstria, y broses ddynamig hon yn ddinistr creadigol.[3]

Mae hanes twf economaidd, yn genedlaethol ac yn is-genedlaethol, yn taflu goleuni ar y cyfleoedd y mae'n eu cynnig i leoedd sy'n ehangu, ond hefyd yr heriau i leoedd sy'n crebachu. Dengys yr ymdonni naturiol mewn perfformiad economaidd dros amser a'r broses twf cronnol mewn dinasoedd a chymunedau sy'n ehangu. Hefyd dengys y creithiau economaidd hirdymor pan fydd lleoedd yn crebachu. Ar y raddfa ofodol, mae newid mor ddinistriol ag yw'n greadigol yn aml.

> **“Wrth i economïau ymdonni dros amser, felly hefyd sefyllfa economaidd y lleoedd a'r cymunedau sy'n rhan ohonynt”**

2 Tonnau Kondratiev yw'r term a ddefnyddir gan economegwyr i ddisgrifio'r cylchoedd hir hyn. Kondratiev, N. D. *Y Cylchoedd Economaidd Mawr (mewn Rwseg).* The Long Wave Cycle. Richardson a Snyder, 1984.

3 Schumpeter, J., *Capitalism, socialism, and democracy. Harper & Brothers. 1942. Sylwer: Drwy gydol y bennod hon, defnyddir data ar gyfer y DU gyfan lle maent ar gael yn gyson.*

## Ffigur 1.1 Y Dinasoedd Mwyaf yn y Byd ers 7,000 CC[4]

| | |
|---|---|
| 7000 CC | Jericho |
| 6500 CC | Çatalhöyük |
| 5000 CC | Tell Brak |
| 4000 CC | Uruk |
| 3800 CC | Dobrovody |
| 3700 CC | Eridu |
| 3600 CC | Maydanets |
| 3550 CC | Talianki |
| 3500 CC | Abydos |
| 3100 CC | Memphis |
| 2500 CC | Lagash |
| 2400 CC | Mohenjo-daro |
| 2300 CC | Girsu |
| 2250 CC | Akkad |
| 2100 CC | Ur |
| 1800 CC | Mari |
| 1650 CC | Avaris |
| 1360 CC | Thebes |
| 1300 CC | Yinxu |
| 1200 CC | Pi-Ramses |
| 1000 CC | Chengzhou (Luoyang) |
| 900 CC | Haojing (Xi'an) |
| 700 CC | Linzi |
| 650 CC | Nineveh |
| 500 CC | Babylon |
| 479 CC | Sravasti |
| 460 CC | Rajagriha |
| 300 CC | Carthage |
| 200 CC | Pataliputra |
| 100 BC | Alexandria |
| 200 OC | Rhufain |
| 500 OC | Caer Gystennin |
| 575 OC | Ctesiphon |
| 600 OC | Daxing (Chang'an) |
| 800 OC | Baghdad |
| 935 OC | Cordova |
| 1100 OC | Kaifeng |
| 1160 OC | Fez |
| 1180 OC | Polonnaruwa |
| 1210 OC | Merv |
| 1300 OC | Hangzhou |
| 1350 OC | Cairo |
| 1400 OC | Jinling |
| 1500 OC | Beijing |
| 1700 OC | Ayutthaya |
| 1850 OC | Llundain |
| 1925 OC | Efrog Newydd (ardal drefol) |
| 2000 OC | Tokyo (ardal drefol) |

4 The Guardian. *From Jericho to Tokyo: the world's largest cities through history*. Exploring Urban Data Hub.

Fel creaduriaid cymdeithasol, mae pobl bob amser wedi ymgynnull mewn grwpiau. Fel rheol byddai'r cymunedau hyn i'w cael yn agos i adnoddau naturiol a morffyrdd, er mwyn cael gafael ar fwyd a masnachu. Yr anheddiad parhaol cynharaf y gwyddom amdano i'w alw'n drefol oedd Jericho oddeutu 10,000 o flynyddoedd yn ôl (Ffigur 1.1). Roedd gan y ddinas system ddyfrhau naturiol o afon Iorddonen, gan ei galluogi i gynhyrchu ac allforio'r olew naws mwyaf drud yn yr henfyd. O ganlyniad i hyn, daeth Jericho nid yn unig yn ganolbwynt i fyd masnach, ond hefyd i bobl a sgiliau, diwylliant a chyllid.

Caer Gystennin oedd prifddinas yr Ymerodraeth Rufeinig/Bysantiwm (330-1204 a 1261-1453), yr Ymerodraeth Ladin (1204-1261) a'r Ymerodraeth Otomanaidd (1453-1922).[5] Dilynodd ei thwf fodel tebyg. Wedi'i hadeiladu ar Gulfor Bosfforws, roedd yn hawdd ei chyrraedd o rannau eraill o'r Ymerodraeth Rufeinig drwy Fôr y Canoldir, y Môr Du ac afon Donwy. Daeth hithau hefyd yn fagned i fyd masnach, diwylliant a chyllid.

Gan y Rhufeiniaid y cafodd pwysigrwydd strategol lleoliad Llundain ei gydnabod gyntaf, a chafodd tref Londiniwm ei sefydlu oddeutu 47-50 OC.[6] O ganlyniad i'w lleoliad ar yr afon ddyfnaf ac ail hiraf yn y DU, gallai llongau milwrol a masnachu mawr gyrraedd morffyrdd y byd. Yn fuan iawn datblygodd Llundain yn ganolfan amlddiwylliannol i bobl, masnach, cyllid a diwylliant, ac nid yw hynny wedi newid ers 2,000 o flynyddoedd (sy'n anarferol o edrych yn ôl ar hanes).

Ledled Ewrop, cynigiodd cyfnod y Dadeni yn yr Eidal a'r Oes Euraidd yn Holand enghreifftiau o gyfnodau tebyg o dwf trawsnewidiol mewn dinasoedd.[7] Yn y ddau achos roedd yr hyn a welwyd yn debyg – atyniad magnetaidd pobl, diwylliant, masnach a chyllid yn lledaenu syniadau, arloesedd a thwf, yn y pen draw. Yn wir, o barch tuag at rôl y teulu Medici yn sicrhau llwyddiant Eidal y Dadeni yn y 15fed ganrif, weithiau gelwir y crochan creadigol hwn yn "effaith Medici".[8] Cafodd y broses hon ei hailadrodd drwy gydol hanes cyn y cyfnod Diwydiannol. Erbyn y Chwyldro Diwydiannol ddiwedd y 18fed ganrif, roedd patrymau tebyg o dwf wedi bodoli ers miloedd o flynyddoedd. Sefydlwyd dinasoedd a dyfodd yn gyflym wrth i ganolfannau creadigol a masnachol gael eu ffurfio a'u hadeiladu'n gronnol, gan barhau am ganrifoedd. Ond nid oedd yn barhaol, ac ychydig iawn o ddinasoedd mwyaf y byd cyn y cyfnod Diwydiannol sydd ymhlith y 100 o ddinasoedd mwyaf yn y byd heddiw, gyda nifer ohonynt yn fach ac yn dlawd bellach yn ôl safonau byd-eang.

**"Ychydig iawn o ddinasoedd mwyaf y byd cyn y cyfnod Diwydiannol sydd ymhlith y 100 o ddinasoedd mwyaf yn y byd heddiw"**

5 Gweler Turnbull, S. *The Walls of Constantinople AD 324-1453*. Osprey Publishing. 2004. a World History Encyclopaedia. Llinell Amser Caer Gystennin.

6 Williams, T. *The foundation and early development of Roman London: A social context*. Antiquity, 64(244), 599-607. 1990.

7 Fouquet, R., Broadberry, S. *Seven Centuries of European Economic Growth and Decline*. Journal of Economic Perspectives, tt. 227-44. 2015.

8 Effaith Medici yw'r arloesi sy'n digwydd pan fydd gwahanol ddiwydiannau, diwylliannau a disgyblaethau yn rhyngblethu, gan ddod â syniadau o un maes i un arall. Gweler Johansson, F. *The Medici Effect: Breakthrough Insights at the Intersection of Ideas, Concepts, and Cultures.* Gwasg Harvard Business Review. 2004.

Ar ôl y Chwyldro Diwydiannol, parhaodd y grymoedd gofodol hyn, ond gwnaethant ehangu a dyfnhau oherwydd cyfnod cyntaf erioed y byd o dwf economaidd parhaus. Arweiniwyd hyn gan ddinasoedd diwydiannol, a drawsnewidiodd ddaearyddiaeth economaidd y byd. Ym 1750, roedd mwy na hanner allbwn diwydiannol y byd yn cael ei gynhyrchu yn Tsieina ac India, o gymharu â 18% yng ngorllewin Ewrop. Yn yr 80 mlynedd nesaf gwnaeth allbwn diwydiannol gorllewin Ewrop fwy na dyblu, a chynyddodd allbwn y DU seithwaith.[9]

**"Roedd globaleiddio a chynnydd technolegol unwaith eto wedi ailwampio daearyddiaeth economaidd y byd"**

Ar lefel is-genedlaethol, arweiniodd y Chwyldro Diwydiannol at sefydlu dinasoedd diwydiannol mawr. Fel rheol roeddent yn dal i fod yn agos at ddyfrffyrdd ac adnoddau naturiol, megis glo. Ond roedd y buddiannau hyn nawr yn fwy oherwydd anghenion diwydiant. Dilynodd y twf sydyn mewn dinasoedd diwydiannol batrwm gofodol tebyg i'r gorffennol, gyda byd busnes, cyllid, pobl a diwylliant yn dod ynghyd. Ond wrth i economïau dyfu mewn ffordd nas gwelwyd o'r blaen, cyflymodd y broses hon o glystyru asedau a phobl, ac i raddau mwy na'r hyn a welwyd erioed o'r blaen.

Erbyn 1900, roedd pob un o'r 20 o ddinasoedd mwyaf yn yr UD ar brif ddyfrffyrdd.[10] Roedd Ewrop bellach yn gartref i hanner poblogaeth drefol y byd a mwy na hanner ei 100 o ddinasoedd mwyaf, yn cynnwys canolfannau diwydiannol megis Hambwrg, Munich, Milan, Rotterdam, Turin a Lille.[11] Yn y DU, roedd pwerdai diwydiannol Manceinion, Birmingham, Glasgow a Lerpwl ymhlith yr 20 o ddinasoedd mwyaf yn y byd, a chynyddodd eu poblogaethau ddengwaith (Ffigur 1.2).[12]

Ers troad yr 20fed ganrif, roedd grymoedd globaleiddio a chynnydd technolegol unwaith eto wedi ailwampio daearyddiaeth economaidd y byd. Roedd datblygiadau o ran trafnidiaeth, logisteg ac ynni wedi lleihau'r manteision cost a gynigiwyd gan ddinasoedd diwydiannol yn draddodiadol. Ac roedd y cynnydd mewn globaleiddio yn golygu bod busnesau gweithgynhyrchu yn aml wedi'i chael hi'n rhatach cyflawni gweithgareddau mwy rheolaidd sy'n gofyn am lefel is o sgiliau, megis llinellau cynhyrchu cydosod, yn alltraeth.[13]

Mae hynny wedi arwain at newid enfawr o ddinasoedd diwydiannol trwm mewn economïau datblygedig. Ar ddiwedd y 19eg ganrif, roedd Detroit yn fwrlwm o arloesi. Cyrhaeddodd ei grym economaidd ei anterth ym 1950 pan ddaeth yn drydedd ddinas fwyaf cyfoethog yr UD.[14] Wrth i'r diwydiant cynhyrchu ceir symud tuag at gystadleuwyr rhatach, mae Detroit wedi bod yn colli ei thrigolion ers hanner canrif. Mae ei phoblogaeth heddiw yr un peth â chanrif yn ôl. Mae traean o'i thrigolion nawr yn byw mewn tlodi, er bod ymdrechion mwy diweddar i adfywio'r ddinas yn ei helpu i droi cornel.[15]

---

9 Crafts, N. a Venables, A. *Globalization in History: A Geographical Perspective*. Globalisation in Historical Perspective. Gwasg Prifysgol Chicago. 2003.

10 Glaeser, E. *Triumph of the city: how our greatest invention makes us richer, smarter, greener, healthier, and happier.* Penguin Publishing Group. 2011

11 Satterthwaite, D. *The world's 100 largest cities from 1800 to 2020, and beyond*. *Sefydliad Rhyngwladol yr Amgylchedd a Datblygu. 2020.*


12 GB Historical GIS / Prifysgol Portsmouth. *Cardiff District through time, Population Statistics, Total Population*. A Vision of Britain through Time; Cyfrifiad Iwerddon 1911. *The Online Historical Population Reports* Cyrchwyd: drwy Histpop ym mis Rhagfyr 2021.

13 Swinney, P., Thomas, E. *A century of cities: Urban economic change since 1911*. Centre for Cities. 2015.

14 Moretti, E. *The new geography of jobs*. Houghton Mifflin Harcourt. 2012.

15 Moretti, E. *The new geography of jobs*. Houghton Mifflin Harcourt. 2012.

**Ffigur 1.2 Y newid ym mhoblogaeth dinasoedd penodol yn y DU 1821-2021 (1821=100)**[16]




Mae'r patrwm hwn i'w weld mewn mannau eraill. Mae wyth o'r deg dinas fwyaf yn yr UD ym 1950 wedi colli o leiaf un rhan o chwech o'u poblogaeth. Mae chwech o'r 16 o ddinasoedd mwyaf ym 1950 – Buffalo, Cleveland, Detroit, New Orleans, Pittsburgh a St. Louis – wedi colli mwy na hanner eu poblogaeth. Yn Ewrop, mae dinasoedd megis Lerpwl, Glasgow, Rotterdam, Bremen a Vilnius yn llawer llai na chanrif yn ôl.[17] Pan oedd ar ei hanterth ym 1937, roedd gan Lerpwl 867,000 o drigolion. Ers hynny, mae wedi colli bron hanner ei phoblogaeth (Ffigur 1.2).[18]

Yn lle'r pwerdai diwydiannol hyn a welodd gwymp, datblygodd cenhedlaeth newydd o ddinasoedd mawr dwys eu gwybodaeth ddiwedd yr 20fed ganrif a dechrau'r 21ain ganrif.[19] Yn eu plith mae Llundain, Efrog Newydd, San Francisco a Tokyo. Mae'r dinasoedd mawr hyn wedi elwa ar fersiwn fodern o effaith Medici, gyda chanolfannau creadigol a masnachol yn datblygu wrth i bobl, byd busnes, cyllid a diwylliant ddod ynghyd. Mae technolegau digidol wedi gwneud effeithiau cydgrynhoi yn fwy pwerus nag ar unrhyw adeg mewn hanes wrth i globaleiddio leihau'r rhwystrau o ran masnachu a buddsoddi ar draws ffiniau.[20]

16 GB Historical GIS / Prifysgol Portsmouth. Population Statistics. O ddata Cyfrifiad y DU 1801-2011, Total Population. *A Vision of Britain through Time*.; SYG. *Estimates of the population for the UK, England and Wales, Scotland and Northern Ireland*. Canol 2020. Sylwer – nid oes data cyson ar gael ar gyfer pob blwyddyn. Gallai newidiadau ym mhoblogaeth dinasoedd dethol yn y DU adlewyrchu newidiadau i'r ddaearyddiaeth a ddefnyddiwyd i adrodd ar y ffigurau hyn. Mae ffigurau'r cyfrifiad ar gyfer Belfast ym 1926 a 1937 wedi'u symud i 1921 a 1941.

17 Glaeser, E. *Triumph of the city: how our greatest invention makes us richer, smarter, greener, healthier, and happier.* Penguin Publishing Group. 2011

18 Glaeser, E. *Triumph of the city: how our greatest invention makes us richer, smarter, greener, healthier, and happier.* Penguin Publishing Group. 2011


19 Is-adran Poblogaeth Adran Materion Economaidd a Chymdeithasol y Cenhedloedd Unedig. *World Urbanization Prospects: The 2018 Revision*. Y Cenhedloedd Unedig. 2019.

20 OECD. *Foreign direct investment and reverse technology spillovers: The effect on total factor productivity*. 2015.; Tranos E., Ioannides, Y.M. *Ubiquitous digital technologies and spatial structure; an update*. PLoS ONE 16(4): e0248982. 2021.

# Cynhyrchiant

Mae cynhyrchiant yn amrywio'n sylweddol ar draws rhanbarthau ac ynddynt. Er mai Llundain a de-ddwyrain Lloegr yw'r unig ranbarthau sydd uwchlaw cyfartaledd y DU, maent hefyd yn gartref i rai o awdurdodau lleol lleiaf cynhyrchiol y DU. Hefyd mae awdurdodau lleol yn yr Alban, Canolbarth Lloegr a gogledd-orllewin Lloegr ymhlith y rhai mwyaf cynhyrchiol.


**Ffigur 1.3 Gwerth ychwanegol gros enwol (wedi ei lyfnhau) fesul awr a weithiwyd (£), awdurdodau lleol ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon, 2019**



### Tabl 1.1 Maint y bwlch: Gwahaniaethau mewn gwerth ychwanegol gros fesul awr a weithiwyd mewn £ a chanran, gwledydd a rhanbarthau/awdurdodau lleol y DU a Phrydain Fawr, 2019

| | **Perfformio waethaf** Y gwahaniaeth o gymharu â chyfartaledd y DU mewn £ a (%) | **Perfformio orau** Y gwahaniaeth o gymharu â chyfartaledd y DU mewn £ a (%) |
|---|---|---|
| **Rhanbarthol (ITL1)** | Gogledd Iwerddon **£6.41 (-18.24%)** | Llundain **£11.23 (+31.95%)** |
| **Is-ranbarthol (awdurdodau lleol dosbarth/unedol, Prydain Fawr yn unig)** | Powys **£14.90 (-42.39%)** | Runnymede **£27.20 (+77.38%)** |

### Ffigur 1.4 Dosbarthiad gwerth ychwanegol gros fesul awr a weithiwyd (£), awdurdodau lleol yn ôl gwledydd a rhanbarthau Prydain Fawr, 2019





Ffynhonnell: SYG. ***Subregional productivity in the UK: February 2020***. 2020.

# Enillion

Mae incymau yn olrhain cynhyrchiant yn agos, ac mae cyflogau cyfartalog yn ne-ddwyrain Lloegr a Llundain yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Fodd bynnag, mae cryn amrywiad o fewn rhanbarthau. Yn nwyrain Lloegr, mae'r cyflog wythnosol canolrifol yn ne Caergrawnt a St Albans bron ddwbl yr hyn a welir yn Norfolk, ac mae cyflogau canolrifol yn Sir Fynwy yn uwch na hanner awdurdodau lleol Llundain.


### Ffigur 1.5 Cyflog wythnosol gros canolrifol (£) ar gyfer holl swyddi cyflogeion, awdurdodau lleol y DU, 2021



**Tabl 1.2 Maint y bwlch: Gwahaniaethau mewn cyflog wythnosol gros canolrifol mewn £ a chanran, gwledydd a rhanbarthau/awdurdodau lleol y DU, 2021**

| | **Perfformio waethaf** Y gwahaniaeth o gymharu â chyfartaledd y DU mewn £ a (%) | **Perfformio orau** Y gwahaniaeth o gymharu â chyfartaledd y DU mewn £ a (%) |
|---|---|---|
| **Rhanbarthol (ITL1)** | Gogledd-ddwyrain Lloegr **-£41 (-8.21%)** | Llundain **£109 (21.59%)** |
| **Is-ranbarthol (awdurdodau lleol dosbarth/unedol, Prydain Fawr yn unig)** | Ards a North Down **-£128 (-25.3%)** | Westminster **£267 (52.97%)** |

**Ffigur 1.6 Dosbarthiad cyflog wythnosol gros canolrifol (£) ar gyfer holl swyddi cyflogeion, awdurdodau lleol yn ôl gwledydd a rhanbarthau Prydain Fawr, 2021**





Ffynhonnell: SYG. *Earnings and hours worked, place of residence by local authority: ASHE Table 8*. 2021

# Sgiliau

Gogledd-ddwyrain Lloegr yw'r rhanbarth sy'n perfformio waethaf lle mae saith o'r deuddeg o Awdurdodau Lleol yn chwartel isaf dosbarthiad y DU. Yn Nwyrain Canolbarth Lloegr mae'r amrywiad mwyaf o fewn rhanbarth; mae gan boblogaeth Rushcliffe gyfradd cyrhaeddiad lefel 3+ o 77.2% o gymharu â 37% ar gyfer Bolsover.


### Ffigur 1.7 Cyfran y boblogaeth 16-64 oed â chymwysterau lefel 3 + yn ôl awdurdod lleol, y DU, 2021



**Tabl 1.3 Maint y bwlch: Gwahaniaethau yn y boblogaeth â chymwysterau Lefel 3+ ar ffurf canran, gwledydd a rhanbarthau/awdurdodau lleol y DU, 2021**

| | **Perfformio waethaf** Y gwahaniaeth o gymharu â chyfartaledd y DU (%) | **Perfformio orau** Y gwahaniaeth o gymharu â chyfartaledd y DU (%) |
|---|---|---|
| **Rhanbarthol (ITL1)** | Gogledd-ddwyrain Lloegr **(-6.1%)** | Llundain **(+9.8%)** |
| **Is-ranbarthol (awdurdodau lleol dosbarth/unedol, Prydain Fawr yn unig)** | Bolsover **(-24.2%)** | Dinas Llundain **(+38.8%)** |

**Ffigur 1.8 Dosbarthiad cyfran y boblogaeth 16-64 oed â chymwysterau lefel 3+, awdurdodau lleol yn ôl gwledydd a rhanbarthau'r DU, 2021**





Ffynhonnell: SYG. *Annual Population Survey: All people aged 16-64 with Level 3+ skills, by local authority*. NOMIS. 2021.

# Iechyd

Ar lefel genedlaethol, roedd disgwyliad oes iach dynion a menywod rhwng 2017 a 2019 ar ei uchaf yn Lloegr (63.2 a 63.5) ac ar ei isaf yn yr Alban (61.7, 61.9). Ar lefel leol, gall pobl yn negradd uchaf (lleiaf difreintiedig) ardaloedd y DU ddisgwyl byw tua degawd yn hirach na phobl yn negradd isaf (mwyaf difreintiedig) ardaloedd y DU.


### Ffigur 1.9 Disgwyliad oes iach adeg geni (Dynion), awdurdodau lleol y DU, 2017-2019



**Tabl 1.4 Maint y bwlch: Gwahaniaethau mewn disgwyliad oes iach (Dynion) mewn blynyddoedd a chanran, gwledydd a rhanbarthau/awdurdodau lleol y DU, 2017-19**


| | **Perfformio waethaf** Y gwahaniaeth o gymharu â chyfartaledd y DU mewn blynyddoedd a (%) | **Perfformio orau** Y gwahaniaeth o gymharu â chyfartaledd y DU mewn blynyddoedd a (%) |
|---|---|---|
| **Rhanbarthol (ITL1)** | Gogledd-ddwyrain Lloegr **-3.5 mlynedd (-5.61%)** | De-ddwyrain Lloegr **+2.4 mlynedd (+3.85%)** |
| **Is-ranbarthol (awdurdodau lleol dosbarth/unedol)** | Blackpool **-9.2 mlynedd (-14.59%)** | Rutland **+8.6 mlynedd (+13.64%)** |

**Ffigur 1.10 Dosbarthiad disgwyliad oes iach adeg geni (Dynion), awdurdodau lleol yn ôl gwledydd a rhanbarthau'r DU, 2017-2019**




Ffynhonnell: SYG. *Health state life expectancy at birth and at age 65 years by local areas, UK*. 2019


## Ffigur 1.11 Disgwyliad oes iach adeg geni (Menywod), awdurdodau lleol y DU, 2017-2019



**Tabl 1.5 Maint y bwlch: Gwahaniaethau mewn disgwyliad oes iach (Menywod) mewn blynyddoedd a chanran, gwledydd a rhanbarthau/awdurdodau lleol y DU, 2017-19**

| | **Perfformio waethaf** Y gwahaniaeth o gymharu â chyfartaledd y DU mewn blynyddoedd a (%) | **Perfformio orau** Y gwahaniaeth o gymharu â chyfartaledd y DU mewn blynyddoedd a (%) |
|---|---|---|
| **Rhanbarthol (ITL1)** | Gogledd-ddwyrain Lloegr **-4.2 mlynedd (6.70%)** | De-ddwyrain Lloegr **+2.6 mlynedd (4.06%)** |
| **Is-ranbarthol (awdurdodau lleol dosbarth/unedol)** | Blackpool **-8.0 mlynedd (12.61%)** | Ynysoedd Erch **+11.7 mlynedd (18.6%)** |

**Ffigur 1.12 Dosbarthiad disgwyliad oes iach adeg geni (Menywod), awdurdodau lleol yn ôl gwledydd a rhanbarthau'r DU, 2017-2019**



## 1.2 Anghyfartaleddau Daearyddol ledled y DU

Mae'r fath ddynameg twf economaidd byd-eang wedi'i adlewyrchu yn y DU dros y degawdau diwethaf, ar ffurf ymdonni hir. Ond mae'n ymddangos bod y fath ddynameg wedi bod yn fwy pwerus a chyson yn y DU nag mewn rhai gwledydd eraill. Hefyd mae'n ymddangos bod hyn wedi gadael creithiau economaidd a chymdeithasol dwfn a hirdymor. O ganlyniad, cafwyd gwahaniaethau gofodol mwy o faint ledled y DU nag mewn mannau eraill, sydd wedi parhau a thyfu dros amser. Yn yr adran hon amlinellir natur a datblygiad y gwahaniaethau gofodol hyn.

Dengys fod anghyfartaleddau gofodol mawr yn y DU o gymharu â'r mwyafrif o wledydd OECD eraill (1.2.1), ac mae bwlch mawr rhwng Llundain a'r rhan fwyaf o ranbarthau eraill – mewn termau absoliwt a chymharol (1.2.2) – sy'n cyfrannu at wahaniaethau sylweddol mewn safonau byw (1.2.3). Mae'r gwahaniaethau hyn yn rhai hirdymor gan olygu nad yw'r DU yn gwireddu'r holl botensial economaidd sydd gan bob rhan o'r wlad i'w gynnig. Yn ei dro mae hyn yn llesteirio cynhyrchiant a thwf cronnol ac yn peri costau i ardaloedd sy'n perfformio'n wael ac yn dda fel ei gilydd. Hefyd mae'r gwahaniaethau hyn yn dueddol o fod yn rhai hyper-leol ac mae'r gwahaniaethau o fewn rhanbarthau neu ddinasoedd y DU yn aml yn fwy na'r gwahaniaethau rhwng rhanbarthau ar gyfer y mwyafrif o fetrigau perfformiad (1.2.4). Mae hefyd yn amlwg, er bod gan y DU nifer mawr o glystyrau o weithgarwch economaidd arloesol (1.2.8), fod ei dinasoedd ail haen yn perfformio'n waeth na dinasoedd cyfatebol eraill ledled y byd (1.2.6). Mae'r holl wahaniaethau hyn o ran perfformiad lleoedd yn bwysig oherwydd maent yn cael effaith barhaol ar ganlyniadau bywyd pobl sy'n tyfu i fyny yno (1.2.7), nid dim ond mewn termau economaidd ond hefyd ar draws ystod eang o ddangosyddion cymdeithasol.

> **“Ar draws ystod eang o fetrigau economaidd a chymdeithasol, mae'r gwahaniaethau daearyddol a geir yn y DU yn fawr”**

### 1.2.1 Graddau'r anghyfartaleddau daearyddol ledled y DU

Ar draws ystod eang o fetrigau economaidd a chymdeithasol, mae'r gwahaniaethau daearyddol a geir yn y DU yn fawr mewn termau absoliwt ac maent wedi mynd yn fwy dros y degawdau diwethaf. Mae Ffigurau 1.3 i 1.12 yn nodi pedwar maes gwahanol o berfformiad yn y DU ar lefel awdurdod lleol: cynhyrchiant, cyflogau, cyrhaeddiad addysgol ac iechyd. Ar gyfer pob un o'r meysydd hyn, mae cryn dipyn yn debyg yn ddaearyddol; yn y lleoedd mwyaf cynhyrchiol yn gyffredinol mae enillion uwch, disgwyliad oes hwy a lefelau uwch o sgiliau. Fel y gwnaeth y Comisiwn ar Anghyfartaleddau Hiliol ac Ethnig ei bwysleisio, mae daearyddiaeth yn ffactor allweddol sy'n effeithio ar gyfle cyfartal a symudedd cymdeithasol.[21]

Mae'r gwahaniaethau rhwng yr ardaloedd sy'n perfformio orau a gwaethaf yn fawr. Ar gyfer cynhyrchiant ar y lefel ranbarthol, mae'r bwlch rhwng y gorau (Llundain) a'r gwaethaf (Gogledd Iwerddon) oddeutu 60%. Yn gyffredinol, mae cynhyrchiant yn dueddol o fod yn uwch mewn dinas-ranbarthau mwy oherwydd arbedion maint a chwmpas. Serch hynny, nid yw'r patrwm hwn hyd yn oed yn union debyg.

Hyd yn oed mewn dinasoedd â lefel uchel o gynhyrchiant, mae ardaloedd â chynhyrchiant isel. Mae lefelau cynhyrchiant Haringey yn 91% o gyfartaledd y DU, ac mae lefelau cynhyrchiant Lewisham yn 82% ohono.[22] Mewn rhai o ddinasoedd mawr eraill y DU, megis Birmingham a Sheffield, mae cynhyrchiant hefyd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.[23] Nid yw dinasoedd bob amser yn hynod gynhyrchiol.

21 *The independent report of the Commission on Race and Ethnic Disparities*. 2021.
22 SYG. *Subregional productivity in the UK: July 2021*. 2021.
23 SYG. *Subregional productivity in the UK: July 2021*. 2021.

Ac nid yw trefi nac ardaloedd gwledig bob amser yn tanberfformio ychwaith. Mae rhai trefi ac ardaloedd gwledig yn ffynnu o ran cynhyrchiant. Er enghraifft, mae gan Darlington yr un lefel o gynhyrchiant â chanol Manceinion.[24]

Caiff y gwahaniaethau hyn mewn cynhyrchiant eu hadlewyrchu, yn fras, mewn mesurau cyflog a sgiliau. Mae cyflogau yn y rhanbarth â'r enillion mwyaf (Llundain ar £823 yr wythnos) 1.5 gwaith yn fwy na'r rhanbarth â'r enillion lleiaf (gogledd-ddwyrain Lloegr ar £550 yr wythnos).[25] Mae'r gwahaniaeth yng nghyfran y boblogaeth sy'n oedolion sydd â chymhwyster lefel 3 neu'r hyn sy'n cyfateb iddo rhwng y ddau ranbarth hyn bron yn 16 pwynt canran.[26] Mae'r gwahaniaethau hyn hyd yn oed yn fwy ar lefel fwy lleol. Mae gan bron hanner yr oedolion 16-64 oed gymhwyster ar lefel 4 neu uwch yng Nghaerefrog o gymharu â chwarter yn Doncaster.[27]

Mewn iechyd y gwelir rhai o'r anghyfartaleddau gofodol amlycaf. Dim ond gwahaniaeth o 1.6 mlynedd sydd rhwng disgwyliad oes iach adeg geni menywod yn Lloegr a'r Alban.[28] Ond ar lefel leol mae'r gwahaniaethau hyn yn llawer mwy. Gall menywod a gaiff eu geni yn Wokingham ddisgwyl byw 12 mlynedd yn fwy mewn iechyd da na'r rhai a gaiff eu geni yn Southampton.[29] Adlewyrchir hyn mewn metrigau eraill sy'n seiliedig ar iechyd, megis cyffredinrwydd gordewdra a smygu.[30]

Mae Ffigur 1.13 yn cyfuno'r pedwar mesur perfformiad hyn. Ceir teipolegau clir o ran lleoedd sydd â chanlyniadau economaidd-gymdeithasol gwael. Yn eu plith mae cymunedau arfordirol a oedd yn arfer bod yn gysylltiedig â thwristiaeth, rhannau o ogledd Lloegr a Chanolbarth Lloegr â gwaddol diwydiannol, a rhannau gwledig o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae dinasoedd y DU yn dueddol o berfformio'n well ar y cyfan, ond yn aml lleolir rhai o'r ardaloedd sy'n perfformio orau a gwaethaf ynddynt.

**“Hyd yn oed mewn dinasoedd â lefel uchel o gynhyrchiant, mae ardaloedd â chynhyrchiant isel”**



24 SYG. Subregional productivity in the UK: July 2021. 2021.

25 SYG. Apr-June 2021 gross weekly earnings data – not seasonally adjusted. Gross weekly earnings of full-time employees by region. 2021.

26 SYG. Annual Population Survey, 2004-2021. Data o: Ionawr-Rhagfyr 2020. Gwasanaeth Data'r DU. 2021.


27 SYG. Annual Population Survey, 2004-2021. Data o: Ionawr-Rhagfyr 2020. Gwasanaeth Data'r DU. 2021.

28 SYG. Health state life expectancy at birth and at age 65 years by local areas, UK. 2019.

29 SYG. Health state life expectancy at birth and at age 65 years by local areas, UK. 2019.

30 SYG. Health state life expectancy at birth and at age 65 years by local areas, UK. 2019.

## Ffigur 1.13 Patrymau gofodol: Pa ardaloedd a gaiff eu gadael ar ôl fwyaf? Awdurdodau lleol yn y chwartel isaf o ran sgiliau sy'n cyfateb i lefel 3+ ymhlith oedolion, Gwerth Ychwanegol Gros fesul awr a weithiwyd, Cyflog Wythnosol Gros Canolrifol a disgwyliad oes iach[31]





31 Mae'r map hwn yn cyfuno data gan SYG ar Werth Ychwanegol Gros (GYG) fesul awr a weithiwyd, boddhad â bywyd cyfartalog, cyflog wythnosol gros canolrifol a Disgwyliad Oes Iach. Mae'n dangos, ar gyfer pob awdurdod lleol, sawl un o'r mesurau hyn sydd yn y chwartel isaf, o gymharu â chyfartaledd y DU. Nid oes data is-ranbarthol ar gael ar gyfer Gogledd Iwerddon ar draws GYG fesul awr a weithiwyd nac NVQ3+, felly defnyddiwn werth Rhanbarthol Gogledd Iwerddon ar gyfer yr ardaloedd lleol hyn.

## 1.2.2 Sut mae anghyfartaleddau daearyddol y DU yn cymharu â rhannau eraill o'r byd

Mae'r gwahaniaethau gofodol hyn ledled y DU hefyd yn fawr o'u cymharu â'r gorffennol ac â chymharwyr rhyngwladol. Mae Ffigur 1.14 yn edrych ar batrymau gofodol mewn Cynnyrch Domestig Gros (CDG) ledled Prydain Fawr ers 1901. Gwnaeth y gwahaniaethau hyn haneru fwy neu lai yn ystod rhan gyntaf yr 20fed ganrif. Ers hynny maent wedi ailehangu, yn raddol ond yn sylweddol, ac maent bellach yn ôl i lefelau a welwyd ganrif yn ôl. Mae anghyfartaleddau gofodol mewn iechyd hefyd wedi ehangu ers diwedd y 1970au, ar ôl lleihau yn ystod y cyfnod yn dilyn y rhyfel.[32]

### Ffigur 1.14 Cynhyrchiant rhanbarthol, gwledydd a rhanbarthau Prydain Fawr, 1900-2019[33]




Mae anghyfartaleddau gofodol y DU hefyd ymhlith y mwyaf o blith economïau datblygedig ar sawl mesur, yn cynnwys cynhyrchiant ac incwm y pen (Ffigur 1.15).[34] O'u mesur ar draws 28 o fesurau – gan ddefnyddio gwahanol unedau dadansoddi gofodol, gwahanol fesurau ffyniant a gwahanol fynegeion

32 Gordon, D., Kay, A., Kelly, M., Nandy, S., Senior, M., Shaw, M. *Chapter 1: The growth of health inequalities in Britain*. *Targeting Poor Health: Review of rural and urban factors affecting the costs of health services and other implementation issues. 2003.*


33 Geary, F., Stark, T. Data until 2004 based on GDP per capita. *150 years of Regional GDP: United Kingdom and Ireland. 2018.; SYG. Data from 2004 – 2019 based on GVA per hour worked. Subregional productivity: labour productivity indices by UK ITL2 and ITL3 subregions*. 2021.

34 Y Cyngor Strategaeth Ddiwydiannol. *UK Regional Productivity Differences: An Evidence Review*. 2020.


anghydraddoldeb – nodwyd mai'r DU yw un o'r gwledydd mwyaf anghyfartal yn ofodol o blith gwledydd OECD.[35]

### Ffigur 1.15 Cymhareb o'r 20% o ranbarthau cyfoethocaf i'r 20% o ranbarthau tlotaf, gwledydd OECD, 2008 a 2018[36 37]

Cymhareb o'r 20% o ranbarthau TL2 cyfoethocaf i'r 20% o ranbarthau TL2 tlotaf




Cymhareb o'r 20% o ranbarthau TL3 cyfoethocaf i'r 20% o ranbarthau TL3 tlotaf




35 McCann, P. *Perceptions of regional inequality and the geography of discontent: insights from the UK*. Regional Studies, tt. 256-267. 2020.

36 OECD. *OECD Regional Statistics (database)*. 2020.

37 Caiff rhanbarthau yn y 38 o wledydd OECD eu dosbarthu ar ddwy lefel diriogaethol gan adlewyrchu trefniadaeth weinyddol gwledydd. Ar gyfer y DU, TL2 yw'r 12 o wledydd a rhanbarthau yn y DU. TL3 yw'r 179 o awdurdodau haen uwch neu grwpiau o awdurdodau haen is neu grwpiau o awdurdodau unedol neu gwmnïau menter lleol neu grwpiau o ddosbarthau.

## 1.2.3 Mesurau ehangach anghyfartaleddau daearyddol

Mae llawer o ddangosyddion perfformiad economaidd ledled y DU yn adrodd hanes cyson o anghyfartaleddau gofodol eang sy'n ehangu. Ond mae metrigau eraill yn adrodd hanes mwy amwys o ran graddfa a lleoliad y gwahaniaethau hyn. Fel y mae Ffigur 1.16 yn ei ddangos, er bod cydberthynas cadarnhaol cryf rhwng llawer o fesurau perfformiad gofodol mae gan rai, megis boddhad â bywyd ac ansawdd tai (a fesurir ar ffurf nifer yr ystafelloedd y pen), gydberthynas negyddol.

### Ffigur 1.16 Y gydberthynas rhwng cynhyrchiant llafur (gwerth ychwanegol gros fesul awr a weithiwyd) a metrigau eraill[38]

| | Cynhyrchiant | Incwm gwario | Addysg | Band eang | Disgwyliad oes | Cyflogaeth | Trosiant pleidleiswyr | Cyfradd lladdiadau | Boddhad â bywyd | Rhwydwaith canfyddedig | Nifer yr ystafelloedd y pen |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynhyrchiant | 1.00 | | | | | | | | | | |
| Incwm gwario | 0.92 | 1.00 | | | | | | | | | |
| Addysg | 0.85 | 0.89 | 1.00 | | | | | | | | |
| Band eang | 0.58 | 0.72 | 0.65 | 1.00 | | | | | | | |
| Disgwyliad oes | 0.51 | 0.72 | 0.50 | 0.51 | 1.00 | | | | | | |
| Cyflogaeth | 0.40 | 0.67 | 0.62 | 0.67 | 0.55 | 1.00 | | | | | |
| Trosiant pleidleiswyr | 0.31 | 0.52 | 0.29 | 0.70 | 0.18 | 0.79 | 1.00 | | | | |
| Cyfradd lladdiadau | -0.16 | -0.28 | -0.20 | -0.10 | -0.28 | -0.26 | -0.23 | 1.00 | | | |
| Boddhad â bywyd | -0.27 | -0.12 | -0.12 | 0.17 | -0.12 | 0.10 | 0.40 | -0.05 | 1.00 | | |
| Rhwydwaith canfyddedig | -0.50 | -0.42 | -0.39 | 0.19 | -0.31 | -0.21 | 0.19 | 0.36 | 0.70 | 1.00 | |
| Nifer yr ystafelloedd y pen | -0.59 | -0.46 | -0.37 | -0.26 | -0.28 | 0.18 | 0.07 | 0.10 | -0.30 | -0.03 | 1.00 |

38 Zymek, R., Jones B. *UK Regional Productivity Differences: An Evidence Review*. Y Cyngor Strategaeth Ddiwydiannol. 2020.

**Gan edrych ar incymau gwario ar ôl costau tai, nid Llundain sy'n perfformio orau mwyach**

Er enghraifft, mae anghyfartaleddau gofodol yn edrych yn llai dramatig pan fo mesurau yn seiliedig ar ble mae pobl yn byw, yn hytrach na lle maent yn gweithio. Mae cynhyrchiant (Gwerth Ychwanegol Gros fesul awr a weithiwyd) mewn rhai rhannau o ganol Llundain sawl gwaith yn fwy na rhannau eraill o'r DU. Fodd bynnag, mae cryn dipyn o'r incwm yn mynd i bobl nad ydynt yn byw yn y man lle maent yn gweithio. Mae incymau canol Llundain a fesurir ar sail *breswylio*, er yn uchel o hyd, "ond" 75% uwchlaw cyfartaledd y DU.[39]


Y tu hwnt i'r effeithiau cymudo hyn, mae costau ehangach hefyd yn effeithio ar raddfa anghyfartaleddau gofodol. Mae incwm aelwydydd yn seiliedig ar fwy na chyflog. Mae'n cynnwys mathau eraill o incwm (incwm buddsoddi, budd-daliadau lles a thaliadau pensiwn) a'r dreth a delir. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cynnal arolwg manwl o incwm gwario aelwydydd, wedi'i addasu yn ôl nifer y bobl sy'n byw ym mhob cartref.[40] Gan ddefnyddio'r data hyn, mae Ffigur 1.17 yn dangos sut mae anghyfartaleddau gofodol yn amrywio wrth edrych ar incymau aelwydydd, ac effeithiau ystyried costau tai. Mae'r ffaith bod rhai rhannau o Lundain yn perfformio'n llawer gwell na rhanbarthau eraill yn lleihau pan ystyrir costau tai. A chan ystyried costau tai, sy'n llawer uwch mewn rhanbarthau sy'n perfformio'n dda, mae'r gwahaniaethau hyn yn culhau ymhellach. Mae'r gwahaniaeth rhwng incymau gwario canolrifol Llundain a gogledd-ddwyrain Lloegr yn crebachu o 25% i 11%.[41] Yn wir, gan edrych ar incymau gwario ar ôl costau tai, nid Llundain sy'n perfformio orau mwyach.[42]




39 Allas, T. *Metrics Matter: how (not) to measure regional inequalities*. postiad blog. 2021.
40 Yr Adran Gwaith a Phensiynau. *Households below average income: 1994/95 to 2017/18*. 2019.
41 Yr Adran Gwaith a Phensiynau. *Households Below Average Income statistics downloaded from DWP Stat Xplore*. 2021.
42 Harari, D. *How big are regional economic inequalities in the UK?*. 2020.

## Ffigur 1.17 Mesurau incwm a chynhyrchiant o gymharu â chyfartaledd y DU, gwledydd a rhanbarthau'r DU, 2019[43]

**Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen a gwerth ychwanegol gros fesul awr a weithiwyd, 2019**




**Incwm aelwydydd cyn ac ar ôl costau tai yn ôl rhanbarth ITL1, 2017/18 – 2019/20**




43 SYG. *Subregional productivity in the UK: July 2021*. 2021. Defnyddir ar y cyd â: Yr Adran Gwaith a Phensiynau. *Households Below Average Income statistics downloaded from DWP Stat Xplore*. 2021.

> **Ar rai mesurau, mae gan lleoedd ffyniannus y lefelau isaf o foddhad â bywyd**

Gan symud o incwm i fesurau boddhad â bywyd neu lesiant, mae'r gwahaniaethau daearyddol o ran perfformiad yn wahanol eto. Ar rai mesurau, mae'r patrymau hyn ben i waered. Fel y mae Ffigur 1.18 yn ei ddangos, mae gan y lleoedd mwyaf cynhyrchiol ac, ar rai mesurau, y lleoedd mwyaf ffyniannus, y lefelau isaf o foddhad â bywyd.


Mae'r gwahaniaethau hyn yn parhau hyd yn oed ar ôl rheoli ar gyfer nodweddion personol ac economaidd, megis oedran (Ffigur 1.19).[44] Mae hyn yn enghraifft bwerus o bwysigrwydd ffactorau y tu hwnt i incwm, megis iechyd meddyliol a chorfforol pobl, ansawdd gwaith a thai, a chydberthnasau wrth egluro eu profiadau go iawn mewn lleoedd gwahanol.[45] Mae hefyd yn dangos bod costau anghydraddoldeb gofodol i'w gweld yng nghanolfannau economaidd gorlawn y DU, megis Llundain, yn ogystal ag ardaloedd sy'n ei chael hi'n anodd.



44 Gweler er enghraifft: Bangham, G. *Happy now?: Lessons for economic policy makers from a focus on subjective well-being*. Resolution Foundation. 2019.


45 Clark, A., Flèche, S., Layard, R., Powdthavee, N., a Ward, G. *The origins of happiness.* Gwasg Prifysgol Princeton. 2018.; Layard, R., a Ward, G. *Can we be happier?: Evidence and ethics.* Penguin Books UK. 2021; Clark, A., Fleche, S., Layard, R., Powdthavee, N., Ward, G. *Origins of happiness: Evidence and policy implications.* 2016.

## Ffigur 1.18 Boddhad mewn bywyd, awdurdodau lleol y DU, 2020[46]




46 SYG. *Annual personal well-being estimates*. 2021.

### Ffigur 1.19 Penderfynyddion boddhad mewn bywyd: Cymarebau ods ffactorau sy'n effeithio ar foddhad mewn bywyd, y DU, mis Ebrill 2016 i fis Mawrth 2017[47]




47 SYG. *Personal and economic well-being: what matters most to our life satisfaction?*. 2019.

## 1.2.4 Anghyfartaleddau daearyddol ar lefel leol

Mae anghyfartaleddau daearyddol ledled y DU yn hyper-leol. Nid yw daearyddiaeth economaidd y DU yn cydymffurfio â stereoteipiau gofodol syml, megis trefol/gwledig, de/gogledd neu ddinas/tref. Fel rheol, mae'r gwahaniaethau *o fewn* rhanbarthau neu ddinasoedd y DU yn aml yn fwy na'r gwahaniaethau rhwng rhanbarthau ar gyfer y mwyafrif o fetrigau perfformiad (Ffigur 1.20). Mae gan ddaearyddiaeth economaidd y DU batrwm ffractal, lle mae gwahaniaethau gofodol yn efelychu eu hunain ar lefelau uwch o gydrannau daearyddol.

Yn aml, mae'r gwahaniaethau hyn yn fawr hyd yn oed o fewn ardal ddaearyddol gyfyngedig, megis bwrdeistref neu ddosbarth. Mae Ffigurau 1.21 ac 1.22 yn ystyried mapiau hynod ronynnog o amddifadedd incwm mewn dwy ardal ddaearyddol fach - Kensington a Chelsea, a Middlesbrough - gan ddangos anghyfartaleddau mawr mewn canlyniadau o fewn ardaloedd cyfagos.


I ryw raddau, caiff y patrwm hwn ei adlewyrchu ledled llawer o'n dinasoedd mwyaf yn y DU. Yn gyffredinol, awdurdodau lleol trefol â mwy o amddifadedd incwm sydd â'r anghyfartaleddau mewnol mwyaf.[48] Dengys Ffigur 1.23, mewn lleoedd â mwy o amddifadedd yn gyffredinol, fod cymdogaethau cymharol difreintiedig a chefnog yn aml yn dangos mwy o glystyru. Er bod Llundain yn bwerdy economaidd, mae'n cynnwys cryn dipyn o amddifadedd.[49]

> **Mae'r gwahaniaethau o fewn rhanbarthau neu ddinasoedd y DU yn aml yn fwy na'r gwahaniaethau rhwng rhanbarthau**




48 SYG. *Exploring local income deprivation.* 2021.
49 Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. *Index of Multiple Deprivation*, 2019.

## Ffigur 1.20 Gwerth ychwanegol gros fesul swydd a lenwyd, awdurdodau lleol yn ôl gwledydd a rhanbarthau'r DU, 2019[50]





## Ffigur 1.21 Amddifadedd incwm yn Kensington a Chelsea[51]





50 SYG. *Subregional productivity: labour productivity indices by UK ITL2 and ITL3 subregions*. 2021.
51 SYG. *Exploring local income deprivation*. 2021.

### Ffigur 1.22 Amddifadedd incwm yn Middlesbrough[52]




### Ffigur 1.23 Amddifadedd incwm yn ôl Moran's I, awdurdodau lleol yn Lloegr, 2019[53]




52 SYG. *Exploring local income deprivation*. 2021.

53 SYG. *Mapping income deprivation at a local authority level* 2021.
Noder: Mae Moran's I yn mesur hunangydberthynas ofodol. Mae ystod gwerthoedd Moran's I yn amrywio o -1 i +1, lle mae +1 yn cynrychioli cryn glystyru, ac mae -1 fel bwrdd gwyddbwyll, lle ceir cymysgedd cwbl unffurf o gymdogaethau amddifadedd uchel ac isel.


## 1.2.5 Anghyfartaleddau daearyddol dros amser


Mae gwahaniaethau daearyddol yn hirdymor: maent yn "sticlyd" iawn yn y DU, gyda llwyddiannau a methiannau gofodol ill dau yn dibynnu ar hanes i raddau sylweddol. Dros y 120 mlynedd diwethaf, er bod y bwlch rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf cynhyrchiol wedi amrywio, nid yw'r safleoedd cymharol ledled y DU wedi newid fawr ddim (Ffigur 1.14). Mae'r un peth yn wir am gyflogaeth, lle mae ardaloedd megis Cymru a gogledd-ddwyrain Lloegr yn perfformio'n gyson is na Llundain a de-ddwyrain Lloegr (Ffigur 1.24).

Mae hyn hefyd yn wir am ganlyniadau iechyd. Mae Ffigur 1.25 yn nodi disgwyliad oes adeg geni dros amser yn rhanbarthau Lloegr rhwng 1991 a 2014. Fel mesurau economaidd, mae iechyd yn fesur sefydlog iawn, ac nid yw anghyfartaleddau wedi newid fawr ddim dros y cyfnod hwn. Mae hyn yn awgrymu creithiau hirdymor mewn rhai mannau sy'n perfformio'n wael ar draws mesurau economaidd, mesurau cymdeithasol a mesurau iechyd.



### Ffigur 1.24 Cyfraddau cyflogaeth, Rhanbarthau Ystadegol Safonol Prydain, 1901 i 1971;[54] cyfradd cyflogaeth (16+), gwledydd a rhanbarthau'r DU, 2004 i 2020[55]








54 Lee, C.H. *British Regional Employment Statistics 1841-1971*. Gwasg Prifysgol Caergrawnt. 1979. Cymerwyd o: Lee, C. H. *Regional Employment Statistics Series A and B 1841-1971*. ESCO. Rhanbarthau Ystadegol Safonol oedd prif ddosbarthiad ystadegau rhanbarthol ar gyfer Lloegr cyn mabwysiadu Swyddfeydd Rhanbarthol y Llywodraeth ym 1994. Roedd wyth Rhanbarth Ystadegol Safonol, ac roedd Llundain Fwyaf yn rhan o ranbarth de-ddwyrain Lloegr, yn hytrach na bod yn rhanbarth ar ei ben ei hun fel sy'n wir heddiw. At hynny, mae 'gogledd Lloegr' o dan yr hen Ranbarthau Ystadegol Safonol yn cyfeirio at 'ogledd-ddwyrain Lloegr' fel y mae heddiw a Cumbria – gweler Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin. *The New Statistical Regions*, 1997. Mae data 1941 ar goll felly defnyddiwyd y cyfartaledd rhwng 1931 a 1951: Geary, F., Stark, T. *150 years of Regional GDP: United Kingdom and Ireland*. 2018.


55 SYG. *Annual Population Survey*. NOMIS. Cyrchwyd: 25 Tachwedd 2021. 2021.

## Ffigur 1.25 Disgwyliad oes adeg geni, gwledydd a rhanbarthau'r DU, 2001-2003 i 2016-18[56]

### Disgwyliad oes adeg geni ar gyfer Dynion, 2001-2003 i 2016-2018




### Disgwyliad oes adeg geni ar gyfer Menywod, 2001-2003 i 2016-2018





56 SYG. *Life Expectancy at Birth and at Age 65 by Local Areas in England and Wales*. 2015.

## 1.2.6 Dinasoedd a chynhyrchiant

Mae dinasoedd yn chwarae rolau sylfaenol wrth sicrhau twf, gan gyfrif am gyfran fawr o allbwn economaidd, ac maent yn hollbwysig i'w heconomïau rhanbarthol. Fodd bynnag, mae patrwm a pherfformiad dinasoedd mawr y DU yn wahanol i wledydd eraill. Un gwahaniaeth pwysig yw dylanwad Llundain, dinas fwyaf y DU, yn berthynol i'r ail haen, o ran poblogaeth a pherfformiad. Mae tystiolaeth bod rhai o ddinasoedd y DU yn dueddol o danberfformio o gymharu ag ardaloedd trefol o faint tebyg mewn gwledydd eraill.[57] Mae Ffigur 1.26 yn nodi'r gydberthynas rhwng gwerth ychwanegol gros fesul gweithiwr a'r boblogaeth ledled amrywiaeth o ddinasoedd yng ngorllewin Ewrop. Mae'r gydberthynas hon ar oleddf cadarnhaol y tu allan i'r DU. I ddinasoedd yn y DU, mae'r gydberthynas hon yn llai clir. O ystyried maint y boblogaeth, ymddengys fod nifer o ddinasoedd yn y DU – yn cynnwys Birmingham, Manceinion, Leeds a Newcastle – yn perfformio'n waeth na dinasoedd tebyg ledled y byd.


### Ffigur 1.26 Gwerth ychwanegol gros fesul awr vs. maint y boblogaeth, dinasoedd dethol yng ngorllewin Ewrop, 2011[58]





Mae Ffigur 1.27 yn cymharu cynhyrchiant ac allbwn y pen Dinasoedd Craidd y DU â rhai gwledydd eraill.[59] Dengys fod dinasoedd ail haen yn y DU ar ei hôl hi o gymharu â dinasoedd ail haen mewn gwledydd eraill, a hefyd ar ei hôl hi o gymharu â chyfartaledd cenedlaethol y DU. Mae hyn yn awgrymu cryn dipyn o danberfformio ymhlith dinasoedd y DU o gymharu â'u potensial.

57 Swinney, P. *So you want to level up?*. Centre for Cities. 2021.
58 SYG. *Eurostat; Centre for Cities' calculations*.
59 Diffinnir fel Belfast, Birmingham, Bryste, Caerdydd, Glasgow, Leeds, Lerpwl, Manceinion, Newcastle, Nottingham, a Sheffield. Ffynhonnell: OECD. *Enhancing Productivity in UK Core Cities*. 2020.

### Ffigur 1.27 Cynhyrchiant mewn Dinasoedd Craidd o gymharu â dinasoedd ail haen mewn gwledydd eraill, 2016[60]




Sylwer: Mae'r ffigur yn nodi'r cynhyrchiant llafur cyfartalog (wedi'i fesur yn ôl gwerth ychwanegol gros fesul gweithiwr mewn USD PPP) mewn dinasoedd ail haen o gymharu â chynhyrchiant cyfartalog ledled Dinasoedd Craidd. Ystyrir y dinasoedd mwyaf y tu allan i'r brifddinas, y mae data ar gael ar eu cyfer, yn ddinasoedd ail haen. Mae'r data yn cyfeirio at ardaloedd trefol swyddogaethol.





Sylwer: Gwerth ychwanegol gros cyfartalog fesul gweithiwr yn y 10 ardal drefol swyddogaethol fwyaf y tu allan i ardal drefol swyddogaethol fwyaf gwlad o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol. Dim ond gwledydd ag 11 neu fwy o ardaloedd trefol swyddogaethol â mwy na 250,000 o drigolion a ddangosir.

60 OECD. *Enhancing Productivity in UK Core Cities: Connecting Local and Regional Growth*. OECD Urban Policy Reviews. OECD Publishing. 2020.

Mae sawl rheswm dros hyn, yn amrywio o ddosbarthiad sgiliau i effeithiau cyfunol dwysedd y boblogaeth a seilwaith trafnidiaeth. Mae gan ddinasoedd sy'n perfformio'n dda iawn fwy o weithwyr medrus a thelir cyflogau uwch. Yn gyffredinol mae gan ail ddinasoedd y DU lai o boblogaeth a seilwaith trafnidiaeth lleol cymharol wael.[61] Nododd Centre for Cities, er enghraifft, y gall 67% o bobl yn Ewrop gyrraedd canol eu dinas leol mewn 30 munud ar drafnidiaeth gyhoeddus, o gymharu â 40% ym Mhrydain. Mae hyn yn awgrymu y gall trafnidiaeth gyhoeddus mewn dinasoedd yn y DU gyfyngu ar gynhyrchiant drwy leihau dwysedd effeithiol ac, o ganlyniad, gydgrynhoi.[62] Fel y mae Ffigur 1.28 yn ei ddangos, mae poblogaethau dinasoedd yn y DU yn llawer is na dinasoedd mewn gwledydd tebyg, gan adlewyrchu i raddau helaeth lai o boblogaeth yn ail ddinasoedd y DU y tu allan i Lundain.

### Ffigur 1.28 Dwysedd y boblogaeth mewn ardaloedd trefol (heb gynnwys ardaloedd trefol â llai na 10,000 o bobl fesul cilomedr sgwâr), y DU a gwledydd eraill yng ngorllewin Ewrop[63]




61 Mae'r siart yn defnyddio Prif Ardaloedd Trefol fel diffiniadau o ddinasoedd yn hytrach nag Ardaloedd Teithio i'r Gwaith. Ffynhonnell: Rodrigues, G., Breach, A. Measuring up: Comparing public transport in the UK and Europe's biggest cities.

62 Centre for Cities 2021. *Measuring Up: Comparing public transport in the UK and Europe's biggest cities*. 2021

63 Quinio, V., Rodrigues, G. *Cities need to become denser to achieve net zero: Figure 7. Net zero: decarbonising the city*. Centre for cities. 2021.


THE SHOP THAT MUST NOT BE NAMED
THE GIFT GALLERY

### 1.2.7 Gwahaniaethau daearyddol a symudedd cymdeithasol

Mae lle mae pobl yn tyfu i fyny yn cael effaith barhaol ar eu cyfleoedd mewn bywyd. Dengys y dystiolaeth fod daearyddiaeth yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o ddeall y gwahaniaethau rhwng gwahanol grwpiau o bobl.[64] Mae lefelau isel o symudedd cymdeithasol ledled y DU yn dangos bod cefndir y teulu yn bwysig. Mae rhagolygon plant o gefndiroedd difreintiedig yn waeth o ran swyddi ac incwm.[65] Mae'r gwahaniaethau hyn wedi cynyddu yn sgil COVID-19.[66] Ond mae lle mae plant yn byw hefyd yn effeithio ar eu gallu i ddatblygu. Mae Ffigur 1.29 yn nodi enillion canolrifol yn 28 oed i fechgyn a oedd yn cael prydau ysgol am ddim ledled gwahanol rannau o Loegr. Mae gwahaniaethau mawr, sy'n cyfateb i berfformiad economaidd at ei gilydd.


Ar gyfer y bobl fwyaf difreintiedig sy'n byw yn y rhannau mwyaf difreintiedig, mae'r effeithiau hyn yn cyfuno, yn rhannol gan adlewyrchu'r ffaith bod pobl mewn mannau sy'n perfformio'n wael yn dueddol o fod y lleiaf symudol yn ddaearyddol.[67] Mae daearyddiaeth a chefndir ethnig yn aml yn gorgyffwrdd i waethygu canlyniadau gwael.[68] Mae pobl o grwpiau ethnig Pacistanaidd a Bangladeshaidd dros deirgwaith yn fwy tebygol o fyw yn y 10% o gymdogaethau mwyaf amddifad o ran incwm na phobl Brydeinig wyn.[69]

Er bod gan ddaearyddiaeth gryn ddylanwad ar gyflogau, felly hefyd ffactorau rhyngbersonol eraill megis anabledd. Ar lefel berthynol, mae pobl anabl yn llai tebygol o fod wedi'u cyflogi ac roedd bwlch cyflogaeth pobl anabl, sef y gwahaniaeth yng nghyfradd cyflogaeth pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl, 28.1 pwynt canran yn Ch3 2021.[70] Mae bwlch cyflogaeth pobl anabl yn fwy yn achos pobl heb gymwysterau, o gymharu â phobl â gradd – 39.2 pwynt canran o gymharu â 13.2 pwynt canran.[71]

> **“Mae lle mae pobl yn tyfu i fyny yn cael effaith barhaol ar eu cyfleoedd mewn bywyd”**

64 Y Comisiwn ar Anghyfartaleddau Hiliol ac Ethnig. *Commission on Race and Ethnic Disparities: report*. 2021
65 Y Comisiwn ar Symudedd Cymdeithasol. *The long shadow of deprivation: differences in opportunities*. 2020.
66 Yr Addewid Symudedd Cymdeithasol. *About the Social Mobility Pledge*. Cyrchwyd: Ionawr 2022.
67 (Gweler adran 1.6)
68 Y Comisiwn ar Anghyfartaleddau Hiliol ac Ethnig. *Commission on Race and Ethnic Disparities: report*. 2021
69 MHCLG. *Ethnicity Facts and Figures: People living in deprived neighbourhoods*. Mehefin 2020.
70 SYG. A08: *Labour market status of disabled people*. 2021.
71 Yr Adran Gwaith a Phensiynau. *The employment of disabled people 2021*. 2021.

**Ffigur 1.29 Enillion canolrifol yn 28 oed i fechgyn a oedd yn cael prydau ysgol am ddim yn 16 oed, ar draws awdurdodau lleol yn Lloegr lle gwnaethant dyfu i fyny[72]**




72 Y Comisiwn ar Symudedd Cymdeithasol. *The long shadow of deprivation: differences in opportunities*. 2020.

## 1.2.8 Clystyru daearyddol ac economaidd

Defnyddir y term *clwstwr* i ddisgrifio'r crynhoad daearyddol o gwmnïau a sefydliadau rhyng-gysylltiedig.[73] Ecosystemau lle mae pobl yn cwrdd ac yn cyfnewid syniadau, nwyddau a gwasanaethau fel rhan o gadwyni cyflenwi cyffredin yw clystyrau. Drwy gael eu lleoli yn agos at ei gilydd, mae cwmnïau yn cael budd o arbenigedd, cyllid a gweithwyr medrus yr ardal, ynghyd â'i mynediad at gyflenwyr cydrannol a'i sianeli i ledaenu gwybodaeth ac arloesedd.

Mae clystyrau yn dangos nad dim ond yr hyn sy'n digwydd *y tu mewn* i gwmnïau sy'n bwysig. Mae'r system economaidd sydd o'u hamgylch hefyd yn chwarae rôl bwysig o ran creu swyddi, twf a chynhyrchiant. Mae clystyrau o weithgarwch diwydiannol yn cyd-fynd â mesurau gwerth ychwanegol economaidd, gan ddangos eu dylanwad o ran llywio swyddi medrus, cynhyrchiant a chynnyrch domestig gros mewn mannau. Yn aml, maent yn agos at sefydliadau addysg uwch, fel canolfannau ymchwil a datblygu.

Mae clystyrau yn nodwedd gyffredin o fewn daearyddiaethau economaidd ledled y byd. Ledled y DU, mae sawl crynodiad o glystyrau economaidd-arwyddocaol yn ymwneud â gweithgarwch economaidd (Ffigur 1.30), megis y diwydiant awyrofod yng ngogledd-orllewin Lloegr, y Cwm Chwaraeon Moduro (y crynodiad o gwmnïau chwaraeon moduro a leolir o amgylch Canolbarth Lloegr a Swydd Rydychen), a TG o amgylch coridor yr M4. Ceir sawl clwstwr o weithgarwch economaidd sydd wedi hen sefydlu neu sy'n dod i'r amlwg ledled y DU.

Yn aml lleolir y clystyrau economaidd hyn yn agos at sefydliadau addysg uwch a sefydliadau ymchwil (Ffigur 1.30), lle mae gan y DU gryfderau penodol gan fod 18 o'r 100 o brifysgolion mwyaf yn y byd yma.[74] Mae'r pwerdai ymchwil hyn yn y DU yn aml yn torri tir newydd o ran datblygu technolegau newydd, a gaiff eu hymledu a'u masnacheiddio wedyn gan gwmnïau preifat sy'n gweithio mewn partneriaeth â nhw i greu clwstwr. Mae prifysgolion a sefydliadau addysg uwch y DU, yn ogystal â sefydliadau megis catapyltiau arloesi a rhwydweithiau trosglwyddo gwybodaeth, yn helpu cwmnïau i ddatblygu a masnacheiddio cynhyrchion a gwasanaethau arloesol, gan roi hwb i swyddi, cynhyrchiant, incymau a chystadleurwydd rhyngwladol.[75]

> **“Mae'r system economaidd sydd o'u hamgylch hefyd yn chwarae rôl bwysig o ran creu swyddi, twf a chynhyrchiant”**




73 Porter, M.E. *The Competitive Advantage of Nations*. Harvard Business Review. 1990.

74 *QS World University Rankings*. 2022.

75 Monaghan, D. *Empowering small and modern universities to help regional levelling up*. Yn y Ganolfan Anghydraddoldeb a Ffyniant Bro. *Levelling Up: What is it and can it work?*. 2022.

## Ffigur 1.30 Map dangosol o glystyrau a chryfderau sectoraidd y DU[76]




Dyma fap dangosol, nad yw'n gynhwysfawr, o glystyrau a chryfderau sectoraidd y DU

76 Mae'r map yn dangos 20 o leoliadau yn y DU lle nodwyd bod blaenoriaethau buddsoddi posibl a lle gellid defnyddio asedau economaidd sy'n bodoli eisoes i sicrhau ffyniant bro. 2021.

**(a) Aberdeen**
- Olew a Nwy
- Gwyddorau Bywyd
- Ynni Adnewyddadwy ac Amgen

**(b) Llain Ganol Glasgow- Caeredin**
- Gwyddorau Bywyd
- Data, Deallusrwydd Artiffisial (AI), Technoleg Ariannol a Roboteg
- Sefydliadau Prifysgol Cryf

**(c) Gogledd Iwerddon**
- Technoleg Ariannol a Seiber
- Gwyddorau Bywyd ac Iechyd
- Gweithgynhyrchu Uwch

**(d) Gogledd-ddwyrain Lloegr**
- Modurol
- Gweithgynhyrchu uwch a gwyddorau bywyd
- Prifysgolion a chanolfannau ymchwil

**(e) Tees Valley**
- Porthladd Rhydd Teesworks
- Catapwlt gweithgynhyrchu uwch
- Cemegau ac ynni carbon isel

**(f) Gorllewin Swydd Efrog**
- Meditech – GIG Lloegr
- Prifysgolion Leeds a Bradford
- Technoleg Ariannol

**(g) Awdurdod Cyfunol Manceinion Fwyaf**
- Seiber
- Prifysgol Manceinion
- Gwyddorau Bywyd

**(h) De Swydd Efrog**
- Ymchwil Sero Net ac Ynni
- Catapwlt Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel a Chanolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch Prifysgol Sheffield
- Iechyd a Lles

**(i) Aber Afon Humber**
- Porthladd Rhydd
- Gwynt ar y Môr
- Diwydiannau proses ac ynni ddwys

**(j) Menai-Mersi-Dyfrdwy**
- Porthladd Rhydd
- Gweithgynhyrchu – Stanlow, Stellantis
- Ymchwil i frechlynnau a'u cyflwyno

**(k) Stoke a Swydd Stafford**
- Cerameg
- Gweithgynhyrchu Uwch
- Prifysgol Keele

**(l) Nottingham-Derby**
- Gweithgynhyrchu uwch – Rolls Royce, Alstom a Toyota
- Prifysgol Nottingham
- Porthladd Rhydd Dwyrain Canolbarth Lloegr

**(m) Caerlŷr a Swydd Gaerlŷr**
- Technoleg lloeren ac awyrofod – y Ganolfan Ofod Genedlaethol
- Prifysgolion Caerlŷr a Loughborough
- Porthladd Rhydd Dwyrain Canolbarth Lloegr

**(n) Cwm Seiber**
- Seiber - GCHQ
- Sgiliau ac Arloesedd
- Technoleg

**(o) East Anglia**
- Twf Glân
- Asedau arloesi a chatapyltiau
- Porthladd Rhydd Dwyrain Lloegr

**(p) Porth y Gorllewin (Bryste – Abertawe)**
- Awyrofod - Airbus
- Lled-ddargludyddion
- Prifysgolion Abertawe, Bryste, Caerdydd a Chaerfaddon

**(q) Awdurdod Cyfunol Gorllewin Canolbarth Lloegr**
- Modurol – JLR, WMG, Aston Martin
- Prifysgolion Birmingham a Warwick
- Catapwlt gweithgynhyrchu uwch

**(r) Aber Afon Tafwys**
- Ynni glân/gwynt ar y môr
- Porthladdoedd
- Logisteg

**(s) Coridor Twf M5 Caerwysg**
- Awyrofod a niwclear
- Prifysgolion Caerwysg a Plymouth
- Ymreolaeth Forol

**(t) Solent**
- Arbenigeddau porthladd a morwrol
- Masnach
- Prifysgolion Southampton, Portsmouth a Solent

## 1.3 Egluro Daearyddiaethau Economaidd

Mae'r patrymau perfformiad economaidd a chymdeithasol ledled gwahanol rannau o'r DU yn gyfoethog, yn gymhleth ac yn hynod ronynnog. Ar eu pen eu hunain, fodd bynnag, nid yw'r patrymau hyn yn datgelu prif sbardunau'r gwahaniaethau yn naearyddiaeth economaidd y DU. Mae angen gwneud hynny er mwyn nodi'r camau polisi y mae angen eu cymryd i wrthdroi'r gwahaniaethau gofodol hyn.

Drwy ddefnyddio ymchwil sy'n bodoli eisoes, gall y sbardunau twf economaidd hyn gael eu nodi. Mae'r ymchwil hon yn rhychwantu disgyblaethau sy'n cynnwys economeg, hanes, daearyddiaeth, cymdeithaseg a gwyddor cymhlethdod. Drwy ddilyn trywydd amlddisgyblaethol, gellir creu darlun cynhwysfawr o ddaearyddiaeth economaidd y DU.

> **“Mae'r patrymau perfformiad economaidd a chymdeithasol ledled gwahanol rannau o'r DU yn gyfoethog, yn gymhleth ac yn hynod ronynnog”**

### 1.3.1 Damcaniaeth twf economaidd

Mae damcaniaeth twf economaidd yn rhoi amlygrwydd i rôl cynhyrchiant (y swm a gynhyrchir fesul uned o allbwn) fel sbardun twf economaidd yn y tymor hwy.[77] Fel y dywedodd Krugman (1994): “A country's ability to improve its standard of living over time depends almost entirely on its ability to raise its output per worker.”[78] Caiff y ddamcaniaeth hon ei hategu'n dda gan dystiolaeth o gyfnodau hir o hanes ac ystod eang o wledydd. Ar y lefel is-genedlaethol, mae cydberthynas gadarnhaol glir rhwng mesurau incwm aelwydydd y pen a chynhyrchiant (Ffigur 1.31).

Mae damcaniaeth twf economaidd yn categoreiddio sbardunau cynhyrchiant yn fuddsoddiad mewn gwahanol gyfalaf.[79] Mae hynny'n cynnwys buddsoddiad mewn *cyfalaf ffisegol*: peiriannau, tai a seilwaith. Hefyd mae'n aml yn cynnwys buddsoddiad mewn *cyfalaf dynol*: gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau'r gweithlu. Y mwyaf y buddsoddiad mewn cysylltedd, awtomeiddio a sgiliau, y mwyaf y bydd cynhyrchiant prosiect, lle neu genedl, gan godi safonau byw yn yr hirdymor.

Mae fersiynau mwy diweddar o'r model twf economaidd safonol wedi ehangu'r amrywiaeth o gyfalaf sy'n berthnasol i lywio cynhyrchiant a thwf economaidd. Mewn economi sy'n fwyfwy seiliedig ar wybodaeth, rhoddwyd mwy o amlygrwydd i fesurau *cyfalaf anniriaethol*: arloesedd, syniadau, patentau.[80] Gellir ychwanegu pedwerydd at y tri chyfalaf hyn sef *cyfalaf ariannol* i gefnogi eu cyllido.

Mae tystiolaeth empiraidd yn ategu'n gryf gyfalaf ffisegol, cyfalaf dynol, cyfalaf anniriaethol a chyfalaf ariannol fel sbardunau cynhyrchiant a thwf economaidd. Mae cydberthynas gadarnhaol glir rhwng mesurau stoc cyfalaf ffisegol cwmnïau, lefel cyrhaeddiad addysgol y gweithlu a lefelau cynhyrchiant, ar lefel genedlaethol ac ar lefel is-genedlaethol.[81] Hefyd mae cydberthynas gadarnhaol rhwng cael gafael ar gyllid a chynhyrchiant is-genedlaethol.[82]

77 Solow, R. M. *A Contribution to the Theory of Economic Growth*. The Quarterly Journal of Economics, cyf. 70(1), tt. 65-94. Gwasg Prifysgol Rhydychen.1956.; Swan, T. W. *Economic growth and capital accumulation*. Economic Record, 32 (2), tt. 334–361. 1956.

78 Krugman, P. *The age of diminished expectations*. Cambridge, MA: Gwasg MIT. 1994.


79 Acemoglu, D. *The Solow Growth Model*. Introduction to Modern Economic Growth. Gwasg Prifysgol Princeton. 2009.

80 Haskel, J., Westlake, S. *Capitalism Without Capital: The Rise of the Intangible Economy*. Gwasg Prifysgol Princeton. 2018.

81 Gardiner, B. et al. *Regional Disparities in Labour Productivity and the Role of Capital Stock*. The National Institute Economic Review. 253. 2020.

82 Lancheros, S. et al. *Financing productivity in the UK: Do sources of finance and geographical location matter?*. Productivity Insights Network (Blog). Cyrchwyd ym mis Rhagfyr 2021.

## Ffigur 1.31 Cynhyrchiant (gwerth ychwanegol gros fesul awr a weithiwyd) yn erbyn incwm (incwm gwario gros aelwydydd y pen), awdurdodau lleol Prydain Fawr, 2018[83]




83 SYG. *What are the regional differences in income and productivity?*. 2021.

Mewn agweddau eraill, fodd bynnag, nid yw'r dystiolaeth yn cyfateb i ddamcaniaeth twf safonol. Mae'r ddamcaniaeth hon yn awgrymu y dylai cydgyfeirio ddigwydd dros amser rhwng lleoedd incwm uchel ac isel, lle mae ardaloedd incwm isel yn profi mwy o dwf economaidd naill ai'n *ddiamod* neu'n *amodol*, unwaith yr ystyrir y fath gyfalaf.[84] Hefyd mae'n awgrymu, po isaf y lefel o incwm cychwynnol, y cyflymaf fydd yn dal i fyny neu'n cydgyfeirio.

Yn ymarferol, nid yw patrymau twf yn awgrymu bod cydgyfeirio yn digwydd, yn genedlaethol nac yn isgenedlaethol.[85] Yn achos gwledydd, mae tystiolaeth y gall llawer o wledydd incwm isel gael eu dal, am ddegawdau'n aml, mewn cylch twf isel.[86] Hefyd mae tystiolaeth o wledydd sydd wedi cyrraedd statws incwm canolig sy'n gweld eu twf economaidd yn arafu, a'r broses gydgyfeirio yn dod i ben. Dyma'r "trap incwm canol" fel y'i gwelir.[87]

> **Nid yw'r mathau o gyfalaf wedi'u dosbarthu'n deg ar draws y DU, gyda diffyg cyfalaf mewn lleoedd sydd wedi cael eu gadael ar ôl**

Caiff y patrymau hyn eu hadlewyrchu ar y lefel is-genedlaethol. Yn y DU, mae incymau mewn rhai o'r lleoedd tlotaf wedi dal i fyny â rhai mwy cyfoethog, gan beri cydgyfeirio. Ond mae hefyd nifer o enghreifftiau o leoedd incwm uchel lle mae twf economaidd wedi parhau'n gryf – ardaloedd sy'n "datblygu'n gadarn"; ac enghreifftiau o leoedd incwm isel lle na fu twf economaidd – ardaloedd sydd wedi cael eu "gadael ar ôl" (Ffigur 1.31).

Dros amser, mae nifer y lleoedd ledled y DU sydd naill ai'n "datblygu'n gadarn" neu'n cael eu "gadael ar ôl" wedi tueddu i gynyddu. Mae hyn yn dangos anghyfartaleddau daearyddol cynyddol y DU dros amser neu fethiant cydgyfeirio mewn lefelau o weithgarwch. Mae'r fath ddynameg yn awgrymu nad yw'r mathau o gyfalaf dan sylw wedi'u dosbarthu'n deg ledled y DU, a bod diffyg cyfalaf mewn lleoedd sydd wedi cael eu gadael ar ôl.

### 1.3.2 Daearyddiaeth economaidd newydd

Mae damcaniaeth twf safonol yn tybio bod buddsoddiadau, boed hynny mewn prosiectau neu leoedd, yn esgor ar lai o enillion po fwyaf eu maint. Gan dybio hyn, byddai disgwyl i bobl, busnesau a chyllid symud dros amser tuag at leoedd a phrosiectau nad ydynt yn perfformio cystal lle mae'r enillion yn uwch. Yn wir, y fath symud sy'n llywio'r dal i fyny neu'r cydgyfeirio ymhlith lleoedd incwm is.

Mae damcaniaethau Daearyddiaeth Economaidd Newydd a ddatblygwyd dros y 30 mlynedd diwethaf wedi bwrw amheuaeth ar y fath ddynameg.[88] Awgrymir bod enillion *cynyddol* wrth raddfa o ran buddsoddi, ar y lefel genedlaethol ac is-genedlaethol. Yn benodol, gall cydleoli pobl, busnesau a chyllid arwain at oferu cadarnhaol, neu arwain at gydgrynhoi fel y'i nodir yn gynharach yn y bennod, sy'n creu mwy o enillion po fwyaf yw maint a chwmpas y gweithgareddau.

84 Barro, R., Sala-i-Martin, X. *Economic Growth*. MIT. 2004.
85 Mankiw, N.G., Romer, D., Weil, D.N. *A contribution to the empirics and economic growth*. The Quarterly Journal of Economics, 107(2), tt.407-437. 1992.
86 Banc y Byd. *China 2030: Building a Modern, Harmonious, and Creative High-Income Society*, Banc y Byd. 2013.
87 Nelson, R. R. *A Theory of the Low-Level Equilibrium Trap in Underdeveloped Economies*. The American Economic Review, cyf. 46, rhif 5, Cymdeithas Economaidd America, tt. 894–908. 1956.
88 Gweler, er enghraifft: Krugman, P. *Geography and Trade*. Gwasg Prifysgol Leuven. 1991; Krugman, P. *Development, Geography and Economic Theory*. MIT. 1995; Martin, R., Sunley, P. *Slow convergence? Post-neo-classical endogenous growth theory and regional development*, Economic Geography 74(3), tt. 201–227. 1998; Fujita, M., Krugman, P. R., Venables, A J. *The Spatial Economy: Cities, Regions and International Trade*. Gwasg MIT. 1999.

Un enghraifft o effeithiau cydgrynhoi yw goferu gwybodaeth rhwng busnesau neu weithwyr. Mae'r rhain yn gwella arloesedd a'i ledaeniad.[89] Mae goferu cadarnhaol hefyd yn deillio o gael cronfa ddofn o sgiliau mewn man penodol, gan olygu bod modd cynnal proses chwilio a pharu pobl a swyddi mewn ffordd fwy effeithlon. Mae trydydd budd clystyru yn deillio o gadwyni cyflenwi symlach a mwy effeithlon. A daw pedwerydd o argaeledd cronfa ddofn ac amrywiol o arloesi cyllid i gyfalaf. Mae'r fath oferu yn creu enillion cynyddol wrth raddfa.

Yn ymarferol, mae symudiadau o ran pobl, busnesau a chyllid yn cefnogi'r fath ddynameg clystyru i raddau helaeth. Yn y DU, gwelir clystyru gweithgarwch economaidd clir mewn daearyddiaethau penodol. Hefyd mae proses "didoli gofodol" glir ar gyfer ffactorau tuag at leoedd sy'n perfformio'n dda iawn ac i ffwrdd o rai sy'n perfformio'n wael. Er enghraifft, mae gweithwyr hynod fedrus yn llawer mwy tebygol o symud, a gwneud hynny tuag at leoedd incwm uwch.

> **"Mae gweithwyr hynod fedrus yn llawer mwy tebygol o symud, a gwneud hynny tuag at leoedd incwm uwch"**

Mae'r effeithiau cydgrynhoi hyn, a'r symudiadau cysylltiedig o ran ffactorau, yn egluro pam mae gweithgarwch mewn lleoedd incwm uchel ac isel yn dueddol o wahanu yn hytrach na chydgrynhoi dros amser. Mae lleoedd sy'n perfformio'n dda yn cael budd o enillion cynyddol wrth raddfa gan eu bod yn denu busnesau, pobl a chyllid mewn cylch rhinweddol. Mae'r fframweithiau Daearyddiaeth Economaidd Newydd hyn yn dod yn agosach at egluro gwahaniaethau daearyddol ledled sy'n DU, lle mae effeithiau clystyru a chydgrynhoi cryf ymhlith lleoedd yn datblygu'n gadarn, a gwelir dirywiad secwlar mewn lleoedd a gaiff eu gadael ar ôl. Mae'r modelau hyn yn egluro elfennau creadigol a dinistriol dinistrio creadigol, fel grymoedd penodol sy'n effeithio ar leoedd mewn cylchoedd rhinweddol neu gylchoedd cythraul o gryfder neu ddiffyg twf.

### 1.3.3 Daearyddiaeth gymdeithasol a seilwaith cymdeithasol

Er gwaethaf y cynnydd hwn, dim ond egluro perfformiad gofodol yn rhannol a wna modelau Daearyddiaeth Economaidd Newydd. Er enghraifft, nid ydynt yn cyfrif am lefelau isel o foddhad â bywyd mewn dinas-ranbarthau cyfoethog. Mae'r lleoliadau a ddewisir o ran sgiliau, busnesau a chyllid yn cael eu llywio gan ffactorau cymdeithasol, yn ogystal â ffactorau economaidd. A dim ond un elfen sy'n dylanwadu ar brofiad go iawn rhywun yw iechyd economaidd. Mae iechyd, diogelwch, mannau gwyrdd, diwylliant ac ymddiriedaeth hefyd yn dylanwadu ar benderfyniadau pobl o ran ble i symud, a'u profiadau go iawn pan fyddant yno.

Ugain mlynedd yn ôl, disgrifiodd Robert Putnam rôl hanfodol colli ymddiriedaeth – *cyfalaf cymdeithasol* – wrth egluro'r dirywiad mewn cymunedau yn yr UD.[90] Mae ymchwil ddilynol wedi dangos bod cyfalaf cymdeithasol sydd wedi dirywio yn achosi ac yn adlewyrchu tanberfformiad lleoedd.[91] Er enghraifft, mae lefelau isel o gydweithredu ac ymddiriedaeth mewn cymunedau yn gwneud lleoedd yn llai deniadol i bobl, busnesau a chyllid.

89 Feldman, M.P. *Location and innovation: the new economic geography of innovation, spillovers and agglomeration*. Yn Clark, G.L., Feldman, M., Gertler, M.(gol). *The Oxford Handbook of Economic Geography*. Gwasg Prifysgol Rhydychen. 2000.
90 Putnam R.D. *Bowling Alone: The Collapse and Revival of American Community.* Simon & Schuster. 2000.
91 Hamilton, K., Helliwell, J. F., Woolcock, M. *Social capital, trust and well-being in the evaluation of wealth.* 2016.

> **Mae cyfalaf cymdeithasol a seilwaith cymdeithasol yn cynyddu grymoedd cydgrynhoi economaidd**

Yn aml mae gan ardaloedd â lefelau isel o gyfalaf cymdeithasol lefelau uchel o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, siopau a chyfleusterau chwaraeon a diwylliannol o ansawdd gwael, a phrin iawn yw'r mannau gwyrdd a grwpiau cymunedol. Mewn geiriau eraill, mae diffyg *seilwaith cymdeithasol* yn y lleoedd hyn hefyd i gefnogi cymunedau.[92] Mae hyn, yn ogystal, yn dueddol o'u gwneud yn llai deniadol i bobl a busnesau.

Mae cyfalaf cymdeithasol a seilwaith cymdeithasol yn cynyddu grymoedd cydgrynhoi economaidd. Mae tai, stryd fawr, a gweithgareddau hamdden a diwylliannol o ansawdd da yn fagned i bobl fedrus, gan olygu bod y lleoedd hyn yn parhau i ddatblygu'n gadarn. Yn hanesyddol, roedd diwylliant a chreadigrwydd wrth wraidd effaith Medici. Felly y mae mewn llawer o ddinasoedd mawr y byd heddiw.

Y ddynameg wrthgyferbyniol sydd ar waith mewn lleoedd sydd wedi cael eu gadael ar ôl. Yno, mae'r fath gyfalaf cymdeithasol a seilwaith cymdeithasol gwael yn arwain at strydoedd anniogel, nad ydynt yn lân, sefydliadau cymunedol a diwylliannol gwan, a chyfleusterau chwaraeon a hamdden gwael. Mae hyn yn gwaethygu'r grymoedd economaidd ac ariannol allgyrchol sy'n effeithio ar y lleoedd hyn.

Mae cysylltiad agos rhwng y fath gyfalaf cymdeithasol a seilwaith cymdeithasol a thrydedd elfen – *naratifau cymdeithasol*. Dyma'r straeon y mae pobl leol yn adrodd am eu cymunedau, a all fod yn gadarnhaol neu'n negyddol. Yn ogystal ag adlewyrchu eu cymunedau, gall y fath naratif cymdeithasol lywio ymddygiad, a phenderfyniadau economaidd ac ariannol.[93] Hefyd gall naratifau cymdeithasol gobeithiol a diobaith ddod yn wir i ryw raddau.

Gall cyfalaf a seilwaith cymdeithasol wan, a naratifau cymdeithasol diobaith, adlewyrchu methiant economaidd mewn lleoedd sydd wedi cael eu gadael ar ôl. Mae twf a rhagolygon gwaith gwan yn cynyddu lefelau troseddu, yn gwanhau sefydliadau dinesig ac yn esgor ar naratifau diobaith.[94] Ond mae tystiolaeth gref bod y fath ffactorau cymdeithasol yn sbardunau pwysig o ran cydgrynhoi yn eu rhinwedd eu hunain, gan ddylanwadu ar lle mae pobl yn byw a'u profiad go iawn yn eu cymunedau.[95]

Mae achosion gwrthgyferbyniol Llundain a Gogledd Iwerddon, o safbwynt economaidd a boddhad â bywyd, yn dangos pwysigrwydd ffactorau cymdeithasol. Ymddengys fod y ffactorau cymdeithasol hyn yn hynod bwysig mewn rhannau o'r DU sy'n perfformio'n wael. Dengys Ffigur 1.19 ganlyniadau arolwg sy'n rhoi pobl yn nhrefn lefelau boddhad â bywyd. Mae ffactorau cymdeithasol, megis ymddiriedaeth uchel a strydoedd diogel, yn chwarae rhan bwysig ar bob lefel o foddhad â bywyd.[96] Ond mae'r ffactorau hyn yn amlwg iawn ar gyfer lleoedd â lefelau isel o foddhad â bywyd.[97]

---

92 Sefydliad Polisi Cyhoeddus Bennett. *Townscapes: The value of social infrastructure*. 2021.

93 Akerlof, G., Shiller, R. *Animal Spirits: How Human Psychology Drives the Economy, and Why It Matters for Global Capitalism*. Gwasg Prifysgol Princeton. 2009.

94 'Bennett, P., Ouazad, A. *The relationship between job displacement and crime*. 2016.

95 Chilenski, S.M., Summers, N. *The Value of Social Capital: What Are Its Outcomes?*. Yn Greenberg A., Gullotta T., Bloom M. (gol). *Social Capital and Community Well-Being. Issues in Children's and Families' Lives*. Springer, Cham. 2016.

96 Marloes. M., Hoogerbrugge, M.M., Burger, M.J. *Neighbourhood-Based social capital and life satisfaction: the case of Rotterdam, The Netherlands*. Informa UK Limited. 2018.

97 Mckinsey & Company. *Data-driven perspectives on 'levelling-up'. 2021.*

## 1.3.4 Cyfalaf ac arweinyddiaeth sefydliadol

Mae gan rôl *sefydliadau* effeithiol yn y gwaith o sicrhau datblygu economaidd hanes hir yng ngwaith Edmund Burke, Karl Polanyi ac Elinor Ostrom.[98] Iddyn nhw, roedd hyn yn golygu sefydliadau ffurfiol effeithiol, a oedd wedi'u cynllunio'n dda, megis y system gyfreithiol, a llywodraeth leol a chanolog. Ond roedd hefyd yn cynnwys sefydliadau dinesig ac anffurfiol effeithiol, megis ysgolion a phrifysgolion, undebau llafur, grwpiau cymunedol a ffydd, a chlybiau chwaraeon a chymdeithasol.

Nid yw damcaniaeth economaidd safonol yn rhoi llawer o rôl i'r sefydliadau hyn o ran egluro patrymau twf. Fel rheol tybir bod sefydliadau yn "orchudd" sefydliadol y gellir edrych drwyddo wrth egluro sbardunau sylfaenol twf, yn hytrach na bod yn benderfynydd neu'n sbardun iechyd economaidd allweddol.

Mae ymchwil ddiweddar wedi newid y fath feddylfryd mewn ffordd sylfaenol, gan roi rôl ganolog i sefydliadau wrth egluro datblygu economaidd. Mae gwaith Acemoglu, Johnson a Robinson wedi edrych ar sbardunau llwyddiant economaidd mewn gwladwriaethau, ymerodraethau a gwareiddiadau dros filoedd o flynyddoedd.[99] Yn ôl eu hymchwil mae sefydliadau effeithiol, yn ffurfiol ac anffurfiol, yn hanfodol i egluro pam mae rhai lleoedd yn llwyddo. Yn nodedig, sefydliadau gwan yn aml yw'r rheswm unigol pwysicaf dros fethiant lleoedd.

> **“Mae sefydliadau effeithiol, ffurfiol ac anffurfiol, yn hanfodol i egluro pam mae rhai lleoedd yn llwyddo”**

Ymddengys fod hyn hefyd yn wir yn is-genedlaethol. Dywed Rodriguez-Pose, Acemoglu a Dell fod sefydliadau lleol da yn chwarae rôl hanfodol mewn gwaith datblygu is-genedlaethol.[100] Mae Storper yn dadlau bod sefydliadau effeithiol yn egluro pam mae rhai dinasoedd yn dod yn ganolfannau diwydiannau dwys o ran gwybodaeth.[101] Mae Barca, McCann a Rodriguez-Pose yn dadlau bod sefydliadau lleol yn chwarae rôl bwysig yn y gwaith o lywio canlyniadau economaidd a chymdeithasol.[102]

Mae dau ffactor wrth wraidd pwysigrwydd sefydliadau i waith datblygu. Yn gyntaf, gallu ac adnoddau. Mae cof sefydliadol ac adnoddau lleol yn mynd law yn llaw â sefydliadau. Os collir cof sefydliadol ac adnoddau, yn sgil y ffaith bod sefydliadau wedi cael eu hesgeuluso, mae llai o allu yn lleol i gynllunio a chyflawni newidiadau. Yn y DU, mae dirywiad sefydliadau dinesig, yn cynnwys llywodraeth leol, wedi mynd law yn llaw â pherfformiad economaidd a chymdeithasol gwaethygol.[103]

98 Burke, E. *A Vindication of Natural Society, Or, A View of the Miseries and Evils Arising to Mankind from Every Species of Artificial Society: In a Letter to Lord*. R. a J. Dodsley. 1757.; Polanyi, K. MacIver, R. M. *The great transformation.* (Cyf. 2, t.145). Boston: Beacon press. 1944.; Ostrom, E. *Governing the commons: The evolution of institutions for collective action*. Gwasg Prifysgol Caergrawnt. 1990.

99 Robinson, J.A., Acemoglu, D. *Why nations fail: The origins of power, prosperity and poverty*. Llundain: Profile. 2012.; Acemoglu, D., Johnson, S., Robinson, J. A. *Institutions as a fundamental cause of long-run growth*. Handbook of economic growth, 1, tt. 385-472. 2005.

100 Acemoglu, D., Dell, M. *Productivity differences between and within countries.* American Economic Journal: Macroeconomics, 2(1), tt. 169-88. 2010.; Rodríguez-Pose, A. *Do institutions matter for regional development?*. Regional studies, 47(7), tt.1034-1047. 2013.

101 Storper, M. *Keys to the City*. Gwasg Prifysgol Princeton. 2013.

102 Barca, F., McCann, P., Rodríguez-Pose, A. *The case for regional development intervention: place-based versus place-neutral approaches.* Journal of regional science, 52(1), tt.134-152. 2012.

103 Afonso, A., Jalles., J.T. *Economic Performance and Government Size*. 2011

**"Mae sefydliadau yn cefnogi arweinyddiaeth a hirhoedledd. Mae sefydliadau yn sicrhau cysondeb wrth wneud penderfyniadau"**

Yn ail, mae sefydliadau yn cefnogi arweinyddiaeth a hirhoedledd. Mae sefydliadau yn sicrhau cysondeb wrth wneud penderfyniadau. Gallant hefyd gefnogi arweinyddiaeth, a nodwyd bod hyn yn helpu i lywio gwell canlyniadau economaidd a chymdeithasol mewn cymunedau.[104] Mae'r broses o greu Meiri Iedled Lloegr yn enghraifft ddiweddar o rôl bwysig arweinyddiaeth leol unigol gref.[105] Mae rôl prifysgolion a sefydliadau ymchwil yn y gwaith o lywio clystyrau arloesol o weithgarwch economaidd yn hirsefydledig. Ac mae grwpiau gwirfoddol a chymunedol lleol, ac undebau llafur, yn ganolog i'r gwaith o feithrin sgiliau a chyfalaf cymdeithasol.

### 1.3.5 Systemau addasol cymhleth

Mae pob economi yn systemau cymhleth ac addasol sy'n cynnwys sawl rhan ryngweithiol symudol – gweithwyr, busnesau, y llywodraeth a chymdeithas sifil. Mae pob rhan symudol yn addasu ei hymddygiad yn sgil profiadau a'r amgylchedd datblygol. Cymhlethdod y rhyngweithio hyn sy'n creu natur gyfoethog ac anwadal patrymau twf lleol yn y DU, sydd hefyd yn dibynnu ar hanes.[106]

Mae dulliau systemau cymhleth wedi cael eu defnyddio'n helaeth i ddeall systemau naturiol, ffisegol a chymdeithasol. Tan yn ddiweddar, fodd bynnag, maent wedi cael eu defnyddio'n llai aml i ddeall twf economaidd. Mae gwaith diweddar Hidalgo a Hausmann wedi newid hynny.[107] Maent yn mesur cymhlethdod strwythurau diwydiannol gwahanol wladwriaethau. Gwelir tystiolaeth, po fwyaf cymhleth ac amrywiol yw hyn, y mwyaf yw'r gwerth a gaiff ei greu gan y gwledydd hyn. Mae amrywiaeth a chymhlethdod yn gysylltiedig â thwf economaidd uwch.

Ar y lefel is-genedlaethol, mae gwaith ymchwil diweddar gan Mealy a Coyle, a Sensier a Centre for Cities, wedi nodi effeithiau tebyg.[108] Mae ecosystemau diwydiannol dinesig neu leol mwy cymhleth ac amrywiol yn gysylltiedig â mwy o gynhyrchiant a mwy o swyddi medrus. Mae map economaidd y DU yn adlewyrchu'r patrwm hwn, lle mae ardaloedd sy'n gymhleth yn economaidd yn gysylltiedig â mwy o gynhyrchiant (Ffigur 1.32).[109] Mae hyn yn gyson â rôl bwysig clystyrau economaidd wrth sicrhau twf.

104 Regan, A. et al. Devolution and Governance in the UK. Industrial Strategy Council. 2021.; Bass, B. M., Avolio, B. J., Jung, D. I., Berson, Y. Predicting unit performance by assessing transformational and transactional leadership. Journal of Applied Psychology, 88(2), tt.207–218. 2003.; Just, R. *The Differences In Leadership Styles Among Generation Cohorts Of Small Business Leaders And Their Relationship To Organizational Outcomes.* 2011; Madanchian, M., Hussein, N., Noordin, F., Taherdoost, H. Effects of Leadership on Organizational Performance. Economics and Education. ISBN: 978-1-61804-369-6. 2016.

105 Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol. Localism Bill: creating executive mayors in the 12 largest English cities. *Impact assessment*. 2011.


106 Kay, J.A., King, M.A. *Radical uncertainty*. Decision-making beyond the numbers. Bridge Street Press. 2020.

107 Hidalgo, C.A., Hausmann, R. *The building blocks of economic complexity.* Proceedings of the national academy of sciences, 106(26), tt.10570-10575. 2009.

108 Mealy, P., Coyle, D. To them that hath: economic complexity and local industrial strategy in the UK. Sefydliad Polisi Cyhoeddus Bennett. 2019.

109 Rodrigues, G., Breach, A. What levelling up really means: Changing the geography of knowledge in Britain. t.12. Centre for Cities. 2021.

## Ffigur 1.32 Cynhyrchiant a chymhlethdod economaidd, ardaloedd trefol Prydain Fawr, 2019[110]




Mae ymchwil i ddinasoedd rhyngwladol wedi nodi dynameg debyg. Mae cymysgedd cymhleth o ddiwylliant, busnes, cyllid a sgiliau yn egluro pam mae dinasoedd yn profi twf trawsnewidiol yn debyg i Medici.[111] Fel unrhyw system gymhleth, cymysgedd a rhyngddibyniaeth y ffactorau hyn sy'n creu llwyddiant, yn hytrach nag unrhyw un ffactor ar ei ben ei hun. Y darlun cyffredinol, yn hytrach nag unrhyw agwedd benodol unigol, sy'n bwysig o ran twf. Yn wir, dyma'n union sy'n egluro pam mae systemau cymhleth yn cynhyrchu gwerth economaidd sy'n fwy na'u rhannau unigol.

Fodd bynnag, mae systemau cymhleth mwy cyfoethog hefyd yn fwy bregus. Wrth i fwy o rannau ryngweithio, mae unrhyw beth mawr ysgytwol yn cael sgil-effeithiau mwy o faint, gan beri'r risg o ad-drefnu parhaol, o gydbwysedd cymhlethdod uchel-gwerth uchel i gymhlethdod isel-gwerth isel.

Felly, mewn systemau economaidd, gall unrhyw beth mawr ysgytwol newid llwybr twf yr economi yn barhaol. Mae dad-ddiwydiannu yn enghraifft glir. Gwelwyd mwy o ddad-ddiwydiannu, ar raddfa gyflymach, yn y DU nag mewn unrhyw wlad arall yn y G7.[112] Cafodd hyn effaith fawr a pharhaol ar ddinasoedd a threfi diwydiannol yng ngogledd a chanolbarth Lloegr.[113] Hefyd roedd llawer o leoedd yn drefi "mono-ddiwydiannol", a ddatblygodd dros y canrifoedd oherwydd yr adnoddau naturiol a oedd gerllaw iddynt yn unig, gan wneud yr her adfywio hyd yn oed yn fwy wrth golli diwydiant. Yn ddiweddarach yn yr 20fed ganrif, cafodd y cynnydd mewn gwyliau rhyngwladol rhad effaith fawr debyg ar dwristiaeth ddomestig, gan newid byd llawer o drefi arfordirol.

110 ECI yw'r acronym ar gyfer y Dangosydd Cymhlethdod Economaidd a ddatblygwyd gan y Centre for Cities, sy'n mesur cymhlethdod perthynol 62 o Brif Ardaloedd Trefol ledled Prydain Fawr. Ffynhonnell: Centre for Cities. The Geography of Economic Complexity in Britain. 2021.

111 Florida, R. *The rise of the creative class*. Basic Books. 2019.; Glaeser, E. L., Kallal, H. D., Scheinkman, J. A., Shleifer, A. *Growth in cities.* Journal of political economy, 100(6), tt.1126-1152. 1992.

112 Swyddfa Wyddoniaeth y Llywodraeth. De-industrialisation and the balance of payments in advanced economies. 2013.

113 Beatty, C., Fothergill, S. Recovery or stagnation?: Britain's older industrial towns since the recession. Regional Studies, 54, tt. 1-12. 2020.

I nifer o drefi a dinasoedd ledled y DU, gwnaeth y fath ysgytwad mawr eu newid yn barhaol o drywydd cymhlethdod uchel-twf uchel i gymhlethdod isel-twf isel. Roedd darganfod deunyddiau crai mewn rhai o'r lleoedd hyn, a'r cynnydd yn y farchnad dwristiaeth, wedi eu newid i'r cyfeiriad arall yn gynharach yn ystod hanner cyntaf yr 20fed ganrif. Yn y ddau achos, roedd yr effeithiau yn fawr ac yn barhaol, ac roedd cryn dipyn o ddibyniaeth ar hanes. Mae grymoedd cadarnhaol a negyddol wedi bod ar waith.

### 1.3.6 Cysoni'r dulliau

Drwy uno gwahanol ddulliau disgyblaethol, gellir dechrau egluro patrymau empiraidd cyfoethog daearyddiaeth economaidd a chymdeithasol y DU. Mae'r fath synthesis o ran dulliau yn awgrymu'r gwersi eang canlynol o ran deall sbardunau a phenderfynyddion twf lleol.

> **"Mae cydfodolaeth grymoedd economaidd hunanatgyfnerthol, mewn nifer cynyddol o leoedd, yn egluro rhaniadau daearyddol y DU sy'n tyfu"**

- **Mae sawl ffactor yn gyfrifol am lywio gwahaniaethau daearyddol sy'n tyfu yn y DU.** Mae set gyfoethog o gyfalaf – *ffisegol, dynol, anniriaethol, ariannol, sefydliadol a chymdeithasol* – sy'n egluro patrymau twf gofodol. Mae'r fath gyfalaf yn dod ynghyd fel rhan o ecosystem twf gymhleth, sy'n aml yn hyper-leol. Mewn system gymhleth, mae'n amhosibl nodi un elfen gyfalaf (neu is-set) fel prif sbardun llwyddiant gofodol. Yn hytrach mae'r ffactorau hyn yn hynod ryng-gysylltiedig a rhyngddibynnol, a'r cymysgedd cyfoethog hwn sy'n sicrhau llwyddiant.
- **Mae pob cyfalaf yn uchel mewn mannau sy'n tyfu'n gryf ac yn gynaliadwy.** Mae'r mannau hynny sy'n "datblygu'n gadarn", lle ceir lefelau uchel o incwm a thwf, yn nodedig am rannu cryfder rhwng pob math o gyfalaf, neu'r rhan fwyaf ohonynt. Maent yn profi "effaith Medici": cylch hunanatgyfnerthol o gryfder, yn economaidd, yn ariannol ac yn ddiwylliannol. Mae pob man cryf yn gryf mewn ffyrdd tebyg a lluosog.
- **Mae'r darlun yn fwy cymhleth yn achos lleoedd sydd wedi cael eu gadael ar ôl.** Gall diffygion mewn perthynas ag unrhyw gyfalaf gael sgil-effeithiau ar y mathau eraill o gyfalaf mewn cylch cythraul hunanatgyfnerthol o incwm isel a thwf gwan. Mae llawer o'r lleoedd sydd wedi cael eu gadael ar ôl yn wan mewn ffyrdd gwahanol, ac mae ganddynt gymysgedd cymhleth a rhyngweithiol o broblemau economaidd, ariannol a chymdeithasol.
- **Mae dynameg economïau modern yn aml yn wahanol, nid yn debyg.** Mae effeithiau cydgrynhoi a chlystyru yn gronnol mewn lleoedd llwyddiannus, gan eu bod yn fagned i bobl, byd busnes, cyllid a diwylliant, gan sicrhau cydbwysedd twf uchel. Mae'r grymoedd sydd ar waith mewn lleoedd sy'n ei chael hi'n anodd i'r gwrthwyneb i hyn, gan yrru pobl, byd busnes, cyllid a diwylliant ymaith, a sicrhau cydbwysedd twf isel. Mae cydfodolaeth grymoedd economaidd hunanatgyfnerthol, mewn nifer cynyddol o leoedd, yn egluro rhaniadau daearyddol y DU sy'n tyfu.
- **Mae'r grymoedd hyn yn fwy yn sgil ysgytwadau hanesyddol mawr.** O gymharu â llawer o wledydd eraill, gwnaeth y DU elwa ar ysgytwadau mawr i ddechrau cyn dioddef o'u herwydd wedyn, a hynny o strwythurau diwydiannol i dwristiaeth, ac o ganlyniad i globaleiddio. Dros y degawdau diwethaf, mae'r fath ysgytwadau wedi cael effaith ddiffygiol barhaol ar gyfalaf mewn rhai lleoedd ledled y DU, gan eu gosod mewn trap twf isel. Ar yr un pryd, mae'r cynnydd mewn busnesau gwasanaeth medrus, dwys o ran gwybodaeth, wedi cyflymu twf ymhlith lleoedd sy'n datblygu'n gadarn, yn cynnwys yn Llundain.

- **Mewn llawer o leoedd, mae gwendidau mewn swyddi, incymau a sgiliau wedi cael eu gwaethygu gan wendidau yn y seilwaith cymdeithasol a sefydliadol.** Mae strydoedd anniogel a brwnt, prinder cyfleusterau naturiol, diwylliannol a hamdden, a cholli ymddiriedaeth a balchder dinesig yn sbarduno dirywiad, ac yn arwyddion ohono. Felly hefyd sefydliadau dinesig gwan sydd wedi dirywio, a diffyg cyfrwng ac arweinyddiaeth leol. Mae'r nodweddion hyn, ynghyd â sgiliau gwael a swyddi gwael, yn gyffredin ymhlith lleoedd sydd wedi cael eu gadael ar ôl.

## 1.4 Ffactorau Strwythurol yn y Dyfodol a fydd yn Llywio Daearyddiaeth Economaidd y DU

Wrth edrych i'r dyfodol, bydd daearyddiaeth economaidd y DU yn newid ymhellach, gan gael ei lywio unwaith eto gan dechnolegau, ymddygiadau a pholisïau newidiol. Fel yn y gorffennol, bydd y tonnau newydd hyn yn ailwampio daearyddiaeth economaidd y DU. Maent yn cynnwys y llwybr i Sero Net; effeithiau pandemig COVID-19, ac effeithiau trawsnewid technolegol. Mae'r adran hon yn trafod pob un yn ei dro.

Gallai effeithiau trosiannol y fath newid fod yn heriol i rai lleoedd sy'n perfformio'n wael ledled y DU, gyda chanlyniadau'n debyg i ddad-ddiwydiannu a dirywiad twristiaeth ddomestig yn y gorffennol. Ond bydd y fath drosiannu hefyd yn creu cyfleoedd newydd ar gyfer arloesi, busnesau, swyddi a thwf yn y lleoedd hyn. Gan ddysgu gwersi o'r gorffennol, bydd angen i bolisi chwarae rôl weithredol wrth helpu lleoedd i achub ar y cyfleoedd hyn a'u llywio.

> **"Gallai'r llwybr i Sero Net greu cyfleoedd enfawr i lawer o'r lleoedd hynny sydd wedi cael eu gadael ar ôl yn y DU"**



### 1.4.1 Llwybr y DU tuag at Sero Net

Mae Llywodraeth y DU wedi gwneud targed allyriadau Sero Net erbyn 2050 yn gyfraith.[114] Gallai'r newid strwythurol hwn gael effeithiau mawr a hirdymor ar bob agwedd ar yr economi, yn cynnwys swyddi a sgiliau, seilwaith a thechnoleg, a buddsoddi ac arloesi. Gallai'r llwybr i Sero Net greu cyfleoedd enfawr i lawer o'r lleoedd hynny sydd wedi cael eu gadael ar ôl yn y DU, ond mae hefyd yn peri risgiau iddynt a allai fod yn niweidiol, os na chânt eu rheoli.

> **Gallai'r llwybr i Sero Net greu cyfleoedd enfawr i lawer o'r lleoedd hynny sydd wedi cael eu gadael ar ôl yn y DU**

Mae'r rhannau o'r DU lle mae angen y newid mwyaf y tu hwnt i dde-ddwyrain Lloegr, yn aml mewn rhai o'r rhannau o'r DU sy'n perfformio waethaf.[115] Fel cartref i'r sectorau diwydiannol sydd â'r allyriadau mwyaf (gweithgynhyrchu, hedfanaeth a morgludo), mae allyriadau y pen yn uwch yng nghanolbarth a gogledd Lloegr, yn ogystal â Chymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon (fel y dangosir yn Ffigur 1.33), ac mae mwy nag un o bob dwy swydd mewn diwydiannau carbon-ddwys yng nghanolbarth a gogledd Lloegr a'r Alban.[116]

Er y bydd y llwybr i Sero Net yn tarfu ar y lleoedd hyn, gallai hefyd fod yn drawsnewidiol. Bydd y "Chwyldro Diwydiannol Gwyrdd" yn gofyn am gryn dipyn o fuddsoddi mewn seilwaith newydd a phrosesau cynhyrchu sy'n defnyddio technolegau newydd. Gallai hyn fod yn £50 i £60bn o fuddsoddiad cyfalaf y flwyddyn ar gyfartaledd erbyn diwedd y 2020au a dechrau'r 2030au.[117]


Gallai'r buddsoddiad hwn fod o fudd i'r rhannau hynny o'r DU sy'n perfformio'n waeth yn anghymesur, yn enwedig y rhai â hanes cyfoethog o weithgynhyrchu a pheirianneg. Dengys gwaith dadansoddi wedi'i gomisiynu gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) y gallai gogledd-ddwyrain Lloegr elwa ar 27,000 o swyddi uniongyrchol ychwanegol erbyn 2050.[118] Gallai llawer o leoedd eraill, y tu hwnt i Lundain a de-ddwyrain Lloegr, adeiladu ar feysydd cryf presennol, megis ynni adnewyddadwy, gweithgynhyrchu cerbydau trydan, Dal, Defnyddio a Storio Carbon, a hydrogen (Ffigur 1.34).[119]

Bydd angen i rai diwydiannau uwchsgilio'n sylweddol. Mae'r rhai sydd wedi'u cyflogi mewn sectorau carbon ddwys yn dueddol o fod yn fwy agored i ddiweithdra hirdymor.[120] Er mwyn osgoi hyn, bydd angen i'r lleoedd hynny ailsgilio eu gweithlu fel bod y swyddi newydd a gaiff eu creu wedi'u lleoli yno.[121] Fel y nodir yng Nghynllun Deg Pwynt a Strategaeth Sero Net Llywodraeth y DU, gallai ailsgilio llwyddiannus o'r fath roi hwb i safonau byw a chefnogi swyddi yn y mannau tlawd sy'n newid fwyaf.[122]

---


114 Llywodraeth y DU. *Net Zero Strategy: Build Back Greener*. 2021.; BEIS. *UK becomes first major economy to pass net zero emissions law*. 2019.
115 Llywodraeth y DU. *Green Jobs Taskforce*. 2021.
116 Christie-Miller, T., Luke, A. *Greening the Giants: Getting to Net Zero*. Onward. 2021.
117 Llywodraeth y DU. *Net Zero Strategy: Build Back Greener*. 2021.
118 Llywodraeth y DU. *Net Zero in the North East of England*. 2021.
119 Llywodraeth y DU. *Green Jobs Taskforce*. 2021.
120 Christie-Miller, T., Luke, A. *Qualifying for the race to net zero: How to solve the net zero skills challenge*. Onward. 2021.
121 Christie-Miller, T., Luke, A. *Greening the Giants: Getting to Net Zero.* Onward. 2021.
122 Llywodraeth y DU. *Net Zero Strategy: Build Back Greener*. 2021.

## Ffigur 1.33 Allyriadau net o garbon deuocsid y pen, awdurdodau lleol yn y DU, 2019[123]




123 BEIS. *2005 to 2019 UK local and regional CO2 emissions: statistical release*. 2021.

### Ffigur 1.34 Cyfleoedd cyflogaeth posibl ac anghenion sgiliau o symud i Sero Net, gwledydd a rhanbarthau'r DU[124]




124 BEIS. Green Jobs Taskforce report. 2021.

## 1.4.2 Effaith COVID-19

Mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar bob rhan o'r DU. Ar rai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig y DU y mae effeithiau iechyd COVID-19 wedi effeithio galetaf, a gwelwyd effaith anghymesur hefyd ar leiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau.[125] Mae pobl ag anableddau nid yn unig yn wynebu mwy o risgiau i'w hiechyd yn gysylltiedig â COVID-19, ond maent hefyd wedi nodi llesiant gwaeth ar draws amrywiaeth o fesurau.[126]

Mae COVID-19 hefyd wedi cael effeithiau sylweddol ar ddosbarthiad swyddi a sectorau. Dengys gwaith dadansoddi'r Sefydliad Astudiaethau Cyllidol (IFS) fod y rhai a oedd yn cael eu cyflogi mewn sectorau a wnaeth gau oherwydd rheoliadau COVID-19 yn fwy tebygol o fod yn iau, yn fenywod ac o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.[127] Mae gwaith gan y Resolution Foundation yn tynnu sylw at effeithiau anghyfartal a dosbarthiadol COVID-19 ar iechyd, safonau byw a thai.[128]

> **Mae COVID-19 hefyd wedi cael effeithiau sylweddol ar ddosbarthiad swyddi a sectorau**

Yn y byrdymor, dinasoedd mawr a chymunedau arfordirol sy'n dibynnu ar dwristiaeth sydd wedi bod fwyaf agored i niwed yn sgil effaith economaidd y pandemig.[129] Mae gwaith dadansoddi ar yr adferiad o ran nifer yr ymwelwyr, gwariant a swyddi yn ystod 2020 a 2021 yn awgrymu mai Llundain a dinasoedd mawr eraill â stryd fawr gryfach, a lleoedd sy'n dibynnu ar dwristiaeth ryngwladol, a gafodd eu taro waethaf ac a welodd yr adferiad arafaf.[130] Nid y rhain yw'r lleoedd sy'n perfformio waethaf yn nodweddiadol, er bod rhai lleoedd wedi wynebu effaith ddwbl cael eu gadael ar ôl ac effeithiau COVID-19.[131]

Yn y tymor hwy, mae'n bosibl y caiff COVID-19 effeithiau parhaol ar ymddygiad economaidd a, thrwy hynny, ddaearyddiaeth economaidd. Mae'r pandemig eisoes wedi cyflymu tueddiadau a fodolai eisoes, megis mwy o weithio o bell, naill ai'n llwyr neu'n rhannol, a'r defnydd cynyddol o siopa ar-lein. Gallai'r canlyniadau hyn, os yn sticlyd, effeithio ar ddaearyddiaeth economaidd y DU, er bod yr union effaith yn aneglur.[132]

Os daw pellter yn llai o rwystr i weithio a siopa, gallai hyn fod o fudd i leoedd sy'n anghysbell yn ddaearyddol mewn rhannau o'r DU nad ydynt yn perfformio cystal, yn enwedig lleoedd ag amwynderau hamdden a diwylliannol deniadol a

125 Y Swyddfa Anghyfartaleddau a Gwelliannau Iechyd. *Deprivation quintile analysis of Public Health England's COVID-19 Health Inequalities Monitoring for England (CHIME) tool*. Cyrchwyd: 2021.; FT, *Deprived areas hit hardest in UK by pandemic, 2020*. FT. *Deprived areas hit hardest in UK by pandemic*. 2020.

126 SYG. *Coronavirus and the social impacts on disabled people in Great Britain*: February 2021.

127 IFS. *COVID-19: the impacts of the pandemic on inequality*. 2020.

128 Henehan, K., Gustafsson, M., Cominetti, N., Handscomb, K., Judge, L., Leslie, J., Try, L. *An intergenerational audit for the UK*. Resolution Foundation. 2020.

129 Evidence drawn from the number of shut-down sectors, furloughed workers and changes in vacancies – Davenport, A.,Zaranko, B. *Levelling up: where and how*. IFS. 2020.

130 Gweler y Resolution Foundation. *The Economy 2030 Inquiry, Levelling Up and Down Britain*. Centre for Cities. *Did Freedom Day boost the high street recovery?*. 2021.

131 IFS. *Green Budget 2020*. 2020. *Centre for Cities. Cities Outlook*. 2021.

132 SYG. *Coronavirus and the social impacts on Great Britain*. 2021.; De Fraja et al, 2021 (De Fraja, G., Matheson, J., Rockey, J. C. *Zoomshock: The Geography and Local Labour Market Consequences of Working from Home*. Covid Economics, Rhifyn 64, tt. 1-41. 2021.)

chysylltiadau dibynadwy â dinasoedd cyfagos.[133] Mae tystiolaeth eisoes bod rhai pobl a busnesau yn symud i'r lleoedd hyn, gan gefnogi twf lleol.[134] I'r cyfeiriad arall, mae gwaith dadansoddi gan KPMG yn awgrymu y gallai dinasoedd mwyaf y DU gael budd o fwy o ddwysáu busnes o ganlyniad i weithio hybrid.[135] Gallai hyn olygu y gall dinasoedd llai ffyniannus wynebu heriau anoddach.[136]

### 1.4.3 Trawsnewid technolegol

> **Gallai'r newid i fwy o awtomeiddio, os na chaiff ei reoli, gael effaith negyddol ar rai sectorau a lleoedd**

Mae awtomeiddio (defnyddio technoleg i leihau mewnbwn pobl wrth gynhyrchu nwyddau a gwasanaethau) yn sbardun allweddol i dwf cynhyrchiant. Mae technolegau awtomeiddio megis deallusrwydd artiffisial a dysgu peirianyddol yn trawsnewid modelau busnes, marchnadoedd a ffyrdd o fyw mewn ffyrdd nas gwelwyd o'r blaen. Mae'r technolegau hyn o fudd i'r economi drwy wneud prosesau cynhyrchu yn fwy effeithlon, lleihau costau a chynyddu allbwn. Ond gallai'r newid i fwy o awtomeiddio, os na chaiff ei reoli, gael effaith negyddol ar rai sectorau a lleoedd drwy leihau nifer y swyddi sydd ar gael yn yr economi leol yn sylweddol.

Mae trawsnewidiadau technolegol yn effeithio ar swyddi a chyflogau drwy greu a disodli swyddi ar draws sectorau a galwedigaethau.[137] Tanlinellir natur drawsnewidiol awtomeiddio gan y ffaith nad oedd bron dwy ran o dair o'r galwedigaethau yn yr UD yn 2018 yn bodoli hyd yn oed ym 1940.[138]

Gall trawsnewid technolegol gefnogi gweithwyr a'u disodli. Yn yr UD, dengys astudiaethau mai mewn swyddi sgiliau canolig ymhlith oedolion nad oeddent wedi cael addysg coleg mewn ardaloedd trefol y collwyd y nifer mwyaf o swyddi. Mae hyn yn golygu nad yw dinasoedd yn yr UD yn galluogi'r rhai heb Addysg Uwch i gamu ymlaen mwyach.[139]

Mae'r amcangyfrifon ar gyfer cyfran y swyddi yn y DU sy'n wynebu risg o awtomeiddio yn amrywio o 7.4% i 35%.[140] Y swyddi mwyaf bregus yw'r rhai lle mae angen lefel isel o sgiliau, ac sydd â phatrymau gwaith rhagweladwy, lle mae angen ymwneud â pheiriannau nid pobl.[141] Wrth fapio'r rhain ledled Lloegr, noda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) fod gogledd-ddwyrain Lloegr, dwyrain Lloegr, de-orllewin Lloegr ac ardaloedd arfordirol yn hynod fregus i golli swyddi oherwydd awtomeiddio (Ffigur 1.35).[142]

133 Floerkemeier, H., Spatafora, N., Venables, A. Regional Disparities, Growth, and Inclusiveness. Working Paper No. 2021/038. IMF. 2021.; Ahlfeldt, G., Bald, F., Roth, D., Seidel, T. Lockdown shows us it is not work that attracts us to big cities, but social life. LSE. 2020.; OECD. Implications of remote working on place based policies. 2021.

134 Cynulliad Llundain., Half of Londoners wanting to move home want out of London. 2020.

135 Selfin, Y. Future of Cities Report. KPMG. 2021.

136 Quinio, V. UK city centres that have suffered the least from COVID-19 face the toughest long-term challenges. LSE. 2021.

137 Acemoglu, D., Restrepo, P. *Automation and New Tasks: How Technology Displaces and Reinstates Labor.* Journal of Economic Perspectives, 33 (2), tt. 3-30. 2019.

138 Autor, D., Mindell, D., Reynolds, E. The Work of the Future: Building Better Jobs in an Age of Intelligent Machines. MIT. 2020.


139 Autor, D. The Faltering Escalator of Urban Opportunity. MIT. 2020.

140 SYG. The probability of automation in England: 2011 and 2017. 2019. Sylwer: Nid oedd gwaith dadansoddi SYG yn cynnwys Cymru, yr Alban na Gogledd Iwerddon.

141 Nedelkoska, L., Quintini, G. Automation, skills use and training. OECD Social, Employment and Migration Working Papers, Rhif 202. OECD Publishing. 2018.

142 SYG. Which occupations are at highest risk of being automated?. 2019. *Sylwer: oherwydd materion maint samplau, ni fu modd i SYG gyflawni'r gwaith dadansoddi hwn ar gyfer Cymru, yr Alban na Gogledd Iwerddon.*

## Ffigur 1.35 Cyfran y swyddi sy'n wynebu risg uchel o awtomeiddio, awdurdodau lleol yn Lloegr, 2017[143]




143 SYG. *Which occupations are at highest risk of being automated?*. 2019. Sylwer: oherwydd materion maint samplau, ni fu modd i SYG gyflawni'r gwaith dadansoddi hwn ar gyfer Cymru, yr Alban na Gogledd Iwerddon.

Mae hyn yn awgrymu y gall fod angen i bolisi ganolbwyntio ar y sectorau hynny a'r lleoedd hynny sydd wedi eu heffeithio fwyaf gan drawsnewidiadau technolegol a lle mae sgiliau presennol leiaf gydnaws â'r galw fydd yn y dyfodol.[144] Serch hynny, drwy reoli'r fath drawsnewid yn effeithiol, gallai trawsnewidiadau technolegol fod o fudd i ardaloedd sy'n cael eu gadael ar ôl, a hynny yn sgil creu cyfleoedd gwaith sgiliau uchel, cyflogau uchel. At hynny, gallai'r fath drawsnewid technolegol wella llesiant drwy ddisodli swyddi seiliedig ar dasgau ailadroddus o ansawdd isel sydd wedi cael eu cysylltu ag amrywiaeth o broblemau iechyd a lefelau gwael o lesiant.[145]

## 1.5 Fframwaith ar gyfer Gwerthuso Anghyfartaleddau Daearyddol

> **Caiff y fframwaith ei ddiffinio gan chwe chyfalaf: ffisegol, anniriaethol, dynol, ariannol, cymdeithasol a sefydliadol**

Yn yr adran hon datblygir fframwaith i nodi sbardunau allweddol anghyfartaleddau daearyddol. Mae elfennau'n gyffredin rhwng y fframwaith hwn a'r rhai a ddatblygwyd yn ddiweddar gan nifer o ymchwilwyr.[146] Wrth ei wraidd mae set o wahanol fathau o "gyfalaf". Er bod pob cyfalaf yn bwysig yn unigol i sbarduno twf, mae ei arwyddocâd yn deillio o'r rhyngddibyniaeth a'r rhyngweithio â mathau eraill o gyfalaf fel rhan o system atgyfnerthol.

Gan ddilyn dull amlddisgyblaethol, caiff y fframwaith ei ddiffinio gan chwe chyfalaf: *ffisegol, anniriaethol, dynol, ariannol, cymdeithasol a sefydliadol*. Mae'r peiriant twf rhanbarthol yn un chwe silindr. Mae'r chwe chyfalaf hyn yn cwmpasu'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector cymdeithas sifil. Tanlinella hyn bwysigrwydd partneriaethau rhwng sectorau wrth dyfu economïau lleol.

Un cyfalaf pwysig sydd ar goll o'r fframwaith yw cyfalaf naturiol. Mae pwysigrwydd cyfalaf naturiol i economi a chymdeithas ffyniannus yn hirsefydledig.[147,148] Fel ased, mae'n ategu twf cynnyrch domestig gros cynaliadwy, yn cefnogi cynhyrchiant dros y tymor canolig ac yn cynnig cadernid rhag ysgytwadau yn y dyfodol. Fel ased, amcangyfrifwyd bod cyfalaf naturiol yn werth £1.2tn yn y DU yn unig.[149]

Nid yw'r ffaith nad yw cyfalaf naturiol wedi'i gynnwys yn y fframwaith yma yn golygu nad yw'n bwysig i dwf economaidd, yn genedlaethol nac yn is-genedlaethol. Yn hytrach mae'n adlewyrchu'r ffaith bod strategaethau polisi sydd wedi'u datblygu'n dda ar waith i ddiogelu a gwella cyfalaf naturiol, yn cynnwys ar y lefel ranbarthol, y lefel genedlaethol a'r lefel ryngwladol.[150] Dylai'r rhain gael eu gweld yn ategu'r strategaethau twf lleol a drafodir yn y bennod hon.

Gan ystyried pob cyfalaf yn ei dro, mae'n bosibl datblygu map o sbardunau allweddol daearyddiaeth economaidd y DU. Mae'r map hwn hefyd yn helpu i nodi lle mae angen rhagor o fuddsoddi i adfywio'r fath gyfalaf er mwyn ysgogi twf lleol a chywiro anghyfartaleddau gofodol.

---

144 Y Cyngor Strategaeth Ddiwydiannol. *UK Skills Mismatch in 2030*. 2019.

145 Burgard, S., Katherine, A., Lin, Y. Bad Jobs, B*ad Health? How Work and Working Conditions Contribute to Health Disparities*. The American behavioural scientist, cyf. (57)8. 2013. Taylor, M. *Good work: The Taylor review of modern working practices*. BEIS. 2017.

146 Coyle, D. *Measuring wealth, delivering prosperity*. Sefydliad Polisi Cyhoeddus Bennett. 2019.

147 Raworth, K. Doughnut Economics: Seven Ways to Think Like a 21st-Century Economist, Random House Business

148 Y Pwyllgor Cyfalaf Naturiol. *The Economic Case for Investment in Natural Capital in England.* 2015.; Gwaith arall gan y *Pwyllgor Cyfalaf Naturiol ar bwysigrwydd cyfalaf naturiol*.


149 SYG. *UK natural capital accounts*. 2021.

150 Dasgupta, P. *The Economics of Biodiversity: the Dasgupta Review*. Trysorlys EM. 2021.; TEM. *The Economics of Biodiversity: The Dasgupta Review – Government Response*. 2021.

## 1.5.1 Cyfalaf dynol

Fel rheol caiff cyfalaf dynol ei ddiffinio fel y wybodaeth, sgiliau, cymwyseddau, iechyd a nodweddion eraill sydd gan bobl a ddatblygir yn ystod eu bywyd.[151] Roedd cyfalaf dynol y pen yn y DU, wedi'i gyfrifo fel cyfanswm incwm gydol oes unigolyn, ychydig dros £500,000 ar gyfartaledd yn 2020.[152] Pan gaiff ei fesur felly, mae anghyfartaleddau rhanbarthol sylweddol o ran cyfalaf dynol, gyda bwlch o ryw 40% rhwng yr uchaf (Llundain) a'r isaf (Gogledd Iwerddon) (Ffigur 1.36).

**Ffigur 1.36 Cyfalaf Dynol Gwirioneddol y pen (16-65 oed), gwledydd a rhanbarthau'r DU, 2018**[153]





Mae demograffeg yn egluro rhai o'r gwahaniaethau rhanbarthol hyn mewn cyfalaf dynol, gan ei fod yn pennu faint o bobl mewn ardal a all weithio. Mae hyn yn arbennig o wir am rai ardaloedd gwledig. Mae cyfran y boblogaeth o oedran gweithio yn llai na 55% yn Rother, gogledd Norfolk a dwyrain Dyfnaint, ac yn fwy na 70% mewn sawl bwrdeistref yn Llundain, Brighton, Glasgow, Manceinion a Rhydychen.[154]

151 OECD. *Productivity, human capital and educational policies*.
152 SYG. *Regional human capital per capita estimates*. 2020.
153 SYG. *Regional human capital per capita estimates*. 2020.
154 SYG. *Population estimates for the UK, England and Wales, Scotland and Northern Ireland: mid-2020*. 2020.

Wrth ystyried sgiliau, mae gwahaniaethau gofodol clir, ac mae Llundain yn eithriad eto (Ffigur 1.37). Mae gan fwy na thri chwarter pobl 16-64 oed gymhwyster lefel 3+ (yn cyfateb i Safon Uwch) mewn sawl bwrdeistref yn Llundain, yn ogystal ag yng Nghaeredin a Swydd Renfrew.[155] Mae'r ffigur o dan 50% mewn 16 o awdurdodau lleol, gyda'r perfformiad gwaethaf mewn cymysgedd o gyn-drefi diwydiannol (gogledd-ddwyrain Swydd Lincoln, Middlesbrough, Castell-nedd Port Talbot), cymunedau arfordirol (Blackpool, Redcar a Cleveland, Thurrock) ac ardaloedd trefol difreintiedig (Hull, Knowsley, Tameside, Sandwell).[156]

### Ffigur 1.37 Cyfran y boblogaeth 16-64 oed â lefelau gwahanol o gymwysterau, gwledydd a rhanbarthau'r DU, 2019[157]







155 SYG. *Resident-based Skill level by upper tier local authority*. Annual Population Survey. NOMIS. 2020.

156 SYG. Resident-based Skill level by upper tier local authority. *Annual Population Survey*. NOMIS. 2020

157 SYG. Annual Population Survey. *Nomis*. Cyrchwyd 30 Ionawr 2022.


**Ffigur 1.38 Cyfran y boblogaeth 16-64 oed â chymwysterau lefel 3+, dosbarthau awdurdodau lleol Prydain Fawr, a Gogledd Iwerddon[158]**




158 SYG. *Resident-based Skill level by upper tier local authority. Annual Population Survey*. NOMIS. 2020.

Gwelir patrwm tebyg o ran addysg. Mae gan blentyn sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (mesur amddifadedd) yn Llundain fwy na dwbl y siawns o fynd i brifysgol yn 19 oed na phlentyn ar brydau ysgol am ddim y tu allan i Lundain.[159] Hefyd mae gwahaniaethau mawr mewn cyrhaeddiad rhwng ardaloedd lleol. Gwnaeth 80% o'r disgyblion TGAU yn Trafford a Sutton gyflawni Saesneg a Mathemateg 9-4 yn 2019, o gymharu â dim ond 41% yn Knowsley a 48% yn Blackpool.[160] Mae'r tueddiadau hyn yn awgrymu bod gwahaniaethau gofodol mewn lefelau sgiliau yn debygol o barhau i ehangu yn y dyfodol, o ystyried y gwahaniaethau gofodol hyn mewn cyrhaeddiad (dengys Ffigur 1.39 y gydberthynas rhwng y rhain).

### Ffigur 1.39 Y gydberthynas rhwng cymwysterau lefel 3 a rhai cyfatebol neu uwch ac ennill cymwysterau TGAU, yn ôl awdurdod lleol (Lloegr yn unig)[161]




Caiff y patrymau gofodol hyn mewn sgiliau eu hatgyfnerthu gan y ffaith bod pobl hynod addysgedig a hynod fedrus yn mudo, o fewn y DU ac o'r tu hwnt i'r DU.[162] Ar y cyfan, mae'r lleoedd â'r lefel fwyaf o gyfalaf dynol ar hyn o bryd yn dueddol o ddenu'r nifer mwyaf o weithwyr medrus, o fewn y DU ac o'r tu hwnt i'r DU, gan wneud y gwahaniaethau sgiliau yn fwy.[163] Trafodir y fath ddynameg ymhellach yn yr adran nesaf.

Yn olaf, mae canlyniadau iechyd hefyd yn effeithio ar gyfalaf dynol. Mae nifer y bobl sydd allan o waith am resymau iechyd – wedi'i fesur gan ddefnyddio cyfradd llwyth achosion y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth – yn llai na 2% yn Wokingham, Hart, Windsor, a Maidenhead ac Uttlesford, ond cymaint â 9% yn

159 SYG. *Widening participation in higher education*. 2021.

160 Ni chaiff sbardunau'r gwahaniaethau hyn eu deall yn llawn ond gall cryn dipyn o'r amrywiad hwn gael ei egluro gan nodweddion ac amgylchiadau disgyblion a theuluoedd, sydd â chydberthynas gymhleth â'r lleoedd lle maent yn byw. Mae wedi'i ddogfennu'n dda bod perfformiad yn Llundain yn sylweddol uwch na rhannau eraill o'r wlad, yn enwedig i ddisgyblion difreintiedig. Mae'r dystiolaeth orau sydd ar gael yn awgrymu bod tua dwy ran o dair o'r gwahaniaeth hwn yn cael ei egluro gan newidynnau disgyblion, teuluoedd a lefel ardal, ond hyd yn oed ar ôl cyfrif am y ffactorau hyn, mae bwlch rhwng Llundain a rhannau eraill o Loegr o hyd.


161 *Annual Population Survey: All people aged 16-64 with GCSE grades A*-C or equivalent combined with those with Level 3+ skills, in 2018/19.* NOMIS. 2019.

162 (Gweler adran 1.6)

163 (Gweler adran 1.6)

Blackpool, Blaenau Gwent, Merthyr Tudfil, Castell-nedd Port Talbot, Knowsley, West Dunbartonshire, Rhondda a Glasgow (gweler Ffigur 1.40).[164] Mae'r gyfradd hon yn sylweddol uwch yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a gogledd Lloegr. Adlewyrchir y patrwm hwn yng nghyfraddau cyflogaeth pobl anabl.[165]

**Ffigur 1.40 Cyfradd llwyth achosion y Lwfans Cymorth Cyflogaeth (poblogaeth o oedran gweithio), gwledydd a rhanbarthau'r DU, Chwefror 2021[166]**




Mae amcangyfrifon disgwyliad oes iach yn ychwanegu dimensiwn ansawdd bywyd at amcangyfrifon disgwyliad oes. Mae'r data ar ddisgwyliad oes iach yn dangos llai o amrywiad rhwng rhanbarthau, ond mwy o amrywiad ar lefel awdurdod lleol. Mae'r bwlch rhwng y pum awdurdod lleol lleiaf iach i ddynion (Dinas Glasgow, Dinas Dundee, Blackpool, Inverclyde a Gorllewin Swydd Dunbarton) a'r mwyaf iach (Westminster, Kensington a Chelsea, Camden, Harrow a Rutland) yn 12 mlynedd.[167]

Ar y cyfan yr ardaloedd â'r canlyniadau iechyd gwaethaf ar hyn o bryd yw'r rhai â'r cyfraddau smygu a gordewdra uchaf. Mae cyfraddau smygu yn Lloegr yn amrywio o 8% yn Richmond upon Thames i 23% yn Blackpool.[168] Mae Ffigur 1.41 hefyd yn awgrymu cyfraddau uwch o ordewdra mewn trefi a dinasoedd yng ngogledd Lloegr. Mae tystiolaeth bod gan rai cymunedau arfordirol ganlyniadau iechyd arbennig o wael.[169]

164 Cyfrifir y gyfradd llwyth achosion fel nifer y bobl ar Lwfans Cyflogaeth a Chymorth wedi'i rannu â'r boblogaeth o oedran gweithio . Sylwer bod y newid i Gredyd Cynhwysol yn golygu na fydd rhai pobl sy'n cael budd-daliadau allan o waith am resymau iechyd yn ymddangos mewn ystadegau Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau. *Stat-Xplore*. Cyrchwyd: 2022.

165 Yr Adran Gwaith a Phensiynau. *The employment of disabled people 2021*. 2021.


166 Yr Adran Gwaith a Phensiynau. *Stat-Xplore*. Cyrchwyd: 2022 Link

167 SYG. *Health state life expectancy, all ages, UK*. 2021.


168 SYG. *Smoking habits in the UK and its constituent countries*. 2020.

169 Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. *Chief Medical Officer Report: Coastal Communities*. 2021.

## Ffigur 1.41 Cyffredinrwydd gorbwysau a gordewdra, awdurdodau lleol yn Lloegr, 2019/2020 a chyfraddau smygu, awdurdodau lleol Prydain Fawr 2019[170]




170 SYG. *Smoking habits in the UK and its constituent countries. 2020*.; Public Health England. Proffil Gordewdra. Cyrchwyd: Rhagfyr 2021. Sylwer: Nid yw cyffredinrwydd amcangyfrifon gorbwysau a gordewdra yn gydlynol ledled y DU. Y Swyddfa Anghyfartaleddau a Gwelliannau Iechyd. *Public Health Profiles*. 2022



Oedolion sy'n Smygu (5)
3.4 i 10.3
10.4 i 12.8
12.9 i 14.7
14.8 i 17.1
17.2 i 27.5
Dim data
Glasgow – Caeredin
Manceinion Fwyaf
Gorllewin Canolbarth Lloegr
Llundain Fwyaf
De-ddwyrain Cymru a'r Cymoedd

### 1.5.2 Cyfalaf ariannol

> **Mae pob rhanbarth yn y DU hefyd yn wynebu bwlch o ran ecwiti (lle mae'r galw posibl am gyllid ecwiti yn fwy na'r hyn sydd ar gael), sy'n gymharol waeth y tu allan i Lundain**

Mae gwahaniaethau sylweddol o ran cael gafael ar gyfalaf ariannol rhwng gwahanol rannau o'r DU, a chrynhoir gweithgarwch ariannol mewn ychydig iawn o ardaloedd (gweler Ffigur 1.42 ac 1.43). Mae hyn yn cyfrannu at wahaniaethau gofodol mewn cynhyrchiant, swyddi a safonau byw. Mae rhai busnesau bach a chanolig yn dueddol o wynebu anawsterau penodol i gael gafael ar gyllid, yn enwedig y tu hwnt i dde-ddwyrain Lloegr.

Prif ffynhonnell cyllid busnesau bach a chanolig yw benthyciadau banc. Ar lefel gronnol, mae benthyciadau banc yn cyfrif am 85% o ddyled heb ei thalu busnesau bach a chanolig, a daw 50% o'r ddyled hon o fanciau mawr y DU.[171] Mae'r ddibyniaeth hon ar fanciau manwerthu yn chwarae rôl wrth egluro gwahaniaethau rhanbarthol o ran cael gafael ar gyllid (gweler Ffigur 1.42 a Ffigur 1.44). Mae technoleg hefyd yn newid y ffordd y mae defnyddwyr yn rhyngweithio â gwasanaethau ariannol, wrth i ddefnyddwyr bellach allu cael gafael ar wasanaethau ariannol yn haws drwy gyfryngau bancio digidol a bancio dros y ffôn. Mae hyn wedi arwain at y penderfyniad masnachol i gyfuno canghennau banciau, gan effeithio ar ardaloedd gwledig (19% o ganghennau yn cau) yn fwy nag ardaloedd trefol (15%).[172]


Yn ôl Banc Busnes Prydain, mae gan y DU fylchau dyledion rhanbarthol o £2-3bn mewn benthyciadau banc arferol a £0.9bn mewn dyled breifat bob blwyddyn. Mae pob rhanbarth yn y DU hefyd yn wynebu bwlch o ran ecwiti (lle mae'r galw posibl am gyllid ecwiti yn fwy na'r hyn sydd ar gael), sy'n gymharol waeth y tu allan i Lundain. Mae'r bwlch ecwiti ar y camau cychwynnol a menter yn cynrychioli tua £1.2bn bob blwyddyn, ac mae cyfanswm y bwlch ecwiti tua £2.8bn bob blwyddyn ledled y DU.[173]

Ar lefel ranbarthol, lleolir 55% o fusnesau'r sector preifat yn y DU yn ne-ddwyrain, dwyrain a gogledd-orllewin Lloegr, ond cânt 86% o fuddsoddiadau ecwiti.[174] Mae'r bylchau ecwiti ar eu mwyaf yn nwyrain Canolbarth Lloegr, Swydd Efrog a Humber, a gorllewin Canolbarth Lloegr, lle mae'r galw yn fwy na chwe gwaith llif cyllid ecwiti. Mae'r bwlch absoliwt yn fwy yn Llundain, gan gyfrif am 35% o gyfanswm y bwlch mewn cyllid.



171 Banc Lloegr. *Open data for SME finance*. 2020.
172 FCA. *Financial Lives 2020 Survey*. 2021.
173 BEIS. *Equity Finance and the UK Regions*. 2019.
174 Banc Busnes Prydain. *Regions and Nations Tracker: Small Business Finance Markets 2021*. 2021.

### Ffigur 1.42 Cyfran ecwiti a chytundebau cyllid dyledion o gymharu â gwerth ychwanegol gros, gwledydd a rhanbarthau'r DU, 2021[175]




Mae rôl sefydliadau yn allweddol wrth ddarparu cyllid dyledion ac ecwiti. Ar hyn o bryd mae llawer o fusnesau bach a chanolig yn dioddef "rhwymedigaeth pellter" – diffyg mynediad am nad yw buddsoddwyr yn ddigon agos i ffurfio'r cydberthnasau a chasglu'r wybodaeth sydd ei hangen i wneud penderfyniadau buddsoddi.[176] Mae mwy nag wyth o bob deg cydberthynas buddsoddi ecwiti yn bodloni'r rheol "amser teithio dwy awr", gan adael busnesau bach a chanolig y tu allan i Lundain a de-ddwyrain Lloegr ag opsiynau drutach, megis gorddrafftiau, llinellau credyd a benthyciadau banc.


**Mae rôl sefydliadau yn allweddol wrth ddarparu cyllid dyledion ac ecwiti**



175 Banc Busnes Prydain. *Regions and Nations Tracker: Small Business Finance Markets 2021*. 2021.

176 Lee, N., Brown R. *Innovation, SMEs, and the Liability of Distance: the Demand and Supply of Bank Funding in UK Peripheral Regions*. Journal of Economic Geography, 17 (1). tt. 233-260. 2017.; Collier, P., Mayer, C. *Reforming the UK financial system to promote regional development in post-COVID Britain*. Oxford Review of Economic Policy, Cyfrol 36, Rhifyn Supplement_1, tt. S270–S280. 2020.

## Ffigur 1.43 Dosbarthiad ecwiti ar draws awdurdodau lleol yn y DU, 2011-2020[177]





Ceir cryn dipyn o gyfalaf nad yw wedi'i ddefnyddio'n ddigonol ledled y DU a allai, mewn egwyddor, gael ei ddefnyddio i gefnogi buddsoddiadau. Er enghraifft, mae gan Gronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol asedau â gwerth cyfunol ar y farchnad o £326bn ym mis Mawrth 2020. Dim ond ychydig o gronfeydd hyd yn hyn sydd wedi buddsoddi o safbwynt lleol, seiliedig ar le.[178] Fel y trafodir ymhellach ym Mhennod 3, mae cryn dipyn o gyfle i sicrhau mwy o gyllid gan fuddsoddwyr sefydliadol y DU mewn prosiectau lleol. Cymerir camau rheoleiddiol ar hyn o bryd i wneud hynny.



177 Banc Busnes Prydain. *Regions and Nations Tracker: Small Business Finance Markets 2021*. 2021.
178 MHCLG. *Local Government Pension Scheme Funds England and Wales: 2019-20 (Revised).* 2021.

**Ffigur 1.44 Lleoliad daearyddol parau buddsoddwr-buddsoddai, gwledydd a rhanbarthau'r DU, 2011-2020**[179]




## 1.5.3 Cyfalaf cymdeithasol

Mae dosbarthiad cyfalaf cymdeithasol yn dibynnu ar y ffordd y caiff ei fesur a'i brofi gan bobl. Er enghraifft, mae Mynegai Anghenion Cymuned yr Ymddiriedolaeth Leol (Ffigur 1.45) – sy'n adlewyrchu mesurau seilwaith cymdeithasol, cysylltedd a chymuned weithgar sy'n cael ei chynnwys – ar ei uchaf mewn trefi a dinasoedd yng ngogledd Lloegr a Chanolbarth Lloegr, yn ogystal ag ardaloedd arfordirol yn nwyrain a de-ddwyrain Lloegr, megis Porth Tafwys a'r Wash. Mae'r ardaloedd â'r anghenion cymuned isaf o fewn ac o amgylch Llundain, trefi prifysgol ac ardaloedd gwledig yng ngogledd Lloegr.

Mae mesurau mwy gwrthrychol o ran cysylltedd cymdeithasol a boddhad lleol yn awgrymu patrwm ychydig yn wahanol. Ar draws y metrigau hyn, mae cyfalaf cymdeithasol yn isel yn Llundain ac ardaloedd trefol. Mae gwahaniaethau mawr o ran y graddau y mae pobl yn teimlo eu bod yn perthyn i'w cymdogaeth gyfagos, o 59% yn Llundain i 71% yng ngogledd-ddwyrain Lloegr.[180]


Nid yw boddhad pobl â'u hardal leol yn dueddol o amrywio'n eang fesul rhanbarth, ond mae rhai arwyddion ei fod yn is yng ngorllewin Canolbarth Lloegr, gogledd-ddwyrain a gogledd-orllewin Lloegr, ac uchaf yn ne-orllewin Lloegr, dwyrain Canolbarth Lloegr a de-ddwyrain Lloegr (gweler Ffigur 1.46).[181] Mae ardaloedd gwledig yn perfformio'n llawer gwell nag ardaloedd trefol ar fesurau boddhad ag ardaloedd lleol, perthyn i'w cymdogaeth a siarad â'u cymdogion.

179 Banc Busnes Prydain. *Regions and Nations Tracker: Small Business Finance Markets 2021*. 2021.

180 DCMS. *Community Life Survey: 2020/21: Table B4: Percentage of adults who feel they very or fairly strongly belong to their immediate neighbourhood*. 2021.


181 DCMS. *Community Life Survey: 2020/21: Table B8: Percentage of adults who are satisfied with their local area as a place to live*. 2021.

## Ffigur 1.45 Sgôr Mynegai Anghenion Cymuned Ymddiriedolaeth Leol, awdurdodau lleol yn Lloegr, 2019[182]




182 Oxford Consultants for Social Inclusion for Local Trust. Left Behind areas 2020 – *Interim Set: Summary findings*. 2020.

### Ffigur 1.46 Boddhad â'r ardal leol, rhanbarthau Lloegr, 2020-21[183]




Nid yw'n glir beth sy'n llywio'r gwahaniaethau rhwng y mesurau hyn o gyfalaf cymdeithasol. Un esboniad yw bod anghenion cymuned yn adlewyrchu mynediad at seilwaith a chyfalaf cymdeithasol, tra bod mesurau gwrthrychol o lesiant yn adlewyrchu pa mor dda y caiff y seilwaith a'r cyfalaf hyn eu defnyddio. Mae mesurau gwrthrychol o gyfalaf cymdeithasol yn unol â phatrwm mwy cyffredinol o lesiant hunangofnodedig yn Llundain sydd ar ei hôl hi o gymharu â gweddill y DU.

## 1.5.4 Cyfalaf ffisegol

Mae cyfalaf ffisegol yn bodoli ar sawl ffurf – trafnidiaeth, tai a digidol. Mae dosbarthiad y gwahanol fathau hyn o gyfalaf yn amrywio yn ôl lle.

Mae seilwaith trafnidiaeth yn fath pwysig o gyfalaf ffisegol am ei fod yn lleihau "pellteroedd" rhwng lleoedd ac yn rhoi mwy o fynediad i'r farchnad i bobl, cwmnïau a gweithwyr. Law yn llaw â hyn ceir mwy o fuddiannau economaidd gan olygu y gall lleoedd â chysylltiadau nad ydynt cystal gael eu gadael ar ôl.[184] Yn Llundain a de-ddwyrain Lloegr y mae seilwaith trafnidiaeth fwyaf cynhwysfawr. Mae hyn yn cynnig mwy o gyfleoedd gwaith yn yr ardaloedd hyn nag mewn mannau eraill. Er enghraifft, mae trafnidiaeth gyhoeddus yn dyblu nifer y swyddi sydd ar gael yn Aldershot o gymharu â Halifax.[185] Mae trafnidiaeth o fewn dinasoedd hefyd yn well yn Llundain. Yn Newcastle a Glasgow, mae treulio awr ar drafnidiaeth gyhoeddus ond yn cynyddu cyfleoedd gwaith draean, ond mae'n eu cynyddu bron bedair gwaith yn Llundain (gweler Ffigur 1.47).[186]


183 DCMS, Community Life Survey: 2020/21: Table B8: Percentage of adults who are satisfied with their local area as a place to live. 2021.

184 Gweler Donaldson, D., Hornbeck, R. *Railroads and American Economic Growth: A "Market Access" Approach.* 2016.; Donaldson, D. *The Gains from Market Integration*. 2015.; a H Overman, H., Winters, A. *North and South, Centre Piece*. 2004.

185 Blagden, J., Tanner, W. *Network Effects: Why levelling up demands a new approach to connectivity*. Onward 2021.

186 Blagden, J., Tanner, W. *Network Effects: Why levelling up demands a new approach to connectivity*. Onward. 2021.

### Ffigur 1.47 Swyddi y gellir eu cyrraedd mewn 60 munud ar gyfer pob swydd o fewn pum milltir[187]




> **“Mae'r buddsoddiad mewn seilwaith trafnidiaeth wedi tueddu i lifo i'r mannau lle mae seilwaith o dan y straen mwyaf yn hytrach na lleiaf helaeth”**

Pan ystyrir amser cymudo, fodd bynnag, mae'r stori yn wahanol. Pobl Llundain sy'n treulio'r amser hiraf o bell ffordd yn teithio i'r gwaith ac oddi yno.[188] Ac er bod y seilwaith trafnidiaeth presennol fwyaf helaeth yn Llundain a de-ddwyrain Lloegr, mae hefyd o dan y pwysau mwyaf, gan adlewyrchu maint anferth marchnad lafur Llundain.[189]


Mae'r buddsoddiad mewn seilwaith trafnidiaeth wedi tueddu i lifo i'r mannau lle mae seilwaith o dan y straen mwyaf yn hytrach na lleiaf helaeth. Noda'r OECD fod buddsoddi hanesyddol yn sylweddol uwch yn Llundain a de Lloegr na rhannau eraill o'r DU. Mae bron 30% o'r holl wariant ar seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus yn Llundain, ac mae'r gwariant y pen ddwbl yr hyn a geir yn yr Alban a theirgwaith yr hyn a geir yng Ngogledd Iwerddon.[190]

Mae'r fath ddynameg yn awgrymu cylchogrwydd pwysig, lle mae marchnad lafur sy'n tyfu yn cynyddu'r straen ar systemau trafnidiaeth, gan ddenu mwy o fuddsoddi mewn seilwaith ac ysgogi twf pellach yn y farchnad swyddi, a thrwy hynny gynyddu'r pwysau ar systemau trafnidiaeth.

Mae patrwm cylchol tebyg ar gyfer *tai*. Crynhoir cyfanswm y cyfoeth tai yn Llundain a de-ddwyrain Lloegr.[191] Ond mae cymarebau prisiau tai i enillion – mesur o ddigonolrwydd cyflenwadau tai – yn sylweddol uwch yn ne Lloegr a dwyrain Lloegr (Ffigur 1.48), gan awgrymu bod mwy o straen ar gyflenwadau tai.

187 Blagden, J., Tanner, W. *Network Effects: Why levelling up demands a new approach to connectivity*. Onward. 2021.
188 Yr Adran Drafnidiaeth. *National Travel Survey 2020: Purpose of travel*. 2021.
189 Transport for London. *Mayor's Transport Strategy: Supporting Evidence*. 2017.
190 Gal, P., Egeland, J. *Reducing regional disparities in productivity in the United Kingdom*. OECD Economics Department Working Papers, Rhif 1456. OECD Publishing. Paris. 2018.
191 SYG. *Property wealth: wealth in Great Britain*. 2022.

## Ffigur 1.48 Cymhareb prisiau tai i enillion yn seiliedig ar breswylfan, dosbarthau awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr, 2020[192]




192 SYG. *House price to workplace-based earnings ratio*. 2021.

Mesur mwy uniongyrchol o ddigonolrwydd tai a chyflenwad digonol yw graddau gorlenwi neu nifer yr aelwydydd digartref. Mae Llundain mewn sefyllfa llawer gwaeth na rhanbarthau eraill yn y ddwy ffordd. Er enghraifft, mae 8.3% o'r cartrefi yn Llundain yn orlawn, fwy na dwbl y gyfradd yn y rhanbarth uchaf nesaf yn Lloegr, gorllewin Canolbarth Lloegr ar 3.4%. Mae'r cyfrifiad yn dangos bod yr etholaethau â'r 14 o gyfraddau uchaf o orlenwi mewn cartrefi i gyd yn Llundain.

> **Mae 8.3% o'r cartrefi yn Llundain yn orlawn, fwy na dwbl y gyfradd yn y rhanbarth uchaf nesaf yn Lloegr**

Mae data mwy gronynnog yn dangos bod gan leoedd megis Birmingham, Luton, Manceinion, Bradford a Chaerlŷr hefyd bocedi o dai gorlawn.[193] Mae'r anghyfartaleddau daearyddol hyn hefyd yn adlewyrchu gwahaniaethau sylweddol yn ôl ethnigrwydd. Er enghraifft, roedd 2% o gartrefi gwyn Prydeinig yn orlawn yn 2019, o gymharu â 24% ar gyfer y rhai o gefndiroedd Bangladeshaidd a 18% ar gyfer y rhai o gefndiroedd Pacistanaidd.[194]

Mae *seilwaith digidol* yn creu darlun gwahanol. Rhwng ardaloedd gwledig a threfol y gwelir yr anghyfartaleddau mwyaf. Mae cyflymderau lawrlwytho sefydlog canolig yn amrywio o 107 megabit yr eiliad (mbps) yn Hartlepool, Middlesbrough, gogledd-ddwyrain Swydd Lincoln, Stockton a gorllewin Swydd Dunbarton, i lai na 35 mbps ar Ynysoedd Erch, Forest of Dean, Ynysoedd Shetland a chanol Dyfnaint.[195] Mae'r darlun yn debyg wrth edrych ar ganran yr eiddo â band eang cyflym iawn.[196] Mae effeithiau tagfeydd ar seilwaith digidol yn llai nag ar gyfer trafnidiaeth a thai, sy'n golygu bod ehangder y seilwaith yn bwysicach na maint y boblogaeth. Mae'r "bwlch sgiliau digidol", rhwng y 97% o bobl 18-25 oed â sgiliau digidol lefel Sylfaen a'r 49% o bobl dros 65 oed ar y lefel hon, yn arwain at anghyfartaleddau gofodol eraill, gydag ardaloedd "hŷn" yn llai hyfedr yn ddigidol.[197]

Mae cyfanswm y stoc cyfalaf ffisegol hefyd yn cynnwys *trefniant cyfalaf fesul cwmnïau*, megis peiriannau. Mae gwaith dadansoddi'r Productivity Insights Network yn awgrymu bod cyfanswm y stoc cyfalaf ffisegol fesul gweithiwr ar ei uchaf yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a rhai rhannau o dde a dwyrain Lloegr (Ffigur 1.49).[198] Mae gan Gymru, Canolbarth Lloegr a llawer o ogledd-orllewin Lloegr lefelau llawer is. Cafwyd yr ardaloedd â'r twf mwyaf mewn cyfalaf fesul gweithiwr yn ystod 2000-2019 yn yr Alban, Llundain Allanol, Hampshire a Sussex fwyaf.

193 Wilson, W., Barton, C. *Overcrowded housing (England)*. Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin. 2021

194 MHCLG. *Overcrowded households*. Medi 2020.


195 Ofcom. *Fixed Performance, Local and Unitary Authority data*. Cyflymder lawrlwytho canolig. Mehefin 2020. Yma diffinnir cyflym iawn fel cysylltiadau band eang â chyflymderau lawrlwytho sydd o leiaf 30 megabit yr eiliad.

196 Ofcom. *Fixed Coverage, Local and Unitary Authority data*. Mehefin 2020.

197 Ipsos MORI. *Essential Digital Skills*. 2021.


198 Gardiner, B., Fingleton, B., Martin, R., Barberi, L. *UK Regional Capital Shocks and Productivity, an Updated Analysis*. Y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol. 2021.

## Ffigur 1.49 Stoc gyfalaf fesul gweithiwr, is-ranbarthau ITL2 y DU, 2019[199]




199 Gardiner, B., Fingleton, B., Martin, R., Barberi, L. *UK Regional Capital Shocks and Productivity, an Updated Analysis*. Y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol. 2021.

## Ffigur 1.50 Trefniant cyfalaf sefydlog gros o gymharu â Llundain, gwledydd a rhanbarthau'r DU, 2000-2019[200 201]





Gall Buddsoddiad Uniongyrchol o Dramor chwarae rôl bwysig yn y gwaith o gynyddu'r stoc gyfalaf yn uniongyrchol, ond hefyd drwy "effeithiau deilliadol" anuniongyrchol. Mae cwmnïau rhyngwladol symudol ymhlith y mwyaf cynhyrchiol, arloesol, ac sy'n buddsoddi fwyaf yn y DU. Fodd bynnag, yn y rhannau mwyaf ffyniannus o'r wlad mae'r gweithgarwch hwn i'w gael fwyaf a chynyddol. Rhwng 2016 a 2019, cynyddodd stociau buddsoddiadau uniongyrchol o dramor yn sylweddol yn Llundain a de-ddwyrain Lloegr, ond gwnaethant sefydlogi neu ddirywio yng Ngogledd Iwerddon a gogledd-orllewin Lloegr (gweler Ffigur 1.51).




200 SYG. *Regional gross fixed capital formation, by ITL1 and ITL2 region, 2000 to 2019*. 2021.
201 Sylwer bod yr amcangyfrifon hyn hefyd yn cynnwys rhai mathau o gyfalaf anniriaethol

**Ffigur 1.51 Buddsoddiad Uniongyrchol o Dramor fesul swydd y gweithlu, gwledydd a rhanbarthau'r DU, 2019**[202]




## 1.5.5 Cyfalaf anniriaethol


Mae cyfalaf anniriaethol yn cynnwys mathau ffurfiol o fuddsoddiadau, megis eiddo deallusol, meddalwedd a phatentau, a mathau anffurfiol, megis prosesau ac arferion ymgorfforedig.[203] Mae cryn dipyn o'r incwm o eiddo deallusol – mesur o gyfanswm gwerth cyfalaf anniriaethol – yn Rhydychen a Chaergrawnt, er bod sefydliadau ymchwil yng ngogledd-ddwyrain Lloegr hefyd yn perfformio'n dda (Ffigur 1.52).

Mae patentau wedi'u crynhoi'n llai, gyda chlystyrau yng Nghanolbarth Lloegr, dwyrain Lloegr, de-ddwyrain Lloegr a'r Alban. Fodd bynnag, mae cymwysiadau patentau uwch-dechnoleg wedi'u dosbarthu i raddau llai, gan awgrymu crynhoad daearyddol mwy o alluoedd mwy datblygedig yn y Triongl Aur ac o'i amgylch (Ffigurau 1.53 ac 1.54). Mae'r un peth yn wir am swyddi mewn uwch-dechnoleg neu swyddi STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg) (Ffigurau 1.55 ac 1.56).

> **“Crynhoad daearyddol o alluoedd mwy datblygedig yn y Triongl Aur ac o'i amgylch”**


202 SYG. *Statistical bulletin: Foreign direct investment involving UK companies*. 2020.
203 SYG. *Experimental estimates of investment in intangible assets in the UK: 2015*. 2018

## Ffigur 1.52 Incwm o eiddo deallusol yn ôl darparwyr Addysg Uwch, is-ranbarthau ITL2 y DU, 2018[204]





204 BEIS. *HE intellectual property income: Income from intellectual property by higher education providers*. 2018.

### Ffigur 1.53 Ceisiadau patent, is-ranbarthau ITL2 y DU, 2012[205]





205 BEIS. *Patent applications (EPO): Count of patent applications normalised by the number of applicants in a patent if there are more than one*. 2012.

## Ffigur 1.54 Patentau uwch-dechnoleg, is-ranbarthau ITL2 y DU, 2012[206]





206 BEIS. *High Tech Patent applications (EPO): Count of High Tech patent applications normalised by the number of applicants in a patent if there are more than one*. 2012.

## Ffigur 1.55 Canran cyflogaeth mewn swyddi STEM, is-ranbarthau ITL2 y DU, 2019[207]





207 BEIS. *STEM employee density: Percentage of population employed in science, research, engineering and technology professional by NUTS 2 regions*. 2019.

## Ffigur 1.56 Swyddi uwch-dechnoleg, is-ranbarthau ITL2 y DU, 2019[208]




208 BEIS. *Location quotient of employment in high tech industries based on the Business Register Employment Survey*. 2019.

## Ffigur 1.57 Sgôr arferion rheoli, gwledydd a rhanbarthau Prydain Fawr, 2020[209]





209 SYG. *Management practices in Great Britain: 2016 i 2020*. 2021.

Mae arferion a phrosesau rheoli cwmnïau yn elfen bwysig arall o gyfalaf anniriaethol. Yn Ffigur 1.57 ceir asesiad o ansawdd rheoli ledled y DU. Mae'n awgrymu anghyfartaleddau daearyddol sylweddol, gyda lefelau uwch yn Llundain a de-ddwyrain Lloegr, a lefelau is yng Nghymru a de-orllewin Lloegr.

Mae ymchwil a datblygu yn sbardun allweddol croniad cyfalaf anniriaethol. Yn y de-ddwyrain, dwyrain Lloegr a Llundain mae cyfanswm y gwariant ar ymchwil a datblygu fwyaf mewn termau absoliwt (Ffigur 1.58). Mae gwahaniaethau gofodol yn llai wrth edrych ar ddwyseddau ymchwil a datblygu, er eu bod yn dal yn sylweddol.[210] Dim ond saith o blith 41 o is-ranbarthau ITL2 y DU sy'n gwario mwy na chyfartaledd OECD o 2.4% o werth ychwanegol gros ar ymchwil a datblygu.[211]

**Ffigur 1.58 Gwariant ymchwil a datblygu, gwledydd a rhanbarthau Prydain Fawr, 2019**[212]




## 1.5.6 Cyfalaf sefydliadol

Un ffactor o ran cryfder sefydliadau lleol yw'r graddau y gwneir penderfyniadau'n ganolog. Mae'r DU yn wlad hynod ganolog o gymharu â chyfartaledd OECD, gyda llai yn cael ei wario gan lywodraethau is-genedlaethol nag mewn gwledydd cymheiriaid eraill.[213] Mae gan weinyddiaethau datganoledig fwy o ymreolaeth nag ardaloedd yn Lloegr, er eu bod ond yn cyfrif am gyfran fach o gyfanswm poblogaeth y DU.

210 Ychydig dan hanner gwariant y Llywodraeth ar ymchwil a datblygu yn 2018/10 oedd ar ffurf credydau treth (gwariant cyngor ymchwil, gwariant yn gysylltiedig ag ansawdd (a'r hyn sy'n cyfateb iddo), a gwariant Innovate UK). Mae'r 'effaith pencadlys' – lle caiff credydau treth eu bwcio i bencadlys, sy'n dueddol o fod wedi'i leoli yn Llundain a'r cyffiniau – yn awgrymu y *gall* cyllid gael ei ddosbarthu'n decach. Ffynhonnell: UKRI. *Regional distribution of UKRI spend*. 2018.

211 Y rhanbarthau hyn yw: East Anglia, Swydd Hereford, Swydd Gaerwrangon a Swydd Warwick, Berkshire, Swydd Buckingham a Swydd Rydychen, Swydd Bedford a Swydd Hertford, Swydd Derby a Swydd Nottingham, Swydd Derby a Swydd Nottingham a Swydd Gaerloyw, Wiltshire ac ardal Caerfaddon/Bryste. Ffynhonnell: Eurostat. *NUTS2 GERD as a percentage of GDP (R&D intensity)*. *Cyrchwyd: Ionawr 2022.*


212 SYG. *Gross domestic expenditure on research and development, by region, UK*. 2021.

213 Gal, P., J. Egeland. *Reducing regional disparities in productivity in the United Kingdom*. OECD Economics Department Working Papers, Rhif 1456. OECD. 2018.

Yn Lloegr, mae graddau datganoli yn dibynnu ar p'un a oes gan ranbarthau fargen ddatganoli a pha mor eang ydyw. Ar hyn o bryd mae gan 11 o ardaloedd fargeinion datganoli – naw Awdurdod Cyfun Maerol yn ogystal â Llundain a Chernyw – er bod dyfnder ac ehangder datganoli yn amrywio. Llundain a Manceinion Fwyaf sydd â'r lefelau mwyaf o ymreolaeth. Mae tua 40% o drigolion Lloegr bellach yn cael eu gwasanaethu gan feiri dinas-ranbarth a etholwyd yn uniongyrchol.[214]

Nid yw'r ffaith bod llywodraeth ganolog a leolir yn Llundain yn bennaf yn rhoi mwy o bŵer i Lundain yn ffurfiol, ond gall effeithio ar faint o ddylanwad a gaiff dros benderfyniadau. Mae peth tystiolaeth bod pobl yn Llundain yn teimlo y gallant effeithio ar benderfyniadau am eu hardal leol yn well na rhannau eraill o'r DU (Ffigur 1.59).

### Ffigur 1.59 Canran yr oedolion sy'n cytuno y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol, rhanbarthau Lloegr, 2020/21[215]





Darperir mesur gwahanol o gryfder sefydliadol lleol gan y Mynegai Gwead Cymdeithasol wedi'i lunio gan y felin drafod Onward (gweler Ffigur 1.60). Mae'r mynegai hwn yn mesur cryfder cydberthnasau, sefydliadau dinesig, normau ac ymddygiadau, seilwaith ffisegol a gwerth economaidd mewn mannau. I sefydliadau dinesig, mae'n mesur ymddiriedaeth, ymgysylltiad ac ansawdd sefydliadau yn yr ardal leol, a fesurir â dangosyddion megis nifer y pleidleiswyr mewn etholiadau lleol a chyffredinol, ymddiriedaeth yn y llywodraeth a sefydliadau eraill.

Ar lefel ranbarthol, mae gan yr Alban, de-orllewin Lloegr a Llundain Fwyaf sefydliadau dinesig cymharol gryf, ond mae sefydliadau dinesig gogledd-ddwyrain Lloegr, dwyrain Lloegr, a Chymru yn wannach. Ar lefel leol, ymhlith y lleoedd â'r sefydliadau dinesig lleiaf cryf mae Hull, Doncaster a Barnsley, sef yr ardaloedd sy'n perfformio'n wael mewn perthynas ag amrywiaeth o fathau eraill o gyfalaf.

214 SYG. *Estimates of the population for the UK, England and Wales, Scotland and Northern Ireland*. 2021. Devoconnect. *Interactive Devolution Map*. Cyrchwyd: Ionawr 2022.

215 DCMS. *Community Life Survey: 2020/21: Table C4: To what extent people agree that they personally can influence decisions affecting their local area*. 2021.


## Ffigur 1.60 Sgôr Gwead Cymdeithasol Pellach, awdurdodau lleol ym Mhrydain Fawr, a Gogledd Iwerddon, 2020[216]




216 O'Shaughnessy, J., Tanner, W., Krasniqi, F., Blagden, J. *The State of our Social Fabric: Measuring the changing nature of community over time and geography: Index*. Onward. 2020.

Mae sefydliadau megis Partneriaethau Menter Lleol yn chwarae rôl bwysig yn dwyn rhanddeiliaid o awdurdodau lleol a busnesau ynghyd. Yn ôl Cyfrifiad y Partneriaethau Menter Lleol, mae'r mwyafrif ohonynt o'r farn eu bod wedi sefydlu cydberthnasau gwaith cryf ag awdurdodau lleol a darparwyr addysg uwch (a welir yn Ffigur 1.61). Fodd bynnag, mae rhai Partneriaethau o'r farn nad yw busnesau yn chwarae rôl lawn na gweithredol. Mae gallu ac adnoddau Partneriaethau Menter Lleol hefyd yn amrywio'n sylweddol ar draws gwahanol rannau o'r DU.[217]

**Ffigur 1.61 Cryfder rhwydweithiau lleol Partneriaethau Menter Lleol – Canran y partneriaethau sy'n cytuno/anghytuno bod y cyrff canlynol yn chwarae rôl lawn a gweithgar yn y bartneriaeth, 2015**[218]





## 1.5.7 Crynodeb a synthesis

Mae cryn orgyffwrdd o ran y ffordd y caiff mathau o gyfalaf eu dosbarthu, ar draws ac o fewn rhanbarthau a gwledydd y DU. Ar lefel leol, os bydd un neu fwy o'r mathau hyn o gyfalaf yn ddiffygiol iawn, yna gall lleoedd gael eu hunain mewn cylch cythraul, sydd wedyn yn effeithio ar berfformiad y mathau eraill o gyfalaf. Mae'r diagram yn Ffigur 1.62 yn dangos hyn.



217 BEIS. *Local enterprise partnerships capacity and capabilities assessment*. 2020.
218 Swyddfa Archwilio Genedlaethol. *Cyfrifiad Partneriaethau Menter Lleol.* 2016.
219 Yn seiliedig ar ymatebion 38 o Bartneriaethau Menter Lleol.

### Ffigur 1.62 Fframwaith Cyfalaf Ffyniant Bro




> **Mae daearyddiaethau lleol yn aml yn nodedig, gyda gwahanol gyfuniadau o gryfder a gwendid ar draws y chwe chyfalaf**

Mae rhai pocedi clir a ddiffinnir yn dda o gryfder cyson yn y mathau o gyfalaf – er enghraifft, yn Llundain a de-ddwyrain Lloegr. Hefyd ceir ardaloedd o wendid eang, yn cynnwys Gogledd Iwerddon a gogledd-ddwyrain Lloegr. I lawer o leoedd fodd bynnag, mae'r patrwm yn un cymysg. Mae daearyddiaethau lleol yn aml yn nodedig, gyda gwahanol gyfuniadau o gryfder a gwendid ar draws y chwe chyfalaf.

Ar sawl mesur, mae Llundain yn edrych yn wahanol iawn i weddill y DU. Ar yr ochr gadarnhaol, mae ganddi lefel lawer uwch o sgiliau, stoc uwch o gyfalaf diriaethol ac anniriaethol, a seilwaith digidol a thrafnidiaeth gwell. Mae ganddi boblogaeth iau, fwy symudol, hefyd. Ar yr ochr negyddol, mae ganddi ganlyniadau gwaeth mewn mesurau gwrthrychol o gyfalaf cymdeithasol ac mae ei seilwaith trafnidiaeth a thai o dan y straen mwyaf, er gwaethaf y lefel uwch o fuddsoddiad.

Y ffordd orau o egluro'r patrymau hyn yw fel proses gydgasglol, gylchol. Mae cydleoli busnesau dwys o ran gwybodaeth a phobl fedrus yn creu swyddi â chyflogau uchel. Mae hyn yn denu pobl hynod addysgedig sydd, drwy seilwaith trafnidiaeth Llundain, yn galluogi'r farchnad lafur i dyfu mewn maint ac ansawdd. Ond mae'r twf hwn yn rhoi pwysau ar seilwaith a thai, gan greu dinas sy'n llai diogel ac yn ddrutach, mwy gorlawn a llygredig na mannau eraill, gan niweidio profiad byw trigolion.

Gwelir y gwrthwyneb yn digwydd mewn rhai ardaloedd difreintiedig. Mae stociau o gyfalaf dynol a ffisegol yn isel, fel sy'n aml yn wir am gyfalaf cymdeithasol a sefydliadol. Mae hyn yn creu proses gylchol lle mae pobl fedrus a busnesau arloesol yn symud allan, gan beri i ansawdd a nifer swyddi a sgiliau

leihau, ynghyd â mesurau iechyd, gan olygu bod rhai lleoedd yn cael eu dal mewn cylch incwm isel, llesiant isel.

Trydydd patrwm sy'n dod i'r amlwg yw rhaniad trefol/gwledig clir, o leiaf ar hyd rhai dimensiynau. Mae hyn i'w weld yn nosbarthiad demograffeg, seilwaith digidol a seilwaith trafnidiaeth, a mesurau gwrthrychol o gyfalaf cymdeithasol. Ceir casgliad o gymunedau gwledig hŷn lle mae cryn dipyn o gysylltioldeb cymdeithasol ac ymdeimlad o berthyn yn lleol, ond mae cysylltedd, sgiliau a chyfalaf cynhyrchiol yn isel. Mae'r gwrthwyneb yn wir mewn rhai dinas-ranbarthau mawr.

Pedwerydd patrwm yw bod lefelau o gyfalaf cymdeithasol a sefydliadol – ac felly gallu ac adnoddau a chyfrwng lleol – yn wahanol iawn ledled y DU. Mae sefydliadau dinesig cryf yn darparu'r sylfeini ar gyfer arweinyddiaeth leol, prosesau gwneud penderfyniadau, cydweithio ac ymddiriedaeth effeithiol ymhlith partneriaid. Mae gwendid y sefydliadau hyn mewn rhai lleoedd yn adlewyrchu eu perfformiad economaidd a chymdeithasol gwael, ac yn cyfrannu ato.

## 1.6 Rhyngddibyniaeth y gwahanol fathau o Gyfalaf

Mae cysylltiad agos rhwng y chwe chyfalaf fel rhan o ecosystem economaidd gymhleth ac addasol. Yn wir, rhyngddibyniaeth y gwahanol fathau o gyfalaf sy'n sbarduno cydgrynhoi, gan fod cryfder un cyfalaf yn cael effaith ar y rhai eraill mewn modd gronnol, atgyfnerthol. Un o'r prif ffactorau o ran ymddygiad sy'n peri'r goferu hwn rhwng y gwahanol fathau o gyfalaf yw'r penderfyniadau a wneir gan bobl am ble maent yn byw.

> **Mae cysylltiad agos rhwng y chwe chyfalaf fel rhan o ecosystem economaidd gymhleth ac addasol**

Mae'r dewis o leoliad yn dibynnu ar ystod eang o ffactorau. Mae swyddi a sgiliau yn un penderfynydd pwysig. Ond felly hefyd gysylltiadau teuluol, ysgolion, tai, trafnidiaeth, a chyfleusterau diwylliannol a hamdden. Mewn geiriau eraill, mae ffactorau economaidd a ffactorau eraill yn bwysig wrth bennu ble mae rhywun yn dewis byw, ac mae eu pwysigrwydd yn amrywio rhwng unigolion – yn dibynnu, ymhlith pethau eraill, ar eu hoedran a'u sgiliau.

Mae gwaith yn sbardun allweddol o ran ble mae pobl yn byw. Bydd gweithwyr yn llenwi swyddi yn seiliedig ar eu cymwysterau a'u dewisiadau o ran swyddi.[220] Mae gweithlu ystwyth yn bwysig i gryfder yr economi yn gyffredinol, am ei fod yn helpu i baru sgiliau gweithwyr ag anghenion busnes.[221] Mae symudedd llafur yn hynod bwysig ar ddechrau gyrfa pan fydd gweithwyr yn cael profiadau newydd ac yn meithrin sgiliau newydd.[222]

Caiff symudedd marchnad lafur mewnol yn y DU ei lywio gan weithwyr ifanc hynod fedrus. Mae carfannau iau o'r boblogaeth yn cyfrif am gyfran anghymesur o bobl sy'n symud oherwydd swydd (Ffigurau 1.63 ac 1.64).[223] O fewn y grŵp hwn, mae'r rhai â lefelau uwch o sgiliau yn llawer mwy tebygol o symud. Yn 27 oed, mae tua 35% o raddedigion a 15% o bobl nad ydynt yn raddedigion wedi symud o'r ardal teithio i'r gwaith lle roeddent yn byw yn 16 oed.[224]

220 Kuminoff, N. V., V. K. Smith., Timmins, C. *The New Economics of Equilibrium Sorting and Policy Evaluation Using Housing Markets*. Journal of Economic Literature, 51 (4): 1007-62. tt.1. 2010.


221 Haldane, A. *The UK's Productivity Problem: Hub No Spokes (Speech)*. Bank of England. 2018.

222 Gardiner, L., Gregg, P. *Study, Work, Progress, Repeat? How and why pay and progression outcomes have differed across cohorts*. Resolution Foundation. 2017.

223 Centre for Cities. *The Great British Brain Drain: Where graduates move and why*. 2016. t.4; CBI. *Unlocking Regional Growth: Understanding the Drivers of Productivity across the UK's regions and nations*. t. 27. 2017.


224 Britton, J., van der Erve, L., Waltmann, B., Xiaowei X. *London Calling? Higher education, geographical mobility and early-career earnings*. Adroddiad yr Adran Addysg. 2021.

### Ffigur 1.63 Cyfrannau carfannau o'r boblogaeth sy'n symud rhanbarth ITL1 a chyflogwr, 2017[225]




Nodiadau: Cyfran y bobl 18-64 oed oedd yn byw y tu allan i'w rhanbarth preswylio presennol flwyddyn yn ôl, yn gyflogedig y llynedd, ac wedi bod yn eu swydd am lai na blwyddyn. Mae rhanbarthau yn cyfeirio at yr 19 o is-ranbarthau/gwledydd yn y DU. Mae rhentwyr yn cynnwys y rhai mewn tai cymdeithasol (sy'n eiddo i'r cyngor a chymdeithasau tai)

### Ffigur 1.64 Cyfran yr holl raddedigion sy'n symud yn ôl sefydliad a dosbarth gradd 2013/14 i 2014/15[226]




225 Clarke, S. *Get A Move On? The decline in regional job-to-job moves and its impact on productivity and pay.* Resolution Foundation. 2017.


226 Swinney, P., Maire Williams, M. *The Great British Brain Drain: Where graduates move and why*. Centre for Cities. 2016.

Dyfnder marchnadoedd llafur lleol, ac ansawdd y swyddi sydd ar gael, yw'r ffactorau mwyaf arwyddocaol wrth bennu ble mae graddedigion iau yn ymgartrefu. Adlewyrchir hyn yn y cysylltiad rhwng maint dinas ac ansawdd y graddedigion y mae'n eu denu (Ffigur 1.65).[227] Rhan o'r stori yw bod dinasoedd mwy yn cynnig cyflogau uwch.[228] Ond mae ffactorau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau, megis cyfleoedd diwylliannol a chymdeithasol, hefyd yn bwysig.[229]

Fel y gronfa ddyfnaf o gyfalaf o bob math, Llundain sydd ar ei hennill fwyaf yn sgil mudo mewnol, gan ddenu cyfran anghymesur o raddedigion sy'n symud, er yr ymddengys fod mudo net wedi gostwng dros amser wrth i raddedigion hŷn adael Llundain.[230] Mae tua chwech o bob deg o raddedigion o'r prifysgolion mwyaf yn symud i Lundain, o gymharu â thua dwy ran o bump mewn prifysgolion eraill.[231]

Ffactor pwysig yw'r premiwm cyflogau a gynigir i raddedigion yn Llundain, sy'n sylweddol uwch nag unrhyw le arall yn y wlad, yn ogystal â'r amwynderau a gynigir gan y ddinas.[232] I'r gwrthwyneb, mae cryn dipyn o drigolion medrus wedi gadael Gogledd Iwerddon, yn enwedig myfyrwyr sy'n symud i Brydain Fawr.[233] Yn ôl ffurflenni'r cyfrifiad yn 2011, roedd bron chwarter o'r graddedigion o oedran gweithio a anwyd yng Ngogledd Iwerddon yn byw yng Nghymru a Lloegr.[234]

### Ffigur 1.65 Patrymau symudedd graddedigion, 16-27 oed, 2013/14 i 2016/17[235]




Mae ffactorau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau yn chwarae rhan bwysig wrth egluro ble mae gweithwyr hynod fedrus yn byw, megis ystyriaethau

227 Britton, J. et al. *The impact of living costs on the returns to higher education*. IFS. t. 28. 2021.
228 Britton, J. et al. *The impact of living costs on the returns to higher education*. IFS. 2021.; Swinney, P., Maire Williams, M. *The Great British Brain Drain: Where graduates move and why*. Centre for Cities. 2016.
229 Swinney, P., Maire Williams, M. *The Great British Brain Drain: Where graduates move and why*. Centre for Cities. 2016, t.3
230 Clarke, S. *Get A Move On? The decline in regional job-to-job moves and its impact on productivity and pay*. Resolution Foundation. 2017.
231 CBI. *Unlocking Regional Growth*. 2017.
232 Britton, J. et al ar gyfer y Sefydliad Astudiaethau Cyllidol. *London calling? Higher education, geographical mobility and early-career earnings*. IFS. t. 25. 2021.
233 Fitzgerald, J., Morengorth, E. *The Northern Ireland Economy: Problems and Prospects*, Trinity Economics Papers, 2019.
234 Fitzgerald, J. Investment in Education and Economic Growth on the Island of Ireland. Journal of the Statistical and Social Inquiry Society of Ireland Cyf. 48 tt. 195-210. 2018-19.
235 Britton, J. et al. *London calling? Higher education, geographical mobility and early-career earnings.* IFS. t. 25. 2021.

**Mae ffactorau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau yn chwarae rhan bwysig wrth egluro ble mae gweithwyr hynod fedrus yn byw.**

safonau byw a chostau tai.[236] Er enghraifft, mae graddedigion sydd dros 30 oed ac â phlant yn dueddol o symud i ffwrdd o ganol trefi i faestrefi oherwydd cost a maint tai, a'r math o dai, er mwyn bod yn agos i ysgolion da ac oherwydd bod y gymdogaeth yn fwy diogel.[237]

I'r gwrthwyneb, mae'r cymhellion i symud yn wannach i bobl llai medrus. Nid yw pobl nad ydynt yn raddedigion sy'n symud yn ennill mwy na'r rhai nad ydynt yn symud.[238] Mae cyflogau yn rhan isaf y dosbarthiad cyflog yn llawer mwy tebyg ar draws rhanbarthau na'r rhai ar y brig, yn rhannol am fod cyflogau wedi'u cywasgu oherwydd yr isafswm cyflog.[239] Mae absenoldeb premiwm cyflogau i weithwyr llai medrus yn arwain at gymhellion ariannol is i symud lleoliad ac fe'i gwaethygir gan gostau tai uwch mewn ardaloedd mwy cynhyrchiol (fel y dangosir yn Ffigur 1.67).


Ond i weithwyr llai medrus mae'r penderfyniad i beidio â symud yn ymwneud â mwy na chyflog yn aml. Mae ganddynt lai o adnoddau hefyd i reoli'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â symud ac yn aml mae ganddynt gysylltiadau cryfach â'r ardal lle gwnaethant dyfu i fyny.[240] Mae ymchwil ddiweddar wedi nodi bod gan bobl ifanc o aelwydydd incwm is hefyd yn aml gysylltiad lleol cryfach â gartref na'r rhai o aelwydydd incwm uwch, ac mae ganddynt lai o adnoddau i deithio ymhellach.[241] Mae graddedigion o'r cwintel SEG uwch 12 pwynt canran yn fwy tebygol o symud na'r rhai nad ydynt yn raddedigion, o gymharu â phedwar pwynt canran i'r rhai o'r cwintel SEG is.[242]

Mae cefndir economaidd-gymdeithasol yn ymddangos fel petai'n effeithio ar allu pobl i symud, ni waeth beth yw lefel eu sgiliau. Yn ôl yr IFS, er bod gradd yn benderfynydd allweddol o ran y parodrwydd i symud, mae statws economaidd-gymdeithasol (SEG), cyrhaeddiad blaenorol a tharddle teithio i'r gwaith yn chwarae rôl fawr. Mae graddedigion o'r cwintel SEG uwch 12 pwynt canran yn fwy tebygol o symud na'r rhai nad ydynt yn raddedigion, o gymharu â phedwar pwynt canran i'r rhai o'r cwintel SEG is.[243] Mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos bod pobl a anwyd y tu allan i'r DU yn fwy tebygol o symud (gweler Ffigur 1.68).

Ymddengys fod cyfran y gweithlu sy'n symud swyddi o fewn rhanbarthau islaw ei hanterth yn 2001 (Ffigur 1.66).[244] Dyma'r achos ar draws pob lefel o addysg, er bod y newid wedi bod yn fwy amlwg ymhlith graddedigion iau. Ymddengys fod nifer o ffactorau yn gyfrifol am hyn, yn cynnwys llai o wahaniaethau rhanbarthol mewn diweithdra. Ond mae pwysau pwysau'r dystiolaeth yn awgrymu bod llai o symudedd yn deillio o gostau tai uwch yn Llundain, gan leihau'r premiwm cyflogau a'r cymhellion i symud.[245]


236 Swinney, P., Maire Williams, M. *The Great British Brain Drain: Where graduates move and why*. Centre for Cities. tt. 32. 2016.
237 Swinney, P., Maire Williams, M. *The Great British Brain Drain: Where graduates move and why*. Centre for Cities. tt. 9. 2016.
238 Britton, J. et al. *The impact of living costs on the returns to higher education*. IFS. 2021, t. 37.
239 Agrawal, S., Phillips, D. *Catching up or falling behind? Geographical inequalities in the UK and how they have changed in recent years*. IFS. 2020.
240 Y Comisiwn ar Symudedd Cymdeithasol. *The long shadow of deprivation*. 2020.
241 Leonard, P., Wilde, R. J. *Getting In and Getting On in the Youth Labour Market; Governing Young People's Employability in Regional Context*. Gwasg Prifysgol Bryste. 2019.
242 Britton, J., van der Erve, L., Waltmann, B., Xiaowei X. *London Calling? Higher education, geographical mobility and earlycareer earnings*. Adroddiad yr Adran Addysg. t.18 2021.
243 Britton, J., van der Erve, L., Waltmann, B., Xiaowei X. *London Calling? Higher education, geographical mobility and earlycareer earnings*. Adroddiad yr Adran Addysg. t.18 2021.
244 Champion, T., Shuttleworth I. *Is longer-distance migration slowing? Analysis of the annual record for England and Wales since the 1970s*. Prifysgol Newcastle. 2016.
245 Judge, L. *Moving Matters: Housing costs and labour market mobility*. Resolution Foundation. t.18. 2019.

## Ffigur 1.66 Cyfran y graddedigion sy'n symud rhanbarthau ac yn newid swyddi, a'r amrywiad o ran cyfradd cyflogaeth graddedigion[246]




Nodiadau: Cyfran y bobl 18-64 oed oedd yn byw y tu allan i'w rhanbarth preswylio presennol flwyddyn yn ôl, yn gyflogedig y llynedd, ac wedi bod yn eu swydd am lai na blwyddyn. Mae rhanbarthau yn cyfeirio at yr 19 o is-ranbarthau/gwledydd yn y DU. Cyfernod amrywiad yw'r gwyriad safonol wedi'i rannu â'r cymedr.


## Ffigur 1.67 Cynnydd damcaniaethol mewn enillion gwario (enillion canolrifol llai rhent canolrifol) o ganlyniad i symud awdurdod lleol[247]




246 Clarke, S. *Get A Move On? The decline in regional job-to-job moves and its impact on productivity and pay.* Resolution Foundation. 2017.

247 Bell, T. *Britain has become a less mobile nation – Why?*. Resolution Foundation. 2019.

**Ffigur 1.68 Cyfran y bobl sy'n symud rhanbarth a chyflogwr, i'r rhai wedi'u geni y tu allan i'r DU a'r rhai wedi'u geni yn y DU, 1994 i 2017.**[248]




Nodiadau: Cyfran y bobl 18-64 oed oedd yn byw y tu allan i'w rhanbarth preswylio presennol flwyddyn yn ôl, yn gyflogedig y llynedd, ac wedi bod yn eu swydd am lai na blwyddyn. Mae rhanbarthau yn cyfeirio at yr 19 o is-ranbarthau/gwledydd yn y DU.


> **Mae didoli pobl ar sail sgiliau wedi cynyddu lefelau cydgrynhoi mewn lleoedd sy'n datblygu'n gadarn, ond eto i gyd mae wedi lleihau cyfalaf dynol ymhellach mewn lleoedd sy'n cael eu gadael ar ôl**

Gallai fod i lai o symudedd llafur oblygiadau i'r defnydd o sgiliau. Os yw graddedigion yn llai tebygol o symud i ardaloedd mwy cynhyrchiol, gallent fod yn gweithio islaw eu potensial cynhyrchiol. Mae cydberthynas gadarnhaol rhwng graddedigion sy'n aros yn yr ardal lle gwnaethant dyfu i fyny a pharu sgiliau gwael yn yr ardal honno (Ffigur 1.69).

Mae'r fath batrymau symudedd llafur yn debygol o fod wedi atgyfnerthu dynameg cydgrynhoi ledled y DU. Mae didoli pobl ar sail sgiliau wedi cynyddu lefelau cydgrynhoi mewn lleoedd sy'n datblygu'n gadarn, ond eto i gyd mae wedi lleihau cyfalaf dynol ymhellach mewn lleoedd sy'n cael eu gadael ar ôl. Mae hyn yn cael sgil-effeithiau negyddol ar leoedd sy'n perfformio'n dda ac yn perfformio'n wael. I leoedd mwy cyfoethog, mae wedi rhoi pwysau ar gostau tai a safonau byw, gan leihau lefelau symudedd a chynhyrchiant. I leoedd tlotach, mae wedi cyflymu dirywiad y gwahanol fathau o gyfalaf, gan leihau rhagolygon twf a chynhyrchiant hefyd.

248 Clarke, S. *Get A Move On? The decline in regional job-to-job moves and its impact on productivity and pay.* Resolution Foundation. 2017.

**Ffigur 1.69 Cyfran y graddedigion sy'n aros gartref ac mewn swyddi nad ydynt yn swyddi i raddedigion**[249]




Nodiadau: Cyfran y graddedigion addysg uwch 'sefydledig' (allan o addysg ers pum mlynedd neu fwy) cyflogedig yn gweithio mewn rolau nad ydynt yn rolau i raddedigion. Cyfran y graddedigion sy'n gweithio flwyddyn ar ôl graddio yn yr un rhanbarth ag y gwnaethant astudio ynddo a lle roeddent yn byw yn flaenorol.

## 1.7 Rôl Polisi Cyhoeddus

Yn yr adran hon ystyrir beth yw rôl briodol polisi cyhoeddus o ran ad-drefnu'r ddaearyddiaeth economaidd a gwrthdroi anghyfartaleddau gofodol ledled y DU. Mae'r fframwaith a amlinellir yn yr adran flaenorol yn awgrymu pedwar amcan lefel uchel ar gyfer polisi cyhoeddus:

a. **rhoi hwb i gynhyrchiant, cyflogau, swyddi a safonau byw drwy helpu'r sector preifat i dyfu, yn enwedig mewn mannau lle mae ar ei hôl hi;**
b. **lledaenu cyfleoedd a gwella gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig mewn mannau lle mae hynny wannaf;**
c. **adfer ymdeimlad o gymuned, balchder lleol a pherthyn, yn enwedig mewn mannau lle collwyd hynny; a**
d. **grymuso arweinwyr lleol a chymunedau, yn enwedig mewn mannau lle mae diffyg cyfrwng lleol.**

Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, mae angen i bolisi cyhoeddus fodloni dau faen prawf allweddol. Yn gyntaf, mae angen iddo fod yn *ddymunol* o safbwynt economaidd a chymdeithasol. Hynny yw, mae angen iddo gywiro methiannau yn y farchnad sydd wedi'u diffinio'n dda, neu ddatgloi cyfleoedd clir, er mwyn hybu twf, swyddi a boddhad â bywyd. Yn ail, mae angen i gamau gweithredu polisi fod yn *ymarferol* o safbwynt dylunio a chyflawni, gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael, yn genedlaethol ac yn lleol. Trafodir y rhain yn y ddwy adran nesaf yn eu tro.

249 Clarke, S. *Get A Move On? The decline in regional job-to-job moves and its impact on productivity and pay.* Resolution Foundation. 2017.

### 1.7.1 Dymunoldeb polisi twf lleol

Mae gwahaniaethau daearyddol yn deillio o rymoedd y farchnad, sy'n gwneud i bobl, busnesau ac arian fynd i'r cyfeiriad lle tybir bod yr enillion ar eu huchaf. Gan fod mecanweithiau'r farchnad yn llywio'r broses gydgrynhoi, gellid dadlau y dylent esgor ar ganlyniad sy'n effeithlon yn economaidd, er nad o reidrwydd yn un teg na chyfiawn yn gymdeithasol. O safbwynt effeithlonrwydd dyrannol, mae dadl y dylai polisi cyhoeddus weithredu mewn ffordd "niwtral yn ddaearyddol" neu hyd yn oed "ddall yn ddaearyddol".

Yr wrthddadl yw y gall grymoedd y farchnad, o'u gadael ar eu pen eu hunain, esgor ar fethiannau yn y farchnad sy'n gostus yn economaidd ac yn gymdeithasol. Dangosir y costau hyn yn dda gan brofiad hanesyddol y DU. Heb fod mesurau polisi adferol ar waith, achosodd newidiadau strwythurol rhwygol yn yr economi niwed economaidd mawr a pharhaol i rannau helaeth o'r DU. Arweiniodd hyn at ddegawdau o gyfleoedd rhagweladwy i unigolion, cymunedau a rhanbarthau, a symiau mawr o dwf rhagweladwy ar lefel leol a chenedlaethol.

**"Drwy gywiro'r methiannau hyn yn y farchnad, gwelir cyfleoedd a thwf posibl"**

Mae'n glir o dystiolaeth y DU a'r dystiolaeth ryngwladol, oni chaiff ei rheoli'n dda, y gall y broses drosi strwythurol ddal lleoedd mewn cylch twf isel. Yn ogystal â bod yn anghyfiawn yn gymdeithasol, mae hefyd yn aneffeithlon yn economaidd. Mae'r fath aneffeithlonrwydd economaidd yn fwy tebygol, po fwyaf yw maint a pho hiraf yw hyd yr ysgytwadau sy'n effeithio ar le, a pho leiaf yw'r stociau presennol o gyfalaf mewn lle. Byddai'r ddau ffactor yn dueddol o leihau cadernid lle a'i allu i adfer yn dilyn ysgytwadau yn y dyfodol.[250]

Yn hyn o beth, mae daearyddiaeth economaidd y DU yn dechrau o safle hynod fregus. Mae stociau presennol o gyfalaf wedi lleihau mewn rhannau helaeth o'r DU, fel y nodir mewn adrannau cynharach. Ac mae'r ysgytwadau yn y dyfodol a fydd yn effeithio ar y lleoedd hyn, megis awtomeiddio a newid yn yr hinsawdd, yn fawr ac yn hirdymor o bosibl. Mae hyn yn peri diffyg cadernid gofodol ledled y DU ac yn galw am ymateb polisi cyhoeddus.

Byddai strategaeth ofodol â chyfeiriad da yn mynd i'r afael â dau fethiant yn y farchnad wrth y ffynhonnell – mae'r cyntaf yn effeithio ar leoedd sy'n cael eu gadael ar ôl, ac mae'r ail yn effeithio ar leoedd sy'n perfformio'n dda. Drwy gywiro'r methiannau hyn yn y farchnad, gwelir cyfleoedd a thwf posibl mewn mannau lle mae'r fath fethiannau yn y farchnad yn effeithio arnynt. Mewn geiriau eraill, drwy fynd i'r afael â methiannau yn y farchnad sy'n seiliedig ar le, gall strategaethau sy'n seiliedig ar le sicrhau mwy o gyfran. Maent yn ymwneud â datgloi cyfleoedd a rhoi hwb i effeithlonrwydd dyrannol, nid ailddosbarthu rhwng lleoedd per se. Dyna yw *ffyniant bro* yn ei hanfod.

Mae methiant cyntaf y farchnad yn digwydd mewn lleoedd â chydbwysedd twf isel, iechyd gwael, llesiant isel atgyfnerthol. Byddai helpu lleoedd i ddianc o'r trap hwnnw o bosibl yn datgloi twf mewn lle, drwy roi hwb i sgiliau, cynhyrchiant, iechyd, incymau ac ansawdd bywyd. Am fod hyn yn ymwneud â datgloi'r potensial mewn lle, ni fyddai'r enillion ar draul unrhyw le arall; byddent yn tyfu'r gyfran.

Yn amodol ar rai tybiaethau, mae modd "pwyso a mesur" drwy ddatgloi lleoedd o'u cydbwysedd twf isel (Tabl 1.6). Er enghraifft, ystyriwch pe byddai perfformiad y chwarter o leoedd sy'n perfformio waethaf o ran cynhyrchiant yn cyrraedd lefel ganolig. Byddai'r hwb i gynhyrchiant yn cyfateb i godiad cyflog o ryw £2,300 i

250 Gweler Duranton, G. *Urban Evolutions: The Fast, the Slow, and the Still.* American Economic Review cyf 97. 2007.; Moretti, E. *The New Geography of Jobs.* Mariner Books. 2013.

unigolion yn yr ardaloedd tlotaf. I economi'r DU yn gyffredinol, byddai hyn yn sicrhau cynnydd mewn gwerth ychwanegol gros o ryw £50bn y flwyddyn.

### Tabl 1.6 Buddiannau Ffyniant Bro sy'n Cyfateb i Incwm – darluniad[251]

| **Beth yw buddiannau codi'r 25% o leoedd ar y gwaelod i gyfartaledd y DU?** | |
|---|---|
| Allbwn Economaidd Ychwanegol y flwyddyn (gwerth ychwanegol gros fesul awr a weithiwyd) | tua £50bn |
| Cynnydd cyfartalog mewn incwm blynyddol fesul gweithiwr yn yr ardaloedd hynny (enillion wythnosol gros, cyfanswm) | tua £2,300 fesul gweithiwr |
| Cynnydd blynyddol mewn boddhad â bywyd (termau cyfateb i incwm) (boddhad â bywyd cymedr) | £57bn – £92bn |
| Cynnydd blynyddol mewn disgwyliad oes (termau cyfateb i incwm) (disgwyliad oes dynion a menywod adeg geni) | tua £44bn |
| Cyfanswm gwerth y cynnydd mewn cymwysterau (enillion ychwanegol gydol oes a buddiannau deilliadol ehangach) (% y bobl 16-64 oed â chymhwyster yn cyfateb i lefel 3 neu addysg uwch) | £46bn – £78bn |

Mae modd cynnal arbrawf meddwl tebyg drwy gynyddu lefelau cyrhaeddiad addysgol, canlyniadau iechyd a llesiant ymhlith y lleoedd hynny lle maent ar eu hisaf i ganolrif y DU. Os caiff yr enillion hynny mewn sgiliau, iechyd a hapusrwydd eu rhoi mewn termau cyfateb i incwm, byddent yn esgor ar hwb mawr tebyg i unigolion ac i'r economi gyfan, yn cyfateb i ddegau o biliynau o bunnoedd cronnol.[252] Er nad yw'r effeithiau hyn yn adiol at yr hwb i werth ychwanegol gros yn sgil cynnydd mewn cynhyrchiant, maent yn ategu'r effeithiau hynny.

Er eu bod ond yn ddangosol, mae'r buddiannau amcangyfrifedig hyn yn debyg eu maint i'r rhai a gyfrifwyd yn ddiweddar gan sefydliadau eraill. Er enghraifft, mae PWC yn amcangyfrif bod budd cynnyrch domestig gros cynhyrchiant ffyniant bro oddeutu £80bn y flwyddyn.[253] Ac mae'r CBI yn amcangyfrif bod yr hwb posibl i gynhyrchiant y DU o ffyniant bro oddeutu £200bn y flwyddyn.[254] Mae'r holl amcangyfrifon hyn yn destun cryn ansicrwydd, ond maent i gyd yn arwyddocaol yn feintiol.

---

251 Nid yw'r effeithiau hyn yn adiol, ac mae'r holl werthoedd yn £2019, heb eu disgowntio. Maent wedi cael eu cyfrifo yn seiliedig ar ranbarthau yn y chwartel isaf ar gyfer gwerth ychwanegol gros fesul awr a weithiwyd ac enillion wythnosol gros sy'n cyflawni canolrif y DU. Ar gyfer boddhad â bywyd, disgwyliad oes a sgiliau, mae hyn yn seiliedig ar y chwartel isaf o ddosbarthau awdurdod lleol yn cynyddu i ganolrif y DU. Mae boddhad â bywyd wedi'i drosi'n dermau cyfateb i incwm gan ddefnyddio blynyddoedd bywyd wedi'u haddasu ar sail llesiant ([ffynhonnell](#)). Mae disgwyliad oes wedi'i drosi'n dermau cyfateb i incwm gan ddefnyddio QALYs ([ffynhonnell](#)). Mae sgiliau wedi cael eu trosi'n dermau cyfateb i incwm gan ddefnyddio amcangyfrifon gwerth presennol net fesul dechreuad, gyda'r ystod yn seiliedig ar gyflawni addysg NVQ3+ drwy brentisiaeth yn erbyn seiliedig ar addysg ([ffynhonnell](#)).

252 Yn seiliedig ar gynyddu enillion wythnosol gros (cyfanswm) yn y chwartel isaf o ranbarthau i lefel enillion canolrif y DU. Ffynhonnell: SYG. *EARN05: Gross weekly earnings of full-time employees by region*. 2021.

253 PWC. *UK Economic Outlook*. 2019.

254 Curca, A. *Levelling up: the gains from empowering local economic clusters to play to their strengths*. CBI. 2021.

> **Os byddai dinasoedd sy'n tanberfformio yng ngogledd Lloegr a Chanolbarth Lloegr mor gynhyrchiol â Llundain a de-ddwyrain Lloegr, gallai cynnyrch domestig gros y DU gael hwb o ryw £180bn y flwyddyn**

Ffordd arall o gyfrifo'r difidend twf yn sgil sicrhau ffyniant bro yw ystyried rhoi hwb i dwf posibl mewn lleoedd penodol. Er enghraifft, mae'r Centre for Cities wedi asesu enillion posibl datgloi potensial ail ddinasoedd y DU sy'n tanberfformio. Mae'n amcangyfrif, os byddai dinasoedd sy'n tanberfformio yng ngogledd Lloegr a Chanolbarth Lloegr mor gynhyrchiol â Llundain a de-ddwyrain Lloegr, gallai cynnyrch domestig gros y DU gael hwb o ryw £180bn y flwyddyn, er bod y ffigur hwn yn un terfyn uwch.[255]

Mae ail fethiant y farchnad i'w weld, nid mewn lleoedd sydd wedi cael eu gadael ar ôl, ond mewn rhai sy'n perfformio'n dda. Gall fod gan gydgrynhoi sgil-effeithiau negyddol i ardaloedd sy'n datblygu'n gadarn. Y bobl sy'n byw yn y lleoedd hyn yn aml sy'n wynebu'r teithiau cymudo hiraf, y prisiau tai uchaf a'r lefelau gwaethaf o lygredd. Yn wir, y ffactorau hynny sy'n helpu i egluro pam mae mesurau ansawdd bywyd yn aml yn is mewn ardaloedd o'r DU sy'n perfformio'n dda fel arall, megis Llundain (Ffigur 1.18).

Os byddai ffyniant bro yn helpu i gyfrannu at lai o dagfeydd, llai o lygredd a theithiau cymudo byrrach yn yr ardaloedd hyn, gallai gynyddu lefelau boddhad â bywyd yn y lleoedd hynny. Er enghraifft, os byddai ansawdd bywyd Llundeiniwr cyffredin yn cyrraedd lefel ganolrif y DU, byddai'n cyfateb o ran incwm i godiad cyflog o hyd at £2,200 fesul gweithiwr y flwyddyn.[256]

Mewn egwyddor, mae enillion datgloi potensial mewn lleoedd a chywiro'r ddau fethiant yn y farchnad yn barhaol ac yn gronnol bob blwyddyn. Mae buddiannau cyffredinol ffyniant bro wedyn yn lluosi'r difidend blynyddol. Er enghraifft, tybiwch fod ffyniant bro yn sicrhau cynnydd parhaol yn lefel cynnyrch domestig gros y DU o £50bn y flwyddyn, tua chanolrif yr amcangyfrifon. Mae angen i'r enillion incwm hyn yn y dyfodol gael eu disgowntio er mwyn rhoi budd hirdymor (neu werth presennol net) cywiro methiannau'r farchnad a sicrhau ffyniant bro.

Tybiwch fod incwm cenedlaethau'r dyfodol yn cael ei ddisgowntio ar gyfradd o 4% a bod cyfradd twf economi'r DU yn y dyfodol yn 2%. Mae'r ddau yn amcangyfrifon tebygol. Felly mae gwerth presennol net datgloi potensial twf a sicrhau ffyniant bro oddeutu 50 gwaith y difidend ymlaen llaw, neu tua £2.5 triliwn. Mae'r enillion hynny yn cyfateb yn fras i gynnyrch domestig gros blynyddol y DU. Yn yr hirdymor, byddai'r effeithlonrwydd dyrannol gwell yn sgil ffyniant bro yn arwain at dwf sylweddol yn economi'r DU.

Mae'r ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon dangosol hyn yn fawr ond maent hefyd yn ddeuochrog. Er enghraifft, gallai'r hwb i allbwn posibl mewn lleoedd sydd wedi cael eu gadael ar ôl fod dros dro yn hytrach nag yn barhaol. Mae hefyd rywfaint o risg y gallai enillion mewn lleoedd sydd wedi cael eu gadael ar ôl fod ar draul lleoedd sy'n datblygu'n gadarn am fod pobl, busnesau neu gyllid yn symud o un lle i'r llall. Byddai hyn yn dueddol o leihau gwerth presennol net ffyniant bro.


255 Centre for Cities. *Cities Outlook 2020*. 2020.

256 Yn seiliedig ar y cynnydd mewn WELBYs yn sgil cynyddu boddhad â bywyd cymedr yn Llundain (rhanbarth ITL1) i ganolrif y DU. Ffynhonnell: SYG. *Annual Personal Well-being Estimates*. 2021.

Ar y llaw arall, mae'n bosibl y gallai polisïau i gefnogi lleoedd sydd wedi cael eu gadael ar ôl roi hwb, nid yn unig i lefel gweithgarwch, ond hefyd i'r gyfradd twf sylfaenol. Byddai hyn yn rhoi hwb sylweddol i werth presennol net polisi twf lleol. Ychydig iawn o dystiolaeth sydd bod polisïau rhanbarthol ar draul llai o dwf economaidd cronnol (Ffigur 1.70). Os rhywbeth, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod anghyfartaleddau gofodol mawr yn llesteirio twf economaidd.[257] Mae hyn yn unol â thystiolaeth o bob cwr o'r wlad sy'n cysylltu lefelau uchel o anghydraddoldeb â lefelau is o berfformiad cronnol.[258]

Mae anghyfartaleddau gofodol uchel yn y DU yn debygol o fod wedi llesteirio twf a llesiant, nid dim ond mewn lleoedd sydd wedi cael eu gadael ar ôl ond ledled y DU gyfan. Mae'r difidend o ddatgloi'r potensial hwn yn debygol o fod yn fawr, yn ariannol (megis cynhyrchiant) ac yn anariannol (llesiant, iechyd, sgiliau). Mae hefyd yn debygol o fod yn barhaol. Mae cau anghydbwysedd daearyddol felly yn cynnig dau fudd posibl, sef gwella safonau byw a boddhad â bywyd, yn gadarn ac yn sylweddol, mewn lleoedd sydd wedi cael eu gadael ar ôl a lleoedd sy'n datblygu'n gadarn.

### Ffigur 1.70 Cynnyrch domestig gros fesul twf blynyddol y pen ac anghydraddoldeb rhyngranbarthol, rhanbarthau TL3 OECD (heb gynnwys economïau pontio blaenorol), 2000-2017[259] [260]




257 Carrascal-Incera, A., McCann, P., Ortega-Argilés, R., Rodriguez-Pose, A. *UK Interregional Inequality in a Historical and International Comparative Context*. National Institute Economic Review, 253, R4-R17. 2020; Floerkemeier, H., Spatafora, N., Venables, A. *Regional Disparities, Growth, and Inclusiveness*. Working Paper No. 2021/038. IMF. 2021.; Cörvers, F, Mayhew, K. *Regional inequalities: causes and cures*. Oxford Review of Economic Policy, 37(1), tt.1-16. 2021; e Dominicis, L. *Inequality and Growth in European Regions: Towards a Place-based Approach*. Spatial Economic Analysis, 9(2). 2014.; Rosés, J. R., Holmes, C., Mayhew, K. *Over-qualification and Skills Mismatch in the Graduate Labour Market*, Llundain, CIPD. 2015.

258 IMF. *Redistribution, Inequality, and Growth*. 2014.

259 Carrascal-Incera, A., McCann, P., Ortega-Argilés, R., Rodriguez-Pose, A. *UK Interregional Inequality in a Historical and International Comparative Context*. National Institute Economic Review, 253, R4-R17. 2020.

260 Mae 'Theil' yn cyfeirio at fynegai Theil, sef ystadegyn a ddefnyddir i fesur anghydraddoldeb economaidd. Po fwyaf yw gwerth mynegai Theil, y mwyaf yr anghydraddoldeb.

### 1.7.2 Ymarferoldeb polisi twf lleol

Pan ystyrir *ymarferoldeb* polisi twf lleol o ran cyflawni'r enillion hyn, mae profiad rhyngwladol yn hynod ddiddorol. Gall polisïau cyhoeddus sydd wedi'u targedu i roi hwb i dwf lleol fod yn llwyddiannus, ac maent wedi bod yn llwyddiannus mewn nifer o leoedd, er nad i gyd, ar yr amod y rhoddir y strategaeth gywir ar waith. Ym Mlwch 1.1 nodir peth tystiolaeth astudiaeth achos ryngwladol o ran y lleoedd lle mae polisïau twf lleol wedi gweithio a pham. Mae'r astudiaethau achos hynny yn awgrymu pum gwers gyffredinol ar gyfer polisi twf lleol llwyddiannus.

> **"Gall polisïau cyhoeddus sydd wedi'u targedu i roi hwb i dwf lleol fod yn llwyddiannus, ac maent wedi bod yn llwyddiannus mewn nifer o leoedd"**

- **Hirhoedledd a digonolrwydd polisïau**: Mae anghyfartaleddau gofodol yn hirdymor ac yn ddibynnol ar hanes. Felly mae gwrthdroi hanes yn gofyn am ymdrechion polisi cyson a pharhaus hirdymor sy'n cyfateb i raddau'r anghyfartaleddau. Mae hyn yn wers allweddol o brofiad rhyngwladol, lle mae rhaglenni llwyddiannus yn aml wedi rhychwantu degawdau ac wedi cael amcanion tymor canolig clir a chyson.
- **Cydgysylltu a chyflwyno polisïau**: Fel ecosystem economaidd, mae polisi twf lleol llwyddiannus yn gofyn am gydlynu strategol ar draws gwahanol feysydd polisi, yn cynnwys trafnidiaeth, sgiliau, iechyd, busnes, cyllid, addysg a seilwaith. Mae hefyd yn gofyn am gydlynu strategol ar draws y gwahanol sectorau sy'n gyfrifol am gyflawni twf: cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.
- **Grymuso lleol:** Er nad yw datganoli lleol yn ateb i bopeth, mae prosesau gwneud penderfyniadau lleol wedi bod yn dueddol o sicrhau perfformiad economaidd lleol gwell, gan fod polisïau lleol yn diwallu anghenion lleol. Mae cysylltiad empiraidd rhwng graddau datganoli penderfyniadau ac anghyfartaleddau gofodol mewn perfformiad economaidd, gan adlewyrchu'r ffaith hon efallai.
- **Tystiolaeth, gwaith monitro a gwerthuso**: Gall dyraniad daearyddol, ac effaith economaidd, gwariant a pholisïau'r llywodraeth liniaru neu waethygu effeithiau cydgrynhoi. Mae angen mynd ati i werthuso gwariant y llywodraeth ac ymyriadau polisi yn fanwl gywir er mwyn deall beth sy'n gweithio a'r cyfraniad y mae polisïau yn ei wneud at gau gwahaniaethau gofodol.
- **Tryloywder ac atebolrwydd:** Mae atebolrwydd clir am ganlyniadau, ar lefel genedlaethol a lleol, hefyd yn hanfodol i fynd i'r afael ag anghyfartaleddau gofodol yn llwyddiannus.

Fel mae Pennod 2 yn ei drafod, yn y DU mae'r pum sylfaen ar gyfer strategaeth twf lleol lwyddiannus wedi tueddu i fod yn gymharol wan yn hanesyddol.



## Profiad Rhyngwladol ar Bolisïau Twf Lleol

Bu sawl ymgais i wrthdroi dirywiad rhanbarthau neu eu hadfywio, megis yn Ardal Dociau Llundain, hen ardal Dwyrain yr Almaen, y Ruhr, creu Awdurdod Dyffryn Tennessee, a *metropoles d'equilibre* Ffrainc (rhaglen i gywiro dominyddiaeth economaidd dybiedig Paris). Ar lefel dinas, mae'r ymdrechion yn cynnwys San Antonio, Pittsburgh, Detroit a Grand Forks, North Dakota yn yr UD, a dinasoedd Ewropeaidd Barcelona, Rotterdam, Malmo a Lille.

Mae'r holl enghreifftiau hyn yn dioddef, i ryw raddau, o duedd dethol. Am bob ymdrech lwyddiannus i adfywio lle, bu nifer o wrth-enghreifftiau llai llwyddiannus.[261] Mae angen i ymyriadau osgoi dadleoli ac anghydraddoldeb gofodol cynyddol. Nid yw ymdrechion llwyddiannus i leihau anghyfartaleddau gofodol bob amser yn arwain at gydraddoldeb gofodol llawn. Er gwaethaf ymdrechion helaeth, mae'r Ruhr a llawer o ardaloedd yn Nwyrain yr Almaen yn dal i weld llawer o weithwyr medrus yn gadael i chwilio am waith â thâl gwell mewn mannau eraill. Mae gan lawer o ardaloedd yn Nwyrain yr Almaen gyfran uwch o bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol heb gymhwyster ysgol uwchradd na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae dros 20% o drigolion rhanbarth y Ruhr yn dal i fod mewn tlodi. Lle mae swyddi sgiliau lefel uwch wedi cael eu creu, mae swyddi wedi mynd i weithwyr hynod fedrus o'r tu allan i'r rhanbarth yn amlach na pheidio. At hynny, deellir fwyfwy y gall dadleoli pobl leol – yn aml y rhai y bwriedir i'r rhaglen eu helpu – fod yn gostus yn economaidd.[262] At hynny, mae tystiolaeth ddibynadwy ar effaith rhaglenni adfywio yn gyfyngedig yn aml. Prin y bydd gwaith gwerthuso yn mynd rhagddo drwy gydol y rhaglen. Mae hefyd yn arbennig o anodd nodi gwrth-ffeithiol realistig neu gyfrif yn gywir am effeithiau dadleoli. Hwyrach y bydd rhai lleoedd wedi tyfu hyd yn oed heb ymyriad. Ac er y gall twf mewn achosion eraill ymddangos yn fach iawn, gallai fod wedi bod yn waeth byth heb raglen.

Un o'r themâu cyffredin o'r holl enghreifftiau a ystyrir yma yw'r angen i newid y *gyfundrefn bolisi* sy'n adfywio twf yn y chwe math o gyfalaf, a thrwy hynny sbarduno dynamiaeth economaidd. Yn y mwyafrif o achosion, gwnaeth llywodraeth ganolog neu is-genedlaethol fuddsoddiadau sylweddol a pharhaus mewn cyfalaf dynol, ffisegol a sefydliadol, a fu'n gatalydd i dwf uwch.

## Gweledigaeth glir a rennir

Mae'r rhan fwyaf o ymyriadau llwyddiannus wedi eu gwreiddio mewn gweledigaeth glir a chyffredin, a rennir gan randdeiliaid allweddol.[263] Mae'r enghreifftiau nodedig yn cynnwys San Antonio a Pittsburgh yn yr UD.[264] Llwyddodd St Antonio, ail ddinas fwyaf poblog talaith Texas, i ddianc rhag y cylch cyflog isel yn y 1980au drwy ddatblygu cenhadaeth glir i wella ei chystadleurwydd a glynu wrthi. Llwyddodd Pittsburgh i adfer o gyfnod o ddad-ddiwydiannu cyflym yn rhannol oherwydd gweledigaeth gyffredin sefydliadau allweddol i sefydlu'r ddinas fel canolfan ar gyfer sectorau uwch-dechnoleg a chyrchfan deniadol i weithwyr medrus.

Mewn ysbryd tebyg, yn dilyn ailuno, datblygodd yr Almaen amrywiaeth o strategaethau rhyng-gysylltiedig wrth fynd ar drywydd y nod lefel uchel o sicrhau amodau byw teg a chyfartal ledled y wlad. Law yn llaw â hyn aed ar drywydd amcanion polisi penodol, megis sicrhau bod seilwaith Dwyrain yr Almaen yn cyrraedd safonau cenedlaethol.[265]

261 Rodríguez-Pose, A. *The revenge of the places that don't matter (and what to do about it), Cambridge Journal of Regions, Economy and Society*, 11: tt. 189-209. 2018'.

262 Rodríguez-Pose, A. *The revenge of the places that don't matter (and what to do about it). Cambridge Journal of Regions, Economy and Society*, 11: tt. 189-209. 2018

263 Swyddfa Archwilio Genedlaethol. *How European Cities achieve renaissance*. 2007.

264 *What does it take to 'level up' places*. 2021.

265 WWF Germany. *Just transition for regions and generations: Experiences from structural change in the Ruhr area*. 2019.

## Rhaid i bolisïau fod yn hirdymor ac yn gyson

Yn y mwyafrif o enghreifftiau llwyddiannus o bolisi twf lleol, mewn degawdau nid blynyddoedd y caiff llwyddiant ei fesur. Roedd lleoedd llwyddiannus yn mynd ati i gyflawni strategaethau dros gyfnodau hir ac ar draws cylchoedd gwleidyddol. Mewn rhai achosion, megis ar gyfer y 25 mlynedd o adfywio Barcelona, roedd pleidiau gwleidyddol unigol yn darparu cysondeb polisi.[266] Ond yn y mwyafrif o achosion roedd consensws rhwng pleidiau yn hanfodol.

Wrth geisio cysondeb, caiff rhaglenni tymor byrrach eu cynnwys mewn strategaethau tymor hwy yn aml. Y cynllun i ailadeiladu Dwyrain yr Almaen yn dilyn uno yw un o'r enghreifftiau amlycaf. Gan rychwantu sawl llywodraeth, cafodd 'Aufbau Ost' ('Ailadeiladu Dwyrain yr Almaen') ei fframio o amgylch strategaethau cyffredinol hirdymor (tua 20 mlynedd) gyda nodau penodol ar gyfer rhaglenni llai i gyflawni heriau penodol. I'r gwrthwyneb, cymysg fu llwyddiant *metropoles d'equilibre* yn rhannol am nad oedd y dull "un ateb i bawb" yn talu digon o sylw i ofynion penodol ardaloedd gwahanol.[267]

## Rhaid i fuddsoddiadau ddigwydd wrth raddfa a chael eu cydgysylltu

Mae cyllido parhaus wrth raddfa, yn aml gan lywodraeth ganolog ond hefyd drwy bwerau codi trethi lleol a chyfraniadau preifat, yn elfen hanfodol o ymdrechion llwyddiannus i sicrhau twf lleol. Yn dilyn ailuno, cafodd swm amcangyfrifedig o €2tn (tua £1.7tn) ei wario yn Nwyrain yr Almaen rhwng 1990 a 2014.[268] Defnyddiwyd cronfeydd i leihau gwendidau strwythurol drwy fynd i'r afael ag ôl-groniadau mewn seilwaith, ond hefyd i gefnogi camau arloesol, ymchwil a datblygu a chynllunio trefol.

Yn yr UD, bu modd i leoedd megis San Antonio a Grand Forks ddefnyddio pwerau codi trethi lleol i ategu cymorth gan lywodraeth ganolog. Fodd bynnag, nid yw buddsoddiadau mawr gan lywodraeth ganolog yn ddigonol ar eu pen eu hunain. Mae hyn yn awgrymu bod angen llunio strategaethau twf lleol sy'n cynnwys cyllid preifat.



266 Swyddfa Archwilio Genedlaethol. *How European Cities achieve renaissance*. 2007.

267 Parr, J. *Growth-pole Strategies in Regional Economic Planning: A Retrospective View: Part 2. Implementation and Outcome.* Urban Studies. 1990.

268 Enenkel, K. *What can German Unification teach the UK about Levelling Up?*. Centre for Cities. 2021.

## Rhaid i lywodraethau a rhanddeiliaid eraill gydweithio

Mae rhaglenni llwyddiannus yn gofyn am gydweithio â rhanddeiliaid, trigolion ac ardaloedd cyfagos, yn ogystal â llywodraeth ganolog. Mewn sawl achos, bu cydweithrediad sefydliadau sylfaen, megis prifysgolion a sefydliadau ymchwil, sefydliadau ariannol, busnesau anariannol a'r sector gwirfoddol, yn ganolog i ymdrechion i wella twf, yn enwedig gweithgareddau a diwydiannau mwy dwys o ran gwybodaeth.

Yn Lille Fwyaf cafwyd cydweithio rhwng awdurdodau lleol ledled Ffrainc a Gwlad Belg, yn ogystal ag awdurdodau metropolitanaidd a rhanddeiliaid eraill, i gyflawni gwaith adfywio cymhleth ar raddfa fawr. Gan ddefnyddio cysylltiadau hirsefydledig rhwng dinasoedd, newidiodd y Ruhr i ddull integredig o gyflawni strategaeth yn hytrach na dull sectoraidd, gyda phrifysgolion newydd yn sail i'r pontio i economi wybodaeth, buddsoddi mewn tir llwyd er mwyn mynd i'r afael â materion ecolegol a sefydlu atyniadau i dwristiaid, a pholisi marchnad lafur a sgiliau er mwyn cynyddu cyfran y gweithwyr â chymwysterau galwedigaethol neu lefel gradd. Mewn sawl achos, mae sefydliadau yn gyfrifol am gydgysylltu'r gwaith o gyllido a goruchwylio strategaethau. Yn yr UD, mae gan ddinasoedd a thaleithiau yn aml gorfforaethau datblygu economaidd sydd â chylch gwaith i ddenu buddsoddiadau a hwyluso twf cwmnïau lleol. Yn dilyn Gemau Olympaidd 1992, sefydlodd Barcelona gorff adfywio, sef Barcelona Regional, sy'n dal i weithredu heddiw.[269] Cafodd lleoedd eraill fudd o hanes hir o sefydliadau â rhwydweithiau cryf o gwmnïau a chyfranwyr eraill.

269 See *Barcelona Regional* website.



# Pennod 2
# Diwygio Systemau

## 2.1 Cyflwyniad

Mae Pennod 1 yn disgrifio maint a gwreiddiau anghyfartaleddau daearyddol yn y DU a'r rôl y gall polisi chwarae i'w gwrthsefyll. Dangosodd nad oes un ateb syml na phenodol i wrthdroi anghyfartaleddau gofodol am fod economïau lleol yn systemau cymhleth, wedi'u llywio gan ffactorau economaidd, cymdeithasol a sefydliadol cronnol a rhyngysylltiedig. Mae angen i raglenni polisi llwyddiannus weithredu ar y chwe chyfalaf sy'n sail i ffyniant lleoedd er mwyn gwrthdroi'r grymoedd hyn.

Mae'r bennod hon yn dechrau drwy esbonio pam mae pob ymgais yn y gorffennol i hyrwyddo cydgyfeirio gofodol yn y DU wedi bod yn aflwyddiannus a pha wersi y gellir eu dysgu o'r profiad hwnnw. At ei gilydd, nid oedd y rhai a oedd yn gwneud penderfyniadau yn genedlaethol ac yn lleol fel arfer yn meddu ar y *wybodaeth*, y *cymhellion* na'r *sefydliadau* i weithredu mewn ffordd arwyddocaol ac estynedig.

Gan ddysgu'r gwersi hyn o'r gorffennol, mae'r bennod hon yn argymell newidiadau mawr i'r wybodaeth, y cymhellion a'r sefydliadau sy'n sail i brosesau gwneud penderfyniadau gofodol yn y DU. Bydd y trawsnewidiad hwn yn y system lywodraethu, ac wrth lywodraethu polisi gofodol, yn cael ei gefnogi gan bum elfen:

a. dull o bennu polisi sy'n seiliedig ar genhadaeth;
b. ailgyfeirio prosesau gwneud penderfyniadau llywodraeth ganolog;
c. rhoi mwy o bŵer i lywodraeth leol wneud penderfyniadau;
d. chwyldro mewn data a thryloywder ar y lefel is-genedlaethol; ac
e. gwell tryloywder ac atebolrwydd yn y gyfundrefn newydd hon.

**“Nid oes un ateb syml na phenodol i wrthdroi anghyfartaleddau gofodol”**

Mae'r pum elfen hyn yn atgyfnerthu ei gilydd. Mae pob un yn cyflawni rôl angenrheidiol yn y gyfundrefn bolisi newydd. Ond bydd angen eu heffaith gyfun i ail-lunio prosesau gwneud penderfyniadau a chyflawni amcanion sicrhau ffyniant bro yn yr hirdymor, fel rhan o system lywodraethu newydd. Dyna pam mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar y wybodaeth, y cymhellion a'r sefydliadau gwell sy'n sail i'r gyfundrefn bolisi newydd.

## 2.2 Egwyddorion Cyfundrefnau Polisi Llwyddiannus

Mae'r adran hon yn ystyried hanes dulliau polisi cyhoeddus o sicrhau ffyniant bro yn y DU, y gwersi hanesyddol wrth lunio polisi heddiw a lle mae newid i systemau, ym meysydd polisi cyhoeddus eraill, wedi gwella'r gallu i gyflawni amcanion polisi cyhoeddus yn y tymor hwy. Daw i ben gyda'r egwyddorion craidd y bydd angen eu hymgorffori mewn cyfundrefn bolisi er mwyn sicrhau llwyddiant ffyniant bro.

### 2.2.1 Hanes dulliau polisi cyhoeddus yn y DU

Dros y ganrif ddiwethaf, mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno llawer o bolisïau i fynd i'r afael ag anghyfartaleddau daearyddol. Ers dechrau'r 1920au, bu sawl cyfnod gwahanol o bolisi, yn aml yn cyd-daro â llywodraethau newydd (Ffigur 2.1). Roedd bron pob un o'r polisïau hyn yn rhedeg am gyfnod cymharol fyr o amser cyn cael eu disodli neu eu cynnal ochr yn ochr â mentrau eraill.

Cafodd polisïau i leihau anghyfartaleddau gofodol eu datblygu'n gyntaf yn y DU yn ystod y cyfnod rhwng y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd wrth i ddiwydiannau traddodiadol grebachu o ganlyniad i gystadleuaeth o dramor, a chawsant eu hatgyfnerthu wrth i ddiweithdra gynyddu ar ôl y Dirwasgiad Mawr. Sefydlwyd mentrau newydd i gefnogi twf a swyddi, megis y Ddeddf Ardaloedd Arbennig (1934). Rhoddodd hyn gymhellion i gwmnïau, adleoli i'r ardaloedd yr effeithiwyd arnynt fwyaf yn y DU, gyda'r nod o sbarduno twf cytbwys, uwch.[270]

> **Cafodd polisïau i leihau anghyfartaleddau gofodol eu datblygu'n gyntaf yn y DU yn ystod y cyfnod rhwng y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd**

Ar ôl y rhyfel, cafwyd rhagor o ymyriadau i fynd i'r afael â newidiadau strwythurol yn yr economi a achoswyd gan y rhyfel. Roedd y polisïau "o'r brig i lawr" yn ystod y cyfnod hwn yn efelychu modelau cynharach yn yr ystyr eu bod yn mynd ati'n rhagweithiol i ffurfio patrwm daearyddol datblygiad diwydiannol. Cyflwynodd Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1947, er enghraifft, system o 'dystysgrifau datblygu diwydiannol', lle roedd yn ofynnol i gwmnïau a oedd am leoli mewn mannau gorlawn gael caniatâd llywodraeth ganolog.[271]

Roedd llawer o'r polisïau o'r cyfnod hwn yn tybio y byddai ailddyrannu adnoddau gan lywodraeth ganolog yn arwain at newidiadau cynaliadwy yn nosbarthiad gofodol twf. Parhaodd y polisi o'r brig i lawr yn ystod y 1960au a'r 1970au ar y cyfan, gyda ffocws cynyddol ar ddirywiad canol dinasoedd. Yn dilyn y Papur Gwyn ar Bolisi ar gyfer Canol Dinasoedd yn 1977, nododd y Ddeddf Ardaloedd Trefol Mewnol (1978) ardaloedd gwella canol dinas a rhoddodd gymorth i awdurdodau lleol wrthdroi dirywiad trefol.[272]

Yn ystod y 1980au, gwelwyd rôl estynedig i'r sector preifat o ran adfywio, yn benodol drwy Ardaloedd Menter a Chorfforaethau Datblygu Trefol. Dechreuodd y gwaith o adfywio ardaloedd canol dinas a oedd wedi dirywio, megis Lerpwl, ar yr adeg hon. Hefyd yn y 1980au, gwelwyd dechreuad dadeni Llundain ar ôl dirywiad hir ar ôl y rhyfel. Chwaraeodd dewisiadau polisi rôl arwyddocaol yn y newid hwnnw, gan gynnwys diwygiadau'r "Big Bang" yn 1986 a chreu Canary Wharf, Surrey Quays, Maes Awyr Dinas Llundain a chanolfan ExCeL drwy Gorfforaeth Datblygu'r Dociau (1981-1998).

Drwy gydol y 1990au a'r 2000au, canolbwyntiodd polisi nid yn unig ar adfywio ffisegol, ond ar ddatblygu sgiliau a seilweithiau cymdeithasol hefyd. Dros y cyfnod hwn, gwelwyd ffocws cynyddol ar benderfynyddion ehangach canlyniadau iechyd, megis gwaith a chyflogaeth, addysg a thai, gyda ffocws ar yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.[273] Yr enghraifft nodweddiadol o'r dull gweithredu integredig hwn oedd rhaglen y Fargen Newydd i Gymunedau. Buddsoddodd llywodraeth ganolog £1.7bn rhwng 1999-00 a 2007-08 i wella canlyniadau sy'n gysylltiedig â lle, gan gynnwys troseddu, addysg a bod heb waith mewn 39 o gymunedau difreintiedig yn Lloegr.[274]

270 Yr Archifau Cenedlaethol. *1930s Depression and unemployment*.

271 Airey, J., Doughty, C. *Rethinking the Planning System for the 21st Century*. Policy Exchange. 2020.

272 Krasniqi, F, Blagden J a Tanner, T. *Turnaround: How to regenerate Britain's less prosperous communities by helping them take back control*. Onward. 2021.

273 Swyddfa Archwilio Genedlaethol. *Tackling inequalities in life expectancy in areas with the worst health and deprivation*. 2010.

274 Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol. *The New Deal for Communities Experience: A final assessment*. 2010.

Sefydlwyd Swyddfeydd y Llywodraeth dros y Rhanbarthau yn 1994 i gydgysylltu llywodraeth ganolog ar lefel leol. Dros amser, roedd y rhan fwyaf o adrannau llywodraeth ganolog yn cael eu cynrychioli ar lefel is-genedlaethol gan Swyddfeydd y Llywodraeth. Yn 1998, sefydlwyd naw Awdurdod Datblygu Rhanbarthol ym mhob un o ranbarthau Lloegr er mwyn hyrwyddo datblygu economaidd yn eu hardaloedd. Roedd gan Awdurdodau Datblygu Rhanbarthol gwmpas daearyddol mawr, ac wrth i'w cylch gwaith dyfu dros amser, daeth atebolrwydd yn broblem gynyddol. Yn 2003, cyflwynwyd cynlluniau i wella atebolrwydd yr haen is-genedlaethol hon drwy gynulliadau rhanbarthol a etholir yn uniongyrchol mewn deddfwriaeth, ond rhoddwyd y gorau i hyn ar ôl i bobl gogledd-ddwyrain Lloegr wrthod y cynigion ar gyfer cynulliad etholedig mewn refferendwm yn 2004.[275]

Ar ôl cydnabod yr heriau hyn, ysbrydolwyd dull gweithredu newydd o 2010. Diddymwyd yr Awdurdodau Datblygu Rhanbarthol a chyflwynwyd Partneriaethau Menter Lleol yn eu lle fel rhan o newid ehangach tuag at leoliaeth.[276] Nod Deddf Lleoliaeth 2011 oedd ceisio grymuso cymunedau ar lefel fwy lleol,[277] a chyflwynodd fentrau megis hawliau cymunedol a chynllunio cymdogaethau. Cafodd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu eu hethol am y tro cyntaf yn 2012 i sicrhau mwy o ymreolaeth weithredol ac atebolrwydd lleol am blismona, gyda rhai hefyd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am y gwasanaethau tân ar ôl 2015.[278] Cyflymodd adroddiad *No Stone Unturned* yr Arglwydd Heseltine yn 2012 y newid hwn, gyda mwy o gyllid ac adnoddau yn cael eu sianelu drwy'r Partneriaethau Menter Lleol.[279]

Ar ddiwedd y 1990au, gwelwyd cryn dipyn o ddatganoli ledled y DU hefyd drwy sefydlu Senedd yr Alban a Chynulliad Cenedlaethol Cymru (a ailenwyd yn Senedd Cymru yn ddiweddarach) ar ôl refferenda yn yr Alban a Chymru a sefydlu Cynulliad Gogledd Iwerddon yn gyfreithiol ar ôl Cytundeb Belfast (Dydd Gwener y Groglith) 1998.[280] Roedd hyn yn cynnwys datganoli datblygu economaidd a llywodraeth leol.

Wedyn, dechreuwyd ar "Fargeinion Dinesig" a'r broses o ddatganoli maerol. Drwy hyn, trosglwyddwyd pwerau i arweinwyr etholedig mewn casgliadau o awdurdodau lleol a oedd yn rhychwantu daearyddiaethau economaidd swyddogaethol. Heddiw, mae naw Awdurdod Cyfun Maerol yn Lloegr.

Ar ôl cyflwyno bargeinion dinesig llwyddiannus yn Lloegr, aeth Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban ati i gydsefydlu'r Fargen Ddinesig a Thwf gyntaf yn Glasgow yn 2014. Mae bargeinion o'r fath bellach i'w cael ym mhob rhan o'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon a'u nod yw cefnogi twf economaidd hirdymor drwy bartneriaethau a arweinir gan awdurdodau lleol yn gweithio gyda rhanddeiliaid preifat a chymdeithas sifil. Mewn rhai achosion, mae'r gweinyddiaethau datganoledig wedi sefydlu, neu wrthi'n sefydlu, strwythurau cyfatebol i hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth dros ardaloedd daearyddol strategol. Mae hyn yn cynnwys Cyd-bwyllgorau Corfforaethol yng Nghymru a Phartneriaethau Economaidd Rhanbarthol yn yr Alban.

275 Deddf Cynulliadau Rhanbarthol (Paratoadau) 2003

276 Y Sefydliad dros Lywodraeth. *Local enterprise partnerships*. 2021.


277 *Communities and Local Government. A plain English guide to the Localism Act*. 2011.

278 *Institute for Government. Police and crime commissioners*. 2021.

279 Yr Arglwydd Heseltine. *No Stone Unturned in Pursuit of Growth*. 2012.

280 Deddf yr Alban (1998), Deddf Llywodraeth Cymru (1998) a Chytundeb Belfast (Dydd Gwener y Groglith (1998).


## Ffigur 2.1 Canrif o bolisi twf lleol




Cam 1: 1920-1939. Datblygwyd polisi twf rhanbarthol yn gyntaf mewn ymateb i broblemau cymdeithasol a oedd yn gysylltiedig â diweithdra ac aflonyddwch mewn rhai ardaloedd lle roedd y Dirwasgiad Mawr wedi cael effaith drom.

Cam 2: Ar ôl y Rhyfel – 1979. Polisïau Keynesaidd o'r brig i lawr er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg galw mewn diwydiannau lleol i leihau anghyfartaleddau gofodol. Polisïau trefol a oedd â'r nod o ddatrys dirywiad economaidd a chymdeithasol canol dinasoedd Prydain.

Cam 3: 1979-1997. Ffocws ar rôl y sector preifat a mentrau wedi'u harwain gan y farchnad i hyrwyddo mentergarwch a buddsoddi mewn ardaloedd datblygu.


**Allwedd:** Yn Barhaus Cwblhawyd
Bargen Newydd i Gymunedau
Awdurdodau Datblygu Rhanbarthol
Cronfa Adnewyddu Cymdogaethau
Cynlluniau Braenaru Adnewyddu'r Farchnad Dai
Cronfa Cymdogaethau sy'n Gweithio
Cymhelliant Twf Busnes i Awdurdodau Lleol
Cytundebau Ardal Leol
Menter Twf Mentergarwch Lleol
Cronfa Swyddi'r Dyfodol
Asiantaeth Cartrefi a Chymunedau
Cyllidebau Cymunedol
Partneriaethau Menter Lleol
Ardaloedd Menter (cam newydd)
Cronfa Twf Rhanbarthol
Y Gronfa Cymunedau Arfordirol
Cadw Ardrethi Busnes
Cyllid Cynyddiadau Treth
Bargeinion Datganoli
Cronfa Trawsnewid Dinasoedd
Cronfa Adnewyddu Cymunedol
Cronfa Ffyniant Bro
Porthladdoedd Rhydd
Cronfa Perchenogaeth Gymunedol
2000
2005
2010
2015
2020
Cwmnïau Adfywio Trefol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol yr UE
Cynllun Grant Menter
Partneriaethau Strategol Lleol
Ardaloedd Gwella Busnes
Rhaglen Genedlaethol y Meysydd Glo
Cyllid Dethol ar gyfer Buddsoddi
Grantiau ar gyfer Buddsoddi mewn Busnesau
Strategaethau Gofodol Rhanbarthol
ERDF, ESF, EAFRD ac ETC yr UE
Awdurdodau Datblygu Rhanbarthol
Cwmnïau Dinesig/Datblygu Economaidd
Cynlluniau Peilot Cytundebau Aml-ardal/Dinas-Ranbarth
Grantiau ar gyfer Buddsoddi mewn Busnesau
Bargeinion Dinesig
Cronfa Tyfu Lleoedd
Corfforaethau Datblygu Maerol
Cronfa Twf Lleol
Awdurdodau Cyfun Maerol
Cronfa Seilwaith Tai
Cronfa Trefi
Cronfa Dechrau Adeiladu
Cronfa Adfywio Cymunedol y DU
Cam 4: 1997-2010 Y nod oedd mynd i'r afael ag anghyfartaleddau o ran cynhyrchiant drwy roi mwy o ffocws ar sgiliau a seilweithiau cymdeithasol gyda rhywfaint o ddatganoli.
Cam 5: 2010-2015. Agenda leoliaethol, yn cynnwys thema allweddol o weithio gyda marchnadoedd a'u hyrwyddo
Cam 6: 2015 ymlaen. Mwy o ddatganoli a sylw gwleidyddol ar ffyniant bro

### 2.2.2 Gwersi o ddulliau polisi blaenorol

Cafodd yr ymyriadau hanesyddol hyn rai effeithiau cadarnhaol yn yr hirdymor. Yn benodol, cafodd rhai o ddinasoedd y DU eu hailfywiogi, gyda chymorth mudo rhyngwladol, twf y sector gwasanaethau a gwelliannau amgylcheddol yng nghanol dinasoedd. Ers 2003, mae Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) yn y 11 o ddinasoedd mwyaf y tu allan i Lundain wedi tyfu 10% yn gyflymach na chyfartaledd y DU y tu allan i Lundain.[281] Mae hyn wedi mynd yn groes i'r besimistiaeth ynglŷn â natur anochel dirywio trefol. Mae llawer o ddinasoedd wedi dod yn lleoedd mwy atyniadol y gellir byw a buddsoddi ynddynt.[282]

Serch hynny, fel y dangosodd Pennod 1, nid yw mentrau polisi blaenorol wedi bod yn ddigon i arafu'r cynnydd mewn anghyfartaleddau daearyddol dros ail hanner yr 20fed ganrif yn y DU. Nid oes un esboniad penodol am y methiant hwn. Yn hytrach, mae'n adlewyrchu cyfuniad o ffactorau sydd, gyda'i gilydd, wedi arwain at brosesau gwneud penderfyniadau is-optimaidd ar lefel genedlaethol a lleol. Mae'n hollbwysig deall y problemau hyn wrth lunio cyfundrefn bolisi i fynd i'r afael â nhw yn y dyfodol.

> **Nid yw mentrau polisi blaenorol wedi bod yn ddigon i arafu'r cynnydd mewn anghyfartaleddau daearyddol**

Gellir nodi pum diffyg allweddol, sef:

a. hirhoedledd a digonolrwydd polisïau
b. cydgysylltu a chyflwyno polisïau;
c. grymuso lleol;
d. tystiolaeth, monitro a gwerthuso; ac
e. tryloywder ac atebolrwydd.

#### *Diffyg hirhoedledd a digonolrwydd polisïau*

Mae profiad mentrau polisi is-genedlaethol llwyddiannus yn rhyngwladol yn dangos bod angen cyfundrefn sydd â tharged clir (neu gyfres o dargedau) yn y tymor canolig a rhaglen newid hirhoedlog sy'n gyson, yn drylwyr ac ar raddfa briodol.[283]

Mae polisi gofodol yn y DU, mewn gwrthgyferbyniad, wedi'i nodweddu gan newidiadau drwy'r amser mewn polisi.[284] Bu newidiadau dro ar ôl tro yn y dirwedd bolisi dros y ganrif ddiwethaf, gyda phob cam yn cyflwyno newidiadau ar y lefelau sefydliadol, deddfwriaethol a rhaglennol. O ganlyniad, cafwyd clytwaith o bolisïau a strwythurau sefydliadol a oedd yn newid o hyd.[285] Mae rhai yn cyfrif i bron 40 o wahanol gynlluniau neu gyrff gael eu cyflwyno i hybu twf lleol neu ranbarthol rhwng 1975 a 2015, sef tua un bob 12 mis.[286]

Mae diffyg hirhoedledd o'r fath o ran amcanion a sefydliadau polisïau is-genedlaethol, a natur ddarniog y polisïau o ganlyniad i hynny, wedi llesteirio ymdrechion i feithrin gallu lleol a sefydliadau dinesig. Mae hefyd wedi methu â

281 Y dinasoedd hyn yw Birmingham, Lerpwl, Bryste, Manceinion, Sheffield, Leeds, Caerlŷr, Coventry, Bradford, Caeredin a Glasgow. Gan: SYG. *Regional gross value added (balanced) by industry: city and enterprise regions*. 2021.
282 Mae poblogaethau canol llawer o drefi a dinasoedd wedi dyblu dros yr 20 mlynedd diwethaf er mai dim ond cynnydd o 10% a welwyd ym mhoblogaeth yr UD. Ffynhonnell: Swinney, P a Carter, A. *The UK's rapid return to city centre living*. 2018.
283 Taylor, A., Sampson, S., Romaniuk, A. *What does it take to "level up" places?*. Y Cyngor Strategaeth Ddiwydiannol. 2021.
284 Zymek, R., Jones, B. *UK Regional Productivity Differences: An Evidence Review*. Y Cyngor Strategaeth Ddiwydiannol. 2020.
285 Comisiwn 2070 y DU. *Make no little plans: The final report of the UK2070 Commission*. 2020.
286 Allas, T. *Myths and realities of the UK's regional disparities*. 2018.

chynnig yr amodau sefydlog a rhagweladwy sydd eu hangen ar y sector preifat a chymdeithas sifil i feithrin buddsoddiadau hirdymor.[287]

Mae natur anwadal y broses o lunio polisïau hefyd wedi golygu bod maint y gwariant cyhoeddus sydd wedi cael ei neilltuo i gael gwared ar anghyfartaleddau gofodol y DU wedi tueddu i fod yn gymharol fach. O blith 35 o wledydd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn 2016, roedd y DU yn safle 14 o ran cyfran is-genedlaethol cyfanswm buddsoddiad y llywodraeth, ac roedd gan y prif wledydd cymharu gyfrannau ddwywaith i bedair gwaith yn fwy.[288] Fel y dengys Ffigur 2.1 yn gynharach yn y bennod hon, mae mentrau twf lleol diweddar wedi cynyddu o ran nifer, ond nid o ran graddfa.

### *Diffyg cydgysylltu a chyflwyno polisïau*

Mae'r dystiolaeth ym Mhennod 1 yn dangos, er mwyn ysgogi twf ar sail estynedig, fod angen i bob un o'r chwe chyfalaf fod yn gadarn. Mae hynny'n gofyn am gydgysylltu ar draws llawer o ganghennau polisi gwahanol. Yn union fel y daw grym cydgasglu o ryngddibyniaethau a gorferiadau rhwng y cyfalafau o fewn lleoedd, mae angen gweithredu polisi cydgysylltiedig mewn lleoedd lle mae gwendidau yn y chwe chyfalaf wedi creu trap twf isel.

**“Er mwyn ysgogi twf ar sail estynedig, bydd angen i bob un o'r chwe chyfalaf fod yn gadarn”**

Mae gwell cydgysylltu yn golygu bod penderfyniadau mewn un sector, megis trafnidiaeth, yn ystyried penderfyniadau mewn sector arall, megis addysg, iechyd neu fusnes.[289] Yn y DU, lle mae polisi yn aml yn cael ei osod yn ganolog, gall seilos rwystro cydgysylltu.[290] Mae Llywodraeth y DU wedi rhoi pwyslais o'r newydd ar gydweithio i oresgyn y seilos hynny, yn fwyaf diweddar drwy Adolygiad o Wariant 2021 (SR21), a oedd yn cynnwys canlyniadau trawsbynciol ychwanegol â blaenoriaeth a chyllid ar gyfer cyd-raglenni gwaith pwysig rhwng adrannau.[291] Fodd bynnag, yn hanesyddol, mae cydgysylltu polisïau yn unol ag anghenion lleoedd wedi bod yn beth anarferol.[292] Er enghraifft, mae gwella cyflogaeth a sgiliau yn hollbwysig o ran ffyniant bro, ond yn hanesyddol mae hyn wedi cael ei rannu rhwng ffrydiau ariannu, adrannau ac asiantaethau.[293]

Lle mae polisïau llywodraeth ganolog wedi mabwysiadu dull gweithredu “system gyfan”, mae'r canlyniadau wedi bod yn galonogol. Er enghraifft, gwnaeth y strategaeth a gyflwynwyd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a phenderfynyddion cymdeithasol iechyd yn ystod y 2000au lwyddo i leihau rhai o'r gwahaniaethau mewn disgwyliad oes rhwng yr awdurdodau lleol mwyaf difreintiedig yn Lloegr a gweddill y wlad.[294]

Yn fwy diweddar, mae'r rhaglen Cefnogi Teuluoedd (Teuluoedd Cythryblus gynt) yn mabwysiadu dull trawsasiantaethol er mwyn helpu teuluoedd sy'n wynebu nifer o heriau, gan gynnwys diweithdra, presenoldeb gwael yn yr ysgol, iechyd, troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais domestig.

287 Comisiwn 2070 y DU. *Make no little plans: The final report of the UK2070 Commission*. 2020.

288 Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. *United Kingdom*, OECD Regional Outlook 2016: Productive Regions for Inclusive Societies, Gwasg y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, Paris. 2016.

289 Dixon, A. *The government's levelling up agenda: An opportunity to improve health in England*. Y Sefydliad Iechyd. 2021.

290 Y Sefydliad dros Lywodraeth. *Shaping Up*. 2010.

291 Trysorlys EM, *Autumn Budget and Spending Review*. 2021.

292 Y Sefydliad dros Lywodraeth. *How to improve collaboration across government*. 2020.

293 Cymdeithas Llywodraeth Leol. *Work Local*. Cyrchwyd: Rhagfyr 2021.

294 Barr, B, Higgerson, J a Whitehead, M. *Investigating the impact of the English health inequalities strategy: time trend analysis*. BMJ. 2017.

Mae gwerthusiad o'r rhaglen yn dangos ei bod wedi lleihau nifer y plant a oedd yn cael eu rhoi yng ngofal awdurdod lleol draean ac wedi rhoi budd clir i drethdalwyr drwy leihau'r galw am wasanaethau acíwt cost uchel.[295]

Enghraifft arall yw drwy'r Gronfa Canlyniadau a Rennir, sef cronfa i adrannau brofi ffyrdd arloesol o weithio ar draws y sector cyhoeddus, gyda phwyslais ar werthuso trylwyr. Mae rhaglenni trawslywodraethol a sefydlwyd drwy'r Gronfa Canlyniadau a Rennir yn cynnwys Changing Futures (y cyfeiriwyd ati fel 'Multiple Complex Needs' gynt), sy'n dwyn ynghyd yr awdurdod lleol, iechyd, cyfiawnder troseddol a phartneriaid gwirfoddol a chymunedol i wella canlyniadau i bobl sy'n profi sawl math o anfantais: a Phrosiect ADDER, sy'n hyrwyddo dull gweithredu system gyfan o wrthsefyll y defnydd o gyffuriau drwy gydgysylltu rhwng asiantaethau gorfodi'r gyfraith lleol, carchardai a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.[296]

**"Mae'n rhaid i'r sector preifat, cymdeithas sifil a'r llywodraeth weithio mewn partneriaeth"**

### *Diffyg grymuso lleol*

Er mwyn adnewyddu'r chwe chyfalaf a drafodwyd ym Mhennod 1 a gwrthdroi anghyfartaleddau gofodol, mae'n amlwg o brofiad rhyngwladol fod yn rhaid i'r sector preifat, cymdeithas sifil a'r llywodraeth weithio mewn partneriaeth. Ar y lefel leol y dylai'r camau hyn gael eu cymryd a'u cydgysylltu, lle mae'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn meddu ar ddealltwriaeth fanwl iawn o economïau lleol a'r heriau y maent yn eu hwynebu. Ond mae model llywodraethu canolog y DU yn golygu mai anaml y mae cyfranogwyr lleol wedi cael eu grymuso i lunio a chyflwyno'r polisïau sydd eu hangen i sbarduno twf.

Mae'r dull gweithredu canolog hwn wedi arwain at sawl canlyniad negyddol o ran ymdrechion blaenorol i sicrhau ffyniant bro. Mae'n tanddefnyddio gwybodaeth leol, mae'n methu â meithrin arweinwyr lleol ac, yn aml, mae wedi golygu nad yw sefydliadau angori mewn llywodraeth leol yn meddu ar bwerau, gallu nac adnoddau. Mae'r diffygion hyn wedi mynd law yn llaw â diffyg rôl glir i fusnesau a chymdeithas sifil o ran helpu i lunio a chyflwyno polisïau yn lleol.

Roedd cynghorau yn yr Alban yn dadlau dros fwy o rymuso mewn nifer o'r ymatebion i'r Adolygiad o Lywodraeth Leol ar y cyd[297] gan Lywodraeth yr Alban a Chonfensiwn Awdurdodau Lleol yr Alban (COSLA), ac mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd wedi dadlau o blaid mwy o ryddid i awdurdodau lleol yng Nghymru.[298] Yn Lloegr, mae'r Gymdeithas Llywodraeth Leol wedi gofyn am fframwaith mwy clir a thryloyw er mwyn i bob ardal gael mwy o ryddid i fanteisio ar fargeinion datganoli.[299]

Lle mae datganoli wedi digwydd ar y lefel is-genedlaethol ac wedi cael ei ategu gan arweinyddiaeth ac atebolrwydd cadarn, megis yn achos creu'r Meiri Metro ers 2017, mae'r manteision wedi bod yn amlwg. Er enghraifft, mae gan Awdurdod Cyfun Gorllewin Canolbarth Lloegr (WMCA) gyfrifoldeb am y Gyllideb Addysg i Oedolion. Mae'r cyllid hwn, ynghyd â'r hyblygrwyddau a roddwyd drwy ddatganoli, wedi ei alluogi i sicrhau bod darpariaeth sgiliau yn cyd-fynd ag anghenion lleol. Mae wedi buddsoddi yn y sgiliau newydd sydd eu

295 MHCLG. *National evaluation of the Troubled Families Programme 2015-2020: Findings*. 2019.
296 Trysorlys EM. *Shared Outcomes Fund Round Two*. 2021.
297 Y Gyfarwyddiaeth Llywodraeth Leol a Chymunedau. *Local governance review: joint statement*. 2021.
298 CLlLC. *A Manifesto for Localism*. 2021.
299 Swyddfa Archwilio Genedlaethol. *How European Cities achieve renaissance*. 2007.

hangen mewn meysydd, gan gynnwys ôl-osod adeiladu, cynnal a chadw cerbydau trydan ac roedd yn un o'r ardaloedd cyntaf i dreialu gwersylloedd hyfforddiant digidol newydd.[300]

Mae profiad blaenorol yn awgrymu y gall dulliau sy'n datganoli pŵer heb atebolrwydd na dilysrwydd democrataidd wynebu problemau neu golli momentwm. Mae profiad yr Awdurdodau Datblygu Rhanbarthol, a oedd weithiau'n bell oddi wrth gymunedau lleol a heb atebolrwydd iddynt, yn enwedig ar ôl rhoi'r gorau i'r cynllun ar gyfer cynulliadau rhanbarthol wedi 2004, yn dangos pwysigrwydd sefydliadau sydd wedi eu grymuso ac sy'n wirioneddol atebol i bobl leol ac arweinwyr a etholwyd yn ddemocrataidd.[301]

### *Diffyg tystiolaeth, monitro a gwerthuso*

O ystyried y ffordd gymhleth y mae economïau lleol yn tyfu ac yn datblygu dros amser, bydd angen i bolisïau sydd wedi'u hanelu at sicrhau ffyniant bro eu hunain ddysgu ac ymaddasu dros amser. Er mwyn gwneud hynny, bydd angen dealltwriaeth glir a chyffredin o beth sy'n digwydd mewn lleoedd ar hyn o bryd, beth sydd wedi gweithio yn y gorffennol a beth a allai weithio yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu bod data a gwaith monitro a gwerthuso da yn un o ffactorau galluogi allweddol polisi gofodol llwyddiannus.

> **Bydd angen i bolisïau sydd wedi'u hanelu at sicrhau ffyniant bro eu hunain ddysgu ac ymaddasu dros amser**

Mae Llywodraeth y DU yn casglu ac yn cyhoeddi data ar ddosbarthiad gofodol ei gwariant yn rheolaidd, ond dim ond ar lefel ranbarthol (ITL1).[302] Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn cyhoeddi data ar effaith gyffredinol trethi ar wahanol ranbarthau y pen, ond ni chaiff unrhyw ddata rheolaidd na chyson eu cyhoeddi ar fentrau sy'n seiliedig ar le.[303] Mae llywodraethau gwledydd eraill, megis yr UD, yn cynnig porth data ffynhonnell agored o wariant ffederal, gan gynnwys yn ôl daearyddiaeth.[304]

Yn y gorffennol, mae hyn wedi cyfyngu ar allu Llywodraeth y DU i ddeall p'un a all adnoddau a chyllid fod wedi'u gogwyddo tuag at leoedd sydd â'r angen mwyaf o bosibl neu oddi wrthynt, a pham. Mae hefyd yn ei gwneud yn anodd, yn fewnol ac yn allanol, deall a gwerthuso effaith camau gweithredu'r llywodraeth yn y lleoedd hyn. Ceir hefyd ddiffyg data cymaradwy ledled y DU gyfan mewn rhai meysydd, sy'n lleihau'r gallu i ddysgu o'r dulliau polisi arloesol y mae datganoli yn eu cefnogi.

Mae'r diffyg dadansoddi systematig o effaith ddaearyddol polisïau wedi'i waethygu gan gof sefydliadol gwan mewn llywodraeth ganolog ynglŷn â'r hyn sydd wedi gweithio (ac nad yw wedi gweithio) yn y gorffennol.[305] Mae hyn nid yn unig yn creu aneffeithlonrwydd drwy ddyblygu, ond mae hefyd yn golygu llai o dryloywder ynghylch pa benderfyniadau a wnaed yn y gorffennol a pham, a allai ei gwneud yn bosibl osgoi camgymeriadau ac adeiladu ar lwyddiannau yn y dyfodol.

300 WMCA. *Adult Education Budget*.
301 Shields, M. *Lessons for policy from establishing and running the former North West Development Agency*. Comisiwn 2070 y DU. 2019.
302 Trysorlys EM. *Country and regional analysis*. 2021.
303 SYG. *Country and regional public sector finances: financial year ending 2020*. 2021.
304 *USAspending.gov*. cyrchwyd: Tachwedd 2021.
305 Norris, E., Adam R. *All Change*. Y Sefydliad dros Lywodraeth. 2017.

### *Diffyg tryloywder ac atebolrwydd*

Mae'r pedair problem a ddisgrifir uchod – natur anwadal sefydliadau, cydgysylltu polisïau yn wael, diffyg grymuso lleol, a gwaith monitro a gwerthuso gwan – wedi cael eu dwysáu gan ddiffyg atebolrwydd clir am ganlyniadau. Er gwaethaf y cyfresi olynol o bolisïau i leihau anghyfartaleddau gofodol, ni fu fawr ddim ymgais i orchwylio'r polisïau hyn yn effeithiol, yn genedlaethol neu'n lleol. Mae hyn wedi gwanhau cymhellion i wneud penderfyniadau ac wedi achosi amharodrwydd i ddatganoli pwerau.

Roedd y broses o ddatblygu metrigau perfformiad ar gyfer cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus a meysydd polisi eraill yn ystod y 2000au yn cynnwys gofynion penodol i "make sustainable improvements in the economic performance of all English regions … and over the long-term reduce the persistent gap in growth rates between the regions, demonstrating progress by 2006".[306] Fodd bynnag, nid oedd unrhyw ddull annibynnol o sicrhau atebolrwydd am gyflawni yn erbyn y targed hwn na metrigau i olrhain cynnydd dros amser.

> **"Fel arfer, gwelwyd diffyg eglurder ac ymrwymiad, cydgysylltu a grymuso a diffyg tryloywder ac atebolrwydd mewn rhaglenni"**

## 2.2.3 Gwersi o gyfundrefnau polisi eraill

Er gwaethaf sawl ymgais flaenorol i leihau anghyfartaleddau gofodol ledled y DU, fel arfer gwelwyd diffyg eglurder ac ymrwymiad, cydgysylltu a grymuso yn y rhaglenni hynny ac ni welwyd y tryloywder na'r atebolrwydd sydd eu hangen i wrthdroi anghyfartaleddau daearyddol. Yn sail i'r methiannau hyn bu diffyg *gwybodaeth* ynghyd â *chymhellion* a oedd wedi'u dylunio'n wael, yn genedlaethol ac yn lleol. A'r hyn sydd wedi cyfrannu at y methiannau hyn yw gwanhau'r *sefydliadau* lleol sydd eu hangen i wneud penderfyniadau effeithiol.

Nid yw'r problemau hyn yn unigryw i bolisïau sy'n seiliedig ar le. Mae llawer o feysydd polisi cyhoeddus wedi wynebu heriau hirdymor cymhleth, gan gynnwys polisi ariannol, polisi cyllidol, polisi seilwaith, polisi newid yn yr hinsawdd, polisi amgylcheddol a pholisi gofal iechyd. Ym mhob achos, mae fframwaith newydd wedi cael ei roi ar waith yn y DU dros y 25 mlynedd diwethaf i oresgyn problemau o ran *gwybodaeth* a *chymhellion*. Yn aml, ar y cyd â hyn, aed ati i greu *sefydliadau* newydd i gynyddu hygrededd y cyfundrefnau polisi hyn.

Mae'r cyfundrefnau polisi hyn yn cynnwys:

a. creu'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol;
b. sefydlu'r Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol;
c. annibyniaeth Banc Lloegr;
d. creu'r Ddeddf Newid Hinsawdd a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd;
e. Cynllun 25 mlynedd yr Amgylchedd;
f. y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol.

### *Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol*

Cafodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ei sefydlu o dan Ddeddf Cyfrifoldeb am Gyllidebau ac Archwilio Cenedlaethol 2011. Fel rhan o hyn trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am lunio rhagolygon economaidd a chyllidol swyddogol i sefydliad annibynnol, ac aseswyd llwybr gwariant cyhoeddus yn erbyn perfformiad Llywodraeth y DU yn erbyn ei rheolau cyllidol. Mae'r Swyddfa

306 Trysorlys EM. *Autumn Performance Report: Progress Report on HM Treasury Public Service Agreement Targets*. 2007.

yn darparu hygrededd o ran y rhagolygon sy'n sail i bolisïau'r llywodraeth a chaiff ei pharchu'n rhyngwladol fel sefydliad cyllidol annibynnol am dryloywder ei gwaith.

### *Y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol*

Mae'r Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol yn darparu cyngor diduedd ac arbenigol i'r Llywodraeth ar brif heriau seilwaith economaidd y DU. Drwy ei Asesiad o Seilwaith Cenedlaethol a gyhoeddir bob Senedd, ac astudiaethau wedi'u comisiynu gan y Canghellor, mae'r Comisiwn yn gwneud argymhellion hirdymor arbenigol a thryloyw i Lywodraeth y DU. Mae Llywodraeth y DU yn ymateb yn gyhoeddus i'r argymhellion hyn. Mae'r Comisiwn hefyd yn monitro hynt y gwaith o gyflawni'r argymhellion y mae wedi'u hardystio. Ardystiodd Llywodraeth y DU dros 80% o argymhellion Asesiad y Comisiwn yn 2018, yn rhannol neu'n llawn.[307]

### *Annibyniaeth Banc Lloegr*

Rhoddodd Deddf Banc Lloegr (1998) annibyniaeth weithredol i Bwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr dros bennu cyfraddau llog i gyflawni mandad prisiau sefydlog wedi'i bennu gan Lywodraeth y DU – targed chwyddiant o 2%. Drwy ddirprwyo i sefydliad annibynnol arbenigol, daeth penderfyniadau ynghylch polisïau ariannol yn llawer mwy tryloyw, yn seiliedig ar ddata a dadansoddiadau, gan ganolbwyntio ar darged hirdymor ar gyfer prisiau sefydlog. Mewn ymateb, mae disgwyliadau o ran chwyddiant wedi lleihau ac aros yn agos at y targed, yn gyson â hygrededd polisi llawer gwell.

### *Y Ddeddf Newid Hinsawdd a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd*

Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd yn gorff annibynnol a gafodd ei greu drwy Ddeddf Newid Hinsawdd 2008 i gynghori Llywodraeth y DU ar gamau lliniaru ac addasu mewn ymateb i'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r Pwyllgor yn darparu cyngor ar bennu cyllidebau carbon ac yn adrodd ar gynnydd yn rheolaidd o ran lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.[308] Y cam mwyaf arloesol o ran y polisi newid hinsawdd fu creu targed cyfreithiol gyfrwymol i gyrraedd Sero Net erbyn 2050, yn dilyn argymhelliad gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd. Mae'r cyfuniad o amcan polisi clir, annibyniaeth y Pwyllgor, a hygrededd y gyfundrefn drwy'r gyfraith, wedi arwain at fframwaith polisi cydlynol y gall adrannau Llywodraeth y DU, y gweinyddiaethau datganoledig, a'r sector preifat gydgysylltu'r gwaith o'i gyflawni.

### *Cynllun 25 mlynedd yr Amgylchedd*

Mae Deddf yr Amgylchedd 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU bennu targedau amgylcheddol hirdymor cyfreithiol gyfrwynol i Loegr, sydd wedi'u llywio gan gyngor arbenigol annibynnol. Bydd y targedau hyn yn helpu i sicrhau gwelliannau am gyfnod hir yn yr amgylchedd naturiol. O dan Ddeddf yr Amgylchedd, mae'n rhaid paratoi Cynllun Gwella'r Amgylchedd, dros 15 mlynedd o leiaf, y cyflwynir adroddiadau yn ei erbyn bob blwyddyn. Bydd yr adroddiadau blynyddol hyn yn cynnwys cynnydd yn erbyn targedau a bydd Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd yn craffu arnynt. Mae'n ofynnol i Lywodraeth y DU gynnal ei hadolygiad cyntaf o'i Chynllun i Wella'r Amgylchedd erbyn 31

307 Trysorlys EM. *Response to the National Infrastructure Assessment*. 2020.

308 Mae cyllidebau carbon wedi'u dylunio i roi terfyn ar lefel yr allyriadau ar sail economi gyfan y gellir eu hallyrru mewn cyfnod o bum mlynedd.

Ionawr 2023. Fel rhan o'r adolygiad hwn, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ddiweddaru Cynllun Gwella'r Amgylchedd i gynnwys targedau interim o hyd at bum mlynedd ar gyfer pob un o'r targedau hirdymor sy'n gyfreithiol gyfrwymol. Cynllun 25 mlynedd yr Amgylchedd, a gyhoeddwyd yn 2018, yw'r cynllun cyntaf o'r fath.[309]

### *Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol*

Corff cyhoeddus annibynnol yw'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE), a sefydlwyd yn 1999 i roi cyngor ac arweiniad yn seiliedig ar gyngor i wella iechyd a gofal cymdeithasol yn Lloegr. Mae NICE yn gwneud argymhellion ynglŷn â sut i wneud gwelliannau drwy arfarniadau o effaith technolegau newydd ar ofal, yn cyhoeddi arweiniad clinigol ac arferion gorau, ac yn adolygu safonau ansawdd triniaethau a gofal.

## 2.2.4 Egwyddorion cyfundrefn bolisi lwyddiannus

> **“Mae amcanion ar gyfer y tymor canolig sydd wedi'u diffinio'n dda yn rhoi eglurder am amcan y polisi”**

Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos y cynhwysion craidd, neu'r egwyddorion, sy'n sail i gyfundrefn bolisi lwyddiannus ar gyfer ymateb i heriau economaidd cymhleth a hirdymor. Mae pum elfen.

- **Hirhoedledd a digonolrwydd**. Mae amcanion ar gyfer y tymor canolig sydd wedi'u diffinio'n dda yn rhoi eglurder am amcan y polisi ac yn angori'r newid polisi sydd ei angen i gyflawni'r amcan hwn. Mae targedau fel Sero Net ar gyfer allyriadau nwyon tŷ gwydr, a ddefnyddir gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd yn angori prosesau gwneud penderfyniadau wrth yr hirdymor mewn modd clir a chyson. Mae hyn yn awgrymu y dylai cyfundrefn bolisi ar gyfer sicrhau ffyniant bro gael ei hangori mewn cyfres glir o dargedau neu “genadaethau”.
- **Cydgysylltu.** Mae sefydliadau a fframweithiau sy'n cydgysylltu'r broses o lunio a chyflwyno polisïau yn hollbwysig i lwyddiant system gyfan. Mae siarter y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol yn ei alluogi i chwarae'r rôl hon, gan gydgysylltu mewn sawl maes polisi strategol. Mae hyn hefyd yn wir am Gynllun 25 yr Amgylchedd, sy'n dwyn ynghyd randdeiliaid o'r sector amaethyddiaeth a'r sector ynni. *Mae hyn yn awgrymu y dylai cyfundrefn bolisi ar gyfer sicrhau ffyniant bro ymgorffori ystyriaethau gofodol a chydgysylltu camau gweithredu polisi, ym mhob rhan o lywodraeth ganolog.*
- **Grymuso lleol.** Yn ôl egwyddor sybsidiaredd, dylai penderfyniadau gael eu gwneud ar y lefel fwyaf dirprwyedig neu leol lle y gellir gwneud hynny'n effeithiol, ar yr amod bod arweinyddiaeth effeithiol ac adnoddau digonol ar waith. Drwy greu'r meiri metro yn Lloegr o 2017, dirprwywyd pwerau gwneud penderfyniadau dros wasanaethau cyhoeddus a'r economi leol i arweinwyr lleol sy'n atebol yn ddemocrataidd. *Mae hyn yn awgrymu bod angen i gyfundrefn sicrhau ffyniant bro rymuso arweinwyr lleol ar yr amod bod atebolrwydd priodol a'u bod yn rhoi arweinyddiaeth effeithiol.*
- **Data, monitro a gwerthuso.** Mae llwyddiant a hygrededd Banc Lloegr, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol, NICE a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol oll yn seiliedig ar ddata helaeth a manwl, a gwaith dadansoddi manwl. Maent hefyd yn seiliedig ar werthusiad meintiol o'r camau gweithredu polisi sydd eu hangen i gyflawni targedau yn y tymor canolig. *Mae hyn yn awgrymu bod angen i gyfundrefn bolisi ar gyfer sicrhau ffyniant bro fod yn seiliedig ar ddata manwl, gwaith monitro cadarn a gwaith gwerthuso trylwyr.*

309 Defra. *A Green Future: Our 25 year plan to improve the environment*. 2018.

- **Tryloywder ac atebolrwydd.** Mae dyletswydd gyhoeddus ar y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Banc Lloegr, y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol, NICE a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd i gyhoeddi eu hasesiadau o berfformiad er mwyn llywio penderfyniadau polisi a dadleuon ynglŷn â pholisi. Ceir hefyd systemau atebolrwydd clir, tryloyw a thrylwyr ar gyfer y rhai sy'n gwneud penderfyniadau wrth weithredu'n annibynnol. *Mae hyn yn awgrymu bod angen i gyfundrefn bolisi fod yn dryloyw, yn arbenigol ac yn atebol.*

Mae'r egwyddorion hyn yn gydgysylltiedig ac yn atgyfnerthu ei gilydd. Mae gofyn i bob un ohonynt wella *gwybodaeth*, ail-lunio *cymhellion* a chryfhau'r *sefydliadau* sydd eu hangen i sicrhau ffyniant bro. Un o fethiannau cyfundrefnau polisi blaenorol ar gyfer sicrhau ffyniant bro yw iddynt roi rhai, ond nid pob un, o'r elfennau ar waith. Bron drwy ddiffiniad, mae'r dull gweithredu hwn wedi methu â sicrhau newid system gyfan neu lwyddiant parhaus.

## 2.3 Cyfundrefn Bolisi Newydd

Er mwyn gwrthdroi anghyfartaleddau daearyddol, bydd angen ailwampio'r system gwneud penderfyniadau yn lleol ac yn genedlaethol, ledled y DU. O ddysgu'r gwersi o brofiad blaenorol, dylai'r pum elfen ganlynol fod yn sail i'r gyfundrefn bolisi hon:

a. cenadaethau tymor canolig;
b. ail-lunio proses gwneud penderfyniadau llywodraeth ganolog;
c. grymuso'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau lleol;
d. data, monitro a gwerthuso; ac
e. tryloywder ac atebolrwydd.

### 2.3.1 Cenadaethau tymor canolig

Mae dulliau blaenorol o sicrhau ffyniant bro wedi cael eu llesteirio gan ddiffyg cysondeb ac eglurder ynglŷn ag amcanion polisi gofodol. Maent wedi methu â sefydliadoli ymrwymiad i raglen newid polisi hirdymor o'r math sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau llwyddiant. Mae diffyg sefydlogrwydd a chysondeb o'r fath, yn ei dro, wedi rhwystro arloesedd, buddsoddi a chydweithio â'r sector preifat a chymdeithas sifil, sydd eu hangen i sbarduno newid parhaol mewn cynhyrchiant a thwf.

Dylai strategaeth sicrhau ffyniant bro ymgorffori'r ymrwymiad hirdymor hwn. Un ffordd effeithiol o wneud hynny yw pennu targedau yn y tymor canolig, neu "genadaethau".[310] Mae i'r dull hwn o ymdrin â heriau cymdeithasol cymhleth a hirdymor yn seiliedig ar genhadaeth hanes hir, yn rhyngwladol ac yn y DU (gweler Blwch 2.1).

Mae cenadaethau yn rhoi amcan, neu gyfres o amcanion, a dargedir, sy'n fesuradwy ac sydd â therfyn amser, y gellir ei ddefnyddio/eu defnyddio i lunio neu sbarduno rhaglen newid. Mae'r dull gweithredu hwn yn ddymunol, yn rhannol, am ei fod yn rhoi dyfais cyn ymrwymo ar gyfer camau gweithredu Llywodraeth y DU ei hun. Ond yr hyn sydd yr un mor bwysig â hynny yw bod cenadaethau effeithiol yn denu syniadau, cyllid a buddsoddi gan y sector preifat a chymdeithas sifil er mwyn helpu i sicrhau canlyniadau hirdymor uchelgeisiol. Un enghraifft ddiweddar o'r dull hwn o weithredu yw'r Addewid Symudedd Cymdeithasol, sy'n dwyn ynghyd gynghrair o 550 o fusnesau a mwy na 50 o brifysgolion i sbarduno camau gweithredu ar symudedd cymdeithasol mewn sefydliadau.[311]

> **“Mae cenadaethau yn rhoi amcan, neu gyfres o amcanion, a dargedir, sy'n fesuradwy ac sydd â therfyn amser, y gellir ei ddefnyddio/eu defnyddio i lunio rhaglen newid”**

310 Kattel, R., Mazucatto, M., Ryan-Collins, J., Sharpe, S. *The economics of change: Policy and appraisal for missions, market shaping and public purpose*. Y Sefydliad dros Arloesedd a Diben Cyhoeddus. 2018.
311 Yr Addewid Symudedd Cymdeithasol. *About the Social Mobility Pledge*. Cyrchwyd: Ionawr 2022.

## Blwch 2.1. Dull o newid polisi yn seiliedig ar genhadaeth

Mae cenadaethau yn ddatganiadau a dargedir, sy'n fesuradwy ac sydd â therfyn amser, o'r cynnydd sydd ei angen i ymateb i heriau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.[312] Efallai mai un o'r enghreifftiau mwyaf hysbys o ddulliau gweithredu sy'n seiliedig ar genhadaeth yw cenadaethau gofodol NASA a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.[313] Enghraifft fwy diweddar yw rhaglen frechu COVID-19.

Gwnaeth datganiad John F Kennedy yn 1961 am genhadaeth i roi dyn ar y lleuad erbyn diwedd y degawd lansio rhaglen 10 mlynedd o ddatblygiadau gwyddonol a thechnolegol ym meysydd awyrofod, maeth, meddygaeth, cyfrifiaduro, cyfathrebu a bioleg. Roedd gweledigaeth NASA yn un syml: "To discover and expand knowledge for the benefit of humanity". Ei chenhadaeth oedd: "Lead an innovative and sustainable program of exploration with commercial and international partners to enable human expansion across the solar system and bring new knowledge and opportunities back to Earth".

Dull gweithredu sy'n seiliedig ar genhadaeth sydd fwyaf effeithiol wrth wynebu problemau cymhleth, systemig, rhyngysylltiedig a brys, sy'n gofyn am fewnwelediadau o lawer o safbwyntiau a chamau gweithredu gan lawer o gyfranwyr.[314] Nid yw'r problemau hyn yn rhai unffurf eu natur ac, o ganlyniad, maent yn gofyn am fathau gwahanol o genhadaeth, yn dibynnu ar yr her dan sylw. Mae'r llenyddiaeth yn aml yn gwahaniaethu rhwng *cenadaethau* sy'n cwmpasu rhaglen o gamau gweithredu sydd â'r nod o greu newid cymdeithasol ac economaidd systemig, a *thargedau cyflawni* megis Cytundebau Gwasanaeth Cyhoeddus Llywodraeth y DU sy'n eang eu cwmpas ond nad ydynt o reidrwydd yn gysylltiedig â rhaglenni newid.[315]

Mae i'r dull gweithredu sy'n seiliedig ar genhadaeth sawl nodwedd gyffredin.[316]

- Dylai cenadaethau sydd wedi'u dylunio'n dda fod yn feiddgar ac yn uchelgeisiol, a chodi cwestiynau ynglŷn â sut y gellir eu cyflawni. Mae hyn yn golygu symud i ffwrdd o brosesau busnes fel arfer, ac mae'n annog camau gweithredu ac arloesi gan lywodraethau, busnesau a chymdeithas sifil, yn aml drwy weithio mewn partneriaeth.
- Mae cenadaethau yn hyrwyddo arloesedd drwy bennu cyfeiriad neu nod terfynol clir heb ragnodi sut y caiff y nod hwnnw ei gyflawni. Mae hyn yn arwain at feddwl creadigol ac atebion arloesol, gan bob sector, yn ogystal â diwylliant o ddysgu ac ymaddasu. Mae ymrwymiad i genadaethau hirdymor yn annog pobl i fentro, gyda methiant yn y byrdymor yn aml yn paratoi'r ffordd ar gyfer llwyddiant yn yr hirdymor.
- Mae cenadaethau yn helpu i chwalu rhwystrau. Mae ymrwymiad i genadaethau yn cynnig fframwaith cyson a sefydlog a all feithrin cydweithio rhwng gwahanol rannau o'r llywodraeth, busnes a chymdeithas sifil, yn ogystal â chyfuniad cydgysylltiedig o ddulliau gweithredu o'r brig i lawr ac o'r gwaelod i fyny.
- Yn aml, mae cenadaethau yn esgor ar fanteision deilliadol mawr, anfwriadol. Cafodd y datblygiadau technolegol arloesol a sbardunwyd gan lwyddiant Apollo eu defnyddio'n llawer mwy helaeth, o ddillad diogelu rhag tân i offer pŵer heb gordyn.[317] Hyd yn oed os na chaiff cenadaethau eu cyflawni, mae ffyrdd cydweithredol ac arloesol o weithio yn aml yn esgor ar fanteision ymhell y tu hwnt i gwmpas y genhadaeth.

312 Mazzucato, M., Dibb, G. *Missions: A Beginner's Guide*. Sefydliad dros Arloesedd a Diben Cyhoeddus Coleg Prifysgol Llundain. 2019.

313 Cenhedloedd Unedig. *17 Goals to Transform Our World*. Cyrchwyd ym misTachwedd 2021.

314 Mazzucato, M. *Mission Oriented Innovation Policy: Challenges and Opportunities. Y Gymdeithas Frenhinol er Hyrwyddo'r Celfyddydau, Gweithgynhyrchu a Masnach*. 2017.

315 Y Sefydliad dros Lywodraeth. *Public Service Agreements and the Prime Minister's Delivery Unit*.

316 Balawejder, F., Sampson S., Stratton, T,. *Lessons for industrial policy from development of the Oxford/AstraZeneca Covid-19 vaccine*. Y Cyngor Strategaeth Ddiwydiannol. 2021.

317 NASA. *Benefits from Apollo – Giant Leaps in Technology*. 2004.

Un enghraifft ddiweddar dda o'r manteision hyn oedd Tasglu Brechlyn y DU. Y genhadaeth oedd datblygu a chyflwyno brechlyn ar gyfer COVID-19.[318] Gwnaeth hyn ddwyn ynghyd ddatblygiad gwyddonol brechlyn Oxford/AstraZeneca a gwleidyddion, swyddogion a chyrff cyflawni ledled y DU i gymeradwyo, caffael a chyflwyno brechlyn yn y cyfnod byrraf erioed. Mae rhai o fanteision deilliadol y datblygiad arloesol hwn, gan gynnwys brechlynnau y tu hwnt i COVID-19, eisoes yn cael eu hamlygu.

Mae targed Sero Net Llywodraeth y DU yn faes arall lle mae cenhadaeth glir a mesuradwy yn cael ei defnyddio fel modd i ddwyn sawl rhan o gymdeithas a pholisi ynghyd, ond hefyd fel sbardun i ddatblygu atebion newydd ac arloesol i her gymdeithasol ac economaidd enfawr. Mae hyn hefyd wedi dangos sut y gall cyfundrefnau polisi sy'n seiliedig ar genhadaeth sbarduno arloesedd a gweithredu cydgysylltiedig er mwyn ateb her hirdymor.

Ar gyfer rhai problemau economaidd a chymdeithasol, mae cenadaethau yn gymharol syml i'w diffinio ac yn benodol – er enghraifft, her datblygu brechlyn COVID-19. O ran sicrhau ffyniant bro, nid yw llwyddiant yn syml i'w ddiffinio nac yn benodol. Bydd yn gofyn am welliant mewn amrywiaeth eang o feysydd – economaidd, cymdeithasol a sefydliadol – ac adnewyddu pob un o'r chwe chyfalaf mewn lleoedd lle maent ar eu gwannaf.

Mae angen i genadaethau pwerus daro cydbwysedd priodol rhwng uchelgais a realaeth. Mae angen i genadaethau fod yn uchelgeisiol er mwyn bod yn sbardun i arloesedd, ymaddasu a newid. Ond mae angen iddynt fod yn ddigon realistig hefyd i sbarduno camau gweithredu ar hyd y llwybr hollbwysig hwn. Gall cyfres drawsbynciol, fwy penodol a mwy cyfyngedig o amcanion uchelgeisiol sbarduno cynnydd a chamau gweithredu, ym mhob rhan o'r llywodraeth, y sector preifat a chymdeithas sifil.[319]

Fel adnodd polisi, mae cenadaethau yn wahanol i dargedau cyflawni. Bwriedir i genadaethau ysgogi newid mewn systemau drwy gydweithredu rhwng y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol, yn hytrach na bod yn fodd i ddwyn y llywodraeth i gyfrif. Adlewyrchir hyn yng nghynllun y genhadaeth: mae dyddiadau gorffen cenadaethau yn ddigon pell yn y dyfodol fel eu bod yn rhywbeth i anelu ato, gyda'r cyfrifoldeb am eu cyflawni ar amrywiaeth o gyfranwyr yn y llywodraeth a chyfranwyr anllywodraethol.

Mae Tabl 2.1 yn nodi'r cenadaethau a fydd yn llywio sut y bydd y DU yn sicrhau ffyniant bro dros y degawd nesaf. **Mae'r cenadaethau yn pennu uchelgais Llywodraeth y DU yn y tymor canolig ac maent yn angor i ddisgwyliadau a chynlluniau'r sector preifat a chymdeithas sifil.** Maent yn deillio o'r diagnosis o anghyfartaleddau daearyddol y DU a nodwyd ym Mhennod 1 ac yn cwmpasu'r heriau economaidd a chymdeithasol pwysicaf sy'n wynebu'r DU heddiw lle mae angen cymryd camau ar y cyd er mwyn sicrhau ffyniant bro. O ganlyniad, bydd y cenadaethau yn ffocws i'r llywodraeth gyfan, yn ogystal â bod yn sbardun i syniadau newydd a meithrin cydweithrediad â'r sector preifat a rhwng gwahanol grwpiau mewn cymdeithas.

> **“Dull gweithredu sy'n seiliedig ar genhadaeth sydd fwyaf effeithiol wrth wynebu problemau cymhleth, systemig, rhyngysylltiedig a brys”**

318 Tasglu'r Brechlyn. *UK Vaccine Taskforce 2020: achievements and future strategy*. 2020.
319 Parker, S., Paun, A., McClory J., Blatchford, K. *Shaping Up: A Whitehall for the Future. Y Sefydliad dros Lywodraeth*. 2010.

### Tabl 2.1 Cenadaethau Ffyniant Bro

| Maes Ffocws | Cenhadaeth |
|---|---|
| *Rhoi hwb i gynhyrchiant, cyflogau, swyddi a safonau byw drwy helpu'r sector preifat i dyfu, yn enwedig mewn mannau lle mae ar ei hôl hi* | |
| Safonau Byw | Erbyn 2030, bydd cyflogau, cyflogaeth a chynhyrchiant yn uwch ym mhob rhan o'r DU, a bydd gan bob ardal ddinas a all gystadlu ar lefel fyd-eang, a bydd y bwlch rhwng yr ardaloedd sy'n perfformio orau ac ardaloedd eraill yn lleihau. |
| Ymchwil a Datblygu | Erbyn 2030, bydd lefel y buddsoddiad cyhoeddus domestig mewn ymchwil a datblygu y tu hwnt i ardal y De-ddwyrain Fwyaf yn Lloegr yn cynyddu 40% o leiaf, a thros gyfnod yr Adolygiad o Wariant bydd yn cynyddu traean o leiaf. Bydd y cyllid ychwanegol hwn gan y llywodraeth yn ceisio sicrhau bod o leiaf ddwywaith cymaint o fuddsoddi yn y sector preifat dros yr hirdymor er mwyn ysgogi arloesedd a sicrhau twf o ran cynhyrchiant. |
| Seilwaith Trafnidiaeth | Erbyn 2030, bydd cysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus leol ledled y wlad yn llawer agosach at safonau Llundain, drwy well gwasanaethau, prisiau tocynnau symlach a system docynnau integredig. |
| Cysylltedd Digidol | Erbyn 2030, bydd gan y DU fand eang drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit a signal 4G, a bydd gan y mwyafrif o'r boblogaeth signal 5G. |
| *Lledaenu cyfleoedd a gwella gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig mewn mannau lle mae hynny wannaf* | |
| Addysg | Erbyn 2030, bydd nifer y plant cynradd sy'n cyrraedd y safon ddisgwyliedig o ran darllen, ysgrifennu a mathemateg wedi cynyddu'n sylweddol. Yn Lloegr, bydd hyn yn golygu y bydd 90% o blant yn cyrraedd y safon ddisgwyliedig, a bydd canran y plant sy'n cyrraedd y safon ddisgwyliedig yn yr ardaloedd sy'n perfformio waethaf wedi cynyddu dros draean. |
| Sgiliau | Erbyn 2030, bydd nifer y bobl sy'n cwblhau hyfforddiant sgiliau o ansawdd uchel yn llwyddiannus wedi cynyddu'n sylweddol ym mhob rhan o'r DU. Yn Lloegr, bydd hyn yn arwain at 200,000 yn fwy o bobl yn cwblhau hyfforddiant sgiliau o ansawdd uchel yn llwyddiannus bob blwyddyn, a gaiff ei lywio gan 80,000 yn fwy o bobl yn cwblhau cyrsiau yn yr ardaloedd hynny sydd â'r nifer lleiaf o bobl fedrus. |
| Iechyd | Erbyn 2030, bydd y bwlch o ran Disgwyliad Oes Iach rhwng ardaloedd lleol lle mae ar ei uchaf ac ar ei isaf wedi lleihau, ac erbyn 2035 bydd wedi cynyddu bum mlynedd. |
| Llesiant | Erbyn 2030, bydd llesiant wedi gwella ym mhob rhan o'r DU, a bydd y bwlch rhwng y rhannau sy'n perfformio orau ac ardaloedd eraill yn lleihau. |

| Maes Ffocws | Cenhadaeth |
|---|---|
| *Adfer ymdeimlad o gymuned, balchder lleol a pherthyn, yn enwedig mewn mannau lle collwyd hynny* | |
| Balchder mewn Lle | Erbyn 2030, bydd balchder mewn lle, megis boddhad pobl â'u tref leol a'r ffordd y maent yn cymryd rhan mewn digwyddiadau diwylliannol a chymunedol lleol, wedi cynyddu ym mhob rhan o'r DU, a bydd y bwlch rhwng yr ardaloedd sy'n perfformio orau ac ardaloedd eraill yn lleihau. |
| Tai | Erbyn 2030, gall rhentwyr ddilyn llwybr cadarn i brynu eu cartref eu hunain, a bydd nifer y prynwyr tro cyntaf yn cynyddu ym mhob ardal; ac uchelgais y llywodraeth yw sicrhau bod nifer y cartrefi a gaiff eu rhentu nad ydynt yn cyrraedd y safon wedi lleihau 50%, gyda'r gwelliannau mwyaf i'w gweld yn yr ardaloedd sy'n perfformio waethaf.[320] |
| Trosedd | Erbyn 2030, bydd nifer yr achosion o laddiadau, trais difrifol a throseddau mewn cymdogaethau wedi lleihau, a chanolbwyntir ar yr ardaloedd yr effeithir arnynt fwyaf. |
| *Grymuso arweinwyr lleol a chymunedau, yn enwedig mewn mannau lle mae diffyg cyfrwng lleol* | |
| Arweinyddiaeth Leol | Erbyn 2030, bydd pob rhan o Loegr sydd am gael bargen ddatganoli yn ei chael, a bydd y pwerau a roddir ar y lefel uchaf o ddatganoli neu'n agos at hynny; hefyd ceir setliad cyllido hirdymor syml. |

Mae dwy o'r cenadaethau hyn yn fesurau cyffredinol o lwyddiant, yn *seiliedig ar ganlyniadau* ar gyfer sicrhau ffyniant bro: hybu *safonau byw* (cyflogau, cynhyrchiant, cyflogaeth) ym mhob rhan o'r DU, a hefyd gau'r bwlch rhwng y lleoedd sy'n perfformio orau a gwaethaf; a gwella mesurau o *lesiant* ym mhob rhan o'r DU, a hefyd gau'r bwlch rhwng yr ardaloedd sy'n perfformio orau a gwaethaf.

Mae'r cenadaethau eraill yn fesurau *sy'n seiliedig ar ganlyniadau canolraddol*, sy'n ymwneud â'r chwe chyfalaf sy'n ganolog i bennu twf lleol. Mae hyn yn cynnwys cenadaethau sy'n ymwneud â chyfalaf dynol (addysg, sgiliau ac iechyd), cyfalaf cymdeithasol (balchder mewn lle a throseddu), cyfalaf diriaethol ac anniriaethol (tai, ymchwil a datblygu, trafnidiaeth a chysylltedd digidol) a chyfalaf sefydliadol (arweinyddiaeth leol). Er nad oes cenhadaeth ar wahân ar gyfer cyfalaf ariannol, mae'n ffactor galluogi allweddol ar gyfer pob math arall o gyfalaf. Mae Pennod 3 yn nodi'r rhaglen bolisi sy'n datblygu, a fydd yn sbarduno cynnydd tuag at y cenadaethau hyn dros y degawd nesaf.

Oni nodir fel arall, bydd y cenadaethau yn gymwys ledled y DU. Mae'r setliadau datganoli yn golygu bod yr ysgogwyr polisi i gyflawni agweddau ar y cenadaethau hyn wedi'u datganoli i'r gweinyddiaethau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Gan fod angen cydweithio agos rhwng pob lefel o lywodraeth i sicrhau canlyniadau ffyniant bro i ddinasyddion, bydd cyfnod o ymgynghori â'r gweinyddiaethau datganoledig ar y cenadaethau. Cytunir ar y ffordd orau o rannu gwersi a ddysgwyd a chymharu cynnydd yn y meysydd hyn â'r gweinyddiaethau datganoledig.

320 Bydd y Llywodraeth yn ymgynghori ar yr effaith ar y farchnad rhentu preifat ac yn enwedig y rhai ar yr incymau isaf. Darperir rhagor o fanylion pan fydd yr adolygiad o'r Safon Tai Gweddus wedi cael ei gwblhau.

Bwriedir i'r cenadaethau hyn angori'r rhaglen newid sydd ei hangen i sicrhau ffyniant Bro Iedled y DU. Fodd bynnag, dylai'r cenadaethau hyn aros yn ddigyfnewid. Wrth i'r economi ymaddasu, felly hefyd y gallai'r cenadaethau adlewyrchu'r amgylchedd sy'n newid a'r gwersi a ddysgwyd o ymyriadau blaenorol. Fodd bynnag, dylai unrhyw newidiadau i genadaethau fod yn ddigwyddiadau prin sy'n cael eu hesbonio'n dryloyw a'u cyfiawnhau pan fyddant yn digwydd. Bydd y cenadaethau yn ymdrechion deng mlynedd treigl.

Er mwyn olrhain perfformiad, caiff cyfres hwy o fetrigau ategol ei datblygu ar gyfer pob cenhadaeth. Nodir cyfres gychwynnol o brif fetrigau a metrigau ategol ar gyfer mesur ac olrhain cynnydd yn erbyn canlyniadau sicrhau ffyniant bro mewn dogfen ar wahân a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Papur Gwyn hwn.[321] Mae'r ddogfen honno hefyd yn esbonio'n fanwl gymhelliant a graddnodi pob cenhadaeth. Bydd y metrigau a'r bensaernïaeth gyflawni ar gyfer cenadaethau yn cyd-fynd â fframwaith cynllunio a pherfformiad Llywodraeth y DU.

**"Er mwyn cyflawni'r cenadaethau uchelgeisiol hyn, bydd angen i'r holl randdeiliaid gymryd camau ym mhob rhan o'r economi – llywodraeth ganolog a lleol, y gweinyddiaethau datganoledig, y sector preifat a chymdeithas sifil"**

### 2.3.2 Ailwampio proses gwneud penderfyniadau llywodraeth ganolog

Er mwyn cyflawni'r cenadaethau uchelgeisiol hyn, bydd angen i'r holl randdeiliaid gymryd camau ym mhob rhan o'r economi – llywodraeth ganolog a lleol, y gweinyddiaethau datganoledig, y sector preifat a chymdeithas sifil. Mae'r adran hon yn trafod newidiadau i strwythur prosesau gwneud penderfyniadau llywodraeth ganolog sydd eu hangen i sicrhau ffyniant bro yn y DU.

Yn y gorffennol, mae prosesau gwneud penderfyniadau llywodraeth ganolog wedi methu â phwyso a mesur ystyriaethau gofodol yn ddigonol wrth lunio a chyflwyno mentrau polisi. Yn wir, mae hyn wedi cyfrannu'n sylweddol at gynyddu anghyfartaleddau gofodol yn y DU. Er mwyn unioni hynny, bydd angen ailgyfeiriadu prosesau gwneud penderfyniadau llywodraeth ganolog yn radical ar hyd pedwar dimensiwn.

- **Gwell tryloywder ynglŷn â gwariant sy'n seiliedig ar le:** Mae patrwm gofodol gwariant a dyraniadau cyllido'r DU yn aml yn aneglur oherwydd prinder data manwl iawn o safon dda. Mae hyn yn golygu bod polisïau'r llywodraeth weithiau yn gweithredu mewn ffordd "sy'n ddall i le".
- **Ymgorffori ystyriaethau gofodol mewn prosesau gwneud penderfyniadau a gwerthuso:** Yn aml, nid yw effaith ofodol polisïau, na'r broses o werthuso'r penderfyniadau hynny'n lleol, wedi'u hymgorffori ym mhenderfyniadau na phrosesau llywodraeth ganolog, sydd, weithiau, yn arwain at ganlyniadau sy'n mynd yn groes i amcanion sicrhau ffyniant bro.
- **Cydgysylltu polisïau llywodraeth ganolog yn well ar y lefel leol:** Gall polisi sydd heb ei gydgysylltu ac sy'n gweithio mewn seilo o'r canol gymhlethu prosesau gwneud penderfyniadau ar lefel leol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yn achos cyllid twf lleol, gyda sawl cronfa wahanol â'i gofynion adrodd ei hun.
- **Mwy o ffocws ar leoedd lleol:** Gall y pellter rhwng y swyddogion sy'n llunio polisïau'n genedlaethol a'r rhai y mae'r polisïau yn effeithio arnynt yn lleol, olygu nad yw polisïau yn ddigon sensitif i le.

Mae'r adrannau nesaf yn disgrifio sut y bydd Llywodraeth y DU yn goresgyn y problemau hyn sy'n deillio o ddiffyg gwybodaeth a chymhellion anghyson yn y canol, a bydd yn helpu i feithrin gallu ymhlith sefydliadau lleol i gefnogi'r cenadaethau i sicrhau ffyniant bro.

321 Gweler 'Atodiad Technegol Ffyniant Bro: cenadaethau a metrigau'.

### *Gwell tryloywder ynglŷn â gwariant sy'n seiliedig ar le*

Mae rhai elfennau o wariant cyhoeddus yn ymateb yn uniongyrchol ac yn awtomatig i anghenion economaidd-gymdeithasol. Mae hyn yn arbennig o wir am wariant sy'n amrywio'n awtomatig yn ôl y cylch economaidd, megis taliadau lles. Ond mae rhan fawr o wariant y llywodraeth hefyd yn ddisgresiynol. Yn hanesyddol, mae gwariant disgresiynol gan Lywodraeth y DU, yn enwedig gwariant buddsoddi, yn aml wedi cael ei ystumio'n ddaearyddol.[322] Mae hyn wedi gwaethygu anghyfartaleddau gofodol ledled y DU o ran cynhyrchiant a safonau byw.

Er enghraifft, ar hyn o bryd, dosberthir tua 51% o gyllid ymchwil a datblygu drwy Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI) y tu allan i Lundain a de-ddwyrain a dwyrain Lloegr.[323] Caiff hyn ei ysgogi gan nifer o ffactorau, gan gynnwys y clystyrau o brifysgolion ymchwil rhagorol, gweithwyr medrus a busnesau arloesol yn Llundain, Rhydychen a Chaergrawnt sy'n gystadleuol yn fyd-eang.

> “**Yn hanesyddol, mae gwariant disgresiynol gan Lywodraeth y DU, yn enwedig gwariant buddsoddi, yn aml wedi cael ei ystumio'n ddaearyddol**”

Ar wahân i hynny, mae cyllid trafnidiaeth y pen wedi bod yn sylweddol is yng ngogledd, canolbarth a de-orllewin Lloegr nag yn Llundain a de-ddwyrain Lloegr. Er nad dim ond y bobl hynny sy'n byw yn yr ardaloedd hyn sy'n defnyddio ac yn manteisio ar gysylltiadau trafnidiaeth, rhwng 2016-17 a 2020-21 roedd gwariant ar drafnidiaeth yn Llundain a de-ddwyrain Lloegr 37% yn uwch y pen nag yng ngweddill Lloegr.[324] O ran gweithgareddau diwylliannol, gwelir yr un gogwydd cryf tuag at Lundain, sy'n denu bron 40% o fuddsoddiad cyllid grant Cyngor Celfyddydau Lloegr.[325]

Nid yw'n beth syml sicrhau bod gwariant cyhoeddus yn cyrraedd y mannau lle mae ei angen fwyaf. Y dadansoddiad rhanbarthol yn y Dadansoddiad yn ôl Gwlad a Rhanbarth yw'r ffynhonnell orau o ddata ar wariant is-genedlaethol ar sail reolaidd a chyson, ond mae'n rhannol ac nid yw'n ddigon manwl. Hyd yn oed pe bai gwell data, byddai angen i benderfyniadau ar wariant cyhoeddus gael eu llywio gan gymhellion sy'n helpu i gael gwared ar anghyfartaleddau gofodol.

Mae system gwariant cyhoeddus y DU wedi mynd drwy newidiadau yn ddiweddar a fydd yn helpu i dargedu gwariant cyhoeddus. Mae'r rhain yn cynnwys y tair menter ganlynol.

- **Adolygiad o'r Llyfr Gwyrdd:** Yn 2020, daeth adolygiad Trysorlys EM o ganllawiau'r Llyfr Gwyrdd, a ddefnyddir i arfarnu cynigion ar gyfer polisïau newydd gan y llywodraeth i'r casgliad “[the] current appraisal practice risks undermining the Government's ambition to 'level up' poorer regions and to achieve other strategic objectives unless there is a step change improvement.”[326] Nododd yr adolygiad gyfres o broblemau penodol a oedd yn seiliedig ar le. Mewn ymateb i'r rhain, cafodd y Llyfr Gwyrdd ei ddiwygio i'w gwneud yn ofynnol cynnal dadansoddiad sy'n seiliedig ar le ar sail “cydymffurfio neu esbonio”. Rhoddwyd y newidiadau hyn ar waith yn yr Adolygiad o Wariant yn 2020 ac yn 2021.

---

322 O'Brien, N., Miscampbell G. *Levelling Up Growth-Enhancing Spending*. Onward. 2020.
323 Gan ddefnyddio'r data mwyaf diweddar, o flwyddyn ariannol 2018-19; gweler UKRI. *Dosbarthiad rhanbarthol o gyllid, 2018 i 2019*.
324 Ffigur o Ddadansoddiad Trysorlys EM yn ôl Gwlad a Rhanbarth. Mae'r ffigur yn cynnwys yr holl wariant cyfalaf ar drafnidiaeth gan lywodraeth ganolog a llywodraeth leol rhwng 2016/17 a 2020/21. Ffigurau bras yw'r rhain.
325 O'Brien, N., Miscampbell, G. *Levelling Up Growth-Enhancing Spending*. Onward. 2020.
326 Trysorlys EM. *Green Book Review 2020: Findings and response*. 2020.

- **Cyhoeddi achosion busnes:** Mae'n ofynnol bellach i adrannau Llywodraeth y DU gyhoeddi Achosion Busnes Llawn ar gyfer cynigion seilwaith o fewn pedwar mis i'w cymeradwyo. Drwy dryloywder allanol, bydd hyn yn helpu i sicrhau bod pob polisi newydd sydd ag effaith ddaearyddol bosibl yn cyflawni amcanion ffyniant bro ac yn cael ei gyflwyno yn erbyn canllawiau newydd y Llyfr Gwyrdd yn seiliedig ar le.
- **Fframwaith Cynllunio a Pherfformiad Diwygiedig:** Mae fframwaith cynllunio a pherfformiad Llywodraeth y DU yn addas iawn i gefnogi'r cenadaethau. Gan adeiladu ar y canlyniadau a'r metrigau â blaenoriaeth y cytunwyd arnynt yn Adolygiad o Wariant 2021,[327] bydd adrannau yn paratoi Cynlluniau Cyflawni Canlyniadau wedi'u diweddaru a fydd yn cwmpasu 2022-25, i'w cyhoeddi yn ystod gwanwyn 2022. Bydd y metrigau a'r bensaernïaeth gyflawni sy'n sail i sicrhau ffyniant bro yn cyd-fynd â'r fframwaith cynllunio a pherfformiad. Bydd disgwyl i adrannau nodi sut y byddai eu polisïau yn gwneud cynnydd tuag at ganlyniadau sy'n sicrhau ffyniant bro yn eu Cynlluniau Cyflawni Canlyniadau. Bydd y broses o adrodd ar y cynlluniau hyn yn sicrhau y gall Llywodraeth y DU weld perfformiad adrannol yn barhaus.

**“Drwy sefydlu'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau ym mis Medi 2021, dangosodd Llywodraeth y DU ei bod yn bwriadu newid yn sylfaenol y ffordd y mae'n gweithredu'n seiliedig ar le”**

Un ffordd o helpu i dargedu buddsoddiad yn fwy effeithiol yn ofodol yw bod adrannau llywodraeth ganolog yn dadansoddi'r data gofodol ar wariant a buddiannau rhaglenni o'r cychwyn cyntaf. Cafodd y dull gweithredu hwn ei dreialu yn ystod yr Adolygiad o Wariant yn 2021. Drwy ddysgu o'r profiad hwn, bydd **Llywodraeth y DU yn gwella'r ffordd y mae'n defnyddio effaith ofodol rhaglenni** er mwyn llywio prosesau gwneud penderfyniadau yn y dyfodol, gan gynnwys Adolygiadau o Wariant yn y dyfodol.

Caiff cyfran sylweddol o wariant cyhoeddus ar lefel is-genedlaethol ei phennu yn ôl fformiwlâu, megis y Fformiwla Gyllido Genedlaethol a ddefnyddir i ddyrannu cyllid rhwng ysgolion yn Lloegr.[328] Mae Llywodraeth y DU eisoes wedi cymryd camau i adolygu rhai o'r fformiwlâu allweddol – er enghraifft, newidiadau diweddar i fformiwla gyllido ysgolion sydd bellach yn ceisio lleihau anghyfartaleddau yn y gwariant ar ysgolion ledled Lloegr. **Bydd Llywodraeth y DU yn adolygu ei gwariant sy'n seiliedig ar fformiwla ymhellach,** er mwyn sicrhau ei fod wedi'i dargedu lle mae ei angen fwyaf.

### *Ymgorffori ystyriaethau gofodol mewn prosesau gwneud penderfyniadau a gwerthuso*

Yn aml, caiff polisïau llywodraeth ganolog eu pennu heb ddealltwriaeth lawn o'r cyd-destun lleol. Gall hyn arwain at sgil effeithiau lleol annisgwyl, neu anghysylltiedig. Mae hefyd yn golygu bod arweinwyr lleol yn dweud yn gyson na allant werthuso pa mor effeithiol y mae menter bolisi genedlaethol yn gweithredu'n lleol. Mae hyn yn atal llywodraeth ganolog rhag dysgu beth sy'n gweithio.

Drwy sefydlu'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau ym mis Medi 2021, dangosodd Llywodraeth y DU ei bod yn bwriadu newid yn sylfaenol y ffordd y mae'n gweithredu'n seiliedig ar le. Bydd yr adran, sydd â rôl o gydgysylltu Ffyniant Bro, yn rhoi cyfleoedd lleol wrth wraidd prosesau llunio polisïau'r llywodraeth, gan weithio gyda'r lleoedd eu hunain i ddeall goblygiadau lleol polisïau cenedlaethol a gweithredu arnynt.

327 Trysorlys EM. *Spending Review 2021: Priority outcomes and metrics*. 2021.
328 Gov.uk. *Guide to national funding formula*. Diweddarwyd Gorffennaf 2020.

Er mwyn cefnogi hyn, mae pwyllgor newydd, **Pwyllgor y Cabinet dros Ffyniant Bro**, wedi cael ei sefydlu'n ddiweddar. Mae wedi cael y dasg o ymgorffori ffyniant bro ym mhob rhan o brosesau llunio a chyflwyno polisïau llywodraeth ganolog. Bydd y pwyllgor hefyd yn gweithio'n uniongyrchol gydag arweinwyr lleol i wella eglurder a chysondeb polisïau a'r ffordd y cânt eu cydgysylltu. Mae pwyllgor newydd y Cabinet yn cael ei gadeirio gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau. Bydd yn gwneud y canlynol:

a. **ymgorffori polisïau ffyniant bro** ym mhob rhan o'r llywodraeth, gan sicrhau bod y rhain yn adlewyrchu anghenion lleoedd a phobl, ac yn cyd-fynd â'r cenadaethau;
b. **gweithio'n uniongyrchol gyda lleoedd**, gan roi syniadau a datblygiadau arloesol lleol wrth wraidd y llywodraeth a chefnogi arweinwyr lleol i ymateb i'w heriau lleol;
c. **sicrhau newid mesuradwy**, drwy fonitro cynnydd ar bolisïau sy'n cyfrannu at gyflawni'r cenadaethau, gan gynnwys y polisïau yn y papur hwn a'r rhai a gaiff eu datblygu'n ddiweddarach; a
d. **hyrwyddo'r fframwaith datganoli newydd**, drwy rymuso arweinwyr a chymunedau lleol a gwella systemau atebolrwydd.

Mae'n rhaid i'r dull newydd hwn o ymdrin â lleoedd hefyd ymestyn y tu hwnt i bwyllgorau i gynnwys pobl go iawn, gyda dealltwriaeth ddofn o'u cymunedau, er mwyn helpu i lunio polisïau a'u rhoi ar waith yn eu hardaloedd. Felly, bydd llywodraeth ganolog yn ceisio gwella'r ffordd y mae'n cydgysylltu ei hymdrechion ar y cyd ar lefel leol, ei dealltwriaeth o faterion a chyfleoedd lleol, a graddfa a lefel awdurdod ei hadnoddau lleol. Er mwyn gwneud hynny mae Llywodraeth y DU yn hyrwyddo **dull newydd o ymdrin â lleoedd drwy Gyfarwyddwyr Ffyniant Bro**. Gan weithio gyda'r cyfranwyr lleol, bydd rolau'r Cyfarwyddwyr hyn yn cynnwys yr amcanion canlynol:

a. meithrin gallu ac adnoddau lleol, yn enwedig lle maent yn brin;
b. gwella'r sylfaen dystiolaeth i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau'n lleol, gan weithio gyda SYG, a gwerthuso beth sy'n gweithio drwy ddefnyddio data, ystadegau a gwaith dadansoddi;
c. sbarduno newid lleol a hyrwyddo syniadau lleol mewn llywodraeth;
d. sicrhau cydlynu strategol, cydgysylltu a hyblygrwydd yn ymyriadau'r llywodraeth mewn lleoedd;
e. pontio rhwng cyfranwyr lleol a llywodraeth ganolog; ac
f. gweithredu fel hyrwyddwyr dros eu lleoedd.

> **“Bydd Cyfarwyddwyr Ffyniant Bro yn bwynt cyswllt unigol ar gyfer arweinwyr lleol a nhw fydd y lle cyntaf i godi cynigion ar gyfer polisïau lleol newydd ac arloesol”**

Bydd Cyfarwyddwyr Ffyniant Bro yn bwynt cyswllt unigol ar gyfer arweinwyr lleol a nhw fydd y lle cyntaf i godi cynigion ar gyfer polisïau lleol newydd ac arloesol. Byddant wedi'u lleoli yn yr ardaloedd y maent yn gyfrifol amdanynt, ond caiff tirweddau sefydliadol gwahanol Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon eu cydnabod. Bydd Cyfarwyddwyr Ffyniant Bro yn dwyn ynghyd bolisïau'r llywodraeth a'r broses o'u rhoi ar waith, gan sicrhau bod penderfyniadau a chyllid yn cyd-fynd ag amcanion strategol lleol a chenedlaethol.

Mae'n bwysig hefyd fod cenadaethau ffyniant bro yn cael eu hadlewyrchu yng ngwaith adrannau Llywodraeth y DU a chyrff cyhoeddus o ddydd i ddydd. I'r perwyl hwnnw, **mae gofyniad ar gyrff cyhoeddus i bennu amcan o leihau amrywiadau daearyddol yn y canlyniadau sy'n berthnasol i'w maes busnes yn cael ei sefydlu.** Caiff y gofyniad hwn ei ddatblygu ymhellach drwy'r Strategaeth Cyrff Cyhoeddus sy'n cael ei datblygu o dan y Rhaglen Diwygio Cyrff Cyhoeddus a arweinir gan Drysorlys EM a Swyddfa'r Cabinet.

Bydd Llywodraeth y DU hefyd yn ymgorffori amcanion ffyniant bro yn ei phrosesau gwneud penderfyniadau drwy ddiwygio'r ffordd y mae'r **sector cyhoeddus yn caffael nwyddau a gwasanaethau**. Mae caffael cyhoeddus yn werth £300bn y flwyddyn, sef traean o'r holl wariant cyhoeddus. Ond mae'r gyfundrefn bresennol yn creu gormod o fiwrocratiaeth i brynwyr a chyflenwyr fel ei gilydd. Mae hyn yn arwain at roi sylw i'r gweithgareddau anghywir yn hytrach na chanlyniadau, gwerth a thryloywder.

Y tu allan i'r UE, ac o dan reolau newydd, mae prynwyr yn y sector cyhoeddus yn cael eu hannog i roi mwy o bwys ar geisiadau sy'n creu swyddi ar gyfer cymunedau, ar ailgodi'n gryfach yn sgil y pandemig ac ar gefnogi'r broses tuag at Sero Net. Mae'r ffactorau "gwerth cymdeithasol" hyn yn golygu nad pris yn unig y bydd prynwyr yn ei ystyried, ond hefyd sut y gall contractau gan y sector cyhoeddus gefnogi cymunedau lleol a grwpiau o dan anfantais (gweler Blwch 2.2.).

Bydd Llywodraeth y DU yn deddfu i atgyfnerthu'r neges y dylai caffael cyhoeddus ystyried y buddiannau ehangach hyn a rhoi dyletswydd ar bob awdurdod contractio i roi sylw i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys creu swyddi a sgiliau newydd, annog arloesi mewn cadwyni cyflenwi a chefnogi cymunedau integredig a chadarn. Bydd y mesurau newydd yn ei gwneud yn haws i fusnesau bach a mentrau cymdeithasol ledled y wlad ymgeisio am gontractau cyhoeddus a'u hennill.

### Blwch 2.2. Gemau'r Gymanwlad Birmingham 2022

Mae tîm Gemau'r Gymanwlad Birmingham 2022 wedi ymgorffori gwerth cymdeithasol yn ei fusnes a'i gadwyn gyflenwi er mwyn mesur y gwahaniaeth y gall y Gemau ei wneud i Birmingham a gorllewin Canolbarth Lloegr a'r bobl. Mae hyn yn cynnwys buddiannau a newidiadau i bobl leol o ran swyddi cynaliadwyedd, iechyd a llesiant, cynhwysedd a hawliau dynol.

Mae angen i gwmnïau sy'n gwneud cais am gontractau ar gyfer Birmingham 2022 ddangos elfen o werth cymdeithasol. Ar gyfer pob contract, neilltuir o leiaf 10% o bwysoliad y gwerthusiad ar gyfer gwerth cymdeithasol – y tro cyntaf erioed i hyn ddigwydd yn hanes Gemau'r Gymanwlad.

Uchelgais Birmingham 2022 yw bod dau o bob tri chontract yn cael eu dyfarnu i fusnesau yng ngorllewin Canolbarth Lloegr. Mae enghreifftiau eraill o werth cymdeithasol yn cynnwys y canlynol:

a. mae'r cynghorwyr cyfreithiol swyddogol, Gowling WLG, yn rhoi cyngor cyfreithiol pro bono i elusennau ynghyd ag oriau o wirfoddoli i gannoedd o fuddiolwyr;

b. mae Darlledwr y Gemau, Sunset and Vine, wedi ymrwymo i gynnig lleoliadau hyfforddiant â thâl ym maes darlledu i bobl ifanc; ac

c. bydd NTV Group, y darparwr gwasanaethau TG, yn darparu interniaethau â thâl i bobl o'r ardal leol.


### *Cydgysylltu polisïau llywodraeth ganolog yn well ar y lefel leol*

Mae sicrhau gwell canlyniadau mewn lleoedd yn dibynnu ar gydgysylltu polisïau cenedlaethol yn effeithiol. Ond dim ond mewn achosion cymharol brin y caiff polisïau sy'n seiliedig ar le eu cydgysylltu rhwng adrannau, er gwaethaf y cynnydd yn ddiweddar.[329] Mae hyn yn golygu bod cyfranwyr lleol yn aml yn cael y dasg o gydgysylltu rhaglenni a pholisïau eu hunain. Mae rhaglenni megis y rhaglen Cefnogi Teuluoedd wedi dangos buddiannau cydgysylltu canolog i bobl a lleoedd.[330]

Mae dynameg debyg i'w gweld ym maes cronfeydd twf lleol, lle mae nifer o gronfeydd cystadleuol wedi cael eu datblygu dros y degawd diwethaf (Ffigur 2.2). Mae hyn wedi arwain at ddarpariaeth ddarniog o gronfeydd, sydd ar wahân i'w gilydd ond sydd yn aml yn gorgyffwrdd â'i gilydd, a phob un yn ceisio gwella datblygu economaidd lleol yn seiliedig ar le. Er enghraifft, crëwyd cronfeydd newydd gwerth tua £20bn rhwng mwy na dwsin o fentrau rhwng 2010 a 2020.[331]

> **"Mae sicrhau gwell canlyniadau mewn lleoedd yn dibynnu ar gydgysylltu polisïau cenedlaethol yn effeithiol"**

### Ffigur 2.2 Cronfeydd cyllido twf lleol a gyflwynwyd yn y DU ers 2011-12[332]




◇ Gan ddefnyddio cyfradd gyfnewid o £1 = 1.18. Defnyddiwyd y gyfradd gyfnewid hon yng nghyfrifiadau'r Arolygiad o Wariant ym mis Hydref 2021 gan Drysorlys EM.
○ Y daw £0.3bn o'r swm hwnnw o'r Gronfa Trefi.
□ £1.5bn yn 2024/25.

Mae llywodraeth leol yn cyfeirio'n rheolaidd at yr aneffeithlonrwydd, natur gymhleth y prosesau gwneud penderfyniadau a'r beichiau adrodd sy'n gysylltiedig â nifer y cronfeydd cyllid lleol a'r amodau sydd ynghlwm wrthynt.

329 Y Sefydliad dros Lywodraeth. *How to improve collaboration across government*. 2020.
330 MHCLG, *National Evaluation of the Troubled Families Programme 2015 – 2020*. 2019.
331 Swyddfa Archwilio Genedlaethol. *Supporting local economic recovery*. (yn yr arfaeth).
332 Daw'r data ar gronfeydd cyllido o ddadansoddiad mewnol yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau.

Mewn llawer o ardaloedd, yn enwedig y rhai ag adnoddau cyfyngedig, ni allant fynd drwy'r holl gronfeydd cyllido niferus i ddod o hyd i rai priodol, datblygu prosiectau buddsoddadwy na chael y cyfuniad cywir o gyfalaf a refeniw i dargedu blaenoriaethau hirdymor. Mae llywodraeth leol a chymunedau lleol wedi gofyn dro ar ôl tro am system symlach sy'n lleihau nifer y cronfeydd cystadleuol ac yn cael gwared ar ffyrdd cyfyngol o glustnodi cyllid.

### Y Dirwedd Gyllido Gymhleth

Nododd un cyngor sir ei fod wedi cyflwyno 61 o geisiadau i gronfeydd Llywodraeth y DU ers 2015, gan amrywio o £16k i £41m, i gefnogi twf economaidd lleol, a phob un ag amodau ymgeisio gwahanol. O'r rhain, roedd wyth yn aflwyddiannus gyda phenderfyniadau eto i'w gwneud ar chwech arall. Mewn sawl achos, dim ond 1-2 fis a oedd gan y cyngor i ddatblygu ei gais.

Mae'r gwaith o baratoi pob cais, a all gynnwys drafftio achosion busnes sylweddol, yn golygu bod yn rhaid i'r cyngor neilltuo cryn dipyn o adnoddau ar gyfer gwaith nad yw'n arwain at unrhyw gyllid o bosibl. Mae rhai o'r ceisiadau hyn yn costio cannoedd ar filoedd o bunnau i'r cyngor eu datblygu. Oherwydd natur amrywiol y ffrydiau cyllido a'u meini prawf, mae'r cyngor wedi sylwi ei fod wedi gwneud cais am gyllid a/neu wedi cyflwyno cynlluniau a seilwaith nad oeddent o reidrwydd yn flaenoriaeth bennaf o ran anghenion twf yr ardal.

Mae terfynau amser byr i gyflwyno ceisiadau hefyd wedi achosi heriau o ran sicrhau bod yr Aelodau etholedig yn cael eu briffio, bod arian cyfatebol yn cael ei sicrhau a bod adnoddau yn cael eu dyrannu i sicrhau y gellir cyflwyno cais o safon uchel. Mae terfynau amser byr hefyd wedi arwain at yr angen i gomisiynu ymgynghorwyr, sy'n cynyddu'r gost o baratoi pob cais. Mae hefyd wedi arwain at sefyllfa lle mae rhai cynghorau yn dewis peidio â chyflwyno cais i'r Gronfa Ffyniant Bro a/neu'r Gronfa Adfywio Cymunedol.

> **“Bydd Llywodraeth y DU yn amlinellu cynllun ar gyfer symleiddio'r dirwedd gyllido eleni”**

Mae camau cychwynnol wedi cael eu cymryd i fynd i'r afael â chymhlethdod o'r fath yn y dirwedd gyllido. Er enghraifft, mae Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn darparu buddsoddiad cyfalaf trawsadrannol mewn seilwaith lleol. Bydd Cronfa Ffyniant a Rennir y DU yn darparu buddsoddiad sy'n canolbwyntio ar adnoddau i gefnogi pobl, hybu balchder mewn lle a chryfhau cymunedau. Ond mae mwy y gellid ei wneud.

Er mwyn cyflwyno dull gweithredu mwy tryloyw, syml ac atebol, **bydd Llywodraeth y DU yn amlinellu cynllun ar gyfer symleiddio'r dirwedd gyllido eleni** a fydd yn cynnwys ymrwymiad i helpu rhanddeiliaid lleol fanteisio ar gyfleoedd cyllid. Caiff yr adolygiad hwn ei lywio gan yr egwyddorion canlynol:

a. lleihau creu gormod o gronfeydd unigol â dulliau gweithredu amrywiol;
b. symleiddio prosesau ymgeisio, a chefnogi mwy o gysondeb rhwng ffynonellau o refeniw a chyfalaf;
c. sicrhau bod gan leoedd gynlluniau monitro a gwerthuso parhaus ar gyfer effaith buddsoddiadau a gwariant a'r broses o'u cyflawni; a
d. teilwra buddsoddiadau a phrosesau cyflawni at y dirwedd sefydliadol leol ym mhob un o wledydd y DU.

Yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, lle bydd angen i bartneriaid lleol hefyd ystyried cronfeydd a arweinir gan y gweinyddiaethau datganoledig, mae'n bwysig cydweithio'n effeithiol â pholisïau i'r DU gyfan er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf posibl a lleihau cymhlethdod i'r eithaf. Er mwyn sicrhau'r prosesau symlaf posibl ledled y wlad, bydd Llywodraeth y DU yn rhannu gwersi o'i hymdrechion i symleiddio cronfeydd â'r gweinyddiaethau datganoledig.

### *Mwy o ffocws ar leoedd lleol*

Yn aml, ceir pellter mawr rhwng y swyddogion sy'n llunio polisïau'n genedlaethol a'r rhai y mae'r polisïau yn effeithio arnynt yn lleol. Gall hyn arwain at ddiwylliant lle mae polisi yn cael ei wneud "i" ardaloedd lleol yn hytrach na "gyda" nhw. Er bod adnoddau'n cael eu neilltuo i dimau ar gyfer lleoedd ac ardaloedd penodol yn adrannau llywodraeth ganolog, mae'r pellter oddi wrth y rhai sy'n gwneud penderfyniadau'n lleol yn golygu nad yw'r wybodaeth hon na'r adnoddau mor effeithiol ag y gallent fod.

Mae Llywodraeth y DU eisoes wedi dechrau mynd i'r afael â'r problemau hyn drwy'r rhaglen **Mannau Twf**. Bydd hon yn cynyddu'n sylweddol ddosbarthiad daearyddol gweision sifil ledled y DU, gan gynyddu'r cyfleoedd i bobl o amrywiaeth ehangach o leoedd a lleihau'r pellter rhwng y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar lefel genedlaethol a lleol.

Mae'r rhaglen Mannau Twf yn cyflawni ymrwymiad Llywodraeth y DU i symud 22,000 o rolau'r Gwasanaeth Sifil, a 50% o rolau'r Uwch-wasanaeth Sifil yn y DU, allan o Lundain Fwyaf erbyn 2030. Y nod yw denu swyddi a buddsoddiad newydd i bob rhan o'r DU; cynyddu cyfleoedd i bobl o amrywiaeth ehangach o gefndiroedd; a helpu i ddarparu Gwasanaeth Sifil sy'n adlewyrchu'r wlad mae'n ei gwasanaethu yn well, gydag amrywiaeth ehangach o leisiau o'r tu hwnt i San Steffan yn rhan o brosesau llunio polisïau a gwneud penderfyniadau.

Hyd yma, mae 15 o adrannau llywodraeth ganolog a chyrff cyhoeddus wedi cyhoeddi eu cynlluniau adleoli, gyda mwy yn yr arfaeth. Mae hyn yn cynnwys:

a. sefydlu **Campws Economaidd Darlington** – hwb trawslywodraethol newydd arloesol sy'n dwyn pobl o wahanol adrannau a sefydliadau cyhoeddus ynghyd i chwarae rôl weithredol yn y materion economaidd cyfoes pwysicaf. Bydd yno bresenoldeb gweinidogol rheolaidd a bydd yn gartref i fwy na 1,100 o rolau'r Gwasanaeth Sifil erbyn 2025, a ddaw o sawl adran, gan gynnwys Trysorlys EM, yr Adran Masnach Ryngwladol, yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS), yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, SYG a'r Adran Addysg. Mae proses recriwtio yn mynd rhagddi, gydag ymateb hynod gadarnhaol yn lleol – arweiniodd ymgyrch recriwtio ddiweddaraf yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau at fwy na 1,500 o geisiadau;
b. bydd Swyddfa'r Cabinet yn sefydlu ei hail bencadlys yn **Glasgow**, a disgwylir y bydd mwy na 500 o rolau wedi'u lleoli yno erbyn diwedd 2024. Mae'r cynlluniau hefyd yn cynnwys presenoldeb gweinidogol rheolaidd. Mae 11,300 o weision sifil eisoes yn Glasgow sy'n dod o 28 o adrannau o leiaf a bydd symudiad Swyddfa'r Cabinet yn creu cyfle gwych i atgyfnerthu'r Undeb drwy bresenoldeb gweinidogol a staffio gweladwy a chryf;
c. bydd y Swyddfa Gartref yn adleoli 1,950 o rolau, gan gynnwys Canolfan Arloesedd newydd yn **Stoke-on-Trent**, a fydd yn gartref i fwy na 500 o rolau erbyn 2025. Mae'r Swyddfa Gartref yn awyddus i ychwanegu gwerth at y ddinas a'i phobl, gan gynnwys drwy weithio gyda sefydliadau a darparwyr lleol i gynnig a hyrwyddo cyfleoedd i'r rhai sy'n gadael yr ysgol, gan ddilyn dull prentisiaid yn gyntaf, yn ogystal â denu graddedigion addysg uwch. Un enghraifft o swyddogaeth sydd i'w sefydlu yn Stoke-on-Trent yw tîm gwaith achos amlddisgyblaethol blaenllaw fel rhan o'r Ganolfan Arloesedd Gwaith Achos, a fydd yn cynnwys rhai o'r gweithwyr achos gorau, mwyaf medrus yn yr adran;

d. sefydlu ail bencadlys ar gyfer yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau yn **Wolverhampton**, gan leoli 800 o rolau y tu allan i Lundain erbyn 2030, gan gynnwys 50% o'r swyddi lefel uchaf;
e. sefydlu Hwb Llywodraeth y DU yn Nhŷ'r Frenhines Elizabeth yng **Nghaeredin**, a fydd yn dwyn ynghyd bron 3,000 o weision sifil o 11 o adrannau Llywodraeth y DU, gan gynnwys yr ystafell gyfarfod gyntaf yn yr Alban yn benodol ar gyfer Cabinet Llywodraeth y DU; ac
f. newidiadau eraill i gynyddu presenoldeb y Gwasanaeth Sifil mewn lleoliadau, gan gynnwys **East Kilbride** (y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu); **Leeds** (yr Adran Drafnidiaeth, y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yr Adran Gwaith a Phensiynau); **Birmingham** (yr Adran Drafnidiaeth a BEIS); **Newcastle-upon-Tyne** (DEFRA); **Samlesbury** (Llu Seiber Cenedlaethol newydd y DU) a **Belfast, Aberdeen, Caerdydd a Manceinion Fwyaf** (sawl adran ac asiantaeth).

> **“Sefydlu ail bencadlys ar gyfer yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau yn Wolverhampton, gan leoli 800 o rolau y tu allan i Lundain erbyn 2030, gan gynnwys 50% o'r swyddi lefel uchaf;”**

Targedir y mwyafrif o'r **Cyrff Hyd Braich** hefyd i'w hadleoli i leoliadau y tu allan i Lundain, gydag eithriadau ar gyfer gofynion gweithredol hanfodol yn unig. Ni chaiff unrhyw Gorff Hyd Braich newydd ei leoli yn Llundain heb reswm gweithredol cymhellol (e.e. darparu gwasanaethau rheng flaen i ddinasyddion yn Llundain). Yn unol â'u hadrannau craidd, bydd Cyrff Hyd Braich hefyd yn cael eu hannog i ddatblygu clystyrau arbenigol i fanteisio ar arbenigedd lleol a hyrwyddo cydweithredu, lle y bo modd. Er enghraifft, nodwyd Parc Chwaraeon Prifysgol Loughborough, sy'n gartref i nifer o gyfleusterau chwaraeon o'r radd flaenaf, ar gam cynnar fel cyfle pwysig i ddatblygu clwstwr chwaraeon o Gyrff Hyd Braich y tu allan i Lundain. Mae Llywodraeth y DU wedi bod yn gweithio'n agos gyda Phrifysgol Loughborough i gefnogi'r cynlluniau adleoli ar gyfer cyrff chwaraeon, gan gynnwys UK Anti-Doping a Sport England. Yn ddiweddar, mae Loughborough wedi llwyddo i sicrhau £6m o Gronfa Dechrau Adeiladu Llywodraeth y DU i adeiladu swyddfa newydd (sef y 4ydd Pafiliwn).

Fel rhan o'r Papur Gwyn hwn, mae Llywodraeth y DU yn atgyfnerthu ei hymrwymiad i'r rhaglen Mannau Twf:

a. bwriedir i **Fanceinion** ddod yn ail gartref i'r **Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon,** gan esgor ar bron 400 o swyddi. Drwy hyn, bydd yn bosibl i'r adran fod yn agosach i'w theulu o Gyrff Hyd Braich, a hyrwyddo cysylltiadau â Media City ochr yn ochr â sector Seiber a sector Digidol gogledd-orllewin Lloegr, i ategu polisïau'r adran ym maes ffyniant a arweinir yn ddigidol; a
b. Caiff tua 500 o rolau anweithredol yn y **Weinyddiaeth Gyfiawnder** eu symud i **Gymru**, gan gynnwys i safleoedd yng Nghaerdydd, Abertawe a Wrecsam erbyn 2030, fel rhan o gynlluniau ehangach a gyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i greu saith Canolfan Gydweithredol Cyfiawnder newydd a sawl is-ganolfan gyfiawnder lai o faint ledled Cymru a Lloegr, a fydd gyda'i gilydd yn arwain at adleoli tua 2000 o swyddfa'r Weinyddiaeth Gyfiawnder erbyn 2030.

Hefyd, mae mentrau Gwasanaeth Recriwtio'r Llywodraeth megis **Closer to Home**, sy'n helpu i farchnata'r Gwasanaeth Sifil a'r rolau sydd ar gael yn well mewn lleoliadau Mannau Twf, yn cynorthwyo yn y gwaith o ddatblygu uwch-swyddogion polisi y tu allan i Whitehall, gan gefnogi llwybrau gyrfa cynaliadwy ym mhob lleoliad a meithrin amrywiaeth ehangach o syniadaeth a phrofiad yn y Gwasanaeth Sifil. Mae rhaglen **Hybiau'r Llywodraeth** hefyd yn cefnogi'r fenter hon, gan sicrhau bod rhwydwaith o swyddfeydd cynhwysol, hyblyg a chydweithredol ar gael i weision sifil – er enghraifft hwb newydd Cyllid a Thollau EM (CThEM) yn Pilgrim's Quarter, Newcastle, lle y caiff 9,000 o weision sifil eu lleoli. Caiff yr ymdrechion hyn eu goruchwylio gan Fwrdd Trosolwg Gweinidogol Pobl ar gyfer Lleoedd.

Erbyn 2025, bydd tua 15,000 o rolau wedi cael eu hadleoli y tu allan i Lundain Fwyaf (gweler tabl 2.2.).

### Tabl 2.2 Mannau Twf: Nifer y rolau a fydd wedi symud y tu allan i Lundain erbyn 2025 a 2030

| Adran | Nifer y rolau erbyn 2025 | Nifer y rolau ychwanegol erbyn 2030 | Nifer y rolau yn yr Uwch-wasanaeth Sifil erbyn 2025 (rhagolwg) | Prif leoliadau wedi'u targedu ar gyfer twf |
|---|---|---|---|---|
| BEIS | 1,350 | 500 | 87 | Salford, Birmingham, Caerdydd, Darlington, Belfast, Caeredin ac Aberdeen |
| Swyddfa'r Cabinet | 1,742 | I'w gadarnhau | 69 | Glasgow a Chaerefrog, gyda thwf bach yng Nghaerdydd, Belfast a Chaeredin |
| Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon | 701 | I'w gadarnhau | 31 | Manceinion, Darlington, Caeredin, Caerdydd, Belfast |
| DEFRA | 550 | 550 | 18 | Caerefrog, Tyneside, Bryste, Caerdydd a Chaeredin |
| Yr Adran Addysg | 551 | 400 | 35 | Sheffield, Coventry, Manceinion, Darlington, Bryste a Nottingham |
| Yr Adran Drafnidiaeth | 688 | 562 | 41 | Leeds, Birmingham a Chaeredin |
| Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 380 | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | Leeds, Burnley, Runcorn, Reading, Caeredin ac ystyried twf posibl mewn 16 o hen safleoedd Public Health England gan gynnwys Newcastle, Sheffield, Nottingham a Chaergrawnt |
| Yr Adran Masnach Ryngwladol | 581 | 193 | 28 | Darlington, Caeredin, Caerdydd a Belfast |
| Adran Gwaith a Phensiynau | 400 (185 Yr Adran Gwaith a Phensiynau; 215 MaPS) | I'w gadarnhau | 13 | Leeds, Sheffield, Tyneside, Blackpool, Manceinion, Glasgow, Birmingham a Threfforest |
| Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau | 917 | I'w gadarnhau | 30 | Wolverhampton, Darlington, Manceinion, Coventry, Leeds, Birmingham, Bryste, Caeredin, Tyneside, Lerpwl, Belfast a Chaerdydd |
| Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu | 500 | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | East Kilbride |
| CThEM | 500 | 2,000 | I'w gadarnhau | Manceinion, Lerpwl, Caeredin, Caerdydd, Tyneside, Leeds, Nottingham, Birmingham a Bryste |
| Trysorlys EM | 300 | I'w gadarnhau | 20 | Darlington |
| Y Swyddfa Gartref | 1,950 | I'w gadarnhau | 80 | Stoke-on-Trent, Manceinion, Sheffield, Lerpwl, Birmingham, Caerdydd, Bryste, Durham, Peterborough, Leeds, Glasgow a Chaeredin |
| Y Weinyddiaeth Amddiffyn | 960 | I'w gadarnhau | 6 | Caeredin, Glasgow, Portsmouth, Swydd Gaergrawnt a Wiltshire |
| Y Weinyddiaeth Gyfiawnder | 1,205 | 800 | 61 | Model cenedlaethol gydag un hwb mwy o faint ym mhob rhanbarth o Gymru a Lloegr (Canolfannau Cydweithredu Cyfiawnder) a gefnogir gan rwydwaith o swyddfeydd llai o faint (Is-swyddfeydd Cyfiawnder). Lleoliadau hybiau wedi'u nodi yn Leeds, Nottingham, South Tyneside, Lerpwl, Caerdydd, Brighton ac Ipswich. Ymrwymiad i greu 500 o rolau fel rhan o rwydwaith Swyddfa Cymru erbyn 2030. |

Mae **Llywodraeth y DU hefyd yn bwriadu sefydlu "Fforwm yr Ynysoedd"** a fydd yn fodd i gymunedau ynys ledled y DU ymgysylltu â'i gilydd yn rheolaidd. Bydd hyn yn cefnogi'r cymunedau hyn o ran yr heriau unigryw a wynebir ganddynt sydd, yn aml, yn rhai trawsbynciol – er enghraifft, materion sy'n ymwneud â chysylltedd a seilwaith, tlodi tanwydd a thueddiadau demograffig. Bydd y fforwm yn rhoi cyfle i Lywodraeth y DU ddeall yr heriau hyn yn well, yn ogystal â chynnig llwyfan i drafod atebion posibl a chyfleoedd a rennir.

Ar wahân i hyn, caiff gweithgarwch datblygu sgiliau arwain a rheoli yn y sector cyhoeddus ei ddiwygio. **Y canolbwynt fydd sefydliad newydd o'r radd flaenaf: y Coleg Arweinyddiaeth ar gyfer Llywodraeth**. Bydd y diwygiadau yn cryfhau effeithiolrwydd prosesau llunio a chyflwyno polisïau'r Llywodraeth, drwy sicrhau bod arweinwyr gwasanaeth sifil a gwasanaeth cyhoeddus yn meddu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r rhwydweithiau sydd eu hangen i wneud gwahaniaeth dros y wlad.

Mae'r rhaglenni'n cael eu darparu gan Academi Arweinyddiaeth y Gwasanaeth Sifil ar hyn o bryd a bydd y Ganolfan Arweinyddiaeth Genedlaethol yn cael ei hymgorffori yng nghwricwlwm trylwyr newydd y Coleg Arweinyddiaeth ar gyfer Llywodraeth. Caiff tri lleoliad ffisegol yng Nghanolbarth Lloegr, gogledd-ddwyrain Lloegr a Swydd Efrog a Humber eu defnyddio gan Gampws Sgiliau'r Llywodraeth i roi hyfforddiant yn bersonol, gan ddod â gweision sifil yn agosach i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Bydd y **seilwaith hyfforddiant newydd hwn hefyd ar gael i weithredwyr llywodraeth leol**, yn enwedig prif weithredwyr ac uwch-swyddogion awdurdodau lleol. Bydd hyn yn helpu i feithrin gallu arweinyddiaeth leol ledled y DU gan gefnogi ymdrechion ar y cyd i rymuso arweinwyr lleol (a drafodir yn yr adran nesaf). Bydd hefyd yn arwain at fwy o gydweithio rhwng llywodraeth ganolog a llywodraeth leol ac ar draws llywodraeth leol. Bydd y Coleg Arweinyddiaeth ar gyfer Llywodraeth yn agor ym mis Ebrill 2022.



### 2.3.3 Grymuso'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau lleol

Dim ond os caiff cyfranwyr lleol eu grymuso i ddatblygu atebion sy'n gweithio i'w cymunedau y bydd modd sicrhau ffyniant bro. Mae'r adran hon yn amlinellu'r camau i gefnogi llywodraeth leol, arweinwyr lleol a busnesau. Mae hyn yn golygu:

a. darparu **fframwaith datganoli newydd** yn Lloegr, gan feithrin gallu ac adnoddau'n lleol a chryfhau sefydliadau; a
b. cefnogi **partneriaethau â'r sector preifat** a chreu clystyrau economaidd i hybu buddsoddiad lleol, swyddi a thwf.

Bydd ffyniant bro yn gofyn am sefydliadau lleol effeithiol a chydlynol y mae eu cyfrifoldebau wedi'u diffinio dros ardaloedd daearyddol strategol priodol. Bydd hefyd yn gofyn am adnoddau digonol ac arweinyddiaeth gref i wneud penderfyniadau effeithiol.[333] Ar hyn o bryd, ceir clytwaith o gyrff gweinyddol lleol ledled y DU, sydd yn aml yn gorgyffwrdd â'i gilydd ac y mae'n gymhleth ymdrin â nhw. Gall hyn atal y broses o feithrin gallu ac arweinyddiaeth leol.

> **Bydd ffyniant bro yn gofyn am sefydliadau lleol effeithiol a chydlynol y mae eu cyfrifoldebau wedi'u diffinio dros ardaloedd daearyddol strategol priodol**


Yn Lloegr, mae'r cyfrifoldeb am lywodraeth leol wedi'i rannu rhwng cynghorau sir, cynghorau dosbarth, awdurdodau unedol a chynghorau bwrdeistref Llundain ac, ar lefel is-ranbarthol, awdurdodau cyfun maerol ac awdurdodau cyfun nad ydynt yn faerol ac Awdurdod Llundain Fwyaf. Mae gan Bartneriaethau Menter Lleol a Phartneriaethau Rhanbarth Cyfan rai cyfrifoldebau am strategaeth economaidd hefyd. Mae'r Cyrff Trafnidiaeth Is-genedlaethol yn datblygu strategaethau trafnidiaeth rhanbarthol. Mae'r rhain yn aml yn cynnwys ffiniau daearyddol gwahanol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, megis yr heddlu ac iechyd. O ganlyniad, ceir darpariaeth ddarniog a chymhlethdod gweinyddol.

Yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae rhywfaint o'r ddarpariaeth ddarniog hon wedi cael ei symleiddio, gyda llywodraeth leol un haen. Hefyd, sefydlwyd Bargeinion Dinesig a Thwf gyda'r gweinyddiaethau datganoledig yn gyntaf yn 2014, a oedd yn dwyn ynghyd grwpiau o awdurdodau lleol a rhanddeiliaid ehangach i gefnogi twf economaidd lleol. Maent bellach yn rhychwantu tir cyfan Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r gweinyddiaethau datganoledig wedi adeiladu ar hyn ymhellach drwy gyflwyno strwythurau tebyg i hyrwyddo datblygu economaidd, megis y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol arfaethedig yng Nghymru a'r Partneriaethau Economaidd Rhanbarthol yn yr Alban

Mae Ffigur 2.3 yn dangos y dirwedd weinyddol bresennol ledled y DU, ochr yn ochr â'r gyfres gyntaf o leoedd lle bydd trafodaethau yn dechrau'n fuan ar fargeinion datganoli newydd (gweler Pennod 3 am ragor o fanylion).

333 Y Cyngor Strategaeth Ddiwydiannol. *What does it take to "level up" places?*. 2021.; Y Cyngor Strategaeth Ddiwydiannol. *Devolution and Governance Structures in the UK: Lessons from Evidence*. 2021.

## Ffigur 2.3 Daearyddiaethau Bargen Ddatganoli Lloegr a Bargeinion Dinesig a Thwf



Yn ogystal â'i thirwedd weinyddol gymhleth, mae'r DU yn un o'r gwledydd mwyaf canolog ei threfniadau llywodraethu yn y byd diwydiannol.[334] Mae rhywfaint o gynnydd tuag at ddatganoli wedi cael ei wneud yn ddiweddar. Mae dros 40% o boblogaeth Lloegr bellach yn byw mewn ardaloedd lle mae meiri dinas-ranbarthau a etholir yn uniongyrchol, gan gynnwys 63% yng ngogledd Lloegr.[335] Fodd bynnag, gyda llai na hanner poblogaeth Lloegr wedi'i gwmpasu gan fargen ddatganoli hyd yma, mae llywodraeth ganolog yn dal i wneud penderfyniadau pwysig yn uniongyrchol ynglŷn â sgiliau a gwasanaethau cyhoeddus i filiynau o bobl yn eu hardal.

Hyd yn oed mewn ardaloedd lle y cafwyd datganoli, pwerau cymharol gyfyngedig sydd gan arweinwyr lleol. Mae meiri Efrog Newydd a Pharis yn gyfrifol am amrywiaeth lawer ehangach o swyddogaethau na'r rhai yn Lloegr, gan gynnwys lles, ysgolion a rhai agweddau ar iechyd. Hefyd, mae ganddynt bwerau llawer mwy i godi refeniw. Yn y data cymaradwy mwyaf diweddar, cyn sefydlu'r meiri metro newydd yn Lloegr, dim ond 35% o fuddsoddiad cyhoeddus oedd yn cael ei wneud gan lefelau is-genedlaethol yn y DU, o gymharu â bron 60% ar gyfartaledd ledled gwledydd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd.[336]

Ers 2017, mae datganoli pwerau i awdurdodau cyfun maerol yn Lloegr wedi dangos y gwahaniaeth y gall arweinwyr lleol sydd wedi'u grymuso ei wneud: Tees Valley yn dod â'i faes awyr o dan berchenogaeth gyhoeddus; Cynllun *A Bed for the Night* Manceinion Fwyaf, sy'n dwyn ynghyd gyfranwyr i roi cymorth a llety i'r rhai sy'n cysgu allan; a phenderfyniad gorllewin Canolbarth Lloegr i sefydlu Energy Capital i ddwyn busnesau, cyfleustodau ac academyddion ynghyd i ddarparu pŵer cost isel, glân ac effeithlon.

Mae angen ehangu, dyfnhau a symleiddio datganoli, ac adeiladu ar y llwyddiant hwn a grymuso mwy o arweinwyr lleol. O ran y cyhoedd, bydd hyn yn golygu mwy o reolaeth ac atebolrwydd cliriach ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am beth a mwy o benderfyniadau sy'n dylanwadu ar eu hardal yn cael eu gwneud yn agosach at y cyhoedd.

> **Mae'r DU yn un o'r gwledydd mwyaf canolog ei threfniadau llywodraethu yn y byd diwydiannol.**



334 Y Cyngor Strategaeth Ddiwydiannol. *Devolution and Governance Structures in the UK: Lessons from Evidence*. 2021.

335 SYG. *Estimates of the population for the UK, England and Wales, Scotland and Northern Ireland*. 2021. *Noder: Mae gogledd Lloegr yn cynnwys gogledd-ddwyrain Lloegr, gogledd-orllewin Lloegr a Swydd Efrog a Humber.*

336 Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. *OECD Regional Outlook 2016: Productive Regions for Inclusive Societies*. Gwasg y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, Paris. 2016.

## Hanes datganoli lleol yn Lloegr ers 2010

Mae gan y DU hanes o lywodraeth leol gadarn a gyrhaeddodd ei hanterth yn y 19eg ganrif. Yn ystod yr 20fed ganrif, mae'r DU wedi dod yn un o'r gwledydd mwyaf canolog ei threfniadau llywodraethu o blith gwledydd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. Yn Lloegr, bu sawl ymgais i ddatganoli pŵer ers y 1970au.

Ar ôl diddymu'r Awdurdodau Datblygu Rhanbarthol ar ddechrau'r 2010au, bu ffocws ar greu sefydliadau a oedd yn cwmpasu ardaloedd economaidd swyddogaethol. Yn 2011, crëwyd 39 o Bartneriaethau Menter Lleol fel partneriaethau a arweiniwyd gan fusnes mewn ardaloedd economaidd swyddogaethol, a oedd yn gweithio gyda llywodraeth leol. Crëwyd Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf, sef yr awdurdodau cyfun cyntaf yn Lloegr, hefyd yn 2011, a oedd yn dwyn deg o'i bwrdeistrefi metropolitan ynghyd i gydweithio a gwneud gwahaniaeth dros y Dinas-Ranbarth cyfan. Hefyd, cafodd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu eu hethol am y tro cyntaf yn 2012 i sicrhau mwy o ymreolaeth weithredol ac atebolrwydd lleol am blismona, gyda rhai hefyd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am y gwasanaethau tân ar ôl 2015. O dan Ddeddf Dinasoedd a Datganoli Llywodraeth Leol 2016 caniatawyd sefydlu awdurdodau cyfun maerol i ddarparu arweinwyr lleol cadarn â mandad i sicrhau twf lleol ar gyfer Awdurdodau Cyfun. Ochr yn ochr ag Awdurdod Llundain Fwyaf, ceir naw awdurdod cyfun maerol erbyn hyn, gyda'r un diweddaraf, Gorllewin Swydd Efrog, yn cael ei sefydlu yn 2021.

Mae'r bargeinion datganoli a luniwyd o fewn fframwaith Deddf 2016 wedi defnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar gytundeb. Cânt eu cyd-drafod yn ddwyochrog ac mae pob bargen yn un bwrpasol, gyda gwahanol bwerau'n cael eu datganoli a gwahanol setliadau rhwng awdurdod gweithredol y Maer o gymharu â'r awdurdod cyfun. Mae'n ofynnol mewn statud bod yn rhaid i bob awdurdod cyfansoddol yn yr ardal gael ei gynnwys yn yr awdurdod cyfun ac mae'n rhaid cael cydsyniad unfrydol i'w sefydlu, sy'n ei gwneud yn heriol cytuno ar fargen mewn rhai ardaloedd.

Fel arfer, mae bargeinion datganoli maerol wedi cynnwys cyllid buddsoddi ychwanegol, yn ogystal â chyllidebau trafnidiaeth amlflwydd datganoledig a phwerau i fasnachfreinio gwasanaethau bysiau, cyllid ar gyfer cyllideb addysg i oedolion, mwy o ddylanwad lleol dros gymorth cyflogaeth a rhai pwerau cynllunio ac adfywio strategol. Mae meiri wedi cael rhai pwerau i godi refeniw hefyd, megis Praesept Maerol ac atodiad ardrethi busnes.

Mae datganoli maerol ar gam cynnar iawn yn ei ddatblygiad, ond mae arwyddion cynnar o'i effeithiolrwydd. Mae meiri eisoes wedi chwarae rôl allweddol fel llysgenhadon dros eu hardal, gan ddenu mewnfuddsoddi, a defnyddio cyllid Llywodraeth Ei Mawrhydi i sefydlu seilwaith i deithio ar draws dinasoedd a threialu datblygiadau arloesol newydd ym maes polisi dinesig. Er enghraifft, sefydlodd Dinas-ranbarth Lerpwl LCR Cares i godi £2m er mwyn i sefydliadau cymunedol a gwirfoddol y dinas-ranbarth fynd i'r afael â COVID-19. Yn Tees Valley, mae'r Maer Ben Houchen wedi gweithio gyda busnesau i dreialu dulliau newydd o gyflwyno trafnidiaeth gynaliadwy gyda chynllun peilot e-sgwteri, sy'n rhoi teithiau e-sgwter i staff y GIG, y lluoedd arfog a gwasanaethau brys am ddim. Ym Manceinion Fwyaf, mae'r cynllun 'Our Pass' yn caniatáu i bobl ifanc deithio ar y rhan fwyaf o fysiau lleol, unrhyw ddiwrnod o'r wythnos, ar ôl talu ffi untro o £10 pan fyddant yn ymuno â'r cynllun. Mae aelodaeth o Our Pass hefyd yn cynnwys cynigion a phrofiadau unigryw: disgowntiau a thocynnau am ddim, tocynnau nofio a hamdden, o glwb paffio Oldham i Gerddorfa Hallé.

### *Fframwaith datganoli newydd i Loegr*

**Mae Llywodraeth y DU yn amlinellu fframwaith datganoli newydd i Loegr**. Nod y fframwaith hwn yw creu cyfres glir a chyson o lwybrau datganoli i leoedd, gan eu galluogi i ehangu a dyfnhau eu pwerau wedi'u datganoli, yn amodol ar fodloni rhai amodau ymlaen llaw. Y model datganoli a ffefrir yw'r un lle mae arweinydd a etholir yn uniongyrchol sy'n cwmpasu ardal ddaearyddol economaidd benodol gyda mandad clir ac uniongyrchol, atebolrwydd cadarn a'r pŵer i gynnull i wneud i bethau newid. Fodd bynnag, gan na fydd y model hwn yn addas i bob ardal, mae'r fframwaith yn amlinellu dull hyblyg â haenau, sy'n caniatáu i ardaloedd ddyfnhau'r setliad datganoli wrth eu pwysau.

Mae datganoli yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon hefyd yn cefnogi gwell canlyniadau, gan alluogi dinasyddion i fanteisio ar raddfa'r DU, a hefyd roi'r gallu i gyflwyno polisïau gwahanol yn dibynnu ar angen lleol. Mae pob gweinyddiaeth ddatganoledig yn gyfrifol am ei threfniadau llywodraeth leol ei hun, gan gynnwys fframweithiau atebolrwydd a pherfformiad.

Mae'r pedair egwyddor ganlynol yn sail i'r fframwaith datganoli newydd a byddant yn llywio bargeinion datganoli yn y dyfodol yn Lloegr.

### *Egwyddor un: Arweinyddiaeth effeithiol*

Mae arweinyddiaeth leol gref yn hanfodol i sicrhau canlyniadau lleol gwell a gwasanaethau cyhoeddus mwy cydgysylltiedig. Mae'n ganolbwynt i arloesi a chydweithio lleol gydag atebolrwydd lleol. Dylai pwerau gael eu datganoli i awdurdodau sydd â'r strwythurau a'r arweinyddiaeth angenrheidiol i wneud penderfyniadau lleol clir a chadarn.

Gall fod yn fuddiol os bydd un unigolyn atebol, blaenllaw mewn ardal. Yn ddelfrydol, caiff yr arweinydd hwn ei ethol yn uniongyrchol. Lle nad oes arweinydd a etholir yn uniongyrchol mewn ardal, bydd angen strwythur gwneud penderfyniadau clir ar gyfer datganoli. Ar gyfer awdurdod lleol mawr unigol, mae hyn yn golygu system arweinydd a chabinet. Lle mae grŵp o awdurdodau, bydd angen iddynt sefydlu sefydliad priodol, h.y. awdurdod cyfun. Lle mae grŵp o awdurdodau yn ceisio awdurdod cyfun nad yw'n faerol, mae angen eglurder ynglŷn â sut y caiff penderfyniadau eu gwneud – er enghraifft, drwy bleidlais mwyafrif.

Er na fydd pob ardal am gael arweinydd a etholir yn uniongyrchol, bydd yr awdurdodau hynny â strwythurau gwneud penderfyniadau cadarnach yn sicrhau mwy o bwerau. Gellir grwpio'r modelau llywodraethu a gwneud penderfyniadau gwahanol yn dair lefel, gyda phwerau gwahanol ar bob lefel. Diffinnir y lefel uchaf gan ardaloedd lle mae arweinydd a etholir yn uniongyrchol. Mae lefelau is yn llacio'r amod hwn. Mae hyn yn cynnig cyfres hyblyg o opsiynau llywodraethu, ond gyda chymhellion clir i symud tuag at fodel lle mae arweinydd a etholir yn uniongyrchol.

### *Egwyddor dau: Daearyddiaeth synhwyrol*

Hyd yma, mae bargeinion datganoli fel arfer wedi cael eu llunio ar sail daearyddiaethau dinas-ranbarth sy'n cwmpasu ardal economaidd swyddogaethol. Mae'n bwysig bod y bargeinion datganoli newydd yn seiliedig ar ardaloedd daearyddol sy'n adnabyddadwy yn lleol o ran hunaniaeth, lle a chymuned, yn ogystal â bod yn ardaloedd economaidd synhwyrol sy'n cyd-fynd â ble mae pobl yn byw ac yn gweithio. Ar y sail honno, er mwyn cael mwy o bwerau, dylid llunio unrhyw fargeinion datganoli yn y dyfodol dros ardal economaidd swyddogaethol synhwyrol a/neu ardal ddaearyddol sir gyfan, gydag un sefydliad ar waith ar gyfer yr ôl troed daearyddol hwnnw.

Bydd awdurdodau dosbarth yn cael eu hannog i fod yn rhan o'r broses, ond dim ond gydag awdurdodau sirol ac awdurdodau lleol unedol y caiff bargeinion eu llunio. Ni all unrhyw awdurdod roi feto ar gynnydd cymdogion sy'n barod i symud yn gyflym a mabwysiadu modelau llywodraethu cadarn. Er mwyn sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud dros ardal ddaearyddol strategol, mae'n rhaid i unrhyw haen o ddatganoli, y cyngor neu'r grŵp o gynghorau sy'n ceisio pwerau datganoli, gynnwys cyfanswm poblogaeth o 500,000 o leiaf.

Er na fydd Llywodraeth y DU yn gwahardd bargeinion datganoli nad ydynt yn cwmpasu ardal economaidd swyddogaethol, caiff blaenoriaeth ei rhoi i fargeinion datganoli sy'n cwmpasu ardal economaidd swyddogaethol neu ardal ddaearyddol sir gyfan, er enghraifft cyngor sir a'i awdurdodau unedol cysylltiedig yn yr ardal sirol. Lle mae awdurdodau lleol cyfagos yn yr un ardal economaidd swyddogaethol neu ardal ddaearyddol sirol yn dymuno bod yn rhan o'r fargen sy'n cael ei chyd-drafod, disgwylir i'r ardal sy'n cyd-drafod ystyried yr opsiwn hwn o ddifrif er mwyn sicrhau setliad datganoli. Ni fydd bargeinion datganoli yn cael eu cyd-drafod na'u llunio â chynghorau unigol os ydynt yn rhan o ardal sydd eisoes wedi'i chwmpasu gan fargen ddatganoli presennol sy'n cynnwys awdurdod cyfun maerol neu Awdurdod Llundain Fwyaf.

### *Egwyddor tri: Hyblygrwydd*

Mae'r haenau a nodwyd yn y fframwaith yn pennu cyfres glir a chyson o lwybrau datganoli. Caiff bargeinion datganoli eu teilwra at bob ardal, ac ni fydd pob ardal yn cael yr un pwerau o reidrwydd. Mae Tabl 2.3 yn nodi'r hyn y gall cytundeb datganoli nodweddiadol ei gynnig ar bob lefel. Mae'r fframwaith wedi'i gynllunio i alluogi ardaloedd i ddyfnhau eu setliad datganoli dros amser, ac yn cydnabod y gall sefydliadau, wrth iddynt aeddfedu, gael pwerau ychwanegol.

### *Egwyddor pedwar: Atebolrwydd priodol*

Wrth roi mwy o bwerau a hyblygrwydd cyllidol i ardaloedd, bydd angen i'r pwerau hyn gael eu defnyddio'n briodol i gefnogi blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae hyn yn golygu arweinwyr a sefydliadau lleol sy'n dryloyw ac yn atebol, sy'n gweithio'n agos gyda busnesau lleol, sy'n anelu at sicrhau'r gwerth gorau am arian i drethdalwyr ac sy'n cynnal safonau moesegol cadarn. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen systemau i gryfhau atebolrwydd lleol. Bydd mesurau atebolrwydd ar gyfer bargeinion datganoli yn rhan o Fframwaith Atebolrwydd ehangach Llywodraeth Leol.

Gall y data a gesglir gan lywodraeth leol amrywio o un lle i'r llall, gan ei gwneud yn anodd deall pa mor dda y mae gwasanaethau yn cael eu darparu a'r effaith y maent yn ei chael. Mae diffyg un safbwynt cyffredin ynglŷn â chyflawni mewn lleoedd, sydd wedi'i gefnogi gan ddata cadarn a chymaradwy, yn llesteirio'r gallu i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth. Mae hyn yn bwysig i arweinwyr a chynghorau lleol a all ddysgu o allu cymharu perfformiad a rhannu arferion gorau.

> **“Mae Llywodraeth y DU yn sefydlu corff annibynnol newydd yn Lloegr sy'n canolbwyntio ar ddata, tryloywder a thystiolaeth gadarn”**

**Mae Llywodraeth y DU yn sefydlu corff annibynnol newydd yn Lloegr sy'n canolbwyntio ar ddata, tryloywder a thystiolaeth gadarn.** Bydd hyn yn helpu Llywodraeth y DU i ddeall arweinyddiaeth sy'n seiliedig ar le, ansawdd y gwasanaethau lleol a ddarperir ac effeithlonrwydd sefydliadol, yn well. Bydd cryfhau data yn un o gonglfeini'r corff hwn, a fydd yn helpu cynghorau i ddysgu oddi wrth ei gilydd, canolbwyntio ar ddefnyddwyr a nodi meysydd i'w gwella eu hunain. Bydd amcanion allweddol y corff fel a ganlyn:

a. grymuso dinasyddion drwy roi gwybodaeth am eu hardal leol iddynt, gan eu galluogi i ddwyn arweinwyr i gyfrif, cyfrannu at y broses o lunio gwasanaethau a chymryd rhan yn y gwaith o ennyn balchder yn eu lle;
b. cryfhau gwybodaeth arweinwyr lleol am eu gwasanaethau, gan eu galluogi i rannu arferion gorau, arloesi a sbarduno gwelliant eu hunain; ac
c. gwella dealltwriaeth llywodraeth ganolog o'r sector llywodraeth leol, mesur effeithlonrwydd ac amrywiadau rhwng ardaloedd, a'i gwneud yn bosibl i gymorth i'r sector gael ei deilwra'n well.

Drwy ddod â'r data hyn ynghyd, bydd cyfle i lywodraeth ganolog a llywodraeth leol weithio mewn partneriaeth, gyda ffocws cyffredin ar adrodd er mwyn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau lleol a chenedlaethol. Bydd yn defnyddio dulliau llwyddiannus o ymdrin â data, metrigau a chanlyniadau, fel y dangosir gan Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol Llywodraeth yr Alban. Yn bwysig ddigon, bydd y corff newydd yn adeiladu ar yr hyn sydd eisoes ar gael yn genedlaethol, gan y llywodraeth a sefydliadau allanol eraill. Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu lleoli pencadlys y corff newydd y tu allan i Lundain, a bydd yn llunio'r cynnig hwn ar y cyd â llywodraeth leol er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu ac yn cefnogi uchelgeisiau lleol.

Mae llywodraeth leol wedi'i datganoli yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Er mai corff sy'n gweithredu yn Lloegr fydd prif swyddogaeth y corff hwn, bydd Llywodraeth y DU yn cynnig rhannu dirnadaethau a data â'r gweinyddiaethau datganoledig a llywodraeth leol ym mhob rhan o'r DU.

Cyn cytuno ar fargeinion datganoli newydd, caiff fframwaith atebolrwydd newydd ei lunio'n derfynol a fydd yn gymwys i bob sefydliad datganoledig yn Lloegr. Bydd hwn yn sicrhau bod rolau a metrigau clir ar gyfer asesu a mesurau i gefnogi ardaloedd lleol, ochr yn ochr â systemau craffu lleol cadarn, a hynny er mwyn sicrhau bod gan bobl leol hyder bod datganoli yn arwain at welliannau yn eu hardal. Bydd y fframwaith newydd yn canolbwyntio ar y canlynol:

a. pennu rolau a chyfrifoldebau allweddol i sefydliadau datganoledig yn Lloegr, llywodraeth ganolog a rhanddeiliaid eraill fel eu bod yn glir i drigolion;
b. sicrhau bod fforymau priodol i'r cyfryngau lleol, cynghorwyr lleol a thrigolion lleol adolygu perfformiad awdurdodau sydd â swyddogaethau datganoledig – er enghraifft, Sesiynau Holi'r Maer, ymddangos yn rheolaidd gerbron pwyllgorau craffu ac archwilio lleol; ac
c. galluogi'r cyhoedd i lunio barn glir ar berfformiad Meiri yn erbyn canlyniadau allweddol er mwyn cael cymharu rhwng ardaloedd lle mae pwerau wedi cael eu datganoli.

### *Fframwaith Datganoli*

Mae Tabl 2.3 yn rhoi amcan o'r mathau o bwerau o swyddogaethau a gaiff eu hystyried ar gyfer pob lefel o ddatganoli. Nid y cynigion lleiaf sydd ar gael yw'r rhain. Dim ond i awdurdodau neu ardaloedd daearyddol penodol y caiff rhai pwerau eu datganoli. Bydd cyfle hefyd i gyd-drafod rhagor o bwerau ar sail achos unigol, a chyfle i fabwysiadu cynigion lleol arloesol i ymateb i heriau a chyfleoedd penodol – er enghraifft, gwella canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn ogystal â'r elfennau craidd yn y tabl, efallai y bydd lle i ystyried ffiniau'r sector cyhoeddus ar sail achos unigol, os gofynnir am hynny, er mwyn cefnogi datganoli. Bydd cynigion i gyfuno swyddogaethau awdurdodau lleol, lle y gall hynny wella gwasanaethau ac effeithlonrwydd, yn cael eu cefnogi hefyd.

## Tabl 2.3 Fframwaith Datganoli

**Lefel 3** – Un sefydliad neu Gyngor Sir â maer a etholir yn uniongyrchol, mewn ardal economaidd swyddogaethol neu ardal sir gyfan

**Lefel 2** – Un sefydliad neu Gyngor Sir heb faer a etholir yn uniongyrchol, mewn ardal economaidd swyddogaethol neu ardal sir gyfan

**Lefel 1** – Awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd mewn ardal economaidd swyddogaethol neu ardal sir gyfan e.e. drwy gyd-bwyllgor

| Swyddogaeth | Manylion | L1 | L2 | L3 |
|---|---|---|---|---|
| **Rôl strategol wrth ddarparu gwasanaethau** | Yn cynnal swyddogaethau'r llywodraeth sy'n cael eu cyflawni orau ar lefel strategol sy'n cynnwys mwy nag un awdurdod lleol e.e. Strategaethau Adfer Natur Lleol | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Cyfle i gyfuno gwasanaethau ar lefel strategol | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Cyfle i fabwysiadu cynigion lleol arloesol i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd a thargedau Sero Net y DU | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Cefnogi busnesau lleol** | Swyddogaethau Partneriaeth Menter Leol, gan gynnwys cynnal llais busnes strategol | | ✓ | ✓ |
| **Rheoli trafnidiaeth gynaliadwy yn lleol** | Rheoli swyddogaethau trafnidiaeth leol priodol e.e. cynlluniau trafnidaeth lleol* | | ✓ | ✓ |
| | Rhwydwaith llwybrau allweddol diffiniedig* | | | ✓ |
| | Blaenoriaeth i bartneriaethau rheilffyrdd newydd â Rheilffyrdd Prydain Fawr – gan ddylanwadu ar y ddarpariaeth reilffyrdd leol a gynigir, e.e. gwasanaethau a gorsafoedd. | | | ✓ |
| | Yn gallu masnachfreinio gwasanaethau bysiau | | ✓ | ✓ |
| | Cyfuno cyllid trafnidiaeth leol craidd presennol ar gyfer cynnal a chadw ffyrdd lleol a gwaith uwchraddio llai o faint mewn setliad integredig amlflwydd. | | | ✓ |
| **Gwariant buddsoddi** | Gwaith cynllunio a chyflawni Cronfa Ffyniant a Rennir y DU ar lefel strategol | | ✓ | ✓ |
| | Cronfa fuddsoddi hirdymor, a dyraniad blynyddol y cytunir arno | | | ✓ |
| **Addysgu'r sgiliau i oedolion ar gyfer y farchnad lafur** | Datganoli swyddogaethau Addysg i Oedolion a'r Gyllideb graidd ar gyfer Addysg i Oedolion | | ✓ | ✓ |
| | Cyfrannu at Gynlluniau Gwella Sgiliau Lleol | | ✓ | ✓ |
| | Rôl yn y gwaith o lunio a chyflwyno rhaglenni cyflogaeth o dan gontract yn y dyfodol | | | ✓ |
| **Rheolaeth leol dros benderfyniadau ar seilwaith** | Yn gallu sefydlu Corfforaethau Datblygu Maerol (gyda chaniatâd yr awdurdod cynllunio lleol perthnasol) | | | ✓ |
| | Datganoli cyllid tir llwyd a arweinir yn lleol | | | ✓ |
| | Partneriaethau strategol a Homes England ar draws y Rhaglen Tai Fforddiadwy a chyllid tir llwyd | | | ✓ |
| | Pwerau prynu gorfodol Homes England (a ddelir yn gyfochrog ar hyn o bryd) | | ✓ | ✓ |
| **Cadw'r cyhoedd yn ddiogel ac yn iach** | Rheolaeth faerol dros swyddogaethau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu lle y rhennir yr un ffiniau^ | | | ✓ |
| | Rôl benodol, glir mewn cydnerthedd lleol* | | ✓ | ✓ |
| | Os dymunir, gellir cynnig dyletswydd i wella iechyd y cyhoedd i awdurdodau cyfun maerol (yn gyfochrog ag awdurdodau lleol) | | | ✓ |
| **Cyllido mentrau lleol i drigolion a busnesau** | Yn gallu cyflwyno praeseptau maerol ar y dreth gyngor* | | | ✓ |
| | Yn gallu cyflwyno atodiad ardrethi busnes (cynnydd yn amodol ar bleidlais) | | | ✓ |

** yn cyfeirio at swyddogaethau sydd ond yn gymwys i awdurdodau cyfun*

*^ yn cyfeirio at swyddogaethau sy'n gymwys i awdurdodau cyfun maerol yn unig ar hyn o bryd*

Mae'r pwerau a'r swyddogaethau a nodir yn Nhabl 2.3 yn cynrychioli hynt datganoli penderfyniadau a chronfeydd. Mae'r fframwaith hwn wedi'i gynllunio i fod yn ddynamig fel y gall ddatblygu a chael ei lywio gan drafodaethau bargeinion datganoli dros y blynyddoedd sydd i ddod. Bydd llawer o'r swyddogaethau a restrir yn y fframwaith yn caniatáu i arweinwyr lleol helpu i lunio partneriaethau â chyrff allweddol yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys Rheilffyrdd Prydain Fawr, Homes England a/neu'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae awdurdodau cyfun eisoes wedi cael y pŵer o dan Ddeddf Atodiad Ardrethi Busnes 2009 a Deddf Lleoliaeth 2011 i godi atodiad ardrethi busnes. Fodd bynnag, mae'r deddfau wedi cyfyngu ar bwerau arweinwyr lleol. Ochr yn ochr â'r ailbrisiad arfaethedig ym mis Ebrill 2023, bydd Llywodraeth y DU yn ystyried hyblygrwydd ychwanegol â'r Awdurdodau Cyfun er mwyn eu galluogi i godi eu cyllid eu hunain drwy'r system ardrethi busnes er mwyn ariannu blaenoriaethau lleol, a hefyd ystyried yr effeithiau ar fusnesau.

### *Cysylltu busnesau a'r gweithlu*

Mae datganoli yn cynnig cyfle i ddod â busnesau a thrigolion ynghyd i ddarparu'r gweithlu medrus sydd ei angen ar ardaloedd er mwyn iddynt ffynnu. Un o'r ymrwymiadau allweddol yn y fframwaith yw datganoli cyllideb graidd Addysg i Oedolion fel rhan o'r cynnig lefel 2 a 3, sy'n galluogi lleoedd i lunio'r ddarpariaeth addysg i oedolion sydd ar gael i drigolion yn well er mwyn sicrhau ei bod yn diwallu anghenion yr economi leol. Mae datganoli cyllid addysg i oedolion wedi bod yn rhan graidd o bob bargen ddatganoli ar gyfer awdurdod cyfun maerol hyd yma.

> **Mae datganoli yn cynnig cyfle i ddod â busnesau a thrigolion ynghyd i ddarparu'r gweithlu medrus sydd ei angen ar ardaloedd er mwyn iddynt ffynnu**

Bydd disgwyl i ardaloedd â Chyllidebau Addysg i Oedolion hefyd chwarae rôl yn y Cynlluniau Gwella Sgiliau Lleol a arweinir gan gyflogwyr. Bydd hyn yn galluogi sefydliadau datganoledig i dargedu sectorau lleol, cefnogi swyddi lleol, diwallu anghenion busnesau lleol, a gweithio gyda phartneriaid lleol i gysoni'r polisi sgiliau â'r ffactorau ysgogi economaidd ehangach sydd ar gael iddynt.

Mae Llywodraeth y DU yn awyddus i atgyfnerthu rôl rhanddeiliaid lleol yn y dirwedd gyflogaeth ehangach, gan ddefnyddio dirnadaethau ac arbenigedd lleol i ffurfio Cronfa Ffyniant a Rennir y DU a darpariaeth cyflogaeth genedlaethol yn y dyfodol. Bydd gwaith partneriaeth cynyddol o'r fath yn adeiladu ar y gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud i ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol yn y broses o gaffael rhaglenni cyflogaeth dan gontract ar raddfa briodol a'u rhoi ar waith. Bydd y gwaith gyda rhanddeiliaid lleol i lunio Cronfa Ffyniant a Rennir y DU a'r gwaith gydag ardaloedd bargeinion datganoli lefel 3 i lunio rhaglenni cyflogaeth dan gontract yn helpu i gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

### *Llunio'r lleoedd rydym yn byw, yn gweithio ac yn teithio ynddynt*

Bydd y pecyn hwn o bwerau yn ei gwneud yn bosibl i fwy o rannau o Loegr fanteisio ar systemau trafnidiaeth sy'n debyg i un Llundain, gyda thocynnau symlach, a gwasanaethau mwy rheolaidd ac integredig. Bydd hefyd yn galluogi arweinwyr lleol i gynllunio atebion trafnidiaeth yn well yn yr ardaloedd y mae pobl yn byw ac yn gweithio ynddynt mewn gwirionedd, megis cynlluniau beicio a llwybrau bysiau newydd. Bydd Llywodraeth y DU yn cefnogi unrhyw Awdurdod Trafnidiaeth Lleol sydd am gael pwerau masnachfreinio, ac sy'n gallu ac yn bwriadu eu defnyddio heb oedi i sicrhau gwelliannau i deithwyr. Ceir rhagor o fanylion am ddatganoli trafnidiaeth yn Lloegr ym Mhennod 3.

Bydd Llywodraeth y DU yn gofyn i Homes England chwarae rôl ehangach o ran helpu meiri a llywodraeth leol i wireddu eu huchelgeisiau ar gyfer tai fforddiadwy newydd ac adfywio yn eu hardal. Bydd Homes England yn defnyddio ei adnoddau, ei arbenigedd, ei brofiad a'i bŵer i brynu wrth ymdrin â datblygwyr er mwyn galluogi arweinwyr lleol i gael gafael ar yr holl gyllid sydd ar gael mewn lle penodol. Bydd hyn yn adeiladu ar wersi'r bartneriaeth lwyddiannus ag Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf, Homes England a darparwyr tai lleol ym Manceinion.

Caiff y partneriaethau hyn hwb drwy'r cronfeydd datganoledig sylweddol ar gyfer trafnidiaeth a thai, yn ogystal â Chronfa Ffyniant a Rennir y DU a chronfeydd buddsoddi hirdymor – a dim ond y cynigion hynny sy'n cyflwyno'r trefniadau llywodraethu cryfaf a chyfleoedd ar gyfer mwy o effeithlonrwydd a thwf economaidd a gaiff eu hystyried. Caiff y rhain eu hategu gan y pwerau a fydd yn eu helpu i ddefnyddio eu cronfeydd a'u partneriaethau, megis drwy gorfforaethau datblygu maerol a phwerau prynu gorfodol Homes England.

### *Cadw'r cyhoedd yn ddiogel ac yn iach*

Mae gan feiri awdurdodau cyfun rôl arwain allweddol i'w chwarae ym maes diogelwch y cyhoedd a gwella iechyd y cyhoedd hefyd. Dyna pam y bydd Llywodraeth y DU yn disgwyl i bob maer awdurdod cyfun arwain ym maes diogelu'r cyhoedd, gan ymgymryd â rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu lle y rhennir yr un ffiniau. Bydd yn sicrhau bod gan bob awdurdod cyfun rôl glir o ran cydnerthedd lleol, fel rhan o'r gwaith ar gydnerthedd yr ymrwymwyd iddo yn yr Adolygiad Integredig.

Bydd cryfhau trefniadau llywodraethu tân yn elfen bwysig o'r Papur Gwyn "Reforming Our Fire Service",[337] lle y bwriedir ymgynghori ar opsiynau i drosglwyddo'r cyfrifoldeb am lywodraethu i arweinydd gweithredol, megis maer. Caiff y fframwaith datganoli ei ddiweddaru yn dilyn yr ymgynghoriad hwn lle y bo'n briodol. Bydd Llywodraeth y DU yn ystyried y rôl y gallai meiri awdurdodau lleol a etholir yn uniongyrchol sydd â bargen sirol ei chwarae o ran trefniadau llywodraethu'r heddlu a thân.

Bydd Llywodraeth y DU yn cymryd camau i ddileu rhwystrau sy'n atal meiri awdurdodau cyfun rhag ymgymryd â swyddogaethau diogelwch y cyhoedd. Yn achos awdurdodau cyfun maerol presennol neu arfaethedig sy'n rhannu'r un ffiniau â Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ac Awdurdodau Tân ac Achub, bydd Llywodraeth y DU yn ystyried trosglwyddo'r swyddogaethau hyn i'r Maer. O ran yr awdurdodau cyfun maerol eraill, bydd Llywodraeth y DU yn chwilio am ateb i unrhyw heriau, gan gynnwys ystyried cysoni ffiniau.

Bwriedir ystyried cyfleoedd i awdurdodau cyfun maerol ymgymryd â dyletswydd i wella iechyd eu trigolion, yn gyfochrog â dyletswydd bresennol eu cynghorau haen uwch cyfansoddol. Bydd y ddyletswydd hon yn ategu rôl gwella iechyd awdurdodau lleol a'u Cyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus, gan ei gwneud yn haws i awdurdodau cyfun maerol gymryd rhan, ochr yn ochr ag awdurdodau lleol, mewn mentrau a all wella iechyd ac ystyried iechyd yn rhagweithiol fel rhan o strategaethau allweddol a phenderfyniadau ar fuddsoddi. Bydd y Papur Gwyn arfaethedig ar Integreiddio yn nodi cynlluniau ar gyfer integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol ar ddechrau 2022, gan sicrhau bod y cyfrifoldeb am hyn yn cael ei ddatganoli i'r lefel briodol.

337 Llywodraeth y DU.Reforming Our Fire Service. I'w gyhoeddi ar ddechrau 2022.

### *Ad-drefnu Llywodraeth Leol*

Gall ad-drefnu llywodraeth leol helpu i symleiddio'r clytwaith o strwythurau llywodraeth leol, gan greu sefydliadau sydd ag arweinyddiaeth gref ac atebol dros yr ardal ddaearyddol fwyaf addas ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus o safon uchel. Gall diwygio sefydliadol fod yn fodd i roi arweinyddiaeth leol gref ac effeithiol, ar lefel strategol a chymunedol, sy'n rhoi pwys ar angen. Gall y diwygiadau hyn hefyd wneud llywodraeth leol yn fwy cynaliadwy a chydnerth.

Er bod dadl dros ddiwygio sefydliadol yn gyfan gwbl, gallai hyn dynnu sylw oddi wrth y gwaith o sicrhau gwell gwasanaethau llywodraeth leol a chanlyniadau, ac achosi oedi cyn cytuno ar fargeinion datganoli a'u rhoi ar waith. Ni fydd Llywodraeth y DU yn gorfodi ailstrwythuro llywodraeth leol o'r brig i lawr. Bydd ad-drefnu yn dal i fod yn opsiwn a arweinir yn lleol a fydd ar gael lle mae cefnogaeth leol gyffredinol, ond ni fydd yn un o'r gofynion ar gyfer fargen ddatganoli. Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu mabwysiadu dull gweithredu cynyddrannol, gan ddefnyddio deddfwriaeth bresennol i weithio gydag ardaloedd sy'n ceisio sefydlu strwythurau llywodraethu lleol diwygiedig.

> **"Bydd Llywodraeth y DU yn grymuso arweinwyr lleol drwy roi'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i sicrhau ffyniant eu cymunedau"**

### *Cefnogi arweinwyr lleol a'r sector llywodraeth leol*

Mae arweinyddiaeth leol gryfach yn hanfodol er mwyn codi safonau byw, gwella gwasanaethau cyhoeddus ac ennyn balchder pobl yn eu hardal leol. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i gynghorwyr a meiri etholedig, i gynnwys y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol yn fwy cyffredinol. Wrth i bwerau newydd gael eu datganoli, bydd Llywodraeth y DU yn rhoi cymorth i feithrin gallu ac adnoddau lleol.

Yn gyntaf, bydd Llywodraeth y DU yn grymuso arweinwyr lleol drwy roi'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i sicrhau ffyniant eu bro. Mae hyn yn golygu ymrwymiad i sicrhau bod dyraniadau cyllid i gynghorau yn seiliedig ar asesiad cyfredol o'u hanghenion a'u hadnoddau. Nid yw'r data a ddefnyddir i asesu hyn wedi cael eu diweddaru ers nifer o flynyddoedd, gyda rhywfaint o'r data yn dyddio'n ôl mor bell â 2000. Dros y misoedd sydd i ddod, bydd Llywodraeth y DU yn gweithio'n agos gyda'r sector a rhanddeiliaid eraill i ddiweddaru hyn ac ystyried yr heriau a'r cyfleoedd y mae'r sector llywodraeth leol yn eu hwynebu cyn ymgynghori ar unrhyw newidiadau posibl. Fel rhan o hyn, bydd Llywodraeth y DU yn edrych ar opsiynau i gefnogi awdurdodau lleol drwy fesurau diogelu trosiannol. Ni fydd cyllid grant untro a ddarperir yn Setliad Cyllid Llywodraeth Leol 2022-23 yn cael ei gynnwys mewn mesurau diogelu trosiannol posibl.

Bydd Llywodraeth y DU hefyd yn mynd ati i feithrin gallu ac adnoddau llywodraeth leol drwy barhau i roi cymorth i'r sector ac mae wedi ariannu rhaglen welliant sy'n cwmpasu nifer o flaenoriaethau. Caiff hyn ei adolygu o bryd i'w gilydd. Bydd yr adolygiad hwn hefyd yn rhoi ffocws ar gryfhau gallu ac adnoddau masnachol a chaffael y sector hefyd. Bydd Llywodraeth y DU yn estyn hyfforddiant, cyngor ac arweiniad a lunnir yn ganolog i'r sector, ac yn rhoi gwybodaeth am farchnadoedd a chyflenwyr. Bydd hyn yn galluogi awdurdodau lleol i wneud penderfyniadau masnachol cadarn, sicrhau arbedion a gwelliannau i wasanaethau, a chefnogi darpariaeth fasnachol sy'n rhoi'r gwerth gorau i ddinasyddion.

### *Cefnogi partneriaethau â'r sector preifat*

Mae sicrhau ffyniant bro yn ymdrech gan gymdeithas gyfan. Mae'r sector preifat yn hanfodol i sicrhau ffyniant bro. Nid drwy weithredu ar ei phen ei hun y mae'r llywodraeth yn cyflawni fwyaf dros leoedd, ond drwy alluogi a grymuso'r sector preifat i gynyddu buddsoddiad, swyddi a thwf ar lefel leol. Mae hynny'n golygu dileu'r rhwystrau sy'n atal gwaith cynllunio a buddsoddi gan y sector preifat, gan ddarparu cyllid cyhoeddus lle y gall hyn ddenu cyllid preifat a bod yn fodd i gydgysylltu neu'n sbardun i arloesi a newid trawsnewidiol.

Mae economïau lleol llwyddiannus wedi'u hadeiladu ar amrywiaeth eang o fusnesau, arloeswyr a phartneriaid lleol. Pan fyddant yn dod ynghyd i gydweithio, cyfnewid gwybodaeth a manteisio ar gryfderau penodol lleoedd y gall clystyrau arloesol o weithgarwch economaidd godi. Fel yr amlinellwyd ym Mhennod 1, mae'r clystyrau arloesol hyn yn gweithredu ym mhob rhan o'r DU. Maent i'w gweld yn y diwydiannau ynni yn Aberdeen, mewn cwmnïau gweithgynhyrchu uwch yn Sheffield, mewn cwmnïau newydd ym maes technoleg ariannol yng Nghymru a chlystyrau seiberddiogelwch yng Ngogledd Iwerddon. Gallai datblygiadau arloesol yn y saith teulu technoleg a nodwyd yn Strategaeth Arloesedd Llywodraeth Ei Mawrhydi[338] hefyd sicrhau buddiannau sylweddol i'r economi genedlaethol a'r economi leol.

Mae Tabl 2.4 yn rhoi rhestr enghreifftiol o rai o'r partneriaethau trawsnewidiol o bosibl â'r sector preifat sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn rhychwantu'r DU gyfan ac amrywiaeth eang o sectorau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn golygu cydweithio rhwng cwmnïau a phrifysgolion ac arweinwyr lleol. Gallai llawer mwy o bartneriaethau â'r sector preifat, ac egin-glystyrau, gael eu datblygu yn y blynyddoedd i ddod mewn diwydiannau newydd megis deallusrwydd artiffisial a thechnoleg batris, ynni gwynt symudol ar y môr a thrafnidiaeth carbon isel.

Rôl y llywodraeth yw cefnogi'r clystyrau hyn yn y sector preifat, y rhai sy'n bodoli eisoes ac egin-glystyrau, gan gynnig amgylchedd galluogi lle y gall arloesedd a busnesau ffynnu. Mae hynny'n golygu sicrhau bod y setiau cywir o sgiliau'n bodoli, bod y seilwaith digidol a ffisegol angenrheidiol ar waith, bod cyllid digonol a phriodol wedi cael ei sicrhau, a bod fframwaith rheoleiddio priodol yn gweithredu. Drwy roi'r sylfeini hyn yn lleol, gall y llywodraeth helpu i sbarduno arloesedd, creu swyddi a thwf yn y sector preifat.

Bydd angen i'r rôl a chwaraeir gan y llywodraeth o ran sicrhau'r canlyniadau hyn gael ei theilwra at amgylchiadau a chyfleoedd lleol. Mae rhychwant o ymyriadau posibl i gyflawni'r amcanion hyn, yn amrywio o ymyriadau cyffyrddiad ysgafn iawn i ymyriadau mwy cyfarwyddol, mwy o faint. Bydd y math cywir o ymyriad yn dibynnu ar raddfa a tharddiad y methiant yn y farchnad yr ymdrinnir ag ef ar lefel leol – pa rwystrau y bydd angen eu dileu neu ba sylfeini y bydd angen eu hadeiladu. Fodd bynnag, ym mhob achos, y nod yw denu cyllid a buddsoddiad gan y sector preifat, gan sbarduno clystyrau o weithgarwch economaidd.

338 BEIS. *UK Innovation Strategy: leading the future by creating it*. 2021.

Mae'r setiau o ymyriadau a all gyflawni'r amcan hwn yn cynnwys y canlynol:

- **Cynnull.** Drwy gynnull rhanddeiliaid a dod â nhw at ei gilydd, gall y llywodraeth helpu i lunio a chyflwyno cynllun trawsnewid lleol. Er enghraifft, mae'r Bargeinion Dinesig a Thwf a roddwyd ar waith ar y cyd gan Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig dros y blynyddoedd diwethaf wedi chwarae rôl allweddol o ran sbarduno cyfranwyr a gweithredoedd mewn nifer o ddinasoedd. Yn yr Alban, mae Bargeinion Dinesig a Thwf wedi bod yn sbardun i gydweithio ar lefel ardal ddaearyddol strategol ac wedi llwyddo i ddatgloi cyfres o brosiectau ar raddfa, gan gynnwys drwy Ddinas-ranbarth Glasgow a Dinas-ranbarth Caeredin a De-ddwyrain yr Alban. Mae'n bwysig cryfhau a dyfnhau'r partneriaethau hyn dros ardaloedd daearyddol strategol.
- **Dylanwadu.** Drwy ddangos ei chefnogaeth i fentrau, gall y llywodraeth annog rhanddeiliaid yn y sector preifat i weithredu ar fuddsoddiadau a chyllid. Er enghraifft, mae partneriaethau rhanbarthol cyfan yn cynnig rhwydwaith estynedig o gydweithwyr a brand rhanbarthol cryf. Mae Pwerdy'r Gogledd a Pheiriant Canolbarth Lloegr wedi rhoi cyfle i bartneriaid gydweithio ar raddfa a blaenoriaethu meysydd o ddiddordeb cyffredin. Am fod y partneriaethau hyn yn cwmpasu rhanbarthau mawr, poblog, gyda'u hanes unigryw eu hunain, cryfderau a heriau, maent yn fodel partneriaeth pwysig o ran sicrhau ffyniant bro. Dyna pam mae Llywodraeth y DU wedi eu cefnogi, a bydd yn parhau i'w cefnogi.
- **Hysbysu.** Drwy roi gwybodaeth, cyngor a chymorth ymarferol, gall y llywodraeth gefnogi clystyrau o fusnesau. Er enghraifft, fel rhan o Strategaeth Allforio ddiweddar Llywodraeth y DU, mae Gwasanaeth Cymorth Allforio newydd wedi cael ei lansio i roi gwell mynediad at wybodaeth a chymorth i allforwyr y DU sy'n masnachu ag Ewrop. Drwy ddefnyddio ei Hatlas Buddsoddi, mae'r Adran Masnach Ryngwladol yn cefnogi 42 o glystyrau sy'n datblygu ledled y DU i lunio cynigion buddsoddi cydlynol a chymhellol, gan agor y drws i gwmnïau byd-eang sy'n gwneud buddsoddiadau strategol ar y lefel leol.
- **Cyllid.** Drwy ddefnyddio cyllid sbarduno, gall y llywodraeth ddadrisgio gweithgarwch y sector preifat a denu cyllid preifat. Un enghraifft yw'r £5m a roddwyd i Northern Gritstone, cwmni buddsoddi arloesol newydd yng ngogledd Lloegr a sefydlwyd gan Brifysgol Leeds, Prifysgol Manceinion a Phrifysgol Sheffield. Mae'n anelu at fod yn un o'r buddsoddwyr mwyaf mewn cwmnïau allgynhyrchu academaidd yn y DU, ac mae ar y trywydd iawn i godi £500m i gefnogi'r broses o fasnacheiddio prosiectau gan brifysgolion yng ngogledd Lloegr.
- **Amgylchedd busnes.** Drwy greu amgylchedd rheoleiddio effeithiol a sefydlog symlach sy'n helpu'r sector preifat i fuddsoddi dros y tymor hwy, gall y llywodraeth sbarduno llifau ariannol preifat i fusnesau a phrosiectau lleol. Un enghraifft fyddai darparu cyfalaf ariannol gan fuddsoddwyr sefydliadol, megis cronfeydd pensiwn. Ar hyn o bryd, cyfyngir ar hyn drwy reoliadau. Fel y trafodir ym Mhennod 3, mae Llywodraeth y DU yn ymgynghori ar fesurau i leihau rhwystrau rheoleiddiol ac ysgogi'r llif o gyfalaf preifat amyneddgar i brosiectau lleol.

> **“Mae Llywodraeth y DU yn annog Partneriaethau Menter Lleol a'u byrddau busnes i integreiddio ag awdurdodau cyfun maerol, Awdurdod Llundain Fwyaf a Bargeinion Sirol”**

Ers y degawd diwethaf, mae Partneriaethau Menter Lleol wedi bod yn fodd sefydliadol pwysig i ddwyn ynghyd fusnesau ac arweinwyr lleol i sbarduno twf economaidd ledled Lloegr. Maent hefyd wedi bod yn gyfrifol am sicrhau nifer o ffrydiau ariannu mawr. Mae'n bwysig cadw cryfderau allweddol y sefydliadau lleol hyn sy'n canolbwyntio ar fusnesau wrth gefnogi partneriaethau â'r sector preifat a chlystyrau economaidd, a hefyd integreiddio eu gwasanaethau a llais busnes â chynlluniau datganoli newydd Llywodraeth y DU yn well ar yr un pryd.

**“Mae'r Llywodraeth yn buddsoddi £100m i dreialu tri Sbardunwr Arloesedd newydd yn Glasgow, gorllewin Canolbarth Lloegr a Manceinion Fwyaf”**

I'r perwyl hwnnw, mae Llywodraeth y DU yn annog Partneriaethau Menter Lleol a'u byrddau busnes i integreiddio ag awdurdodau cyfun maerol, Awdurdod Llundain Fwyaf a Bargeinion Sirol, lle maent yn bodoli. Lle nad oes bargen ddatganoli ar waith eto, bydd Partneriaethau Menter Lleol yn parhau i chwarae eu rôl hollbwysig o ran cefnogi busnesau lleol a'r economi leol. Lle mae bargeinion datganoli yn cwmpasu rhan o Bartneriaeth Menter Leol, caiff hyn ei ystyried ar sail achos unigol. Rhoddir rhagor o fanylion am y broses bontio hon yn ysgrifenedig i Bartneriaethau Menter Lleol cyn gynted ag y bo modd.

Yn yr un modd, bydd Bargeinion Dinesig a Thwf yn parhau i chwarae rôl hollbwysig mewn twf economaidd lleol mewn rhanbarthau ledled Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae Llywodraeth y DU yn cydnabod pŵer cynnull y grwpiau hyn ac mae'n ymrwymedig i weithio gyda rhanddeiliaid i gryfhau a dyfnhau gwaith partneriaeth er mwyn ysgogi twf lleol. Mae mentrau megis Porth y Gorllewin, sef partneriaeth economaidd o awdurdodau lleol, dinas-ranbarthau, Partneriaethau Menter Lleol a llywodraethau yng ngorllewin Lloegr a Chymru, wedi dangos y manteision y gellir eu sicrhau drwy gydweithio trawsffiniol effeithiol.

Gan edrych i'r dyfodol, a chefnogi'r ymdrechion hyn, mae nifer o fentrau newydd gan Lywodraeth y DU i gefnogi partneriaethau â'r sector preifat a chlystyrau yn mynd rhagddynt. Er enghraifft, mae'r llywodraeth yn buddsoddi £100m i dreialu tri Sbardunwr Arloesedd newydd yn Glasgow, gorllewin Canolbarth Lloegr a Manceinion Fwyaf. Bwriedir i'r rhain hybu twf economaidd drwy fuddsoddi mewn cryfderau datblygu ac ymchwil, denu buddsoddiad preifat newydd, hybu'r broses o ledaenu arloesedd a sicrhau bod sefydliadau ymchwil a datblygu yn cael yr effaith economaidd fwyaf bosibl. Bydd pob Sbardunwr yn datblygu cynllun i dyfu ei ecosystem arloesi leol, ac yn cael cymorth pwrpasol gan Lywodraeth y DU. Mae Pennod 3 yn trafod y broses o gyflwyno cynlluniau peilot ar gyfer y Sbardunwyr Arloesedd hyn yn fanylach.

Mae Cronfa Fuddsoddi Prydain Fyd-eang gwerth £1.4bn yn rhoi cymorth grant i gwmnïau rhyngwladol symudol sy'n ceisio buddsoddi mewn tir llwyd neu dir glas neu ehangu ar fuddsoddiadau o'r fath. Mae'r gronfa yn gweithredu ledled y DU ac yn canolbwyntio ar ddenu buddsoddiadau mewn sectorau allweddol, gan feithrin clystyrau newydd, creu swyddi newydd o safon, denu buddsoddiad preifat a sbarduno twf lleol. Mae cymorth Llywodraeth y DU, drwy'r Gronfa Trawsnewid Modurol, wedi helpu i ddatgloi buddsoddiad gwerth £2bn gan Britishvolt yn ei gigaffatri newydd, sy'n dod â manteision sylweddol i Northumberland ac ardal ehangach gogledd-ddwyrain Lloegr.

Mae Llywodraeth y DU yn ymgysylltu ag amrywiaeth eang o fentrau eraill yn y sector preifat ledled y DU ac yn eu cefnogi, gan gynnwys rhai sydd yn nhabl 2.4 isod ac ym Mhennod 3. Bydd y Cyfarwyddwyr Ffyniant Bro newydd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r clystyrau hyn ledled y DU. Byddant yn gweithio'n agos gyda'r Ganolfan ar gyfer Rhanbarthau Ffyniannus, sef cynnig a gyflwynwyd yn ddiweddar gan Gydffederasiwn Diwydiant Prydain.

### Tabl 2.4 Mentrau enghreifftiol yn y sector preifat

| |
|---|
| **Opportunity North East** (ONE) (Gogledd-ddwyrain yr Alban) mae'n cynnwys 90 o aelodau o fyd busnes – yn cwmpasu'r sectorau bwyd a diod, amaethyddiaeth, pysgota, gwyddorau bywyd, twristiaeth, digidol ac ynni – y byd academaidd a'r sector cyhoeddus. Mae ONE yn cyflawni prosiectau mawr eu heffaith i gefnogi twf economaidd y rhanbarth ac mae'n un o bartneriaid allweddol Bargen Dinas-ranbarth Aberdeen, a ariennir ar y cyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban. |
| Mae **Prosiect Acorn CCS** (Gogledd-ddwyrain yr Alban) yn paratoi cynlluniau ar gyfer y seilwaith ar y tir ac ar y môr sydd ei angen i helpu i hwyluso'r broses bontio ddiwydiannol i Sero Net, sy'n cael ei adeiladu ar bartneriaeth o ffigyrau blaenllaw mewn diwydiant a'r byd academaidd. |
| Mae **Smart Nano NI** (Gogledd Iwerddon) yn dwyn sefydliadau o bob rhan o Ogledd Iwerddon ynghyd i ffurfio clwstwr unigryw o arbenigedd ym maes gweithgynhyrchu clyfar a nanoweithgynhyrchu. Yn y maes hwn sy'n ehangu ledled y byd, mae'r consortiwm yn anelu at hybu'r economi a gwella lefelau sgiliau mewn cymunedau lleol. |
| Mae **Grŵp Clwstwr Llwybr Arfordir Sarn y Cedwri** (Gogledd Iwerddon) yn cynnwys gweithwyr proffesiynol ym maes twristiaeth o'r sector preifat, gyda chymorth swyddogion Tourism NI, sydd wedi ymrwymo i drawsnewid Llwybr Arfordir Sarn y Cedwri yn un o brif gyrchfannau'r byd i ymwelwyr. |
| Mae **Cynghrair Fodurol Gogledd-ddwyrain Lloegr** (NEAA) (Gogledd-ddwyrain Lloegr) yn grŵp clwstwr a arweinir gan ddiwydiant, sy'n cynnwys dros 300 o gyfranogwyr, a sefydlwyd i gefnogi twf economaidd cynaliadwy a chystadleurwydd y sector yng ngogledd-ddwyrain Lloegr. Yr NEAA yw'r clwstwr modurol mwyaf yn y DU ac mae'n un o'r rhai sy'n tyfu gyflymaf yn Ewrop. |
| Mae **Clwstwr Diwydiannau Proses Gogledd-ddwyrain Lloegr** (Gogledd-ddwyrain Lloegr) yn cynrychioli cannoedd o sefydliadau yn y sector proses a chemegion, ac yn helpu i wella cynhyrchiant busnesau drwy wasanaeth mentora a digwyddiadau rhwydweithio. |
| **Bwa Niwclear y Gogledd-orllewin** (Gogledd-orllewin Lloegr a gogledd Cymru) yw'r clwstwr ynni niwclear mwyaf yn y DU, sy'n cynrychioli byd busnes, y byd academaidd ac arweinwyr lleol. Mae'r bartneriaeth yn ei gwneud yn bosibl i'w haelodau rannu gwybodaeth â'i gilydd a thynnu sylw at gyfleoedd trawsranbarthol i sbarduno twf carbon isel. |
| Mae **Coridor Gwyddoniaeth Swydd Gaer** (Gogledd-orllewin Lloegr) yn hwb ymchwil, arloesedd a gweithgynhyrchu yn y sectorau ynni, fferyllol a gwyddorau bywyd, a gefnogir gan ddiwydiant ac arweinwyr lleol ac sy'n darparu swyddi cynhyrchiant uchel ledled Swydd Gaer a Warrington. |
| Mae **UK Food Valley** (Swydd Lincoln Fwyaf) wrth wraidd cadwyn fwyd y DU a diwydiant bwyd-amaeth y DU, gwerth £125 biliwn, a gefnogir gan Bartneriaeth Menter Leol Swydd Lincoln Fwyaf, Prifysgol Lincoln, Rhwydwaith Cynnyrch Ffres y DU (a arweinir gan Siambr Swydd Lincoln) a Chynghrair Bwyd y Môr Grimsby a Humber. |
| Mae **NEXUS** (Gorllewin Swydd Efrog) yn bartneriaeth rhwng byd busnes a'r byd academaidd sy'n canolbwyntio ar gysylltu busnesau newydd a phresennol â rhwydweithiau o gymheiriaid, ymchwil a datblygu arbenigol, cyfleusterau a sgiliau, er mwyn sbarduno twf yng Ngorllewin Swydd Efrog. |
| Mae **Grŵp Cerameg Ddiwydiannol Canolbarth Lloegr** (Swydd Stafford/Canolbarth Lloegr) wedi'i sefydlu i sicrhau bod cerameg uwch yn helpu i ysgogi cystadleurwydd a llwyddiant gweithgynhyrchu uwch yng Nghanolbarth Lloegr. |
| Mae **Fforwm Rheilffyrdd Canolbarth Lloegr** (RFM) (Canolbarth Lloegr) yn gymdeithas o tua 350 o aelod-gwmnïau sy'n rhan o un o'r clystyrau mwyaf o gwmnïau rheilffyrdd yn y byd. Mae gan RFM gysylltiadau agos â Midlands Connect, cynghorau lleol, Partneriaethau Menter Lleol, adrannau llywodraeth ganolog a grwpiau diwydiant a rhanddeiliaid eraill. |

| |
|---|
| Mae **Media.Cymru** (Cymru) yn fenter gydweithredol gan y sector preifat, y sector cyhoeddus a phrifysgolion ym Mhrifddinas-ranbarth Caerdydd sy'n gweithio gyda'i gilydd i sbarduno twf economaidd yn sector y diwydiannau creadigol. Mae'r fenter gydweithredol yn canolbwyntio ar wneud Prifddinas-ranbarth Caerdydd yn hwb byd-eang ar gyfer arloesi yn y cyfryngau drwy fuddsoddi yn seilwaith digidol y rhanbarth, gan ganolbwyntio ar dechnolegau sy'n datblygu, gwella gallu busnesau bach i arloesi a mynd i'r afael ag anghenion sgiliau. |
| Mae **FinTech Wales** (Cymru) yn llais annibynnol dros y diwydiant technoleg ariannol yng Nghymru. Mae'n helpu i hyrwyddo potensial pob busnes yn y sector. Yn ogystal â meithrin a chefnogi busnesau sydd eisoes wedi'u lleoli yng Nghymru, mae'n anelu at ddatblygu ecosystem a fydd yn helpu cwmnïau technoleg ariannol newydd sy'n dechrau neu sy'n tyfu. |
| Mae **Great South West** (De-orllewin Lloegr) yn frand pwerdy i hyrwyddo cydweithio rhwng Cernyw ac Ynysoedd Sili, Heart of the South West (Dyfnaint a Gwlad yr Haf, gan gynnwys Torbay a Plymouth) a Dorset, gyda gweledigaeth i ddod yn rhanbarth blaenllaw yn y DU ar gyfer yr economi werdd a'r economi las. Mae hyn yn cynnwys maes ffotoneg – y synwyryddion sydd eu hangen ar gerbydau awtonomaidd ar dir, ar y môr ac yn yr awyr, y mae Canolfan Arloesedd Electroneg a Ffotoneg (EPIC) y DU yn Torbay yn ymchwilio iddynt. |
| Mae **Maritime UK Solent** (De-ddwyrain Lloegr) yn gorff rhanbarthol a arweinir gan ddiwydiant sy'n dwyn ynghyd gryfderau morol Solent ac yn hyrwyddo'r rhanbarth fel clwstwr morol sy'n arwyddocaol yn fyd-eang, wedi'i adeiladu ar asedau naturiol y rhanbarth – 340 milltir o arfordir, tri phorthladd rhyngwladol mawr, porth rhydd sy'n cael ei ddatblygu, sefydliadau hyfforddi o'r radd flaenaf a threftadaeth forol gyfoethog. |



## 2.3.4 Rôl data a gwaith monitro a gwerthuso

Mae data a gwaith monitro a gwerthuso o safon dda yn hanfodol i sicrhau canlyniadau buddiol i ddinasyddion a gwerth am arian i drethdalwyr. Am y rhesymau hynny, mae data gofodol amserol a chadarn o ansawdd da yn un o sylfeini'r gyfundrefn bolisi newydd ar gyfer ffyniant bro. Mae data manwl yn hanfodol er mwyn deall daearyddiaeth economaidd gymhleth y DU a theilwra polisïau at anghenion lleol. Maent yn ei gwneud yn bosibl i effaith polisi mewn lleoedd gael ei monitro, ac yn hwyluso prosesau craffu allanol ac atebolrwydd am y polisïau hynny, gan gynnwys i'r cyhoedd.

Yn y rolau hyn, mae data gofodol a gwaith monitro a gwerthuso da yn fudd amlwg i'r cyhoedd gyda manteision i nifer o randdeiliaid.

- **Llywodraeth ganolog**: deall y problemau sy'n effeithio ar leoedd gwahanol, penderfynu ble a sut i ddyrannu gwariant, cynllunio ymyriadau polisi sy'n briodol i leoedd a monitro eu heffaith.
- **Llywodraeth leol**: deall materion cymhleth sy'n ymwneud â lleoedd penodol sy'n effeithio ar eu hardaloedd, llunio ymatebion polisi priodol sy'n addas ar gyfer y lleoedd hynny a gwerthuso effaith y polisïau hyn.
- **Y gymuned ymchwil**: ystyried a deall ffactorau ysgogi a phenderfynyddion twf lleol a'r polisïau sydd eu hangen i sbarduno'r twf hwn.
- **Y cyhoedd**: deall canlyniadau yn eu hardal a dwyn arweinwyr lleol i gyfrif am y canlyniadau hynny.

Ar hyn o bryd, nid yw data is-genedlaethol yn y DU yn ddigon manwl nac amserol i gefnogi gofynion defnyddwyr. Yn wir, nid yw bylchau mewn data yn beth newydd, ac mae'n bosibl eu bod wedi cyfrannu at wendidau yn y broses o lunio a chyflwyno polisïau ffyniant bro. Nododd Adolygiad Bean fod angen ystadegau is-genedlaethol mwy amserol a mwy hyblyg yn ddaearyddol at ddibenion polisi a thynnodd adolygiad 2020 o gynhyrchiant rhanbarthol y DU gan y Cyngor Strategaeth Ddiwydiannol sylw at fylchau penodol mewn data is-genedlaethol.[339]

Mae pedwar bwlch cyffredinol mewn data is-genedlaethol.

- Yn gyntaf, y data ar lefelau is o ddaearyddiaeth y tu hwnt i lefel y DU, Prydain Fawr, gwlad neu ranbarth. Weithiau, mae'r data hyn o ansawdd gwael oherwydd diffyg sylw neu broblemau o ran cyfrinachedd.
- Yn ail, problemau o ran ansawdd, amlder neu amseroldeb ystadegau is-genedlaethol. Mae hyn yn cynnwys data ar sefyllfa ariannol y sector cyhoeddus, buddsoddiadau busnesau (gan gynnwys ymchwil a datblygu), allforion cwmnïau a chynhyrchiant llafur yn ôl sector.

> **“Mae data a gwaith monitro a gwerthuso o safon dda yn hanfodol i sicrhau canlyniadau buddiol i ddinasyddion a gwerth am arian i drethdalwyr”**

339 Bean, C. *Independent Review of UK Economic Statistics*. 2016.; Zymek, R., Jones, B. *UK Regional Productivity Differences: An Evidence Review*. Y Cyngor Strategaeth Ddiwydiannol. 2020.

- Yn drydydd, data i'r DU gyfan. Un o gryfderau datganoli yw ei fod yn ei gwneud yn bosibl i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau weithredu'n wahanol mewn meysydd datganoledig. Fodd bynnag, os na chaiff data eu casglu mewn ffyrdd sy'n gymaradwy, weithiau nid oes modd cymharu perfformiad rhwng pob gwlad ar nifer o fesurau. Mae concordat y DU ar ystadegau, sy'n nodi fframwaith ar gyfer cydweithrediad rhwng Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig, a adnewyddwyd yn ddiweddar yn 2021, yn cynnig sail gadarn dros rannu data.
- Yn bedwerydd, mae angen ystadegau is-genedlaethol newydd er mwyn adlewyrchu economïau a blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg – er enghraifft, ystadegau ar y newid yn yr hinsawdd neu ddiwydiannau newydd neu rai sy'n tyfu'n gyflym, megis yr economi ddigidol a'r economi werdd.

> **Mae'n amlwg bod lle i wneud mwy o ddefnydd o ddulliau arbrofol er mwyn deall beth sy'n sbarduno twf lleol**

Ochr yn ochr â hyn, yn aml, mae diffyg arbrofi a threialu polisïau ar y lefel leol. Mae rhesymau dilys dros osgoi hapddewis mewn rhai meysydd o bolisi'r llywodraeth.[340] Fodd bynnag, mae'n amlwg bod lle i wneud mwy o ddefnydd o ddulliau arbrofol er mwyn deall beth sy'n sbarduno twf lleol. Mae Tasglu Gwerthuso Swyddfa'r Cabinet yn arwain yr ymdrechion hyn.

Er mwyn mynd i'r afael â bylchau mewn data a manteisio ar botensial technegau data, delweddu ac arbrofi newydd i gefnogi ffyniant bro, mae **Llywodraeth y DU yn rhoi strategaeth data a dadansoddi drawsnewidiol ar waith ar y lefel is-genedlaethol.** Mae i'r strategaeth hon bedair elfen:

a. paratoi a lledaenu ystadegau is-genedlaethol mwy amserol, manwl a chyson drwy **Strategaeth Data Is-genedlaethol Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth**;
b. sicrhau bod data manwl ar gael yn gyhoeddus drwy nifer o adnoddau, gan gynnwys **archwiliwr data is-genedlaethol rhyngweithiol newydd gan SYG**;
c. manteisio ar dechnegau delweddu data a meithrin gallu SYG i **helpu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ddeall a chymharu canlyniadau'n well**; a
d. **rhoi mwy o gymhellion i werthuso, monitro ac arbrofi** mewn polisïau a rhaglenni ffyniant bro.

### *Paratoi a lledaenu ystadegau is-genedlaethol mwy amserol, manwl a chyson*

Cyhoeddwyd **Strategaeth Data Is-genedlaethol Gwasanaeth Ystadegau'r Llywodraeth** ym mis Rhagfyr 2021.[341] Mae'n cynnig fframwaith ar gyfer paratoi a lledaenu ystadegau is-genedlaethol mwy amserol, manwl a chyson, yn unol ag anghenion defnyddwyr. Bydd y Strategaeth, dros amser, yn nodi newid sylweddol yn y data is-genedlaethol sydd ar gael a'r gallu i wneud y defnydd gorau o'r data hyn. Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, mae i Strategaeth Data is-genedlaethol Gwasanaeth Ystadegau'r Llywodraeth bedwar nod.

- *Paratoi ystadegau is-genedlaethol mwy amserol, manwl a chyson,* yn enwedig ar gyfer ardaloedd daearyddol bach. Bydd hyn yn rhoi'r hyblygrwydd sydd ei angen ar ddefnyddwyr i ddewis opsiynau daearyddol yn ôl eu hanghenion, gan gynnwys ardaloedd a ddiffinnir gan ddefnyddwyr.

340 Ravallion, M. *Should the Randomistas (Continue to) Rule?*. Canolfan ar gyfer Datblygu Byd-eang. 2018.
341 Yr Is-adran Ystadegau a Dadansoddi Is-genedlaethol. *GSS subnational data strategy*. 2021.

- *Meithrin gallu ac adnoddau ar gyfer ystadegau a dadansoddi is-genedlaethol* drwy wella'r ffordd y caiff data, dulliau ac arbenigedd eu rhannu ymhlith y llywodraeth, y gweinyddiaethau datganoledig, y byd academaidd a'r sector preifat.
- *Gwella'r ffordd y caiff ystadegau is-genedlaethol eu lledaenu* fel y gall y rhai sy'n gwneud penderfyniadau'n lleol a thrigolion gael mynediad at ddata a arweinir gan dystiolaeth i lywio eu penderfyniadau cynllunio a'u penderfyniadau polisi.
- *Creu 'Archwilio Ystadegau Is-genedlaethol',* sef gwasanaeth unigol ar gyfer lledaenu data ac ystadegau is-genedlaethol a drefnir yn ôl ardaloedd daearyddol safonol, a all ddarparu ar gyfer ardaloedd hyblyg a ddiffinnir gan ddefnyddwyr.

Dros amser, bydd Llywodraeth y DU, drwy SYG a'r Llwyfan Gwasanaethau Data Integredig (IDSP), yn ehangu ei defnydd o ddata newydd a gweinyddol i wella amseroldeb a manylder y data lleol sydd ar gael i adrannau llywodraeth ganolog, gan gynnwys swyddogaethau cyllid llywodraeth leol yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau. Bydd hyn yn gwella amcangyfrifon, er enghraifft, o ymchwil a datblygu, gwariant y sector cyhoeddus, cysylltedd trafnidiaeth a mesurau o lesiant.

Er mwyn ategu'r strategaeth hon, bydd yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau yn **sefydlu Uned Data Gofodol** newydd i ysgogi'r broses o drawsnewid data sydd ei hangen mewn llywodraeth ganolog. Bydd yr Uned Data Gofodol yn helpu i sicrhau ffyniant bro drwy drawsnewid y ffordd y mae Llywodraeth y DU yn casglu, storio a thrin data is-genedlaethol er mwyn i'r data fod yn sail i brosesau llunio polisïau tryloyw ac agored, a phenderfyniadau cyflawni. Bydd hyn yn cynnwys gwella'r ffordd rydym yn coladu gwybodaeth am wariant a chanlyniadau Llywodraeth y DU a chyflwyno adroddiadau arnynt, gan gynnwys meithrin galluoedd cadarn o ran delweddu data a dirnadaethau.

> **"Bydd yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau yn sefydlu Uned Data Gofodol newydd i ysgogi'r broses o drawsnewid data sydd ei hangen mewn llywodraeth ganolog"**


### *Sicrhau bod data manwl ar gael yn gyhoeddus*

Mae paratoi data ar y lefel ddaearyddol briodol yn gam cyntaf pwysig. Ond mae'n rhaid i'r data fod yn ddata ffynhonnell agored ac ar gael i alluogi dinasyddion a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i'w defnyddio i lywio penderfyniadau. Mae Llywodraeth y DU eisoes wedi dechrau sicrhau bod data yn fwy hygyrch. Er enghraifft, er mwyn gwneud data ymchwil a datblygu rhanbarthol yn fwy hygyrch a defnyddiol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, mae Llywodraeth y DU wedi lansio adnodd data agored, sy'n rhoi mynediad at ddangosyddion system yn ôl lle ac amser, gydag opsiynau delweddu hawdd eu defnyddio cysylltiedig.[342] Mae'r adnodd ar-lein hwn wedi cael ei ddatblygu gan BEIS mewn partneriaeth â Nesta, ac mae'n cynnwys storfa ddata agored sy'n ei gwneud yn bosibl i bob defnyddiwr gymharu'r ffactorau critigol sydd eu hangen ar gyfer ecosystemau ymchwil a datblygu rhanbarthol er mwyn creu cylchoedd rhinweddol o fuddsoddi a sgiliau ymchwil a datblygu. Mae'r ffactorau hyn wedi'u trefnu o dan bedwar dimensiwn: ymchwil a datblygu cyhoeddus, ymchwil a datblygu preifat, cyfnewid gwybodaeth a masnacheiddio, a gallu lleoedd i ddenu cwmnïau arloesol a gweithwyr ymchwil a datblygu.

Er mwyn sicrhau mwy o dryloywder, mae SYG yn datblygu **Archwiliwr Data Is-genedlaethol** a fydd ar gael yn gyhoeddus (gweler Ffigur 2.4). Mae hwn wedi'i anelu at ddefnyddwyr lleol a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau'n lleol, gan ei gwneud yn haws iddynt gael dirnadaethau o amrywiaeth eang o ddata ar ganlyniadau economaidd a chymdeithasol yn eu hardal ar lefel awdurdod lleol.[343]

342 BEIS. *Research and Development spatial data tool*. 2021.
343 *Archwiliwr data is-genedlaethol SYG*.

## Ffigur 2.4 Archwiliwr data is-genedlaethol SYG[344]




344 *Archwiliwr data is-genedlaethol SYG*

### *Manteisio ar y technegau delweddu data diweddaraf i wella prosesau gwneud penderfyniadau*

Sicrhau bod data ar gael yw'r sylfaen. Rhoi dirnadaethau a galluogi prosesau gwneud penderfyniadau gwell gyda'r data hyn yw'r cam nesaf. Gall dirnadaethau a delweddu data helpu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a rhanddeiliaid i ddeall y problemau y mae eu hardaloedd yn eu hwynebu, a gellir eu defnyddio i helpu i lunio ymyriadau polisi sy'n briodol i'r ardaloedd hynny, fel y dengys mentrau rhyngwladol (gweler Blwch 2.3).

Bydd Llywodraeth Ei Mawrhydi yn cymryd nifer o gamau i wella prosesau gwneud penderfyniadau a arweinir gan ddata ar lefelau cenedlaethol a lleol. **Bydd llwyfan cydweithredol a arweinir gan SYG, ac a bwerir gan y Gwasanaeth Data Integredig, yn datblygu cyfres o dangosfyrddau data i gefnogi gwaith dadansoddol gofodol ym mhob rhan o'r llywodraeth mewn ffordd gydlynol a chyson**.[345] Mae tîm trawslywodraethol wrthi'n dylunio ased data ffyniant bro: cyfres gysylltiedig o ddata sy'n ymdrin â materion allweddol sy'n bwysig i sicrhau ffyniant bro. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i nodweddion allweddol ardal gael eu cyfleu ar ffurf delweddu data er mwyn llywio penderfyniadau gweinidogol.

Mae data manwl iawn o gymorth i ddeall daearyddiaethau economaidd presennol ond nid yw data, ar eu pen eu hunain, yn ddigonol wrth ymgymryd â gwaith cynllunio gofodol ar gyfer y dyfodol. Er mwyn gwneud hynny, bydd angen y gallu i fodelu'n ofodol. Bu cynnydd mawr o ran datblygu modelau gofodol dros y blynyddoedd diwethaf, wrth i ddata manylach ddod ar gael. Er enghraifft, mae modelau gofodol wedi cael eu defnyddio i efelychu seilwaith trafnidiaeth newydd a phatrymau o ddefnydd tir masnachol a phreswyl.

Ar hyn o bryd, nid yw'r rhan fwyaf o swyddogaethau llywodraeth leol yn cynnwys gallu mewnol i fodelu'n ofodol. **Felly, mae Llywodraeth y DU yn buddsoddi mewn technegau modelu gofodol er mwyn helpu llywodraeth leol gyda'i gwaith cynllunio**. Caiff hyn ei gefnogi gan dîm bach o fodelwyr, a fydd yn adeiladu ar ymchwil ddiweddar ar ardaloedd daearyddol ar lefel stryd drwy ddefnyddio data gweinyddol. Bydd y gyfres fodelu ganolog hon yn osgoi dyblygu ymdrech a chost modelu mewn sawl awdurdodaeth leol a gallai arwain at newid sylweddol mewn gwaith cynllunio sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar y lefel leol.


**“Felly, mae Llywodraeth y DU yn buddsoddi mewn technegau modelu gofodol er mwyn helpu llywodraeth leol gyda'i gwaith cynllunio”**

345 SYG. *Integrated Data Service Dashboards*.

## Blwch 2.3 Opportunity Insights – data da a dirnadaethau yn newid bywydau

Un o'r enghreifftiau cliriaf o botensial data gweinyddol, mawr i ddod i gasgliadau polisi pwerus yw **Opportunity Insights.**[346]

Sefydliad ymchwil a pholisi amhleidiol yw Opportunity Insights, sy'n canolbwyntio ar wella cyfleoedd economaidd. Mae wedi'i leoli ym Mhrifysgol Havard ac wedi'i arwain gan Raj Chetty, John Friedman, a Nathaniel Hendren. Mae ymchwil y Sefydliad i symudedd economaidd yn manteisio ar bŵer data mawr i ddod o hyd i leoedd sy'n wynebu anawsterau a'u deall ac asesu polisïau posibl i'w hadfywio.[347]




Wrth wraidd ymchwil y Sefydliad mae'r 'Opportunity Atlas', a ddangosir uchod, sy'n cynnig map rhyngweithiol gyda data ar ganlyniadau plant pan fyddant yn oedolion ar gyfer pob parth yn y Cyfrifiad (unedau daearyddol sy'n cynnwys tua 4,200 o bobl) yn yr UD. Mae'r Atlas wedi'i adeiladu drwy ddefnyddio data cofnodion treth wedi'u hanonymeiddio ar 20m o Americanwyr yng nghanol eu tridegau heddiw. Caiff yr unigolion hyn eu mapio'n ôl i'r parth yn y Cyfrifiad lle roeddent wedi tyfu i fyny. Ar gyfer pob un o'r 70,000 o barthau, mae ymchwilwyr yn amcangyfrif enillion cyfartalog plant, cyfraddau carcharu a chanlyniadau eraill yn ôl lefel incwm eu rhieni, hil a rhywedd.

346 *Opportunity Insights*. Gwefan.Cyrchwyd: Rhagfyr 2021.
347 Swyddfa'r Cyfrifiad., Prifysgol Havard.,Prifysgol Brown. *The Opportunity Atlas*. Cyrchwyd: Rhagfyr 2021.

Ymhlith rhinweddau lu'r prosiect y mae parodrwydd i rannu'r setiau data a ddefnyddir yn eu dadansoddiadau ag ymchwilwyr, y rhai sy'n llunio polisïau a'r cyhoedd. Mae'r holl ddata sylfaenol o'r Opportunity Atlas yn ddata ffynhonnell agored, sydd ar gael i'w lawrlwytho'n uniongyrchol o'r adnodd. Mae'r model hefyd yn un cydweithredol, sy'n dwyn ynghyd ysgolheigion o nifer o ddisgyblaethau a phrifysgolion.

Gall ymchwilwyr ddefnyddio'r Opportunity Atlas i ystyried penderfynyddion symudedd esgynnol drwy gymharu ardaloedd sydd â nodweddion tebyg ond sy'n arwain at ganlyniadau gwahanol i blant. A gall y rhai sy'n llunio polisïau ac ymarferwyr ddefnyddio'r Atlas i lunio rhaglenni gyda'r nod o wella cyfleoedd i blant dan anfantais – er enghraifft, rhaglenni cyn ysgol, rhaglenni cymorth lleol a chredydau treth. Mae tîm polisi newydd yn gweithio gyda'r rhai sy'n llunio polisïau ac ymarferwyr i sicrhau mwy o gyfle cyfartal mewn dinasoedd a threfi yn yr UD.

### *Gwella cymhellion i werthuso, monitro ac arbrofi*

Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu ymgorffori defnydd cyson a rheolaidd o ddata is-genedlaethol wrth olrhain gwariant Llywodraeth y DU a'i effaith. Yn ystod Adolygiad o Wariant 2021,[348] cyhoeddodd Trysorlys EM restr wedi'i diweddaru o ganlyniadau â blaenoriaeth a metrigau a fydd yn sail i Gynlluniau Sicrhau Canlyniadau wedi'u diweddaru ar gyfer 2022-25. Caiff y cynlluniau eu cyhoeddi yn ystod gwanwyn 2022. Mae'r rhestr wedi'i diweddaru yn cynnwys metrigau sy'n hollbwysig i fesur a monitro ffyniant bro, gan gynnwys ar sail is-genedlaethol.

Mae gweithgareddau sy'n mynd rhagddynt ym mhob rhan o Lywodraeth y DU yn annog gwelliannau o ran nifer ac ansawdd y gwerthusiadau o bolisïau sy'n seiliedig ar le. Mae hyn yn cynnwys mentrau gan y Ganolfan Beth sy'n Gweithio ar gyfer Twf Economaidd Lleol a Thasglu Gwerthuso Swyddfa'r Cabinet. Ar lefel leol, mae Llywodraeth y DU wedi mynd ati i helpu awdurdodau lleol ac arbenigwyr mewn twf lleol i wella'r ffordd y caiff gwerthusiadau o ymyriadau lleol eu dylunio a'u rhoi ar waith drwy weithdai a phanel gwerthuso. Er mwyn meithrin gallu ac adnoddau ar gyfer monitro a gwerthuso polisi gofodol, bydd Llywodraeth y DU yn nodi'r sgiliau sydd eu hangen i ddeall data gofodol ac effaith ac ymgorffori'r rhain mewn rhaglenni talent a recriwtio'n systematig. Er enghraifft, bydd y Grŵp Gwerthuso Trawslywodraethol (CGEG) yn mynd ati i adolygu a mireinio canllawiau gwerthuso, gyda ffocws ar effeithiau gofodol.[349]

Gan ddysgu o lwyddiant y Sefydliad Gwaddol Addysg a'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd, bydd Llywodraeth y DU yn gweithio gydag academyddion ac arbenigwyr diwydiant i brofi'r ffordd orau o **lunio gwerthusiadau o ymyriadau lleol** a chyflwyno mwy o **arbrofi** ar y cam llunio polisi.

Mae Llywodraeth y DU yn awyddus i feithrin ysbryd o gydweithio a bydd yn gwahodd y gweinyddiaethau datganoledig ac arweinwyr lleol o bob rhan o'r DU i weithio gyda hi er mwyn dod o hyd i ffyrdd newydd o **ddysgu am “beth sy'n gweithio”** mewn nifer o feysydd polisi. Bydd y trafodaethau hyn yn ystyried a ddylai corff newydd gydgysylltu'r gwaith hwn, ac os felly ar ba ffurf dylai fod. Byddai corff newydd yn fodd newydd a phwysig i'r rhai sy'n llunio polisïau ar bob haen o lywodraeth ddysgu o wahanol ddulliau gweithredu a dwyn ynghyd dystiolaeth o wahanol gyd-destunau.

> **“Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu ymgorffori defnydd cyson a rheolaidd o ddata is-genedlaethol wrth olrhain gwariant Llywodraeth y DU a'i effaith”**

348 Trysorlys EM, *Autumn Budget and Spending Review*. 2021.

349 Cynigiwyd canllawiau blaenorol ar asesu effeithiau gofodol polisïau adfywio gan sefydliadau fel Homes and Communities England a chanllawiau '3 Rs' yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol. Ffynhonnell: HCA. *Additionality Guide*. 2014.

### 2.3.5 Tryloywder ac atebolrwydd

Conglfaen cyfundrefn bolisi gredadwy yw'r cyfuniad o nodau polisi a pholisïau sydd wedi'u diffinio'n dda, ochr yn ochr â systemau i sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn cael eu dwyn i gyfrif mewn ffordd dryloyw am y dewisiadau a wneir ganddynt ac a yw amcanion wedi cael eu cyflawni. Mae hyn yn hollbwysig i hygrededd cyfundrefn bolisi Ffyniant Bro.

Fel y trafodwyd yn gynharach yn y bennod hon, mae cyfundrefnau polisi effeithiol a chredadwy mewn rhannau eraill o'r llywodraeth yn aml yn rhannu nifer o nodweddion.

- **Rhwymedigaethau statudol**: Mae angen i brosesau llunio polisïau gael eu sefydlu mewn statud lle y bo modd. Mae hyn yn cynnig hirhoedledd a chysondeb, gan helpu i hyrwyddo hygrededd.
- **Arbenigedd allanol**: Mae angen i bolisïau ddefnyddio arbenigedd o amrywiaeth eang o randdeiliaid. Er enghraifft, mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd yn defnyddio arbenigedd rhai o wyddonwyr hinsawdd mwyaf blaenllaw'r byd ac mae Comisiynwyr y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol yn defnyddio arbenigedd ar seilwaith, arbenigedd byd busnes ac arbenigedd academaidd.
- **Adroddiadau rheolaidd**: Mae cyfundrefnau polisi effeithiol yn aml yn golygu cyhoeddi asesiadau rheolaidd o gynnydd. Cyhoeddir *Rhagolwg Economaidd a Chyllidol* y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer pob digwyddiad cyllidol, a chyhoeddir y *Strategaeth Seilwaith Genedlaethol* unwaith bob tymor Seneddol. Mae hyn yn gwella tryloywder ac atebolrwydd.

> **Bydd Llywodraeth y DU yn cyflwyno rhwymedigaeth statudol i baratoi adroddiad blynyddol ar gynnydd tuag at gyflawni Cenadaethau Ffyniant Bro**

Gan adeiladu ar y sylfeini hyn, mae Llywodraeth y DU yn rhoi cyfundrefn atebolrwydd newydd ar waith ar gyfer y broses o gynllunio a chyflwyno polisïau ffyniant bro. Mae i'r gyfundrefn hon ddwy nodwedd allweddol. Yn gyntaf, bydd Llywodraeth y DU yn cyflwyno **rhwymedigaeth statudol i baratoi adroddiad blynyddol ar gynnydd tuag at gyflawni'r Cenadaethau Ffyniant Bro**. Bydd yr adroddiad yn defnyddio'r metrigau a nodir yn y Papur Gwyn hwn ac yn cyflwyno gwaith dadansoddi a monitro trylwyr ar gynnydd o ran lleihau anghyfartaleddau rhanbarthol. Bydd hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd polisïau sy'n ymwneud â mynd i'r afael â gwahaniaethau gofodol mewn safonau byw a chanlyniadau cymdeithasol ledled y DU. Caiff yr adroddiad blynyddol hwn ei gyhoeddi a bydd yn destun craffu allanol a Seneddol.

Yn ail, er mwyn dod â grŵp amrywiol, annibynnol ac arbenigol o leisiau i fod yn rhan o'r broses llunio polisïau, mae Llywodraeth y DU yn creu **Cyngor Cynghorol ar Ffyniant Bro.** Bydd y Cyngor yn cael y dasg o roi cyngor arbenigol annibynnol ar faterion sy'n ymwneud â llunio a chyflwyno polisïau ffyniant bro. Caiff ei ddadansoddiad ei gomisiynu a'i gyhoeddi, yn ôl disgresiwn Pwyllgor y Cabinet dros Ffyniant Bro, a gadeirir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, yn gweithio gyda gweinidogion eraill.

Bydd y Cyngor yn ystyried amrywiaeth o themâu sy'n berthnasol i'r her sy'n gysylltiedig â sicrhau ffyniant bro a nodir yn y Papur Gwyn hwn. Fel rhan o'i waith, bydd y grŵp cynghori yn sefydlu ffrwd waith i ystyried sut y gall daearyddiaeth economaidd gymhleth Llundain a'r sbectrwm economaidd-gymdeithasol gael budd o agenda ffyniant bro Llywodraeth y DU. Bydd y gwaith hwn yn dwyn amrywiaeth o arweinwyr lleol, academyddion ac arweinwyr busnes ynghyd.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro wedi penodi'r arweinwyr canlynol o ddiwydiant, y byd academaidd a chymdeithas sifil i fod yn rhan o'r Cyngor:

- Katherine Bennett (Prif Swyddog Gweithredol Catapwlt Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel a Chadeirydd Porth y Gorllewin);
- Syr Tim Besley (Athro Economeg a Gwyddor Wleidyddol, Ysgol Economeg Llundain);
- Syr Paul Collier (Athro Economeg a Pholisi Cyhoeddus yn Ysgol Lywodraeth Blavatnik, Prifysgol Rhydychen);
- Cathy Gormley-Heenan (Cyn-Ddirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil ac Effaith, Prifysgol Ulster);
- Sally Mapstone (Pennaeth Prifysgol St Andrews);
- Laxman Narasimhan (Prif Swyddog Gweithredol, Reckitt Benckiser);
- Sacha Romanovitch (Prif Swyddog Gweithredol, Fair4all Finance);
- Hayaatun Sillem (Prif Swyddog Gweithredol, Yr Academi Peirianneg Frenhinol);
- David Skelton (Cyfarwyddwr Renewal);
- Syr Nigel Wilson (Prif Weithredwr L&G); a'r
- Fonesig Wolf (Athro, Coleg y Brenin, Llundain).



# Pennod 3
# Y Rhaglen Bolisi

## 1.1 Cyflwyniad

Ym Mhennod 1, trafodwyd y sylfaen dystiolaeth ar gyfer sicrhau ffyniant bro yn y DU a chadarnhawyd pedwar amcan Llywodraeth y DU dros wneud hynny.

- Rhoi hwb i gynhyrchiant, cyflogau, swyddi a safonau byw drwy helpu'r sector preifat i dyfu, yn enwedig mewn mannau lle maent ar ei hôl hi.
- Lledaenu cyfleoedd a gwella gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig mewn mannau lle mae hynny wannaf.
- Adfer ymdeimlad o gymuned, balchder lleol a pherthyn, yn enwedig mewn mannau lle collwyd hynny.
- Grymuso arweinwyr lleol a chymunedau, yn enwedig mewn mannau lle mae diffyg cyfrwng lleol.

Ym Mhennod 2, nodwyd 12 o genadaethau penodol a'r gyfundrefn bolisi gyffredinol i Lywodraeth y DU gyflawni'r amcanion hynny. Er enghraifft, bydd cyflawni'r cenadaethau ym maes addysg, sgiliau ac iechyd yn ganolog i gyflawni'r amcan o ledaenu cyfleoedd a gwella gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig mewn mannau lle mae hynny wannaf.

Mae'r bennod hon yn nodi'r camau nesaf yn y rhaglen bolisi – gydag ymyriadau penodol sydd â'r nod o ddechrau cyflawni'r cenadaethau hyn a'r amcanion cyffredin. Mae'n nodi sut y bydd polisïau newydd yn adeiladu ar fentrau a rhaglenni a lansiwyd ers 2019 ac, yn fwyaf diweddar, yn Adolygiad o Wariant 2021.

Dim ond rhan o'r ateb i sicrhau ffyniant bro a geir yn y polisïau a amlinellir yn y bennod hon. Er mwyn gwireddu uchelgais y cenadaethau bydd angen mynd ymhellach ac yn gyflymach mewn nifer o feysydd – o gryfhau'r sector gweithgynhyrchu i frwydro yn erbyn troseddu, o ddiwygio trethiant lleol i roi adnoddau newydd i gymunedau adfywio'r stryd fawr. Mae'r polisïau yn y bennod hon yn gamau pwysig, pellach tuag at yr hyn a fydd, o reidrwydd, yn daith newid hir.

Bydd llwyddiant yn dibynnu ar weithio gydag arweinwyr lleol a'r sector preifat i gynllunio a chyflwyno ymyriadau sy'n cefnogi economi o gyflogau uchel a sgiliau o ansawdd ym mhob rhan o'r wlad. Bydd hefyd yn gofyn am gydweithio â Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, gan fod y cyfrifoldebau mewn llawer o feysydd polisi sy'n allweddol i ffyniant bro wedi'u datganoli. Drwy rannu gwersi rhwng pob haen o lywodraeth gellir sicrhau gwell canlyniadau a fydd o fudd i'n holl ddinasyddion, ble bynnag y maent yn byw.

> **Bydd sicrhau ffyniant bro yn gwneud gwahaniaeth i bob rhan o'r DU**

## 1.2 Rhoi Hwb i Gynhyrchiant, Cyflogau, Swyddi a Safonau Byw drwy Helpu'r Sector Preifat i Dyfu

Mae economi ffyniannus o gyflogau uchel a sgiliau o ansawdd yn gofyn, yn anad dim, am ryddhau buddsoddiad preifat, gan hyrwyddo menter a chefnogi sector busnes dynamig sy'n gallu creu swyddi, meithrin sgiliau a buddsoddi mewn arloesedd; sicrhau mynediad digonol at gyllid, yn enwedig ymhlith busnesau bach a chanolig (BBaChau) sy'n tyfu'n gyflym; a gwella mynediad at seilwaith nwyddau – ffisegol a digidol – sy'n galluogi pobl i gysylltu a chydweithio â'i gilydd.

> **Mae economi ffyniannus o gyflogau uchel a sgiliau o ansawdd yn gofyn, yn anad dim, am ryddhau buddsoddiad preifat, gan annog menter a chefnogi sector busnes dynamig**

Drwy'r cyfuniad hwn o gyfalaf dynol, ffisegol, anniriaethol ac ariannol, mae'r sector busnes yn arwain at welliannau mewn cynhyrchiant, yn creu swyddi ac yn hybu safonau byw lleol.

Er mwyn helpu i sbarduno'r gwelliannau hyn, mae Llywodraeth y DU yn pennu pedair cenhadaeth graidd, sy'n rhychwantu safonau byw; ymchwil a datblygu; seilwaith trafnidiaeth; a chysylltedd digidol.

### 3.2.1 Erbyn 2030, bydd cyflogau, cyflogaeth a chynhyrchiant yn uwch ym mhob rhan o'r DU, a bydd gan bob ardal ddinas a all gystadlu ar lefel fyd-eang, a bydd y bwlch rhwng y rhannau sy'n perfformio orau ac ardaloedd eraill yn lleihau.[350]

Mae pum elfen a fydd yn helpu i gyflawni'r genhadaeth hon ar safonau byw:

a. Cyllid busnesau bach a chanolig (BBaChau);
b. buddsoddi sefydliadol;
c. buddsoddi symudol a pholisi masnach;
d. mabwysiadu a lledaenu; ac
e. gweithgynhyrchu.

### Cyllid BBaChau

#### *Yr achos dros weithredu*

BBaChau yw asgwrn cefn yr economi. Mae 5.9m o BBaChau yn y DU sydd, gyda'i gilydd, yn cyflogi 16.3m o bobl, gan gyfrannu 60% o holl swyddi'r DU.[351] Maent yn arbennig o bwysig i economïau lleol. Yn ne-orllewin Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon, mae BBaChau yn cyfrif am 70% o swyddi yn y sector preifat.[352]

Mae cyllid yn hollbwysig i dwf y sector preifat, ond mae'n gyfyngiad ar rai cwmnïau, yn enwedig BBaChau. Mae llawer o BBaChau addawol yn methu neu nid ydynt yn tyfu am na allant gael gafael ar gyllid.[353] Fel y trafododd Pennod 1, mae'r heriau hyn yn effeithio'n anghymesur ar gwmnïau y tu allan i ardal De-ddwyrain Fwyaf Lloegr.

350 Ategir y genhadaeth hon gan genadaethau eraill, gan gynnwys rhai ar ymchwil a datblygu, trafnidiaeth a sgiliau.
351 BEIS. *Business population estimates 2021*. 2021.
352 BEIS. *Business population estimates 2021.* 2021.
353 Gweler, er enghraifft: Besley, T., Roland, I., Van Reenen, J. *The Aggregate Consequences of Default Risk: Evidence from Firm-Level Data*. Y Ganolfan ar gyfer Perfformiad Economaidd. 2020.

### *Y rhaglen bolisi*

Mae cynnydd gwirioneddol wedi cael ei wneud ar fynediad BBaChau at gyllid yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae Banc Busnes Prydain wedi chwarae rôl allweddol ers 2014, gan dargedu cwmnïau sydd ymhellaf i ffwrdd oddi wrth gyllid masnachol ar y cyfan, a rhoi cymorth drwy gynlluniau megis y rhaglen Benthyciadau Dechrau Busnes, lle mae tua 80% o fenthyciadau yn cael eu gwneud i fusnesau y tu allan i Lundain. Mae rhaglen Cronfeydd Buddsoddi Rhanbarthol Banc Busnes Prydain, sy'n cwmpasu Pwerdy'r Gogledd, Peiriant Canolbarth Lloegr, Cernyw ac Ynysoedd Sili a Gogledd Iwerddon, wedi darparu dros £1bn o fuddsoddiad dyled ac ecwiti yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat ar gyfer lleoedd ledled y DU sy'n wynebu rhai o'r heriau ariannol mwyaf difrifol.[354]

## Blwch 3.1 Cronfa Fuddsoddi Pwerdy'r Gogledd Banc Busnes Prydain: Nova Pangaea Technologies

Cwmni yn Teesside yw Nova Pangaea Technologies, sydd wedi dod o hyd i ffordd o ddefnyddio biomas nad yw'n fwyd i wneud biodanwyddau a chemegion eraill, gan helpu i gynhyrchu refeniw ychwanegol i ffermwyr a lleihau dibyniaeth ar danwyddau ffosil heb ddefnyddio tir na chnydau sy'n addas ar gyfer bwyd. Mae wedi codi cryn dipyn o fuddsoddiad, gan gynnwys £2.4m yn 2021, ar ôl tri chylch o gyllid o Gronfa Fuddsoddi Pwerdy'r Gogledd.

Cwblhaodd ei ffatri arddangos yn Redcar yn Tees Valley ym mis Rhagfyr 2019 ac, ar ôl treialon llwyddiannus, cafodd ei gwsmer rhyngwladol cyntaf ym mis Mawrth 2021. Mae Nova Pangaea bellach yn ystyried y posibilrwydd o adeiladu ffatri fasnachol, y gyntaf o'i bath, sy'n cadarnhau Teesside fel un o arweinwyr y byd ym maes datgarboneiddio diwydiannol.[355]

Mae'r Adran Drafnidiaeth hefyd wedi dyfarnu £484,000 (€571,000) i Project Speedbird – partneriaeth rhwng Nova Pangaea Technologies, British Airways a LanzaJet – i ariannu astudiaeth ddichonoldeb i ddatblygu tanwydd hedfan cynaliadwy yn y DU.



354 Y Rhwydwaith Beth Sy'n Gweithio. *Access to Finance*. Cyrchwyd: Rhagfyr 2021.
355 *Private Equity Wire*, 15 Medi 2021.

Bu newidiadau hefyd i gefnogi bancio lleol. Drwy ddiwygio'r broses o wneud cais am drwydded fancio, mae 26 o fanciau herio newydd wedi gallu ehangu dewis yn y sector,[356] gyda chymorth cynlluniau megis y Gronfa Gallu ac Arloesi gwerth £425m. Mae sawl banc cydfuddiannol, megis South West Mutual a North West Mutual, yn gweithio gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol a'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus er mwyn cael trwyddedau bancio newydd.

Ond mae mwy y gellid ei wneud. Mae Llywodraeth y DU yn estyn cyrhaeddiad daearyddol model partneriaeth Banc Busnes Prydain. Fel rhan o Adolygiad o Wariant 2021, cyhoeddodd y Canghellor fuddsoddiad gwerth £1.6bn gan Lywodraeth y DU yng **nghenhadaeth nesaf Cronfeydd Buddsoddi Rhanbarthol Banc Busnes Prydain**. Mae hyn yn cynnwys**:**

a. $660m ar gyfer Cronfa Fuddsoddi Pwerdy'r Gogledd, gan gynnwys ehangu yng ngogledd-ddwyrain Lloegr;
b. £400m ar gyfer Cronfa Fuddsoddi Peiriant Canolbarth Lloegr;
c. £200m i ddarparu cronfa newydd ar gyfer busnesau yn ne-orllewin Lloegr, gan ehangu ar Gronfa Fuddsoddi Cernyw ac Ynysoedd Sili;
d. £150m i ddarparu cronfa newydd ar gyfer busnesau yn yr Alban;
e. £130m i ddarparu cronfa newydd ar gyfer busnesau yng Nghymru; ac
f. £70m i ehangu darpariaeth ar gyfer busnesau yng Ngogledd Iwerddon.

> **“Pe bai pob un o gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn dyrannu 5% i fuddsoddi lleol byddai hyn yn datgloi £16bn mewn buddsoddiad newydd”**

Bydd Banc Busnes Prydain yn datblygu'r genhedlaeth nesaf o gronfeydd mewn cydweithrediad agos â banciau datblygu economaidd, y gweinyddiaethau datganoledig a rhanddeiliaid lleol eraill, gan adeiladu ar eu gwybodaeth leol eu hunain yn ogystal â'i brofiad ei hun.

Fel rhan o Adolygiad o Wariant 2021, cyhoeddodd Llywodraeth y DU hefyd ymrwymiad ychwanegol gwerth £150m ar gyfer **y Rhaglen Angylion Rhanbarthol**, sy'n cefnogi busnesau â photensial mawr ledled y DU drwy roi cyllid ecwiti cam cynnar a lleihau anghyfartaleddau daearyddol.[357]

Er gwaethaf y cynnydd hwn, bydd COVID-19 a thueddiadau strwythurol yn parhau i achosi her i gyllid BBaChau y tu allan i Lundain a de-ddwyrain Lloegr. Bydd Trysorlys EM, yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) a'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau yn gweithio gyda'r Cyngor Ymgynghorol ar Ffyniant Bro i ystyried ymhellach opsiynau i ddatgloi cyfalaf ar gyfer BBaChau.

## Datgloi buddsoddiad sefydliadol

### *Yr achos dros weithredu*

Mae gan fuddsoddiad sefydliadol botensial anferth i helpu i sicrhau ffyniant bro, ym meysydd seilwaith, tai, adfywio a chyllid BBaChau. Mae buddsoddwyr sefydliadol yn dal asedau pensiwn yn y DU gwerth bron £3.5tn ar hyn o bryd. Fel rhan o'r swm hwnnw, mae gan Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol fuddsoddiadau gwerth dros £330bn i gyd, sy'n golygu mai hwn yw'r cynllun pensiwn mwyaf yn y DU.[358] Dim ond cyfran fach iawn o'r cronfeydd hyn sy'n cael eu dyrannu i brosiectau lleol ar hyn o bryd. Pe bai pob un o gronfeydd

356 Banc Lloegr. *New banks authorised since 2013*. Cyrchwyd: Rhagfyr 2021.
357 Banc Busnes Prydain. *British Business Investments launches new £100m programme to support regional angel investment*. 2021.
358 Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau. *Local Government Pension Scheme Funds England and Wales: 2020-21*. 2021.

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn dyrannu 5% i fuddsoddi lleol, byddai hyn yn datgloi £16bn mewn buddsoddiad newydd.[359]

### *Y rhaglen bolisi*

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau a chostau sy'n atal buddsoddiadau anhylif hirdymor yn y DU.[360] Caiff cronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol eu buddsoddi mewn amrywiaeth eang o seilwaith presennol yn y DU ac yn rhyngwladol, yn bennaf drwy wyth cronfa asedau'r cynllun. Mae llwyfan seilwaith penodol (GLIL) wedi cael ei sefydlu ar y cyd â Northern and Local Pensions Partnership Investments a chronfeydd asedau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, ac mae ganddo tua £2.5bn sydd wedi cael ei neilltuo, gyda buddsoddiadau sy'n cynnwys Anglian Water, Forth Ports (gan gynnwys Tilbury) a Fferm Wynt Clyde.[361]

Mae buddsoddiad mewn seilwaith gan Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi cynyddu o ychydig o dan £1bn yn 2016 i £21bn yn 2021. Er mwyn adeiladu ar y gallu a'r arbenigedd sefydledig hwn, a sicrhau bod pob un o gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn chwarae eu rhan lawn, mae Llywodraeth y DU yn gofyn i **gronfeydd y cynllun, gan weithio gyda chronfeydd asedau'r cynllun, gyhoeddi cynlluniau ar gyfer cynyddu buddsoddiadau lleol,** gan gynnwys pennu uchelgais o hyd at 5% o asedau yn cael eu buddsoddi mewn prosiectau sy'n cefnogi ardaloedd lleol.

Mae gan Fanc Seilwaith newydd y DU, sydd wedi'i leoli yn Leeds, fandad i ysgogi buddsoddiad er mwyn cefnogi twf economaidd rhanbarthol a lleol, a bydd yn helpu i wella gallu ac adnoddau awdurdodau lleol i ddarparu seilwaith yn eu hardaloedd. Bydd hefyd yn cyd-fuddsoddi, cynnig gwarantau drwy Gynllun Gwarantau presennol y DU, a darparu amrywiaeth o gynhyrchion dyled, ecwiti a hybrid. Mae'n ymrwymedig i ehangu buddsoddi sefydliadol yn seilwaith y DU, gan gynnwys ystyried cyfleoedd ar y cyd â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Mae'r Prif Weinidog a'r Canghellor wedi galw ar fuddsoddwyr sefydliadol y DU i achub ar y cyfle ar gyfer "Investment Big Bang" i hybu twf hirdymor Prydain.[362] Yn hyn o beth, cydnabu Llywodraeth y DU ei chyfrifoldeb i ddileu rhwystrau a chostau sy'n atal buddsoddiadau anhylif hirdymor yn y DU. Gan ymateb i'r galw gan ddiwydiant, cyhoeddodd Llywodraeth y DU yng Nghyllideb 2021 y byddai'n ymgynghori ar newidiadau pellach i'r tâl terfyn rheoleiddiol ar gyfer cynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig. Bydd yn ystyried opsiynau i ddiwygio'r terfyn er mwyn sicrhau y gall cynilwyr gael budd o fuddsoddiadau enillion uwch o bosibl, a hefyd ddatgloi buddsoddi sefydliadol. Daeth ymgynghoriad yr Adran Gwaith a Phensiynau i ben ym mis Ionawr 2022 a bydd yn ymateb yn y misoedd sydd i ddod.

## Datgloi buddsoddi sy'n symudol yn fyd-eang a manteisio ar bolisi masnach annibynnol y DU

### *Yr achos dros weithredu*

Nod Llywodraeth y DU yw manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ei hagenda masnach annibynnol i fusnesau'r DU. Mae cwmnïau rhyngwladol symudol ymhlith y mwyaf cynhyrchiol, arloesol, ac sy'n buddsoddi fwyaf yn y DU: roedd busnesau yn y DU â chysylltiadau fewnfuddsoddi uniongyrchol o dramor ddau

359 Sefydliad Buddsoddi Effaith. *SCALING UP INSTITUTIONAL INVESTMENT FOR PLACE-BASED IMPACT*. 2021.

360 Gweler Rhif 10 Downing Street. *A challenge letter from the Prime Minister and Chancellor to the UK's institutional investors*. 2021.

361 GLIL. *GLIL Infrastructure 2021 Review*. 2021.

362 10 Downing Street. *A challenge letter from the Prime Minister and Chancellor to the UK's institutional investors*.

draean yn fwy cynhyrchiol na busnesau heb gysylltiad o'r fath yn 2018.[363] Fodd bynnag, mae dros hanner stoc mewnfuddsoddi'r DU yn Llundain a de-ddwyrain Lloegr.[364, 365]

O ran masnach, er i'r DU allforio nwyddau a gwasanaethau gwerth £600bn yn 2020, dim ond tua un o bob deg busnes yn y DU sy'n allforio ar hyn o bryd. Mae angen cymorth ar lawer o gwmnïau i ddeall a manteisio ar gyfleoedd rhyddfrydoli masnach.

### *Y rhaglen bolisi*

**“Bydd Llywodraeth y DU hefyd yn sefydlu Porthladdoedd Rhydd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, gan weithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig”**

Ers 2019, mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno rhaglenni i gefnogi twf sectorau arloesol, megis drwy'r Gronfa Trawsnewid Modurol, y Gronfa Trawsnewid Meddyginiaethau a Gweithgynhyrchu Diagnostig a Chynllun Cefnogi Buddsoddiad Gweithgynhyrchu Ynni Gwynt ar y Môr.

Gwnaeth yr Uwch Gynhadledd ar Fuddsoddi Byd-eang ym mis Hydref 2021 arddangos y DU i fuddsoddwyr byd-eang proffil uchel, a chyhoeddwyd cytundebau gwerth £9.7bn.[366] Roedd hyn yn cynnwys buddsoddiad gwerth £6bn yn ffermydd gwynt ar y môr Hwb East Anglia, gan greu 7,000 o swyddi; buddsoddiad gwerth £1bn mewn technoleg datgarboneiddio arloesol ar gyfer gwastraff, gan greu 1,180 o swyddi; a buddsoddiad gwerth £500m i gynhyrchu cardfwrdd o wastraff papur yn Shotton, gogledd Cymru, gan greu tua 300 o swyddi newydd.

Drwy'r ymdrechion hyn, mae arwyddion bod newid tuag at ogledd Lloegr a Chanolbarth Lloegr o ran swyddi newydd a phrosiectau buddsoddi uniongyrchol o dramor. Cynyddodd prosiectau buddsoddi uniongyrchol o dramor ym Mhwerdy'r Gogledd a Pheiriant Canolbarth Lloegr o chwarter i bron traean o gyfanswm y DU o 2016-17 i 2020-21.[367]

Mae Llywodraeth y DU yn mynd ymhellach drwy'r canlynol:

a. Porthladdoedd Rhydd;
b. ymyriadau treth;
c. Cronfa Fuddsoddi Prydain Fyd-eang;
d. ehangu'r Swyddfa dros Fuddsoddi; ac
e. strategaeth allforio ar ei newydd wedd a pholisi masnach uchelgeisiol.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi **wyth porthladd rhydd** yn Lloegr. Fel rhan o Adolygiad o Wariant 2021, cyhoeddodd Llywodraeth y DU mai yn Humber, Teesside a Dyffryn Tafwys y bydd y safleoedd treth cyntaf. Mae'r porthladdoedd rhydd hynny eisoes yn gallu dechrau gweithrediadau cychwynnol a denu buddsoddiad preifat. Er enghraifft, cyhoeddodd DP World fuddsoddiad o £300m i gefnogi Porthladd Rhydd Tafwys, ac mae GE Renewable Energy yn bwriadu lleoli ei ffatri gweithgynhyrchu llafnau newydd yn Teesport, ac mae Siemens Gamesa yn buddsoddi £186m i ehangu ei ffatri gweithgynhyrchu llafnau'r môr ym Mhorthladd Rhydd Humber. Bydd Llywodraeth y DU hefyd yn **sefydlu Porthladdoedd Rhydd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon**, gan weithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig.

363 SYG. *UK foreign direct investment, trends and analysis: August 2020*. 2020.
364 Yr Adran Masnach Ryngwladol. *Estimating FDI and its impact in the United Kingdom*. 2021.
365 SYG. *Regional economic activity by gross domestic product, UK: 1998 to 2019*. 2021.
366 Llywodraeth Ei Mawrhydi. *Investors pledge almost £10bn at UK Global Investment Summit*. 2021.
367 Llywodraeth Ei Mawrhydi. *Department for International Trade inward investment results, 2016-17 to 2020-21* (Diweddariad Mehefin 2021).

Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cyflwyno nifer o ymyriadau treth eraill sy'n cefnogi buddsoddiadau gan y sector preifat ac yn rhoi cymhellion i wneud hynny, megis y **didyniad mawr** (a drafodir yn ddiweddarach isod) ac **Ardaloedd Menter**. Fel rhan o Adolygiad o Wariant 2021, diwygiodd Llywodraeth y DU hefyd **ryddhadau treth ar gyfer ymchwil a datblygu** er mwyn sicrhau eu bod yn cefnogi dulliau ymchwil arloesol yn well a bod y DU yn sicrhau buddiannau ymchwil a datblygu a ariennir gan drethdalwyr y DU drwy'r rhyddhadau.[368]

## Blwch 3.2 Y sector modurol a Ffyniant Bro: Astudiaeth achos o Nissan/Envision

Yn y 1970au ac ar ddechrau'r 1980au, roedd colli swyddi ar sail strwythurol o ganlyniad i grebachu'r diwydiant adeiladu llongau a'r diwydiant glo wedi cael effaith ddofn ar Sunderland. Rhwng 1971 a 1991, collodd y ddinas 17,000 o swyddi, sef gostyngiad o 16%.[369] Gyda chymorth Llywodraeth y DU, agorodd Nissan ffatri newydd yn Sunderland yn 1986, a nododd ddechrau twf sylweddol ar gyfer y sector yn yr ardal. Ers hynny, mae sefyllfa Sunderland o ran swyddi wedi gwella'n sylweddol.

Mae Nissan bellach yn cefnogi ecosystem ffyniannus o swyddi yng ngogledd-ddwyrain Lloegr ac o amgylch y DU. Mae'r ffatri yn Sunderland yn cyflogi 6,000 o bobl ac yn cefnogi 24,000 o swyddi yn y gadwyn gyflenwi, yn bennaf yng ngogledd-ddwyrain Lloegr.[370] Nissan Sunderland yw ffatri geir fwyaf y DU erbyn hyn, gan gynhyrchu tua 450,000 o geir y flwyddyn ers y degawd diwethaf. Mae hefyd yn un o'r ffatrioedd ceir mwyaf cynhyrchiol yn Ewrop. Caiff hyd at 80% o'i hallbwn ei allforio dramor i tua 100 o farchnadoedd gwahanol.[371]

Ym mis Gorffennaf 2021, helpodd BEIS, mewn cydweithrediad â'r Swyddfa dros Fuddsoddi a'r Adran Masnach Ryngwladol, i sicrhau buddsoddiad pwysig gwerth £1bn gan Nissan ac Envision AESC. Bydd y buddsoddiad yn creu hwb gweithgynhyrchu Cerbydau Ynni Newydd yn Sunderland, gan gynnwys gigaffatri ar raddfa fawr gyntaf y DU. Bydd hyn yn cynnal tua 6,000 o swyddi yn Nissan a'i gyflenwyr, gan gynnwys 900 o swyddi newydd yn Nissan Sunderland a 750 o swyddi newydd yn Envision AESC.[372]

Mae Llywodraeth y DU yn cymryd camau pellach i ddenu buddsoddiad rhyngwladol symudol ym mhob rhan o'r DU. Mae **Cronfa Fuddsoddi Prydain Fyd-eang** gwerth £1.4bn yn rhoi cymorth grant i gwmnïau rhyngwladol symudol sy'n ceisio buddsoddi mewn tir llwyd neu dir glas neu ehangu ar fuddsoddiadau o'r fath. Mae'r gronfa yn gweithredu ledled y DU ac yn canolbwyntio ar ddenu buddsoddiadau mewn sectorau allweddol, gan greu swyddi newydd o ansawdd uchel, denu buddsoddiadau preifat, sbarduno twf lleol a chychwyn ar arloesi.

> **Mae Llywodraeth y DU yn cymryd camau pellach i ddenu buddsoddiad rhyngwladol symudol ym mhob rhan o'r DU**

Gan adeiladu ar y swyddfeydd masnach a buddsoddi newydd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y bydd gan y Swyddfa dros Fuddsoddi bresenoldeb ym mhob rhan o'r DU. Bydd hyn yn galluogi'r Swyddfa dros Fuddsoddi i lunio partneriaeth â meiri dinas-ranbarthau a chwmnïau twf i feithrin cyfleoedd buddsoddi lleol ym mhob cwr o'r DU. Yn olaf, mae'r **Strategaeth Allforio** ar ei newydd wedd yn ceisio codi diwylliant allforio'r DU, gan gynnwys drwy'r Academi Allforio sy'n rhoi cymorth ymarferol i BBaChau ledled y DU i allforio â hyder, a chreu rhwydwaith o Hyrwyddwyr Allforio. Bydd hyn yn manteisio ar bolisi masnach annibynnol y DU er mwyn helpu i ysgogi economi o gyflogau uchel a sgiliau o ansawdd gartref. Bydd Cytundeb Masnach Rydd a rhaglenni Mynediad i Farchnadoedd Llywodraeth y DU hefyd yn cynnig buddiannau sylweddol, gan gynnwys:

368 Trysorlys EM. *R&D Tax Reliefs Report*. 2021.
369 Swinney, P., Thomas, E. *A century of cities*. 2015.
370 Corfforaeth Fodurol Nissan. *Nissan unveils EV36Zero – a £1bn Electric Vehicle Hub*. 2021.
371 Corfforaeth Fodurol Nissan. *Nissan unveils EV36Zero – a £1bn Electric Vehicle Hub*. 2021.
372 Corfforaeth Fodurol Nissan. *Nissan unveils EV36Zero – a £1bn Electric Vehicle Hub*. 2021.

a. y **Cytundeb Partneriaeth Economaidd Cynhwysfawr â Japan** – y disgwylir i ogledd-ddwyrain Lloegr gael budd sylweddol ohono, gyda'i busnesau yn allforio nwyddau gwerth £408m i Japan yn 2020;[373]
b. y **Cytundeb Masnach Rydd ag UDA** – lle y byddai Cymru, yr Alban, Gogledd-ddwyrain Lloegr, dwyrain Canolbarth Lloegr a gorllewin Canolbarth Lloegr yn cael y budd lleol mwyaf o gytundeb uchelgeisiol;[374] ac
c. y **Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth â Rhanbarth y Môr Tawel (CPTPP)** – o ystyried i bob rhan o'r DU allforio nwyddau gwerth rhwng £0.8bn a £3bn i wledydd CPTPP yn 2020, gan gynnwys allforion gwerth £2.5bn o ddwyrain Canolbarth Lloegr, £2bn o'r Alban a £1.9bn o ogledd-orllewin Lloegr.[375]

> **Bydd menter Help to Grow Llywodraeth y DU yn galluogi dros 30,000 o arweinwyr BBaChau**

## Mabwysiadu a lledaenu

### *Yr achos dros weithredu*

Er gwaethaf ei sylfaen ymchwil ragorol, mae'r DU yn safle 30 yn y byd o ran lledaenu gwybodaeth ac mae "cynffon hir" sylweddol o gwmnïau â chynhyrchiant isel.[376] Mae mabwysiadu technoleg – yn rhychwantu technolegau sylfaenol fel meddalwedd cyfrifyddu, hyd at rai arloesol fel deallusrwydd artiffisial – yn un o ysgogwyr allweddol cynhyrchiant a chystadleurwydd sector gwasanaethau'r DU. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod cwmnïau yn Llundain a de-ddwyrain Lloegr yn mabwysiadu ac yn lledaenu technolegau newydd yn gyflymach na'r rhai yng Nghymru, gogledd-ddwyrain Lloegr, Swydd Efrog a Gogledd Iwerddon – pob un â chyfran fawr o BBaChau, sy'n tueddu i fod ymhellach o'r ffin arloesol o ran cynhyrchiant.[377]

### *Y rhaglen bolisi*

Mae **Strategaeth Arloesedd** ddiweddar Llywodraeth y DU yn amlinellu cynlluniau i helpu mwy o fusnesau i fanteisio ar dechnolegau a phrosesau newydd.[378] Bydd menter **Help to Grow** Llywodraeth y DU yn galluogi dros 30,000 o arweinwyr BBaChau i wella eu galluoedd rheoli a helpu 100,000 o BBaChau i fabwysiadu technolegau digidol sy'n hybu cynhyrchiant. Caiff y fenter hon ei chyflwyno ledled y DU. Gan adeiladu ar yr ymrwymiadau yn y Strategaeth Arloesedd, bydd Llywodraeth y DU hefyd yn ymgorffori mabwysiadu a lledaenu yn ei chynlluniau cymorth i fusnesau, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â chynhyrchiant isel, ac yn annog cydweithio â chynlluniau tebyg yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd y Cyngor Ymgynghorol newydd ar Ffyniant Bro yn lansio is-bwyllgor arbenigol ar seilwaith mabwysiadu a lledaenu rhanbarthol – gan ystyried sut i wella nifer y busnesau sy'n mabwysiadu technolegau ac arferion rheoli sy'n gwella cynhyrchiant.

373 Llywodraeth Ei Mawrhydi. *UK-Japan CEPA: benefits for the UK*. Hydref 2020.
374 Llywodraeth Ei Mawrhydi. *The UK's approach to trade negotiations with the US*. Mawrth 2020.
375 SYG. *UK Trade, all countries, non-seasonally adjusted*. 2021.
376 Prifysgol Cornell., INSEAD., WIPO. *Global Innovation Index*. 2018
377 BEIS. Economy and Strategic Analysis: innovation diffusion analysis. Yn: BEIS. *Evidence for the UK Innovation Strategy*. 2021.
378 BEIS. *UK Innovation Strategy: leading the future by creating it*. 2021.

## Blwch 3.3. Diwydiannau creadigol a ffyniant bro

Mae gan y diwydiannau creadigol – o gynhyrchu ffilmiau i ddylunio gemau fideo – rôl hollbwysig i'w chwarae i sicrhau ffyniant bro. Maent nid yn unig yn ffynonellau o falchder lleol a gwell ansawdd bywyd, maent hefyd yn ysgogi twf a chynhyrchiant.[379]

Bydd Llywodraeth y DU yn lansio **estyniad i'r Rhaglen Creative Scale Up** gyda mwy na £18m o gyllid newydd i gefnogi busnesau twf uchel mewn rhanbarthau y tu allan i Lundain. Bydd dros £8m o gyllid yn helpu i gefnogi busnesau newydd a thalent entrepreneuraidd ifanc yn y sector gemau fideo drwy Gronfa Gemau'r DU sydd wedi'i lleoli yn Dundee. Mae Llywodraeth y DU hefyd yn bwriadu cyhoeddi **Gweledigaeth ar gyfer Sector y Diwydiannau Creadigol** yn 2022, a bydd yn cydweithio â'r gweinyddiaethau datganoledig i'w gwneud yn strategaeth i gefnogi'r diwydiannau creadigol i'r DU gyfan.

## Gweithgynhyrchu

### *Yr achos dros weithredu*

Mae busnesau gweithgynhyrchu yn darparu swyddi hyfedr â chyflogau da, gydag 84% o'r sector wedi'i leoli y tu allan i Lundain a de-ddwyrain Lloegr.[380] Mewn trefi diwydiannol hŷn, mae gweithgynhyrchu yn cyfrif am bron dwywaith cyfran y swyddi ag y mae mewn canolfannau poblogaeth mwy o faint a theirgwaith cymaint ag y mae yn Llundain.[381] Y tu allan i Lundain, mae cyflogau yn y sector gweithgynhyrchu yn uwch hefyd, gyda phremiwm cyflog o fwy na £1 yr awr ar gyfer y DU gyfan – ac yn uwch mewn rhai lleoedd megis gogledd-ddwyrain a gogledd-orllewin Lloegr.[382]

Er ei fod wedi gostwng o 25% o CDG ar ddiwedd y 1970au i 10% heddiw, mae'n dal i gyfrif am hanner allforion nwyddau'r DU a 64% o fusnes ymchwil a datblygu'r DU.[383] Rhwng 1979 a 2019, tyfodd allbwn fesul swydd yn y DU bron dwywaith yn gyflymach yn y sector gweithgynhyrchu ag y gwnaeth yn yr economi yn ei chyfanrwydd.[384]

Mae cwmnïau gweithgynhyrchu mawr hefyd yn chwarae rôl allweddol fel sefydliadau angori mewn economïau lleol, yn aml yn helpu i gefnogi BBaChau lleol yn eu cadwyn gyflenwi, yn ogystal â chreu swyddi, sbarduno gwelliant mewn sgiliau a chefnogi cymunedau lleol. Mae enghreifftiau yn cynnwys Rolls Royce yn Derby, Jaguaar Land Rover yn Coventry a Swydd Warwick, a BAE Systems yn Swydd Gaerhirfryn.

> **Mae busnesau gweithgynhyrchu yn darparu swyddi hyfedr â chyflogau da, gydag 84% o'r sector wedi'i leoli y tu allan i Lundain a de-ddwyrain Lloegr**

379 Siepel, J., Camerani, R., Masucci, M., Velez Ospina, J., Casadei, P. a Bloom, M. (2020) *Creative Radar: Mapping the UK's creative clusters and microclusters*. Lluosog: Polisi ynglŷn a'r Diwydiannau Creadigol a'r Ganolfan Dystiolaeth a Phrifysgol Sussex.

380 SYG. *Regional Gross Value Added*. 2021.; SYG. *JOBS05: Workforce jobs by region and industry*. 2021.

381 Key Cities. *Places with Purpose: The Future of Industrial Cities, Towns and Communities*. 2018.

382 Holloway, W., Blagden, J. *Making a Comeback: A renaissance in manufacturing*. Onward. 2021.

383 Grŵp Arbenigol Metrigau Gweithgynhyrchu. *MANUFACTURING METRICS REVIEW REPORT*. 2016.;
SYG. *Trade in Goods by CPA*. 2021..;
SYG. *UK Trade*. 2021.;
SYG. *Business Enterprises Research and Development (BERD)*. 2021.

384 Yn y sector gweithgynhyrchu, tyfodd allbwn fesul swydd 0.64% y chwarter o gymharu â 0.36% y chwarter) yn yr economi yn ei chyfanrwydd.

### *Y rhaglen bolisi*

O'r **Weledigaeth ar gyfer Gwyddorau Bywyd,** i'r **Strategaeth Ddiwydiannol Amddiffyn a Diogelwch**, i'r **Strategaeth Fwyd** arfaethedig, mae cryn ymdrech eisoes yn cael ei gwneud i gefnogi a thyfu busnesau gweithgynhyrchu mewn nifer o sectorau.

## Blwch 3.4 Adeiladu Llongau – Adnewyddu'r Strategaeth Adeiladu Llongau Genedlaethol

Nod y **Strategaeth Adeiladu Llongau Genedlaethol** ar ei ffurf newydd ac estynedig, a gaiff ei chyhoeddi ar ddechrau'r flwyddyn hon, yw ceisio ailfywiogi'r sector adeiladu llongau llyngesol a masnachol ledled y DU. Mae'r diwydiant adeiladu llongau yn cynnal 44,000 o swyddi ledled y DU ac yn ychwanegu £2.4bn at economi'r DU. Gyda dosbarthiad daearyddol busnesau adeiladu llongau yn rhychwantu'r DU gyfan, bydd creu sector adeiladu llongau ffyniannus yn cyfrannu at ffyniant bro ledled y DU drwy adeiladu ar gryfderau technolegol ein hardaloedd lleol drwy'r gadwyn gyflenwi.

Mae adeiladu llongau llyngesol yn cyfrif am gyfran sylweddol o weithgarwch adeiladu llongau'r DU. Yn 2019-20, gwariodd y Weinyddiaeth Amddiffyn £3.8bn ar adeiladu ac atgyweirio llongau, a oedd yn cynnal 27,200 o swyddi'n uniongyrchol ynghyd â 19,400 o swyddi eraill yn anuniongyrchol. Mae hon ond yn un enghraifft o'r ffordd y mae gwariant y Weinyddiaeth Amddiffyn yn cefnogi ffyniant bro ledled y DU.

Caiff hyn ei hybu gan nifer o ymyriadau i gefnogi'r sector gweithgynhyrchu yn ei gyfanrwydd. Menter digideiddio diwydiannol y DU yw'r rhaglen **Made Smarter**, sydd â'r nod o hybu cynhyrchiant gweithgynhyrchu a thwf yn y DU a lleihau allyriadau $CO_2$. Mae'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu, lledaenu a mabwysiadu technolegau trawsnewidiol megis gweithgynhyrchu ychwanegol, roboteg a systemau awtonomaidd, a'r Rhyngrwyd Pethau diwydiannol. Mae gogledd-orllewin Lloegr, sef y lle cyntaf i gael cymorth o dan gynllun peilot mabwysiadu Made Smarter, wedi ymgysylltu â mwy na 1300 o BBaChau a disgwylir y bydd yn sicrhau hyd at £68m mewn gwerth ychwanegol gros (GYG). Cafodd cynllun Made Smarter ei ehangu i ogledd-ddwyrain Lloegr, Swydd Efrog a Humber a gorllewin Canolbarth Lloegr yn 2021, a chafodd £24m o fuddsoddiad ychwanegol yn Adolygiad o Wariant 2021. Bydd Llywodraeth y DU yn gweithio'n agos gyda Help to Grow a gwasanaethau cymorth busnes eraill i roi cymorth di-dor i weithgynhyrchwyr BBaChau, er mwyn eu helpu i wella eu cystadleurwydd, eu cadernid a'u heffeithlonrwydd. Bydd Llywodraeth y DU hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Chomisiwn Made Smarter er mwyn helpu i lunio'r weledigaeth ar gyfer dyfodol gweithgynhyrchu'r DU, wedi'i alluogi gan y technolegau trawsnewidiol hyn.

Bydd y sector gweithgynhyrchu hefyd yn cael budd o fesurau a nodir mewn rhan arall o'r bennod hon, gan gynnwys y Sefydliadau Technoleg newydd, a fydd yn gallu ymateb yn gyflym i anghenion sgiliau technegol ardal sy'n datblygu; Cronfa Fuddsoddi Prydain Fyd-eang, a fydd yn denu buddsoddiadau trawsnewidiol mewn is-sectorau megis gweithgynhyrchu modurol a gwyddorau bywyd; ein buddsoddiadau mewn Sero Net, a fydd yn helpu gweithgynhyrchwyr i ddatgarboneiddio ac arwain y gwaith o ddatblygu cynhyrchion gwyrddach; a'n hymrwymiad i gynyddu buddsoddiad ymchwil a datblygu y tu allan i ardal De-ddwyrain Fwyaf Lloegr, a fydd yn helpu i drawsnewid potensial hirdymor busnesau gweithgynhyrchu.

Gan edrych i'r dyfodol, mae Llywodraeth y DU am sicrhau bod gweithgynhyrchwyr, o bob is-sector ac ym mhob rhan o'r DU, yn awtomeiddio, yn datgarboneiddio ac yn meithrin cadernid erbyn 2030. I'r perwyl hwnnw,

bydd Llywodraeth y DU yn ymgysylltu â gweithgynhyrchwyr er mwyn sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar ysgogwyr polisi sy'n ymwneud â gwariant a'r rhai nad ydynt yn ymwneud â gwariant a buddsoddiadau strategol i ddenu, angori a thyfu cadwyni gweithgynhyrchu a chyflenwi i gefnogi ffyniant bro. Bydd BEIS yn gweithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig, arweinwyr lleol, diwydiant, y byd academaidd a sefydliadau ledled y DU i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i bob gweithgynhyrchydd gael budd o holl bolisïau a rhaglenni'r llywodraeth, gan gynnwys y rhai a nodir yn y Strategaeth Arloesedd a'r Strategaeth Sero Net sy'n cefnogi twf, cynhyrchiant a phontio i Sero Net.

## Blwch 3.5 Ffyniant Bro a phontio i Sero Net

Bydd y broses o bontio i Sero Net yn cael effaith sylweddol ar ddaearyddiaeth economaidd y DU. Mae allyriadau y pen wedi'u crynhoi'n rhanbarthol yn yr ardaloedd sy'n gartref i'r sectorau diwydiannol sy'n cynhyrchu'r allyriadau mwyaf, sy'n cynnwys rhai o ardaloedd y DU sydd â'r cynhyrchiant isaf.

Bydd canolfannau diwydiannol yn cael budd o gyfleoedd cyflogaeth ac allforio a grëir gan y broses o bontio i Sero Net. Mae llawer yn adeiladu ar dreftadaeth gyfoethog o weithgynhyrchu a pheirianneg ac mae cyfleoedd ar gyfer synergeddau rhwng gwahanol dechnolegau a diwydiannau gwyrdd yn cynnig sylfaen gadarn i glystyrau sy'n seiliedig ar le ddatblygu.

Yn 2020, nododd Llywodraeth y DU ei **Chynllun Deg Pwynt ar gyfer Chwyldro Diwydiannol Gwyrdd**, gan ddefnyddio buddsoddiad gwerth £12bn gan y llywodraeth i greu'r amodau i'r sector preifat fuddsoddi mewn diwydiannau a swyddi gwyrdd newydd. Ers cyhoeddi'r Cynllun Deg Pwynt, mae Llywodraeth y DU wedi gwneud buddsoddiad cyfalaf cyhoeddus gwerth £26bn mewn Sero Net, sydd, yn ei dro, wedi denu buddsoddiad gwerth mwy na £5.8bn o dramor mewn prosiectau gwyrdd.[385] Mae tua 45,000 o swyddi eisoes wedi cael eu creu.

Y llynedd, cyhoeddodd Llywodraeth y DU amrywiaeth o strategaethau sectoraidd hefyd, gan gynnwys y Strategaeth Sero Net, sy'n amlinellu mesurau i gefnogi hyd at 190,000 o swyddi erbyn 2025 a 440,000 erbyn 2030 drwy ddenu buddsoddiad preifat ychwanegol gwerth £90bn.[386] Mae polisïau eraill a chyllid a gyhoeddwyd drwy'r Strategaeth Sero Net yn creu cyfleoedd ledled y DU, gan gynnwys y canlynol:

- **Dal, Defnyddio a Storio Carbon**: £1bn o gyllid i gefnogi buddsoddiad newydd ym maes Dal, Defnyddio a Storio Carbon mewn pedwar clwstwr diwydiannol neu "archleoedd". Cyhoeddodd y Strategaeth Sero Net y ddau glwstwr cyntaf yng ngogledd-orllewin Lloegr/gogledd Cymru ac yn Teesside/Humberside, a bydd Llywodraeth y DU yn parhau i ymgysylltu â'r clwstwr yn yr Alban fel un wrth gefn. Bydd y clystyrau hyn sydd wedi'u galluogi gan brosesau dal, defnyddio a storio carbon yn fan cychwyn i ddiwydiant dal carbon newydd, a allai gynnal hyd at 50,000 o swyddi yn y DU erbyn 2030.[387]
- **Hydrogen**: cyflawni uchelgais 5GW y DU ar gyfer y gallu i gynhyrchu hydrogen a datblygu economi hydrogen y DU, a allai gynnal dros 9,000 o swyddi yn 2030.[388] Bydd cyhoeddiadau diweddar am brosiectau hydrogen, fel Hwb Hydrogen Caergybi, yn cefnogi swyddi a buddsoddiad ledled y DU ac yn y cadarnleoedd diwydiannol.
- **Modurol**: bydd buddsoddiad ym mhroses sector modurol y DU i newid i gerbydau di-allyriadau yn cefnogi 149,000 o swyddi presennol mewn ardaloedd megis gogledd-ddwyrain a gogledd-orllewin Lloegr, gan gynnwys drwy greu Hwb Cerbydau Trydan Gogledd-ddwyrain Lloegr, sy'n cefnogi tua 6,200 o swyddi a gigaffatri Britishvolt, sy'n cefnogi tua 8,000 o swyddi, yn ôl yr amcangyfrif.

385 Llywodraeth Ei Mawrhydi. *Prime Minister's Ten Point Plan kickstarts green investment boom*. 2021.
386 Llywodraeth Ei Mawrhydi. *Net Zero Strategy: Build Back Greener*. 2018.
387 BEIS. *Energy Innovation Needs Assessment*. Vivid Economics. 2019.
388 Daw'r ffigurau o'r canlynol: Llywodraeth Ei Mawrhydi. *UK Hydrogen Strategy (Awst 2021)*. 2021.

- **Gwynt ar y Môr**: mae cymorth i'r sector gwynt ar y môr yn creu cyfleoedd mawr mewn cymunedau arfordirol ledled y DU. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ymrwymodd Llywodraeth y DU i ddarparu hyd at £95m i helpu i adeiladu porthladdoedd gwynt ar y môr newydd ar Humber a Teesside, gan gefnogi cyfres o fuddsoddiadau mewn cyfleusterau cynhyrchu ar gyfer cydrannau tyrbinau gwynt ar y môr gwerth tua £1.6bn a chreu a diogelu hyd at 4,100 o swyddi ledled y DU.
- **Niwclear**: lle mae cymorth Llywodraeth y DU yn helpu i greu cyfleoedd sylweddol y tu allan i Lundain. Darparodd Llywodraeth y DU £30m yn 2020 ar gyfer tri phrosiect Adweithydd Modiwlaidd Datblygedig yn Swydd Rydychen, Swydd Gaerhirfryn a Swydd Gaer, a £210m yn 2021 ar gyfer Rolls Royce-SMR, yn Derby, fel rhan o'r Gronfa Niwclear Datblygedig. Yn Adolygiad o Wariant 2021, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'n darparu £1.7bn i baratoi o leiaf un safle ynni niwclear mawr arall yn barod ar gyfer y penderfyniad terfynol yn ystod tymor y Senedd hon, yn amodol ar werth am arian a chymeradwyaethau perthnasol.
- **Trafnidiaeth gyhoeddus werdd**: yn ogystal â'r Cynllun Rheilffyrdd Integredig gwerth £96bn, mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ddarparu £3bn yn ystod tymor y Senedd hon i gefnogi a gwella gwasanaethau bysiau yn Lloegr a chyflwyno bysiau di-allyriadau newydd.[389]
- **Datgarboneiddio adeiladau**: mae £3.9bn yn cael ei fuddsoddi i wneud adeiladau'n fwy ynni effeithlon a symud i wres carbon isel. Drwy uwchraddio ein cartrefi a'n gweithleoedd gellid creu cyfleoedd newydd yn gyflym a chefnogi dros 240,000 o swyddi carbon isel yn y sector erbyn 2035 – o weithgynhyrchu i osod ac o fodelu i reoli prosiect – fel rhan o adferiad gwyrdd, a hefyd leihau biliau ynni a darparu cartrefi a gweithleoedd gwell, gwyrddach ac iachach ar yr un pryd.[390]

## 3.2.2 Erbyn 2030, bydd lefel y buddsoddiad cyhoeddus domestig mewn ymchwil a datblygu y tu hwnt i ardal De-ddwyrain Fwyaf Lloegr yn cynyddu 40% o leiaf, a thros gyfnod yr Adolygiad o Wariant bydd yn cynyddu traean o leiaf. Bydd y cyllid ychwanegol hwn gan y llywodraeth yn ceisio sicrhau bod o leiaf ddwywaith gymaint o fuddsoddi yn y sector preifat dros yr hirdymor er mwyn ysgogi arloesedd a sicrhau twf o ran cynhyrchiant.

Mae'r genhadaeth hon yn canolbwyntio ar ymchwil a datblygu ac arloesedd.

### Ymchwil a datblygu ac arloesedd

#### *Yr achos dros weithredu*

Mae ymchwil a datblygu yn allweddol i gronni cyfalaf, arloesi mewn busnesau a gwella cynhyrchiant. Ond mae dosbarthiad gwariant gros ar ymchwil a datblygu yn anghyfartal ledled y DU ar hyn o bryd, gyda 54% yn cael ei wario yn Llundain a de-ddwyrain a dwyrain Lloegr.[391] Mae'r gyfran hon wedi cynyddu tua 1 pwynt canrannol y flwyddyn ers 2017.

Mae asedau o'r radd flaenaf ym maes ymchwil ac arloesedd yn ardal De-ddwyrain Fwyaf Lloegr, ac mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i'w llwyddiant parhaus, fel prif ysgogydd cynhyrchiant a ffyniant yn y dyfodol. Mae Llywodraeth y DU hefyd yn benderfynol o gynyddu adnoddau ymchwil ac

389 Yr Adran Drafnidiaeth. *Bus Back Better*. tud. 13. 2021.

390 Fel y nodwyd yn y Papur Gwyn ar Ynni a'r Cynllun Deg Pwynt, yn seiliedig ar ddadansoddiad BEIS: BEIS. Energy *Innovation Needs Assessment*. Vivid Economics. 2019.

391 Eurostat. *NUTS2 GERD as a percentage of GDP (R&D intensity)*. Cyrchwyd: Ionawr 2022.

arloesedd ledled y DU, gyda thystiolaeth yn dangos y gall targedu ardaloedd lle mae buddsoddiad yn is ar hyn o bryd sicrhau gwell enillion,[392] gyda mwy o hwb i GYG y tu allan i ardal De-ddwyrain Fwyaf Lloegr a CDG cenedlaethol.[393]

Mae llawer o glystyrau arloesedd mawr eu potensial ym mhob rhan o'r DU eisoes, fel y trafodwyd ym Mhenodau 1 a 2: arloesedd mewn iechyd a deunyddiau uwch ym Manceinion Fwyaf; technoleg ariannol yn yr Alban; seiberddiogelwch yng Ngogledd Iwerddon; awyrofod a lled-ddargludyddion cyfansawdd ym Mhorth y Gorllewin; ynni adnewyddadwy ar y môr yng ngogledd-ddwyrain Lloegr; a thechnoleg trafnidiaeth y dyfodol yng ngorllewin Canolbarth Lloegr. Ond gellid ehangu ar y rhain a'u cefnogi ymhellach, a datblygu clystyrau newydd.

### *Y rhaglen bolisi*

Uchelgais Llywodraeth y DU yw sicrhau bod y DU yn hwb arloesedd byd-eang erbyn 2035 ac yn bŵer mawr ym maes gwyddoniaeth. Mae hyn yn adeiladu ar gryfderau ymchwil ac arloesedd hirsefydlog o'r radd flaenaf. Ac mae Llywodraeth y DU eisoes yn cefnogi prifysgolion, Sefydliadau Ymchwil y Sector Cyhoeddus, a rhwydwaith o naw Catapwlt sy'n cwmpasu mwy na 40 o leoliadau ledled y DU. Ond mae rhagor i'w wneud. Mae Llywodraeth y DU wrthi'n gweithredu'r cynlluniau a nodwyd yn y **Map Ffordd Ymchwil a Datblygu** a'r **Strategaeth Arloesedd** ar gyfer gwyddoniaeth, ymchwil ac arloesedd yn y DU.[394] Hefyd, amlinellodd yr **Adolygiad Integredig** ddull newydd o gynyddu pŵer gwyddoniaeth a thechnoleg y DU er mwyn sicrhau mantais strategol.[395]

> **“Uchelgais Llywodraeth y DU yw sicrhau bod y DU yn hwb arloesedd byd-eang erbyn 2035 ac yn bŵer mawr ym maes gwyddoniaeth”**



392 NIESR. *From Ideas to Growth: Understanding the drivers of innovation and productivity across firms, regions and industries in the UK*. 2021.

393 BEIS & Cambridge Econometrics. *Macroeconomic modelling of the 2.4% target*. 2020.

394 BEIS. *UK Research & Development Roadmap*. 2020.; BEIS. *UK Innovation Strategy: leading the future by creating it*. 2021.

395 Swyddfa'r Cabinet. *Global Britain in a Competitive Age: the Integrated Review of Security, Defence, Development and Foreign Policy*. 2021.

## Blwch 3.6 Buddsoddiad mewn ymchwil a datblygu ledled y DU

Bydd BEIS yn buddsoddi mewn prosiectau ymchwil a datblygu sylweddol ledled y DU dros gyfnod Adolygiad o Wariant 2021. Mewn meysydd fel ymchwil a datblygu Sero Net, mae BEIS yn disgwyl y caiff **o leiaf £7 o bob £10 y mae'n ei fuddsoddi ei fuddsoddi y tu allan i ardal De-ddwyrain Fwyaf Lloegr.**[396] Bydd yr holl fuddsoddiadau mewn ymchwil a datblygu yn adeiladu ar ganolfannau arbenigol ac yn helpu i greu twf a swyddi da ym mhob cwr o'r wlad. Mae'r rhain yn cynnwys:

a. Canolfan Genedlaethol newydd Hartree ar gyfer Arloesedd Digidol, yn Swydd Gaer, sef menter gydweithredol gwerth £210m ag IBM. Bydd yn cefnogi busnesau yn y DU a'r sector cyhoeddus drwy leihau'r risg o archwilio a mabwysiadu technolegau digidol newydd arloesol, megis deallusrwydd artiffisial a chyfrifiaduro cwantwm;

b. nifer o brosiectau a arweinir gan ddiwydiant i helpu i gynyddu galluoedd hedfan drwy'r gofod, gan gynnwys £31.5m o gyllid Llywodraeth y DU i helpu i sefydlu gwasanaethau lansio o'r Alban a hyd at £7.35m fel rhan o £20m o gyllid Llywodraeth y DU a llywodraeth leol i gefnogi gweithgarwch lansio o Spaceport Cornwall;

c. y Ganolfan Gyriant Uwch, a fydd yn buddsoddi bron £16m mewn consortiwm sy'n datblygu systemau gyriant trydan ar gyfer cerbydau nwyddau trwm yng Nghwmbrân, Cymru a Chaeredin, yr Alban drwy brosiect EPIC; a

d. £33m drwy'r rhaglen Gyrru'r Chwyldro Trydan draws-sector ar gyfer Canolfannau Diwydiannu Peiriannau a Gyriannau Electroneg Pŵer (PEMD) yn Newcastle/Sunderland, Strathclyde, Nottingham/Warwick a Chasnewydd (de Cymru) – mae'r cyfleusterau mynediad agored hyn yn cefnogi gwaith dylunio o'r radd flaenaf, arloesi mewn prosesau gweithgynhyrchu, adnoddau profi a dilysu, ac maent yn gweithio gyda phartneriaid diwydiannol i ddatblygu cadwyn gyflenwi'r DU, gan gyflwyno atebion PEMD i farchnadoedd byd-eang yn gyflymach.

Fel y nodwyd yn y Strategaeth Ddiwydiannol Amddiffyn a Diogelwch, bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn gwario mwy ar ymchwil a datblygu ledled y DU ac yn gyflymach, gan gynnwys £17.5m i ddatblygu technoleg chwilio araeau â sganio electronig, a gweithio gyda diwydiant yng ngogledd-ddwyrain Lloegr a'r Alban, a phrosiect gwerth £9.1m a arweinir gan Ogledd Iwerddon i ddatblygu arfau cymhleth tirol a phensaernïaeth systemau gyffredin. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi buddsoddi £1bn ym Menter Technoleg System Awyr Ymladd y Dyfodol, gyda £1bn arall yn yr arfaeth. Mae System Awyr Ymladd y Dyfodol hefyd yn helpu hybiau rhanbarthol i ddatblygu technolegau gweithgynhyrchu uwch sydd hefyd yn allweddol i wireddu Industry 4.0.

> **“Bydd angen i Lywodraeth y DU gefnogi twf mannau lle ceir gweithgarwch ymchwil a datblygu ledled y DU”**

Fel rhan o Adolygiad o Wariant 2021, ymrwymwyd i gynyddu gwariant cyhoeddus ar ymchwil a datblygu i £20bn erbyn 2024-25, gan wneud cynnydd sylweddol tuag at uchelgais Llywodraeth y DU o wariant o £22bn erbyn 2026-27 a thuag at y targed ar gyfer yr economi gyfan o fuddsoddi 2.4% o CDG mewn ymchwil a datblygu erbyn 2027. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi ymrwymo i sicrhau bod cyfran uwch o gyllid cyhoeddus yn cael ei buddsoddi y tu allan i Lundain, de-ddwyrain a dwyrain Lloegr.

Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen i Lywodraeth y DU gefnogi mannau lle ceir gweithgarwch ymchwil a datblygu ledled y DU, gan gynnwys drwy feithrin mwy o gydweithio rhwng cyllidwyr cenedlaethol, arweinyddiaeth leol, y sector preifat a sefydliadau ymchwil o safon uchel. Mae hefyd yn gofyn am fwy o ffocws ar arloesedd ochr yn ochr ag ymchwil, a gaiff ei gefnogi gan gynnydd o 36% mewn termau real yng nghyllid craidd blynyddol Innovate UK rhwng 2021-22 a 2024-25, sy'n gwneud cyfanswm arian parod o £2.5bn o leiaf dros gyfnod Adolygiad o Wariant 2021.

Er bod rhywfaint o wybodaeth eisoes yn cael ei chasglu a'i chyhoeddi, mae bylchau sylweddol mewn tystiolaeth ar hyn o bryd sy'n atal y rhai sy'n llunio polisïau rhag olrhain a mesur ble mae cyllid cyhoeddus ar gyfer ymchwil a datblygu yn cael ei wario. Bydd Llywodraeth y DU yn gofyn i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) a Swyddfa Llywodraeth y DU dros Wyddoniaeth

396 Amcangyfrifon gan ddadansoddwyr BEIS.

weithio gyda'r holl adrannau i gasglu a chyhoeddi data is-genedlaethol ar eu gwariant ar ymchwil a datblygu.

Caiff y data newydd hyn eu defnyddio i bennu targedau ymchwil a datblygu gofodol adrannol penodol ar gyfer BEIS, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yr Adran Drafnidiaeth ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra). Bydd y rhain yn helpu i sicrhau bod Llywodraeth y DU yn cyflawni'r ymrwymiad yn Adolygiad o Wariant 2021 y caiff cyfran gynyddol o'r cyllid ychwanegol ei buddsoddi y tu allan i Lundain a de-ddwyrain a dwyrain Lloegr. Bydd Llywodraeth y DU yn pennu'r targedau mwyaf priodol a sut y bydd adrannau yn eu cyflawni.

Mae'r ymrwymiadau isod yn gamau cyntaf tuag at gynyddu buddsoddiad mewn ymchwil a datblygu y tu allan i ardal De-ddwyrain Fwyaf Lloegr.

Bydd ffyniant bro yn un o amcanion strategaeth fuddsoddi ymchwil a datblygu **BEIS** er mwyn sicrhau bod ei setliad o £39.8bn rhwng 2022-23 a 2024-25 yn hybu gweithgarwch ymchwil a datblygu a thwf economaidd ledled y DU. Bydd hyn yn cynnwys manteisio i'r eithaf ar ei phortffolio o fuddsoddiadau, o Ymchwil ac Arloesi yn y DU i raglenni sectoraidd a buddsoddiadau Sero Net, er mwyn cefnogi ymchwil ac arloesedd y tu allan i ardal De-ddwyrain Fwyaf Lloegr. **Bydd BEIS yn anelu at fuddsoddi o leiaf 55% o'i chyllid ymchwil a datblygu y tu allan i ardal De-ddwyrain Fwyaf Lloegr erbyn 2024-25**. Mae hyn yn cwmpasu cyllid domestig ar gyfer ymchwil a datblygu, gan gynnwys cyllid Ymchwil ac Arloesi yn y DU, cystadlaethau cyllid ymchwil a datblygu eraill BEIS, rhaglenni ymchwil a datblygu diwydiant a gwariant seilwaith ymchwil a datblygu. Bydd hyn yn cyd-symud â'r hyn a nodwyd yn y Strategaeth Arloesedd i roi mwy o fesurau wedi'u targedu ar waith sy'n rhyddhau buddsoddiad preifat ac yn ymateb i anghenion lleoedd gwahanol. Er mwyn gwireddu'r uchelgais hon, bydd BEIS yn cymryd nifer o gamau penodol.

- Ystyried ffyniant bro wrth wneud penderfyniadau buddsoddi ar seilwaith a chyfleusterau ymchwil a datblygu. Mae'r adolygiad annibynnol o Dirwedd Sefydliadol Ymchwil, Datblygu ac Arloesedd y DU, a arweinir gan Syr Paul Nurse, wrthi'n ystyried bylchau neu anghyfartaleddau yn y cyfuniad presennol o sefydliadau sy'n ymgymryd ag ymchwil a datblygu yn y DU. Fel un o ymrwymiadau allweddol y Strategaeth Arloesedd, bydd yr adolygiad yn nodi sut mae ymchwil a datblygu yn sbarduno gweithgarwch economaidd a budd cymdeithasol ledled y DU, yng nghyd-destun yr agenda i fod yn bŵer mawr ym maes gwyddoniaeth a'r agenda i sicrhau ffyniant bro.
- Rhoi amcan sefydliadol newydd i Ymchwil ac Arloesi yn y DU, sef *"Deliver economic, social, and cultural benefits from research and innovation to all of our citizens, including by developing research and innovation strengths across the UK in support of levelling up"*, a rhoi mwy o ystyriaeth i feini prawf ac effaith twf lleol wrth ddylunio cronfeydd ymchwil a datblygu.
- Teilwra cymorth at gryfderau ymchwil a datblygu lleoedd gwahanol a datblygu polisïau mewn partneriaeth â llywodraeth leol, busnesau a sefydliadau ymchwil a datblygu, sydd wedi'u llywio gan argymhellion y Grŵp Cynghori ar Leoedd Ymchwil a Datblygu.

Ymdrech gan y DU gyfan yw ymchwil a datblygu, ac felly bydd BEIS hefyd yn cynnull cyfarfod ddwywaith y flwyddyn rhwng Gweinidog Gwyddoniaeth y DU a'r priod Weinidogion yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon i gefnogi cydberthnasau gwaith agos ymhellach a sicrhau canlyniadau buddiol i bawb.

Yn ogystal â'r mesurau ehangach hyn, bydd BEIS yn buddsoddi £100m rhwng 2022-23 a 2024-25 i dreialu **tri Sbardunwr Arloesedd newydd**. Bydd y rhain yn canolbwyntio ar Fanceinion Fwyaf, gorllewin Canolbarth Lloegr a Dinas-Ranbarth Glasgow. Mae'r pob un o'r tri wedi cael eu dewis ar gyfer y cynllun peilot hwn oherwydd eu cryfderau ymchwil a datblygu, eu trefniadau

**"Bydd BEIS yn buddsoddi £100m rhwng 2022-23 a 2024-25 i dreialu tri Sbardunwr Arloesedd newydd"**

llywodraethu arloesedd preifat a chyhoeddus, ac arweinyddiaeth leol gref. Maent hefyd yn cynnwys ardaloedd economaidd gadarn ac amddifadedd cymharol, sy'n eu gwneud yn ddelfrydol ar gyfer y cynlluniau peilot. Bydd y Sbardunwyr Arloesedd yn adeiladu ar gryfderau ymchwil a datblygu pob ardal – o arloesedd ym maes iechyd a deunyddiau uwch ym Manceinion Fwyaf, i ddyfodol symudedd ac iechyd poblogaeth a lywir gan ddata yng ngorllewin Canolbarth Lloegr ac i'r Ardal Arloesedd Gweithgynhyrchu Uwch yn Glasgow.

Bydd Sbardunwyr Arloesedd yn datblygu clystyrau arloesedd yn y DU, gan hybu twf economaidd drwy fuddsoddi mewn cynhyrchion o ansawdd uchel i ddatblygu cryfderau ymchwil a datblygu, denu buddsoddiad preifat, hybu'r broses o ledaenu arloesedd a sicrhau bod sefydliadau ymchwil a datblygu yn cael yr effaith economaidd gyfunol fwyaf bosibl. Byddant yn grymuso ardaloedd lleol drwy ddwyn llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol a sefydliadau ymchwil a datblygu ynghyd mewn partneriaeth hirdymor. Fel rhan o bob Sbardunwr, bydd consortia lleol yn datblygu cynllun ac yn nodi prosiectau trawsnewidiol i helpu i'w hecosystem arloesedd dyfu. Gall hyn hefyd gynnwys gweithio gyda phartneriaid y tu allan i'r ardal ei hun fel y bo angen. Byddant yn cael cymorth pwrpasol gan Lywodraeth y DU, a arweinir gan BEIS mewn partneriaeth ag adrannau eraill a'u timau rhanbarthol – o'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau i'r Adran Masnach Ryngwladol a Swyddfa'r Alban. Bydd BEIS yn gweithio gyda'r lleoedd peilot ac adrannau llywodraeth ganolog i ddylunio'r cymorth hwn, er mwyn iddo gyd-fynd â nodweddion ac anghenion pob lle peilot unigol.

Caiff Sbardunwyr Arloesedd eu gweinyddu o ddydd i ddydd gan Ymchwil ac Arloesi yn y DU ac Innovate UK, a chaiff cyllid ei ddarparu drwy broses a oruchwylir gan BEIS ac Ymchwil ac Arloesi yn y DU. Bydd Llywodraeth y DU yn gweithio'n agos gyda phartneriaid lleol a Llywodraeth yr Alban ar y gwaith o ddylunio a chyflwyno Sbardunwr Arloesedd Dinas-Ranbarth Glasgow, gan gynnwys adeiladu ar Strategaeth Economaidd newydd y dinas-ranbarth a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021. Bydd Ymchwil ac Arloesi yn y DU a chyllidwyr ymchwil a datblygu eraill yn parhau i weithio gyda lleoedd nad ydynt wedi cael eu dewis ar gyfer y cynllun peilot hwn fel rhan o genhadaeth ymchwil a datblygu 2030 i gynyddu buddsoddiad mewn ymchwil a datblygu y tu allan i ardal De-ddwyrain Fwyaf Lloegr. Bydd BEIS yn ystyried cyflwyno'r model i eraill ar ôl y cynllun peilot tair blynedd hwn os bydd yn llwyddiannus. Bydd Sbardunwyr Arloesedd yn ategu gwaith arall ac yn adeiladu arno, gan gynnwys buddsoddi £200m dros y tair blynedd nesaf mewn 12 o brosiectau ledled y DU drwy raglen Cronfa Cryfder mewn Lleoedd sy'n mynd rhagddi.

Bydd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn parhau i flaenoriaethu ymchwil lle mae'r angen a'r cyfle mwyaf. Bydd y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd yn dod ag ymchwil glinigol a chymhwysol i ardaloedd a chymunedau yn Lloegr nad ydynt wedi'u gwasanaethu'n ddigonol ac sydd ag anghenion iechyd mawr er mwyn lleihau anghyfartaleddau iechyd. Bydd yn gweithio ochr yn ochr â sefydliadau eraill sydd â'r nod o gryfhau ymchwil iechyd yn y DU. Er mwyn cyflawni hyn, bydd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn:

a. ymrwymo i sicrhau y bydd lefelau cynyddol o fuddsoddi y tu allan i Lundain, Rhydychen a Chaergrawnt yn ystod y cyfnod cytundebol newydd ar gyfer **canolfannau Ymchwil Fiofeddygol y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd**, gydag o leiaf £30m o gyllid ychwanegol dros bum mlynedd yn cael ei roi i bartneriaethau rhwng y GIG a phrifysgolion;
b. **adolygu fformiwla gyllido Rhwydwaith Ymchwil Glinigol y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd** er mwyn cynyddu lefelau cyllido y tu allan i ardal De-ddwyrain Fwyaf Lloegr, gan gefnogi mwy o astudiaethau a chanran uwch o gleifion yn cael eu recriwtio mewn cymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol ledled y DU; ac

c. ymrwymo i sicrhau y bydd **o leiaf 50% o'r cyllid yn cael ei roi i Sefydliadau'r GIG y tu allan i Lundain, Rhydychen a Chaergrawnt** yn ystod y cyfnod cytundebol newydd ar gyfer Cyfleusterau Ymchwil Glinigol y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd (yn dechrau ym mis Medi 2022), o gymharu â 45% ar gyfer y cyfnod cytundebol presennol.

Bydd yr **Adran Drafnidiaeth** yn defnyddio ei setliad ymchwil a datblygu gwerth £299m ar gyfer datgarboneiddio trafnidiaeth i dreialu dulliau di-allyriadau o gludo llwythi ar y ffordd, buddsoddi er mwyn lleihau allyriadau morol mewn porthladdoedd mawr a'u cyffiniau a denu buddsoddiad preifat mewn cynlluniau trafnidiaeth wedi'i datgarboneiddio ledled y DU. Bydd yn sicrhau bod y buddsoddiad hwn yn datblygu cryfderau ymchwil a datblygu ac yn fuddiol i bob rhan o'r DU, gan gynnwys Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Bydd **Defra** yn gwario £75m ar ymchwil a datblygu sy'n ymwneud â Sero Net yn sectorau Defra yn ystod y tair blynedd nesaf, a £140m dros dair blynedd i ddatblygu'r Asesiad o Gyfalaf Naturiol ac Ecosystemau, yn ychwanegol at y Rhaglen Arloesedd Ffermio bresennol. Caiff y rhain eu comisiynu drwy broses gystadleuol i ymchwilwyr sydd wedi'u lleol ledled y DU. Mae hefyd wedi cyhoeddi y bydd hyd at £24m yn cael ei wario ar elfen gwyddoniaeth ac arloesedd Cronfa Bwyd Môr y DU. Caiff hyn ei rannu rhwng dau gynllun: y Gronfa Arloesi Bwyd Môr ar gyfer busnesau pysgota ledled y DU er mwyn datblygu technoleg a threialu cyfarpar newydd, a chynllun Partneriaeth Wyddoniaeth y Diwydiant Pysgodfeydd er mwyn cefnogi ymchwil o'r radd flaenaf i wella cynhyrchiant a chynaliadwyedd hirdymor y diwydiant.

Bydd y **Weinyddiaeth Amddiffyn** yn parhau i gynyddu ei gwariant y tu allan i ardal De-ddwyrain Fwyaf Lloegr, gan gynnwys drwy weithredu'r Strategaeth Ddiwydiannol Amddiffyn a Diogelwch, y manylir arni isod.

- Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn ehangu **ôl troed rhanbarthol y Labordy Gwyddoniaeth a Thechnoleg Amddiffyn**. Bydd y Labordy Gwyddoniaeth a Thechnoleg Amddiffyn yn lansio Hwb Arbrofi Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn Newcastle, a fydd yn arbenigo mewn deallusrwydd artiffisial a gwyddor data, yn ystod gwanwyn 2022. Bydd hyn yn cryfhau'r dalent sydd ar gael a chysylltiadau â busnesau lleol a rhagoriaeth academaidd. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn hefyd yn ystyried opsiynau ar gyfer hybiau rhanbarthol yn y dyfodol, gan gynnwys yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae tîm yn ymchwilio i ddichonoldeb lleoliad lloeren yn yr Alban, sy'n canolbwyntio ar Ofod, Ffotoneg a Chwantwm.
- Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn cynyddu **amrywiaeth ddaearyddol ei Hymchwil Allanol**, er mwyn defnyddio sgiliau arbenigol ym mhob rhan o'r DU. Caiff hyn ei gyflawni drwy bennu targed i gynyddu cyfran y contractau ar gyfer ymchwil allanol y mae Prif Gynghorydd Gwyddonol y Weinyddiaeth Amddiffyn yn eu rhoi y tu allan i ardal De-ddwyrain Fwyaf Lloegr.

> **“Bydd y Labordy Gwyddoniaeth a Thechnoleg Amddiffyn yn lansio Hwb Arbrofi Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn Newcastle”**



- Bydd y Sbardunwr Amddiffyn a Diogelwch yn hyrwyddo twf drwy Gronfa Partneriaethau Rhanbarthol gwerth £3.1m dros bedair blynedd i dargedu arloeswyr rhanbarthol. Mae'n ceisio denu ecwiti rhanbarthol drwy ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gyllid gan Bartneriaethau Rhanbarthol sicrhau 50% o arian cyfatebol drwy fuddsoddiad rhanbarthol. Mae'r gronfa yn gweithio ym mhob un o ardaloedd daearyddol y DU, gan gynnwys Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae rhwydwaith o 12 o Bartneriaid Arloesedd wedi'u lleoli'n rhanbarthol ledled Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd Clystyrau Amddiffyn a Diogelwch Rhanbarthol yn rhwydwaith ffisegol a rhithwir sy'n dwyn diwydiant a'r llywodraeth ynghyd i rannu heriau a syniadau er mwyn hyrwyddo cydweithio a masnacheiddio. Mae'r Clwstwr Amddiffyn a Diogelwch Rhanbarthol cychwynnol yn ne-ddwyrain Lloegr eisoes yn profi'n llwyddiannus, gyda 140 o aelod-sefydliadau (y mae 45 ohonynt yn newydd ym maes amddiffyn), y mae 90 ohonynt yn BBaChau. Byddai'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn croesawu Clystyrau Amddiffyn a Diogelwch Rhanbarthol ym mhob rhanbarth ac yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon erbyn 2023.

## 3.2.3 Erbyn 2030, bydd cysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus leol ledled y wlad yn llawer agosach at safonau Llundain, gyda gwell gwasanaethau, prisiau tocynnau symlach a system docynnau integredig.

Mae'r genhadaeth hon yn canolbwyntio ar wella cysylltedd trafnidiaeth.

### Cysylltedd trafnidiaeth

#### *Yr achos dros weithredu*

Gall trafnidiaeth hybu cynhyrchiant drwy gysylltu pobl â swyddi a chysylltu busnesau â'i gilydd. Mae hefyd yn cefnogi ansawdd bywyd yn fwy cyffredinol, canlyniadau iechyd cadarnhaol a balchder lleol drwy helpu i adfywio'r stryd fawr a chanol trefi, gan helpu pobl i gynyddu eu gweithgarwch corfforol, cymdeithasu a chyrraedd siopau a gwasanaethau.

Ond mae cryn amrywio o ran ansawdd cysylltedd trafnidiaeth yn y DU, a all effeithio ar ganlyniadau economaidd a chymdeithasol, fel y trafodwyd ym Mhennod 1.[397] Nid oes gan rai o ddinasoedd mwyaf y DU drafnidiaeth gyhoeddus o ansawdd uchel i'w gwneud yn bosibl dwysáu canol dinasoedd a gwneud swyddi yn hygyrch o fewn pellter cymudo, ac mae hynny'n cyfrannu at dagfeydd a chynhyrchiant is. Yn y cyfamser, mae angen trafnidiaeth gyhoeddus dda a ffyrdd lleol o ansawdd da ar ddinasoedd llai o faint, trefi a phentrefi hefyd er mwyn sicrhau bod teithiau beunyddiol yn ddiogel ac yn gyflym.

#### *Y rhaglen bolisi*

Mae'r rhaglen bolisi yn canolbwyntio ar y canlynol:

a. trafnidiaeth leol;
b. grymuso arweinwyr lleol; ac
c. cysylltedd rhwng canolfannau economaidd.

397 Y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol. *Second National Infrastructure Assessment: Baseline Report*. 2021.

### *Trafnidiaeth leol*

Mae trafnidiaeth leol, yn enwedig bysiau, yn hollbwysig i gysylltu pobl â swyddi, addysg a chyfleoedd yn fwy cyffredinol. Er enghraifft, nid oes gan 77% o geiswyr gwaith y tu allan i Lundain fynediad rheolaidd at gar, fan na beic modur at ddefnydd personol ar gyfer gwaith neu gyfweliadau.[398]

Ers 2020, mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi'r Strategaeth Fysiau Genedlaethol a'r Cynllun Beicio a Cherdded, a ategir gan **dros £5bn o gyllid ar gyfer bysiau a theithio llesol** dros dymor y Senedd hon. Mae £3bn wedi cael ei ddyrannu ar gyfer trawsnewid gwasanaethau bysiau.

Mewn mannau lle y bydd yn cael yr effaith fwyaf, bydd Llywodraeth y DU yn ei gwneud yn bosibl i ddarparu gwasanaethau'n fwy rheolaidd a lleihau prisiau tocynnau, gyda gwasanaethau rheolaidd iawn mewn ardaloedd poblog iawn a mathau newydd o drafnidiaeth ar alw i leoedd megis parciau busnes a phentrefi gwledig, nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n dda gan lwybrau bysiau llinol. Bydd prosiect peilot yn dechrau yn y gwanwyn yng Nghernyw, sef ardal lle mae cost trafnidiaeth gyhoeddus yn dal yn rhwystr mawr sy'n atal pobl rhag ei defnyddio a manteisio arni er gwaethaf y gwelliannau sylweddol yn ansawdd gwasanaethau bysiau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Bydd Llywodraeth y DU a Chyngor Cernyw yn lansio rhwydwaith newydd o fysiau penigamp, a fydd yn helpu i ostwng prisiau tocynnau tua 30% yn ystod y cam cyntaf, o dan frand newydd Transport for Cornwall, sy'n dwyn yr holl weithredwyr bysiau a'r prif gwmni trenau GWR ynghyd.

Mewn dinasoedd, bydd **lonydd bysiau â blaenoriaeth newydd** yn sicrhau bod bysiau yn gyflymach, yn fwy dibynadwy, yn fwy atyniadol i deithwyr ac yn rhatach i'w rhedeg – gan alluogi gweithredwyr i fuddsoddi ymhellach i wella gwasanaethau a gostwng prisiau tocynnau. Mae cynlluniau yn cynnwys coridorau bysiau gwyrdd newydd yn Lerpwl a chynlluniau tramwy bysiau o safon ym Manceinion Fwyaf.

Yng **ngorllewin Canolbarth Lloegr**, mae'r Maer Andy Street yn adeiladu **system fysiau tramwy gwib** newydd "Sprint" – sef cyfuniad o fws a thram, gyda darnau hir o lwybr penodol, ar wahân – i gysylltu Maes Awyr Birmingham, Solihull a Walsall â chanol dinas Birmingham. Mae Coventry yn datblygu **system reilffordd ysgafn iawn** newydd ar gyfer y ddinas, sy'n dechrau â llwybr arddangos o Orsaf Reilffordd Coventry i Orsaf Fysiau Pool Meadow. Mae Coventry hefyd wedi cael £50m i sicrhau bod **ei holl fysiau yn rhai trydan, sef y ddinas gyntaf i wneud hynny**, gyda bron 300 o fysiau di-allyriadau newydd yn cael eu darparu dros y blynyddoedd sydd i ddod.

Caiff cynlluniau trawsnewid gwasanaethau bysiau sylweddol eu cyllido yn yr Awdurdodau Cyfun Maerol hyn a rhai eraill, gan gynnwys cynlluniau blaenoriaethu bysiau gwib mawr a gwelliannau o ran prisiau tocynnau yng **Ngorllewin Swydd Efrog** a **gorllewin Lloegr**. Y tu allan i ardaloedd Awdurdodau Cyfun Maerol, bydd Llywodraeth y DU yn cyllido cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer gwella bysiau, gwella gwasanaethau a gostwng prisiau tocynnau yn **Stoke-on-Trent, Portsmouth, Luton, Swydd Derby, Warrington** ac mewn llawer o leoedd eraill. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr o'r awdurdodau a gaiff gyllid. Caiff trafodaethau pellach eu cynnal â'r cynghorau hyn a chynghorau eraill er mwyn sicrhau eu hymrwymiad i'r gwelliannau a nodwyd yn y Strategaeth Fysiau Genedlaethol.

398 Yr Adran Drafnidiaeth. *Bus Back Better: national bus strategy for England*. 2021.

Mae dros £500m yn cael ei wario yn ystod tymor y Senedd hon ar ddarparu bysiau di-allyriadau, ynghyd â thros £440m ar gynlluniau blaenoriaethu bysiau a chynlluniau cyfalaf eraill y tu allan i ardaloedd Awdurdodau Cyfun Maerol. O ran ardaloedd Awdurdodau Cyfun Maerol, mae Setliadau Trafnidiaeth Gynaliadwy Dinas-ranbarthau gwerth £5.7bn Llywodraeth y DU yn cynnwys buddsoddiadau o tua £1bn i wella bysiau. Yn ogystal â'r symiau hyn, caiff dros £2.3bn i gyd ei dalu yn ystod tymor y Senedd hon i wella a chynnal gwasanaethau.

Caiff £360m arall ei wario ar gyflwyno **tocynnau digyswllt yn debyg i system Llundain** ar rwydweithiau cymudo rheilffyrdd rhanbarthol, gan gapio prisiau, cael gwared ar giwio wrth ffenest mannau prynu tocynnau a sicrhau y codir y pris gorau ar deithwyr bob tro.

Yn ogystal â gwelliannau i lwybrau bysiau, mae Llywodraeth y DU yn gwario dros £200m y flwyddyn hon a chyfanswm o £2bn yn ystod y tymor Seneddol hwn ar welliannau i lwybrau beicio a cherdded. Bydd llawer o'r seilwaith newydd mewn mannau lle mae angen y cyllid fwyaf, o Blyth i Falmouth. Bydd yr Asiantaeth Weithredol newydd, Active Travel England, yn gweithio gydag awdurdodau lleol ar fanylion y cynlluniau dros y misoedd sydd i ddod.

Yn olaf, mae rhwydwaith ffyrdd lleol sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda yn fath allweddol o drafnidiaeth leol. Mae Llywodraeth y DU eisoes yn darparu dros £5bn rhwng 2020 a 2025 i awdurdodau priffyrdd lleol ledled Lloegr ar gyfer gwaith cynnal a chadw priffyrdd, sy'n ddigon i lenwi miliynau o dyllau yn y ffyrdd bob blwyddyn, atgyweirio dwsinau o bontydd a rhoi arwyneb newydd ar gannoedd o ffyrdd ledled y wlad. Mae hyn yn ychwanegol at y £2.6bn i uwchraddio dros 50 o ffyrdd, megis uwchraddio ffyrdd osgoi a chyffyrdd yn Stoke, Dyfnaint a Swydd Gaerhirfryn.

### *Grymuso arweinwyr lleol*

Fel y nodwyd ym Mhennod 2, mae Llywodraeth y DU yn ymrwymedig i rymuso cyfranwyr lleol i ddatblygu atebion sy'n gweithio i'w cymunedau.

Yn Adolygiad o Wariant 2021, cyhoeddodd Llywodraeth y DU **Setliadau Trafnidiaeth Gynaliadwy Dinas-ranbarthau**, gyda phecyn buddsoddi o £5.7bn ar gyfer wyth dinas-ranbarth yn Lloegr i drawsnewid rhwydweithiau trafnidiaeth lleol drwy setliadau integredig yn debyg i setliad Llundain, sef cynnydd o 94% o gymharu â'r cyllid cyfatebol a ddarparwyd rhwng 2017-18 a 2021-22. Mae hyn yn cynnwys y canlynol[399]:

a. £830m i Orllewin Swydd Efrog ar gyfer cynlluniau megis dechrau gwaith ar system dramwy dorfol newydd;
b. £1.07bn i Fanceinion Fwyaf ar gyfer cynlluniau megis gwella bron 150km o goridorau bysiau;
c. £1.05bn i orllewin Canolbarth Lloegr ar gyfer cynlluniau megis cwblhau'r estyniad metro rhwng Wednesbury a Brierley Hill;
d. £710m i Ddinas-ranbarth Lerpwl ar gyfer cynlluniau megis arloesi mewn technoleg batris i'w gwneud yn bosibl i estyn rhwydwaith trydan Merseyrail;
e. £570m i Dde Swydd Efrog ar gyfer cynlluniau megis dechrau adnewyddu'r Supertram;
f. £310m i Tees Valley ar gyfer cynlluniau megis rhaglen o welliannau i goridorau bysiau; a

399 Mae gogledd-ddwyrain Lloegr yn gymwys i gael setliad yn amodol ar greu trefniadau llywodraethu priodol i gytuno ar gyllid a'i ddarparu.

g. £540m i orllewin Lloegr ar gyfer cynlluniau megis llwybr bysiau â blaenoriaeth lawn rhwng Bryste a Chaerfaddon.

Bydd y setliadau hyn yn debyg i'r rhai a sefydlwyd dros y ddau ddegawd diwethaf yn Llundain, gan greu model mwy datganoledig o gyllid trafnidiaeth leol a chyfuno biliynau o bunnoedd o gyllid newydd â'r cyllid presennol ar gyfer y Bloc Trafnidiaeth Integredig a'r Bloc Cynnal a Chadw Priffyrdd. Bydd hyn yn symleiddio'r trefniadau cyllido, gan roi mwy o sicrwydd ynglŷn â chyllid yn yr hirdymor a rhoi hyblygrwydd i ddinas-ranbarthau ddatblygu strategaethau hirdymor.

Mae'r setliadau hyn hefyd yn atgyfnerthu cyfrifoldeb arweinwyr lleol am drafnidiaeth leol. Bydd meiri yn paratoi eu cynlluniau yn seiliedig ar anghenion eu hardaloedd a'r cyfleoedd sydd ar gael, a byddant yn cael eu dwyn i gyfrif am eu cyflawni. Caiff y broses o gyflawni yn erbyn y canlyniadau hynny ei monitro a chaiff data eu cyhoeddi'n rheolaidd. Mae gogledd-ddwyrain Lloegr yn gymwys i gael setliad yn amodol ar greu trefniadau llywodraethu priodol i gytuno ar gyllid a'i ddarparu.

Hefyd, bydd Awdurdodau Trafnidiaeth Lleol yn ymgymryd â mwy o bwerau a chyfrifoldebau, fel y gallant gynllunio eu systemau trafnidiaeth yn fwy effeithiol. Ar gyfer ardaloedd yn Lloegr sy'n cytuno ar y cytundebau datganoli lefel uchaf sy'n cynnwys arweinwyr a etholir yn uniongyrchol, bydd Llywodraeth y DU yn darparu mwy o gymorth adnoddau wedi'i dargedu yn gynt, fel y gallant roi Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol ar waith cyn diwedd tymor y Senedd hon, yn ogystal â chynnig **setliadau integredig amlflwydd** sy'n cwmpasu ffrydiau cyllido trafnidiaeth leol craidd ar gyfer gwaith cynnal a chadw priffyrdd lleol a gwaith uwchraddio ar raddfa lai. Unwaith y bydd cynlluniau cadarn ar waith yn unol â chanllawiau'r Adran Drafnidiaeth, bydd Llywodraeth y DU yn hwyluso'r broses gyflawni drwy ystyried cyfleoedd i symleiddio ffrydiau cyllido ymhellach a lleihau'r gofynion i gystadlu am gyllid.

> **Bydd Llywodraeth y DU hefyd yn ystyried datganoli mwy o bwerau a chyfrifoldebau ym maes trafnidiaeth yn Lloegr**

Bydd Llywodraeth y DU hefyd yn **ystyried datganoli mwy o bwerau a chyfrifoldebau ym maes trafnidiaeth** yn Lloegr. Yn ardaloedd Awdurdodau Cyfun Maerol, bydd Llywodraeth y DU yn darparu pwerau cyfarwyddo newydd er mwyn rhoi mwy o reolaeth i feiri dros Rwydweithiau Llwybrau Allweddol. Bydd Llywodraeth y DU hefyd yn ystyried trosglwyddo rheolaeth dros drwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat i awdurdodau cyfun ac awdurdodau haen uwch. Mae tacsis a cherbydau hurio preifat yn rhan allweddol o systemau trafnidiaeth lleol, felly byddai hyn yn caniatáu i Awdurdodau Trafnidiaeth Lleol integreiddio'r dulliau teithio hyn yn eu Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol yn llawn.

Fel y nodwyd yn y Strategaeth Fysiau Genedlaethol, yn unol â'r broses o ddatganoli cyllid bysiau i Transport for London a Transport for Greater Manchester, bydd Llywodraeth y DU yn mynd ati i ddatganoli'r Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bysiau, gan gynnwys unwaith y bydd wedi'i ddiwygio, i Awdurdodau Cyfun Maerol ac Awdurdodau Trafnidiaeth Lleol eraill sy'n gofyn am hynny. Drwy ddatganoli'r cyllid hwn, gellir grymuso Awdurdodau Trafnidiaeth Lleol ymhellach i sbarduno gwelliannau mewn gwasanaethau bysiau lleol.

Bydd Llywodraeth y DU yn cefnogi pob Awdurdod Trafnidiaeth Lleol drwy gyhoeddi canllawiau newydd ar **Gynlluniau Trafnidiaeth Lleol**, fel y gall pob Awdurdod Trafnidiaeth Lleol gyflwyno cynlluniau wedi'u diweddaru erbyn diwedd tymor y Senedd hon, gyda llif clir o brosiectau arfaethedig a strategaethau cynhwysfawr i wella trafnidiaeth leol i bobl a lleihau allyriadau carbon. Bydd Llywodraeth y DU hefyd yn ystyried **canolfannau rhagoriaeth rhanbarthol** a all roi cymorth pwrpasol i Awdurdodau Trafnidiaeth lleol. Bydd cyllid yn y dyfodol yn dibynnu ar gyflwyno'r cynlluniau hyn ac ar berfformiad mwy cyffredinol Awdurdodau Trafnidiaeth Lleol.

> **Yn rhoi mwy o lais i awdurdodau lleol ynglŷn â sut mae eu rheilffyrdd lleol yn cael eu rhedeg drwy gytundebau partneriaeth newydd**

Fel y nodwyd yng Nghynllun Rheilffyrdd Williams-Shapps a gyhoeddwyd y llynedd, bydd Llywodraeth y DU hefyd yn defnyddio Rheilffyrdd Prydain Fawr sydd newydd ei sefydlu i roi mwy o lais i awdurdodau lleol ynglŷn â sut mae eu rheilffyrdd lleol yn cael eu rhedeg drwy gytundebau partneriaeth newydd. Yn y cyfnod cyn bod Rheilffyrdd Prydain Fawr yn weithredol, bydd Llywodraeth y DU yn comisiynu Tîm Pontio newydd ar ei gyfer er mwyn ystyried cyfleoedd i wella prosesau ymgysylltu'n lleol. Bydd hyn yn cynnwys datblygu partneriaethau olynol i'r rhai sydd eisoes yn weithredol, er mwyn iddynt gyd-fynd ag uchelgeisiau Cynllun Rheilffyrdd Williams-Shapps.

Bydd y partneriaethau hyn yn cwmpasu'r holl arlwy i deithwyr a strategaeth hirdymor ar gyfer rheilffyrdd mewn ardal leol. Yn dibynnu ar anghenion ac adnoddau gwahanol ardaloedd, gallai'r rhain gynnwys y gallu i arweinwyr lleol integreiddio prosesau tocynnau a phrisiau, rheoli gorsafoedd a phrynu gwasanaethau neu seilwaith ychwanegol i fodloni blaenoriaethau trafnidiaeth a thai lleol yn fwy effeithiol nag sy'n digwydd ar hyn o bryd, drwy ddefnyddio arian a godir yn lleol. Rheilffyrdd Prydain Fawr fydd yn gyfrifol am "lywio'r" system reilffyrdd gyfan a bydd yn ofynnol iddo ystyried effeithiau cynigion lleol ar y rhwydwaith ehangach. Bydd y cyfrifoldebau datganoledig presennol yng Nghymru, yr Alban, Glannau Mersi, Tyne and Wear a Llundain yn parhau.

### *Cysylltedd rhwng canolfannau economaidd*

Mae Llywodraeth y DU hefyd yn gwneud cryn fuddsoddiad i hyrwyddo cysylltedd rhwng canolfannau economaidd y DU, gan ganolbwyntio ar fannau lle mae cysylltedd yn wan. Mae wedi cyhoeddi cynlluniau i leihau'r Doll Teithwyr Awyr ar deithiau hedfan domestig er mwyn cefnogi cysylltedd rhwng rhanbarthau, ac wedi lansio'r Cynllun Rheilffyrdd Integredig – y buddsoddiad cyhoeddus mwyaf erioed yn rhwydwaith rheilffyrdd Prydain.

## Blwch 3.7 Y Cynllun Rheilffyrdd Integredig

Y llynedd, lansiodd Llywodraeth y DU y Cynllun Rheilffyrdd Integredig gwerth £96bn.[400] Bydd yn cyflwyno teithiau cyflymach, mwy rheolaidd a mwy dibynadwy ledled gogledd Lloegr a Chanolbarth Lloegr. Gall buddsoddi mewn cysylltedd wella cynhyrchiant a pherfformiad economaidd ym mhob un o'r rhanbarthau hyn.

O dan y cynllun, bydd Llywodraeth y DU yn darparu tair llinell reilffordd gyflym iawn newydd – gan gynnwys Rheilffordd Pwerdy'r Gogledd – a fydd yn trawsnewid cysylltiadau trafnidiaeth rhwng dwyrain a gogledd Canolbarth Lloegr, gogledd-ddwyrain a gogledd-orllewin Lloegr, Swydd Efrog, yr Alban a Chymru.

O dan y cynigion blaenorol ar gyfer HS2 a Rheilffordd Pwerdy'r Gogledd, ni fyddai nifer o leoedd ar y prif linellau presennol, megis Doncaster, Huddersfield, Newark, Wakefield, Market Harborough a Chaerlŷr, wedi gweld fawr ddim gwelliant neu byddent wedi gweld eu gwasanaethau yn gwaethygu. O dan y gwelliannau a nodwyd yn y Cynllun Rheilffyrdd Integredig, gallai'r trefi hyn a threfi eraill weld gwell gwasanaethau o ran cyrraedd cyrchfannau, trenau trydan, gwasanaethau mwy rheolaidd, mwy o seddi a/neu wasanaethau cyflymach.

O dan y cynllun, bwriedir adeiladu cyfanswm o 110 o filltiroedd ychwanegol o lwybrau cyflym iawn newydd. Ar y rhwydwaith rheilffyrdd confensiynol, bydd yn trydaneiddio 180 o filltiroedd ychwanegol ac yn uwchraddio mwy na 400 o filltiroedd gyda mwy o ddarnau o dair a phedair set o gledrau, signalau digidol, gwelliannau o ran cyflymder a chapasiti, uwchraddio llinellau pŵer a newidiadau i led cledrau rheilffyrdd cludo llwythi er mwyn mynd â miloedd o lorïau oddi ar y traffyrdd a gwelliannau i'r cledrau. Bydd y cynllun yn cyflawni dros fwy o leoedd, yn gyflymach a hyd at ddeng mlynedd yn gynt na'r cynlluniau blaenorol.

400 Yr Adran Drafnidiaeth. *Integrated Rail Plan for the North and Midlands*. 2021.

Fel rhan o Adolygiad o Wariant 2021, cyhoeddwyd bod Llywodraeth y DU yn gwario £24bn rhwng 2020 a 2025 ar gynnal a chadw a gwella'r **ffyrdd A a'r traffyrdd** prysuraf a £35bn ar HS2, gwelliannau i'r rheilffyrdd a gwaith uwchraddio arall i wella **teithiau ar y rheilffyrdd**, gan wella cysylltedd rhwng dinasoedd a threfi i hybu twf.

Mae hyn yn adeiladu ar y buddsoddiad o £15.2bn a wnaed ers 2015 drwy'r Strategaeth Fuddsoddi Ffyrdd gyntaf, ac ymrwymiadau penodol i'r rheilffyrdd, gan gynnwys £5.8m i uwchraddio Gorsaf Caerdydd Canolog (2019); £343m ar gyfer Rheilffyrdd Cymru, gan gynnwys trosglwyddo £196m i Lywodraeth Cymru ar gyfer Llinellau Craidd y Cymoedd (2020); £76m i gwblhau'r gwaith o drydaneiddio Twnnel Hafren (2020); £760m i ymgymryd â cham nesaf Rheilffyrdd Dwyrain Gorllewin rhwng Bicester a Bletchley (2021); a £58m tuag at welliannau i'r rheilffyrdd yng ngorllewin Canolbarth Lloegr i wella mynediad at swyddi a chyfleoedd yn Birmingham, Walsall a Wolverhampton (2021).

Yn ychwanegol at hyn, mae Llywodraeth y DU yn cwblhau prosiectau rheilffyrdd a ffyrdd â blaenoriaeth yn gyflymach, a all sbarduno twf economaidd lleol. Caiff trefi a adawyd ar ei hôl hi yn sgil cau rheilffyrdd, gan gynnwys y rhai a gaewyd o ganlyniad i Adroddiad Beeching yn y 1960au, eu hailgysylltu â'r rhwydwaith cenedlaethol. Mae llinell Dartmoor eisoes wedi ailagor, 24 mis yn gynnar, a bydd llinellau neu orsafoedd newydd ar gyfer llawer o leoedd eraill – er enghraifft, drwy gwblhau cynlluniau i adfer llinell Northumberland yn gynt, a fydd yn cysylltu cymunedau megis Blyth ac Ashington â chanolfannau cyflogaeth yng ngogledd-ddwyrain Lloegr, gan gynnwys gigaffatri Britishvolt.[401] Mae Llywodraeth y DU hefyd yn helpu i ddatblygu 13 o gynigion cam cynnar i adfer cysylltiadau rheilffyrdd a gollwyd, gan roi hyd at £50,000 fesul prosiect – gan gynnwys ym Manceinion Fwyaf, Dwyrain Swydd Efrog, Cymru a Dyfnaint.

Mae'r buddsoddiad mawr hwn yn cynnig cyfleoedd pwysig ar gyfer adfywio, yn enwedig o ran gorsafoedd. Mae Llywodraeth y DU eisoes wedi helpu lleoedd i wireddu'r buddiannau economaidd a chymdeithasol sy'n gysylltiedig â HS2, gan gynnwys rhoi cyllid i awdurdodau lleol ddatblygu Strategaethau Twf HS2. Eleni, bydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi Cynllun Gweithredu Twf Lleol HS2, a fydd yn nodi sut y bydd yn gweithio gyda lleoedd lle bydd gorsafoedd Cam Un a 2a er mwyn gwireddu eu huchelgeisiau ar gyfer twf lleol.

> **“Caiff trefi a adawyd ar ei hôl hi yn sgil cau rheilffyrdd, gan gynnwys y rhai a gaewyd o ganlyniad i Adroddiad Beeching yn y 1960au, eu hailgysylltu”**



401 Britishvolt. *Britishvolt hands ISG keys to start advanced enabling works on Northumberland site Sep 6*. 2021.

## Blwch 3.8 Adfywio a arweinir gan drafnidiaeth: HS2 a Birmingham

Er bod HS2 ar gam cymharol gynnar, mae'r buddiannau i Birmingham yn dechrau cael eu gwireddu eisoes.

Gorsaf Curzon Street fydd y derfynfa reilffordd gwbl newydd gyntaf yng nghanol y ddinas ers dros ganrif. Y weledigaeth yw gwneud Curzon Street yn ffocws trawsnewid, datblygu a thwf economaidd, yn ogystal â darparu cysylltiadau trafnidiaeth ymlaen effeithlon. Mae Llywodraeth y DU wedi cefnogi'r weledigaeth hon drwy ehangu Ardal Fenter Canol Dinas Birmingham.

Bydd buddiannau economaidd HS2 yn parhau i dyfu, ac mae Strategaeth Twf HS2 2021 Canolbarth Lloegr yn rhagweld y bydd yn creu 43,600 o swyddi gros a 19,600 o swyddi ychwanegol net, 2,200 o gartrefi newydd ychwanegol a £1.6bn y flwyddyn mewn GYG net yn ardal Curzon Street.[402] Mae'r Cyngor eisoes yn gwahodd cwmnïau digidol a chreadigol i gyflwyno cynigion cynllunio i ddarparu hwb creadigol ag ymdeimlad cadarn o hunaniaeth a balchder lleol dros Birmingham.

Mae'r Orsaf Gyfnewid yn Solihull, llywodraeth ganolog, llywodraeth leol a'r sector preifat yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu tua 350 erw o dir yn Arden Cross i greu lle ar gyfer arloesi, busnesau, dysgu a byw. Gyda chyllid amodol gwerth £50m gan Lywodraeth y DU, bydd y datblygiad hwn yn darparu hyd at 27,000 o swyddi newydd a 3,000 o gartrefi newydd.[403] Wrth ymyl Arden Cross, mae cynlluniau a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer campws y Ganolfan Arddangos Genedlaethol yn dangos sut y gellir ailddatblygu 70 erw o dir llwyd i greu lle preswyl, hamdden a chymunedol a swyddfeydd, gan ddarparu dros 5,000 o gartrefi newydd a 3,500 o swyddi lleol newydd.[404]

> **“Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi ymrwymo i wella cysylltedd rhwng gwledydd y DU”**

O ran ffyrdd, bydd Llywodraeth y DU yn cwblhau'r gwaith ar yr A66 yn gynt, gan sicrhau y bydd ar agor i draffig bum mlynedd yn gynt na'r cynllun gwreiddiol. Bydd Llywodraeth y DU hefyd yn parhau â'r gwaith ar yr A428, yr A417 a'r A12. Mae cyllid hefyd wedi cael ei gadarnhau ar gyfer gwaith cynnal a chadw mawr, a fydd yn dechrau ar Draphont Tame Valley eleni, sef cyswllt pwysig rhwng yr M6 a chanol dinas Birmingham.

Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi ymrwymo i wella cysylltedd rhwng gwledydd y DU. Y llynedd, gofynnodd Llywodraeth y DU i Syr Peter Hendy gynnal **Adolygiad annibynnol o Gysylltedd yr Undeb**. Fe'i cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2021 a gwnaeth 19 o argymhellion a oedd yn rhychwantu pob dull teithio ledled y DU. Bydd Llywodraeth y DU yn ymateb yn ffurfiol i'r adolygiad eleni a bydd hefyd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i sicrhau gwelliannau i gysylltedd trafnidiaeth, gan gynnwys drwy wella prosesau rhannu data a gwybodaeth, lle mae trafodaethau eisoes wedi dechrau drwy'r Grŵp Rhyngweinidogol.

402 Awdurdod Cyfun Gorllewin Canolbarth Lloegr. *Midlands HS2 Growth Strategy 2021: The Defining Decade – The Midlands high speed path to recovery*. 2021.

403 Arden-Cross. *THE MASTERPLAN.* 2020.

404 Arden-Cross. *NEC unveils plan to create 5,000 new homes and 3,500 jobs through redevelopment of NEC campus in Birmingham*. 2020.

## 3.2.4 Erbyn 2030, bydd gan y DU fand eang a all drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit a signal 4G yn genedlaethol, a bydd gan y mwyafrif o'r boblogaeth signal 5G[405]

Mae'r genhadaeth hon yn canolbwyntio ar wella cysylltedd digidol.

### Cysylltedd digidol

#### *Yr achos dros weithredu*

Dangosodd pandemig COVID-19 pa mor bwysig yw seilwaith digidol i bob rhan o gymdeithas, o sicrhau parhad busnes i leihau ynysigrwydd. Gallai gwell cysylltedd digidol sbarduno twf a chynhyrchiant ledled y DU ac ehangu cyfleoedd swyddi drwy weithio o bell. Fodd bynnag, mae cryn dipyn o anghyfartaleddau gofodol o ran ansawdd rhwydweithiau band eang a symudol, gydag ardaloedd gwledig yn debygol o brofi cysylltedd digidol gwaeth nag ardaloedd trefol. Dim ond rhan o'r darlun yw seilwaith: dim ond os bydd gan fusnesau a gweithwyr y sgiliau i fanteisio ar seilwaith gwell y caiff buddiannau economaidd eu gwireddu.

> **Dangosodd pandemig COVID-19 pa mor bwysig yw seilwaith digidol i bob rhan o gymdeithas, o sicrhau parhad busnes i leihau ynysigrwydd**

Yn fwy cyffredinol, gall seilwaith digidol o ansawdd uchel ddyfnhau marchnadoedd llafur lleol drwy weithio o bell, gan ei gwneud yn fwy atyniadol i weithwyr a chwmnïau adleoli i ranbarthau. Mae hefyd yn ei gwneud yn bosibl i glystyrau sectoraidd gwerth uchel gael eu datblygu, a all sbarduno twf a swyddi mewn ardaloedd newydd. Drwy'r arbenigeddau sy'n bodoli eisoes yn rhanbarthau'r DU mae potensial i greu clystyrau technoleg cadarn, megis technoleg ariannol yng Nghymru a'r Alban, e-Fasnach yng ngogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Iwerddon a thechnoleg amaethyddol yn Swydd Efrog a Humber. Mae'r sector hefyd yn cynnig cyfleoedd i godi safonau byw – mae enillion canolrifol y sector 50% yn uwch na chyfartaledd y DU.

#### *Y rhaglen bolisi*


Yn 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y Strategaeth Seilwaith Genedlaethol, a oedd yn ymrwymo i ddarparu £5bn mewn cyllid cyhoeddus i gyflwyno **band eang gigabeit** i o leiaf 85% o'r wlad erbyn 2025, ac wedyn mor agos i 100% â phosibl, gan weithio gyda'r sector preifat.

Bydd buddsoddiad cyhoeddus yn targedu'r safleoedd mwyaf anodd eu cyrraedd na fyddent fel arall yn cael darpariaeth gan y sector preifat, gan sicrhau nad oes unrhyw ardaloedd yn cael eu gadael ar ôl. Mae darpariaeth signal gigabeit wedi cynyddu o 10% i fwy na 60% o fewn llai na dwy flynedd. Ers 2019, mae'r signal wedi gwella ledled y DU, ac mae Llywodraeth y DU yn rhagweld y caiff y gwelliannau ychwanegol canlynol o leiaf eu cyflwyno erbyn 2025, fel y'u nodwyd yn Ffigur 3.1.[406]


405 Lle mae 'yn genedlathol' yn golygu 95% o'r DU ar gyfer 4G, ac o leiaf 99% o safleoedd ar gyfer band eang a all drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit.

406 Mae'r rhagamcanion yn dangos cwmpas presennnol y signal a seilwaith masnachol amcangyfrifedig yn y dyfodol. Ffynonellau data: Connected Nations Ofcom, ThinkBroadband ac amcangyfrifon yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

### Ffigur 3.1 Gwelliannau signal gigabeit, gwledydd a rhanbarthau'r DU, 2019, 2021 a 2025 (rhagamcanol)




### Ffigur 3.2 Gwelliannau signal 4G, gwledydd a rhanbarthau'r DU, 2021 a 2026



Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi ymrwymo i gytundeb gwerth £1bn â gweithredwyr symudol i gyflwyno rhaglen y Rhwydwaith Gwledig Cyffredin. O dan y rhaglen hon, bydd gweithredwyr ar y cyd yn **cynyddu cwmpas signal 4G i 95% erbyn 2025**. O ganlyniad i'r cydweithrediad hwn, bydd y mwyafrif llethol o boblogaeth y DU yn cael budd o'r gwelliannau i gysylltedd digidol yn fuan (gweler Ffigur 3.2).

Mae gan 5G y potensial i newid y ffordd y mae pobl yn byw mewn ffordd radical a gwneud busnesau yn fwy cynhyrchiol a chystadleuol. Uchelgais Llywodraeth y DU yw y bydd gan y mwyafrif o'r boblogaeth fynediad at signal 5G erbyn 2027. Ers 2017, mae Llywodraeth y DU wedi darparu £200m o gyllid ar gyfer Arbrofion a Threialon 5G, a fydd yn helpu dros 200 o gwmnïau newydd a BBaChau mewn amrywiaeth o sectorau – gan gynnwys gofal iechyd, gweithgynhyrchu, technoleg amaethyddol a'r diwydiannau creadigol – i ddeall yn well sut i ddefnyddio'r dechnoleg i ddatblygu datrysiadau a gwasanaethau newydd.

Yn 2022, bydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi'r **Strategaeth Seilwaith Ddi-wifr.** Bydd hyn yn adolygu pa mor bell y bydd y sector preifat yn mynd i gyflwyno seilwaith di-wifr – gan gynnwys 5G – ledled y wlad, ac yn penderfynu a oes unrhyw fethiannau gan y farchnad mewn lleoedd y mae angen ymdrin â nhw, a sut y gallai Llywodraeth y DU fynd i'r afael â'r rhain.

> **“Uchelgais Llywodraeth y DU yw y bydd gan y mwyafrif o'r boblogaeth fynediad at signal 5G erbyn 2027”**

## Blwch 3.9 5G Gorllewin Canolbarth Lloegr

Dechreuodd Arbrawf 5G Gorllewin Canolbarth Lloegr (WM5G) yn 2018 gyda'r genhadaeth i roi prawf ar fuddiannau 5G a'u profi o ran cynhyrchiant y sector cyhoeddus a'r sector preifat, creu swyddi a hybu twf.

Mae Llywodraeth y DU wedi buddsoddi £21m dros dair blynedd, ochr yn ochr â buddsoddiad gan lywodraeth leol a'r sector preifat. Drwy weithio gydag awdurdodau lleol a Gweithredwyr Rhwydweithiau Symudol, mae WM5G wedi cyflymu'r broses o roi 5G ar waith o fwy na chwe mis, sy'n golygu bod gorllewin Canolbarth Lloegr ymhlith y lleoedd â'r cysylltiad gorau o ran 5G yn y DU.

Hefyd, mae WM5G wedi cyflwyno nifer o ddatblygiadau am y tro cyntaf yn y DU, gan gynnwys rhwydwaith o synwyryddion ffordd 5G, treialon ambiwlansys a thriniaethau endosgopi capsiwl sy'n gysylltiedig â 5G a rhaglen sbarduno cymwysiadau 5G o'r enw 5prinG, sydd eisoes wedi uwchsgilio dros 400 o sefydliadau ar fanteision 5G ac wedi galluogi dros 60 o fusnesau newydd i ddatblygu cynhyrchion a gwasanaethau 5G newydd.

Mae'n rhaid i ni sicrhau bod pobl yn meddu ar sgiliau digidol digonol i fanteisio ar y buddiannau a'r ffyniant sy'n deillio o'r economi ddigidol. Yn 2020, cyflwynodd Llywodraeth y DU hawl i ddysgu sgiliau digidol newydd, sy'n rhoi mynediad am ddim i gymwysterau sgiliau digidol newydd sy'n seiliedig ar safonau cenedlaethol a gefnogir gan gyflogwyr i oedolion sydd â sgiliau digidol cyfyngedig iawn, os o gwbl, yn Lloegr. Mae Llywodraeth y DU yn parhau i weithio gydag arweinwyr lleol i ddatblygu Partneriaethau Sgiliau Digidol Lleol. Mae'r partneriaethau cydweithredol hyn bellach yn gweithredu mewn saith rhanbarth ledled Lloegr, gydag wythfed yn lansio'n ffurfiol yn Hull a Dwyrain Swydd Efrog ar ddechrau mis Mawrth. Bydd Llywodraeth y DU yn gweithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig i ystyried y ffordd orau o rannu dirnadaethau a gwerthuso'r rhaglen er mwyn helpu i feithrin sgiliau digidol ledled y DU.

## 3.3 Lledaenu Cyfleoedd a Gwella Gwasanaethau Cyhoeddus

> **Mae cyfalaf dynol yn ganolog i lesiant economaidd a chymdeithasol pobl a lleoedd**

Mae cyfalaf dynol yn ganolog i lesiant economaidd a chymdeithasol pobl a lleoedd. Drwy wella iechyd, addysg, sgiliau a rhagolygon cyflogaeth pobl bydd hynny'n sicrhau bod pawb, lle bynnag y maent yn byw, yn cael cyfle i fyw bywydau bodlon, iach a chynhyrchiol. Er bod buddsoddi mewn cyfalaf dynol yn gwella cynhyrchiant, mae gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel fel ysgolion rhydd gwych ac ysgolion academi sy'n perfformio'n dda hefyd yn denu talent i ardal, gan helpu i gefnogi economïau lleol ffyniannus.

Er mwyn sbarduno'r gwelliannau hyn, mae Llywodraeth y DU yn gosod **tair cenhadaeth graidd** yn rhychwantu addysg, sgiliau ac iechyd.

Hefyd, mae cenhadaeth gyffredin ar **lesiant** wedi cael ei gosod. Mae hyn yn canolbwyntio ar sicrhau, **erbyn 2030, y bydd llesiant wedi gwella ym mhob rhan o'r DU, ac y bydd y bwlch rhwng y rhannau sy'n perfformio orau a rhannau eraill wedi lleihau.** Mae llesiant yn cofnodi'r graddau y mae pobl ledled y DU yn byw bywydau bodlon a hapus – hanfod sicrhau ffyniant bro. Mae amrywiaeth o agweddau gwahanol ar fywydau pobl yn effeithio arno, o iechyd corfforol ac iechyd meddwl i swyddi, cydberthnasau cymunedol a ffactorau ehangach sy'n dylanwadu ar ansawdd bywyd fel yr amgylchedd.[407] O ganlyniad, er bod cysylltiad annatod rhwng llesiant a chyfalaf dynol mae llesiant yn dylanwadu ar bob un o bedwar amcan Llywodraeth y DU o ran ffyniant bro.

Er bod y cenadaethau yn pennu uchelgeisiau i'r DU gyfan, mae'r cyfrifoldeb am wella canlyniadau ym maes iechyd ac addysg wedi'u datganoli yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Felly, dim ond yn Lloegr y bydd modd i Lywodraeth y DU sicrhau'r ymyriadau newydd hyn yn uniongyrchol. Bydd yn hollbwysig cydweithio â'r gweinyddiaethau datganoledig ac arweinwyr lleol er mwyn dod o hyd i'r ffordd orau o wireddu'r uchelgeisiau hyn mewn rhannau eraill o'r DU a dysgu oddi wrth ei gilydd.



407 Brown, H., Abdallah, S., Townsley, R. *Understanding Local Needs for well-being Data*. 2017.

## 3.3.1 Erbyn 2030, bydd nifer y plant cynradd sy'n cyrraedd y safon ddisgwyliedig mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg wedi cynyddu'n sylweddol. Yn Lloegr, bydd hyn yn golygu y bydd 90% o blant yn cyrraedd y safon ddisgwyliedig, a bydd canran y plant sy'n cyrraedd y safon ddisgwyliedig yn yr ardaloedd sy'n perfformio waethaf wedi cynyddu dros draean.

Mae'r genhadaeth hon yn canolbwyntio ar ddileu anllythrennedd ac anrhifogrwydd.

### Dileu anllythrennedd ac anrhifogrwydd

#### *Yr achos dros weithredu*

Dylanwedir ar botensial o'r cychwyn cyntaf yn ein bywydau, ac mae angen i addysg blynyddoedd cynnar, ysgolion a chymorth o ansawdd uchel fod ar gael i bob plentyn a phob teulu. Mae hyn yn rhoi sylfaen gadarn dros fuddsoddiadau diweddarach mewn sgiliau, gan sicrhau y gall pobl ifanc ac oedolion hyfforddi i fanteisio ar gyfleoedd swyddi a chamu ymlaen yn eu gyrfaoedd, ni waeth beth fo'u nodweddion, eu cefndir na ble maent yn byw.


Mae datblygiad, cyrhaeddiad a chyfleoedd yn ddiweddarach mewn bywyd yn amrywio'n sylweddol ledled y DU. Yn Lloegr, erbyn 5 oed, mae 75% o blant ifanc yn cyrraedd lefel dda o ddatblygiad yn ne-ddwyrain Lloegr, o gymharu â 69% yng ngogledd-orllewin Lloegr.[408] Mae tua 4.5% o blant yng ngogledd-ddwyrain Lloegr yn blant "mewn angen", o gymharu â 2.4% yn nwyrain Lloegr. Mae profiadau cynnar plant yn effeithio ar iechyd corfforol ac emosiynol gydol oes.

> **Mae datblygiad, cyrhaeddiad a chyfleoedd yn ddiweddarach mewn bywyd yn amrywio'n sylweddol ledled y DU**

Ceir hefyd anghyfartaleddau gofodol amlwg mewn cyrhaeddiad addysgol mewn blynyddoedd diweddarach, sydd, yn aml, wedi'u gwreiddio'n ddwfn; caiff yr anghyfartaleddau hyn yn Lloegr eu mapio yn Ffigur 3.3. Ym mis Awst 2019, roedd 210,000 o ddisgyblion yn Lloegr mewn ysgolion a oedd wedi bod yn tanberfformio ers 13 blynedd neu fwy.[409] Ceir anghyfartaleddau gofodol hefyd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Er enghraifft, cyrhaeddodd dros 85% o ddisgyblion yn ardaloedd cyngor Dwyrain Swydd Renfrew a Dwyrain Swydd Dunbarton y safon ddisgwyliedig mewn rhifedd ar lefel P7 yn 2018-19, o gymharu â 62% yn ardal cyngor Ucheldiroedd yr Alban;[410] roedd dros 20% o fyfyrwyr blwyddyn 11 yng Ngheredigion ac Abertawe yn ennill 5 TGAU A*-A, o gymharu â llai na 10% ym Merthyr Tudful a Blaenau Gwent;[411] ac roedd 79% o fyfyrwyr yn Lisburn a Castlereagh yn ennill 5 TGAU A*-C, gan gynnwys Saesneg a Mathemateg, o gymharu â 66% yn Belfast.[412] Mae'r heriau hyn wedi gwaethygu yn sgil pandemig COVID-19.

408 Yr Adran Addysg. *Early years foundation stage profile results: 2018 i 2019*. 2020.; Yr Adran Addysg. *Regional differences in attainment in the early years*. 2018.
409 Ofsted. *Fight or flight? How 'stuck' schools are overcoming isolation*. 2020.
410 Llywodraeth yr Alban. *Achievement of Curriculum for Excellence (CfE) Levels 2018-19*. 2019.
411 Llywodraeth Cymru. *Mesurau Interim Cyfnod Allweddol 4 yn ôl AALl o 2018/19*. 2019.
412 Adran Addysg Gogledd Iwerddon. *School Leavers – 2018/19 statistical bulletin*. 2020.

## Ffigur 3.3 Cyrhaeddiad 8, awdurdodau lleol yn Lloegr, 2018/19[413]




413 Mae Cyrhaeddiad 8 yn mesur cyflawniad disgybl mewn 8 pwnc ar sail sy'n cyfateb i TGAU. Caiff pob gradd unigol a enillir gan ddisgybl sgôr pwyntiau, a ddefnyddir wedyn i gyfrifo sgôr Cyrhaeddiad 8 disgybl.

### *Y rhaglen bolisi*

Mae Llywodraeth y DU wedi parhau i ysgogi gwelliannau mewn ysgolion ac wedi annog pob ysgol yn Lloegr i ddod yn rhan o deulu cryf o ysgolion drwy ymuno ag ymddiriedolaeth aml-academi. Mae ymddiriedolaethau aml-academi fel Harris, Ark, Dixons, Star Academies a'r Inspiration Trust wedi bod yn allweddol o ran codi safonau mewn ysgolion, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig. Bydd Llywodraeth y DU yn mynd ati'n frwd i gefnogi'r broses o ehangu'r ymddiriedolaethau aml-academi hyn a rhai eraill sy'n perfformio'n dda mewn ardaloedd lle mae angen codi safonau mewn addysg.

> **Yn sail i addysg ragorol mae gweithlu addysgu dawnus**

Yn sail i addysg ragorol mae gweithlu addysgu dawnus. Yn 2020-21, treialodd yr Adran Addysg y Fframwaith Cam Cynnar Gyrfa, sef hawl newydd i athrawon gael datblygiad proffesiynol yn ystod blynyddoedd cynnar eu gyrfa yn Lloegr, sydd wedi'i anelu at 1,900 o athrawon newydd gymhwyso yng ngogledd-ddwyrain Lloegr, Manceinion Fwyaf Bradford a Doncaster. Ers mis Medi 2021, mae gan bob athro newydd yr hawl i'r hyfforddiant hwn.

## Blwch 3.10 Ymddiriedolaeth Academïau Dixon

Mae Ymddiriedolaeth Academïau Dixon yn ymdrechu i sicrhau gwelliannau effeithiol mewn ysgolion a deilliannau gwych i ddisgyblion, gan gynnwys mewn ardaloedd o dan anfantais fawr. Mae llawer mwy o ddisgyblion yn gwneud cais i gofrestru ag ysgolion yr ymddiriedolaeth yn Bradford a Leeds na nifer y lleoedd sydd ar gael ac mae deilliannau disgyblion wedi bod yn gadarn, gan gynnwys cyrhaeddiad a symud ymlaen i astudio a chyflogaeth ar ôl 18 oed. Mae pum ysgol yn yr ymddiriedolaeth wedi cael gradd "Eithriadol" gan Ofsted, ac mae tair ysgol wedi cael gradd "Da".

Nodwyd yr ymddiriedolaeth fel noddwr i ddwy ysgol uwchradd a gynhelir gan yr awdurdod lleol yn Lerpwl, yr oedd y naill a'r llall wedi cael gradd "Annigonol" gan Ofsted. Aeth yr ymddiriedolaeth ati i weithredu yn y ddwy ysgol am bron flwyddyn, gan roi hyfforddiant i'r staff, sefydlu gweithgareddau hyfforddi a chysoni prosesau ag academïau Dixon eraill. Yn ogystal, ymgorfforodd drefniadau newydd a gwell o ran diwylliant a chyfarwyddo, yn ogystal â systemau i wella presenoldeb.

Mae'r ymddiriedolaeth wedi gweithio'n galed i sicrhau bod y newidiadau wedi cael effaith gadarnhaol yn yr ardal, gan gynnig ei chymorth i wella ysgolion yn fwy cyffredinol. Yn yr ysgol, nododd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y trefniadau dysgu newydd a bod ymddygiad myfyrwyr wedi gwella.

Mae'n hollbwysig bod buddsoddiad Llywodraeth y DU mewn ysgolion yn cael ei ddosbarthu'n deg rhwng pob ardal yn Lloegr, a phob ysgol, er mwyn cynnig yr un cyfleoedd i bawb. Roedd y fformiwla gyllido genedlaethol i ysgolion a gyflwynwyd yn 2018-19 yn gam pwysig ymlaen i gael gwared ar loteri cod post y system gyllido flaenorol. Mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yn Lloegr bellach wedi symud tuag at y fformiwla gyllido genedlaethol. Ymgynghorodd yr Adran Addysg yn ddiweddar ar gwblhau ei diwygiadau i'r fformiwla gyllido genedlaethol a bydd yn cyhoeddi ei chamau nesaf maes o law.

Bydd Llywodraeth y DU yn ysgogi gwelliannau pellach mewn ysgolion yn Lloegr drwy **Ardaloedd Buddsoddi mewn Addysg** newydd. Bydd y rhain yn cwmpasu traean o awdurdodau lleol yn Lloegr sydd â'r cyrhaeddiad addysg gwannaf ar hyn o bryd, ynghyd ag unrhyw awdurdodau lleol ychwanegol sy'n cynnwys Ardal o Gyfle bresennol neu lle y nodwyd yn flaenorol mai nhw sydd â'r potensial mwyaf i wella'n gyflym.

Bydd yr Adran Addysg yn lansio ymgynghoriad ar symud ysgolion yn yr ardaloedd hyn sydd wedi cael barn "Angen Gwella" gan Ofsted mewn

arolygiadau olynol i ymddiriedolaethau aml-academi cryf fel y gallant gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt i wella yn haws. Hefyd, bydd yr Adran Addysg yn cynorthwyo ymddiriedolaethau cryf i ehangu i'r ardaloedd hyn ac yn cynnig taliadau cadw er mwyn helpu ysgolion sy'n wynebu heriau cyflenwi i gadw'r athrawon gorau mewn pynciau blaenoriaeth uchel. Mae Ffigur 3.4 yn dangos map o 55 o awdurdodau lleol sydd wedi cael eu nodi'n Ardaloedd Buddsoddi mewn Addysg.

Hefyd, bydd Llywodraeth y DU yn dysgu o'r Rhaglen Ardaloedd o Gyfle lwyddiannus ac yn gwneud buddsoddiad mwy dwys mewn rhai Ardaloedd Buddsoddi mewn Addysg er mwyn mynd i'r afael â phroblemau ehangach sy'n cyfyngu ar welliant ysgolion o bosibl. Bydd yr ardaloedd â blaenoriaeth hyn yn cael budd o amrywiaeth o gymorth ychwanegol gan lywodraeth ganolog, a allai gynnwys cymorth gan y rhwydwaith o hybiau ysgol, rhaglenni peilot newydd i wella presenoldeb ac ysgolion rhydd prif ffrwd newydd, lle mae angen demograffig amlwg.


Er mwyn sicrhau mynediad at addysg academaidd o ansawdd uchel, gan gynnwys addysg ôl-16, mae'r Adran Addysg yn agor 11 o ysgolion mathemateg 16-19 arbenigol, gydag ymrwymiad i agor un ym mhob un o ranbarthau Lloegr. Mae'r Adran Addysg wedi agor tair hyd yma – Coleg y Brenin, Llundain, Caerwysg a Lerpwl. Bydd yn agor wyth arall yng Nghaergrawnt, Durham, Coleg Imperial Llundain, Caerhirfryn, Leeds a Surrey, yn ogystal â dwy arall yn nwyrain Lloegr a gorllewin Canolbarth Lloegr.

Gan fynd ymhellach, bydd Llywodraeth y DU yn sicrhau bod plant talentog o gefndiroedd difreintiedig yn cael mynediad at goleg, chweched dosbarth neu academi 16-19, gyda hanes o ddisgyblion sy'n mynd yn eu blaen i brifysgolion blaenllaw, megis Chweched Dosbarth Harris Westminster ac Ysgol Rydd Chweched Dosbarth Syr Isaac Newton yn Norwich. Er mwyn sbarduno'r ymrwymiad hwn, bydd yr Adran Addysg yn agor ysgolion rhydd 16-19 newydd mewn ardaloedd lle mae eu hangen fwyaf. Bydd y broses ddethol ar gyfer yr ysgolion hyn yn blaenoriaethu cynigion mewn Ardaloedd Buddsoddi mewn Addysg, yn enwedig yr ardaloedd hynny a fydd yn cael budd o gymorth ychwanegol.

Bydd y Papur Gwyn arfaethedig ar Ysgolion yn canolbwyntio ar wella llythrennedd a rhifedd i'r rhai sydd bellaf ar ei hôl hi. Bydd yn amlinellu gweledigaeth glir ar gyfer system lle mae ysgolion mewn Ymddiriedolaethau Aml-academi cryf sy'n gallu ysgogi gwelliant ar gyfer eu holl ddisgyblion. Wrth wneud hynny bydd yr Adran Addysg yn canolbwyntio ar le, gan weithio gyda phartneriaid lleol i greu ymddiriedolaethau cryf a buddsoddi mewn ymddiriedolaethau esgobaethol er mwyn sicrhau y gall pob math o ysgol elwa.

Hefyd, bydd Llywodraeth y DU yn creu **Academi Genedlaethol newydd i'r DU**. Bydd yn helpu disgyblion o bob cefndir ac ardal i lwyddo ar y lefelau uchaf oll. Bydd y cymorth hwn ar gael ledled y DU. Yn union fel yr arloesodd y DU i greu'r gwasanaeth darlledu cenedlaethol cyntaf yn y byd a sefydlu'r Brifysgol Agored i sicrhau bod addysg uwch ar gael i bawb ledled y DU, bydd Academi Genedlaethol newydd y DU yn manteisio ar dechnoleg arloesol i sicrhau nad yw daearyddiaeth nac incwm yn rhwystr i ymestyn yn academaidd y tu hwnt i'r cwricwlwm. Mae Llywodraeth y DU yn ymrwymedig i weithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig i ystyried sut y gall Academi Genedlaethol y DU gefnogi myfyrwyr yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

## Ffigur 3.4 Ardaloedd Buddsoddi mewn Addysg, Lloegr



Caiff ei datblygu ar y cyd ag ysgolion ac arbenigwyr, a bydd amrywiaeth eang o athrawon arbenigol yn addysgu. Bydd ar gael ar-lein i gefnogi gwaith ysgolion. Bydd yn rhad ac am ddim a chaiff ei defnyddio yn ôl dewis penaethiaid, athrawon a rhieni. Bydd yn galluogi myfyrwyr i gaffael gwybodaeth a sgiliau uwch ychwanegol ar amserlen sy'n gyfleus iddynt – gan sicrhau bod hyd yn oed mwy o gyfleoedd ar gael i bob plentyn ffynnu. Caiff gwahanol ddulliau o addysgu a chyflwyno pynciau eu treialu, eu cymharu, eu mireinio a'u gwella gydag adborth gan fyfyrwyr ac athrawon yn ogystal â gwerthusiad trylwyr er mwyn canfod pa mor effeithiol ydyw o ran ysgogi gwelliant.

Mae ffactorau eraill ar wahân i amser a dreulir yn yr ystafell ddosbarth hefyd yn dylanwadu ar botensial plentyn. Y tu hwnt i gatiau'r ysgol, bydd lle yn parhau'n ganolog felly i'r ffordd y mae Llywodraeth y DU yn ymdrin â'r blynyddoedd cynnar a theuluoedd. Mae hyn yn cynnwys parhau i weithio'n agos gydag awdurdodau lleol i wella gwasanaethau gofal cymdeithasol ac anghenion addysg arbennig ac anabledd eu plant lle mae'r systemau hynny'n perfformio'n wael. Bydd Llywodraeth y DU yn buddsoddi £300m i adeiladu'r rhwydwaith o **Hybiau Teuluol** a thrawsnewid gwasanaethau **Start for Life** i rieni a babanod, gofalwyr a phlant yn hanner yr awdurdodau lleol yn Lloegr.

## Blwch 3.11 Hybiau Teuluol ar Ynys Wyth

Roedd Ynys Wyth yn un o'r ardaloedd cyntaf yn y wlad i ddatblygu Hybiau Teuluol. Gyda thri phrif Hwb Teuluol a chwe "is-safle", gall plant a theuluoedd yr ynys gael gafael ar gymorth cydgysylltiedig, yn amrywio o apwyntiadau â gweithwyr iechyd proffesiynol megis bydwragedd ac ymwelwyr iechyd, "Five to Thrive" i rieni newydd, grwpiau bwyta'n iach a chymorth pwrpasol dwysach i deuluoedd. Mae'r hybiau hefyd yn cynnig cymorth ac arweiniad ar addysg, cyflogaeth a hyfforddiant, a datblygiad gyrfa drwy weithio mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau ac anogwyr gwaith.

Drwy'r cymorth teuluol dwys a gynigiwyd gan yr Hybiau Teuluol gwelwyd 99.7% o deuluoedd yn parhau i ymgysylltu am o leiaf dri mis, gydag 87% yn nodi gwell canlyniadau.

Mae Llywodraeth y DU hefyd yn buddsoddi £200m ychwanegol i ehangu'r rhaglen **Cefnogi Teuluoedd** yn Lloegr. Bydd hyn yn golygu cyfanswm buddsoddiad o £695m dros y tair blynedd nesaf fel y gall y rhaglen wella canlyniadau bywyd a chadernid hyd at 300,000 o deuluoedd sy'n agored i niwed. Bydd y rhaglen yn helpu ardaloedd lleol i ymateb i'r heriau ym mywydau ac amgylchiadau teuluoedd a all atal plant rhag mynd i'r ysgol a chyflawni, neu eu rhoi mewn perygl o esgeulustod a niwed. Caiff cyllid ei ddyrannu ar sail angen ac mae'r fformiwla wedi cael ei diweddaru gan ddefnyddio data diweddar. Bydd hyn yn sicrhau bod ardaloedd lle mae lefelau uwch o amddifadedd yn cael cyllid ychwanegol.

## 3.3.2 Erbyn 2030, bydd nifer y bobl fydd yn cwblhau hyfforddiant sgiliau o ansawdd uchel yn llwyddiannus wedi cynyddu'n sylweddol ym mhob rhan o'r DU. Yn Lloegr, bydd hyn yn arwain at 200,000 yn fwy o bobl yn cwblhau hyfforddiant sgiliau o ansawdd uchel yn llwyddiannus bob blwyddyn, a gaiff ei lywio gan 80,000 yn fwy o bobl yn cwblhau cyrsiau yn yr ardaloedd hynny sydd â'r nifer lleiaf o bobl fedrus.

Mae'r genhadaeth hon yn canolbwyntio ar wella sgiliau a hyfforddiant.

### Sgiliau a hyfforddiant

#### *Yr achos dros weithredu*

Nod Llywodraeth y DU yw cefnogi economi cyflogau uchel, sgiliau uchel drwy feithrin sgiliau a chyfalaf dynol, yn enwedig mewn lleoedd lle maent wannaf. Mae hyn yn cynnwys cynorthwyo pobl i wireddu eu dyheadau gyrfaol heb fod angen iddynt adael eu cymunedau, a sicrhau bod cyflogwyr lleol yn gallu cael gafael ar y sgiliau sydd eu hangen arnynt i dyfu a ffynnu. Mae'r genhadaeth ar gyfer cynhyrchiant, cyflogau, swyddi a safonau byw hefyd yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth y DU i gyflogaeth, ac yn sicrhau bod pobl yn cael y cyfle i gael swyddi o ansawdd a chamu ymlaen yn eu gyrfa.

> **Cynorthwyo pobl i wireddu eu dyheadau gyrfaol heb fod angen iddynt adael eu cymunedau**

Mae cymysgedd a lefel y sgiliau sy'n cyfrif am gyfalaf dynol ardal yn chwarae rôl bwysig yn y gwaith o lywio ffyniant a chynhyrchiant.[414] Mae prinder swyddi da hefyd yn wael i iechyd ac annibyniaeth pobl. Mae bod allan o waith yn gysylltiedig â chanlyniadau iechyd gwaeth. Mae pobl anabl yn fwy tebygol o gwympo allan o waith ac, unwaith y byddant allan o waith, maent yn llai tebygol o ddychwelyd. Mae'r awdurdodau lleol sydd â'r bylchau cyflogaeth mwyaf o ran pobl anabl yn dueddol o fod wedi'u hymgasglu yn ardaloedd mwy difreintiedig y DU. Mae anweithgarwch economaidd yn arbennig o uchel yn yr ardaloedd hyn.

Mae ardaloedd daearyddol mwy difreintiedig y DU hefyd yn gweld mwy o gyflogau isel a mwy o ddibyniaeth ar daliadau lles: mae Gogledd Iwerddon (21.1%), dwyrain Canolbarth Lloegr (20.1%), gogledd-ddwyrain Lloegr (19.9%), Swydd Efrog (19.6%) a Chymru (19.1%) yn lleoedd sydd â'r cyfrannau uchaf o swyddi sy'n talu'n isel.[415] Hefyd ceir anghyfartaleddau o fewn rhanbarthau, gydag amrywiad rhwng dinasoedd mawr a bach, yn ogystal â threfi a chefn gwlad.

Mae'r un peth yn wir am lefelau cymwysterau, gan adlewyrchu cyrhaeddiad addysgol pobl ifanc, a symud i mewn ac allan o gymuned. Ar y cyfan, mae gan 43% o'r boblogaeth o oedran gweithio yn Lloegr gymhwyster ar lefel 4 neu uwch ar hyn o bryd h.y. yn uwch na Safon Uwch, ond dim ond 24% o drigolion o oedran gweithio Blackpool sydd â hynny.[416]

#### *Y rhaglen bolisi*

Yn y gorffennol, mae polisi sgiliau Lloegr wedi'i nodweddu gan doreth o ymyriadau byrhoedlog a dull gweithredu canolog. Felly mae Llywodraeth y DU wedi lansio rhaglen o newidiadau sy'n newid y ffordd y caiff polisi sgiliau ei

414 BIS. *UK skills and productivity in an international context*. 2015.
415 Y Comisiwn Camu Ymlaen yn Eich Gwaith. *Supporting progression out of low pay: a call to action*. 2021.
416 SYG. *Annual Population Survey: Jan 2020* – Rhagfyr 2020. Cyrchwyd drwy NOMIS.

lunio a'i gyflawni, mewn ffordd sylfaenol, gan rymuso arweinwyr lleol ac unigolion, a datblygu mecanweithiau atebolrwydd newydd a phriodol.

Mae'r rhaglen bolisi yn canolbwyntio ar y canlynol:

a. rhoi cyflogwyr lleol wrth wraidd y ddarpariaeth;
b. cryfhau sefydliadau sy'n hygyrch yn lleol, yn arbennig y rhwydwaith cenedlaethol o golegau addysg bellach;
c. sicrhau y gall pob unigolyn gael gafael ar hyfforddiant drwy gydol ei oes;
d. cynnig cyfleoedd newydd i gael gafael ar swyddi o ansawdd uchel a chamu ymlaen yn y gweithle;
e. rhoi cymorth cyflogaeth i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd.

### *Cyflogwyr lleol wrth wraidd y broses o ddarparu sgiliau*

> **“Bydd y diwygiadau hyn yn sicrhau bod cyflogwyr lleol wrth wraidd system fwyfwy ddatganoledig, sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau”**

Ym Mhapur Gwyn *Skills for Jobs* yr Adran Addysg, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021, cyhoeddwyd y bwriad i greu seilwaith lleol newydd ledled Lloegr i sicrhau bod y sgiliau technegol sy'n cael eu meithrin yn diwallu anghenion sgiliau cyflogwyr yn well. Mae'r Adran yn treialu **Cynlluniau Gwella Sgiliau Lleol** newydd a arweinir gan gyflogwyr yn 2021-22 ac yn cynorthwyo darparwyr drwy Gyllid Datblygu Strategol i helpu i lywio darpariaeth sgiliau technegol er mwyn diwallu anghenion y farchnad lafur leol yn well.

Bydd Llywodraeth y DU nawr yn cyflwyno'r Cynlluniau hyn ledled Lloegr, ynghyd â chyllid ategol, gan geisio blaenoriaethu'r ardaloedd â'r anghenion mwyaf dybryd o ran sgiliau. Bydd cyflogwyr, a gaiff eu dwyn ynghyd gan gyrff cynrychioliadol cyflogwyr, yn gweithio gyda darparwyr, Awdurdodau Cyfun Maerol lle bo hynny'n berthnasol, a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu Cynlluniau, gan nodi'r newidiadau allweddol sydd eu hangen mewn man er mwyn sicrhau bod hyfforddiant sgiliau technegol yn fwy ymatebol i anghenion sgiliau. Mae Llywodraeth y DU hefyd yn deddfu i roi sail statudol i'r Cynlluniau hyn a arweinir gan gyflogwyr drwy'r Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16.

Ynghyd â hyn, fel y nodwyd yn *Skills for Jobs*, mae Llywodraeth y DU hefyd yn bwriadu diwygio **cyllid ac atebolrwydd addysg bellach**. Gwnaeth ymgynghoriad mis Gorffennaf 2021 gynnig symud i system gyllido decach a symlach i ddarparwyr ac awdurdodau datganoledig ar gyfer sgiliau oedolion yn Lloegr, gan roi pwyslais ar ddeilliannau darparu sgiliau, yn cynnwys ymatebolrwydd darparwyr i gyflogwyr, a rhoi rôl arolygu uwch i Oftsed.

Bydd y diwygiadau hyn yn sicrhau bod cyflogwyr lleol wrth wraidd system fwyfwy ddatganoledig, sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau, gan alluogi darparwyr i ymateb yn effeithiol i anghenion sgiliau lleol wrth iddynt ddatblygu dros amser.

Hefyd, bydd cynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael yn Lloegr ar **Fŵt-camps Sgiliau** bedair gwaith, a gyhoeddwyd yn Adolygiad o Wariant 2021, yn sicrhau bod modd mynd i'r afael â phrinder sgiliau cenedlaethol a lleol acíwt yn gyflym. Mae bŵt-camps yn darparu hyfforddiant dwys byr mewn meysydd lle ceir prinder megis gwaith ôl-osod adeiladu, digidol, a gyrru Cerbydau Nwyddau Trwm (HGV), a cheir cysylltiadau uniongyrchol â chyflogwyr. Drwy eu hehangu, bydd modd i lawer mwy o oedolion mewn cymunedau ledled Lloegr gael y cyfle i hyfforddi, ailhyfforddi ac achub ar gyfleoedd gwaith lleol newydd.

Mae'r mentrau newydd hyn yn ategu polisïau sy'n bodoli eisoes a gynlluniwyd i sicrhau bod polisi sgiliau yn ymateb i anghenion cyflogwyr. Gan adlewyrchu'r ffaith bod gan gyflogwyr a darparwyr hyfforddiant rôl sylfaenol i'w chwarae yn cau bylchau sgiliau, caiff Lefelau T newydd ar gyfer pobl ifanc 16-19 amser llawn a safonau prentisiaethau eu cynllunio gan ystyried mewnbwn cyflogwyr.[417] Mae Llywodraeth y DU hefyd yn gweithio gyda'r Sefydliad Prentisiaethau ac Addysg Dechnegol i gyflwyno cymwysterau technegol uwch yn Lloegr o fis Medi 2022. Mae cymwysterau technegol uwch yn gymwysterau lefel 4 a 5 newydd ac sy'n bodoli eisoes sydd wedi cael eu cymeradwyo yn erbyn safonau a arweinir gan gyflogwyr yn rhai sy'n sicrhau bod dysgwyr yn meithrin y wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau sydd eu hangen ar gyfer galwedigaeth benodol.

Bydd Llywodraeth y DU yn parhau i annog hyfforddiant seiliedig ar waith drwy brentisiaethau yn Lloegr, gan gynyddu'r cyllid i £2.7bn erbyn 2024-25. Mae hyn yn cynnwys **gwasanaeth recriwtio lefel uwch** i fusnesau bach a chanolig, sy'n fwy tebygol o gyflogi prentisiaid iau a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig, yn ogystal â'i gwneud hi'n haws i gyflogwyr mawr drosglwyddo eu Lefi Prentisiaethau i fusnesau bach a chanolig er mwyn cefnogi prentisiaethau mewn ardaloedd difreintiedig ymhellach. Mae Llywodraeth y DU hefyd yn cyflwyno cymwysterau technegol uwch, sef cymwysterau lefel 4 a 5 newydd ac sy'n bodoli eisoes sydd wedi cael eu hasesu yn erbyn safonau a arweinir gan gyflogwyr yn rhai sy'n sicrhau bod dysgwyr yn meithrin y wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau sydd eu hangen ar gyfer galwedigaeth benodol.

> **Mae gan gyflogwyr a darparwyr hyfforddiant rôl sylfaenol i'w chwarae yn cau bylchau sgiliau**

Bydd Llywodraeth y DU yn sicrhau bod mwy o gysondeb rhwng cyflawni ymyriadau cyflogaeth a sgiliau mewn **ardaloedd Pathfinder newydd**. Bydd y rhain yn dwyn partneriaid cyflawni lleol ynghyd o'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r Adran Addysg, yn cynnwys y Ganolfan Byd Gwaith, y gwasanaeth gyrfaoedd, cyflogwyr lleol, darparwyr addysg a hyfforddiant, a llywodraeth leol i ymateb i wybodaeth am anghenion sgiliau cyflogwyr lleol, gan helpu pobl i gael gwaith a nodi cyfleoedd i bobl sydd mewn swyddi rhan amser i gamu ymlaen. Bydd yr ardaloedd Pathfinder cyflogaeth a sgiliau hyn yn helpu unigolion a chyflogwyr i fanteisio ar yr ystod eang o sgiliau sydd ar gael. Bydd yr ardaloedd Pathfinder yn Blackpool, Walsall a Barking a Dagenham, lle mae lefelau uchel o ddiweithdra a swyddi gwag, ac anghenion sgiliau dybryd. Mae Llywodraeth y DU yn ymrwymedig i weithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig i weld sut y gall ardaloedd Pathfinder tebyg gael eu sefydlu yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae data gronynnog da yn hanfodol er mwyn galluogi'r system sgiliau i ymateb yn gadarnhaol i anghenion sgiliau sy'n dod i'r amlwg a darparu sgiliau gwerthfawr. Mae'r Adran Addysg yn sefydlu **Uned Sgiliau'r Dyfodol** newydd a fydd yn gweithio gyda BEIS a DWP i ddwyn ynghyd y data a'r wybodaeth am sgiliau sydd gan y llywodraeth, a'u galluogi i gael eu defnyddio ar draws llywodraeth ganolog a llywodraeth leol, yn ogystal â chan ddarparwyr a'r cyhoedd. Bydd yr Uned yn cynhyrchu gwybodaeth am y galw am sgiliau lleol, anghenion byd busnes o ran sgiliau yn y dyfodol, y sgiliau sydd ar gael mewn ardal a'r llwybrau rhwng hyfforddiant a swyddi da. Bydd hwn yn brosiect aml-flwyddyn, ond bydd yr Uned yn ceisio gwella ansawdd y data sydd ar gael o fewn Llywodraeth y DU a'r tu allan iddi yn y byrdymor er mwyn atgyfnerthu ansawdd cynlluniau a darpariaeth leol, a'u gwneud yn gyson ag anghenion y farchnad lafur, yn ogystal â galluogi'r broses o ddiweddaru safonau prentisiaethau, cymwysterau a mesurau atebolrwydd. Bydd ei gwaith hefyd yn bwydo i mewn i ymrwymiad yr Adran Addysg i ddarparu un ffynhonnell o wybodaeth am y farchnad lafur i ddysgwyr er mwyn gwella eu dewis o gyrsiau hyfforddi a gyrfaoedd.

417 *Drwy'r Sefydliad Prentisiaethau ac Addysg Dechnegol*.

> **Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cyhoeddi naw Athrofa Dechnoleg newydd ledled Lloegr**

*Cryfhau sefydliadau*

Law yn llaw â'r rhaglen ddiwygio hon sy'n canolbwyntio ar gyflogwyr, mae Llywodraeth y DU hefyd yn cymryd camau pwysig i gryfhau a gwella'r sefydliadau sy'n darparu hyfforddiant sgiliau, yn enwedig y rhai sy'n hygyrch yn lleol, er mwyn galluogi pobl i uwchsgilio a chamu ymlaen heb adael eu cymunedau. Mae ymchwil ddiweddar wedi pennu bod gwelliannau cyfalaf yn trosi'n well deilliannau i ddysgwyr.[418] Bydd y **Rhaglen Trawsnewid Cyfalaf Addysg Bellach** £1.5bn yn cyflawni ymrwymiad Llywodraeth y DU i fuddsoddi mewn uwchraddio a thrawsnewid ystadau colegau ledled Lloegr.

Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cyhoeddi naw **Athrofa Dechnoleg** newydd ledled Lloegr, gan adeiladu ar y 12 a sefydlwyd eisoes ers 2019, gan greu cyfanswm o 21 – sy'n rhagori ar yr ymrwymiad o 20 ym maniffesto Llywodraeth y DU. Mae Athrofeydd Technoleg yn brosiectau cydweithredol rhwng colegau, prifysgolion a chyflogwyr, sy'n arbenigo mewn darparu addysg dechnegol uwch mewn ardaloedd ledled Lloegr. Gan fod Athrofeydd yn cael eu harwain gan gyflogwyr, gallant ymateb yn gyflym i'r anghenion cyfredol am sgiliau technegol mewn ardal, ynghyd â'r anghenion sy'n datblygu yn hynny o beth.

Y sefydliadau arweiniol ar gyfer y naw Athrofa newydd a'r ardaloedd ehangach y byddant yn eu cwmpasu yw:

a. Coleg Blackpool a Fylde (ardal Partneriaeth Menter Leol Swydd Gaerhirfryn);
b. Coleg Swydd Gaer, De a Gorllewin (ardal Partneriaeth Menter Leol Swydd Gaer a Warrington);
c. Grŵp Coleg Chichester (ardal Partneriaeth Menter Leol Arfordir i Brifddinas);
d. Grŵp Colegau DN (ardal Partneriaeth Menter Leol Dinas-Ranbarth Sheffield);
e. Grŵp Colegau Newcastle a Stafford (ardal Partneriaeth Menter Leol Stoke on Trent a Swydd Stafford);
f. Prifysgol Solent (ardal Partneriaeth Menter Leol Solent);
g. Coleg De Essex (ardal Partneriaeth Menter Leol de-ddwyrain Lloegr);
h. Prifysgol Derby (ardaloedd D2n2 a Phartneriaeth Menter Leol Swydd Gaerlŷr);
i. Prifysgol Salford (ardal Partneriaeth Menter Leol Manceinion Fwyaf).

### Blwch 3.12 Athrofa Dechnoleg yr Ardal Ddu a'r Gororau

Mae'r Adran Addysg yn buddsoddi £17m mewn cyfleusterau newydd a chyfarpar o'r radd flaenaf yn Athrofa Dechnoleg yr Ardal Ddu a'r Gororau yn Dudley, sy'n helpu i gyflwyno hyfforddiant technegol lefel uwch sy'n diwallu anghenion cyflogwyr a dysgwyr lleol. Mae'r Athrofa hon, a oedd yn rhan o'r don gyntaf o 12, yn arbenigo mewn cyrsiau a phrentisiaethau mewn gweithgynhyrchu uwch, adeiladwaith a pheirianneg feddygol, lle mae'r angen am sgiliau lleol fwyaf. Mae ei chwricwlwm a'i gofynion cyfalaf wedi cael eu llunio ar y cyd â chyflogwyr lleol, yn cynnwys Avensys, Fulcro Engineering, Thomas Dudley Ltd ac Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG Grŵp Dudley.

Mae'r buddsoddiad yn yr Athrofa Dechnoleg yn adeiladu ar brosiect aml-flwyddyn Coleg Technoleg Dudley i uwchraddio ei gampws, yn cynnwys cyfleusterau newydd ar gyfer Ardaloedd Arloesi a Menter, gan gynorthwyo cyflogwyr a busnesau bach a chanolig lleol i ddatblygu cynhyrchion a mentrau masnachol. Mae hyn yn cynnwys A&M EDM, sef cwmni peirianneg fanwl llwyddiannus yn Smethwick, sydd wedi defnyddio cyfleusterau a chyfarpar peirianneg pwrpasol Coleg Technoleg Dudley i hyfforddi prentisiaid mewn peirianneg, adeiledd a gweinyddu busnes. Mae A&M EDM wedi atgyfnerthu'r gydberthynas hon drwy ddod yn gynghorydd cyflogwyr i'r Athrofa, gan helpu i sicrhau ei bod yn cyflawni ei chylch gwaith i ddiwallu anghenion sgiliau lleol.

418 Gibbons, S., Hupkau, C., McNally, S., Overman, H. *The Effects of College Capital Projects on Student Outcome*. 2021.

Er mwyn ymwreiddio ein cefnogaeth barhaus i Athrofeydd Technoleg fel prif sefydliadau addysg STEM dechnegol, gall Athrofeydd llwyddiannus wneud cais am Siarter Frenhinol, gan ddiogelu eu statws hirdymor fel prif sefydliadau yn eu rhanbarth a'u gosod ar yr un lefel â'n prifysgolion hanesyddol mwyaf blaenllaw. Bydd yr Adran Addysg yn pennu meini prawf a phroses gais ar gyfer statws Siarter Frenhinol y gwanwyn hwn.

Mae gan sefydliadau addysg uwch rôl hanfodol i'w chwarae yn cefnogi economïau rhanbarthol, fel cyflogwyr lleol mawr a thrwy eu rôl fel prif sefydliadau sy'n cefnogi cydweithio rhanbarthol. Ymhlith yr enghreifftiau mae Prifysgol Sheffield a Phrifysgol Sheffield Hallam, sy'n gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Sheffield ar gynllun canol y ddinas o amgylch eu campysau yn y dyfodol; neu Athrofa Technoleg Bwyd-Amaeth Prifysgol Lincoln sy'n cydweithio â'r sector amaeth i ddatblygu technoleg a all ateb heriau ar draws y gadwyn fwyd yn Swydd Lincoln. Ym mis Mawrth 2021, gwnaeth yr Adran Addysg ran-ariannu creu Rhwydwaith Prifysgolion Dinesig drwy grant o £50,000 i gynorthwyo prifysgolion drwy'r broses o greu Cytundebau Prifysgolion Dinesig, gan wneud prifysgolion yn brif sefydliadau yn eu hardaloedd o ran datblygu anghenion llesiant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol y gymuned gyfagos.

Mae gan fodelau newydd arloesol o Addysg Uwch seiliedig ar sgiliau ran bwysig i'w chwarae hefyd wrth sicrhau ffyniant bro. Er enghraifft, mae'r Athrofa Technoleg a Pheirianneg Model Newydd, a agorwyd fis Medi diwethaf yn Henffordd, yn cynnig model dysgu seiliedig ar sgiliau sy'n defnyddio arfer orau fyd-eang sy'n rhoi pwyslais ar fod yn barod at waith, yn ogystal â hunanddibyniaeth, ysbryd cymunedol a gwirfoddoli. Yn ardal drefol Old Trafford, mae Prifysgol Caerhirfryn ac aelodau Dosbarth 1992 Clwb Pêl-droed Manchester United wedi sefydlu Academi Prifysgol 92, sy'n rhoi pwyslais ar gymeriad, datblygu personol a chyflogadwyedd, yn ogystal â dull dysgu modiwlaidd.

> **“Mae gan y sector Addysg Uwch rôl allweddol i'w chwarae yn sicrhau ffyniant bro”**

Creodd Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 y Swyddfa i Fyfyrwyr, a wnaeth y broses o ddod yn ddarparwr Addysg Uwch yn symlach a galluogi darparwyr newydd i gael pwerau dyfarnu graddau am y tro cyntaf. O ganlyniad, mae darparwyr newydd megis y Jimmy Choo Academy, TEDI ac Ysgol Ryngddisgyblaethol Llundain wedi dod yn ddarparwyr Addysg Uwch cofrestredig. Bydd Llywodraeth y DU yn parhau i weithio gyda'r Swyddfa i Fyfyrwyr i ddiwygio rhwystrau i fynediad i sector Addysg Uwch Lloegr, fel y gall darparwyr Addysg Uwch newydd o ansawdd uchel agor ledled Lloegr, gan ymuno â'r 400+ o ddarparwyr sydd eisoes ar y gofrestr, er mwyn cynyddu mynediad i Addysg Uwch, yn enwedig mewn trefi a dinasoedd heb y fath ddarpariaeth.

Mae gan y sector Addysg Uwch rôl allweddol i'w chwarae yn sicrhau ffyniant bro drwy ei gwneud hi'n haws achub ar gyfleoedd, yn ogystal â chefnogi economïau rhanbarthol, fel bod pob person ifanc ac oedolyn, ni waeth beth fo'u cefndir na'u lleoliad daearyddol, yn gallu ennill y cymwysterau proffesiynol o ansawdd uchel sydd eu hangen i gael swyddi gwerth chweil, sy'n talu'n dda sydd o fudd i'w teuluoedd a'u cymunedau. Mae newidiadau yn cael eu gwneud i rôl y sector Addysg Uwch o ran cyfleoedd ffyniant bro i ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i sicrhau bod darparwyr Addysg Uwch yn gweithio'n agos gydag ysgolion a cholegau i godi safonau addysgol a chynorthwyo myfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig yn eu cymunedau, drwy ailbennu ffocws Cynlluniau Mynediad a Chyfranogi prifysgolion. Bydd y Swyddfa i Fyfyrwyr yn ei gwneud yn ofynnol i bob prifysgol yn Lloegr ailbennu ffocws ei Chynlluniau Mynediad a Chyfranogi ar symudedd

cymdeithasol gwirioneddol, gan ei gwneud hi yr un mor bwysig i ddatblygu yn y brifysgol ag i gael lle, a phwysleisio gweithgareddau sy'n cael effaith uniongyrchol ar gyrhaeddiad myfyrwyr. Gallai'r gweithgareddau gynnwys tiwtora, rhedeg ysgolion haf neu helpu ysgolion a cholegau i ddatblygu'r cwricwlwm. Bydd y newidiadau hyn yn helpu i wella ansawdd darparwyr addysg a hyfforddiant lleol.

*Hyfforddiant gydol oes*

Bydd trydedd set ategol o bolisïau sgiliau yn sicrhau bod unigolion, ble bynnag y maent yn byw, yn cael mynediad i hyfforddiant drwy gydol eu hoes. Cafodd Gwarant Sgiliau Gydol Oes Llywodraeth y DU ei chyhoeddi gan y Prif Weinidog ym mis Medi 2020, ac addawyd "at every stage in your life, this government will help you get the skills you need." Ynghyd â'r diwygiadau i gyllid ac atebolrwydd a fydd yn cefnogi ac yn galluogi darparwyr i gynnig sgiliau o ansawdd uchel, mae Llywodraeth y DU yn ymrwymedig i sicrhau bod modd i unigolion gael gafael ar gymorth hyblyg i hyfforddi, ailhyfforddi ac uwchsgilio drwy gydol eu bywydau. Mae hyn yn allweddol i dorri'r cylch sgiliau is a'r diffyg cyfleoedd sy'n effeithio ar rai cymunedau.

> **Bydd oedolion ledled y DU yn cael budd o'r rhaglen rhifedd Lluosi**

Fel rhan o'r Warant Sgiliau Gydol Oes, ers 2021 mae pob oedolyn yn Lloegr nad oes ganddo gymhwyster lefel 3 (yr hyn sy'n cyfateb i Safon Uwch neu ddiploma technegol uwch) wedi gallu astudio ar gyfer cymhwyster lefel 3 cymeradwy am ddim o dan y rhaglen Cyrsiau am Ddim ar gyfer Swyddi. O fis Ebrill 2022, bydd hyn yn ehangu i gynnwys cynllun peilot yn galluogi unrhyw oedolyn â chymhwyster lefel 3 neu uwch sy'n ennill llai na'r Cyflog Byw Cenedlaethol neu sy'n ddi-waith i astudio ar gyfer **cymhwyster lefel 3 gwerth uchel pellach am ddim**, ni waeth beth fo'i gymwysterau blaenorol. Bydd gan Awdurdodau Cyfun Maerol ac Awdurdod Llundain Fwyaf yr hyblygrwydd i benderfynu ar y trothwyon cyflogau isel yn eu hardaloedd lleol.

Fel rhan o lansio Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU gwerth £2.6bn, bydd oedolion ledled y DU yn cael budd o'r **rhaglen llythrennedd Lluosi**, a fydd yn cynnig cymorth cenedlaethol a lleol i bobl feithrin neu wella eu sgiliau rhifedd, gwerth £559m dros gyfnod Adolygiad o Wariant 2021. Mae anghyfartaleddau mewn lefelau rhifedd ledled y DU yn gwneud hyn yn bolisi ffyniant bro allweddol.

O 2025, bydd yr Adran Addysg yn trawsnewid y system cyllid myfyrwyr, sy'n helpu i ariannu astudiaeth ar gyrsiau lefel 4 i 6. Bydd hyn yn helpu i sicrhau mwy o degwch rhwng Addysg Bellach ac Addysg Uwch, a dod â cholegau a phrifysgolion yn agosach at ei gilydd. Fel rhan o'r Warant Sgiliau Gydol Oes, bydd **Hawliad Benthyciad Gydol Oes hyblyg** yn rhoi'r hawl i unigolion yn Lloegr gael benthyciad sy'n cyfateb i werth pedair blynedd o ffioedd ar gyfer addysg ôl-16. Bydd ar gael ar gyfer modiwlau unigol a blynyddoedd llawn o astudio ar lefelau technegol uwch a gradd, ni waeth p'un ai colegau neu brifysgol sy'n eu darparu.

Mae'r Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16 yn braenaru'r tir ar gyfer sicrhau bod gan fenthyciadau ar gyfer cyrsiau modiwlaidd cymeradwy sail statudol gadarn. Bydd y newidiadau hyn i drefniadau cyllid myfyrwyr yn ei gwneud hi'n haws i oedolion mewn cymunedau â lefelau is o sgiliau uwchsgilio ac ailhyfforddi, yn enwedig lle mae darparwyr lleol yn darparu cyrsiau technegol uwch o ansawdd uchel (Lefelau 4 a 5) – er enghraifft, ym maes peirianneg, digidol, nyrsio neu fusnes.

### *Cyfleoedd gwaith a chamu ymlaen*

Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi dechrau trawsnewid gweithrediadau'r Ganolfan Byd Gwaith, gyda phwyslais cynyddol ar gynorthwyo hawlwyr Credyd Cynhwysol sydd eisoes yn gweithio i ennill mwy. Yn Rotherham, Barnsley, Sheffield a Doncaster, mae hyfforddwyr gwaith wedi dechrau cynnig cyngor ymarferol a phwrpasol ar gamu ymlaen i unigolion. Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn cynyddu'r cymorth hwn o fis Ebrill 2022 i bob Canolfan Gwaith ledled Prydain Fawr, ac fel rhan o'r Cynllun Swyddi bydd Llywodraeth y DU yn buddsoddi £99m dros y tair blynedd nesaf mewn cynnig **Camu Ymlaen yn Eich Gwaith**. Bydd hyn yn ehangu cymorth gan hyfforddwyr gwaith i bobl ar incymau isel ledled Prydain Fawr er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau o ran sgiliau neu rwystrau ehangach i gamu ymlaen. Bydd yr hyn a ddysgir yn cael ei rannu â Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon er mwyn helpu gyda'i chynllun hi ar gyfer rhaglen.

> **Mae Llywodraeth y DU yn ymrwymedig i godi'r Cyflog Byw Cenedlaethol i ddwy ran o dair o enillion canolrifol**

Bydd tua 1.7m o hawlwyr Credyd Cynhwysol ledled holl Ardaloedd Canolfan Byd Gwaith Prydain Fawr yn gymwys i gael cymorth camu ymlaen yn eich gwaith. I gefnogi gwaith Canolfannau Gwaith, bydd Llywodraeth y DU hefyd yn penodi Hyrwyddwyr Camu Ymlaen arbenigol ledled Prydain Fawr a fydd yn cysylltu â chyflogwyr, awdurdodau lleol a darparwyr sgiliau. Bydd hyfforddwyr gwaith yn cydweithio â'r arbenigwyr hyn i gynorthwyo pawb sy'n hawlio i gamu ymlaen. Bydd ymateb Llywodraeth y DU i'r Comisiwn Camu Ymlaen yn rhoi rhagor o fanylion.

Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r anghyfartaledd o ran cyflogau isel a welir mewn ardaloedd ledled y wlad, bydd Llywodraeth y DU yn cynyddu'r **Cyflog Byw Cenedlaethol** 6.6% i £9.40 yr awr i weithwyr 23+ oed o 1 Ebrill 2022, a ddilynir gan gynnydd pellach yn 2023 a 2024. Bydd hyn yn golygu bod gweithiwr llawn amser ar y Cyflog Byw Cenedlaethol unrhyw le yn y DU yn cael cynnydd mewn enillion blynyddol o fwy na £1,000. O fis Ebrill 2022, bydd pobl ifanc a phrentisiaid hefyd yn gweld eu cyflogau'n codi wrth i'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol i bobl 21-22 oed godi i £9.18 yr awr, ac wrth i'r Gyfradd i Brentisiaid godi i £4.81 yr awr. Mae Llywodraeth y DU yn ymrwymedig i godi'r Cyflog Byw Cenedlaethol i ddwy ran o dair o enillion canolrifol, ac iddo gael ei ehangu'n raddol i'r rhai 21+ oed erbyn 2024, ar yr amod bod amodau economaidd yn caniatáu hynny.

Mae Llywodraeth y DU wedi cymryd camau i wneud i waith dalu drwy dorri cyfradd dapro Credyd Cynhwysol o 63% i 55%, a chynyddu lwfansau gwaith Credyd Cynhwysol £500 y flwyddyn. Yn ei hanfod, mae hyn yn ostyngiad treth i'r bobl sy'n ennill leiaf gwerth tua £2.2bn yn 2022-23. Mae'n golygu y bydd 1.9m o aelwydydd, ar gyfartaledd, yn cadw tua £1,000 yn ychwanegol o'r arian y maent yn ei ennill bob blwyddyn.

### *Cymorth cyflogaeth i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd*

Mae Llywodraeth y DU yn ymrwymedig i gynorthwyo mwy o bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd i weithio drwy amrywiaeth o fentrau. Y llynedd cyflwynodd Llywodraeth y DU becyn o fesurau i helpu i leihau nifer y swyddi a gollir o ganlyniad i salwch. Cyflwynwyd y pecyn yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus *Mae Iechyd yn Fusnes i Bawb*, a oedd yn cynnwys mesurau yn canolbwyntio ar wella mynediad cyflogwyr i gyngor iechyd galwedigaethol a chryfhau cymorth y llywodraeth wrth reoli iechyd ac anabledd yn y gweithle.[419]

419 Llywodraeth Ei Mawrhydi. *Mae iechyd yn fusnes i bawb*. 2019.

Bydd Llywodraeth y DU yn darparu £1.3bn dros gyfnod Adolygiad o Wariant 2021 **i ddarparu cymorth cyflogaeth i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd.** Bydd yn ehangu'r Rhaglen Gwaith ac Iechyd, yn ehangu'r rhaglen Cymorth Cyflogaeth Personoledig Dwys, ac yn ehangu cymorth cyflogaeth o fewn gwasanaethau Gwella Mynediad at Therapi Seicolegol y GIG ledled Lloegr. Bydd Llywodraeth y DU hefyd yn parhau i ddatblygu'r cynigion yn y Papur Gwyrdd Iechyd ac Anabledd, *Llywio Cymorth y Dyfodol*, er mwyn sicrhau bod y system les yn cefnogi pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd yn well i fyw'n annibynnol, a bydd yn cyhoeddi Papur Gwyn â rhagor o fanylion yn ddiweddarach eleni. Fel y nodwyd yn Strategaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy 2018, mae Llywodraeth y DU hefyd yn ymrwymedig i gysylltu pobl anabl â gwaith drwy sicrhau bod ganddynt fynediad cyfartal at drafnidiaeth ble bynnag y maent yn y DU.

**“Nod Llywodraeth y DU yw mynd i'r afael â'r anghyfar-taleddau mawr mewn canlyniadau iechyd ledled y DU”**

Nod y Strategaeth Anabledd Genedlaethol yw sicrhau bod pob person anabl yn gallu chwarae rhan lawn mewn cymdeithas. Mae'r strategaeth yn ystyried effeithiau pandemig COVID-19 ar bobl anabl, gyda phwyslais ar y materion sy'n effeithio arnynt fwyaf, yn cynnwys cyflogaeth. Mae'r gweinyddiaethau datganoledig hefyd wedi cyhoeddi strategaethau i gefnogi'r rhai ag anableddau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

### 3.3.3 Erbyn 2030, bydd y bwlch o ran Disgwyliad Oes Iach rhwng ardaloedd lleol lle mae ar ei uchaf ac ar ei isaf wedi lleihau, ac erbyn 2035 bydd wedi cynyddu bum mlynedd.

Mae'r genhadaeth hon yn canolbwyntio ar wella disgwyliad oes iach.

#### Disgwyliad oes iach


##### *Yr achos dros weithredu*

Nod Llywodraeth y DU yw mynd i'r afael â'r anghyfartaleddau mawr mewn canlyniadau iechyd ledled y DU, gan sicrhau bod pobl yn cael y cyfle i fyw bywydau hir ac iach ble bynnag y maent yn byw.

Ar gyfartaledd, mae pobl sy'n byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yn Lloegr yn byw dros 18 mlynedd yn llai o'u bywydau mewn iechyd cyffredinol da na'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig (gweler Ffigur 3.5).[420] Caiff hyn ei lywio gan amrywiaeth o ffactorau, yn cynnwys cyfraddau smygu, y defnydd o alcohol a deiet gwael. Mae gwahaniaethau mewn ffactorau, megis ansawdd tai a'r gallu i gael gafael ar fwyd iachach, hefyd yn cael effaith fawr. Mae ffactorau lleol eraill, megis demograffeg, hefyd yn bwysig – er enghraifft, mewn ardaloedd gwledig neu arfordirol lle mae'r poblogaethau yn hŷn. Mae'r gallu i gael gafael ar wasanaethau iechyd, a'u hansawdd, hefyd yn sbardunau pwysig o ran canlyniadau iechyd, a gallant amrywio fesul ardal.

420 SYG. *Health state life expectancies by national deprivation deciles, England: 2017 i 2019*. 2021.

**Ffigur 3.5 Disgwyliad Oes a Disgwyliad Oes Iach, cymdogaethau yn Lloegr fesul degradd amddifadedd, 2017-2019**[421]




Mae COVID-19 wedi gwneud yr anghyfartaleddau hyn yn fwy nodedig, gyda chyfraddau derbyniadau ysbyty a marwolaethau yn uwch ymhlith grwpiau mwy difreintiedig. Mae tystiolaeth gynnar yn awgrymu bod cyffredinrwydd achosion hunangofnodedig o "COVID hir" hefyd yn uwch ymhlith y rhai sy'n

421 SYG. *Health state life expectancies by national deprivation deciles, England: 2017 i 2019*. 2021.

byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Yn sgil y pandemig mae anghyfartaleddau o ran cael gofal iechyd wedi tyfu yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, gyda rhestrau aros yn Lloegr yn codi 55% yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig, o gymharu â 36% yn yr 20% mwyaf cefnog.[422]

### *Y rhaglen bolisi*

Mae gwella canlyniadau iechyd i bobl ledled y DU yn flaenoriaeth i Lywodraeth y DU. Gan barchu'r setliadau datganoli, bydd Llywodraeth y DU yn cynnal y rhaglen bolisi hon yn uniongyrchol yn Lloegr, ac mae'n edrych ymlaen at adeiladu ar y cydweithio arbennig sydd wedi digwydd â'r gweinyddiaethau datganoledig drwy gydol pandemig COVID-19, er mwyn sicrhau bod polisïau o fudd i bob rhan o'r DU.

**"Mae Llywodraeth y DU yn cyflawni rhaglen uchelgeisiol i uwchraddio adeiladau ysbytai"**

Mae Llywodraeth y DU yn cyflawni rhaglen uchelgeisiol i uwchraddio adeiladau ysbytai, ynghyd â'r ymrwymiad i gynyddu nifer yr apwyntiadau meddygon teulu ac atal 150,000 o achosion o glefyd cardiofasgwlaidd. Ategir hyn gan y buddsoddiad mewn iechyd a'r GIG, a ran-ariennir gan yr Ardoll Iechyd a Gofal Cymdeithasol newydd a gadarnhawyd yn Adolygiad o Wariant 2021. Darparodd Adolygiad o Wariant 2021 £23.3bn yn ychwanegol ar gyfer y GIG dros gyfnod yr Adolygiad o Wariant, ac mae Llywodraeth y DU yn bwriadu gwario mwy nag £8bn o 2022-23 i 2024-25 i gefnogi adfer dewisol. Bydd Llywodraeth y DU hefyd yn cynnal Grant Iechyd y Cyhoedd mewn termau real dros gyfnod Adolygiad o Wariant 2021, gan alluogi awdurdodau lleol i fuddsoddi mewn gwasanaethau ataliol a rheng flaen, megis ymweliadau iechyd plant.

Mae'r rhaglen bolisi yn canolbwyntio ar y canlynol:

a. gwella iechyd y cyhoedd;
b. cynorthwyo pobl i newid eu bwyd a'u deiet;
c. mynd i'r afael ag ôl-groniadau diagnostig.

#### *Gwella iechyd y cyhoedd*

Ers 2019, bu ymgyrch i leihau anghyfartaleddau iechyd a gwella canlyniadau iechyd y cyhoedd, yn cynnwys Cynllun Hirdymor y GIG 2019, sy'n nodi ymrwymiadau allweddol i gymryd camau breision i atal salwch a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn Lloegr. Ers cyhoeddi'r Cynllun Hirdymor, mae GIG Lloegr yn datblygu menter Core20PLUS5 i wella gofal iechyd, gan ganolbwyntio ar wella canlyniadau clefyd cardiofasgwlaidd, canser, anadlol, mamolaeth ac iechyd meddwl ymhlith yr 20% o'r boblogaeth dlotaf, ynghyd â lleiafrifoedd ethnig a grwpiau iechyd cynhwysiant.

Mae GIG Lloegr hefyd yn cyflwyno presgripsiynu cymdeithasol ar draws y GIG yn unol â'r ymrwymiad yn y Cynllun Hirdymor i sicrhau bod 1,000 o weithwyr cyswllt presgripsiynu cymdeithasol newydd erbyn 2020-21, gyda llawer mwy i ddilyn, fel bod o leiaf 900,000 o bobl yn cael eu hatgyfeirio at bresgripsiynu cymdeithasol erbyn 2023-24. Mae gweithwyr cyswllt yn rhoi amser i bobl, gan ganolbwyntio ar "yr hyn sy'n bwysig i mi" ac ymdrin ag iechyd a llesiant pobl mewn modd holistaidd. Maent yn cysylltu pobl â grwpiau cymunedol a gwasanaethau statudol ar gyfer cymorth ymarferol ac emosiynol, gan helpu pobl i fyw bywydau iachach a mwy bodlon.

Hefyd, mae GIG Lloegr wedi comisiynu gwerthusiad o'r broses hon, a fydd yn helpu i lywio modelau ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol yn y dyfodol, yn cynnwys sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y rhai y mae anghyfartaleddau

422 The King's Fund. *Tackling the elective backlog – exploring the relationship between deprivation and waiting times*. 2021.

iechyd yn effeithio arnynt fwyaf. At hynny, mae Llywodraeth y DU wedi buddsoddi mewn prosiect trawslywodraethol gwerth £5.77m yn anelu at atal a mynd i'r afael â salwch meddwl drwy bresgripsiynu cymdeithasol gwyrdd, a fydd yn ystyried sut i gynyddu'r defnydd o'r amgylchedd naturiol, a'r cysylltiad ag ef, i atal a mynd i'r afael â salwch meddwl, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y cymunedau y mae anghyfartaleddau iechyd yn effeithio arnynt fwyaf.

Yn fwy diweddar, lansiodd Llywodraeth y DU y Swyddfa Anghyfartaleddau a Gwella Iechyd, a wnaeth amlinellu ei huchelgais i fynd i'r afael â'r prif ffactorau risg y gellir eu hatal mewn modd systematig, megis smygu a gordewdra, er mwyn lleihau anghyfartaleddau iechyd. Bydd y Swyddfa yn dwyn ynghyd gyngor arbenigol, a sgiliau dadansoddi a chyflawni o hen sefydliad Iechyd Cyhoeddus Lloegr, ag arbenigedd polisi i lywio dull Llywodraeth y DU o ymdrin ag iechyd y cyhoedd.

Cafodd Strategaeth Gyffuriau 10 mlynedd newydd Llywodraeth y DU i fynd i'r afael â'r defnydd anghyfreithlon o gyffuriau yn Lloegr ei chyhoeddi ym mis Rhagfyr 2021.[423] Mae'n amlinellu dull system gyfan o leihau gweithgarwch cyflenwi cyffuriau, a'r galw am gyffuriau. Yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn Lloegr sy'n wynebu'r nifer mwyaf o achosion o droseddau a gyflawnir oherwydd cyffuriau, a niwed i iechyd yn gysylltiedig â defnyddio cyffuriau. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gyflawni argymhellion allweddol a nodir yn adolygiad annibynnol y Fonesig Carol Black o gyffuriau, a bydd yn buddsoddi £780m i greu system triniaeth ac adfer er mwyn torri'r cylch problemau cyffuriau. Caiff £533m ei wario ar wella triniaethau cyffuriau cleifion mewnol, preswyl a chymunedol, gan dargedu buddsoddi mewn ardaloedd â'r lefelau uchaf o ddefnyddio cyffuriau, a marwolaethau a throseddau'n gysylltiedig â chyffuriau.

Bydd Llywodraeth y DU yn amlinellu strategaeth i fynd i'r afael â phrif sbardunau anghydraddoldebau mewn canlyniadau iechyd mewn **Papur Gwyn newydd ar Anghyfartaleddau Iechyd** yn Lloegr yn 2022. Bydd yn cyflwyno uchelgais eofn i leihau'r bwlch mewn canlyniadau iechyd, gyda chryn bwyslais ar waith ataliol ac anghyfartaleddau yn ôl ethnigrwydd, cefndir economaidd-gymdeithasol a daearyddiaeth.

> **“Uchelgais eofn i leihau'r bwlch mewn canlyniadau iechyd”**

Bydd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gweithio gyda'r llywodraeth gyfan i ystyried anghyfartaleddau iechyd ar bob cam lle maent yn codi, o benderfynyddion ehangach iechyd, i'r ffactorau ymddygiadol sy'n dylanwadu ar iechyd, i'r gwasanaethau iechyd y mae pobl yn cael gafael arnynt ac yn eu derbyn. Mae'n bwriadu edrych yn fanylach ar yr hyn y gellir ei wneud mewn cymunedau sydd â chyfraddau uwch na'r cyfartaledd o farwolaethau cynnar, er enghraifft o ganser a chlefyd y galon. Bydd yn gwneud yr un peth ar gyfer cymunedau â chyfraddau uwch o ymddygiadau megis smygu neu ddeiet gwael, a lle gall mynediad at rai gwasanaethau iechyd fod ar ei hôl hi.

Bydd y Papur Gwyn yn dysgu o brofiadau yn ystod yr ymateb i'r pandemig ynghylch y ffordd orau o gael cymunedau ac amrywiaeth o bartneriaid i fynd i'r afael â heriau iechyd a rennir, yn cynnwys ffyrdd newydd o sicrhau bod byd busnes yn chwarae rhan yn y gwaith o wella iechyd, cynigion ar gyfer datrysiadau seiliedig ar le, a ffyrdd y gall Llywodraeth y DU weithio'n fwy effeithiol i wella iechyd.

Mae tybaco yn dal i fod yn un o achosion unigol mwyaf marwolaethau y gellid eu hatal, ac mae cyfraddau smygu yn dal i fod yn uchel mewn rhai rhannau o'r DU. Yn 2019, amlinellodd Llywodraeth y DU uchelgais i Loegr fod yn ddi-fwg erbyn 2030. Bwriedir cyhoeddi **Cynllun Rheoli Tybaco** newydd i Loegr yn

423 Llywodraeth Ei Mawrhydi. *From harm to hope: A 10-year drugs plan to cut crime and save lives*. 2021.

2022, gan nodi sut y bydd Llywodraeth y DU yn cyflawni'r ymrwymiad hwn, gyda ffocws ar ostwng cyfraddau smygu yn yr ardaloedd ac ymhlith y grwpiau mwyaf difreintiedig.

Mae Llywodraeth y DU yn buddsoddi £75m mewn gwasanaethau a chymorth rheoli pwysau yn Lloegr yn 2021-22. O'r swm hwn, mae tua £35m ar gyfer gwasanaethau rheoli pwysau awdurdodau lleol i oedolion, plant a theuluoedd, ar ben gwasanaethau sydd eisoes yn cael eu darparu drwy'r Grant Iechyd y Cyhoedd. Cafodd y cyllid newydd ar gyfer gwasanaethau i oedolion ei ddarparu i bob awdurdod lleol yn seiliedig ar faint y boblogaeth, cyffredinrwydd gordewdra a lefelau amddifadedd. Darparwyd cyllid ar gyfer gwasanaethau plant drwy broses grant gystadleuol, gan dargedu ardaloedd â'r lefelau uchaf o amddifadedd a'r cyfraddau uchaf o ordewdra ymhlith plant. Gwnaeth ariannu 11 o awdurdodau lleol, yn cynnwys rhai yn Lerpwl, Birmingham, a Barking a Dagenham, lle mae disgwyliad oes iach yn wael, gan fod yn gyson â'r genhadaeth i wella iechyd.

Bydd Llywodraeth y DU hefyd yn lansio ac yn profi **Better Health: Rewards** yn Ninas Wolverhampton eleni. Bydd y prosiect arloesol hwn yn cymell ac yn gwobrwyo cyfranogwyr i wella eu gweithgarwch corfforol a'u deiet, gan ganolbwyntio'n arbennig ar grwpiau na chânt eu gwasanaethu'n ddigonol a'r rhai nad ydynt eisoes yn bodloni canllawiau i'w helpu i fyw bywydau iachach. Bydd y rhai fydd yn cymryd rhan yn y cynllun peilot yn gwisgo dyfais o amgylch eu garddyrnau a chânt ddefnyddio ap a fydd yn rhoi argymhellion iechyd wedi'u personoli iddynt, megis cynyddu nifer y camau y maent yn eu cymryd neu fwyta mwy o ffrwythau a llysiau, a chesglir pwyntiau am ymddygiadau iach a fydd ar gael i'w cyfnewid am wobrau wedyn. Caiff y gwersi o'r cynllun peilot hwn eu hastudio'n ofalus er mwyn deall sut y gallai chwarae rôl ehangach helpu i wella iechyd y genedl.

Yn fwy eang o ran camau ataliol iechyd, byddwn yn cynorthwyo mwy o bobl i ddeall y risgiau iechyd y maent yn eu hwynebu, a gweithredu arnynt, mewn amrywiaeth o ffyrdd. Bydd Llywodraeth y DU yn gwneud gwaith i wella'r niferoedd sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni sgrinio ymhlith grwpiau nas gwasanaethir yn ddigonol. Targedir gwybodaeth am iechyd ac adnoddau ac ymgyrchoedd gwella lle gallant gael yr effaith fwyaf. Ac, ymhellach at gyhoeddi *Preventing illness and improving health for all: a review of the NHS Health Check programme and recommendations*, mae Llywodraeth y DU yn ystyried dyfodol **Rhaglen Archwiliadau Iechyd y GIG** er mwyn helpu i atgyfnerthu ein cynnig o ran camau ataliol.

### *Bwyd a deiet*

Mae bwyd a deiet hefyd yn ategu iechyd, llesiant a photensial ein cymdeithas. Bydd **Papur Gwyn** Llywodraeth y DU ar **Strategaeth Fwyd** sydd ar ddod yn datblygu argymhellion adolygiad annibynnol Henry Dimbleby tuag at Strategaeth Fwyd Genedlaethol er mwyn helpu i sicrhau bod pawb yn gallu dilyn, deall a mwynhau buddiannau deiet iach a chynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys edrych ar sut mae defnyddwyr yn cael gafael ar wybodaeth am fwyd, gan ddefnyddio rhaglenni megis y Rhaglen Gweithgareddau a Bwyd yn ystod y Gwyliau £200m y flwyddyn newydd, i nid yn unig sicrhau bod plant yn cael gweithgareddau sy'n eu cyfoethogi, ond hefyd sicrhau eu bod yn cael bwyd maethlon. Bydd hyn yn cynorthwyo plant a theuluoedd cymwys mewn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig i ddysgu a gwella eu gwybodaeth am iechyd a maeth, gan osod y sylfeini ar gyfer dyfodol iachach a mwy cynaliadwy.

Yn unol ag argymhellion Henry Dimbleby, caiff prosiect ar y cyd ei lansio rhwng yr Adran Addysg a'r Asiantaeth Safonau Bwyd i gynllunio a phrofi dull newydd

ar gyfer awdurdodau lleol i sicrhau a chefnogi cydymffurfiaeth â safonau bwyd ysgolion. Bydd y prosiect yn ymgysylltu â sawl awdurdod lleol ym mis Mawrth, a disgwylir i gynlluniau peilot gael eu lansio ym mis Medi. Ymhlith yr awdurdodau lleol fydd yn cymryd rhan mae Cyngor Blackpool, Cyngor Sir Swydd Lincoln, Cyngor Dinas Plymouth a Chyngor Dinas Nottingham. Bydd Llywodraeth y DU yn hyrwyddo atebolrwydd a thryloywder trefniadau bwyd ysgolion drwy annog ysgolion i gwblhau datganiad ar eu gwefannau sy'n amlinellu eu dull ysgol gyfan o ymdrin â bwyd. Bwriad Llywodraeth y DU yw sicrhau bod hyn yn dod yn orfodol pan gall ysgolion wneud hyn yn effeithiol.

Mae gormod o bobl ifanc yn dal i adael addysg heb y sgiliau na'r wybodaeth i goginio a byw'n iach. Gan fabwysiadu argymhellion Henry Dimbleby ynghylch bwyta a dysgu, bydd Llywodraeth y DU yn buddsoddi hyd at £5m i lansio chwyldro coginio mewn ysgolion, yn cynnwys datblygu cynnwys newydd sbon ar gyfer y cwricwlwm a darparu bwrsarïau ar gyfer hyfforddiant ac arweinyddiaeth athrawon. I gefnogi hyn, bydd Llywodraeth y DU yn buddsoddi hyd at £200,000 i dreialu hyfforddiant newydd ar gyfer llywodraethwyr ysgol ac ymddiriedolaethau academi ar ddull ysgol gyfan o ymdrin â bwyd. Drwy'r ymyriadau hyn, bydd Llywodraeth y DU yn anelu at sicrhau bod pob plentyn sy'n gadael yr ysgol uwchradd yn gwybod o leiaf chwe rysáit sylfaenol a fydd yn cefnogi byw'n iach i oedolaeth.

Yn olaf, gan fod y DU yn un o'r gwledydd gwaethaf yn Ewrop am gyfraddau gordewdra, mae angen amlwg i wneud mwy o waith ataliol.[424] Bydd Llywodraeth y DU yn datblygu hyn drwy dderbyn argymhelliad Henry Dimbleby i dreialu rhaglen Bwyta'n Iach Cymunedol drwy gynnal rhaglen beilot tair blynedd, yn adeiladu ar fodelau hynod lwyddiannus o bob cwr o'r byd. Mae'r rhaglen Produce Prescription yn Washington DC, er enghraifft, yn galluogi meddygon i ragnodi talebau ar gyfer ffrwythau a llysiau ffres, ynghyd â gwersi coginio ac addysg faethol. Dangoswyd bod y cynllun yn cynyddu faint o ffrwythau a llysiau a gaiff eu bwyta, ac yn gwella dealltwriaeth faethol. O'r 120 o gleifion a gafodd dalebau rhwng 2012 a 2017, collodd 50% bwysau yn ystod cyfnod y presgripsiwn.[425] Lle y caiff Bwyta'n Iach Cymunedol ei dreialu, bydd modd i feddygon teulu ragnodi ffrwythau a llysiau, yn ogystal ag addysg a chymorth cymdeithasol yn ymwneud â bwyd i'r rhai sydd â salwch, neu sy'n wynebu'r risg o salwch, yn gysylltiedig â bwyd, neu ansicrwydd bwyd.

> **Bydd Llywodraeth y DU yn gwella mynediad at wasanaethau diagnostig hanfodol ac yn mynd i'r afael â'r ôl-groniad diagnostig a gafodd ei greu gan COVID-19**

### *Mynd i'r afael ag ôl-groniadau diagnostig*

Bydd Llywodraeth y DU yn gwella mynediad at wasanaethau diagnostig hanfodol ac yn mynd i'r afael â'r ôl-groniad diagnostig a gafodd ei greu gan COVID-19 drwy fuddsoddi £2.3bn, yn cynnwys sefydlu o leiaf 100 o **Ganolfannau Diagnostig Cymunedol** yn Lloegr erbyn 2025. Bydd y mwyafrif o'r rhain wedi'u lleoli y tu allan i Lundain a de-ddwyrain Lloegr, gan roi hwb i adnoddau diagnostig mewn ardaloedd sydd ei angen fwyaf a chynnig amrywiaeth o wasanaethau sy'n diwallu anghenion lleol.

Gall y canolfannau gynnwys cyfarpar delweddu, cardio-anadlol, patholeg, endosgopi ac ymgynghori cyffredinol fel bod modd cynnal sawl prawf yn ystod un ymweliad, gan wella cywirdeb diagnosis a phrofiad cyffredinol y claf. Bydd y Canolfannau Diagnostig Cymunedol a gyflwynir eleni yn cynnal bron tair miliwn o sganiau ychwanegol yn y flwyddyn lawn gyntaf o weithrediadau. Dros y tair blynedd nesaf, disgwylir iddynt gynyddu nifer y sganiau wyth miliwn o brofion ychwanegol y flwyddyn, gan ddarparu'r hyn sy'n cyfateb i 23,000 o flynyddoedd o ansawdd bywyd gwell.

424 GIG Lloegr. *The NHS Long Term Plan*. t.36. 2019.
425 Henry Dimbleby. *The National Food Strategy Independent Review*. t.153. 2021.

### Blwch 3.13 Canolfan Ddiagnostig Gymunedol Barnsley

Er gwaethaf gwelliannau, mae cyfradd y marwolaethau o ganser ymhlith pobl o dan 75 oed yn Barnsley yn dal i fod yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd (142 fesul 10,000 o gymharu â 129 ar gyfartaledd yn Lloegr).[426] O fewn Barnsley, gall bron traean o'r bwlch mewn disgwyliad oes rhwng menywod yn yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig gael ei briodoli i ganser. Caiff mwy o ganser ei ddiagnosio yn Barnsley ar gam hwyrach ac fel argyfwng o gymharu â chyfartaledd Lloegr. Yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Barnsley, mae pobl yn wynebu rhwystrau penodol wrth geisio cael gofal dewisol, megis gwasanaethau diagnostig canser. Hwyrach bod y cleifion hyn yn gweithio oriau anhyblyg, neu maent ymhlith y 27% o aelwydydd yn Barnsley sydd heb eu trafnidiaeth eu hunain, lle y gallai fod angen dal dau fws i gyrraedd yr ysbyty.[427]

Mae System Gofal Integredig De Swydd Efrog a Bassetlaw yn arwain y gwaith o ddatblygu Canolfan yn y Glass Works yn Barnsley. Mae hyn yn rhan o Brosiect Adfywio Trefol Barnsley ac mae'n gyfleuster nad yw'n un gofal iechyd sy'n bodoli eisoes a leolir mewn datblygiad siopau a hamdden sy'n cael ei adeiladu ar hyn o bryd yng nghanol Barnsley, gyda chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus da a mannau parcio. Bydd y cyfle i fod ar agor am fwy o oriau yn helpu i fynd i'r afael ag anghyfartaleddau iechyd drwy wella mynediad at wasanaethau diagnostig allweddol i gleifion o ardaloedd cymharol ddifreintiedig yng nghanol Barnsley, yn ogystal â'r rhai sy'n ymweld â chanol y ddinas. Mae hyn yn cynnwys gwell mynediad i sgrinio'r fron, a fydd yn cyfrannu at ddiagnosio canser yn gyflymach ac yn gynharach.

**"Caiff bywydau pobl eu llywio gan wead cymdeithasol a ffisegol eu cymunedau"**

Amlinellodd y Papur Gwyn *People at the Heart of Care* a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021 ddiwygiadau arfaethedig Llywodraeth y DU i ofal cymdeithasol oedolion yn Lloegr.[428] Mae'n cynnwys cynigion ar dai i alluogi pobl i fyw'n dda fel rhan o gymunedau y maent yn eu rhannu â theulu a ffrindiau. Mae'r papur yn nodi'r camau nesaf i sicrhau y gall pobl gael gafael ar ofal o'r radd flaenaf sydd wedi'i deilwra, a chymorth personoledig ble bynnag y maent yn byw, sy'n elfen graidd o sicrhau ffyniant bro.

## 3.4 Adfer Ymdeimlad o Gymuned, Balchder Lleol a Pherthyn

Caiff bywydau pobl eu llywio gan wead cymdeithasol a ffisegol eu cymunedau. Mae'r cymysgedd lleol o gyfalaf cymdeithasol a ffisegol – o brifysgolion i fannau gwyrdd o ansawdd da, ac o lyfrgelloedd i glybiau pêl-droed lleol – yn rhoi i ardaloedd eu cymeriad unigryw a'u bywiogrwydd, ac yn gwneud trigolion yn falch o fyw yno. Gall amgylchedd adeiledig prydferth, mynediad at amwynderau hamdden a diwylliannol a chymdogaethau diogel hefyd ddenu busnesau i'r stryd fawr, gan arwain at fwy o ymwelwyr a buddsoddiad gan y sector preifat mewn cymunedau. I wireddu hyn, rhaid bod gan gymunedau sefydliadau dinesig, asedau a chydberthnasau cryf sy'n sicrhau balchder lleol mewn lle.

Er mwyn cyflawni hyn mae Llywodraeth y DU yn pennu **tair cenhadaeth graidd ar draws** balchder mewn lle, tai a throsedd.

426 Y Swyddfa Anghyfartaleddau a Gwelliannau Iechyd. *Local Authority Profiles: Barnsley*. 2020. Link
427 Llywodraeth Ei Mawrhydi. 2011 *Y Cyfrifiad*. Nomis.
428 Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. *People at the Heart of Care: adult social care reform white paper*. 2021.

## 3.4.1 Erbyn 2030, bydd balchder mewn lle, megis boddhad pobl â'u tref leol a'r ffordd y maent yn cymryd rhan mewn digwyddiadau diwylliannol a chymunedol lleol, wedi cynyddu ym mhob rhan o'r DU, a bydd y bwlch rhwng yr ardaloedd sy'n perfformio orau ac ardaloedd eraill yn lleihau.

Mae tair elfen a fydd yn helpu i gyflawni'r genhadaeth hon:

a. adfywio;
b. cymunedau;
c. diwylliant, treftadaeth a chwaraeon.

### Adfywio

#### *Yr achos dros weithredu*

Mae anghyfartaleddau economaidd a chymdeithasol yn aml yn cael eu hadlewyrchu yn amgylchedd adeiledig lleoedd, gyda niferoedd mawr o eiddo gwag a thai o ansawdd gwael yn eistedd ochr yn ochr ag amddifadedd a thanberfformio economaidd. Er mwyn trawsnewid hyn, bydd angen i leoedd ddatgloi potensial eu canolfannau lleol, gan gyflenwi mwy o dai a thai gwell, tyfu economïau lleol, a dod yn wyrddach ac yn fwy cynaliadwy.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae sylfeini'r stryd fawr draddodiadol wedi cael eu gwanhau gan arferion newidiol defnyddwyr, ac mae'r buddsoddiad sefydliadol mewn eiddo wedi lleihau mewn sawl rhan o'r DU. Gall awyrgylch dirywiad a gaiff ei greu gan stryd fawr sydd â golwg druenus arni, adeiladau adfeiliedig a thai o ansawdd gwael danseilio balchder mewn lle a dynamiaeth economaidd. Mae cymhlethdod a graddau'r her hon yn gofyn am weithredu cydgysylltiedig rhwng llywodraeth ganolog a llywodraeth leol, y gweinyddiaethau datganoledig a'r sector preifat.

> **“Bydd Llywodraeth y DU wedi buddsoddi £10bn er mwyn cyflenwi tai ers dechrau'r Senedd”**

#### *Y rhaglen bolisi*

Er mwyn ymdrin â'r her adfywio sy'n wynebu trefi a dinasoedd, mae'n hanfodol bod arweinwyr lleol yn cael y cymorth, arbenigedd technegol, a buddsoddiad cyhoeddus a phreifat cywir.

Ers 2019, mae Llywodraeth y DU wedi cefnogi lleoedd i adfywio canol trefi, cadw asedau cymunedol a thyfu eu heconomïau drwy raglenni megis y Gronfa Ffyniant Bro gwerth £4.8bn, y Gronfa Dechrau Adeiladu gwerth £900m, y Gronfa Tai Tir Llwyd yn Lloegr gwerth £400m, y Gronfa Perchenogaeth Gymunedol ledled y DU gwerth £150m, a'r Gronfa Trefi gwerth £3.6bn. Mae hyn yn helpu trefi a dinasoedd ledled y DU i gyflawni prosiectau adfywio. Er enghraifft, mae'r Gronfa Ffyniant Bro wedi ariannu cynlluniau adfywio canol trefi a dinasoedd yn Sheffield, Aberdeen, Aberystwyth a County Antrim.

Mae Llywodraeth y DU yn ymrwymedig i fynd i'r afael ag anghydbwyseddau hanesyddol mewn cyllido rhwng rhanbarthau. Bydd y buddsoddiad o £1.bn mewn prosiectau tir llwyd a seilwaith a gyhoeddwyd yn Adolygiad o Wariant 2021 ar gael ledled Lloegr, gan ddatgloi'r seilwaith cartrefi a gwasanaethau cyhoeddus sy'n sail i gymunedau cynaliadwy. Defnyddir hyn i adfywio tir na chaiff ei ddefnyddio yn ddigonol a sicrhau cysylltiadau trafnidiaeth a chyfleusterau cymunedol, gyda chyfran wedi'i dosbarthu'n uniongyrchol i Awdurdodau Cyfun Maerol ac awdurdodau lleol i ddatgloi safleoedd tir llwyd llai yn unol â blaenoriaethau ac anghenion lleol. Mae hyn yn golygu y bydd Llywodraeth y DU wedi buddsoddi £10bn er mwyn cyflenwi tai ers dechrau'r Senedd. Yn hanfodol, ni fydd y buddsoddiad hwn yn destun y "rheol 80/20" fel y'i gelwir, sydd wedi cael ei diddymu erbyn hyn. Yn hanesyddol roedd hyn yn targedu 80% o gronfeydd tai penodol at ardaloedd oedd lleiaf fforddiadwy o ran tai, gan arwain at danddarparu cyllid y tu allan i Lundain a de-ddwyrain Lloegr.

Mae'r rhaglen bolisi yn canolbwyntio ar y canlynol:

a. prosiectau trawsnewidiol;
b. adfywio'r stryd fawr;
c. mannau gwyrdd.

### *Prosiectau trawsnewidiol*

Yn ogystal â'r cynnig cyffredinol hwn, rhaid sicrhau bod cynnig trawsnewidiol ar gyfer y lleoedd hynny a allai elwa fwyaf hefyd. Bydd Llywodraeth y DU **yn mynd ati i nodi ac ymgysylltu ag 20 o leoedd yn Lloegr** sy'n dangos uchelgais ac arweinyddiaeth leol gref, a lle gellir gwneud y mwyaf o fuddsoddiadau a wnaed eisoes er mwyn sbarduno trawsnewid economaidd. Canolbwyntir ar leoedd a a fydd yn elwa'n arbennig ar adfywio – lle bydd adfywio yn arwain at fwy o ffyniant lleol, gwell symudedd cymdeithasol a mwy o falchder mewn lle. Gan ddechrau yn **Sheffield a Wolverhampton**, bydd Llywodraeth y DU yn gweithio gydag arweinwyr lleol, y sector preifat ac amrywiaeth o asiantaethau ac adrannau'r llywodraeth i ganolbwyntio ar y meysydd hynny lle gall buddsoddiad y llywodraeth gael yr effaith fwyaf – er enghraifft mewn cyfleusterau iechyd ac addysg, ac mewn ffyrdd a rheilffyrdd; a lle mae cyfleoedd datblygu cyflawnadwy – er enghraifft, canolfannau siopa gwag neu safleoedd diwydiannol segur.



## Blwch 3.14 Adfywio trawsnewidiol

### Wolverhampton

Yn Wolverhampton, mae Homes England wedi bod yn cefnogi cyngor y ddinas ac Awdurdod Cyfun Gorllewin Canolbarth Lloegr gyda'u cynlluniau i adfywio canol y ddinas, creu arlwy mwy amrywiol o dai a chymysgedd o ddefnydd tir, a rhoi diben economaidd newydd i'r ddinas drwy ddenu trigolion a busnesau newydd. Fodd bynnag, mae cost unioni hen dir diwydiannol ac anhawster cyflawni gwerth preswyl newydd wedi atal rhai datblygiadau newydd. Mae gan y ddinas gryn dipyn yn fwy o botensial i ailddarganfod ei chryfder economaidd fel canolfan ranbarthol gryno sydd wedi'i chysylltu'n dda, llai nag 20 munud o Birmingham a dwy awr o Lundain ar y trên. Mae'r cysylltiadau hyn yn ei gwneud hi'n debygol y caiff buddiannau Wolverhampton ar ei newydd wedd eu teimlo ar draws coridor Wolverhampton i Walsall, ac yng ngorllewin Canolbarth Lloegr yn ehangach. Mae Wolverhampton eisoes wedi cael dyraniad o £20m o'r Gronfa Ffyniant Bro ar gyfer Ardal Ddysgu Ddinesig. Ar y cyd â chyllid i helpu i ailwampio'r stryd fawr a sicrhau bod defnydd cynhyrchiol yn cael ei wneud o dir llwyd, ynghyd â lleoli pencadlys newydd yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau yng nghanol y ddinas, mae hyn yn cynorthwyo arweinwyr lleol i sbarduno adfywiad y ddinas. Bydd Homes England yn adeiladu ar hyn drwy weithio gyda'r cyngor ac Awdurdod Cyfun Gorllewin Canolbarth Lloegr i hyrwyddo cyfleoedd adfywio trawsnewidiol pellach sydd, nid yn unig er budd y ddinas ei hun, ond sydd hefyd yn sicrhau buddiannau i'r ardal ehangach.

### Sheffield

Yn Sheffield, mae Homes England eisoes yn cynorthwyo arweinwyr lleol i ddatblygu Strategaeth Ardal Ganolog sy'n anelu at wneud y ddinas yn lle mwy deniadol i fyw, gweithio a threulio amser ynddo. Bydd hyn yn manteisio ar y twf preswyl y mae canol y ddinas eisoes wedi'i weld dros y 10 mlynedd diwethaf, ac yn rhoi diben economaidd newydd i ganol y ddinas fel calon yr ardal ehangach. Mae'r cyfleoedd cyfyngedig i fuddsoddwyr a datblygwyr, materion hyfywedd anodd a pherchenogaeth tir gymhleth wedi llesteirio potensial Sheffield yn y gorffennol. Bydd buddsoddiadau diweddar Llywodraeth y DU – yn cynnwys £37m o ddyraniadau o'r Gronfa Ffyniant Bro ar gyfer porth Castelgate i ganol y ddinas ac ar gyfer adfywio Attercliffe ym Mharc Gwaddol y Gemau Olympaidd; cyllid i wella'r stryd fawr ac ailddechrau defnyddio tir llwyd na chaiff ei ddefnyddio'n ddigonol; a buddsoddiad yn y Ganolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch – yn helpu arweinwyr lleol i wireddu eu huchelgeisiau ar gyfer diwylliant, arloesi a dysgu. Bydd Homes England yn adeiladu ar hyn drwy weithio gyda'r cyngor ac Awdurdod Cyfun De Efrog i ddwysau a datgloi cyfleoedd adfywio. Bydd hyn yn manteisio ar waith trydaneiddio ac uwchraddio sydd i ddod o dan y Cynllun Rheilffyrdd Integredig, a fydd yn sicrhau bod Sheffield o fewn 1.5 awr i Lundain, ac yn cynyddu nifer y trenau cyflym i Fanceinion.

Bydd Llywodraeth y DU yn gosod y sylfeini ac yn cynorthwyo arweinwyr lleol yn Lloegr i ddwyn gwahanol gronfeydd o gyllid a arweinir yn lleol ynghyd, yn cynnwys cyllid seilwaith arall ynghyd â chronfa seilwaith a thir llwyd yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau gwerth £1.8bn, yn ogystal â buddsoddiad preifat i sicrhau adfywio. Bydd yn helpu arweinwyr lleol a'r sector preifat i nodi a mynd i'r afael â'u heriau lleol penodol fel y gallant ddatblygu cynlluniau sy'n adfywio lleoedd a'u hardal ehangach. Mae hyn yn cynnwys dwyn gwaith adrannau ac asiantaethau ynghyd i gyflawni gwaith adfywio cynhwysfawr a chysoni buddsoddiadau, er mwyn cael yr effaith drawsnewidiol fwyaf. Bydd y dull cyfannol hwn yn cael ei ategu gan y gwaith o adfywio amgylchedd adeiledig y lleoedd hyn, a arweinir gan Homes England. Mae prosiectau trawsnewid llwyddiannus blaenorol, megis ardal y glannau Lerpwl, a gafodd ei thrawsnewid o ardal ddociau adfeiliedig i gymdogaeth ddinas ffyniannus, yn dangos bod y DU wedi gwneud hyn o'r blaen ac y gall ei wneud eto.

Yn Lloegr, bydd Llywodraeth y DU yn **ailbennu ffocws Homes England er mwyn iddo ddefnyddio ei bwerau statudol helaeth i weithio mewn partneriaeth ag arweinwyr lleol i ddatgloi rhwystrau a sicrhau adfywio.** Bydd Homes England yn cyflwyno cynnig adfywio ymarferol i leoedd drwy:

a. ffurfio partneriaethau ag arweinwyr lleol a'r llywodraeth yn ehangach i gefnogi uchelgeisiau adfywio a ffyniant bro lleoedd;
b. defnyddio ei bwerau statudol, cyllid ac arbenigedd i helpu i gyflawni cynlluniau adfywio, gyda ffocws ar ddatgloi rhwystrau sy'n atal y sector preifat rhag buddsoddi;
c. gweithio gyda phartneriaid perthnasol fel bod modd cyfuno cyllid, yn cynnwys cyllid o ffynonellau lleol ac o bob rhan o'r llywodraeth, er mwyn sicrhau bod cynlluniau penodol mor effeithiol â phosibl;
d. teilwra cyfleoedd i fod yn ddeniadol i fuddsoddwyr sefydliadol er mwyn denu buddsoddiadau gan y sector preifat i gyflawni newid hirdymor;
e. sefydlu'r cyfrwng cyflawni cywir a fydd yn rhoi llais i arweinwyr lleol a'u cymunedau, ond hefyd yn cynnig sicrwydd o ran penderfyniadau yn yr hirdymor, fel bod cynlluniau yn gredadwy ac yn hyderus.

**“Bydd y cyllid hwn yn galluogi meiri i nodi ac ariannu'r prosiectau sydd eu hangen fwyaf er mwyn cefnogi uchelgeisiau ffyniant bro eu hardaloedd”**

Mae Homes England eisoes yn gweithio mewn partneriaeth ag arweinwyr lleol a'r sector preifat i gyflwyno'r cynnig adfywio ymarferol a thrawsnewidiol hwn – er enghraifft, drwy Gronfa Dinasoedd Lloegr. Ond mae Llywodraeth y DU am fynd ymhellach i gynorthwyo arweinwyr lleol i ddechrau adfywio eu hardaloedd nawr. Er mwyn sicrhau ffyniant bro ymhellach ar draws rhanbarthau, a chan gydnabod pwysigrwydd arweinyddiaeth leol gref i ffyniant bro, bydd Llywodraeth y DU yn **ymestyn y Gronfa Tai Tir Llwyd** sy'n grymuso meiri i fynd i'r afael â'u heriau tir llwyd lleol. Bydd y cyllid hwn yn galluogi meiri i nodi ac ariannu'r prosiectau sydd eu hangen fwyaf er mwyn cefnogi uchelgeisiau ffyniant bro eu hardaloedd, gan ailddechrau defnyddio tir segur, trawsnewid safleoedd tir llwyd a gwneud gwahaniaeth gweladwy i'r ardaloedd y maent yn eu cynrychioli. Caiff y cyllid newydd hwn ei roi ar yr amod bod pob Awdurdod Cyfun Maerol yn gallu cadarnhau ei allu i wario'r dyraniadau a nodir yma. Bydd £180m arall hefyd ar gael i brosiectau tir llwyd a arweinir yn lleol.

Mae Tabl 3.1 yn dangos rhaniad cyllid tir llwyd rhwng Ardaloedd Cyfun Maerol a phrosiectau a arweinir yn lleol:

### Tabl 3.1 Cyllid Tir Llwyd

| Lle | Cyllid (Wedi'i dalgrynnu i'r £m agosaf) |
|---|---|
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | £28m |
| Manceinion Fwyaf | £27m |
| Gorllewin Swydd Efrog | £22m |
| Rhanbarth Dinas Lerpwl | £15m |
| De Swydd Efrog | £13m |
| Gogledd Tyne | £8m |
| Tees Valley | £6m |
| Cronfa Tai Tir Llwyd Awdurdod Cyfun Maerol, is-gyfanswm: | £120m |
| Cyllid tir llwyd pellach a arweinir yn lleol, is-gyfanswm: | £180m |
| Cyfanswm | £300m |

*Sylwer: Nid yw cyllid Awdurdodau Cyfun Maerol yn creu cyfanswm o £120m oherwydd talgrynnu*

Er bod polisi adfywio yn fater datganoledig, caiff llawer o'r heriau eu rhannu ledled y DU, ac mae Llywodraeth y DU yn awyddus i weithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig i archwilio'r ffordd orau o gefnogi lleoedd ledled y DU i gyflawni eu llawn botensial. Mae'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol sy'n torri tir newydd yn sail gadarn i adeiladu gwaith partneriaeth pellach gyda'r gweinyddiaethau datganoledig.

### *Adfywio'r stryd fawr*

Yn ogystal â'r buddsoddiad hwn, mae cefnogi ein stryd fawr yn flaenoriaeth i Lywodraeth y DU. Mae Strategaeth y Stryd Fawr yn ei gwneud hi'n haws troi siopau gwag yn safleoedd defnydd newydd megis cartrefi ar y stryd fawr; rhoi hawliau awtomatig i dafarndai, bwytai a chaffis gynnig bwyd tecawê a bwyta al fresco; a gwneud y stryd fawr yn fwy diogel a glanach, gyda ffocws ar fynd i'r afael â sbwriel, staenio gwm a graffiti. Mae Llywodraeth y DU hefyd yn darparu £1.7bn o ryddhad ardrethi busnesau dros dro yn 2022-23 ar gyfer hyd at 400,000 o eiddo manwerthu, lletygarwch a hamdden i gefnogi'r stryd fawr tan yr ailbrisiad nesaf. Yn sgil cyhoeddi rhewi'r lluosydd ardrethi busnes gwerth £4.6bn dros y pum mlynedd nesaf, bydd pob talwr ardrethi yn Lloegr yn gweld toriad mewn treth.

> **Yn ogystal â'r buddsoddiad hwn, mae cefnogi ein stryd fawr yn flaenoriaeth i Lywodraeth y DU.**

Mae Tasglu'r Stryd Fawr yn helpu cymunedau i adfywio eu stryd fawr er mwyn adlewyrchu anghenion lleol sy'n datblygu. Mae eisoes yn cefnogi 84 o awdurdodau lleol drwy ddarparu cymorth arbenigol mewn meysydd megis creu lle, cynllunio a dylunio. Nawr mae Llywodraeth y DU yn cyhoeddi'r 68 o awdurdodau lleol nesaf a fydd yn cael y cymorth arbenigol hwn gan y Tasglu, yn cynnwys Southend-on-Sea, gorllewin Gwlad yr Haf a Taunton, Rossendale a Dudley. Maent wedi cael eu dyrannu gan ddefnyddio'r Mynegeion Amddifadedd Lluosog, ynghyd â mesur o amlygiad manwerthu. Bydd y broses o ddarparu cymorth i'r awdurdodau lleol hyn yn digwydd fesul cam, gan ddechrau yn haf 2022 tan ddiwedd y rhaglen yn 2024. Mae hyn yn adeiladu ar gynnig ehangach y Tasglu i bob cymuned, sy'n cynnwys adnoddau ar-lein a modiwlau hyfforddi, gweminarau a mynediad at ddangosfyrddau data.

Hefyd, bydd Llywodraeth y DU yn cyflwyno mesurau pellach i sicrhau bod y stryd fawr a chanol trefi yn galonnau sy'n curo cymunedau unwaith eto. Byddwn yn cymell landlordiaid i lenwi unedau gwag drwy roi'r pŵer i awdurdodau lleol ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid rentu eiddo gwag i ddarpar denantiaid. Bydd hyn yn mynd i'r afael â materion cyflenwi a galw er mwyn osgoi lefelau uchel o eiddo gwag ar y stryd fawr a malltod, ac yn ei dro bydd ein stryd fawr yn dod yn fwy deniadol a bywiog.

### *Mannau gwyrdd*

Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu grymuso arweinwyr lleol a chymunedau i ailddychmygu eu mannau gwyrdd trefol a'i gwneud yn haws i gymunedau sydd hebddynt eu defnyddio. Mae hyn yn cynnwys gwella a chynnal diogelwch y Llain Las. Bydd Llywodraeth y DU yn datblygu cynlluniau ar gyfer y canlynol:

a. gwyrddhau'r Llain Las yn Lloegr ymhellach;
b. dod â bywyd gwyllt yn ôl, gyda'r nod o gynyddu mynediad y cyhoedd wrth adfer byd natur ar yr un pryd;
c. sicrhau rhagor o welliannau amgylcheddol.

Ynghyd â hyn, bydd modd cerdded Llwybr Arfordirol Lloegr yn ei gyfanrwydd erbyn diwedd y Senedd hon – cysylltu cymunedau o Northumberland i Gernyw. Mae hyn yn cyd-fynd ag ailfeddwl yn ehangach am fannau gwyrdd trefol, yn cynnwys ystyried modelau perchenogaeth a rheoli newydd a thargedau mynediad a bennir yn lleol i wella mynediad i'r awyr agored mewn trefi a dinasoedd ledled y DU.

Bydd Llywodraeth y DU hefyd yn ehangu'r buddsoddiad mewn parciau yn radical. Mae mynediad i fannau gwyrdd cymunedol deniadol a diogel yn hanfodol i wneud trefi a dinasoedd yn fwy deniadol. Ynghyd â'r Gronfa i Wella Parciau ledled y DU gwerth £9m sy'n darparu grantiau uniongyrchol i gyflawni dros 100 o fannau gwyrdd yn y cymunedau â'r mynediad lleiaf, bydd **cronfa parciau newydd gwerth £30m** yn darparu hyd at £1m ar gyfer o leiaf 30 o barciau lleol yn Lloegr at ddiben eu hadnewyddu gyda phwyslais ar gyfleusterau i deuluoedd ifanc.

> **Coedwigoedd cymunedol newydd yng ngogledd-ddwyrain Lloegr, Cumbria a Plymouth er mwyn gwella mynediad i goetiroedd**

Mae'r gwaith o wella mannau gwyrdd trefol yn adeiladu ar waith i sicrhau bod pob tirwedd yn ystyriol o fyd natur. Byddwn yn cefnogi ffermwyr i ddiogelu'r amgylchedd a gwella mynediad i natur drwy'r **Cynlluniau Rheoli Tir Amgylcheddol**, er mwyn adfer cynefinoedd drwy **Strategaethau Adfer Natur Lleol** ac ymrwymiad i 10% o **Elw Net Bioamrywiaeth** mewn datblygiadau newydd. Bydd Llywodraeth y DU hefyd yn buddsoddi dros £750m yn ystod tymor y Senedd hon mewn plannu coed ac adfer mawndir yn Lloegr, gan helpu i gynyddu cyfraddau plannu coed ledled y DU i 30,000 hectar y flwyddyn erbyn diwedd y Senedd hon a chefnogi'r gwaith o greu coedwigoedd cymunedol newydd yng ngogledd-ddwyrain Lloegr, Cumbria a Plymouth er mwyn gwella mynediad i goetiroedd lle mae eu hangen fwyaf.

## Cymunedau

### *Yr achos dros weithredu*

Caiff cymdeithasau ac economïau cryf eu hadeiladu ar gymunedau cryf, ac mae angen i hyn fod wrth wraidd ffyniant bro. Mae hyn yn golygu sicrhau bod pawb yn gallu:

a. cael budd o'r cyfleoedd a gynigir gan gymunedau cryf;
b. ymfalchïo yn eu milltir sgwâr;
c. cael cyfleoedd i fyw bywydau bodlon;
d. cael y cyfle i wireddu eu potensial llawn.

Ni chaiff pob ardal y cyfleoedd hyn. Mae cysylltiad cryf rhwng y lleoedd mwyaf difreintiedig yn y DU a'r rhai â'r sgoriau isaf am gyfalaf cymdeithasol, cydberthnasau cymunedol cadarnhaol a seilwaith, a nifer ac ansawdd y lleoedd i bobl gwrdd.[429]

### *Y rhaglen bolisi*

Mae'r rhaglen bolisi yn canolbwyntio ar y canlynol:

a. cefnogi pobl ifanc;
b. grymuso cymunedau;
c. buddsoddi mewn cymunedau.

429 Tanner, W., O'Shaughnessy, J., Krasniqi, F., Blagden, J. *The State of our Social Fabric*. Onward. 2020.

### *Cefnogi pobl ifanc*

Mae angen i hyn ddechrau gyda phobl ifanc. Bydd Llywodraeth y DU yn buddsoddi £560m dros y tair blynedd nesaf i gyflwyno **Gwarant Ieuenctid Genedlaethol** newydd sy'n adlewyrchu blaenoriaethau pobl ifanc, gyda ffocws ar ffyniant bro. Bydd hyn yn sicrhau, erbyn 2025, y gall pob person ifanc yn Lloegr fwynhau gweithgareddau rheolaidd y tu allan i'r ysgol, anturiaethau oddi cartref a chyfleoedd i wirfoddoli, a gefnogir gan y canlynol:

a. buddsoddi £368m mewn rhannau o Loegr sydd â lefelau uchel o amddifadedd incwm plant a diffyg darpariaeth ieuenctid, gan gyrraedd ardaloedd trefol mawr difreintiedig a phocedi eraill o amddifadedd;
b. buddsoddi £288m o gyfalaf i gyflwyno hyd at **300 o gyfleusterau ieuenctid newydd ac wedi'u hadnewyddu**, yn amrywio o adeiladau modiwlaidd bach i brosiectau ieuenctid nodedig, a gefnogir gan gyllid refeniw i sicrhau y gall pobl ifanc gael gafael ar weithwyr ieuenctid, gan greu dros 45,000 o weithgareddau ieuenctid ychwanegol y flwyddyn;
c. cyllido rhaglen Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol ddiwygiedig ar gyfer y tair blynedd nesaf, gyda chynnig drwy gydol y flwyddyn i filoedd o bobl ifanc;
d. sicrhau y caiff **Cynllun Gwobrau Dug Caeredin ei gynnig i bob ysgol uwchradd y wladwriaeth** yn Lloegr;
e. **dileu'r rhestrau aros ar hyn o bryd ar gyfer Grwpiau Ieuenctid mewn Lifrai nad ydynt yn filwrol** i bobl ifanc yn eu harddegau;
f. darparu £4m ar gyfer cronfa #iwill i greu miloedd o gyfleoedd gwirfoddoli ieuenctid newydd.

> **"Gwarant Ieuenctid Genedlaethol newydd sy'n adlewyrchu blaenoriae-thau pobl ifanc, gyda ffocws ar ffyniant bro"**

I ddechrau hyn oll, mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi'n ddiweddar y caiff **£10m ychwanegol ei wario eleni mewn ardaloedd lle mae angen sicrhau ffyniant bro**. Bydd hyn yn galluogi darparwyr ieuenctid lleol i fuddsoddi mewn prosiectau cyfalaf sy'n ehangu cyrhaeddiad, nifer ac amrywiaeth y gwasanaethau a gynigir ganddynt ar hyn o bryd.

Bydd y Rhaglen Ehangu Cadetiaid hefyd yn parhau i roi'r cyfle trawsnewidiol i ymuno â'r cadetiaid i fwy o bobl ifanc. Bydd y rhaglen yn cynyddu nifer y cadetiaid mewn unedau cadetiaid presennol, tua 500 i gyd, mewn ysgolion ledled y DU i 60,000 erbyn 2024. Bydd Llywodraeth y DU hefyd yn cysylltu cyllid unedau cadetiaid mewn ysgolion preifat â gofyniad i sicrhau y cefnogir y gwaith o ehangu lluoedd cadetiaid mewn ysgolion y wladwriaeth a mynediad agored i fyfyrwyr mewn ysgolion y wladwriaeth cyfagos.

### *Grymuso cymunedau*

Mae camau eisoes wedi cael eu cymryd i rymuso cymunedau lleol i ddatblygu a darparu datrysiadau i'r problemau sydd bwysicaf iddynt. Mae'r Gronfa Perchenogaeth Gymunedol ledled y DU gwerth £150m wedi rhoi'r cyfle i gymunedau gymryd sefydliadau lleol i'w dwylo eu hunain, gan weithio gyda buddsoddwyr a'r sector preifat i sicrhau arian cyfatebol. Bydd y rownd gyntaf a gyhoeddwyd yn Adolygiad o Wariant 2021 yn cefnogi 21 o brosiectau ledled y DU (gweler Blwch 3.15).

Yn ystod y pandemig, gwnaed cyfraniadau arwrol gan fwy na 12.4 o wirfoddolwyr o bob cwr o'r DU, yn cynnwys 4.6m o bobl a wirfoddolodd am y tro cyntaf. Mae Llywodraeth y DU yn cydnabod natur gyfoethog y fath

wirfoddoli, a bydd yn adeiladu ar y Gronfa Dyfodol Gwirfoddoli, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2021, i dargedu lleoedd â chyfalaf cymdeithasol gwael, yn cynnwys treialu ffyrdd o leihau'r rhwystrau i wirfoddoli.

### Blwch 3.15 Y Gronfa Perchenogaeth Gymunedol

Yn Adolygiad o Wariant 2021, cyhoeddodd Llywodraeth y DU rownd gyntaf y Gronfa, gan fuddsoddi mewn 21 o brosiectau ledled y DU. Ceir manylion am ddau o'r prosiectau isod.

- Bydd Rannoch Hub, hen ysgol yng nghanol Kinloch Rannoch yn yr Alban, yn cael cyllid gan Lywodraeth y DU i ailddatblygu'r adeilad yn ganolfan gymunedol, a chaffi a bar masnachol, a fydd yn darparu cyfleusterau busnes a hamdden am ddim i gymuned anghysbell, sydd wedi'i hynysu'n gymdeithasol. Bydd y prosiect hwn yn hyrwyddo datblygu economaidd ac yn meithrin ymdeimlad o'r newydd o falchder cymunedol.
- Bydd Canolfan Adnoddau a Hyfforddiant CANA ym Mhenywaun yn derbyn cyllid i helpu i ailagor y Ganolfan, gan ddarparu mynediad i hyfforddiant o'r radd flaenaf a chymorth cyflogaeth i'r rhai sydd ei angen fwyaf. Bydd y Ganolfan, a gefnogir gan y Gronfa, yn cysylltu pobl â'r cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth a ddarperir yn sgil buddsoddi mewn seilwaith strategol.

Mae angen cyfalaf cymdeithasol a seilwaith cymunedol cryf ar gymunedau hefyd, ond mae'n brin mewn llawer o leoedd ac mae'n dueddol o fod yn arbennig o wan yn y lleoedd mwyaf difreintiedig.

Dyma pam y bydd Llywodraeth y DU yn amlinellu **Strategaeth newydd ar gyfer Lleoedd a Chydberthnasau Cymunedol**. Bydd y strategaeth yn cael ei hategu gan yr egwyddorion arweiniol canlynol:

a. **pŵer cymunedol** – ei gwneud hi'n haws i bobl leol a grwpiau cymunedol ddod ynghyd i bennu blaenoriaethau lleol a llywio eu cymdogaethau;
b. **deall "yr hyn sy'n gweithio"** – adeiladu'r sail dystiolaeth i ddeall yn well sut i gefnogi cymunedau a sicrhau eu bod wrth y llyw o ran ffyniant bro;
c. **gwrando ar gymunedau** – ymgysylltu â chymunedau, llywodraeth leol a chymdeithas sifil i nodi blaenoriaethau, yr asedau sy'n bwysig i fannau lleol, a'r polisïau a'r camau gweithredu sydd eu hangen i atgyfnerthu seilwaith cymunedol;
d. **mae pob cymuned yn cyfrif** – ymgysylltu â'r cymunedau sydd wedi datgysylltu fwyaf, a sicrhau bod cyllid yn cyrraedd y rhai sydd ei angen fwyaf.

Ynghyd â hyn bydd gwell dealltwriaeth o'r ffeithiau a'r ffigurau sy'n sail i weithgareddau cymunedol. Bydd Llywodraeth y DU yn gweithio gyda phartneriaid i ddwyn data economaidd ar werth cymdeithas sifil ynghyd, gan weithio gyda SYG i ddatblygu cyfrif lloeren cymdeithas sifil, fel bod amcangyfrifon yn adlewyrchu cwmpas y sector yn well ac yn llenwi bwlch hirsefydledig mewn ystadegau swyddogol. Bydd y Strategaeth hefyd yn gwahodd cydweithio â Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon er mwyn sicrhau bod yr ymdrechion hyn yn diwallu anghenion y wlad gyfan.

Er mwyn cyflawni newidiadau sylweddol a chynaliadwy, mae angen i fannau lleol gael y pŵer i greu a darparu datrysiadau i heriau lleol. Mae hyn yn ymwneud â mwy na throsglwyddo pŵer o lywodraeth ganolog i lywodraeth leol. Caiff pŵer ei greu'n lleol hefyd, drwy gydweithrediad gwirfoddol dinasyddion a gweision cyhoeddus yn cymryd cyfrifoldeb am gyflawni'r newidiadau y maent am eu gweld.

Bydd Llywodraeth y DU yn dechrau gweithio gyda phartneriaid mewn llywodraeth leol a chymdeithas sifil ar raglen i gyflwyno dull newydd eofn o rymuso cymunedau. Mae hyn yn cynnwys lansio **adolygiad o lywodraethu cymdogaethau** yn Lloegr, gan edrych ar sut i'w gwneud hi'n haws i bobl leol a grwpiau cymunedol ddod ynghyd, pennu blaenoriaethau lleol a llywio dyfodol eu cymdogaethau. Bydd yr adolygiad hefyd yn edrych ar rôl a swyddogaethau cynghorau plwyf yn Lloegr a sut i'w gwneud yn gyflymach ac yn haws i'w sefydlu.

Bydd Llywodraeth y DU hefyd yn treialu **modelau newydd ar gyfer partneriaethau cymunedol** a all helpu i wneud pŵer lleol yn realiti. Bydd y rhain yn grymuso pobl leol i lywio'r mannau lle maent am fyw, dylanwadu ar wasanaethau lleol a chymryd rheolaeth dros fannau cymunedol. Bydd Llywodraeth y DU yn dysgu drwy arbrofi a gwneud, ac yn profi effaith a gwerth am arian dulliau newydd, a allai gael eu hystyried yn ddulliau i'w cyflwyno'n genedlaethol.

Un model y bydd Llywodraeth y DU yn ei brofi yw **Cyfamodau Cymunedol**. Cytundebau fyddai'r rhain rhwng cynghorau, cyrff cyhoeddus a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, sy'n ceisio dwyn ynghyd egni, gwybodaeth ac asedau cymunedau lleol. Byddent hefyd yn nodi sut y gall seilwaith a chyfalaf cymdeithasol lleol gael eu hadeiladu a'u cynnal i annog cymunedau hyderus a gweithredol. Byddai dull Cyfamod yn gweld awdurdodau lleol a chymunedau yn cydweithio i edrych ar iechyd bywyd cymunedol a dinesig lleol yn gyfannol, nodi prif uchelgais ar gyfer eu hardal, a rhannu pŵer ac adnoddau i gyflawni hyn.

> **“Bydd pobl leol hefyd yn cael mwy o rôl wrth wneud penderfyniadau a'u cyflwyno yn eu hardal”**

Nawr bydd Llywodraeth y DU yn dechrau cynnal profion gyda phartneriaid mewn llywodraeth leol a chymdeithas sifil i ddylunio dull o weithio mewn partneriaeth â chymunedau. Rhennir rhagor o fanylion yn ddiweddarach eleni, a bydd Llywodraeth y DU am weithio'n agos gyda'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon i dreialu dulliau sy'n gweithio ledled y DU, yn benodol yn rhai o'r cymunedau sydd fwyaf anodd eu cyrraedd.

Ynghyd â hyn, bydd pobl leol hefyd yn cael mwy o rôl wrth wneud penderfyniadau a'u cyflwyno yn eu hardal. Bydd Llywodraeth y DU yn gwneud yr ymrwymiadau canlynol i rymuso cymunedau lleol.

- **Asedau:** Bydd Llywodraeth y DU yn gwella'r cynnig yn y Gronfa, gan ddysgu gwersi o'r rownd gyntaf o gynigion er mwyn sicrhau bod y gronfa mor effeithiol â phosibl ledled y DU. Fel rhan o'r strategaeth ar gyfer mannau a chydberthnasau cymunedol, bydd Llywodraeth y DU yn ystyried sut y gall y Cynlluniau Trosglwyddo Asedau Cymunedol ac Asedau o Werth Cymunedol presennol gael eu gwella, a bydd yn ymgynghori ar opsiynau i fynd ymhellach i gefnogi perchenogaeth gymunedol.

- **Cynllunio:** Bydd cynghorau a chymunedau yn creu codau dylunio lleol newydd i greu'r strydoedd y mae trigolion am eu gweld; gwneud cynllunio cymdogaethau yn fwy hygyrch, gan annog modelau hybrid mwy hygyrch ar gyfer pwyllgorau cynllunio yn Lloegr; ac yn ceisio treialu grymuso cymunedau'n fwy er mwyn llywio cynlluniau adfywio a datblygu. Bydd y gallu i leisio barn ystyrlon am geisiadau cynllunio unigol yn cael ei gadw a'i wella drwy dechnolegau digidol newydd.
- **Economi gymdeithasol**: Bydd Llywodraeth y DU yn ystyried y ffordd orau o annog entrepreneuriaeth a sefydliadau cymdeithasol i ffynnu mewn lleoedd sydd wedi cael eu gadael ar ôl ledled y DU, gan adeiladu ar gymorth sy'n bodoli eisoes a'i wella, cynhyrchu tystiolaeth o'r hyn y mae angen i fentrau cymdeithasol ei wneud i ffynnu mewn lleoedd difreintiedig, ac annog y genhedlaeth nesaf o entrepreneuriaid cymdeithasol.
- **Caffael**: Fel rhan o gynlluniau Llywodraeth y DU i ddiwygio'r ffordd y mae'r sector cyhoeddus yn caffael gwasanaethau bydd yn gwella tryloywder, yn darparu mwy o hyblygrwydd ac yn rhoi mwy o bwyslais ar werth cymdeithasol, fel y trafodir ymhellach ym Mhennod 2. Bydd y diwygiadau newydd yn cynnwys dyfarnu contractau ar sail y Tendr Mwyaf Manteisiol, gan annog gwell ystyriaeth o werth cymdeithasol ar draws cyfanswm o ryw £300bn o gontractau caffael cyhoeddus.

### *Buddsoddi mewn cymunedau*

Bydd Llywodraeth y DU yn ystyried treialu pleidleisiau lleol am gyllid, gan roi dewisiadau yn nwylo cymunedau lleol fel eu bod yn penderfynu beth sydd bwysicaf. Ynghyd â hyn, darperir ffynonellau newydd o gyllid ar gyfer gweithgareddau cymunedol.

Bydd Llywodraeth y DU yn helpu elusennau, mentrau cymdeithasol ac unigolion agored i niwed, drwy ddatgloi £44m drwy'r Cynllun Asedau Segur. Mae hyn yn cynnwys:

a. £20m drwy'r Youth Futures Foundation i helpu i ddileu'r rhwystrau a gwella hygyrchedd cyflogaeth i bobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig – bydd y rhaglen yn fuddsoddiad aml-flwyddyn, seiliedig ar le i gymdogaethau sydd wedi cael eu gadael ar ôl er mwyn galluogi miloedd yn rhagor o bobl ifanc i gamu ymlaen ac i mewn i waith yn eu hardal leol;
b. £20m ar gyfer Access – y Sefydliad Buddsoddi Cymdeithasol – a fydd yn darparu cyllid y mae ei angen yn fawr ar gyfer dros 1,000 o elusennau a mentrau cymdeithasol, yn enwedig mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn Lloegr;
c. £4m ar gyfer Fair4All Finance i gyflymu ei waith ar fenthyciadau cyfunol fforddiadwy i bobl mewn amgylchiadau ariannol fregus.

**Bydd y Cynllun Asedau Segur hefyd yn cael ei ehangu i ddatgloi hyd at £880 pellach**. Bydd Llywodraeth y DU yn lansio ymgynghoriad cyhoeddus yn 2022 i wahodd mewnbwn ar y dibenion cymdeithasol neu amgylcheddol y dylai cyfran Lloegr o'r Cynllun Asedau Segur eu hariannu. Bydd hyn yn cynnwys opsiynau ar fuddsoddiadau ieuenctid, cynhwysiant ariannol a chymdeithasol, yn ogystal ag ystyried Cronfa Cyfoeth Cymunedol newydd i ddosbarthu cyllid i gymunedau lleol. Bydd yn adeiladu ar y cannoedd o filiynau sydd eisoes wedi'u datgloi drwy'r cynllun, yn cynnwys y £425m a roddwyd i Big Society Capital ers 2012, sydd wedi helpu i sicrhau £1.7bn ychwanegol gan fuddsoddwyr eraill i gefnogi canlyniadau sy'n cael effaith gymdeithasol.

Bydd Llywodraeth y DU yn gwneud y canlynol hefyd:

a. **darparu buddsoddiad cymunedol fel rhan o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU gwerth £2.6bn**, yn cynnwys cyfleoedd buddsoddi newydd mewn gweithgareddau a arweinir gan y gymuned. Bydd Llywodraeth y DU yn cefnogi lleoedd ar hyd a lled y DU i gyfuno buddsoddiadau strategol â gweithgareddau mewn cymunedau a chymdogaethau, yn cynnwys yn y lleoedd lle mae cyfalaf cymdeithasol wannaf;
b. **archwilio cydweithio pellach rhwng cyllidwyr y loteri ar gyfer prosiectau celfyddydol, treftadaeth, chwaraeon a chymunedol yn y DU** er mwyn sicrhau bod £1.7bn mewn cyllid y Loteri Genedlaethol bob blwyddyn yn cyrraedd y bobl a'r lleoedd sydd ei angen fwyaf;
c. **archwilio sut y gall yr Ardoll Seilwaith Cymunedol presennol gael ei ddefnyddio i gefnogi gweithgareddau mewn cymdogaethau a chymunedau** lle nad yw Cynghorau Plwyf yn bodoli ledled Lloegr a pharhau â chyfran cymdogaeth yr Ardoll Seilwaith Cymunedol wrth gyflwyno Ardoll Seilwaith newydd;
d. ystyried ffyrdd o ddatblygu **rôl y llywodraeth wrth sicrhau buddsoddiadau preifat** mewn seilwaith cymunedau a chymdogaethau, gweithgareddau cymunedol a chreu cyfoeth ymhellach, a fydd yn cynnwys adeiladu ar y sail dystiolaeth ar gyfer dileu risg ymyriadau, a'i hehangu, yn ogystal ag archwilio cyfleoedd newydd i weithio gyda'r sector ariannol i brofi dulliau arloesol, a'u graddio.

## Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon

### *Yr achos dros weithredu*

Mae diwylliant a chwaraeon yn benderfynyddion allweddol cyfalaf cymdeithasol lleoedd ac yn elfennau hanfodol o'u seilwaith cymdeithasol. Ond er bod talent a chreadigrwydd wedi'i rannu'n gyfartal ledled y DU, nid felly y cyfle i fwynhau diwylliant a chwaraeon. Mae'r rhai mewn rhanbarthau llai cefnog yn llai tebygol o fod wedi ymweld â safle treftadaeth, neu ymgysylltu â'r celfyddydau, o gymharu â'r rhai o ranbarthau mwy cefnog.[430] Tra bod y mwyafrif o gyllid Cymorth Grant Cyngor Celfyddydau Lloegr yn cael ei ddyrannu i sefydliadau y tu allan i Lundain, mae diwylliant y tu allan i Lundain yn cael llai o gyllid y pen o lawer.[431] Mae seilwaith chwaraeon wedi'i ddosbarthu'n fwy cyfartal yn ddaearyddol, ond mae cefndir economaidd-gymdeithasol a lleoliad yn dal i effeithio ar gyfranogiad. Mae naw o'r deg gwlad sydd â'r lefelau uchaf o anweithgarwch corfforol yng ngogledd Lloegr a Chanolbarth Lloegr.[432]

> **"Er bod talent a chreadigrwydd wedi'i rannu'n gyfartal ledled y DU, nid felly y cyfle i fwynhau diwylliant a chwaraeon"**

### *Y rhaglen bolisi*

Mae'r rhaglen bolisi yn canolbwyntio ar y canlynol:

a. diwylliant a threftadaeth;
b. chwaraeon.

430 Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. *Taking Part 2019/20 – Arts, Heritage and Museums and Galleries*. 2020.

431 Cyngor Celfyddydau Lloegr. *National portfolio organisations 2018-22*.

432 Sport England. Active Lives Adult Survey November 2019-2020 Report. 2020.

### *Diwylliant a Threftadaeth*

Ers 2019, mae Llywodraeth y DU wedi grymuso cymunedau i ailwampio a hyrwyddo eu hadeiladau treftadaeth, canol trefi ac ardaloedd drwy raglen £95m Ardaloedd Gweithredu Treftadaeth y Stryd Fawr sy'n cefnogi 67 o leoedd ledled Lloegr (gweler Blwch 3.16); rhaglen £15m Trawsnewid Lleoedd drwy Dreftadaeth; a'r Gronfa Adfer Diwylliannol gwerth £2bn, sydd wedi diogelu a chefnogi pobl, sefydliadau a thirnodau diwylliannol, creadigol a hanesyddol ledled y DU.

Bydd buddsoddiad o £850m a gyhoeddwyd yn Adolygiad o Wariant 2021 yn cefnogi adeiladau diwylliannol a threftadaeth o'r radd flaenaf, yn cynnwys amgueddfeydd, safleoedd hanesyddol a llyfrgelloedd cyhoeddus. Bydd hyn yn helpu i roi hwb i lefelau cyfranogi, ymgysylltu a chyflogaeth mewn cymunedau lleol ac ar y stryd fawr. Yn ei dro, bydd hyn yn cefnogi'r economi ymwelwyr yn y lleoedd hyn, gan helpu i lywio gwaith adfywio a thwf economaidd, a darparu gwaith i bobl leol.

Gwnaeth Adolygiad o Wariant 2021 hefyd gadarnhau buddsoddiad Llywodraeth y DU ym mhrosiect Boston Spa Renewed y Llyfrgell Brydeinig. Bydd hyn yn llywio'r uchelgais i gyflwyno safle ar gyfer y Llyfrgell Brydeinig yng ngogledd Lloegr – cyfleuster newydd mawr i'r cyhoedd yn Leeds. Bydd buddsoddiadau mawr fel hyn mewn sefydliadau cenedlaethol yn eistedd ochr yn ochr â mwy o gefnogaeth i sefydliadau diwylliannol lleol. Mae Llywodraeth y DU yn gweithio gyda sefydliadau cenedlaethol mawr eraill i archwilio ffyrdd o gefnogi rhagoriaeth ddiwylliannol mewn trefi a dinasoedd yng ngogledd Lloegr a Chanolbarth Lloegr. A bydd yn edrych i weld sut y gall arweinwyr lleol sicrhau mwy o fuddsoddiad gan ffynonellau megis Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU mewn dinasoedd megis Stoke-on-Trent i sicrhau bod ei threftadaeth cerameg yn cael ei dathlu'n iawn, ac yr achubir ar bob cyfle i'r dreftadaeth honno lywio twf economaidd yn y dyfodol.

## Blwch 3.16 Prosiect Arddangos Parth Gweithredu Treftadaeth Stryd Fawr Coventry

Roedd Parth Gweithredu Treftadaeth Stryd Fawr Coventry yn brosiect arddangos cynnar i'r 66 o Gynlluniau Parth Gweithredu Treftadaeth eraill. Mae bellach wedi'i gwblhau ac enillodd wobr Strydoedd Mawr Fforwm Dinasoedd y Dyfodol yn 2021. Cyfrannodd Llywodraeth y DU dros £2m i gefnogi'r prosiect, gan alluogi gwaith i drawsnewid ardal Burges a Hales Street yn Coventry, sef un o'r ychydig rannau o'r ddinas a oroesodd y Blitz. Cafodd y cynllun ei arwain gan ymddiriedolaeth Historic Coventry, gyda chefnogaeth gan yr Ardal Gwella Busnes a Chyngor y Ddinas.

Drwy adfywio rhan o ganol dinas Coventry a oedd wedi dirywio, mae'r prosiect wedi cynnig cymysgedd o dafarndai, caffis a lleoliadau manwerthu defnydd cymysg mewn ardal sy'n cael ei defnyddio'n fwyfwy gan fyfyrwyr ac ymwelwyr, ynghyd â'r gymuned leol.

Roedd yr ardal yn arfer cael ei chysylltu â throsedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ond mae'r prosiect wedi denu busnesau newydd. Bydd gwaith i dir y cyhoedd y tu ôl i'r Burges yn tynnu cwlfertau o afon Sherbourne am y tro cyntaf ac yn darparu ardal eistedd a pherfformio awyr agored.

Yn 2021, agorwyd adeiladau lleol eraill fel atyniadau i ymwelwyr, gan gynnwys Neuadd Draper – adeilad a fu'n segur ers tro sydd bellach wedi cael bywyd newydd fel lleoliad cyngherddau a digwyddiadau. Mae hyn wedi digwydd mewn pryd i gyd-fynd â rhaglen Dinas Diwylliant y DU Coventry, sydd wedi ennyn diddordeb dros 400,000 o bobl yn ystod y chwe mis cyntaf.[433] Bydd adeilad hanesyddol y Charterhouse, sydd wedi cael cyllid gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Historic England, hefyd yn agor i'r cyhoedd yn ystod haf 2022.

433 Dinas Diwylliant y DU, Coventry. Coventry *UK City of Culture 2021 celebrates halfway point of 12 month programme*. 2021.

Dylai mynd i'r afael ag anghyfartaleddau o ran mynediad at ddiwylliant a chynnig arlwy diwylliannol sy'n wirioneddol genedlaethol fod yn un o nodweddion diffiniol sicrhau ffyniant bro. Bydd Llywodraeth y DU yn gwneud newidiadau i drawsnewid y dirwedd ar gyfer y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth drwy **gynyddu buddsoddiad diwylliannol y tu allan i Lundain yn sylweddol**. Bydd hyn yn dechrau drwy ymrwymo i wario **100% o'r cyllid ychwanegol ar gyfer Cyngor Celfyddydau Lloegr, a gytunwyd yn Adolygiad o Wariant 2021, i gefnogi diwylliant a chreadigrwydd y tu allan i Lundain.**

Yn y gwanwyn, bydd yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn amlinellu cynlluniau pellach i gyflawni hyn dros y tair blynedd nesaf a thu hwnt, a byddant yn cynnwys y newidiadau canlynol.

- **Pennu blaenoriaethau allweddol Cyngor Celfyddydau Lloegr ar gyfer buddsoddi mewn Sefydliadau Portffolio Cenedlaethol o 2023**, gan gynnwys pennu cyllideb y Cyngor Celfyddydau er mwyn sicrhau bod Cymorth Grant a chyllid "Achosion Da" y Loteri yn cael eu dosbarthu'n fwy cyfartal rhwng rhanbarthau.
- **Lansio cylch ariannu'r Portffolio Cenedlaethol ar gyfer 2023-26**, a fydd yn rhoi cyllid i sefydliadau diwylliannol ledled Lloegr o 2023 tan 2026.
- **Cynyddu effaith genedlaethol Sefydliadau Portffolio Cenedlaethol yn Llundain**. Bydd Cyngor Celfyddydau Lloegr yn nodi nifer o Sefydliadau Portffolio Cenedlaethol sydd o bwys cenedlaethol yn ogystal â sefydliadau llai sydd am sefydlu presenoldeb y tu allan i Lundain, ac yn rhoi cymorth iddynt er mwyn llwyddo. Bydd hyn yn golygu annog sefydliadau yn Llundain i sefydlu swyddfeydd, lleoliadau neu bartneriaethau hirdymor newydd y tu allan i Lundain, a rhoi cymorth ymarferol ac ariannol iddynt i wneud hynny. Bydd sefydliadau sy'n dymuno ystyried yr opsiynau hyn yn gallu cael cyllid ar gyfer astudiaethau dichonoldeb.
- **Sicrhau bod gan sefydliadau diwylliannol yn y Portffolio Cenedlaethol fyrddau amrywiol**. Bydd Cyngor Celfyddydau Lloegr yn cefnogi Sefydliadau Portffolio Cenedlaethol i ymgysylltu â chynulleidfaoedd a chymunedau ehangach, er mwyn sicrhau bod cyfansoddiad eu gweithluoedd a'u byrddau yn adlewyrchu'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.
- **£40m o brosiectau llwyddiannus yn Lloegr fel rhan o'r Gronfa Fuddsoddi Ddiwylliannol**, gan wario'r mwyafrif o'r swm hwn y tu allan i Lundain ar fwy na 50 o brosiectau yn ymwneud ag asedau diwylliannol, llyfrgelloedd, amgueddfeydd a diwydiannau creadigol.
- **Nodi dros 100 o leoedd blaenoriaeth ar gyfer sicrhau ffyniant bro y tu allan i Lundain** a fydd yn destun gwaith ymgysylltu a buddsoddiad ychwanegol gan Gyngor Celfyddydau Lloegr. Bydd hyn yn golygu bod lleoedd fel Stoke-on Trent, Barnsley, Rochdale a Wigan yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i adeiladu ar eu treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog – o waith cerameg byd-enwog Stoke i gynllun Kirklees ar gyfer canolfan ddiwylliannol fywiog yn Huddersfield.

### *Chwaraeon*

Mae Llywodraeth y DU hefyd yn cydnabod y rôl ganolog y gall chwaraeon, a chlybiau pêl-droed yn arbennig, ei chwarae wrth lunio hunaniaethau lleol ac atgyfnerthu economïau. Mae Llywodraeth y DU eisoes yn buddsoddi £25m ledled y DU i uwchraddio a thrawsnewid cyfleusterau chwaraeon llawr gwlad eleni. Mae £21m o'r ffigur hwn yn cael ei ddarparu gan y Sefydliad Pêl-droed yn Lloegr ac, ynghyd â chyllid partner gan Gymdeithas Bêl-droed Lloegr (FA) a'r Uwch Gynghrair, bydd hyn yn creu neu'n gwella hyd at 65 o gaeau gwair artiffisial, dros 800 o gaeau gwair a mwy na 35 o ystafelloedd newid yn Lloegr.

Bydd y cyfleusterau hyn yn cynnig cyfleoedd gwell i bobl gymryd rhan mewn chwaraeon llawr gwlad, yn enwedig mewn cymunedau sydd â'r angen mwyaf. Bydd dros 80% o'r cyllid a roddwyd gan Gymdeithas Bêl-droed Lloegr eleni yn mynd i ardaloedd y tu allan i Lundain a de-ddwyrain Lloegr.

Yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, bydd y Cymdeithasau Pêl-droed ym mhob ardal yn darparu cyfanswm o £4m gyda nod tebyg;

a. cefnogi gwaith i uwchraddio caeau gwair a chaeau 3G;
b. gwelliannau i ystafelloedd newid, pafiliynau a chyfleusterau eraill;
c. gwella mynediad i grwpiau sydd dan anfantais a grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli, gan gynnwys chwaraewyr ag anableddau.

**"Bydd y buddsoddiad hwn yn targedu'r rhai hynny a fydd yn cael y budd mwyaf o fynediad i gyfleusterau chwaraeon gwell, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig."**

Yn Adolygiad o Wariant 2021, cyhoeddodd Llywodraeth y DU £205m pellach i adeiladu neu wella hyd at 8,000 o gaeau chwaraeon amlddefnydd ledled y DU. Bydd y buddsoddiad hwn yn targedu'r rhai hynny a fydd yn cael y budd mwyaf o fynediad i gyfleusterau chwaraeon gwell, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig, ac yn sicrhau bod gan bob cymuned y caeau sydd eu hangen arni erbyn 2030. Cyhoeddodd hefyd y byddai pecyn ychwanegol o gyllid, gwerth £22m, er mwyn adnewyddu mwy na 4,500 o gwrtiau tennis cyhoeddus yn ardaloedd mwyaf difreintiedig y DU, gan roi'r cyfle i bobl o bob cefndir roi cynnig ar y gamp.

Yn ogystal â mynediad i gyfleusterau a gweithgareddau chwaraeon, mae Llywodraeth y DU hefyd yn deall pa mor bwysig yw clybiau pêl-droed i'w cymunedau lleol a'r effaith gymdeithasol y gallant ei chael. Mae eisoes wedi rhoi cymorth i gymunedau yn Portsmouth gymryd perchenogaeth o Stadiwm John Jenkins, drwy ddarparu bron £1m o'r Gronfa Perchenogaeth Gymunedol, a sicrhau y gall consortiwm a arweinir gan gefnogwyr gymryd rheolaeth dros Gigg Lane unwaith eto er mwyn rhoi dyfodol cynaliadwy i Glwb Pêl-droed Bury.

Mewn cylchoedd yn y dyfodol, bydd Llywodraeth y DU yn adolygu gofynion cymhwysedd y Gronfa er mwyn helpu rhagor o gymunedau i reoli eu caeau pêl-droed lleol ac asedau chwaraeon a chymunedol lleol hanfodol eraill lle mae'r rhain mewn perygl, gan gefnogi dyfodol pêl-droed lleol ledled y DU.

Yn yr **Adolygiad o Lywodraethu Pêl-droed wedi'i Arwain gan Gefnogwyr** a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd, cafwyd archwiliad cynhwysfawr o'r system bêl-droed yn Lloegr, ac argymhellwyd y dylid cael rheoleiddiwr annibynnol newydd er mwyn sicrhau dyfodol y gêm. Bydd Llywodraeth y DU yn mynd ati'n ddi-oed i bennu'r ffordd fwyaf effeithiol o gael rheoleiddiwr annibynnol, ac unrhyw bwerau y gallai fod eu hangen. Bydd hefyd yn ysgrifennu at y Cymdeithasau Pêl-droed i ofyn iddynt pa gamau gweithredu y byddant yn eu cymryd ar unwaith. Mae hyn yn cynnwys diogelu bathodynnau, dillad a chaeau clybiau, a rhoi llais i gefnogwyr mewn unrhyw benderfyniadau, sefydlu Byrddau Cysgodol i ymgynghori â chefnogwyr a gweithio i uwchraddio'r Ombwdsmon Pêl-droed i ymdrin â chwynion gan gefnogwyr.

Er mwyn hyrwyddo rôl chwaraeon wrth sicrhau ffyniant bro ymhellach, mae **Gemau'r Gymanwlad 2022 yn Birmingham wedi cael eu cefnogi gan £778m o gyllid cyhoeddus** er mwyn darparu chwaraeon o'r radd flaenaf, creu lleoliadau o safon ryngwladol, cyflymu gwelliannau i seilwaith a thrafnidiaeth gyhoeddus, ac agor Academi Swyddi a Sgiliau bwrpasol. Bydd buddsoddiad o £30m gan Sport England yn y digwyddiad yn helpu pobl i gadw'n heini yn eu hardal leol ac yn gwella cyfleusterau lleol, tra bydd Rhaglen Busnes a Thwristiaeth gwerth £24m yn hyrwyddo'r rhanbarth a'r DU i'r byd.

Mae Llundain yn parhau i elwa ar fanteision yn sgil cynnal y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd yn 2012. Gall cynnal digwyddiadau chwaraeon mawr sbarduno

prosiectau adfywio, cefnogi twf swyddi, ac annog pobl i gymryd rhan yn eu cymuned ac mewn chwaraeon llawr gwlad. Wrth inni agosáu at ddathlu deg mlynedd ers Gemau 2012, mae Llywodraeth y DU yn comisiynu UK Sport i arwain gwaith dichonoldeb mewn perthynas â'r posibilrwydd o ddod â digwyddiadau chwaraeon mawr i'r DU. Bydd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar gyfleoedd y tu allan i Lundain, gan gefnogi a thanategu'r uchelgais i sicrhau ffyniant bro yn y DU.

Yn 2022, bydd y DU hefyd yn cynnal Pencampwriaeth Pel-droed Merched Ewropeaidd UEFA mewn naw dinas yn Lloegr, yn ogystal â Chwpan Rygbi Cynghrair y Byd mewn 18 o leoliadau. Gan edrych tua'r dyfodol, mae Llywodraeth y DU yn cefnogi cynigion i ddod â rhagor o ddigwyddiadau chwaraeon o'r radd flaenaf i'r wlad, gan gynnwys Cwpan Rygbi Merched y Byd yn 2025 a Grand Départ y Tour de France yn 2026, gyda chamau wedi'u cynllunio yng Nghymru, Lloegr a'r Alban a photensial i arddangos oddeutu 90 o bentrefi, trefi a dinasoedd. Bydd y gwaith yn ystyried cyfleoedd pellach dros y blynyddoedd nesaf, gan gynnwys trafodaethau â Chymdeithasau Olympaidd a Pharalympaidd Prydain ynghylch a fyddai'n ymarferol cynnal y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd eto yn y 2040au.

## 3.4.2 Erbyn 2030, gall rhentwyr ddilyn llwybr cadarn i brynu eu cartref eu hunain, a bydd nifer y prynwyr tro cyntaf yn cynyddu ym mhob ardal; ac uchelgais y llywodraeth yw sicrhau bod nifer y cartrefi a gaiff eu rhentu nad ydynt yn cyrraedd y safon wedi lleihau 50%, gyda'r gwelliannau mwyaf i'w gweld yn yr ardaloedd sy'n perfformio waethaf.[434]

Mae'r genhadaeth hon yn canolbwyntio ar gynyddu nifer y bobl a all brynu eu cartref eu hunain a gwella ansawdd tai, gan gynnwys drwy'r system gynllunio.

> **“Yn y sector tai y gwelir yr angen mwyaf dybryd i sicrhau cyfle cyfartal”**

### Perchentyaeth ac ansawdd tai yn Lloegr

#### *Yr achos dros weithredu*

Yn y sector tai y gwelir yr angen mwyaf dybryd i sicrhau cyfle cyfartal. Ar ôl dirywiad parhaus dros ddau ddegawd, mae cyfraddau perchentyaeth bellach yn cynyddu, ond mae llawer mwy i'w wneud i adfer y freuddwyd o fod yn berchen ar eich cartref eich hun, yn enwedig ymhlith pobl ifanc. Mae Llywodraeth y DU wedi canolbwyntio ei fuddsoddiad yn y sector tai mewn ardaloedd y mae'r sector preifat eisoes wedi bod yn buddsoddi fwyaf ynddynt, gan beri anfantais i ogledd a Chanolbarth Lloegr.

Mae gan y sector tai rôl hanfodol i'w chwarae er mwyn cyflwyno'r canlyniadau y mae'r rhaglen ffyniant bro yn gobeithio eu cyflawni ledled y DU. Mae tai yn angenrheidiol er mwyn cefnogi twf economaidd. Os na fydd digon o dai, cyfyngir ar dwf mewn cynhyrchiant gan y bydd peiriant yr economi – symudedd llafur – yn cael ei arafu a chaiff y manteision a ddaw yn sgil lleoli pobl, busnesau a chyllid yn yr un ardal, eu tanseilio.

Y tu hwnt i gynhyrchiant, mae tai yn allweddol er mwyn adfer ymdeimlad o gymuned, balchder lleol a pherthyn. Mae bod yn berchen ar dŷ yn rhoi budd mewn cymdeithas i bobl, lle i feithrin cysylltiadau cymunedol a lle sefydlog i fagu teulu. Mae pwysigrwydd tai yn mynd y tu hwnt i argaeledd.

Mae cael cartref gweddus yn hollbwysig i'n llesiant a rhaid mynd i'r afael ag ansawdd tai er mwyn creu cymdogaethau a chymunedau ffyniannus. Mae'n annerbyniol bod pobl yn byw mewn cartrefi nad ydynt yn cyrraedd

434 Bydd y Llywodraeth yn ymgynghori ar yr effaith ar y farchnad rhentu preifat ac yn enwedig y rhai ar yr incymau isaf. Darperir rhagor o fanylion pan fydd yr adolygiad o'r Safon Tai Gweddus wedi cael ei gwblhau.

safonau gwedduster sylfaenol ac sy'n atal y plant a'r teuluoedd sy'n byw ynddynt rhag ffynnu.

I gyflawni'r amcanion hyn, mae angen system tai sy'n gweithio i bob cymuned ac mae cynnydd da yn cael ei wneud yn hyn o beth.

- Mae nifer y prynwyr tro cyntaf wedi cyrraedd y lefel uchaf ers 20 mlynedd, a phrynodd 400,000 o bobl eu cartref cyntaf y llynedd.[435] Mae cynlluniau megis Cymorth i Brynu a'r cynllun gwarant morgais yn helpu pobl i brynu cartref gyda chyn lleied â 5% o flaendal, ac mae mwy na 1m o bobl wedi dechrau cynilo i brynu eu cartref eu hunain drwy'r cynlluniau ISA Cymorth i Brynu ac ISA Gydol Oes. Mae'r system dreth bellach yn golygu nad yw'r rhan fwyaf o brynwyr tro cyntaf yn talu unrhyw Dreth Stamp o gwbl – ond rhaid i fuddsoddwyr mewn eiddo, megis landlordiaid Prynu i Osod, y rhai sy'n prynu ail gartref a phrynwyr tramor, dalu gordal.
- Mae gwelliannau i'r system gynllunio a'n buddsoddiad gwerth £24bn mewn tai a seilwaith wedi helpu i sicrhau cyfradd adeiladu tai yn Lloegr nas gwelwyd ers tri degawd – darparwyd dros 2m o gartrefi ychwanegol ers 2010, gan gynnwys dros 574,000 o dai fforddiadwy i'w rhentu a'u prynu.[436] Mae hyn wedi helpu i roi mwy o ddewis i brynwyr tro cyntaf, arafu chwyddiant o ran prisiau tai ac adfywio safleoedd tir llwyd.
- Mae nifer y bobl sy'n cysgu allan yn Lloegr wedi gostwng 43% ers 2017.[437] Yn ystod y pandemig, gwnaeth ein hymateb 'Everyone In' weithio gyda phartneriaid lleol i achub cannoedd o fywydau, a chefnogwyd miloedd o bobl i ddod o hyd i lety tymor hwy. Mae Llywodraeth y DU yn buddsoddi £800m eleni yn unig i fynd i'r afael â digartrefedd a chysgu allan – gan gynnwys drwy ddarparu 14,500 o welyau ychwanegol a 2,700 o staff cymorth ledled Lloegr – wrth hefyd ddiwygio'r system er mwyn mynd i'r afael ag achosion digartrefedd fel bod llai o bobl yn cael eu gwrthio i fyw ar y stryd. Ers i'r Ddeddf Lleihau Digartrefedd bwysig ddod i rym yn 2018, mae bron 450,000 o aelwydydd wedi cael eu diogelu rhag digartrefedd a chael llety tymor hwy.[438]
- Mae ansawdd y cartrefi y mae pobl yn byw ynddynt wedi gwella'n raddol. Yn 2020, methodd 16% neu 4m o gartrefi â chyrraedd y Safon Tai Gweddus, sy'n ostyngiad o 30% neu 6.7m o gartrefi yn 2009.[439] Mae'r gwelliannau hyn yn golygu bod mwy o bobl yn byw mewn cartrefi sy'n ddiogel, yn gynnes ac yn cyrraedd safon wedduster sylfaenol.

Er gwaethaf y cynnydd hwn, mae mwy i'w wneud.

Mae gormod o aelwydydd yn parhau i fyw mewn tai sy'n is na safonau y dylai cymdeithas eu derbyn. Mae bron un ym mhob deg (9%) cartref yn parhau i gynnwys peryglon sy'n peri risg uniongyrchol i niwed, ac ystyrir nad yw un ym mhob chwech (16%) yn cyrraedd y safon o hyd.[440] Nid yw tai o ansawdd gwael wedi'u gwasgaru'n deg ar draws y wlad, a cheir cyfraddau uwch o dai nad ydynt yn cyrraedd y safon yn Swydd Efrog a Humber, gorllewin Canolbarth Lloegr a gogledd-orllewin Lloegr. Pan ddechreuodd pandemig COVID-19,

435 Yorkshire Building Society. *Number of First Time Buyers Hits 20 Year High*. 2020.

436 Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau. 2021 *Live Tables on housing supply: net additional dwellings: Tabl 118*. Cyrchwyd: Ionawr 2022; Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau. *Affordable housing supply statistics 2020-21*. 2021.

437 Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau. *Rough sleeping snapshot in England: autumn 2020*. 2021.

438 Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau. *Statutory Homelessness July to September (Q3) 2021: England*. 2020. Link

439 Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau. *English Housing Survey: Headline Report 2020/21*. 2021.

440 Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau. *English Housing Survey: Headline Report 2020/21*. 2021.

cafodd miliynau o bobl, pobl ifanc a theuluoedd yn aml, eu cyfyngu i lety rhent o ansawdd gwael a effeithiodd ar eu hiechyd, eu llesiant a'u haddysg.

Mae prisiau tai yng Nghymru a Lloegr bron 7.7 gwaith yn uwch nag incymau bellach, cynnydd o 3.6 yn 1997, sy'n golygu bod gallu fforddio cartref y tu hwnt i gyrraedd llawer gormod o bobl ifanc.[441] Nid problem yn Llundain yn unig yw hon – mae fforddiadwyedd wedi gwaethygu'n sylweddol ym mhob rhanbarth dros y ddau ddegawd diwethaf.

Yn y cyfamser, mae angen sylweddol nas diwallwyd am dai cymdeithasol, sy'n golygu bod pobl yn talu rhenti uchel yn y sector rhentu preifat ac na allant gynilo arian ar gyfer eu cartref eu hunain. Mae nifer yr aelwydydd yn y sector hwn wedi lleihau o 5.4m yn 1980 i lai na 4m heddiw, yn rhannol oherwydd poblogrwydd a llwyddiant polisïau megis hawl i brynu.[442] Mae'r ffaith bod llai o bobl yn gallu prynu eu cartrefi eu hunain a llai o fynediad at dai cymdeithasol yn golygu bod maint y sector rhentu preifat wedi dyblu dros y ddau ddegawd diwethaf. Byddai'n well gan lawer o'r bobl sy'n rhentu gael eu tŷ eu hunain, yn enwedig pan fyddant am ddechrau teulu, oherwydd gall teuluoedd sy'n rhentu gael eu troi allan ar fyr rybudd, talu mwy am yr un tai na pherchnogion tai a rhentwyr cymdeithasol, a bod yn anfodlon ar eu tai.

**“Mae galluogi pobl i brynu eu cartref cyntaf yn golygu gwneud tai yn fwy fforddiadwy nawr ac yn y dyfodol”**

Er ei bod yn broblem ym mhob man, yn Llundain ac yn ne-ddwyrain Lloegr Fwyaf y mae'r sefyllfa o ran fforddiadwyedd tai fwyaf dybryd. Mae hyn yn adlewyrchu, yn rhannol, yr anghydbwysedd hanesyddol mewn swyddi a chyfleoedd sy'n peri i nifer mawr o bobl adael cartref y teulu a symud i dde Lloegr. Mae hyn yn creu pwysau sylweddol ar drafnidiaeth, ysgolion a thai yn arbennig. Mae'r buddsoddiad sydd ei angen i ateb y galw cynyddol yn golygu bod yr anghydbwysedd daearyddol yn parhau'n ddiddiwedd.

Yn olaf, mae'r drws i'r farchnad dai ar glo yn gyfan gwbl i lawer o aelwydydd. Mae oddeutu 96,000 o aelwydydd yn ddigartref mewn llety dros dro yn Lloegr ar hyn o bryd, gan gynnwys 59,000 o deuluoedd.[443] Mae pwysau tai yn golygu y gall plant a rhieni gael eu lleoli ymhell o ysgolion a chymunedau. Mewn canolfannau trefol ac, ar gyfer cysgu allan, mewn rhai ardaloedd arfordirol, y mae'r pwysau hyn yn tueddu i fod waethaf.

### *Y rhaglen bolisi*

Mae Llywodraeth y DU yn ymrwymedig i greu system dai deg a chyfiawn sy'n gweithio i bawb. Mae hyn yn cynnwys cefnogi mwy o brynwyr tro cyntaf i brynu eu cartref eu hunain, darparu mwy o dai sy'n wirioneddol fforddiadwy, gwella ansawdd tai yn sylweddol a lleihau digartrefedd.

Mae'r rhaglen bolisi yn canolbwyntio ar y canlynol:

a. galluogi pobl i brynu eu cartrefi eu hunain;
b. gwella ansawdd tai;
c. diwygio'r system gynllunio.

#### *Galluogi pobl i brynu eu cartrefi eu hunain*

Mae galluogi pobl i brynu eu cartref cyntaf yn golygu gwneud tai yn fwy fforddiadwy nawr ac yn y dyfodol. Bydd Llywodraeth y DU yn parhau i weithio

441 SYG. *House price to workplace-based earnings ratio*. 2021. Link
442 Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau. *English Housing Survey data on tenure trends and cross tenure analysis 2020/21 - table FT1101*. 2021.
443 Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau. *Statutory Homelessness July to September (Q3) 2021: England*. 2020. Link

tuag at ein nod o ddarparu 300,000 o gartrefi newydd bob blwyddyn yn Lloegr erbyn canol y 2020au er mwyn creu marchnad dai fwy cynaliadwy a fforddiadwy.

Bydd Llywodraeth y DU yn gwella'r system gynllunio ac yn rhoi mwy o adnoddau i gynghorau adfywio tir er mwyn cyflawni'r nod hwn.

- Bydd buddsoddiad o £1.8bn mewn prosiectau tir llwyd a seilwaith a gyhoeddwyd yn Adolygiad o Wariant 2021 yn golygu y gellir darparu hyd at 160,000 o gartrefi ledled Lloegr. Y nod fydd canolbwyntio ar godi tai o amgylch seilwaith trafnidiaeth presennol ac arfaethedig er mwyn creu cymdogaethau cynaliadwy lle gellir cerdded a beicio i'r gwaith neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus leol o ansawdd da. Er mwyn cefnogi ymdrechion i sicrhau ffyniant bro, bydd Llywodraeth y DU yn defnyddio safleoedd tir llwyd y tu allan i Lundain a de-ddwyrain Lloegr ar gyfer y datblygiadau hyn yn bennaf.
- Bydd y Rhaglen Cartrefi Fforddiadwy, sy'n werth £11.5bn, yn darparu hyd at 180,000 o gartrefi fforddiadwy. Caiff 75% o'r rhain eu darparu y tu allan i Lundain a sicrheir buddsoddiad cyhoeddus a phreifat ychwanegol o £38bn mewn tai fforddiadwy. Bydd Llywodraeth y DU hefyd yn cynyddu nifer y tai cymdeithasol sydd ar gael dros amser er mwyn darparu'r tai mwyaf fforddiadwy i'r bobl sydd eu hangen. Bydd hyn yn cynnwys adolygu sut i gefnogi cynghorau i ddarparu mwy o dai cyngor, ar y cyd â Chymdeithasau Tai. Bydd Llywodraeth y DU hefyd yn gofyn i Homes England chwarae rôl ehangach o ran helpu meiri ac awdurdodau lleol i wireddu eu huchelgeisiau ar gyfer tai fforddiadwy newydd ac adfywio yn eu hardaloedd, fel y trafodwyd yn gynharach yn y bennod hon. Bydd Homes England yn defnyddio ei adnoddau, ei arbenigedd, ei brofiad a'i bŵer i brynu wrth ymdrin â datblygwyr er mwyn helpu arweinwyr lleol i gael gafael ar yr holl gyllid sydd ar gael mewn lle. Bydd hyn yn adeiladu ar wersi'r bartneriaeth lwyddiannus ag Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf, Homes England a darparwyr tai lleol ym Manceinion.
- Mae Cronfa Adeiladu Cartrefi er mwyn Sicrhau Ffyniant Bro gwerth £1.5bn yn cael ei lansio, a fydd yn rhoi benthyciadau i fusnesau bach a chanolig ac yn cefnogi agenda adfywio ehangach Llywodraeth y DU mewn ardaloedd blaenoriaeth ar gyfer ffyniant bro.

Mae Llywodraeth y DU hefyd yn bwrw ymlaen â'n hymdrechion i droi'r Genhedlaeth Rhentu yn Genhedlaeth Brynu.

- Mae'r cynllun Cymorth i Brynu newydd a gafodd ei lansio'r llynedd yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar brynwyr tro cyntaf ac adeiladir ar lwyddiant y Cynllun Gwarant Morgeisi drwy weithio gyda'r diwydiant benthycwyr i sicrhau bod cynifer o forgeisi â blaendal isel â phosibl ar gael, sy'n hanfodol er mwyn lleihau'r amser a gymerir i gynilo i brynu cartref.
- Prynwyr tro cyntaf fydd yn cael y cyfle cyntaf i brynu cartrefi pan fyddant yn mynd ar y farchnad drwy gynyddu'r cynllun Cartrefi Cyntaf a fydd yn darparu gostyngiad o 30% i helpu miloedd o bobl ifanc leol a gweithwyr allweddol i brynu cartref yn eu cymuned.
- Bydd Llywodraeth y DU hefyd yn ystyried opsiynau pellach i gyfyngu ar y gystadleuaeth y mae prynwyr tro cyntaf yn ei hwynebu. Mae hyn yn golygu ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael i'r llywodraeth er mwyn cyfyngu ar y ffactorau sy'n prisio pobl leol allan o'r farchnad, gan geisio dysgu oddi wrth wledydd tebyg.

- Byddwn yn gwella'r broses o brynu a gwerthu cartref, a all fod yn ddrud, cymryd llawer o amser ac achosi straen. Mae tua thraean o'r holl drafodiadau tai yn methu, gan gostio cannoedd o filiynau o bunnoedd i bobl bob blwyddyn. Bydd Llywodraeth y DU a'r diwydiant yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y wybodaeth berthnasol hanfodol y mae angen i brynwyr ei gwybod – megis y math o ddeiliadaeth, hyd y les ac unrhyw daliadau gwasanaeth – ar gael yn ddigidol lle bynnag y bo modd, gan ffynonellau dibynadwy a dilys, ac mai dim ond unwaith y cânt eu darparu. Os bydd angen, bydd Llywodraeth y DU yn deddfu.

Mae Llywodraeth y DU hefyd am annog pobl i ddefnyddio cartrefi gwag unwaith eto, a grymuso arweinwyr lleol i ailfuddsoddi yn ôl yn eu cymunedau. Bydd Llywodraeth y DU felly'n cyflwyno pwerau newydd i gynghorau roi premiwm o hyd at 100% i gartrefi a gaiff eu gadael yn wag am flwyddyn, yn hytrach na dwy flynedd – gan sicrhau cysondeb ledled y DU. Bydd Llywodraeth y DU yn sicrhau bod cynghorau yn cadw'r holl refeniw ychwanegol er mwyn grymuso eu harweinwyr lleol i gyflawni eu blaenoriaethau ac ymdrin yn uniongyrchol ag effeithiau cartrefi gwag – gan gynnwys y baich anghymesur o ran costau y gallant ei roi ar wasanaethau lleol a'r effaith negyddol ar gyflenwad tai. Er mwyn sicrhau tegwch, bydd Llywodraeth y DU yn ymgynghori ar ganllawiau diwygiedig ar gymhwyso'r premiwm cartrefi gwag ac eithriadau statudol posibl.

Drwy sicrhau ffyniant bro, gwelir ffyniant yn cynyddu mewn ffordd fwy cyfartal ledled y wlad, gan roi'r cyfle i fwy o bobl ddod o hyd i yrfa neu alwedigaeth yn yr ardal lle cawsant eu magu. Bydd buddsoddi mewn tai newydd yn yr ardaloedd hyn yn darparu mwy o dai o safon i deuluoedd mewn cymunedau sy'n ddiogel, wedi'u dylunio i fod yn hardd ac yn agosach at fannau gwyrdd a gweithleoedd. Dyna pam mae Llywodraeth y DU wedi ymgymryd â sawl un o argymhellion y Comisiwn Adeiladu'n Well, Adeiladu'n Harddach, er mwyn sicrhau y caiff anghenion a disgwyliadau ein cymunedau eu diwallu a'u bodloni. Bydd y cymunedau newydd deniadol hyn, a fydd yn bosibl drwy fuddsoddiad Llywodraeth y DU, a'r broses o ailgydbwyso buddsoddiad mewn tai a thrafnidiaeth, yn lleihau'r pwysau ar dai ac ar safleoedd maes glas a Llain Las mewn ardaloedd gorboblog yn Llundain a de-ddwyrain Lloegr.

Ar yr un pryd, mae Llywodraeth y DU yn rhoi mwy o bwerau i gymunedau yn Lloegr er mwyn datblygu gweledigaeth a rennir o ddyfodol eu hardal. Ers 2012, mae dros 2,800 o grwpiau wedi dechrau'r broses o gynllunio cymdogaethau mewn ardaloedd lle mae dros 14m o bobl yn byw. Mae Llywodraeth y DU wedi darparu dros £34.5m i gefnogi'r broses Cynllunio Cymdogaethau rhwng 2018 a 2022, gan alluogi cymunedau i ddylanwadu ar y lleoedd y maent yn byw ynddynt, penderfynu ar leoliad cartrefi newydd, swyddi, siopau a gwasanaethau, yn ogystal â diogelu mannau gwyrdd ac asedau treftadaeth.

Fel rhan o bob menter i helpu pobl i brynu eu cartref cyntaf, cymerir camau i sicrhau bod eu profiad o fod yn berchen ar gartref yn adlewyrchu hynny go iawn. I lawer, mae eu breuddwyd o brynu eu cartref eu hunain wedi cael ei difetha gan arferion annheg megis rhenti tir uchel, taliadau annheg a gwasanaeth gwael gan gwmnïau rheoli sydd ymhell i ffwrdd ac yn anymatebol. Bydd Llywodraeth y DU yn unioni hyn drwy wahardd tai lesddaliadol newydd a rhenti tir ariannol newydd, gan roi'r pŵer yn ôl i berchnogion tai. Mae Llywodraeth y DU hefyd yn ymgynghori ar fesurau a fydd yn grymuso mwy o lesddeiliaid i gymryd rheolaeth dros y gwaith o reoli eu heiddo gan ei gwneud yn haws ac yn rhatach iddynt brynu rhydd-ddaliad eu heiddo. Yn y dyfodol,

mae Llywodraeth y DU am weld mwy o bobl yn prynu fflatiau cyfunddaliadol, a bydd yn cyflwyno deddfwriaeth bellach mewn perthynas â lesddeiliadaeth a chyfunddeiliadaeth yn gynt dros dymor y Senedd hon.

### *Gwella ansawdd tai*

Nid yw'n dderbyniol bod cynifer o bobl, yn enwedig yn y rhannau o'r wlad lle mae angen sicrhau ffyniant bro fwyaf, yn byw mewn cartrefi nad ydynt yn cyrraedd y safon, a rhai mewn amodau sy'n peri risg uniongyrchol i'w hiechyd. Bydd Llywodraeth y DU yn rhoi rhaglen waith uchelgeisiol ar waith, gan gynnwys drwy ddeddfwriaeth eleni, er mwyn mynd i'r afael â thai o ansawdd gwael.

- Cyhoeddir Papur Gwyn yn y gwanwyn yn nodi sut y bydd Llywodraeth y DU yn cefnogi pobl yn y sector rhentu preifat, gan gynnwys rhoi terfyn ar achosion o droi allan yn unol ag Adran 21 a elwir yn rhai “dim bai” a rhoi hawl gref i iawndal i bob tenant. Bydd yn ystyried cynigion ar gyfer safonau gofynnol newydd i gartrefi rhent, gan gyflwyno **Cofrestr Genedlaethol ar gyfer Landlordiaid** a chymryd camau llym yn erbyn landlordiaid diegwyddor. Yn ogystal â hyn, bydd Llywodraeth y DU yn adolygu'r Safon Tai Gweddus er mwyn sicrhau ei bod yn addas ar gyfer heddiw ac yn gymwys i bob deiliadaeth rhent. Bydd Llywodraeth y DU yn ymgynghori ar yr effaith ar y farchnad rhentu preifat ac yn enwedig y rhai ar yr incymau isaf. Darperir rhagor o fanylion pan fydd yr adolygiad o'r Safon Tai Gweddus wedi cael ei gwblhau.
- I'r rhai sy'n byw mewn tai cymdeithasol o ansawdd gwael, bydd Llywodraeth y DU yn deddfu i gyflawni ymrwymiadau a wnaed yn y Papur Gwyn ar Dai Cymdeithasol, gan gyflwyno Bil Rheoleiddio Tai Cymdeithasol yn gynt. Bydd preswylwyr yn cael gwybodaeth am berfformiad fel bod modd iddynt ddwyn eu landlord i gyfrif a sicrhau, pan fydd preswylwyr yn gwneud cwyn, fod landlordiaid yn cymryd camau cyflym ac effeithiol i unioni pethau. Bydd Llywodraeth y DU yn ymdrin yn gadarn â landlordiaid nad ydynt yn mynd i'r afael â'r materion hyn, gan gynnwys sicrhau y gall y rheoleiddiwr roi dirwyon heb derfyn i'r rhai gwaethaf.
- Eir i'r afael ag effeithlonrwydd ynni gwael drwy sicrhau y rhoddir cyllid ôl-osod i'r cartrefi sy'n perfformio waethaf ac i'r bobl sydd leiaf tebygol o allu talu. Bydd y £2.2bn o gyllid drwy'r Grant Uwchraddio Cartrefi, y Gronfa Datgarboneiddio Tai Cymdeithasol a'r Cynllun Uwchraddio Boeleri, yn helpu i wella effeithlonrwydd ynni, lleihau allyriadau carbon a lleihau biliau ynni. Bydd Safon Cartrefi'r Dyfodol a Safonau Adeiladau'r Dyfodol hefyd yn sicrhau bod cartrefi ac adeiladau newydd yn cyrraedd safonau llawer uwch o ran effeithlonrwydd ynni.
- Ar gyfer pobl hŷn sydd wedi'u dal mewn llety anaddas neu nad yw'n cyrraedd y safon, bydd Llywodraeth y DU yn gweithio i gynyddu'r dewisiadau sydd ar gael iddynt. Caiff Tasglu newydd ei lansio'n fuan er mwyn ystyried ffyrdd y gellir darparu dewis gwell o dai sy'n ddiogel ac o ansawdd da i bobl hŷn, gan gynnwys sut i fynd i'r afael ag anghyfartaleddau rhanbarthol o ran cyflenwad o dai priodol a thai arbenigol lle y bo angen.

**“Nid yw'n dderbyniol bod cynifer o bobl yn byw mewn cartrefi nad ydynt yn cyrraedd y safon”**

- I'r rhai y mae'r drws i'r system dai yn parhau i fod ar glo iddynt, caiff ymdrechion er mwyn helpu pawb i ddod o hyd i gartref eu cynyddu i'r eithaf. Bydd Llywodraeth y DU yn buddsoddi £2bn i fynd i'r afael â digartrefedd a chysgu allan dros y tair blynedd nesaf, gan gefnogi pobl agored i niwed ledled Lloegr wrth inni roi diwedd ar gysgu allan am byth. Adnewyddir ffocws Llywodraeth y DU ar atal digartrefedd drwy weithio ym mhob rhan o'r llywodraeth a gyda phartneriaid lleol i ymdrin â'r achosion sylfaenol, a sicrhau bod y Fenter Cysgu Allan flaenllaw yn parhau i ddarparu cymorth sydd wedi'i deilwra i ardaloedd lleol.

*Diwygio'r system gynllunio yn Lloegr*

Mae cael system gynllunio gref yn hanfodol i sicrhau ffyniant bro mewn cymunedau ledled y wlad a chaniatáu iddynt fynegi barn am y ffordd y caiff eu tir ei ddefnyddio a ble y caiff tai hardd a chynaliadwy eu hadeiladu.

Mae llawer wedi'i gyflawni eisoes. Gan adeiladu ar yr ymrwymiad yn y Strategaeth Seilwaith Genedlaethol, bydd Prosiect SPEED yn gwella'r gwaith o gyflawni prosiectau seilwaith mawr hollbwysig, gan gynnwys ysbytai, ysgolion a ffyrdd newydd. Bydd y buddsoddiadau hanfodol hyn yn cryfhau sylfeini economïau lleol, gan ddatgloi buddsoddiad a chreu swyddi gwyrdd ledled y DU. Mae hyn yn adeiladu ar ddiwygiadau uchelgeisiol eraill, gan gynnwys newidiadau i hawliau datblygu a ganiateir sydd wedi galluogi gwaith mawr ei angen i ehangu seilwaith cyhoeddus, gan gynnwys ysgolion a cholegau, heb fod angen cais cynllunio.

> **Mae cael system gynllunio gref yn hanfodol i sicrhau ffyniant bro mewn cymunedau**

Mae cael system gynllunio gref yn hanfodol i sicrhau ffyniant bro mewn cymunedau

Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi torri tir newydd o ran sicrhau harddwch yn yr amgylchedd adeiledig drwy ei diwygiadau cynllunio. Mae pobl am i'w trefi fod yn hardd ac yn ddefnyddiol. Dyna pam mae Llywodraeth y DU wedi ymgymryd â sawl un o argymhellion y Comisiwn Adeiladu'n Well, Adeiladu'n Harddach, er mwyn sicrhau y caiff anghenion a disgwyliadau ein cymunedau eu diwallu a'u bodloni.

Gwnaeth pandemig COVID-19 atgoffa'r genedl pa mor bwysig yw creu lle. Mae diwygiadau 2020 i Fframwaith y Polisi Cynllunio Cenedlaethol, y Cod Dylunio Model Cenedlaethol a chreu Swyddfa Lle, yn trawsnewid golwg lleoedd a'r ymdeimlad y maent yn ei roi i bobl, drwy sicrhau y defnyddir dyluniadau hardd a chynaliadwy ledled y wlad.

Yn ogystal, mae datblygu meddalwedd cynllunio newydd ar gyfer cynghorau ac asiantaethau digidol yn dod â'r system i'r 21ain ganrif. Bydd cronfa ymgysylltu PropTech, a lansiwyd ym mis Hydref 2021, yn helpu i gynyddu cyfranogiad cymunedau yn y broses o lunio ac adfywio lleoedd, gan wneud creu lle yn broses fwy democrataidd.

Ond gellir gwneud mwy i sicrhau bod cynllunio yn adnodd a ddefnyddir i sicrhau ffyniant bro ledled Lloegr.

Dim ond 39% o awdurdodau lleol sydd wedi mabwysiadu cynllun yn ystod y pum mlynedd diwethaf, sy'n cyfyngu ar brosesau effeithiol i ymgysylltu â chymunedau ynghylch datblygiadau. Caiff cynlluniau lleol eu cwtogi a'u symleiddio, a bydd data gwell sy'n sail i gynlluniau yn sicrhau eu bod yn dryloyw, yn ddealladwy ac yn ystyried yr amgylchedd a gaiff ei ddatblygu. Bydd hyn oll yn arwain at system sy'n gweithio'n fwy effeithlon ac y mae'n haws ymgysylltu â hi, lle mae cymunedau'n cael mwy o gyfle i leisio barn a mwy o gynghorau yn cytuno ar gynlluniau lleol.

Mae'r system gynllunio bresennol yn galluogi rhai datblygwyr i gael budd anghymesur ac annheg o'r tir y byddant yn ei ddatblygu. Dyna pam mae Llywodraeth y DU yn datblygu modelau ar gyfer ardoll seilwaith newydd a fydd yn galluogi awdurdodau lleol i gael gwerth o waith datblygu mewn ffordd fwy effeithlon, gan sicrhau'r seilwaith a'r tai fforddiadwy sydd eu hangen ar gymunedau.

Bydd gwella'r system gynllunio yn helpu i sicrhau ffyniant bro mewn lleoedd sydd wedi cael eu gadael ar ôl. Bydd Llywodraeth y DU yn gwella pwerau prynu gorfodol er mwyn cefnogi gwaith i adfywio canol trefi; darparu cymorth pellach ar gyfer ailddefnyddio tir llwyd ar gyfer datblygiadau; pennu dull mwy cadarnhaol o ymdrin â thir cyflogaeth mewn polisïau cenedlaethol er mwyn helpu i ddarparu swyddi; ac ymgysylltu mwy â darparwyr seilwaith wrth greu lleoedd er mwyn atgyfnerthu cynhyrchiant.

Gan adeiladu ar gynnydd hyd yma, bydd newidiadau ehangach i'r system gynllunio yn sicrhau canlyniadau cymdeithasol ac economaidd gwell drwy greu lleoedd hardd y gall pobl fod yn falch ohonynt; gwella democratiaeth a phrosesau ymgysylltu mewn penderfyniadau cynllunio; cefnogi prosesau diogelu'r amgylchedd, gan gynnwys cefnogi'r llwybr tuag at Sero Net; a sicrhau buddion clir ar gyfer cymdogaethau a phobl leol.

**“Nod Llywodraeth y DU yw lleihau troseddu a gwneud strydoedd yn fwy diogel ym mhob rhan o'r DU”**

### 3.4.3 Erbyn 2030, bydd nifer yr achosion o laddiadau, trais difrifol a throseddau mewn cymdogaethau wedi lleihau, a chanolbwyntir ar yr ardaloedd yr effeithir arnynt fwyaf.

Mae'r genhadaeth hon yn canolbwyntio ar greu cymdogaethau mwy diogel.

## Cymdogaethau mwy diogel

### *Yr achos dros weithredu*

Nod Llywodraeth y DU yw lleihau troseddu a gwneud strydoedd yn fwy diogel ym mhob rhan o'r DU. Mae troseddu yn dinistrio bywydau a chymdogaethau. Mae'n gwneud i bobl deimlo'n anniogel ar y stryd ac yn eu cartrefi. Mae gweithgarwch troseddol yn ysgogi ac yn ariannu mentrau troseddol enfawr, a gall ymwneud â throseddu roi rhywun ar lwybr sy'n arwain at gryn niwed i'r unigolyn ac eraill. Mae troseddu hefyd yn erydu cyfalaf, yn atal buddsoddiad a swyddi newydd, yn gwneud tlodi yn broblem barhaus ac yn tanseilio rhagolygon i bobl ifanc.

Fel y nodwyd yn glir yng Nghynllun Gorchfygu Troseddu Llywodraeth y DU, er bod lefelau cyffredinol troseddu wedi bod yn gostwng ers tro, nid yw pawb yn profi nac yn mwynhau'r realiti hon. Er enghraifft, fel y mae adroddiad y Comisiwn ar Anghyfartaleddau Hiliol ac Ethnig yn ei gydnabod, mae llawer o'r problemau sy'n deillio o droseddu yn cael effaith anghymesur ar ardaloedd sydd â chyfradd uwch o bobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.[444] A hyd yn oed pan fydd lefelau troseddu yn gostwng, mae'r cyhoedd yn disgwyl, yn gywir ddigon, i Lywodraeth y DU ganolbwyntio ar eu gostwng ymhellach.

Nid yw achosion o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi'u gwasgaru'n gyfartal, gydag achosion o laddiadau, trais difrifol a throseddu wedi eu crynhoi mewn rhai cymdogaethau: roedd bron chwarter o'r holl droseddau mewn cymdogaethau yn 2018-19 wedi'u crynhoi mewn 5% o ardaloedd lleol yn unig.[445]

444 *The independent report of the Commission on Race and Ethnic Disparities*. 2021.
445 Y Swyddfa Gartref. *Safer Streets Fund (2021-2022) Prospectus*. 2021.

Caiff llawer o'r troseddau a'r problemau ansawdd bywyd hyn eu hachosi gan nifer bach o droseddwyr dyfal, a dim ond 5% o droseddwyr sy'n gyfrifol am hyd at 50% o'r holl droseddau.[446] Mae anghyfartaleddau rhanbarthol mewn cyfraddau aildroseddu hefyd. Gogledd-ddwyrain Lloegr sydd â'r gyfradd uchaf, sef 30%, a de-ddwyrain Lloegr sydd â'r gyfradd isaf, sef 23%.[447] Er mwyn atal trosedd a gwneud strydoedd yn ddiogel, rhaid mynd i'r afael â'r ffaith bod dau o bob pump o'r bobl a gaiff eu rhyddhau o'r carchar yn aildroseddu o fewn blwyddyn iddynt gael eu rhyddhau.

## *Y rhaglen bolisi*

Mae'r rhaglen bolisi yn canolbwyntio ar y canlynol:

a. troseddu, cyffuriau a thrais difrifol;
b. dedfrydu;
c. adfer trefn.

### *Troseddu, cyffuriau a thrais difrifol*

Mae lleihau troseddu yn ganolog i nod Llywodraeth y DU o sicrhau ffyniant bro ledled y wlad. Dyna pam mae Llywodraeth y DU yn ariannu 20,000 o swyddogion yr heddlu ychwanegol yng Nghymru a Lloegr, er mwyn caniatáu i bawb deimlo'n ddiogel yn eu hardaloedd lleol ac atal troseddau sy'n dryllio cymunedau. Caiff tua 75% o'r swyddogion ychwanegol hyn eu lleoli y tu allan i Lundain. Fis Rhagfyr 2021, roedd dros 11,000 o swyddogion ychwanegol eisoes wedi cael eu recriwtio drwy'r rhaglen hon.[448]

Mae lladdiadau, trais difrifol a throseddau mewn cymdogaethau yn benodol yn cael effaith andwyol ar gymunedau lleol. O amgylch "mannau problemus" ac mewn dinasoedd y gwelir y troseddau hyn fwyaf, gan ymwneud ag ad-droseddwyr yn anghymesur ac yn aml yn cael eu sbarduno gan gyffuriau. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020, roedd 48% o laddiadau yn gysylltiedig â chyffuriau.[449]

Fel y nodir yn glir yn y Cynllun Gorchfygu Troseddu, mae Llywodraeth y DU yn targedu adnoddau ac ymdrechion mewn ardaloedd yr effeithir yn anghymesur arnynt, gan weithio gyda chymunedau i sicrhau y caiff gwelliannau eu cynnal dros amser. Ers 2019, buddsoddwyd £242m dros dair blynedd er mwyn mynd i'r afael â mannau problemus o ran trais difrifol a lladdiadau, gan gynnwys drwy Unedau Lleihau Trais sy'n dod â phartneriaid allweddol o'r heddlu, y system cyfiawnder troseddol, llywodraeth leol, addysg, iechyd a'r gymuned ynghyd er mwyn ymdrin â thrais difrifol. Mae Llywodraeth y DU yn ymgorffori'r dull gweithredu hwn mewn deddfwriaeth drwy Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd, drwy greu dyletswydd gyfreithiol i'r partneriaid hyn gydweithio er mwyn atal trais difrifol a mynd i'r afael ag achosion ledled Cymru a Lloegr.

Ers 2020, mae Llywodraeth y DU wedi rhoi £70m i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ac awdurdodau lleol ledled Cymru a Lloegr drwy dri chylch o'r **Gronfa Strydoedd Mwy Diogel**, er mwyn canolbwyntio ar atal troseddau mewn cymdogaethau, troseddau mewn mannau cyhoeddus a thrais yn erbyn menywod a merched. Yn Adolygiad o Wariant 2021, cyhoeddodd Llywodraeth y DU £50m o gyllid Llywodraeth y DU bob blwyddyn am y tair blynedd ariannol nesaf o 2022-23 tan 2024-25. Bydd y Gronfa Strydoedd Mwy Diogel estynedig yn cwmpasu ymdrechion i atal troseddau mewn cymdogaethau megis bwrgleriaeth, lladrad a dwyn ceir, ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais yn

446 Llywodraeth y DU. *Cynllun Gorchfygu Troseddu*. 2021.
447 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Ystadegau profedig am aildroseddu: rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2019. 2021.
448 Y Swyddfa Gartref. *Police Officer Uplift, England and Wales, quarterly update to 31 December 2021*. 2022.
449 SYG. *Homicide in England and Wales: year ending March 2020*. 2021.

erbyn menywod a merched fel ei phrif amcanion, gan alluogi ardaloedd ledled Cymru a Lloegr i gyflwyno cynigion mewn perthynas ag unrhyw un o'r mathau hyn o droseddau, neu bob un ohonynt, yn seiliedig ar anghenion lleol. Bydd y cylch hwn o'r Gronfa Strydoedd Mwy Diogel yn symud tuag at ddarparu un ffrwd gyllido yn hytrach na sawl ffrwd sy'n gorgyffwrdd. Bydd Llywodraeth y DU yn cynnig dau gylch 18 mis o hyd dros dair blynedd ariannol Adolygiad o Wariant 2021. Bydd hyn yn cynyddu'r cyfnod ar gyfer cyflwyno cynigion i'r eithaf, gan sicrhau y caiff anghenion lleol eu hadlewyrchu'n llawn a sicrhau y caiff cynigion eu cyflwyno'n llwyddiannus.

Bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ac awdurdodau lleol ledled Cymru a Lloegr yn parhau i allu gwneud cais am gyllid o'r Gronfa Strydoedd Mwy Diogel er mwyn cefnogi ymyriadau ymarferol mewn ardaloedd lleol y mae troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael effaith anghymesur arnynt. Gall rhai sefydliadau cymdeithas sifil wneud cais am gyllid hefyd, gan gydnabod y rôl bwysig y mae'r sefydliadau hyn yn ei chwarae mewn bywyd lleol. Y swm mwyaf y gellir gwneud cais amdano fydd £500,000 bob blwyddyn. Er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n elwa ar gyllid o'r Gronfa Strydoedd Mwy Diogel yn cyfrannu at gamau i fynd i'r afael â throseddu ac yn cymryd cyfrifoldeb dros sicrhau ffyniant yn eu hardaloedd lleol, bydd yn rhaid i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ac awdurdodau lleol ddarparu arian cyfatebol, lle mae cynigwyr yn cyfrannu £1 (a all fod ar ffurf taliad mewn nwyddau) am bob £2 a ddarperir gan Lywodraeth y DU.

Mae'n hollbwysig o hyd bod cynigwyr yn ymgysylltu â chymunedau a busnesau mewn ffordd ystyrlon ac yn dangos eu bod wedi ymgynghori â nhw wrth baratoi eu cynigion. Mewn cylchoedd olynol o'r Gronfa Strydoedd Mwy Diogel, mae Llywodraeth y DU wedi cynyddu'r gofynion ymgysylltu ac ymgynghori yn raddol. Mae Llywodraeth y DU yn ymrwymedig i fynd gam ymhellach, o ystyried pa mor bwysig yw darparu'r cyllid hwn gyda phrofiad uniongyrchol, a gweithio'n agos gyda sefydliadau lleol, ymarferwyr, busnesau ac, yn bwysicaf oll, cymunedau ar ddechrau'r broses o ddatblygu'r cynnig a thrwy gydol cyfnod prosiectau.

Pan ystyrir yr heriau a gaiff eu creu gan gyffuriau, mae Llywodraeth y DU yn ymrwymedig i ddefnyddio dull llywodraeth gyfan ac, ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Strategaeth Gyffuriau ddeg mlynedd arwyddocaol. Bydd y strategaeth hon yn mynd i'r afael â'r defnydd anghyfreithlon o gyffuriau a chaiff ei thanategu gan dair blaenoriaeth: torri cadwyni cyflenwi cyffuriau; darparu system triniaeth ac adfer o'r radd flaenaf; a sicrhau newid cenedliadol yn y galw am gyffuriau. Ymrwymwyd i fuddsoddi mwy nag erioed o'r blaen mewn camau gorfodi a chynlluniau triniaeth ac adfer mewn perthynas â chyffuriau, sef cyfanswm o dros £3bn dros y tair blynedd nesaf, gan gynnwys bron £900m o gyllid ychwanegol i dargedu'r ardaloedd sydd â'r angen mwyaf. Bydd hyn yn atal bron 1,000 o farwolaethau, yn cau dros 2,000 o linellau cyffuriau ac yn cyfrannu at atal tri chwarter miliwn o droseddau erbyn diwedd 2024-25. Bydd Llywodraeth y DU yn parhau i gydweithio â'r gweinyddiaethau datganoledig ar hyn, gan gynnwys drwy gyfarfodydd Gweinidogol rheolaidd y DU ar gyffuriau.

Mae hyn yn adeiladu ar ymdrechion presennol i ddymchwel mentrau troseddol a llwyddiant wrth roi diwedd ar linellau cyffuriau. Ers mis Tachwedd 2019, drwy'r Rhaglen Llinellau Cyffuriau, mae'r heddlu wedi cau mwy na 1,500 o linellau delio, gwneud dros 7,400 o arestiadau, atafaelu dros £4m mewn arian parod a symiau sylweddol o gyffuriau, a diogelu dros 4,000 o bobl agored i niwed. Mewn llawer o achosion, ceir gorgyffwrdd rhwng y troseddwyr cyfundrefnol difrifol sy'n gorelwa ar ddioddefaint pobl drwy hwyluso mewnfudo anghyfreithlon, a'r rhai sy'n gyfrifol am weithgarwch anghyfreithlon

arall gan amrywio o fasnachu cyffuriau ac arfau tanio i droseddau treisgar difrifol. Bydd Llywodraeth y DU yn mynd i'r afael â'r her hon am y tro cyntaf ers dros ddau ddegawd drwy ddiwygio ein system lloches mewn modd cynhwysfawr a rhoi cyfundrefn newydd lem ar waith ar y ffin.[450]

Mae'r Strategaeth Gyffuriau hefyd yn adeiladu ar ddull cyflwyno cydgysylltiedig Prosiect ADDER (Caethiwed (Addiction), Dargyfeirio (Diversion), Tarfu (Disruption), Gorfodi (Enforcement) ac Adferiad (Recovery)) sydd wedi cyflymu ymdrechion i ymdrin â chamddefnyddio cyffuriau, mynd i'r afael â throseddu ac achub bywydau drwy ddull gweithredu amlasiantaethol, lleol ledled Cymru a Lloegr. Mae prosiect ADDER wedi cael ei estyn tan ddiwedd mis Mawrth 2025, sy'n golygu bod dros £100m wedi cael ei fuddsoddi mewn 13 o ardaloedd, gan gynnwys Blackpool, Newcastle a Norwich.

Fel y nodwyd yn ddiweddar yn y Strategaeth Gyffuriau 10 mlynedd, caiff bron hanner yr holl achosion o fwrgleriaeth, lladrad a throseddau caffaelgar eraill yn Lloegr eu cyflawni gan oddeutu 300,000 o ddefnyddwyr heroin a chrac cocên.[451] Mae hyn yn cael effaith anghymesur ar rai rhannau o'r wlad o gymharu â rhai eraill. Bydd Llywodraeth y DU felly'n **gweithio gydag ardaloedd ADDER yn Lloegr**, gan ddarparu cymorth ychwanegol i ymdrin â defnyddwyr cyffuriau yn eu hardal leol mewn ffordd gadarn a chydgysylltiedig er mwyn eu hatal rhag cyflawni troseddau. Mae hyn yn adeiladu ar y buddsoddiad sylweddol o'r Strategaeth Gyffuriau 10 mlynedd, y rhaglen i leihau aildroseddu, gwasanaethau cysgu allan, rheoli integredig troseddwyr a thagio electronig. Drwy fynd hyd yn oed ymhellach yn y meysydd hyn, gall Llywodraeth y DU sicrhau bod gwaith i oruchwylio a chefnogi unigolion yn cael ei dargedu er mwyn lleihau troseddu cymaint â phosibl a gwella diogelwch cymdogaethau sy'n wynebu'r risg fwyaf.

Bydd Llywodraeth y DU yn cefnogi'r meysydd hyn ac yn rhannu gwersi a ddysgwyd er mwyn sicrhau eu bod yn y sefyllfa orau i ddarparu gwasanaethau cydgysylltiedig ym maes caethiwed, llety, a goruchwylio cyfiawnder troseddol, gyda chymhellion a chanlyniadau trwyadl i sicrhau bod unigolion yn ymgysylltu â'r system yn briodol. Bydd atal troseddau mewn cymdogaethau wrth wraidd yr ymdrech hon – yn enwedig i'r garfan a gaiff ei monitro'n agos gan gynlluniau Rheoli Integredig Troseddwyr, sy'n cynnwys pobl sydd wedi cael eu rhyddhau o'r carchar a throseddwyr cyson mewn cymdogaethau sy'n bwrw dedfrydau cymunedol – er mwyn sicrhau camau gweithredu cyflymach, ymyriadau effeithiol ac, yn y pen draw, cymunedau mwy diogel.

### *Dedfrydu*

Gall y polisi dedfrydu cywir sicrhau bod y rhai sy'n peri niwed i eraill yn talu'r pris am eu gweithredoedd. Mae Llywodraeth y DU eisoes wedi gwneud newidiadau i'r fframwaith dedfrydu a rhyddhau a fydd yn golygu y bydd troseddwyr difrifol yn bwrw dedfrydau sy'n adlewyrchu difrifoldeb eu troseddau yn well, ac mae'n creu 20,000 o leoedd mewn carchardai er mwyn cefnogi hyn. Mae Llywodraeth y DU yn benderfynol o fynd i'r afael â'r troseddu cyson sy'n atal buddsoddiad gan fusnesau, yn tanseilio ymdrechion i greu swyddi, ac yn annog ymdeimlad o anrhefn a bod cymdogaethau'n cael eu gadael ar ôl sy'n peri pryder difrifol i bobl leol. Mae hyn yn golygu sicrhau bod gan bobl sy'n gadael y carchar y sylfeini sydd eu hangen arnynt i droi eu cefnau ar droseddu, a'r sicrwydd y bydd methu â gwneud hyn yn arwain at ganlyniadau cyflym.

450 Llywodraeth Ei Mawrhydi. *Cynllun newydd ar gyfer mewnfudo: datganiad polisi.* 2021.
451 Llywodraeth Ei Mawrhydi. *From harm to hope: a ten-year drugs plan to cut crime and save lives*. 2021.

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ddefnyddio dedfrydau cymunedol mwy effeithiol sy'n cosbi troseddwyr ac yn mynd i'r afael ag ysgogwyr sylfaenol troseddu. Mae'n gwneud dedfrydau cymunedol yn fwy llym ac yn sicrhau y cânt eu monitro yn well. Mae'r Strategaeth Rheoli Integredig Troseddwyr wedi cael ei hadnewyddu, gan ddarparu trefniadau goruchwylio dwys gan yr heddlu a'r gwasanaeth prawf i'r rhai sy'n cyflawni troseddau mewn cymdogaethau. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai £183m o gyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu er mwyn ehangu gwasanaethau monitro electronig a fydd bron yn dyblu nifer y bobl a gaiff eu monitro erbyn 2025. Dros y tair blynedd nesaf, bydd yn rhaid i tua 10,000 o ladron a byrgleriaid wisgo tagiau GPS sy'n monitro eu symudiadau ac y gellir eu sgrinio yn erbyn troseddau a gofnodir. Yn ogystal â monitro'r rhai sy'n bwrw dedfrydau cymunedol, cyflwynwyd tagiau monitro alcohol yng Nghymru ym mis Tachwedd 2021. Rhoddir y tagiau hyn i'r rhai sy'n gadael y carchar os sbardunwyd eu troseddu gan alcohol, a chaiff y system ei rhoi ar waith yn Lloegr yn ystod haf 2022.

> **Bydd Llywodraeth y DU yn mynd ymhellach, gan ailrymuso ymdrechion i fynd i'r afael â phob math o ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n cael effaith negyddol ar ansawdd bywyd**

Hefyd, yn ddiweddar cyhoeddodd Llywodraeth y DU hyd at £93m o fuddsoddiad ychwanegol dros y tair blynedd nesaf er mwyn **cynyddu swm y gwaith di-dâl y mae troseddwyr yn ei gyflawni i tua 8m o oriau'r flwyddyn**. Mae hyn oddeutu 1.75m awr yn uwch nag unrhyw adeg ers i gofnodion cymaradwy ddechrau yn 2015-16. Mae hyn yn cynnig cyfle ardderchog i lanhau ein strydoedd, ein hystadau, ein lonydd a'n mannau agored lleol, a sicrhau ffyniant bro yn yr ardaloedd hyn. Ym mis Hydref 2021, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei phartneriaeth genedlaethol gyntaf ag elusen Glandŵr Cymru, lle bydd troseddwyr yn glanhau sbwriel, yn tacluso llwybrau halio ac yn cynnal a chadw mannau hardd ar hyd 2,000 o filltiroedd o ddyfrffyrdd.

Mae cymunedau lleol yng Nghymru a Lloegr eisoes yn elwa ar leoliadau gwaith di-dâl. Er enghraifft, mewn prosiect diweddar yn ne Swydd Efrog, cyflawnodd troseddwyr 2,500 o oriau o waith di-dâl er mwyn trawsnewid adeilad segur yn ganolfan gymunedol ar gyfer pobl ifanc sydd dan anfantais. Mae Llywodraeth y DU eisoes yn annog awdurdodau lleol i fanteisio mwy ar leoliadau gwaith di-dâl er mwyn gwella'r ardal leol. Mae Llywodraeth y DU yn annog cyfranogiad lleol drwy nodi prosiectau buddiol ar ffurflen enwebu ar-lein, tra bydd dyletswydd ymgynghori statudol newydd a gaiff ei chyflwyno drwy Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a’r Llysoedd yn cadarnhau ac yn ffurfioli rôl y gymuned wrth dynnu sylw at ardaloedd lleol lle gellid cael budd o waith di-dâl. Ond bydd Llywodraeth y DU yn mynd ymhellach eto. Rhaid i'r rhai sy'n torri'r rheolau wneud iawn am y difrod a achoswyd ganddynt.

Mae Llywodraeth y DU yn cydnabod bod gormod o gymunedau yn dioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddoldeb, a gyflawnir gan blant weithiau. Mae'n iawn bod plant yn gwneud iawn am y difrod a achoswyd ganddynt, ac yn cywiro eu camgymeriadau drwy roi yn ôl i'r cymunedau a'r cymdogaethau a niweidiwyd ganddynt. Dyna pam y bydd Llywodraeth y DU yn gweithio gyda phartneriaid ym mhob rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid er mwyn cynyddu'r defnydd o waith di-dâl gan bobl 16 ac 17 oed fel rhan o Orchmynion Adsefydlu Ieuenctid a phwerau presennol eraill.

*Adfer trefn, mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a gwella ansawdd bywyd*

Bydd Llywodraeth y DU hefyd yn mynd ymhellach, gan adeiladu ar y Cynllun Gorchfygu Troseddu, a'n diwygiadau i'r Rhaglen Gwneud Iawn â'r Gymuned er mwyn sicrhau yr eir i'r afael â phroblemau ansawdd bywyd ac y caiff trefn ei

hadfer. Mae hyn yn golygu ailrymuso ymdrechion i fynd i'r afael â phob math o ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n cael effaith negyddol ar ansawdd bywyd.

Cwynion am sŵn sydd fwyaf cyffredin ymhlith yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn economaidd, ac mae'r rhai sydd mewn degraddau mwy difreintiedig gymaint â theirgwaith yn fwy tebygol o ddioddef diflastod sŵn na'r rhai mewn degraddau llai difreintiedig.[452] Mae'r effaith yn sylweddol, ac mae'n golygu y gall plant gael trafferth cael noson dda o gwsg a gall ychwanegu mwy o straen at fywydau pobl sy'n gweithio'n galed.

Felly, bydd Llywodraeth y DU yn sicrhau bod gan yr heddlu yng Nghymru a Lloegr yr un pwerau i ymdrin â chwynion am sŵn â'r rhai sydd eisoes ar gael yn yr Alban. Bydd awdurdodau lleol yn cadw'r cyfrifoldeb statudol am ymdrin â diflastod sŵn, ond mae hefyd yn hanfodol bod gan swyddogion yr heddlu adnoddau effeithiol i fynd i'r afael â digwyddiadau sy'n gyfystyr â throsedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a all wneud bywyd yn ddigalon i bobl eraill. Bydd y pŵer hwn yn helpu i sicrhau y gellir rhoi diwedd ar weithredoedd y rhai sy'n ceisio bygylu a dychryn eu cymdogion, strydoedd neu stadau tai drwy sŵn. Mae Llywodraeth y DU yn disgwyl i'r heddlu ddefnyddio'r pwerau hyn fel rhan o ymdrechion pendant, ynghyd ag eraill, i sicrhau ffyniant bro a gorchfygu troseddu. Cyflwynir deddfwriaeth pan fydd amser Seneddol yn caniatáu.

Mae Llywodraeth y DU yn cydnabod yr effaith y mae sbwriel, graffiti, a ffenestri sydd wedi torri yn ei chael ar allu pobl i ymfalchïo yn eu hardal leol a'r effaith y maent yn ei chael ar droseddu ac ofn troseddu, a bydd yn cyflwyno cynlluniau ar gyfer ymgyrch lanhau genedlaethol. Fel rhan o hyn, defnyddir y Rhaglen Gwneud Iawn â'r Gymuned i helpu ymdrechion i lanhau cymdogaethau, gan gyflawni gwelliannau gwirioneddol i bobl leol a sicrhau y gwelir cyfiawnder ar yr un pryd.

Yn ogystal, bydd Llywodraeth y DU hefyd yn cyhoeddi cynllun newydd ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol a phroblemau ansawdd bywyd er mwyn sicrhau y gall y bobl sy'n cael eu dychryn a'u bygylu, ac yr effeithir arnynt gan yr ymddygiad hwn, fod yn siŵr bod y llywodraeth ar eu hochr nhw ac yn benderfynol o fynd i'r afael â'r cyflawnwyr yn gyflym ac yn effeithiol.

## 3.5 Grymuso Arweinwyr a Chymunedau Lleol

Bydd cyflawni cenadaethau ffyniant bro Llywodraeth y DU yn dibynnu ar rymuso arweinwyr lleol i ddatblygu atebion lleol i broblemau lleol. Mae gan lawer o leoedd fylchau mawr mewn cyfalaf ffisegol, dynol a chymdeithasol. Ond mae'r union heriau y mae'n rhaid iddynt ymdrin â nhw yn unigryw i'w hardal leol. Mae angen arweinyddiaeth a sefydliadau lleol cryf er mwyn mynd i'r afael â'r problemau lleol hyn yn effeithiol gan ddefnyddio dulliau wedi'u targedu a pharhaus.

Yn Lloegr, er mwyn ysgogi gwelliannau yng nghyfalaf sefydliadol lleoedd, mae Llywodraeth y DU wedi pennu un genhadaeth ganolog iddi hi ei hun mewn perthynas â **datganoli lleol**. Ynghyd â hyn, bydd yn cefnogi arweinyddiaeth ehangach mewn lleoedd ledled y DU drwy bartneriaethau a arweinir gan y sector preifat a chronfeydd twf lleol.

452 Fframwaith Canlyniadau Public Health England. Dangosydd B14a – Cyfradd cwynion am sŵn.

## 3.5.1 Erbyn 2030, bydd pob rhan o Loegr sydd am gael bargen ddatganoli yn ei chael, a bydd y pwerau a roddir ar y lefel uchaf o ddatganoli neu'n agos at hynny; hefyd ceir setliad cyllido hirdymor syml

Mae'r genhadaeth hon yn canolbwyntio ar ehangu a gwella trefniadau datganoli lleol yn Lloegr, a grymuso arweinwyr lleol mewn lleoedd.

### Grymuso arweinwyr lleol

#### *Yr achos dros weithredu*

Ym Mhennod 2, amlinellwyd yr achos dros weithredu a chynlluniau Llywodraeth y DU i gyflawni'r genhadaeth hon. Dim ond os caiff cyfranwyr lleol eu grymuso i ddatblygu atebion sy'n gweithio i'w cymunedau y bydd modd sicrhau ffyniant bro. Mae'n gofyn am arweinyddiaeth gref, prosesau gwneud penderfyniadau effeithiol a'r defnydd o arweinyddiaeth ehangach yn y sector preifat. Caiff bywydau pobl eu llywio gan wead cymdeithasol a ffisegol eu cymunedau. Mae canol trefi a chymunedau wedi wynebu heriau digynsail yn ystod pandemig COVID-19, ac mae cronfeydd a arweinir yn lleol yn galluogi arweinwyr lleol i wneud gwelliannau amlwg mewn cymunedau a meithrin balchder mewn lle, o fewn fframwaith o flaenoriaethau strategol a bennir gan Lywodraeth y DU.

> **"Bydd Llywodraeth y DU yn rhoi mwy o bŵer a rheolaeth yn ôl i bobl Lloegr, drwy estyn, dyfnhau a symleiddio trefniadau datganoli a hybu'r model maerol"**

#### *Y rhaglen bolisi*

Mae'r rhaglen bolisi yn canolbwyntio ar y canlynol:

a. datganoli lleol yn Lloegr;
b. partneriaethau a arweinir gan y sector preifat;
c. cronfeydd twf lleol.

Dim ond i Loegr y mae'r genhadaeth datganoli leol yn berthnasol, ond bydd y rhaglen bolisi ehangach yn cefnogi arweinyddiaeth mewn lleoedd ledled y DU.

#### *Datganoli lleol*

Rhoddir hyn ar waith drwy:

a. Fargeinion Sirol newydd;
b. dyfnhau pwerau Meiri presennol;
c. symleiddio'r dirwedd datganoli lleol gyfredol drwy fframwaith datganoli newydd ar gyfer Lloegr.

Cytunwyd ar y fargen ddatganoli leol gyntaf a oedd yn cynnwys cyflwyno maer metro rhwng Llywodraeth y DU ac Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf yn 2014. Mae wyth dinas-ranbarth ychwanegol yn Lloegr sydd â model maerol erbyn hyn: Dinas-ranbarth Lerpwl, Gorllewin Canolbarth Lloegr, Tees Valley, Gorllewin Lloegr, Swydd Gaergrawnt a Peterborough, De Swydd Efrog, Gogledd Tyne a Gorllewin Swydd Efrog.

Bydd Llywodraeth y DU yn rhoi mwy o bŵer a rheolaeth yn ôl i bobl Lloegr, drwy estyn, dyfnhau a symleiddio trefniadau datganoli a hybu'r model maerol.

Cwmpesir oddeutu 40% o boblogaeth Lloegr gan fargen ddatganoli ar hyn o bryd. Mae **estyn datganoli yn Lloegr** yn golygu:

a. gwahodd Cernyw; Swydd Derby a Derby; Dyfnaint, Plymouth a Torbay; Durham; Hull a Dwyrain Swydd Efrog; Swydd Gaerlŷr; Norfolk; Swydd Nottingham a Nottingham; a Suffolk i ddechrau negodiadau ffurfiol er mwyn cytuno ar Fargeinion Sirol newydd, gyda'r nod o gytuno ar nifer o'r bargeinion hyn erbyn hydref 2022;
b. bwrw ymlaen â negodiadau er mwyn cytuno ar fargen Awdurdod Cyfun Maerol gyda Chaerefrog a gogledd Swydd Efrog a bargen Awdurdod Cyfun Maerol estynedig ar gyfer gogledd-ddwyrain Lloegr;
c. cadarnhau bod ardaloedd eraill, yn enwedig y rhai sydd ag amgylchiadau eithaf tebyg i ogledd Swydd Efrog a Chaerefrog, yn cael y cyfle i ystyried eu diddordeb mewn bargen ddatganoli Awdurdod Cyfun Maerol – er enghraifft, bydd Llywodraeth y DU yn gweithio i sicrhau bargen faerol yn Cumbria ac ardaloedd tebyg.

Mae **dyfnhau datganoli** yn Lloegr yn golygu:

a. bydd Llywodraeth y DU yn cychwyn negodiadau ar unwaith ar fargeinion sy'n torri tir newydd â gorllewin Canolbarth Lloegr a Manceinion Fwyaf, a fydd yn lasbrint i Awdurdodau Cyfun Maerol eraill ei ddilyn;
b. gweithio gydag Awdurdodau Cyfun Maerol, fel rhan o'r bargeinion sy'n torri tir newydd i ddechrau, i ystyried opsiynau i symleiddio'r dirwedd gyllido ar gyfer Awdurdodau Cyfun Maerol;
c. gwahodd Awdurdodau Cyfun Maerol eraill ac Awdurdod Llundain Fwyaf i wneud cais am bwerau pellach ysgubol, drwy'r fframwaith datganoli newydd.

Mae **symleiddio datganoli** yn Lloegr yn golygu:

a. pennu fframwaith datganoli newydd Llywodraeth y DU er mwyn darparu mwy o eglurder ynghylch y cynnig datganoli ledled Lloegr;
b. ceisio deddfu er mwyn creu math newydd o fodel awdurdod cyfun a fydd yn cynnwys awdurdodau lleol haen uwch yn unig (e.e. cyngor sir a'i gynghorau unedol cysylltiedig), gan ddarparu un sefydliad atebol ar gyfer ardal economaidd swyddogaethol neu ardal ddaearyddol sir gyfan; gall cynghorau dosbarth fod yn aelodau anghyfansoddiadol; a, fel y nodir ym Mhennod 2, bydd disgwyl i gynghorau sir weithio'n agos gyda'u cynghorau dosbarth.

> **Mae Llywodraeth y DU eisiau annog partneriaethau a arweinir gan y sector preifat ledled y DU**

### *Partneriaethau a arweinir gan y sector preifat*

Er mwyn helpu i sicrhau ffyniant bro mewn perthynas ag economïau lleol, bydd Llywodraeth y DU yn ymgysylltu ag arweinwyr lleol er mwyn ystyried cymysgedd priodol o ymyriadau sector cyhoeddus i fynd i'r afael â methiannau yn y farchnad, sbarduno buddsoddiad gan y sector preifat a chynyddu cynhyrchiant. Mae Llywodraeth y DU eisiau annog **partneriaethau a arweinir gan y sector preifat** ledled y DU, yn enwedig pan fydd y rhain yn cyd-daro â gweithgarwch busnes presennol neu glystyrau newydd posibl o weithgarwch busnes. Yn ddelfrydol, dylai'r mentrau hyn geisio cydgysylltu camau gweithredu, nid yn unig yn y sector preifat, ond mewn partneriaeth â llywodraeth leol a chanolog, a sefydliadau addysg ac ymchwil lleol. Mae enghreifftiau o'r mentrau hyn yn cynnwys y cynnig sy'n cael ei ddatblygu gan fusnesau lleol ar gyfer ardal Humber; cydweithrediad i feithrin clwstwr technoleg ariannol/seiber yn Belfast; a phartneriaeth sector cyheoddus-preifat a arweinir gan Awdurdod Cyfun Gorllewin Canolbarth Lloegr i wireddu uchelgais gorllewin Canolbarth Lloegr i ddod yn rhanbarth "dinas glyfar"

(gweler blwch 3.17). Bydd Llywodraeth y DU yn gweithio gyda'r sector preifat, gweinyddiaethau datganoledig a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu'r rhain a phartneriaethau eraill ac yn cefnogi twf clystyrau ledled y DU.

## Blwch 3.17 Partneriaethau a arweinir gan y sector preifat

### Humber

Mae gan economi Humber gryn dipyn o botensial. Mae cyhoeddiadau a mentrau diweddar gan y llywodraeth megis Porthladd Rhydd Humber a Sero Net, ynghyd â buddsoddiadau gan y sector preifat, yn darparu'r cyfle a'r sbardun i'r rhanbarth wireddu ei botensial.

Mae Humber yn chwarae rhan allweddol mewn ynni. Drwy ei ddaearyddiaeth naturiol a'r clwstwr sy'n datblygu, bydd Humber yn helpu i sicrhau bod gwynt ar y môr, datgarboneiddio diwydiannol, dal carbon, a thechnolegau eraill yn cynnal diwydiannau allweddol ac yn creu swyddi o safon wrth raddfa am flynyddoedd i ddod.

Er mwyn cyflawni holl botensial economaidd yr aber, mae busnesau mawr sydd â budd yn yr ardal a'r pedwar awdurdod lleol wedi dod ynghyd ac wedi cydnabod yr angen i gryfhau arweinyddiaeth ar flaenoriaethau economaidd ar draws Humber. Bydd **Opportunity Humber** yn fwrdd a arweinir gan y sector preifat, wedi'i gadeirio gan Laxman Narasimhan, Prif Swyddog Gweithredol Reckitt, a fydd yn eistedd ochr yn ochr â threfniadau datganoli lleol yn y dyfodol. Bydd yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol i ddarparu un llais ar gyfer Humber yn genedlaethol, yn fyd-eang ac i mewn i'r llywodraeth, a bydd yn darparu arweinyddiaeth strategol er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu a chyflawni blaenoriaethau economaidd cytûn ar draws Humber, gan gynnwys Clwstwr Sero Net Humber.

Humber yw aber masnachu mwyaf y DU ac mae ganddo'r gallu i gymryd camau breision o ran datgarboneiddio a defnyddio technolegau newydd a chysylltiedig. Mae Llywodraeth y DU yn croesawu'r arweinyddiaeth hon a ddarperir gan y sector preifat ac awdurdodau lleol ac mae'n ymrwymo i ddull trawslywodraethol newydd i ymgysylltu ar flaenoriaethau ar draws Humber drwy sgwrs unigol a arweinir gan Weinidogion fel rhan o'r cynigion terfynol cytûn.

### Belfast

Mae rhanbarth Belfast wedi gweld cyfnod o ddatblygu cyflym mewn arloesedd a chlystyrau busnes dros y degawd diwethaf, gyda seiberddiogelwch yn arbennig bellach yn gryfder rhanbarthol sefydledig. Cafodd CSIT, y Ganolfan Technolegau Gwybodaeth Diogel ym Mhrifysgol Queen's Belfast, ei sefydlu yn 2009 yn ardal harbwr Belfast; ar yr adeg honno roedd yn rhan ôl-ddiwydiannol o'r ddinas nad oedd wedi datblygu'n fawr. Ers hynny, mae clwstwr ffyniannus o fwy na 100 o gwmnïau seiber, yn cyflogi dros 2,300 o bobl, wedi tyfu o amgylch CIST, ac mae 'Ardal Titanic' Belfast wedi dod yn ffocws ecosystem arloesi seiber sydd â statws rhyngwladol.[453] Gogledd Iwerddon yw prif leoliad buddsoddi rhyngwladol cwmnïau seiberddiogelwch yr UD, a phrosiectau mewnfuddsoddi technoleg gwasanaethau ariannol.[454] Mae seiberddiogelwch a thechnolegau digidol cysylltiedig yn alluogwyr allweddol ar gyfer trawsnewid digidol ar draws sawl sector. Mae partneriaethau newydd yn rhychwantu'r sector cyhoeddus a'r sector preifat yn Belfast bellach yn ceisio adeiladu ar gryfderau technoleg y ddinas a'i phrofiadau creu clwstwr er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch sylweddol a hirsefydledig mewn cynhyrchiant yn y rhanbarth: mae cynhyrchiant Belfast 6% islaw lefelau'r DU, ac mae'r bwlch yn cynyddu i bron 20% ar gyfer Gogledd Iwerddon i gyd.[455]

453 Crozier, D., Donaldson, S., Tinnelly, C. *Northern Ireland Cyber Security Sector Snapshot 2021*. CSIT. 2021. Link
454 Northern Irish Connections. *Northern Ireland is the #1 international investment location for US cyber security projects*. 2021.
455 Caiff cynhyrchiant Belfast ei fesur ar sail allbwn fesul swydd a lenwyd, ond ar gyfer Gogledd Iwerddon fe'i mesurir ar sail allbwn fesul awr a weithiwyd. Ffynhonnell: SYG. *Subregional productivity: labour productivity indices by UK ITL2 and ITL3 subregions*. 2021.

Cafodd partneriaeth Innovation City Belfast ei sefydlu'n ffurfiol yn 2021, yn seiliedig ar y ffaith bod chwech o sefydliadau allweddol y ddinas wedi sylweddoli bod angen uchelgais wedi'i rhannu ac arweinyddiaeth leol wedi'i chydgysylltu er mwyn meithrin twf cynhwysol. Yn sgil llofnodi Bargen Dinas-Ranbarth Belfast ym mis Rhagfyr 2021, sy'n darparu £350m ar gyfer prosiectau i ehangu gallu'r rhanbarth ym maes arloesi digidol, mae'r Bartneriaeth bellach yn gweithio i sicrhau bod y buddsoddiadau hyn yn cael cymaint o effaith hirdymor â phosibl, a datblygu Ardal y Titanic ymhellach yn un arloesi amlhaenog.

Mae llawer o gyflogwyr sector preifat mawr y rhanbarth, ar draws sectorau yn cynnwys technoleg ariannol, gweithgynhyrchu uwch, a gwyddorau iechyd a bywyd, bellach yn gweithio ar y cyd ag Innovation City Belfast i agor cam newydd ar ddatblygu tirwedd economaidd rhanbarth Belfast. Yn seiliedig ar ethos "cydweithio i gystadlu", maent yn defnyddio'r ecosystem bresennol i roi hwb i sefydlu Belfast fel canolfan genedlaethol a rhyngwladol ar gyfer sectorau a thechnolegau datblygol, megis RegTech a Digital Twinning, ac yn gweithio i alluogi arloesi mewn sectorau ar draws yr economi ranbarthol.

## Gorllewin Canolbarth Lloegr

Yn 2021 nododd yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon mai gorllewin Canolbarth Lloegr oedd â'r sector technoleg oedd yn tyfu gyflymaf yn y wlad.[456] Mae'r rhanbarth wedi denu cwmnïau â thechnoleg ddigidol arloesol, megis Goldman Sachs ac Advanced, a disgwylir i ddiwydiannau digidol ffyniannus y rhanbarth greu miloedd o swyddi newydd erbyn diwedd 2025. Mae'r rhanbarth wedi denu cwmnïau â thechnoleg ddigidol arloesol, megis Goldman Sachs ac Advanced, a disgwylir i ddiwydiannau digidol ffyniannus y rhanbarth greu miloedd o swyddi newydd erbyn diwedd 2025. Hefyd mae gan orllewin Canolbarth Lloegr un o'r lefelau uchaf o signal 5G yn y DU o ganlyniad i lwyddiant y rhaglen brofi WM5G. Fodd bynnag, hi hefyd sydd âr gyfran isaf o fentrau newydd yn y sector digidol, sef 4.8%, ac mae'n wynebu heriau sylweddol o ran sgiliau digidol, sy'n awgrymu bod angen gwneud mwy i feithrin y genhedlaeth nesaf o gwmnïau technoleg newydd, gan adeiladu ar gyfleoedd arloesi a sicrhau bod cyfleoedd digidol teg ar gael i bawb.[457]

Bydd Rhaglen Dinas-Ranbarth Glyfar Gorllewin Canolbarth Lloegr yn cynyddu nifer y cyfleoedd digidol ledled y rhanbarth ym meysydd technoleg iechyd, symudedd y dyfodol ac ynni clyfar. Bydd yn llywio cwmnïau digidol newydd sbon drwy gymorth busnes ymarferol a chyflenwad o gyfalaf menter cleifion er mwyn denu arloeswyr byd-eang. A bydd yn cyflwyno rhaglenni dal i fyny digidol fel bod pawb yn y rhanbarth yn gallu meithrin y sgiliau a'r hyder i achub ar y cyfleoedd a gynigir gan hyn.

Caiff y rhaglen ei rheoli drwy gyfrwng at ddibenion arbennig a fydd yn dwyn ynghyd y sector cyhoeddus, amrywiaeth o gyfranogwyr o'r sector preifat – o gwmnïau newydd sbon i brif fuddsoddwyr sefydliadol – a phrif sefydliadau ymchwil y rhanbarth, i gyd o dan arweinyddiaeth maer metro'r rhanbarth. Bydd y cyfrwng at ddibenion arbennig yn cysoni buddsoddiadau cyhoeddus a phreifat, gan gynnwys lle y bo'n briodol unrhyw gymorth gan y buddsoddiad Cyflymu Arloesi a gyhoeddir yn y Papur Gwyn hwn ar gyfer prosiectau ymchwil a datblygu lleol, a bydd hefyd yn sicrhau bod cyfleoedd i gynyddu yn sicrhau buddiannau ehangach i'r cyhoedd, megis lleihau tagfeydd a llygredd, torri biliau ynni, a gwella mynediad at wasanaethau iechyd a gofal.

Mae Llywodraeth y DU yn croesawu'r dull partneriaeth arloesol sydd ar waith yng ngorllewin Canolbarth Lloegr a bydd yn darparu'r cymorth ysgogi ariannol angenrheidiol ar gyfer y cynnig fel rhan o'r broses bargen datganoli ddyfnach.

456 Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. *West Midlands on track to create an extra 52,000 digital tech jobs and grow by £2.7 billion*. 2021.

457 Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. *Assessing the UK's Regional Digital Ecosystems*. 2021.

> **Mae'r Gronfa Ffyniant Bro yn cyflawni blaenoriaethau lleol sy'n cael effaith weladwy ar bobl a chymunedau ledled y DU, gan gynnwys Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon**

### *Cronfeydd twf lleol*

Ym Mhennod 2 eglurwyd sut y bydd Llywodraeth y DU yn symleiddio'r dirwedd twf lleol dros amser. Er y gellir gwneud gwelliannau pellach, mae tair cronfa sy'n ategu ei gilydd ac ar gael i arweinwyr lleol:

a. y Gronfa Ffyniant Bro;
b. y Gronfa Trefi;
c. Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

Mae'r **Gronfa Ffyniant Bro** yn cyflawni blaenoriaethau lleol sy'n cael effaith weladwy ar bobl a chymunedau ledled y DU, gan gynnwys Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon (gweler Blwch 3.18). Mae'r gronfa yn buddsoddi mewn **seilwaith cyfalaf** sy'n gwella bywyd pob dydd ac yn cael effaith ymarferol ar fannau lleol. Ar gyfer rownd un, buddsoddodd y gronfa mewn prosiectau ar draws tair thema: adfywio canol trefi a'r stryd fawr, uwchraddio trafnidiaeth leol a buddsoddi mewn asedau diwylliannol a threftadaeth.

Mae cyllid yn targedu lleoedd â'r angen mwyaf, fel y'i mesurir gan y mynegai lleoedd â blaenoriaeth,[458] sy'n ystyried angen lleoedd i adfer a thyfu'n economaidd, ac adfywio a gwella trafnidiaeth, yn unol ag amcanion y gronfa.

Bydd y Gronfa yn dyrannu £4.8bn dros y cyfnod hyd at 2024-25. Caiff o leiaf £800m ei neilltuo ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Cyhoeddodd Cyllideb hydref 2021 £1.7bn o brosiectau, a gall cymunedau ledled y DU ddisgwyl gweld prosiectau ar waith o ddechrau 2022 (Gweler Blwch 3.18). Mae'r rhain yn cynnwys marchnadle newydd yng Nghanol Dinas Aberdeen; uwchraddio'r gwasanaeth fferi i Ynysoedd Sili; adfer rhan o Gamlas Trefaldwyn yng ngogledd Powys; gwella'r rhwydwaith gwefru cerbydau trydan ledled Gogledd Iwerddon; a thrawsnewid pum hectar o dir llwyd yn Stiwdios Ffilmiau Rhyngwladol yn Ashford. Caiff manylion rowndiau o'r gronfa yn y dyfodol eu rhannu'n fuan.



458 Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau. *Levelling Up Fund: prioritisation of places methodology note*. 2021.

## Blwch 3.18 Canolfan Gelf y Miwni

Mae Canolfan Gelf y Miwni wedi bod yn ffocws gwerthfawr a phwysig i'r celfyddydau a diwylliant ym Mhontypridd ers bron deugain mlynedd. Mae mewn adeilad rhestredig Gradd II sydd ag arwyddocâd pensaernïol a hanesyddol, ac mae'n adeilad nodedig yng nghanol Ardal Gadwraeth Canol Tref Pontypridd. Nid oedd y gwaith adfer blaenorol a wnaed o ansawdd uchel a chaeodd yr adeilad yn y pen draw ym mis Rhagfyr 2018.

Bydd y buddsoddiad o £5.4m gan y Gronfa yn gweddnewid yr adeilad, a fydd yn adlewyrchu gwerth ac arwyddocad celfyddydau a diwylliant Pontypridd, ac yn diogelu'r Ganolfan at y dyfodol wrth iddi allu ymateb i gyfleoedd diwylliannol a thechnolegol newidiol. Wedi'i lywio gan farn rhanddeiliaid a'r gymuned leol, bydd y prosiect yn darparu lleoliad diwylliannol o'r radd flaenaf i gerddoriaeth, sinema a'r theatr; bydd yno far ac ardal gymdeithasol newydd a fydd yn cefnogi'r economi hamdden a liw nos; a chaiff cyfleusterau newydd a hyblyg eu creu i wneud y defnydd mwyaf o'r adeilad, gan alluogi ystod eang o weithgareddau celfyddydol, diwylliannol a chymunedol, a digwyddiadau.

Mae'r prosiect yn rhan o gynlluniau adfywio uchelgeisiol ar gyfer canol y dref a chysylltiadau trafnidiaeth rhanbarthol ehangach, sy'n anelu at gyflawni cryn fuddsoddiad a thwf, nid yn unig i Bontypridd, ond i'r ardal ehangach.



## Ffigur 3.6 Derbynwyr y Gronfa Ffyniant Bro a'r Gronfa Trefi, awdurdodau lleol yn y DU


Mae'r dotiau ar y map yn dangos a gyhoeddwyd dyfarniadau o'r cronfeydd canlynol gan Awdurdod Lleol: y Gronfa Adfywio Cymunedol, y Gronfa Perchenogaeth Gymunedol, Cyllid Stryd Fawr y Dyfodol, y Gronfa Ffyniant Bro a Bargeinion Dinesig a Thwf.

***Mae gan yr Awdurdod Lleol o leiaf un cynnig llwyddiannus o dan y Gronfa***

***Nid oes gan yr Awdurdod Lleol gynnig llwyddiannus o dan y Gronfa ond mae ganddo o leiaf un prosiect a ddyfarnwyd o dan y cronfeydd eraill a enwir***

*Sylwer na chaiff cynigion y Gronfa Adfywio Cymunedol eu mapio ar lefel Awdurdod Lleol yng Ngogledd Iwerddon gan fod llawer o gynigion llwyddiannus yn cael eu cyflawni ledled Gogledd Iwerddon i gyd ac ni wnaed cynigion ar Lefel Awdurdod Lleol.*

*Mae'r blychau testun yn cynnwys un enghraifft o brosiect Cronfa Ffyniant Bro ym mhob rhanbarth.*



**Yr Alban**
***Prosiect Cronfa Ffyniant Bro – Ardal Arloesi Gweithgynhyrchu Uwch yn ne'r Alban:*** £38.7m i wella cysylltiadau trafnidiaeth; gwella cyfleoedd gwaith, a chefnogi'r gwaith o adfywio canol tref ac ardaloedd busnes Paisley.

**Gogledd-ddwyrain Lloegr**
***Prosiect Cronfa Ffyniant Bro – Bishop Auckland:*** £20m i wella cysylltedd trafnidiaeth rhwng cymunedau gwledig yn County Durham, gan gynnwys ailagor pont grog ffordd hynaf y DU a chreu llwybr cerdded a beicio newydd.

**Gogledd-orllewin Lloegr**
***Prosiect Cronfa Ffyniant Bro – Coleg Gwyddorau Meddygol Bolton:*** £20m i ddatblygu cyfleuster galwedigaethol, sgiliau proffesiynol a hyfforddiant o'r radd flaenaf.

**Swydd Efrog a Humber**
***Prosiect Cronfa Ffyniant Bro – Porth i Sheffield:*** £20m ar gyfer seilwaith newydd a fydd yn ailddatblygu porth craidd i ganol y ddinas, drwy wella'r amgylchedd naturiol, datblygu'r agenda Carbon Sero Net, darparu cyfleoedd addysg a hyfforddiant, yn ogystal ag oriel gelf a pharc cerfluniau.

**Gogledd Iwerddon**
***Prosiect Cronfa Ffyniant Bro – Canolfan Chwaraeon Daisy Field:*** £4.2m i ddatblygu safle nas defnyddir ddigon yn ganolfan chwaraeon cymunedol newydd â chae chwarae wedi'i uwchraddio ac Ardal Gemau Amlddefnydd lifoleuedig.
*Sylwer bod un cynnig Cronfa Ffyniant Bro ar gyfer Gogledd Iwerddon i gyd ac felly ni ellir ei gynnwys ar y map.*

**Dwyrain Canolbarth Lloegr**
***Prosiect Cronfa Ffyniant Bro – Parc Arloesi Caerlŷr:*** £19.4m i lywio cyfleoedd economaidd yng Nghaerlŷr drwy ehangu'r sector gofod a thechnoleg lloeren yn y ddinas.

**Gorllewin Canolbarth Lloegr**
***Prosiect Cronfa Ffyniant Bro – Ardal Ddysgu Ddinesig Wolverhampton:*** £20m i greu amgylchedd dysgu cynaliadwy yng nghanol y ddinas.

**Cymru**
***Prosiect Cronfa Ffyniant Bro – Adfer Camlas Trefaldwyn:*** £15.4m i adfer rhan segur 4 milltir o Gamlas Trefaldwyn o Lanymynech i Ardd-lin.

**Dwyrain Lloegr**
***Prosiect Cronfa Ffyniant – Houghton Regis:*** £19.9m i greu Canolfan Llesiant Cymunedol, gyda chyfleusterau hamdden dan do ac yn yr awyr agored, gofal cymdeithasol i oedolion a chyfleusterau cymunedol; gan ddarparu amwynderau ar gyfer 7,000 o gartrefi newydd.

**De-orllewin Lloegr**
***Prosiect Cronfa Ffyniant Bro – Canol Dinas Caerloyw:*** £20m i adfywio adeiladau gwag yng nghanol y ddinas yn ddatblygiad defnydd cymysg.

**De-ddwyrain Lloegr a Llundain**
***Prosiect Cronfa Ffyniant Bro – Margate Digital:*** £6.3m i greu ardal hyfforddi o'r radd flaenaf sy'n berthnasol i ddiwydiant yn Margate er mwyn creu llwybrau datblygu sgiliau a gwaith i drigolion.

Nod y **Gronfa Trefi** £3.6bn yw datgloi potensial economaidd trefi a strydoedd mawr yn Lloegr. Mae trefi wedi cael eu hannog i wneud ymyriadau sy'n cyfrannu at nod cyffredinol y DU o gyrraedd Sero Net erbyn 2050, gan ddangos yn ymarferol sut y gall sicrhau ffyniant bro a Net Sero fynd law yn llaw. Gwneir hyn mewn dwy ffordd.

- **Bargeinion Trefi**, sy'n anelu at adfywio trefi a sicrhau twf economaidd a chynhyrchiant hirdymor drwy fuddsoddiadau mewn gwaith adfywio trefol, cynllunio a defnyddio tir, sgiliau, treftadaeth a seilwaith menter. Buddsoddir hyd at £25m, a mwy mewn achosion eithriadol, ym mhob tref. Mae bargen wedi'i chyhoeddi ym mhob un o'r 101 o drefi dan sylw, gwerth £2.3bn.
- **Cronfa Stryd Fawr y Dyfodol**, sy'n anelu at adnewyddu ac ailwampio canol trefi a'r stryd fawr yn Lloegr mewn ffordd sy'n llywio twf ac yn sicrhau cynaliadwyedd yn y dyfodol. Bydd cyfanswm o 72 o leoedd yn rhannu dros £830m o'r Gronfa hon. Ategir y gronfa gan gronfa benthyciadau bach ar gyfer Ardaloedd Gwella Busnes a gweithredu'r Cod Ymarfer Parcio i reoleiddio'r diwydiant parcio preifat.

Bydd **Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU** yn cynyddu cyfleoedd mewn bywyd ac yn datblygu balchder mewn lle ledled y DU, drwy rymuso lleoedd i fuddsoddi mewn blaenoriaethau lleol ar draws tri maes â blaenoriaeth: cymunedau a lleoedd, pobl a sgiliau, a busnesau lleol. Bydd hyn yn arwain at welliannau sylweddol, gweladwy ac ymarferol i leoedd lle mae pobl yn byw ac yn gweithio, gan gefnogi canol trefi, y stryd fawr, asedau diwylliannol a mannau gwyrdd sydd wedi dirywio dros amser. Bydd y gronfa newydd hon yn rhoi rhagor o resymau i gymunedau ar hyd a lled y DU ymfalchïo yn eu milltir sgwâr.

Bydd y Gronfa hon yn cefnogi ymrwymiad ehangach Llywodraeth y DU i sicrhau ffyniant bro ledled y DU, a bydd yn gyson â'r cenadaethau a nodir ym Mhennod 2.

- **Cryfhau gwead cymdeithasol cymunedau, datblygu balchder mewn lle a chreu'r sylfeini ar gyfer twf economaidd ar lefel cymdogaeth.** Gallai hyn gynnwys prosiectau a arweinir gan y gymuned sydd â buddiannau clir i'r gymuned megis grwpiau cymorth lleol a chwaraeon yn y gymuned; gwneud y stryd fawr yn lân, yn ddiogel ac yn ffyniannus; a chefnogi prosiectau i adnewyddu seilwaith cymunedol a gwella mynediad i fannau gwyrdd a chryfhau cysylltiadau cymdeithasol, ffisegol a diwylliannol.
- **Ysgogi economïau lleol a chreu swyddi**, drwy helpu busnesau lleol i gychwyn arni, arloesi, allforio a thyfu. Gallai hyn gynnwys amrywiaeth o weithgareddau, o fuddsoddi mewn creu parth cerddwyr a marchnadoedd awyr agored newydd i gynyddu nifer yr ymwelwyr â'r stryd fawr; i gefnogi rhwydweithiau busnes a rhaglenni i fabwysiadu technolegau effeithlonrwydd ynni neu garbon isel; i gefnogi'r economi ymwelwyr leol.
- **Sicrhau bod gan gannoedd ar filoedd yn fwy o oedolion y sgiliau a'r cymorth cyflogaeth sydd eu hangen arnynt i gamu ymlaen mewn bywyd, gan gynnwys y rhai sydd fwyaf amddifad ac ymhellach i ffwrdd o'r farchnad lafur.** Lluosi, y rhaglen llythrennedd oedolion £560m, fydd y flaenoriaeth gyntaf, gan gynnig cymorth lleol i bobl feithrin neu wella eu sgiliau rhifedd.

> “Bydd Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn cynyddu cyfleoedd mewn bywyd ac yn datblygu balchder mewn lle ledled y DU”

Bydd y gronfa yn werth mwy na £2.6bn dros gyfnod Adolygiad o Wariant 2021, gyda'r cyllid yn cynyddu i £1.5bn y flwyddyn erbyn 2024-25. Ynghyd ag ymrwymiadau i gefnogi cronfeydd cyllid rhanbarthol drwy Fanc Busnes Prydain, mae hyn yn rhagori ar ymrwymiad Llywodraeth y DU i baru derbyniadau Cronfeydd Strwythurol yr UE ym mhob gwlad yn y DU ac yng Nghernyw ac Ynysoedd Sili, wrth ostwng y lefelau o fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â chronfeydd yr UE a thargedu'n well flaenoriaethau lleoedd yn y DU. Bydd Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn darparu cymysgedd o gyllid refeniw a chyfalaf i leoedd fuddsoddi mewn prosiectau blaenoriaethol lleol.

Gan gydnabod yr heriau difrifol y mae canol trefi a chymunedau wedi eu hwynebu yn ystod COVID-19, bydd y gronfa hon yn galluogi gwelliannau i'r lleoedd lle mae pobl yn byw ac yn gweithio. Bydd hefyd yn cefnogi unigolion a busnesau i wneud gwelliannau amlwg sydd o bwys i gymunedau lleol. Bydd y gronfa yn blaenoriaethu ymyriadau i gryfhau balchder mewn lle yn 2022-23 a 2023-24, ynghyd â'r rhaglen Lluosi. O 2024-25, rhoddir rhagor o bwyslais ar fuddsoddi i gefnogi cyfleoedd mewn bywyd a sgiliau, gan gynnwys y rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur. Yn Lloegr, bydd dull hyblyg yn y ddwy flynedd gyntaf yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu parhau i gyllido darpariaeth sgiliau a phobl, a ddarperir gan sefydliadau gwirfoddol, a fyddai fel arall mewn perygl am fod cronfeydd yr UE wedi dirwyn i ben. Bydd Llywodraeth y DU yn gweithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig a phartneriaid lleol i bennu'r cymysgedd mwyaf priodol o flaenoriaethau buddsoddi yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon gan adlewyrchu'r ffaith bod cronfeydd yr UE wedi dirwyn i ben yn gynharach.

**"Gwneir penderfyniadau gan arweinwyr a etholwyd yn lleol sy'n agos i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu"**

**Gwneir penderfyniadau gan arweinwyr a etholwyd yn lleol sy'n agos i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu**, er mwyn sicrhau bod cyllid yn cael ei wario ar y pethau sydd o bwys i bobl. Rhoddir cymorth i'r ardaloedd hynny sydd mewn llai o sefyllfa i wneud hyn. Mae i hyn y goblygiadau canlynol.

- Dylai sefydliadau sydd â systemau llywodraethu cryf ac atebol eisoes gael cyfrifoldeb llawn am gynllunio a rheoli buddsoddi'r gronfa o'r cychwyn cyntaf.
- Yn Lloegr, mae hyn yn golygu y dyrennir cyllid i Awdurdodau Cyfun Maerol lle maent yn bodoli, ac Awdurdod Llundain Fwyaf, a chaiff ei fuddsoddi ganddynt. Mewn mannau eraill, caiff y mwyafrif o'r cyllid ei ddyrannu i awdurdodau lleol haen is, a'i fuddsoddi ganddynt. Caiff awdurdodau arweiniol eu hannog yn gryf i weithio gyda dosbarthau, awdurdodau sirol neu awdurdodau unedol eraill er mwyn cytuno ar sgiliau a gweithgarwch cyflogaeth a chomisiynu hynny. Rhennir rhagor o fanylion am y dull o gyflwyno Lluosi a dyrannu ohoni maes o law.
- Yn unol â'r genhadaeth ddatganoli leol, wrth i leoedd ymgysylltu â Llywodraeth y DU ac ystyried trefniadau datganoli newydd, adolygir trefniadau cyflwyno lleol y gronfa.
- Gall ardaloedd lleol ddod ynghyd i gyflwyno'r Gronfa mewn mannau lle ceir hanes o gydweithio rhwng awdurdodau lleol eisoes. Yng Nghymru a'r Alban, gallai hyn gynnwys ardaloedd a gwmpesir gan Fargeinion Dinesig a Thwf. Lle mae Bargeinion Dinesig a Thwf presennol ond yn cwmpasu awdurdodau unigol, bydd Llywodraeth y DU yn annog ac yn cefnogi'r awdurdodau hyn i gydweithio â chymdogion lle mae awydd i wneud hynny.

- Yng Ngogledd Iwerddon, gan gydnabod y dirwedd llywodraeth leol wahanol, bydd Llywodraeth y DU yn rheoli'r buddsoddi mewn cydweithio â Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, awdurdodau lleol a phartneriaid lleol.
- Bydd pob ardal yn cael dyraniad amodol sy'n diwallu anghenion. Bydd y gronfa ganlyniadol yn gweithredu fel elfen llinell sylfaen ragweladwy o gyllid twf lleol, gyda phob daearyddiaeth yn cael rhywbeth, sy'n targedu lleoedd mewn angen megis hen ardaloedd diwydiannol, trefi difreintiedig a chymunedau gwledig ac arfordirol. Bydd y gronfa yn ategu gwaith ehangach i symleiddio'r dirwedd cyllid twf leol.

Gofynnir i arweinwyr lleol weithio gydag ystod eang o randdeiliaid lleol er mwyn gwella canlyniadau yn eu hardaloedd, gan ddefnyddio gwybodaeth ac arbenigedd lleol i asesu anghenion lleol a datblygu'r datrysiadau cywir. Mae hyn yn cynnwys sefydliadau cymdeithas sifil, busnesau a chyrff cyflogwyr sy'n gyfrifol am nodi cynlluniau sgiliau lleol.

Mae manylion technegol pellach, gan gynnwys blaenoriaethau buddsoddi enghreifftiol, wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r Papur Gwyn hwn. Mae hyn yn adlewyrchu adborth ystod eang o awdurdodau lleol a rhanddeiliaid ehangach ledled y DU, ac ymgysylltu â nhw.


Slinders
Florist
01634
846244

# Pennod 4
# Y Camau Nesaf

## 4.1 Cyflwyniad

Yn y penodau blaenorol, nodwyd y sylfaen dystiolaeth ar gyfer anghyfartaleddau gofodol y DU, cyfundrefn bolisi newydd ac ymyriadau polisi penodol a fydd yn lledaenu cyfleoedd yn fwy cyfartal ledled y DU. Maent yn pennu'r fframwaith cyffredinol ar gyfer rhoi rhaglen newid hirdymor ar waith. Bydd y rhaglen hon o newid yn ymgorffori ffyniant bro ym mhob rhan o lywodraeth y DU, llywodraeth leol a llywodraeth genedlaethol, gan weithio mewn partneriaeth gyda'r sector preifat a chymdeithas sifil.

Mae'r bennod hon yn edrych ymlaen at y camau nesaf y bydd Llywodraeth y DU yn eu cymryd i ddatblygu'r rhaglen newid hon a'i rhoi ar waith. Mae hyn yn cynnwys proses ymgysylltu gynhwysfawr ledled y DU mewn perthynas â'r cynigion yn y Papur Gwyn hwn a deddfwriaeth newydd i roi elfennau allweddol o'r rhaglen hon mewn statud.

## 4.2 Ymgysylltu, ac Ymgynghori Anffurfiol

Mae ffyniant bro yn brosiect cydweithredol. Bydd llwyddo i leihau anghyfartaleddau gofodol ledled y DU yn dibynnu ar fewnbwn, cefnogaeth a phartneriaeth ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys arweinwyr lleol, y gweinyddiaethau datganoledig, busnesau, cymdeithas sifil, academyddion a melinau trafod. Bydd angen i lawer o'r polisïau sy'n rhan o'r rhaglen newid gael eu cynllunio a'u cyflwyno ar y cyd.

> **Mae ffyniant bro yn brosiect cydweithredol**

I'r perwyl hwnnw, bydd Llywodraeth y DU yn rhoi proses ymgysylltu ac ymgynghori anffurfiol gynhwysfawr ar waith i lywio'r gwaith o sicrhau ffyniant bro a llunio polisïau yn y dyfodol, ac osgoi'r dulliau gweithredu byrdymor, ar wahân ac ar raddfa fach sydd wedi llesteirio ymdrechion i fynd i'r afael ag anghyfartaleddau gofodol yn y gorffennol. Mae rhai o elfennau allweddol y broses hon yn cynnwys:

a. proses strwythuredig o ymweliadau, ar lefel weinidogol, ledled y DU gyfan yn ystod y misoedd ar ôl cyhoeddi'r Papur Gwyn hwn, i drafod sut y gellir sicrhau ffyniant bro yn llwyddiannus yn yr ardal honno a chasglu adborth;
b. ymrwymiad parhaus, hirdymor i gynnal ymweliadau gweinidogol pellach ledled y DU gyfan, er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y rhaglen bolisi a chenadaethau;
c. sefydlu paneli lleol, a gaiff eu ffurfio o ystod eang o randdeiliaid, i wasanaethu fel seinfwrdd ar gyflwyno ffyniant bro a'i roi ar waith, gan weithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwyr Ffyniant Bro newydd unwaith iddynt gael eu penodi;
d. adroddiadau blynyddol yn crynhoi'r negeseuon allweddol gan y paneli lleol hyn, a fydd yn bwydo i mewn i Bwyllgor Cabinet Llywodraeth y DU dros Ffyniant Bro; ac

e. lle ar-lein er mwyn rhannu a chydlynu syniadau, cynigion a mentrau lleol mewn perthynas â ffyniant bro, lledaenu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r hyn sydd wedi gweithio'n lleol a meithrin amgylchedd ar gyfer arloesi ac arbrofi.

Bydd Llywodraeth y DU yn gweithio'n agos gyda'r gweinyddiaethau datganoledig, sydd â'r dulliau i ysgogi newid mewn meysydd datganoledig megis iechyd ac addysg, a phartneriaid lleol i ddod o hyd i'r ffordd orau o liniaru anghyfartaleddau gofodol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd hyn yn sicrhau, ledled y DU, fod plant yn cyrraedd y safonau disgwyliedig mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg; bod nifer y bobl sy'n cwblhau hyfforddiant sgiliau o ansawdd uchel yn cynyddu; a bod y bylchau mewn disgwyliad oes yn cau. Gan adeiladu ar lwyddiant diweddar yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol, bydd Llywodraeth y DU yn ystyried y fforymau gorau ar gyfer hyn, gan gynnwys drwy wneud y canlynol:

> **“Bydd cyflawni cenadaethau uchelgeisiol a dyheadol yn gofyn am arloesedd a newid ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a chymdeithas sifil”**

a. cynnal cyfarfod gweinidogol penodol rhwng Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn ystod y mis ar ôl cyhoeddi;
b. sefydlu bwrdd â therfyn amser i ddatblygu ffordd o weithio ar y cyd i fynd i'r afael ag anghyfartaleddau daearyddol, gan arwain at gynllun cyflawni ar y cyd;
c. gweithio i ddwyn tystiolaeth ynghyd am “yr hyn sy'n gweithio” mewn perthynas â pholisïau er mwyn lleihau anghyfartaleddau gofodol ledled y DU; a
d. uwchgynadleddau a gadeirir ar y cyd ar flaenoriaethau a rennir sy'n tanategu pob un o'r cenadaethau.

Bydd Llywodraeth y DU hefyd yn ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid ar amrywiaeth eang o faterion, gan gynnwys y canlynol.

- **Gosod a chyflawni cenadaethau a metrigau**: Bydd cyflawni cenadaethau uchelgeisiol a dyheadol yn gofyn am arloesedd a newid ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a chymdeithas sifil. Bydd Llywodraeth y DU yn gweithio gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), y llywodraethau datganoledig a llywodraeth leol, a rhanddeiliaid ac arbenigwyr allanol eraill, er mwyn profi'r cenadaethau, cynllunio metrigau a data addas a chytuno arnynt er mwyn olrhain perfformiad yn eu herbyn. I Lywodraeth y DU, bydd yn ymdrech drawsadrannol lle bydd gan weinidogion gyfrifoldebau sylweddol i gydweithio ar draws eu portffolios polisi a bydd gofyn i Gyfarwyddwyr Ffyniant Bro weithio ar bob lefel o'r llywodraeth. Bydd Llywodraeth y DU yn ymgysylltu â phartneriaid, rhanddeiliaid ac arbenigwyr er mwyn llywio'r cenadaethau ymhellach, a bydd yn cyhoeddi diweddariadau o bryd i'w gilydd, fel y bo'n briodol, gan sicrhau bod y cenadaethau a'r ffordd y cânt eu cyflawni yn seiliedig ar yr hyn sydd ei angen ar leoedd. Bydd hyn hefyd yn cynnwys cydweithio'n agos â'r gweinyddiaethau datganoledig, yn enwedig pan fo cenadaethau yn croestorri â meysydd polisi datganoledig megis iechyd ac addysg.

- **Fframwaith datganoli yn Lloegr**: Bydd Llywodraeth y DU yn parhau i weithio gyda llywodraeth leol yn Lloegr i lunio cytundebau datganoli, rhoi awdurdodau cyfun maerol pellach ar waith a chreu Bargeinion Sirol newydd. Amlinellwyd fframwaith ym Mhennod 2 i symleiddio'r broses ddatganoli. Bydd Llywodraeth y DU yn ymgysylltu â chyfranwyr lleol wrth i'r fframwaith ddatblygu drwy'r broses o negodi cytundebau datganoli newydd a'u rhoi ar waith.

- **Corff newydd yn canolbwyntio ar ddata llywodraeth leol**: Bydd Llywodraeth y DU yn gweithio gydag arweinwyr lleol, dinasyddion ac arbenigwyr yn y sector i sefydlu corff a fydd yn canolbwyntio ar ddata lleol, tryloywder a chanlyniadau. Cryfhau data lleol fydd conglfaen y corff hwn, i rymuso dinasyddion â gwybodaeth well am eu lle a chefnogi awdurdodau lleol i ddysgu oddi wrth ei gilydd a chanolbwyntio mwy ar ddefnyddwyr.
- **Defnyddio dull partneriaeth**: Mae Llywodraeth y DU yn ystyried dull newydd o ymdrin â lleoedd drwy Gyfarwyddwyr Ffyniant Bro. Byddant yn darparu pwynt cyswllt allweddol ar gyfer ardaloedd lleol, gan weithredu fel pont rhwng arweinwyr lleol a'r llywodraeth ganolog. Bydd Llywodraeth y DU yn gweithio gyda phartneriaid lleol i deilwra a datblygu'r model er mwyn sicrhau ei fod yn seiliedig ar yr hyn sydd ei angen ar leoedd.
- **Symleiddio'r cronfeydd**: Bydd Llywodraeth y DU yn ymgysylltu â llywodraeth leol a rhanddeiliaid allweddol er mwyn symleiddio ym maes cronfeydd twf lleol mewn perthynas â chyhoeddi cynlluniau pellach yn ddiweddarach eleni.

Bydd rôl benodol ar gyfer pwyllgorau cynghori arbenigol, a gaiff eu cynnal fel is-grwpiau'r Cyngor Cynghorol ar Ffyniant Bro. Defnyddir y rhain fel fforwm cyfrinachol ar gyfer ymgysylltu rhwng arbenigwyr ar brif themâu trawsbynciol y Papur Gwyn hwn. Mae'n debygol y bydd y themâu a gwmpesir gan yr is-bwyllgorau arbenigol hyn cynnwys:

a. **seilwaith mabwysiadu a lledaenu rhanbarthol –** cynyddu nifer y busnesau sy'n mabwysiadu arferion rheoli a thechnolegau sy'n gwella cynhyrchiant;
b. **rôl cyfalaf y sector preifat** mewn ffyniant bro a strategaethau ar gyfer annog buddsoddiad mwy sefydliadol; ac
c. **cymunedau lleol a seilwaith cymdeithasol –** rôl polisïau a strategaethau cymdogaeth ar gyfer meithrin capasiti cymunedol mewn ardaloedd a gaiff eu gadael ar ôl.

## 4.3 Deddfwriaeth Bellach

Bydd Llywodraeth y DU yn cyflwyno deddfwriaeth yn gynt er mwyn gwneud rhai o elfennau allweddol ffyniant bro yn statudol a sicrhau y caiff y fframwaith newydd hwn ei adeiladu ar sylfeini cryf. Bydd Llywodraeth y DU yn ystyried darpariaethau mewn perthynas â'r canlynol:

a. cyflwyno rhwymedigaeth i Lywodraeth y DU gyhoeddi adroddiad blynyddol ar gyflawni yn erbyn y cenadaethau ffyniant bro; a
b. atgyfnerthu deddfwriaeth datganoli yn Lloegr er mwyn datganoli i ragor o leoedd, dyfnhau bargeinion datganoli a galluogi'r broses ddatganoli i fod yn symlach ac yn fwy tryloyw.

Bydd Llywodraeth y DU hefyd yn diwygio'r system gynllunio fel yr amlinellir ym Mhennod 3. Bydd llawer o'r gwelliannau hyn yn talu ar eu canfed ledled y wlad gyfan, ond bydd diwygiadau penodol yn cefnogi mentrau adfywio mewn lleoedd llai ffyniannus. Bydd Llywodraeth y DU yn ystyried darpariaethau mewn perthynas â phwerau prynu gorfodol a chymorth ar gyfer ailddefnyddio tir llwyd.

Caiff rhagor o fanylion am y diwygiadau hyn eu cyhoeddi maes o law.

**“Bydd y Papur Gwyn hwn yn helpu i sicrhau bod pawb, ble bynnag y maent yn byw, yn cael y cyfle i lwyddo a ffynnu”**

## 4.4 Casgliad

Mae'r Papur Gwyn hwn yn nodi graddfa anghyfartaleddau daearyddol ledled y wlad, a'r hyn sy'n eu hachosi, yn ogystal â rhaglen newid sy'n seiliedig ar genadaethau uchelgeisiol, prosesau penderfynu canolog a lleol gwell drwy wybodaeth, cymhellion a sefydliadau gwell, a dulliau monitro a gwerthuso trwyadl ac annibynnol.

Bydd y rhaglen newid a gaiff ei sbarduno gan y Papur Gwyn hwn yn helpu i sicrhau bod pawb, ble bynnag y maent yn byw, yn cael y cyfle i lwyddo a ffynnu; sicrhau bod busnesau yn gallu buddsoddi, creu swyddi ac ysgogi cynhyrchiant, yn enwedig mewn ardaloedd sydd wedi cael trafferthion yn y gorffennol; grymuso arweinwyr a chymunedau lleol; a galluogi pobl i ymfalchïo yn y lleoedd y maent yn byw ynddynt a chael ansawdd bywyd da.

Mae'r Papur Gwyn hwn yn gam hanfodol o uchelgais Llywodraeth y DU i newid anghyfartaleddau gofodol yn sylweddol, gan sicrhau nad yw daearyddiaeth yn pennu ffawd mwyach a bod pob person a lle yn y DU mewn sefyllfa i elwa ar gyfoeth economaidd, cymdeithasol a diwylliannol sylweddol y wlad.



# Cyflawni dros bob rhan o'r Deyrnas Unedig

# Dwyrain Lloegr

**Mae dwyrain Lloegr eisoes yn elwa ar fuddsoddiadau i hybu safonau byw, lledaenu cyfleoedd, adfer balchder lleol a grymuso arweinwyr lleol.**


Mae buddsoddiad cychwynnol o **£87m** drwy Gylch 1 y Gronfa Ffyniant Bro yn cefnogi pum prosiect yn nwyrain Lloegr. Mae gwelliannau ym maes trafnidiaeth yn cynnwys lleihau tagfeydd a chreu llwybrau cerdded a beicio newydd yng Nghanol Swydd Bedford. Caiff atyniadau ar yr arfordir yn Southend-on-Sea eu diweddaru er mwyn denu twristiaeth a buddsoddiad. Yn Peterborough, caiff "Labordy Byw" newydd a rhyngweithiol ei adeiladu yn y brifysgol newydd sbon a fydd yn creu canolfan drawsnewidiol yn y ddinas. Caiff dros 300 o gartrefi newydd a 2,000 metr sgwâr o fannau cymunedol eu darparu yn Luton, ynghyd â Hwb Llesiant Cymunedol yn Houghton Regis.

Mae'r Gronfa Trefi yn buddsoddi dros **£287m** mewn 12 tref yn nwyrain Lloegr gan gynnwys Norwich, Peterborough a Great Yarmouth. Yn Norwich, caiff mannau gwyrdd newydd a gwell a chysylltiadau trafnidiaeth cynaliadwy eu darparu. Yn Peterborough, darperir cyfleusterau diwylliannol newydd yng nghanol y ddinas, canolfan gweithgareddau glan llyn a chrëir cysylltiadau newydd i gerddwyr er mwyn gwella mynediad i lan yr afon a'i mannau gwyrdd ger y brifysgol drawsnewidiol newydd. Yn Great Yarmouth, buddsoddir mewn adfywio mannau cyhoeddus, datblygu'r arlwy ddiwylliannol a chelfyddydol a chreu swyddi newydd.










**Allwedd**

- **Cronfa Ffyniant Bro:** Southend-on-Sea, Peterborough, Luton a Chanol Swydd Bedford.
- **Cronfa Trefi:** Bedford, Great Yarmouth, Ipswich, King's Lynn, Caer Colun, Grays, Harlow, Stevenage, Tilbury, Lowestoft, Norwich a Peterborough.
- **Cronfa Strydoedd Mawr y Dyfodol:** March, St Neots a Great Yarmouth.
- **Cronfa Adfywio Cymunedol:** Swydd Gaergrawnt a Peterborough, Essex, Norfolk, Southend-on-Sea, Thurrock, Swydd Hertford a Suffolk.
- **Cronfa Perchenogaeth Gymunedol:** Westhall.
- **Prosiect Gigabeit:** Swydd Gaergrawnt, Norfolk, Suffolk, Swydd Hertford, Swydd Bedford, Essex.
- **Cronfa Rhyddhau Tir Llwyd:** Caer Colun, Great Yarmouth.
- **Porthladdoedd Rhydd**: Felixstowe/Harwich a Tilbury/Porth Llundain yn Thurrock.
- **Ardaloedd Buddsoddi mewn Addysg:** Peterborough, Bedford, Canol Swydd Bedford, Norfolk, Luton, Suffolk a Swydd Gaergrawnt.
- **Uwchraddio trafnidiaeth:** Norwich, Great Yarmouth, Huntingdon a Chelmsford.
- **Cronfa Trawsnewid Dinasoedd:** Norwich a Chaergrawnt.

## Porthladd Rhydd newydd ar gyfer dwyrain Lloegr

Gan amgylchynu Porthladd Felixstowe a Phorthladd Rhyngwladol Harwich, bydd Porthladd Rhydd Dwyrain Lloegr yn manteisio ar ei agosrwydd at lwybrau masnach Ewropeaidd a byd-eang mawr. Bydd y Porthladd Rhydd yn ysgogi adfywio yn yr ardal ac yn helpu'r economi is-ranbarthol a rhanbarthol i adfer o'r pandemig. Bydd yn darparu swyddi medrus iawn â chyflogau da, gan adeiladu ar y diwydiannau sydd eisoes wedi'u hen sefydlu yn y porthladdoedd a'r ardaloedd cyfagos.

# Mae Llywodraeth y DU wedi bod yn gweithredu i sicrhau ffyniant bro yn nwyrain Lloegr:

## Grymuso arweinwyr a chymunedau lleol

**£600m** dros 30 mlynedd drwy Fargen Ddatganoli Awdurdod Cyfun Swydd Gaergrawnt a Peterborough, gan ddatganoli pwerau newydd dros drafnidiaeth, cynllunio a sgiliau, a darparu cyllid buddsoddi i gynyddu'r economi leol a darparu cartrefi newydd.

**Bargen Ddinesig gwerth £500m** gyda Chaergrawnt Fwyaf er mwyn galluogi ton newydd o dwf a arweinir gan arloesedd drwy fuddsoddi mewn seilwaith, tai a sgiliau.

Mae **Norfolk a Suffolk** wedi cael eu gwahodd i gytuno ar fargeinion datganoli newydd.

**£87m** ar gyfer pum prosiect o'r Gronfa Ffyniant Bro, gan gynnwys uwchraddio atyniadau ar yr arfordir yn Southend-on-Sea, adeiladu labordy gwyddoniaeth a man addysgol newydd yn Peterborough a chodi dros 300 o gartrefi newydd a 2,000 metr sgwâr o fannau cymunedol yn Luton.

**Bron £24m** o Gronfa Strydoedd Mawr y Dyfodol i adnewyddu ac ailwampio strydoedd mawr yn March, St Neots a Great Yarmouth.

**Dros £287m** drwy'r Gronfa Trefi ar gyfer 12 tref a dinas, gan gefnogi twf economaidd, hybu economïau lleol, creu swyddi a chartrefi newydd, trawsnewid lleoedd cyhoeddus, ac ailwampio atyniadau diwylliannol.

## Rhoi hwb i gynhyrchiant, cyflogau, swyddi a safonau byw

Mae **Bargeinion Twf Lleol** yn cyflwyno cyfleoedd twf arwyddocaol megis adeiladu Canolfan Sgiliau Coleg East Coast yn Lowestoft, adfywio rhanbarth hetiau Luton a darparu gorsaf drenau newydd yn Chelmsford.

**£39m** drwy'r Gronfa Trawsnewid Dinasoedd ar gyfer hwb symudedd newydd yng Ngorsaf Drenau Norwich.

Mae gwaith **uwchraddio ffyrdd** yn nwyrain Lloegr yn cynnwys trydydd pont dros yr afon yn Great Yarmouth, pont Tafwys isaf a'r A14 o Gaergrawnt i Huntingdon, a gwelliannau pellach i ffyrdd A.

**£462m** er mwyn cynnal a chadw ffyrdd lleol rhwng 2022-23 a 2024-25, ac £88m ar gyfer gwelliannau trafnidiaeth ledled dwyrain Lloegr.

**30 o fysiau di-allyriadau** ar gyfer Caergrawnt a Peterborough o'r Gronfa Bysiau Di-allyriadau gwerth £70m ar gyfer Ardaloedd Rhanbarthol.

Cynyddodd **signal band eang a all drosglwyddo data ar gyfradd gigabit** yn nwyrain Lloegr o 5% ym mis Tachwedd 2019 i 61% ym mis Ionawr 2022, a rhagwelir y bydd yn cyrraedd rhwng 70% ac 80% erbyn 2025.

Ymrwymwyd i wario **£500m** ledled y DU drwy'r rhaglen Rhwydwaith Gwledig Cyffredin er mwyn gwella signal 4G erbyn 2025, gan gynyddu'r signal i 99% yn nwyrain Lloegr.

Crëwyd **359,275** o fusnesau newydd yn nwyrain Lloegr rhwng 2010 a 2020.

Cafodd **830,800** o swyddi eu rhoi ar ffyrlo a'u diogelu yn nwyrain Lloegr drwy'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gydol y Coronafeirws.

## Ehangu cyfleoedd a gwella gwasanaethau cyhoeddus

Rhagwelir y caiff **£292m yn ychwanegol ei wario ar ysgolion prif ffrwd** yn nwyrain Lloegr yn ystod 2022-23, cynnydd o 5.9% fesul disgybl, o gymharu â 2021-22. Nid yw'r cynnydd hwn fesul disgybl yn cynnwys cyllid "twf", sy'n gyllid ychwanegol, a ddarperir i ysgolion lle mae nifer y disgyblion yn cynyddu'n sylweddol.

Cyhoeddwyd **Ardaloedd Buddsoddi mewn Addysg newydd** ar gyfer dosbarthau awdurdodau lleol gan gynnwys Peterborough, Bedford, Canol Swydd Bedford, Norfolk, Luton, Suffolk a Swydd Gaergrawnt, er mwyn ysgogi gwelliannau mewn cyrhaeddiad addysgol.

Mae **Athrofa Dechnoleg newydd** yn cael ei datblygu gyda Choleg De Essex yn cwmpasu ardal Partneriaeth Menter Leol de-ddwyrain Lloegr.

Dechreuwyd **31,800 o brentisiaethau** yn nwyrain Lloegr yn ystod 2019-20.

Roedd **1,053 yn fwy o feddygon a 2,599 yn fwy o nyrsys** yn gweithio mewn ysbytai yn nwyrain Lloegr rhwng mis Medi 2019 a mis Medi 2021.

**Adeiladu pum ysbyty newydd** yn nwyrain Lloegr fel rhan o ymrwymiad y Llywodraeth i adeiladu 40 o ysbytai newydd erbyn 2030, gan gynnwys ailadeiladu Ysbyty James Paget ac Ysbyty Gorllewin Suffolk; ysbyty canser newydd yn Addenbrookes; campws gofal iechyd integredig ac uwch-dechnoleg newydd yn lle Ysbyty'r Dywysoges Alexandra yn Harlow; adeiladau ysbyty newydd yn Ysbyty Cyffredinol Watford; ac adnewyddu ysbytai Hemel Hempstead a Dinas St Albans.

Dechreuwyd **8,990 o swyddi 'Kickstart'** gan bobl ifanc ac agorwyd 21 o ganolfannau ieuenctid i helpu ceiswyr gwaith ifanc i gael gafael ar hyfforddiant a chyfleoedd gwaith lleol.

## Adfer balchder lleol

Mae **996 o swyddogion yr heddlu ychwanegol** wedi cael eu recriwtio yn nwyrain Lloegr ers dechrau'r rhaglen i gynyddu niferoedd heddlu ym mis Hydref 2019.

Dyfarnwyd **£96,600** o'r Gronfa Perchenogaeth Gymunedol i'r Racehorse Inn yn Westhall.

**Dros £3m** o'r Gronfa Rhyddhau Tir Llwyd er mwyn adfywio dwy ystad, sef prosiect adfywio Heart of Greenstead yng Nghaer Colun ac Ystad Middlegate yn Great Yarmouth.

**Dros £17m** o'r Gronfa Adfywio Cymunedol ar gyfer 33 o brosiectau, gan gynnwys ariannu gwaith adfywio a arweinir gan ddiwylliant drwy'r diwydiant ffilmiau yn Swydd Hertford, cymorth i fusnesau fod yn Sero Net yn Norfolk a thrawsnewid sgiliau digidol yn Essex.

**Dros £4m** o Gynllun Cyflawni Awdurdodau Lleol y Grant Cartrefi Gwyrdd i Ganol Swydd Bedford er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi aelwydydd incwm isel, gan helpu i leihau tlodi tanwydd.

Rhoddwyd **£4m** gan y Sefydliad Pêl-droed i wella cyfleusterau chwaraeon llawr gwlad a chynyddu cyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn chwaraeon, yn enwedig mewn cymunedau sydd â'r angen mwyaf.

# Dwyrain Canolbarth Lloegr

**Mae dwyrain Canolbarth Lloegr eisoes yn elwa ar fuddsoddiadau i hybu safonau byw, lledaenu cyfleoedd, adfer balchder lleol a grymuso arweinwyr lleol.**

Mae buddsoddiad cychwynnol o **£203m** drwy Gylch 1 y Gronfa Ffyniant Bro yn cefnogi deg prosiect yn nwyrain Canolbarth Lloegr. Mae gwelliannau ym maes trafnidiaeth yn cynnwys gwelliannau i ffordd A16 rhwng Boston a Spalding yn Swydd Lincoln, cwblhau Ffordd Gyswllt Ddeheuol Newark rhwng Farndon a Balderton yn Swydd Nottingham, a chyffordd newydd ar yr A50 i'r de o Derby yn Swydd Derby. Bydd Canol Tref Gainsborough yn cael budd o sinema newydd a chaiff canolfan wyddoniaeth newydd ei hadeiladu yn Sw Twycross.


Yng Nghaerlŷr, caiff yr orsaf drenau ei hadnewyddu, darperir swyddfeydd o safon yn y ddinas a chaiff mannau masnachol newydd eu hadeiladu yn Pioneer Park er mwyn cefnogi twf economaidd. Caiff Neuadd Goffa Stephenson yn Chesterfield ei hailfodelu a bydd Nottingham yn elwa ar raglen i wella'r strydlun er mwyn hybu teithio llesol diogel ar draws y ddinas.

Mae'r Gronfa Trefi yn buddsoddi dros **£346m** mewn 15 o drefi yn nwyrain Canolbarth Lloegr gan gynnwys yn Boston, Corby a Lincoln. Yn Boston, caiff hwb cymunedol newydd ei greu yn yr orsaf drenau, gwneir gwelliannau i dir cyhoeddus yn Corby lle caiff rhannau o ganol y dref eu newid yn rhai i gerddwyr yn unig a bydd Lincoln yn cael budd o adfywio Sgwâr Cornhill, ardal gymunedol allweddol i'r gymuned.










## Porthladd Rhydd newydd ar gyfer dwyrain Canolbarth Lloegr

Bydd **Porthladd Rhydd Dwyrain Canolbarth Lloegr** yn creu canolfan gweithgynhyrchu a logisteg arloesol â chysylltiadau byd-eang yng nghanol y DU. Fel yr unig Borthladd Rhydd mewndirol yn Lloegr, bydd yn cynnig cyfleoedd unigryw a chyffrous ar gyfer buddsoddiad newydd gwerth uchel a charbon isel a bydd nodau Sero Net, sgiliau ac arloesedd yn rhan ganolog ohono. Bydd hefyd yn helpu i gynyddu swyddi yn y rhanbarth yn sylweddol, gan greu miloedd o swyddi newydd.

**Allwedd**

- **Cronfa Ffyniant Bro:** Twycross, Caerlŷr, Gainsborough, Farndon a Balderton, Swydd Derby, Chesterfield, Nottingham a Swydd Lincoln.
- **Cronfa Trefi:** Kirkby-in-Ashfield a Sutton-in-Ashfield, Boston, Clay Cross, Corby, Lincoln, Long Eaton, Loughborough, Mablethorpe, Mansfield, Newark, Northampton, Skegness, Stapleford a Staveley (Swydd Derby).
- **Cronfa Strydoedd Mawr y Dyfodol:** Derby, Nottingham, Heanor, Buxton, Grantham, Northampton a Sutton-in-Ashfield.
- **Cronfa Adfywio Cymunedol:** Swydd Derby, Caerlŷr, Swydd Lincoln, gogledd Swydd Northampton, Nottingham, Swydd Nottingham a gorllewin Northampton.
- **Cronfa Perchenogaeth Gymunedol:** Thurnby (Swydd Gaerlŷr).
- **Prosiect Gigabeit:** Swydd Northampton, Swydd Derby, Swydd Gaerlŷr, Swydd Nottingham, Swydd Lincoln.
- **Cronfa Rhyddhau Tir Llwyd:** Dyffrynnoedd Swydd Derby, Newark a Sherwood.
- **Porthladd Rhydd:** Maes Awyr Dwyrain Canolbarth Lloegr.
- **Adleoli'r Gwasanaeth Sifil:** Loughborough (Pencadlys Atal Camddefnyddio Cyffuriau mewn Chwaraeon y DU).
- **Ardaloedd Buddsoddi mewn Addysg:** Dosbarthau awdurdod lleol dwyrain Canolbarth Lloegr, gan gynnwys Derby, Swydd Derby, Swydd Lincoln, gogledd Swydd Northampton, Nottingham a Swydd Nottingham.
- **Uwchraddio trafnidiaeth:** Loughborough, Derby, Nottingham, Newark, Caerlŷr, Melton Mowbray a North Hykeham.

Papur Gwyn **Sicrhau Ffyniant Bro ledled y Deyrnas Unedig**

# Mae Llywodraeth y DU wedi bod yn gweithredu i sicrhau ffyniant bro yn nwyrain Canolbarth Lloegr:

## Grymuso arweinwyr a chymunedau lleol

Gwahoddwyd **Swydd Derby a Derby, Swydd Gaerlŷr a Swydd Nottingham a Nottingham** i ddechrau trafodaethau i gytuno ar fargeinion datganoli newydd.

**£203m** ar gyfer 10 prosiect drwy'r Gronfa Ffyniant Bro, gan gynnwys yn Twycross, Caerlŷr, Gainsborough, Farndon a Balderton, Swydd Derby, Chesterfield, Nottingham a Swydd Lincoln.

Buddsoddwyd **dros £346m** mewn 15 o Fargeinion drwy'r Gronfa Trefi gan gynnwys yn Clay Cross, Staveley, Long Eaton, Boston, Mablethorpe, Skegness, Corby, Stapleford a Mansfield er mwyn hybu economïau lleol, creu swyddi a chartrefi newydd, trawsnewid lleoedd cyhoeddus, ac ailwampio atyniadau diwylliannol.

**£63m** ar gyfer saith stryd fawr drwy Gronfa Strydoedd Mawr y Dyfodol er mwyn gwella cysylltiadau trafnidiaeth, adeiladu cartrefi newydd a thrawsnewid mannau nas defnyddir ddigon, gan gynnwys yn Derby, Nottingham, Heanor, Buxton, Grantham, Northampton a Sutton-in- Ashfield.

## Rhoi hwb i gynhyrchiant, cyflogau, swyddi a safonau byw

Mae **Bargeinion Twf Lleol** yn cyflwyno cyfleoedd twf arwyddocaol ym mhob rhan o ddwyrain Canolbarth Lloegr. Mae'r rhain yn cynnwys ailddatblygu ardal Southside yn Nottingham; cymorth ar gyfer parc busnes Infinity yn Derby; rhyddhau tir ar gyfer tai a mynediad i'r M1 yn Loughborough; a chreu ysgol feddygol ym Mhrifysgol Lincoln.

**£400m** o gyllid newydd ar gyfer Cronfa Buddsoddi ym Mheiriant Canolbarth Lloegr Banc Busnes Prydain.

**£40m** drwy'r Gronfa Trawsnewid Dinasoedd ar gyfer Caerlŷr, gan gynnwys Cyswllt Bysiau Trydan er mwyn cysylltu gorsafoedd trenau a bysiau â chanol y ddinas, a thros £169m ar gyfer gwelliannau ym maes trafnidiaeth ar draws Nottingham a Derby, gan gynnwys pont newydd i gerddwyr a beicwyr dros afon Trent a gwelliannau i orsaf fysiau Derby.

Gwaith **uwchraddio ffyrdd,** gan gynnwys cyffyrdd 13-19 a 23 or M1, cyffyrdd Derby yr A38, cyffyrdd Nottingham yr A52, a gwella capasiti ar hyd yr A46, Ffordd Osgoi Newark.

**£387m** er mwyn cynnal a chadw ffyrdd lleol rhwng 2022-23 a 2024-25, a £75m ar gyfer blaenoriaethau gwelliannau trafnidiaeth llai drwy'r Bloc Trafnidiaeth Integredig ledled dwyrain Canolbarth Lloegr.

**£18m** drwy'r Gronfa Cryfder mewn Lleoedd ledled Canolbarth Lloegr er mwyn datblygu gwaith cerameg uwch sy'n defnyddio llai o ynni, gyda phartneriaid gan gynnwys Rolls Royce, Prifysgol Caerlŷr a Phrifysgol Loughborough.

Cynyddodd **signal band eang a all drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit** yn nwyrain Canolbarth Lloegr o 6% ym mis Tachwedd 2019 i 69% ym mis Ionawr 2022, a rhagwelir y bydd yn cyrraedd rhwng 70% ac 80% erbyn 2025.

Crëwyd **299,720 o fusnesau newydd** yn nwyrain Canolbarth Lloegr rhwng 2010 a 2020.

Cafodd **753,700 o swyddi** eu rhoi ar ffyrlo a'u diogelu yn nwyrain Canolbarth Lloegr drwy'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws.

## Ehangu cyfleoedd a gwella gwasanaethau cyhoeddus

Rhagwelir y caiff **£229m ychwanegol ei wario ar ysgolion prif ffrwd** yn nwyrain Canolbarth Lloegr yn ystod 2022-23, cynnydd o 6% fesul disgybl, o gymharu â 2021-22. Nid yw'r cynnydd hwn fesul disgybl yn cynnwys cyllid "twf", sy'n gyllid ychwanegol, a ddarperir i ysgolion lle mae nifer y disgyblion yn cynyddu'n sylweddol.

Roedd **831 yn fwy o feddygon a 1,900 yn fwy o nyrsys** yn gweithio mewn ysbytai yn nwyrain Canolbarth Lloegr rhwng mis Medi 2019 a mis Medi 2021.

Caiff **pedwar ysbyty eu darparu** yn nwyrain Canolbarth Lloegr, gan gynnwys tri ysbyty newydd sy'n rhan o ymrwymiad y Llywodraeth i adeiladu 40 o ysbytai newydd erbyn 2030. Mae hyn yn cynnwys ailadeiladu Ysbyty Brenhinol Caerlŷr a Glenfield; cyfleusterau newydd yn Ysbyty Cyffredinol Caerlŷr; ailadeiladu safleoedd Canolfan Feddygol Queen's ac Ysbyty'r Ddinas yn Nottingham; canolfan adsefydlu genedlaethol yn Neuadd Stanford ger Loughborough; ac ailadeiladu Ysbyty Cyffredinol Kettering.

Fel rhan o **gynllun adleoli'r Gwasanaeth Sifil**, caiff Uned Atal Camddefnyddio Cyffuriau mewn Chwaraeon y DU ei lleoli ym Mharc Chwaraeon Prifysgol Loughborough

**Cyhoeddwyd Ardaloedd Buddsoddi** mewn Addysg newydd yn nosbarthau awdurdod lleol dwyrain Canolbarth Lloegr, gan gynnwys Derby, Swydd Derby, Swydd Lincoln, gogledd Swydd Northampton, Nottingham a Swydd Nottingham, a fydd yn llywio gwelliannau pellach i ysgolion yn yr ardaloedd hyn drwy ariannu ymyriadau mewn ysgolion sy'n tanberfformio, cefnogi twf ymddiriedolaethau cryf a chadw athrawon o safon.

Caiff **Athrofa Dechnoleg Swydd Lincoln** ei sefydlu gyda phartneriaid sy'n gyflogwyr, gan gynnwys Siemens, Bakkavor Ltd. ac Olympus Automation Limited. Mae Athrofa Dechnoleg bellach ar y gweill gyda Phrifysgol Derby, Coleg Derby, Prifysgol Loughborough a Choleg Loughborough (gan gwmpasu ardaloedd Partneriaeth Menter Leol D2N2 a Swydd Gaerlŷr).

Dechreuwyd **28,080 o brentisiaethau** yn nwyrain Canolbarth Lloegr yn ystod 2019-20.

Dechreuwyd **7,880 o swyddi 'Kickstart'** gan bobl ifanc ac agorwyd tair canolfan ieuenctid i helpu ceiswyr gwaith ifanc i gael gafael ar hyfforddiant a chyfleoedd gwaith lleol.

## Adfer balchder lleol

Mae **841 o swyddogion yr heddlu ychwanegol** wedi cael eu recriwtio yn nwyrain Canolbarth Lloegr ers dechrau'r rhaglen i gynyddu niferoedd heddlu ym mis Hydref 2019.

**Dros £1m** drwy'r Gronfa Rhyddhau Tir Llwyd i gefnogi prosiectau i adfywio dwy ystad, sef Ystad Hurst Farm yn Nyffrynnoedd Swydd Derby a Chaeau Chwaraeon Yorke Drive a Lincoln Road yn Newark a Sherwood.

**Dros £15m** ar gyfer 27 o brosiectau ledled dwyrain Canolbarth Lloegr drwy'r Gronfa Adfywio Cymunedol, gan gynnwys ar gyfer gwaith yn Swydd Northampton ar brosiectau Sero Net a phrosiectau ynni lleol.

**£250,000** o'r Gronfa Perchenogaeth Gymunedol ar gyfer Canolfan Gymunedol a Chaffi yr Hwb yn Thurnby.

**Dros £4m** o'r Gronfa Cynhesrwydd Cynaliadwy i helpu Caerlŷr a Lincoln i osod mesurau arbed ynni newydd a systemau gwresogi carbon isel mewn aelwydydd incwm isel.

Rhoddwyd **£6m** gan y Sefydliad Pêl-droed i wella cyfleusterau chwaraeon llawr gwlad a chynyddu cyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn chwaraeon, yn enwedig mewn cymunedau sydd â'r angen mwyaf.

# Llundain

**Mae Llundain eisoes yn elwa ar fuddsoddiadau i hybu safonau byw, lledaenu cyfleoedd, adfer balchder lleol a grymuso arweinwyr lleol.**


Mae buddsoddiad cychwynnol o **£65m** drwy Gylch 1 y Gronfa Ffyniant Bro yn cefnogi chwe phrosiect yn Llundain. Mae gwelliannau ym maes trafnidiaeth yn cynnwys cysylltu Gorsaf Northolt â Chylchfan White Hart, gwelliannau i'r briffordd ar Whitechapel Road, a phont newydd a gwelliannau i gerddwyr a beicwyr yn Newham. Caiff lleoliad cyngherddau a chanolfan addysg cerdd eu hadeiladu yn Nine Elms a chaiff canolfannau cymunedol Carlton a Grenville yn Ne Kilburn eu hadnewyddu.

Mae Cronfa Strydoedd Mawr y Dyfodol yn cefnogi gwaith i adfywio strydoedd mawr ledled y DU, gan gynnwys yn Llundain. Mae'r brifddinas wedi cael dros **£56m** o gyllid ar gyfer chwe stryd fawr. Yn Woolwich, bydd cyllid yn helpu i drawsnewid Hen Neuadd y Dref, Powis Street a Beresford Square yn lle bywiog i fyw, gweithio, mwynhau profiadau a siopa. Ar hyd Old Kent Road yn Southwark, rhoddir cyllid i sawl prosiect ar hyd y darn de-ddwyreiniol er mwyn cefnogi cynlluniau adfywio ehangach. Yn Sutton, defnyddir y cyllid i addasu adeiladau gwag neu segur at ddibenion gwahanol, adeiladu cartrefi newydd a fforddiadwy gan gyfrannu at y gwaith ffisegol i adfywio'r stryd fawr, gan gynnwys Elm Grove, a darparu gweithleoedd masnachol mwy hyblyg.





Papur Gwyn **Sicrhau Ffyniant Bro ledled y Deyrnas Unedig**




1. Wandsworth
2. Lambeth
3. Southwark
4. Tower Hamlets
5. Newham
6. Hackney
7. Islington
8. Camden
9. Westminster
10. Kensington a Chelsea
11. Hammersmith a Fulham
12. Dinas Llundain

## Porthladd Rhydd newydd ar afon Tafwys

Bydd **Porthladd Rhydd Tafwys** yn manteisio ar gysylltiadau ardderchog i ganol Llundain a dinasoedd mawr Ewrop. Bydd yn arwain at swyddi, cyfleoedd hyfforddiant ac uwchsgilio newydd, ac yn datgloi buddsoddiad mewn porthladdoedd a buddsoddiadau newydd o dramor. Bydd y Porthladd Rhydd hefyd yn sbarduno'r gwaith o gynhyrchu ynni glân, gan gynnwys hydrogen, ac yn arloesi mewn technoleg carbon isel, gan gyfrannu at dargedau Sero Net rhanbarthol a chenedlaethol.

### Allwedd

- **Cronfa Ffyniant Bro:** Northolt, Whitechapel, Nine Elms, South Kilburn a Newham.
- **Cronfa Strydoedd Mawr y Dyfodol:** Woolwich, Tottenham, Wealdstone, Old Kent Road, Sutton a Putney.
- **Cronfa Adfywio Cymunedol:** prosiectau ledled Llundain, yn ogystal â phrosiectau lleol yn Newham, Barking a Dagenham, Lewisham a Camden.
- **Cronfa Rhyddhau Tir Llwyd:** Camden, Haringey a Sutton
- **Porthladd Rhydd:** Dagenham.

Papur Gwyn **Sicrhau Ffyniant Bro ledled y Deyrnas Unedig**

# Mae Llywodraeth y DU wedi bod yn gweithredu i sicrhau ffyniant bro mewn cymunedau yn Llundain:

## Grymuso arweinwyr a chymunedau lleol

**£65m** drwy'r Gronfa Ffyniant Bro, gan fuddsoddi mewn chwe phrosiect i wella bywyd pob dydd, gan gynnwys yn Northolt, Whitechapel Road, Nine Elms, South Kilburn a Newham.

**Dros £56m** o Gyllid Strydoedd Mawr y Dyfodol ar gyfer chwe stryd fawr yn Llundain, gan gynnwys yn Woolwich, Tottenham, Wealdstone, Old Kent Road, Sutton a Putney.

Bydd **y Cyngor Cynghorol ar Ffyniant Bro** yn ystyried sut i sicrhau y gall sbectrwm economaidd-gymdeithasol a daearyddiaeth economaidd gymhleth Llundain elwa ymhellach ar ffyniant bro.

## Rhoi hwb i gynhyrchiant, cyflogau, swyddi a safonau byw

**£44.6bn** i ddarparu cyswllt rheilffordd cyflym iawn rhwng Llundain a dwyrain Canolbarth Lloegr. Bydd HS2 hefyd yn trawsnewid Gorsaf Euston, a disgwylir y bydd y gwaith i ailddatblygu'r orsaf yn creu hyd at 16,000 o swyddi newydd a 2,200 o gartrefi.

Buddsoddiad o **£1bn** yn rhwydwaith trafnidiaeth Llundain bob blwyddyn drwy'r cynllun Cadw Ardrethi Busnes, a chafwyd dros £4bn mewn cyllid ychwanegol ers dechrau'r pandemig i gefnogi rhwydwaith trafnidiaeth Llundain, gan sicrhau bod gwasanaethau wedi parhau i redeg yn ystod y pandemig.

**Dros £18bn** o fuddsoddiad yn Crossrail a fydd yn gwella cysylltedd ledled Llundain drwy linell Elizabeth, ac £1bn gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus i ymestyn y Llinell Ogleddol i Battersea.

Buddsoddiad o **£24bn** mewn ffyrdd strategol gan gynnwys pont isaf afon Tafwys, gan gynyddu capasiti dros afon Tafwys i'r dwyrain o Lundain dros 90%.

Cynyddodd **signal band eang a all drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit** yn Llundain o 14% ym mis Tachwedd 2019 i 78% ym mis Ionawr 2022, a rhagwelir y bydd yn cyrraedd rhwng 90% a 100% erbyn 2025.

Crëwyd **929,070 o fusnesau newydd** yn Llundain rhwng 2010 a 2020.

## Ehangu cyfleoedd a gwella gwasanaethau cyhoeddus

Rhagwelir y caiff **£322m** ychwanegol ei wario ar ysgolion prif ffrwd yn Llundain yn ystod 2022-23, cynnydd o 5.4% fesul disgybl, o gymharu â 2021-22. Nid yw'r cynnydd hwn fesul disgybl yn cynnwys cyllid "twf", sy'n gyllid ychwanegol, a ddarperir i ysgolion lle mae nifer y disgyblion yn cynyddu'n sylweddol.

Sefydlwyd **Athrofeydd Technoleg** yn nwyrain Llundain, Dinas Llundain a gorllewin Llundain.

Dechreuwyd **36,930 o brentisiaethau** yn Llundain yn ystod 2019-20.

Caiff **pum ysbyty eu darparu** yn Llundain erbyn diwedd y ddegawd, gan gynnwys pedwar ysbyty newydd sy'n rhan o ymrwymiad y Llywodraeth i adeiladu 40 o ysbytai newydd erbyn 2030. Mae'r prosiectau yn cynnwys ailadeiladu Ysbyty Hillingdon; ailadeiladu St Mary's Paddington ac Ysbyty Hammersmith (Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Coleg Imperial); cyfleuster gofal llygaid, ymchwil ac addysg, Ysbyty Llygaid Moorfields a Sefydliad Offthalmoleg Coleg y Brifysgol, Llundain; gwaith sylweddol i adnewyddu Ysbyty Charring Cross fesul llawr; ac ysbyty newydd yn Whipps Cross.

Roedd **2,264 yn fwy o feddygon a 3,511 yn fwy o nyrsys** yn gweithio mewn ysbytai yn Llundain rhwng mis Medi 2019 a mis Medi 2021.

Dechreuwyd **27,380 o swyddi 'Kickstart'** gan bobl ifanc ac agorwyd 26 o ganolfannau ieuenctid i helpu ceiswyr gwaith ifanc i gael gafael ar hyfforddiant a chyfleoedd gwaith lleol.

Cafodd **1,291,600 o swyddi eu rhoi ar ffyrlo** a'u diogelu yn Llundain drwy'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws.

## Adfer balchder lleol

Mae **2,155 o swyddogion yr heddlu ychwanegol** wedi cael eu recriwtio yn Llundain ers dechrau'r rhaglen i gynyddu niferoedd heddlu ym mis Hydref 2019.

**Dros £3m** drwy'r Gronfa Rhyddhau Tir Llwyd i gefnogi prosiectau i adfywio tair ystad, gan gynnwys Ystad Isel Bacton yn Camden, Ystad Fferm Broadwater yn Haringey a Beech Tree Place yn Sutton.

**Dros £3m** i Awdurdod Llundain Fwyaf ar gyfer chwe phrosiect drwy'r Gronfa Adfywio Cymunedol, er mwyn buddsoddi mewn pobl, lleoedd, busnesau a chymunedau, gan gynnwys yn Newham a Camden.

Clustnodwyd **dros £142m** i adeiladu cartrefi parhaol i'r rhai sy'n cysgu allan a'r uchelgais yw darparu cyfanswm 1,640 o gartrefi yn Llundain.

**Dros £168m** ar gyfer datblygiad East Bank er mwyn dod â sefydliadau diwylliannol heb eu hail, megis y BBC, V&A, ac UCL i Barc Olympaidd y Frenhines Elizabeth, gan ddenu 1.5m o ymwelwyr ychwanegol i'r ardal bob blwyddyn a chyflawni'r gwaddol Olympaidd i drawsnewid y rhan hon o ddwyrain Llundain.

Rhoddwyd **£2m** gan y Sefydliad Pêl-droed i wella cyfleusterau chwaraeon llawr gwlad a chynyddu cyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn chwaraeon, yn enwedig mewn cymunedau sydd â'r angen mwyaf.

# Gogledd-ddwyrain Lloegr

**Mae gogledd-ddwyrain Lloegr eisoes yn elwa ar fuddsoddiadau i hybu safonau byw, lledaenu cyfleoedd, adfer balchder lleol a grymuso arweinwyr lleol.**


Mae buddsoddiad cychwynnol o **£100m** drwy Gylch 1 y Gronfa Ffyniant Bro yn cefnogi pum prosiect yng ngogledd-ddwyrain Lloegr. Caiff canol trefi eu trawsnewid gyda phrosiectau adfywio yn Yarm ac Eaglescliffe, a thrwy adnewyddu Marchnad Grainger yn Newcastle. Pont Whorlton dros Afon Tees yn County Durham yw'r bont grog hynaf yn y byd a chaiff ei hailagor gyda chanolfan ymwelwyr newydd i ddathlu treftadaeth trafnidiaeth yr ardal. Bydd sefydlu'r Academi Arloesedd Tai a Sgiliau Adeiladu yn Sunderland ac adeiladu cyfleuster chwaraeon o'r radd flaenaf yn West Denton yn darparu cyfleoedd cyflogaeth a chwaraeon newydd.

Mae'r Gronfa Trefi yn buddsoddi dros **£172m** mewn saith tref yng ngogledd-ddwyrain Lloegr gan gynnwys yn Darlington, Hartlepool a Blyth. Yng nghanol tref Darlington, caiff yr iardiau a'r llwybrau cul hanesyddol eu hadnewyddu, a gosodir goleuadau newydd a system WiFi. Yn ogystal â hyn, defnyddir bloc swyddfa segur ar gyfer datblygiad newydd. Yn Hartlepool caiff eiddo gwag yng nghanol y dref eu hadnewyddu a bydd Blyth yn cael cyllid i sefydlu cyfleusterau sgiliau a arweinir gan fusnesau ar gyfer y sector ynni, gan helpu trigolion i fanteisio ar gyfleoedd gwaith lleol.





Papur Gwyn **Sicrhau Ffyniant Bro ledled y Deyrnas Unedig**




**Allwedd**

- **Cronfa Ffyniant Bro:** Yarm ac Eaglescliffe, Sunderland, Newcastle a County Durham.
- **Cronfa Trefi:** Bishop Auckland, Blyth, Darlington, Hartlepool, Middlesbrough, Redcar a Thornaby-on-Tees.
- **Cronfa Strydoedd Mawr y Dyfodol:** Middlesbrough, Bishop Auckland, Blyth, Loftus, South Shields, Stockton a Sunderland.
- **Cronfa Adfywio Cymunedol:** County Durham, Gateshead, North of Tyne, Sunderland a Tees Valley.
- **Cronfa Perchenogaeth Gymunedol:** North Shields a Whitley Bay.
- **Prosiect Gigabeit:** Durham, Tyneside, Teesside a Northumberland.
- **Cronfa Cryfder mewn Lleoedd:** Sunderland a Newcastle.
- **Porthladd Rhydd:** Teesside.
- **Adleoli'r Gwasanaeth Sifil**: Darlington.
- **Ardaloedd Buddsoddi mewn Addysg:** Middlesbrough, Hartlepool, Darlington, Sunderland, South Tyneside a County Durham.
- **Uwchraddio trafnidiaeth:** Tees Valley (Middlesbrough a Darlington) a Northumberland.
- **Bargen Twf Gynhwysol y Gororau:** Alnwick, Berwick-upon- Tweed a Wooler.

## Adleoli'r Gwasanaeth Sifil i ogledd-ddwyrain Lloegr

Mae **Campws Economaidd Darlington** yn hwb trawslywodraethol newydd arloesol a fydd yn dwyn ynghyd bobl o wahanol adrannau a sefydliadau cyhoeddus i chwarae rôl weithredol yn y materion economaidd cyfoes pwysicaf. Fel rhan o'r rhaglen Mannau Twf, bydd y Campws yn ymdrechu i amrywiaethu'r ffordd y mae Llywodraeth y DU yn creu polisïau, ehangu mynediad at sgiliau a doniau a chynyddu cyfleoedd. Bydd cyfleoedd gyrfa sylweddol a rhagolygon cyffrous yn yr adrannau a'r sefydliadau a gaiff eu lleoli ar y campws, gan gynnwys Trysorlys EM, yr Adran Masnach Ryngwladol, yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, y Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.

# Mae Llywodraeth y DU wedi bod yn gweithredu i sicrhau ffyniant bro yng ngogledd-ddwyrain Lloegr:

## Grymuso arweinwyr a chymunedau lleol

**£450m** dros 30 mlynedd drwy Fargen Ddatganoli Awdurdod Cyfun Tees Valley, a wnaeth ethol ei Faer cyntaf ym mis Mai 2017.

**£600m** dros 30 mlynedd drwy Fargen Ddatganoli Awdurdod Cyfun North of Tyne, a wnaeth ethol ei Faer ym mis Mai 2019.

**Dros £98m** o Gronfa Strydoedd Mawr y Dyfodol ar gyfer saith tref a dinas ar draws gogledd-ddwyrain Lloegr, gan gynnwys Middlesbrough, Blyth a Sunderland.

**£100m** ar gyfer pum prosiect ledled gogledd-ddwyrain Lloegr drwy'r Gronfa Ffyniant Bro, gan gynnwys yn Yarm ac Eaglescliffe, Sunderland, Newcastle a County Durham.

**Dros £172m** ar gyfer saith Bargen Tref ledled gogledd-ddwyrain Lloegr, gan gynnwys yn Bishop Auckland, Blyth, Darlington, Hartlepool, Middlesbrough, Redcar a Thornaby-on-Tees er mwyn hybu economïau lleol, creu swyddi a chartrefi newydd, trawsnewid lleoedd cyhoeddus, ac ailwampio atyniadau diwylliannol.

Gwahoddwyd **Durham** i ddechrau trafodaethau i gytuno ar fargeinion datganoli newydd ac i drafodaethau fynd rhagddynt i gytuno ar Awdurdod Cyfun Maerol Estynedig ar gyfer gogledd-ddwyrain Lloegr.

## Rhoi hwb i gynhyrchiant, cyflogau, swyddi a safonau byw

Bydd **Porthladd Rhydd Teeside** yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gyflwynir yn sgil adfywio safle hen waith dur Tees, gan roi hwb i'r economi leol wrth wneud cyfraniad sylweddol at nodau Sero Net.

Mae **Bargen Twf Gynhwysol y Gororau**, sy'n cynnwys buddsoddiad gwerth £265m gan Lywodraeth y DU, yn cefnogi partneriaeth, arloesedd a thwf trawsffiniol, gan gynnwys yn Northumberland. Hyd yn hyn, clustnodwyd £29.5m ar gyfer prosiectau yng ngogledd-ddwyrain Lloegr.

**£660m** o gyllid ychwanegol ar gyfer Cronfa Fuddsoddi Pwerdy'r Gogledd Banc Busnes Prydain er mwyn ariannu cylch newydd o'r gronfa a'i hehangu i ogledd-ddwyrain Lloegr.

**Dros £208m** ar gyfer gwelliannau ym maes trafnidiaeth yng ngogledd-ddwyrain Lloegr a thros £75m ar gyfer gwelliannau i drafnidiaeth yn Tees Valley drwy'r Gronfa Trawsnewid Dinasoedd.

**£310m** ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth yn Tees Valley, gan gynnwys gwaith i uwchraddio gorsafoedd Middlesbrough a Darlington a gwella cysylltiadau rheilffordd lleol.

**£34m** o gyllid cychwynnol ar gyfer gwaith paratoi i gefnogi'r cynllun i ailgyflwyno gwasanaethau rheilffordd i deithwyr ar Linell Northumberland.

Mae **signal band eang a all drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit** yng ngogledd-ddwyrain Lloegr wedi cynyddu o 2% ym mis Tachwedd 2019 i 66% ym mis Ionawr 2022, a rhagwelir y bydd yn cyrraedd rhwng 70% ac 80% erbyn 2025.

Crëwyd **77,400 o fusnesau newydd** yng ngogledd-ddwyrain Lloegr rhwng 2010 a 2020.

Sefydlwyd **Bargeinion Twf Lleol** ar gyfer Partneriaethau Menter Lleol yng ngogledd-ddwyrain Lloegr, gan gynnwys buddsoddiad yn NETPark, sef parc gwyddoniaeth a thechnoleg blaenllaw yn Sedgefield.

Cafodd **329,800 o swyddi eu rhoi ar ffyrlo** a'u diogelu yng ngogledd-ddwyrain Lloegr drwy'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gydol y Coronafeirws.

## Ehangu cyfleoedd a gwella gwasanaethau cyhoeddus

Rhagwelir y caiff **£110m yn ychwanegol ei wario ar ysgolion prif ffrwd** yng ngogledd-ddwyrain Lloegr yn ystod 2022-23, cynnydd o 6% fesul disgybl, o gymharu â 2021-22. Nid yw'r cynnydd hwn fesul disgybl yn cynnwys cyllid "twf", sy'n gyllid ychwanegol, a ddarperir i ysgolion lle mae nifer y disgyblion yn cynyddu'n sylweddol.

Cyhoeddwyd **Ardaloedd Buddsoddi mewn Addysg newydd** yn Middlesbrough, Hartlepool, Darlington, Sunderland, South Tyneside a County Durham, a fydd yn llywio gwelliannau pellach i ysgolion yn yr ardaloedd hyn drwy ariannu ymyriadau mewn ysgolion sy'n tanberfformio, cefnogi twf ymddiriedolaethau cryf a chadw athrawon o safon.

Sefydlir **Athrofa Dechnoleg Gogledd-ddwyrain Lloegr** i gwmpasu Durham, Newcastle, Middlesbrough, Sunderland a Northumberland (ardal Partneriaeth Menter Leol gogledd-ddwyrain Lloegr).

Dechreuwyd **17,310 o brentisiaethau** yng ngogledd-ddwyrain Lloegr yn ystod 2019-20.

Caiff **dau ysbyty eu darparu** yng ngogledd-ddwyrain Lloegr erbyn diwedd y ddegawd, gan gynnwys ailadeiladu Ysbyty Northgate ac adeiladu ysbyty newydd yn lle Ysbyty Shotley Bridge sy'n rhan o ymrwymiad y Llywodraeth i adeiladu 40 o ysbytai newydd erbyn 2030.

Roedd **725 yn fwy o feddygon a 1,552 yn fwy o nyrsys** yn gweithio mewn ysbytai yng ngogledd-ddwyrain Lloegr rhwng mis Medi 2019 a mis Medi 2021.

**200-300 o swyddi** yng nghampws newydd Trysorlys EM yn Darlington fel rhan o raglen Mannau Twf.

Dechreuwyd **5,310 o swyddi 'Kickstart'** gan bobl ifanc ac agorwyd 12 o ganolfannau ieuenctid i helpu ceiswyr gwaith ifanc i gael gafael ar hyfforddiant a chyfleoedd gwaith lleol.

## Adfer balchder lleole

Mae **645 o swyddogion yr heddlu ychwanegol** wedi cael eu recriwtio yng ngogledd-ddwyrain Lloegr ers dechrau'r rhaglen i gynyddu niferoedd heddlu ym mis Hydref 2019.

**Dros £7m** o'r Gronfa Adfywio Cymunedol ar gyfer 14 o brosiectau ledled gogledd-ddwyrain Lloegr, gan gynnwys prosiect i atgyfnerthu'r sector gwirfoddol a chymunedol yn Sunderland.

**£600,000** ar gyfer dau brosiect yn North Shields a Whitley Bay o gylch cyntaf y Gronfa Perchenogaeth Gymunedol er mwyn diogelu asedau cymunedol gwerthfawr.

**£690,000** tuag at adfywio ystad Church Lane North yn Redcar a Cleveland drwy'r Gronfa Rhyddhau Tir Llwyd.

**£53m** ar gyfer Hwb Sero Net Lleol Gogledd-ddwyrain Lloegr er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi aelwydydd incwm isel, gan helpu i leihau tlodi tanwydd, rhoi'r gorau i ddefnyddio systemau gwresogi tanwydd carbon uchel a gwneud cynnydd tuag at ymrwymiad y DU i fod yn Sero Net erbyn 2050.

**Dros £11m** o'r Gronfa Cynhesrwydd Cynaliadwy i helpu pedwar cyngor yng ngogledd-ddwyrain Lloegr i osod mesurau arbed ynni newydd a systemau gwresogi carbon isel mewn aelwydydd incwm isel.

Rhoddwyd **£1m** gan y Sefydliad Pêl-droed i wella cyfleusterau chwaraeon llawr gwlad a chynyddu cyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn chwaraeon, yn enwedig mewn cymunedau sydd â'r angen mwyaf.

# Gogledd-orllewin Lloegr

**Mae gogledd-orllewin Lloegr eisoes yn elwa ar fuddsoddiadau i hybu safonau byw, lledaenu cyfleoedd, adfer balchder lleol a grymuso arweinwyr lleol.**


Mae buddsoddiad cychwynnol o **£232m** drwy Gylch 1 y Gronfa Ffyniant Bro yn cefnogi 12 prosiect yng ngogledd-orllewin Lloegr. Caiff canol trefi eu hadfywio drwy fuddsoddi mewn theatrau yng nghanol tref Colne, moderneiddio Neuadd y Farchnad yn Barrow-in-Furness ac adnewyddu un o hoff farchnadoedd Prydain yn Bury. Caiff asedau treftadaeth eu hadfer drwy fuddsoddi yn Neuadd y Dref yn Ashton a bydd dociau Lerpwl yn parhau i gael eu hadfywio. Mae gwelliannau o ran cysylltedd yn cynnwys llwybrau cerdded a beicio ar wahân yn Lerpwl a chadw llwybr croesi'r fferi dros afon Mersi yn Woodside. Bydd creu Coleg Gwyddorau Meddygol Bolton, darparu hwb dinesig newydd yn Radcliffe ac ehangu campws Prifysgol Canol Swydd Gaerhirfryn yn Burnley yn gwella sgiliau, yn creu swyddi ac yn cynnig cyfleoedd newydd ar gyfer datblygiad ehangach. Caiff dau adeilad adfeiliedig ym Manceinion eu haddasu at ddibenion gwahanol er mwyn creu gweithleoedd mawr, modern a chaiff Parth Arloesi Salford ei gysylltu â chymunedau cyfagos.

Mae'r Gronfa Trefi yn buddsoddi **£486m** mewn 20 o drefi yng ngogledd-orllewin Lloegr, gan gynnwys Blackpool, Warrington, Rochdale, Southport a Workington. Mae gwelliannau ym maes trafnidiaeth yn cynnwys cyfleuster bysiau newydd yn Warrington gyda chapasiti i gefnogi fflyd bysiau trydanol, a gwelliannau i lwybrau beicio a cherdded yn Cleator Moor. Caiff atyniadau diwylliannol a hamdden eu trawsnewid, buddsoddir yng Ngoleuadau Blackpool a chaiff Amgueddfa'r Gwasanaeth Tân yn Rochdale ei hailddatblygu. Cefnogir gwaith i adfywio canol trefi drwy gaffael safleoedd allweddol ar gyfer datblygiadau newydd, gan gynnwys yn Barrow-in-Furness, Leyland ac Oldham.










**Allwedd**

- **Cronfa Ffyniant Bro:** Bolton, Burnley, Birkenhead, Bury, Manceinion, Lerpwl, Colne, Barrow-in-Furness, Tameside a Salford.
- **Cronfa Trefi:** Barrow-in-Furness, Birkenhead, Blackpool, Bolton, Caerliwelydd, Cheadle, Cleator Moor, Crewe, Darwen, Leyland, Millom, Nelson, Oldham, Preston, Rochdale, Runcorn, Southport, St Helens, Warrington a Workington.
- **Cronfa Strydoedd Mawr y Dyfodol:** Crewe, Farnworth, Oldham, Birkenhead, Maryport, Caerliwelydd, Winsford, Kirkham, Rochdale, Stockport, Trafford, Wigan, a New Ferry.
- **Cronfa Adfywio Cymunedol:** Blackburn gyda Darwen, Blackpool, Manceinion Fwyaf, Swydd Gaerhirfryn a Dinas-ranbarth Lerpwl.
- **Cronfa Perchenogaeth Gymunedol:** Leigh, Marple, Clayton-le- Moors a Bury.
- **Prosiect Gigabeit:** Cumbria, Swydd Gaerhirfryn a Swydd Gaer.
- **Cronfa Cryfder mewn Lleoedd:** Rochdale a Lerpwl.
- **Porthladd Rhydd:** Lerpwl.
- **Ardaloedd Buddsoddi mewn Addysg:** Knowsley, Blackpool, Lerpwl, Rochdale, St Helens, Oldham, Salford, Halton, Tameside, Sefton, Manceinion, Bury, Wirral a Bolton.
- **Uwchraddio trafnidiaeth:** Manceinion Fwyaf a Lerpwl.

## Porthladd Rhydd newydd ar gyfer gogledd-orllewin Lloegr

Bydd **Porthladd Rhydd Lerpwl** yn cynnig cyfleoedd sylweddol i'r ddinas, ei phobl a'r rhanbarth ehangach, gan helpu cymunedau i ffynnu drwy fuddsoddiadau newydd a miloedd o swyddi newydd. Lerpwl yw prif borthladd trawsatlantig y DU ac mae ganddo gysylltiadau ardderchog i'r UD. Bydd yn cefnogi dinas-ranbarth sy'n gystadleuol ar lefel fyd-eang, yn gyfrifol o ran yr amgylchedd ac sy'n gymdeithasol gynhwysol.

Papur Gwyn **Sicrhau Ffyniant Bro Iedled y Deyrnas Unedig**

# Mae Llywodraeth y DU wedi bod yn gweithredu i sicrhau ffyniant bro yng ngogledd-orllewin Lloegr:

## Grymuso arweinwyr a chymunedau lleol

**Bargeinion datganoli** gydag Awdurdodau Cyfun Manceinion Fwyaf a Dinas-ranbarth Lerpwl, gan ddatganoli pwerau newydd dros drafnidiaeth, cynllunio a sgiliau.

Cronfa fuddsoddi gwerth **£900m** dros 30 mlynedd fel rhan o fargen ddatganoli Awdurdod Cyfun Dinas-ranbarth Lerpwl.

Cronfa fuddsoddi gwerth **£900m** dros 30 mlynedd fel rhan o fargen ddatganoli Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf.

Bargen ddatganoli ddyfnach sy'n torri tir newydd i gael ei negodi ag Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf a allai weithredu fel glasbrint ar gyfer Awdurdodau Cyfun Maerol eraill, gan gynnwys Dinas-ranbarth Lerpwl.

**£232m** o'r Gronfa Ffyniant Bro ar gyfer 12 prosiect ar draws gogledd-orllewin Lloegr, gan gynnwys yn Bolton, Burnley, Birkenhead, Radcliffe, Bury, Manceinion, Lerpwl, Colne, Barrow-in-Furness, Tameside a Salford.

Buddsoddwyd **dros £168m** mewn 13 o strydoedd mawr drwy Gronfa Strydoedd Mawr y Dyfodol er mwyn cefnogi gwaith i adnewyddu ac ail-lunio canol trefi a strydoedd mawr ar draws y rhanbarth, gan gynnwys yng Nghaerliwelydd, Rochdale, Stretford, a Winsford.

Buddsoddwyd **£486m** drwy 20 o fargeinion y Gronfa Trefi Iedled gogledd-orllewin Lloegr, gan gynnwys yn Crewe, St Helens a Darwen, a fydd yn creu cartrefi newydd, yn trawsnewid lleoedd cyhoeddus, ac yn ailwampio atyniadau diwylliannol.

## Rhoi hwb i gynhyrchiant, cyflogau, swyddi a safonau byw

**£172m** ar gyfer Canolfan Genedlaethol Hartree ar gyfer Arloesedd Digidol newydd yn Sci-Tech Daresbury, partneriaeth bum mlynedd, gwerth £210m rhwng IBM a Chanolfan Hartree STFC.

**Cynllun peilot ar gyfer Sbardunwr Arloesedd ym Manceinion Fwyaf** gyda mynediad at £100m o gyllid.

**£660m** o gyllid ychwanegol ar gyfer Cronfa Fuddsoddi Pwerdy'r Gogledd Banc Busnes Prydain.

**Dros £1.5bn** drwy'r Gronfa Twf Lleol yng ngogledd-orllewin Lloegr ar gyfer prosiectau i hybu economïau lleol.

Buddsoddiad o **£14.7m** drwy'r Gronfa Trawsnewid Dinasoedd er mwyn adfywio ardaloedd Friargate North a Ringway yn Preston.

**Buddsoddiad mewn trafnidiaeth** drwy Setliadau Trafnidiaeth Gynaliadwy Dinas-Ranbarth gydag £1bn pellach ym Manceinion Fwyaf ar gyfer cynlluniau megis y genhedlaeth nesaf o gerbydau tram-trên Metrolink a £710m yn Ninas-ranbarth Lerpwl ar gyfer cynlluniau megis pŵer batri ar gyfer trenau Merseyrail newydd.

**£280m** i awdurdodau lleol nad ydynt yn cael Setliadau Dinas-ranbarth er mwyn cynnal a chadw ffyrdd lleol rhwng 2022-23 a 2024-25, a £51m ar gyfer gwelliannau trafnidiaeth lleol llai ledled gogledd-orllewin Lloegr.

**£23m** drwy'r Gronfa Cryfder mewn Lleoedd ar gyfer y Fenter Cynhyrchiant a Pheiriannau Uwch yn Rochdale, ac £19m ar gyfer y Consortiwm Arloesi mewn Heintiau a arweinir gan Ysgol Meddygaeth Drofannol Lerpwl.

**£15m** drwy'r Her Trawsnewid Diwydiannau Sylfaenol ar gyfer Dyfodol Gwydr yn St Helens, cyfleuster ymchwil a datblygu â ffwrnais wydr o'r radd flaenaf.

**120 o fysiau di-allyriadau** ar gyfer Warrington o'r Gronfa Bysiau Di-allyriadau gwerth £270m ar gyfer Ardaloedd Rhanbarthol.

Mae **signal band eang a all drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit** yng ngogledd-orllewin Lloegr wedi cynyddu o 9% ym mis Tachwedd 2019 i 61% ym mis Ionawr 2022, a rhagwelir y bydd yn cyrraedd rhwng 80% a 90% erbyn 2025.

Crëwyd **383,885 o fusnesau newydd** yng ngogledd-orllewin Lloegr rhwng 2010 a 2020.

Cafodd **1,041,200 o swyddi eu rhoi ar ffyrlo** a'u diogelu yng ngogledd-orllewin Lloegr drwy'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws.

Hyd yn hyn, mae **Bargen Twf Gynhwysol y Gororau**, sy'n werth **£265m**, wedi clustnodi £76m ar gyfer gogledd-orllewin Lloegr.

**£52m** ar gyfer Hwb Sero Net Lleol Gogledd-orllewin Lloegr er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni aelwydydd incwm isel.

## Ehangu cyfleoedd a gwella gwasanaethau cyhoeddus

Rhagwelir y caiff **£360m yn ychwanegol ei wario ar ysgolion prif ffrwd** yng ngogledd-orllewin Lloegr yn ystod 2022-23, cynnydd o 5.8% fesul disgybl, o gymharu â 2021-22. Nid yw'r cynnydd hwn fesul disgybl yn cynnwys cyllid "twf", sy'n gyllid ychwanegol, a ddarperir i ysgolion lle mae nifer y disgyblion yn cynyddu'n sylweddol.

Campws **Llu Seiber Cenedlaethol newydd** yn Samlesbury yn South Ribble, Swydd Gaerhirfryn, a fydd yn rhoi hwb i'r economi leol ac yn creu swyddi.

Cyhoeddwyd **Ardaloedd Buddsoddi mewn Addysg newydd** yn Knowsley, Blackpool, Lerpwl, Rochdale, St Helens, Oldham, Salford, Halton, Tameside, Sefton, Manceinion, Bury, Wirral a Bolton, a fydd yn llywio gwelliannau pellach i ysgolion yn yr ardaloedd hyn drwy ariannu ymyriadau mewn ysgolion sy'n tanberfformio, cefnogi twf ymddiriedolaethau cryf a chadw athrawon o safon.

Mae **tair Athrofa Dechnoleg** ar y gweill gyda Choleg Blackpool a'r Fylde (gan gwmpasu ardal Partneriaeth Menter Leol Swydd Gaerhirfryn), Prifysgol Salford (gan gwmpasu ardal Partneriaeth Menter Leol Manceinion Fwyaf) a Choleg De a Gorllewin Swydd Gaer (gan gwmpasu ardal Partneriaeth Menter Leol Swydd Gaer a Warrington).

Dechreuwyd **46,250 o brentisiaethau** yng ngogledd-orllewin Lloegr yn ystod 2019-20.

Caiff **pum ysbyty eu darparu**, gan gynnwys dau ysbyty newydd sy'n rhan o ymrwymiad Llywodraeth y DU i adeiladu 40 o ysbytai newydd erbyn 2030. Mae'r rhain yn cynnwys ysbyty oncoleg yng ngogledd Cumbria; ailadeiladu Ysbyty Brenhinol Preston ac Ysbyty Brenhinol Caerhirfyn (yn amodol ar ymgynghoriad); ysbyty newydd yn lle Ysbyty Prifysgol Brenhinol Lerpwl; ysbyty annewisol, gofal dwys ychwanegol i gefnogi Gwasanaeth Trawma Difrifol Manceinion Fwyaf; ac ailadeiladu Ysbyty Cyffredinol Gogledd Manceinion.

Roedd **1,620 yn fwy o feddygon a 3,161 yn fwy o nyrsys** yn gweithio mewn ysbytai yng ngogledd-orllewin Lloegr rhwng mis Medi 2019 a mis Medi 2021.

Dechreuwyd **16,390 o swyddi 'Kickstart'** gan bobl ifanc ac agorwyd 22 o ganolfannau ieuenctid i helpu ceiswyr gwaith ifanc i gael gafael ar hyfforddiant a chyfleoedd gwaith lleol.

## Adfer balchder lleol

Mae **1,638 o swyddogion yr heddlu ychwanegol** wedi cael eu recriwtio yng ngogledd-orllewin Lloegr ers dechrau'r rhaglen i gynyddu niferoedd heddlu ym mis Hydref 2019.

**£137.6m** o'r Gronfa Dechrau Adeiladu ar gyfer 26 o brosiectau yng ngogledd-orllewin Lloegr ers mis Awst 2020, gan gynnwys £23m i greu'r parc cyhoeddus cyntaf ym Manceinion ers dros 100 mlynedd. Gellir cyflawni'r parc yn sgil y buddsoddiad ym Mayfield, er y peryglwyd hyn gan y pandemig, a sicrhawyd hyd at £1bn mewn buddsoddiad sector preifat yn natblygiad ehangach y safle.

**Dros £12m** ar gyfer 28 o brosiectau ar draws gogledd-orllewin Lloegr, wedi'u cefnogi gan y Gronfa Adfywio Cymunedol, gan gynnwys ar gyfer buddsoddi mewn sgiliau busnesau sy'n datblygu technoleg carbon isel yn Blackpool a Rossendale.

**£1.63m** o'r Gronfa Perchenogaeth Gymunedol i ddiogelu asedau cymunedol gwerthfawr yn ardaloedd Bury, Leigh, Marple a Clayton-le-Moors.

**Dros £3m** o'r Gronfa Rhyddhau Tir Llwyd er mwyn adfywio tair ystad yng ngogledd-orllewin Lloegr, gan gynnwys ystad Sutton Way yn Ellesmere Port, ardal Lower Falinge yng Nghanol Rochdale ac ystad Sale West yn Trafford.

Rhoddwyd **£11m** gan y Sefydliad Pêl-droed i wella cyfleusterau chwaraeon llawr gwlad a chynyddu cyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn chwaraeon, yn enwedig mewn cymunedau sydd â'r angen mwyaf.

# Gogledd Iwerddon

**Mae Gogledd Iwerddon eisoes yn elwa ar fuddsoddiadau i hybu safonau byw, lledaenu cyfleoedd, adfer balchder lleol a grymuso arweinwyr lleol.**

Gwneir buddsoddiad o **£617m** mewn trefi a dinasoedd ledled Gogledd Iwerddon drwy bedair Bargen Dinesig a Thwf. Yn rhanbarth Belfast gwelir gwelliannau i seilwaith, gan gynnwys Ffordd Liniaru Ddeheuol Newry, rhaglenni twristiaeth ac adfywio, gan gynnwys ar gyfer Glannau Bangor, a rhaglenni i gefnogi twf economaidd, gan gynnwys hybiau arloesi rhanbarthol newydd i gefnogi busnesau sy'n datblygu, megis y Ganolfan Arloesi ar gyfer Gweithgynhyrchu Uwch. Fel rhan o Fargen Ddinesig Rhanbarth Derry-Londonderry a Strabane, buddsoddir mewn cyfres o brosiectau arloesedd, digidol ac iechyd gyda'r nod o drawsnewid galluogrwydd a chapasiti'r rhanbarth, megis y Ganolfan ar gyfer Digidoleiddio Diwydiannol, Roboteg ac Awtomatiaeth. Mae hyn yn ogystal â buddsoddiad y Fargen Ddinesig mewn cynlluniau adfywio i drawsnewid canol tref Strabane. At hynny, bydd Bargeinion Twf Canolbarth de-orllewin Gogledd Iwerddon a Glynnoedd ac Arfordir Sarn yn hwyluso twf economaidd drwy fuddsoddi mewn arloesedd, seilwaith, mentrau digidol a thwristiaeth.


Mae'r Gronfa Ffyniant Bro yn buddsoddi **£49m** mewn 11 prosiect ledled Gogledd Iwerddon. Cymerir camau i wella cysylltedd drwy ddatblygu llwybrau gleision ar gyfer beicio a fydd yn cysylltu Bangor â Newtownards a Newtownards â Comber. Mae cefnogaeth ar gyfer diwydiant ffilmiau a theledu Gogledd Iwerddon gyda buddsoddiad yng nghyfleusterau cynhyrchu rhithwir Prifysgol Ulster yn Belfast a chaiff lleoliadau diwylliannol a hamdden eu trawsnewid drwy adfywio Hwb Chwaraeon Daisyfield yn Derry-Londonderry. Bydd adfywio lleoedd cyhoeddus yn cael effaith bellgyrhaeddol ar gymunedau, gan gynnwys yn Omagh, Glengormley ac Antrim, a chaiff caeau hamdden Portrush a llawr iâ Dundonald International Ice Bowl eu hailddatblygu hefyd. Darperir cyfleusterau newydd ac wedi'u huwchraddio yn Castlederg a chaiff fferm gymunedol drefol ei sefydlu yn Derry-Londonderry. Bydd y Gronfa hefyd yn ariannu gwaith i uwchraddio'r rhwydwaith gwefru cerbydau trydan ledled Gogledd Iwerddon.

Bydd Llywodraeth y DU yn parhau i weithio'n agos gyda Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ar amrywiaeth o bolisïau er mwyn ysgogi newid diriaethol mewn lleoedd a gwella cyfleoedd bywyd.










## Cefnogi Busnesau yng Ngogledd Iwerddon

Mae Llywodraeth y DU wedi gwarantu **£400m** ar gyfer y **Fargen Newydd i Ogledd Iwerddon**, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020. Bydd y Fargen Newydd yn helpu i hybu twf economaidd, cynyddu cystadleurwydd Gogledd Iwerddon a buddsoddi mewn seilwaith, a'i nod yw helpu busnesau i weithredu yn sgil ymadawiad y DU â'r UE. Bydd yn galluogi busnesau Gogledd Iwerddon i gystadlu yn y farchnad fyd-eang, gan sbarduno twf a ffyniant yn y dyfodol. Bydd y cyllid hefyd yn buddsoddi mewn datblygiad cymdeithasol ledled Gogledd Iwerddon er mwyn cryfhau cydlyniant cymdeithasol, gan gynnwys cefnogi mentrau sy'n galluogi plant o gefndiroedd cymunedol gwahanol i gael eu haddysgu gyda'i gilydd.

### Allwedd

- **Cronfa Ffyniant Bro:** Derry-Londonderry, Portrush, Dundonald, Castlederg, Ards a North Down, Glengormley, Antrim, Lisburn a Castlereagh, Omagh a Belfast.
- **Bargeinion Dinesig a Thwf:** Rhanbarth Belfast, Rhanbarth Derry- Londonderry a Strabane, Glynnoedd ac Arfordir Sarn y Cedwri a Chanolbarth de-orllewin Gogledd Iwerddon.
- **Cronfa Adfywio Cymunedol:** yn ogystal â phrosiectau cenedlaethol, prosiectau lleol yn Ninas Armaghy, Banbridge a Craigavon, Belfast, Dinas Derry a Strabane, Bangor, Canolbarth a dwyrain Antrim, Omagh, Enniskillen, Canolbarth Ulster, Mynyddoedd Mourne a Cushendun.
- **Cronfa Perchenogaeth Gymunedol:** Cushendall.
- **Adleoli'r Gwasanaeth Sifil:** Belfast.
- **Hwb masnach a buddsoddi:** Belfast.

# Mae Llywodraeth y DU wedi bod yn gweithredu i sicrhau ffyniant bro yng Ngogledd Iwerddon:

## Grymuso arweinwyr a chymunedau lleol

**£1.6bn** o gyllid ychwanegol ar gyfartaledd bob blwyddyn drwy fformiwla Barnett dros gyfnod Adolygiad o Wariant 2021, yn ychwanegol at y cyllid llinell sylfaen blynyddol, sef **£13.4bn**, gan alluogi Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i fuddsoddi ymhellach mewn meysydd megis iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg yn y dyfodol.

**£730m** ar gyfer y rhaglen PEACE PLUS newydd (gan gynnwys cyfraniad gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon) i gefnogi sefydlogrwydd economaidd, heddwch a chymodi yng Ngogledd Iwerddon. Mae hyn yn cynrychioli bron 75% o'r gyllideb gyfan ac yn cyflawni ymrwymiadau Llywodraeth y DU i'r rhaglen yn llawn.

**£617m** ar gyfer Bargeinion Dinesig a Thwf sy'n cynnwys cyllid i alluogi arloesedd digidol ac ehangu'r clwstwr o gwmnïau uwch-dechnoleg.

## Datblygu'r sector preifat a gwella safonau byw

**£400m** ar gyfer y Fargen Newydd i Ogledd Iwerddon, gyda'r nod o helpu busnesau i weithredu yn sgil ymadawiad y DU â'r UE, gan hefyd sicrhau bod Gogledd Iwerddon yn barod i achub ar y cyfleoedd masnach a buddsoddi sydd i ddod. Mae bron hanner wedi cael ei glustnodi ar gyfer systemau newydd i archfarchnadoedd a masnachwyr bach, cadwyni cyflenwi meddyginiaeth, hyrwyddo masnach a datblygu sgiliau.

**Hwb masnach a buddsoddi newydd** yn Belfast, a fydd yn sicrhau bod buddion polisi masnach byd-eang y DU yn cael eu sianelu i Ogledd Iwerddon.

**£1bn** i ffermwyr a rheolwyr tir a £9.3m i gefnogi pysgodfeydd gan Lywodraeth y DU dros gyfnod Adolygiad o Wariant 2021.

Cynyddodd **signal band eang a all drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit** yng Ngogledd Iwerddon o 31% ym mis Tachwedd 2019 i 81% ym mis Ionawr 2022, a rhagwelir y bydd yn cyrraedd rhwng 90% a 100% erbyn 2025.

Crëwyd **59,055** o fusnesau newydd yng Ngogledd Iwerddon rhwng 2010 a 2020.

**£70m** ar gyfer cronfa fuddsoddi newydd gan Fanc Busnes Prydain yng Ngogledd Iwerddon, gan weithio'n agos gyda phartneriaid lleol.

Ymrwymwyd i wario **£500m** ledled y DU drwy'r rhaglen Rhwydwaith Gwledig Cyffredin er mwyn gwella signal 4G erbyn 2025, gan gynyddu'r signal o 97% i 98% yng Ngogledd Iwerddon.

**£50m** dros ddwy flynedd o'r fargen Degawd Newydd, Dull Newydd i gefnogi'r gwaith o gyflwyno trafnidiaeth gyhoeddus ag allyriadau isel iawn.





## Ehangu cyfleoedd a gwella gwasanaethau cyhoeddus

**60** o swyddi newydd erbyn 2025 yn Belfast yn sgil ehangu'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol i'r lleoliad newydd hwn.

Cafodd **240,200 o swyddi eu rhoi ar ffyrlo** a'u diogelu yng Ngogledd Iwerddon drwy'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws.

## Adfer balchder lleol

**Dros £22m** ar gyfer y rhaglen i fynd i'r afael â pharafilitariaeth dros gyfnod Adolygiad o Wariant 2021, gan gyfrannu at wneud Gogledd Iwerddon yn fwy diogel.

**£12m** o'r Gronfa Adfywio Cymunedol i gefnogi 30 o brosiectau, megis helpu busnesau bach yn Ninas Armagh, Banbridge a Craigavon i arloesi er mwyn lleihau eu hôl troed carbon, ynghyd â phrosiectau cenedlaethol i gefnogi cymunedau ledled Gogledd Iwerddon.

**£300,000** ar gyfer Hwb Digidol y Glynnoedd yn Cushendall o gylch cyntaf y Gronfa Perchenogaeth Gymunedol er mwyn diogelu ased cymunedol gwerthfawr.

Buddsoddwyd **£49m** mewn cymunedau lleol ar gyfer 11 cais llwyddiannus am brosiect drwy'r Gronfa Ffyniant Bro, gan gynnwys yn Dundonald, Omagh ac Antrim.

**£700,000** o gyllid gan Lywodraeth y DU i wella cyfleusterau chwaraeon llawr gwlad a chynyddu cyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn chwaraeon, yn enwedig mewn cymunedau sydd â'r angen mwyaf.

# Yr Alban

**Mae'r Alban eisoes yn elwa ar fuddsoddiadau i hybu safonau byw, lledaenu cyfleoedd, adfer balchder lleol a grymuso arweinwyr lleol.**

Bydd 12 rhanbarth ledled yr Alban yn cael budd o fuddsoddiad gwerth **£1.5bn** gan Lywodraeth y DU drwy Fargeinion Dinesig a Thwf. Ymhlith y rhain, buddsoddir hyd at **£103m** ym Margen Twf Swydd Aeron er mwyn creu dros 7,000 o swyddi newydd yn y rhanbarth. Bydd Bargen Twf Gynhwysol y Gororau yn arwain at hyd at **£265m** o fuddsoddiad dros y 10-15 mlynedd nesaf, gan gefnogi partneriaeth, arloesedd a thwf trawsffiniol. Fel rhan o Fargen Rhanbarth Dinasoedd Tay, buddsoddir hyd at **£150m** yn y rhanbarth, gan gynnwys ym meysydd hedfanaeth a seiberddiogelwch, a buddsoddir **£45m** yn Stirling a Swydd Clackmannan.


Mae cylch cyntaf y Gronfa Ffyniant Bro yn cefnogi wyth prosiect yn yr Alban gyda buddsoddiad gwerth **£172m**. Caiff atyniadau diwylliannol a threftadaeth eu hadfywio, gan gynnwys drwy drawsnewid Stablau a Melin Lifio Pollok yn Glasgow yn ganolfan gymunedol a threftadaeth Sero Net a bwerir drwy ddŵr. Caiff cysylltiadau trafnidiaeth eu gwella drwy sefydlu llwybr uniongyrchol newydd rhwng Glasgow a'r Tair Tref yng ngogledd Swydd Aeron, gwaith i uwchraddio Cylchfan Westfield yn Falkirk a chysylltiadau gwell â'r Rhanbarth Arloesedd a Gweithgynhyrchu Uwch yn Swydd Renfrew. Yn ogystal, caiff Glannau Granton eu datblygu yng Nghaeredin, caiff Canolfan Siopa Artizan yng ngorllewin Swydd Dunbarton ei hailfodelu, caiff Castell Inverness ei ailddatblygu a chyflwynir lleoliad marchnad newydd yng nghanol dinas Aberdeen.

Bydd Llywodraeth y DU yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth yr Alban ar amrywiaeth o bolisïau er mwyn ysgogi newid diriaethol mewn lleoedd a gwella cyfleoedd bywyd.










## Allwedd

**Cronfa Ffyniant Bro:** Inverness, Aberdeen, Glasgow, y Tair Tref yng ngogledd Swydd Aeron (Ardrossan, Saltcoats a Stevenston), Swydd Renfrew, Caeredin, Falkirk a gorllewin Swydd Dunbarton.

**Bargeinion Dinesig a Thwf:** Dinas-ranbarth Glasgow, Dinas-ranbarth Aberdeen , Inverness ac Ucheldiroedd yr Alban, Caeredin a de-ddwyrain yr Alban, Stirling a Swydd Clackmannan, Dinasoedd Tay, Swydd Aeron, y Gororau, Moray, Argyll a Bute, Falkirk a'r Ynysoedd (Ynysoedd Erch, Shetland a'r Hebrides Allanol).

**Cronfa Adfywio Cymunedol:** Argyll a Bute, Dumfries a Galloway, dwyrain Swydd Aeron, Falkirk, Dinas Glasgow, Inverclyde, Na h-Eileanan Siar, gogledd Swydd Aeron, gogledd Swydd Lanark, Gororau'r Alban, de Swydd Aeron, de Swydd Lanark a gorllewin Swydd Dunbarton, Swydd Clackmannan, dwyrain Lothian, Caeredin, Fife, Ucheldiroedd yr Alban, Aberdeen, Swydd Aberdeen, Dundee, Perth a Kinross.

**Cronfa Perchenogaeth Gymunedol:** Whithorn, Inverie, New Galloway, Kinloch Rannoch a Callander.

**Cronfa Cryfder mewn Lleoedd:** Glasgow a Chaeredin.

**Adleoli'r Gwasanaeth Sifil:** Glasgow, East Kilbride a Chaeredin.

**Hwb masnach a buddsoddi:** Caeredin.

**Canolfan Arloesi Gweithgynhyrchu Meddyginiaethau:** Swydd Renfrew.

## Yr Alban ar y llwyfan byd-eang

Ym mis Hydref a mis Tachwedd 2021, cynhaliwyd **Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd, COP26**, yn Glasgow, gan arddangos yr Alban ar y llwyfan byd-eang. Daeth Prif Weinidog y DU â phenaethiaid gwladwriaethau, arbenigwyr ar yr hinsawdd ac ymgyrchwyr ynghyd i gytuno ar gamau gweithredu cydgysylltiedig i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Bydd Glasgow, yr Alban a'r DU gyfan yn elwa yn economaidd yn sgil cynnal yr uwchgynhadledd, gan gynnwys drwy dwf mewn twristiaeth ryngwladol yn y dyfodol.

# Mae Llywodraeth y DU wedi bod yn gweithredu i sicrhau ffyniant bro yn yr Alban:

## Grymuso arweinwyr a chymunedau lleol

**£4.6bn** o gyllid ychwanegol i Lywodraeth yr Alban bob blwyddyn ar gyfartaledd drwy fformiwla Barnett rhwng 2022-23 a 2024-25, yn ychwanegol at ei chyllid llinell sylfaen blynyddol, sef £36.7bn. Mae'r cyllid hwn yn galluogi Llywodraeth yr Alban i fuddsoddi ymhellach mewn meysydd megis iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg.

Ymrwymwyd **£1.5bn** o fuddsoddiad gan Lywodraeth y DU i Fargeinion Dinesig a Thwf ers 2014. Mae'r rhain bellach yn cwmpasu pob rhan o'r Alban a byddant yn sbarduno twf economaidd ac yn creu swyddi drwy fuddsoddi mewn prosiectau lleol.

## Rhoi hwb i gynhyrchiant, cyflogau, swyddi a safonau byws

Bydd **dros 8,900** o gartrefi a busnesau yn cael mynediad at fand eang â chyflymderau heb eu hail o ganlyniad i £12.5m a ddyfarnwyd drwy raglen gigabeit genedlaethol Llywodraeth y DU.

**Ehangu'r hwb masnach a buddsoddi** yng Nghaeredin er mwyn sicrhau bod yr Alban yn elwa ar bolisi masnach byd-eang y DU.

**Cynllun peilot ar gyfer Sbardunwr Arloesedd** yng nghanol Dinas-ranbarth Glasgow gyda mynediad at £100m o gyllid. Partneriaeth newydd yw hon i gefnogi'r Dinas-ranbarth i ddod yn ganolfan ymchwil ac arloesi sy'n gystadleuol ar lefel fyd-eang.

**£21m** drwy'r Gronfa Cryfder mewn Lleoedd i dde-orllewin yr Alban a Cumbria ddatblygu technoleg i gefnogi a datgarboneiddio'r diwydiant cynnyrch llaeth, £38m ar gyfer arloesedd ac ymchwil ym maes meddygaeth yn Glasgow a £23m i'r Ganolfan Ragoriaeth ar gyfer Cyllid Agored Byd-eang yng Nghaeredin.

**£1.9bn** i ffermwyr a rheolwyr tir a £42.2m i gefnogi pysgodfeydd gan Lywodraeth y DU dros gyfnod Adolygiad o Wariant 2021. Mae Llywodraeth y DU wedi estyn argymhellion Adolygiad Bew fel y bydd cyllid ychwanegol yn parhau i gael ei ddarparu i ffermwyr yn yr Alban dros y tair blynedd nesaf.

Cynyddodd **signal band eang a all drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit** yn yr Alban o 5% ym mis Tachwedd 2019 i 60% ym mis Tachwedd 2021, a rhagwelir y bydd yn cyrraedd rhwng 70% ac 80% erbyn 2025.

Ymrwymwyd i wario **£500m** ledled y DU drwy'r rhaglen Rhwydwaith Gwledig Cyffredin er mwyn gwella signal 4G erbyn 2025, gan gynyddu'r signal i 91% yn yr Alban.

**Llofnodwyd Bargen Bontio Môr y Gogledd** i gefnogi gweithwyr, busnesau a'r gadwyn gyflenwi yn y diwydiant olew a nwy, gan ganolbwyntio ar ogledd-ddwyrain yr Alban, a newid i ddyfodol carbon isel, a £27m ar gyfer Parth Trawsnewid Ynni Aberdeen.

Mae **Bargen Twf Gynhwysol y Gororau**, sy'n cynnwys buddsoddiad gwerth £265m gan Lywodraeth y DU, yn cefnogi partneriaeth, arloesedd a thwf trawsffiniol, gan gynnwys £65m yn Yr Alban.

Crëwyd **217,430 o fusnesau newydd** yn yr Alban rhwng 2010 a 2020.

**£150m** i Fanc Busnes Prydain sefydlu cronfa fuddsoddi newydd yn yr Alban er mwyn cefnogi mynediad at gyllid i fusnesau yn yr Alban, gan weithio'n agos gyda Llywodraeth yr Alban a Banc Datblygu Cenedlaethol yr Alban.

**£13m** ar gyfer y Ganolfan Arloesi Gweithgynhyrchu Meddyginiaethau yn Swydd Renfrew a fydd yn gwella'r broses o weithgynhyrchu meddyginiaeth yn y wlad hon er mwyn paratoi ar gyfer y risg o argyfyngau iechyd yn y dyfodol.





## Ehangu cyfleoedd a gwella gwasanaethau cyhoeddus

**500 o swyddi ychwanegol** ar gyfer gweision sifil i gael eu cyflogi gan y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygiad yn East Kilbride a lleoliad arfaethedig ar gyfer Swyddfa'r Cabinet yn Glasgow erbyn 2024, gan ddarparu swyddi newydd, denu buddsoddiad a dod â'r rhai sy'n llunio polisïau yn agosach at y bobl y maent yn eu gwasanaethu yn yr Alban.

Dechreuwyd **10,970 o swyddi 'Kickstart'** gan bobl ifanc ac agorwyd 19 o ganolfannau ieuenctid i helpu ceiswyr gwaith ifanc i gael gafael ar hyfforddiant a chyfleoedd gwaith lleol.

Cafodd **736,500 o swyddi eu rhoi ar ffyrlo** a'u diogelu yn yr Alban drwy'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws.

## Adfer balchder lleol pride

**Dros £170m** ar gyfer wyth prosiect yn yr Alban o'r Gronfa Ffyniant Bro, gan gynnwys yn Inverness, Aberdeen, Falkirk a gorllewin Swydd Dunbarton.

**Hyd at £3m** dros dair blynedd i hybu arlwy diwylliannol Glasgow. Caiff y cyllid ei gyfeirio i Gasgliad Burrell, gan gydnabod ei gyfraniad diwylliannol ac economaidd pwysig i'r DU.

Darperir **hyd at £1m** i gefnogi'r gwaith o gyflwyno ras 'Extreme E' yn yr Alban, sef X-Prix yr Hebrides yn 2022. Bydd y digwyddiad yn tynnu sylw at yr heriau o ran yr hinsawdd a wynebir gan ecosystemau gwahanol ac yn dangos Hydrogen gwyrdd yr Hebrides i gynulleidfa fyd-eang.

**Dros £1m** o'r Gronfa Perchenogaeth Gymunedol, sy'n cynrychioli 20% o gyfanswm gwerth cynigion y gellir eu hariannu, ar gyfer pum prosiect i ddiogelu asedau cymunedol gwerthfawr yn Whithorn, Inverie, New Galloway, Kinloch Rannoch a Callander.

**£18m** drwy'r Gronfa Adfywio Cymunedol ar gyfer dros 50 o brosiectau ledled yr Alban, gan gynnwys rhaglen cyflogaeth a llesiant i bobl sy'n byw yn ardal Gororau'r Alban.

**£2m** o gyllid gan Lywodraeth y DU i wella cyfleusterau chwaraeon llawr gwlad a chynyddu cyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn chwaraeon, yn enwedig mewn cymunedau sydd â'r angen mwyaf.

# De-ddwyrain Lloegr

**Mae de-ddwyrain Lloegr eisoes yn elwa ar fuddsoddiadau i hybu safonau byw, lledaenu cyfleoedd, adfer balchder lleol a grymuso arweinwyr lleol.**


Mae buddsoddiad cychwynnol o **£151m** drwy Gylch 1 y Gronfa Ffyniant Bro yn cefnogi 11 prosiect yn ne-ddwyrain Lloegr. Mae hyn yn cynnwys gwella cysylltiadau, megis gwneud Pont Exceat yn Seaford yn lletach a gwneud Victoria Place yn Eastbourne yn ardal i gerddwyr yn unig, ynghyd â phrosiectau adfywio, gan gynnwys glan môr Hove, Porthladd a Harbwr Brenhinol Ramsgate ac adeilad eiconig y Columbine yn iard longau Ynys Wyth. Bydd y cyllid hefyd yn cefnogi asedau cymunedol gwerthfawr, gan gynnwys drwy adfywio Theatr Alexandra yn Bognor Regis ac atgyweirio Theatr Brook yng nghanol tref Chatham. Yn Ashford, caiff stiwdio ffilmiau ryngwladol ei datblygu a chaiff glaniadau newydd i gefnogi pysgotwyr lleol eu hadeiladu yn Newhaven. Bydd Lido Hilsea yn dod yn brif atyniad mewn parc llinol trefol yn Portsmouth a bydd sefydliad Margate Digital yn darparu cymwysterau technegol i ddysgwyr ifanc ac oedolion.

Mae'r Gronfa Trefi yn buddsoddi **£109m** mewn pum tref yn ne-ddwyrain Lloegr gan gynnwys Margate a Crawley. Yn Margate, caiff cyllid ei wario ar gefnogi canol trefi, creu swyddi, rhoi hwb i fusnesau a chysylltu pobl â ble maent yn byw ac yn gweithio drwy seilwaith ffisegol a digidol. Yn Crawley, bydd sawl prosiect yn cael cyllid, gan gynnwys gorsaf fysiau ar ei newydd wedd a chyfnewidfa drafnidiaeth gynaliadwy, Ardal Ddiwylliannol newydd a Chanolfan Arloesi newydd.










1. Reading
2. Wokingham
3. Bracknell Forest

## Allwedd

- **Cronfa Ffyniant Bro:** Seaford, Ynys Wyth, Ashford, Hove, Margate, Bognor Regis a Littlehampton, Portsmouth, Ramsgate, Eastbourne, Newhaven a Chatham.
- **Cronfa Trefi:** Crawley, Hastings, Margate, Milton Keynes a Newhaven.
- **Cronfa Strydoedd Mawr y Dyfodol:** High Wycombe, Chatham, Portsmouth, Newhaven, Dover a Ramsgate.
- **Cronfa Adfywio Cymunedol:** Swydd Buckingham, dwyrain Sussex, Caint, Medway, Swydd Rydychen a Portsmouth.
- **Cronfa Perchenogaeth Gymunedol:** Portsmouth, East Boldre a Bethersden.
- **Prosiect Gigabeit:** Hampshire, Ynys Wyth, Swydd Rydychen, Berkshire, Caint, Swydd Buckingham, gorllewin Sussex, dwyrain Sussex, Milton Keynes a Surrey.
- **Porthladd Rhydd:** Solent.
- **Ardaloedd Buddsoddi mewn Addysg:** Ynys Wyth, Portsmouth a dwyrain Sussex.
- **Uwchraddio trafnidiaeth:** Brighton, Ashford, Aylesbury, Dartford, Arundel, Lewes, Ringwood a Milton Keynes.
- **Cronfa Trawsnewid Dinasoedd:** Southampton a Portsmouth.

### Porthladd Rhydd newydd ar gyfer de-ddwyrain Lloegr

Bydd **Porthladd Rhydd Solent** yn Hampshire, sy'n cynnwys porthladdoedd Southampton, Portsmouth a phorthladd rhyngwladol Portsmouth, yn manteisio i'r eithaf ar gryfderau morol presennol yr ardal. Bydd yn arwain at fuddsoddiad, yn creu miloedd o swyddi newydd ac yn helpu i ddenu busnesau newydd mewn sectorau twf uchel, megis gweithgynhyrchu uwch a pheirianneg.

# Mae Llywodraeth y DU wedi bod yn gweithredu i sicrhau ffyniant bro yn ne-ddwyrain Lloegr:

## Grymuso arweinwyr a chymunedau lleol

Cefnogwyd **Bwrdd Twf Aber Afon Tafwys,** sef partneriaeth ranbarthol sy'n dod ag arweinwyr lleol a'r sector preifat ynghyd er mwyn sbarduno twf yn nwyrain Llundain, gogledd Caint a de Essex, a gadeirir gan Kate Willard, Cennad yr Aber

**£109m** drwy'r Gronfa Trefi ar gyfer pum tref ledled de-ddwyrain Lloegr, er mwyn hybu economïau lleol, creu swyddi a chartrefi newydd, trawsnewid lleoedd cyhoeddus, ac ailwampio atyniadau diwylliannol.

Dros **£39m** drwy Gronfa Strydoedd Mawr y Dyfodol ledled de-ddwyrain Lloegr er mwyn sbarduno twf, gwella profiadau a sicrhau cynaliadwyedd yn y dyfodol, gan gynnwys yn High Wycombe, Chatham, Portsmouth (Commercial Road a Fratton), Newhaven, Dover a Ramsgate.

## Rhoi hwb i gynhyrchiant, cyflogau, swyddi a safonau byw

**Dros £62m** o fuddsoddiad yn Southampton drwy'r Gronfa Trawsnewid Dinasoedd, gan gynnwys ar gyfer datblygu cysylltiadau bysiau cyflym newydd.

**Dros £59m** o fuddsoddiad mewn gwelliannau trafnidiaeth yn Portsmouth drwy'r Gronfa Trawsnewid Dinasoedd.

**£151m** o'r Gronfa Ffyniant Bro ar gyfer 11 prosiect ledled de-ddwyrain Lloegr, i fuddsoddi mewn seilwaith sy'n gwella bywyd pob dydd.

**Gwelliannau i'r rheilffordd yn** ne-ddwyrain Lloegr, gan gynnwys £9.5m i wella cyflymder y llinell rhwng Ashford a Ramsgate, £20.3m ar gyfer gwelliannau gweithredol ac i leihau amser teithiau ar brif linell Brighton, a £132m ar gyfer gwaith uwchraddio sylweddol yng ngorsaf Maes Awyr Gatwick.

Mae **gwaith uwchraddio ffyrdd** yn ne-ddwyrain Lloegr yn cynnwys uwchraddio i draffyrdd clyfar ar hyd rhannau o'r M27, yr M3, yr M4 a'r M25, a gwelliannau i ffordd gyswllt de-ddwyreiniol Aylesbury, pont arfaethedig Tafwys isaf, yr A2 yn Bean ac Ebbsfleet, yr A31 yn Ringwood, yr A27 Ffordd Osgoi Arundel, a'r A27 i'r dwyrain o Lewes.

**56 o fysiau di-allyriadau** ar gyfer Milton Keynes a 33 o fysiau di-allyriadau ar gyfer Caint, o'r Gronfa Bysiau Di-allyriadau gwerth £70m ar gyfer Ardaloedd Rhanbarthol.

**£558m** er mwyn cynnal a chadw ffyrdd lleol rhwng 2022-23 a 2024-25, a £142m ar gyfer gwelliannau trafnidiaeth ledled de-ddwyrain Lloegr.

**£275m** o fuddsoddiad drwy'r Gronfa Twf Lleol i gefnogi 96 o brosiectau ledled y rhanbarth, gan gynnwys creu Canolfan Bio-arloesedd – canolfan datblygu busnesau ar gyfer prosiectau gwyddor bywyd newydd, rhan o'r adeilad Gwyddor Bywyd newydd ym Mhrifysgol Sussex.

**£18m** drwy'r Gronfa Cryfder mewn Lleoedd er mwyn datblygu technolegau cynhyrchu a phrosesu bwyd sy'n ystyried yr hinsawdd mewn ffordd glyfar.

Cynyddodd **signal band eang a all drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit** yn ne-ddwyrain Lloegr o 8% ym mis Tachwedd 2019 i 66% ym mis Ionawr 2022, a rhagwelir y bydd yn cyrraedd rhwng 70% ac 80% erbyn 2025.

Crëwyd **542,110 o fusnesau newydd** yn ne-ddwyrain Lloegr rhwng 2010 a 2020.





## Ehangu cyfleoedd a gwella gwasanaethau cyhoeddus

Rhagwelir y caiff **£405m yn ychwanegol ei wario ar ysgolion prif ffrwd** yn ne-ddwyrain Lloegr yn ystod 2022-23, cynnydd o 5.8% fesul disgybl, o gymharu â 2021-22. Nid yw'r cynnydd hwn fesul disgybl yn cynnwys cyllid "twf", sy'n gyllid ychwanegol, a ddarperir i ysgolion lle mae nifer y disgyblion yn cynyddu'n sylweddol.

Roedd **1,735 yn fwy o feddygon a 4,090 yn fwy o nyrsys** yn gweithio mewn ysbytai yn ne-ddwyrain Lloegr rhwng mis Medi 2019 a mis Medi 2021.

Caiff **chwe ysbyty eu darparu** yn ne-ddwyrain Lloegr erbyn diwedd y ddegawd, gan gynnwys pum ysbyty newydd sy'n rhan o ymrwymiad y Llywodraeth i adeiladu 40 o ysbytai newydd erbyn 2030. Mae'r rhain yn cynnwys ysbyty newydd i fenywod a phlant yn Ysbyty Milton Keynes; ailadeiladu Ysbyty Brenhinol Berkshire; ysbyty newydd yn lle Ysbyty Basingstoke a Gogledd Hampshire; gwaith adnewyddu mawr yn Ysbyty Brenhinol Hampshire yng Nghaer-wynt; ysbyty newydd ar gyfer Ysbyty Cyffredinol Epsom ac Ysbyty St Helier (Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Prifysgol Epsom a St Helier); Canolfan Ranbarthol newydd ar gyfer Addysgu, Trawma a Gofal Trydyddol yn Ysbyty Sirol Brenhinol Sussex; ac ysbyty newydd yn Eastbourne.

Cyhoeddwyd **Ardaloedd Buddsoddi mewn Addysg newydd** yn Ynys Wyth, Portsmouth a dwyrain Sussex, a fydd yn llywio gwelliannau pellach i ysgolion yn yr ardaloedd hyn drwy ariannu ymyriadau mewn ysgolion sy'n tanberfformio, cefnogi twf ymddiriedolaethau cryf a chadw athrawon o safon.

Mae **Athrofa Dechnoleg Ganolog y De** ar waith, gan gwmpasu ardaloedd Partneriaeth Menter Leol Swydd Buckingham, Dyffryn Tafwys, Swydd Rydychen, de-ddwyrain Canolbarth Lloegr a Dyffryn Tafwys Berkshire. Mae dwy Athrofa Dechnoleg arall ar y gweill gyda Phrifysgol Solent (yn cwmpasu ardal Partneriaeth Menter Leol Solent) a Grŵp Coleg Chichester (yn cwmpasu ardal Partneriaeth Menter Leol yr Arfordir i'r Brifddinas).

Dechreuwyd **49,020 o brentisiaethau** yn ne-ddwyrain Lloegr yn ystod 2019-20.

Dechreuwyd **12,030 o swyddi 'Kickstart'** gan bobl ifanc ac agorwyd 21 o ganolfannau ieuenctid i helpu ceiswyr gwaith ifanc i gael gafael ar hyfforddiant a chyfleoedd gwaith lleol.

Cafodd **1,216,600 o swyddi eu rhoi ar ffyrlo** a'u diogelu yn ne-ddwyrain Lloegr drwy'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws.

## Adfer balchder lleol

Mae **1,059 o swyddogion yr heddlu ychwanegol** wedi cael eu recriwtio yn ne-ddwyrain Lloegr ers dechrau'r rhaglen i gynyddu niferoedd heddlu ym mis Hydref 2019.

**£13m** ar gyfer 22 o brosiectau o'r Gronfa Adfywio Cymunedol er mwyn buddsoddi mewn pobl, lleoedd, busnesau a chymunedau, gan gynnwys prosiect Hastings 2066 a chynllun adnewyddu sgiliau yng Nghaergaint, Folkestone a Hythe.

**Dros £1m** drwy'r Gronfa Perchenogaeth Gymunedol ar gyfer tri phrosiect i ddiogelu asedau cymunedol gwerthfawr – Stadiwm John Jenkins yn Portsmouth, Community Stores yn East Boldre a thafarn The George yn Bethersden.

Rhoddwyd **dros £7.3m** gan y Sefydliad Pêl-droed i wella cyfleusterau chwaraeon llawr gwlad a chynyddu cyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn chwaraeon, yn enwedig mewn cymunedau sydd â'r angen mwyaf.

# De-orllewin Lloegr

**Mae de-orllewin Lloegr eisoes yn elwa ar fuddsoddiadau i hybu safonau byw, lledaenu cyfleoedd, adfer balchder lleol a grymuso arweinwyr lleol.**


Mae buddsoddiad cychwynnol o **£131m** drwy Gylch 1 y Gronfa Ffyniant Bro yn cefnogi chwe phrosiect yn ne-orllewin Lloegr. Mae'r rhain yn cynnwys uwchraddio fferïau i Ynysoedd Scilly, cefnogi Prifysgol Swydd Gaerloyw i ddefnyddio adeiladau gwag unwaith eto, adfywio Canol Tref Cinderford, ehangu safle parcio a theithio George yn Plymouth, cysylltu canol dinas Caerloyw ag ardal y dociau a phecyn o welliannau ar hyd coridor yr A38 i'r gogledd o Bridgwater.

Mae'r Gronfa Trefi yn buddsoddi **£198m** mewn naw tref yn ne-orllewin Lloegr er mwyn sbarduno cynlluniau adfywio economaidd cynaliadwy a sicrhau twf economaidd hirdymor a thwf mewn cynhyrchiant. Mae'r rhain yn cynnwys bron **£22m** ar gyfer Bournemouth er mwyn cefnogi cynlluniau adfywio ar gyfer Boscombe, gan gynnwys creu swyddi a chartrefi newydd; dros **£23m** ar gyfer Camborne i ariannu prosiectau i drawsnewid y dref, gan gynnwys ailddatblygu safleoedd segur yn lleoedd amlbwrpas o'r radd flaenaf ar gyfer byw, gweithio ac adloniant; a thros **£23m** ar gyfer Ynys Wydrin (Glastonbury) er mwyn defnyddio asedau presennol yn y gymuned unwaith eto, gan gynnwys ailddatblygu adeiladau hanesyddol Baily's yn hwb di-garbon ar gyfer busnesau lleol, grwpiau addysgol a gweithdai.










### Allwedd

- **Cronfa Ffyniant Bro:** Ynysoedd Scilly, Fforest y Ddena, Caerloyw, Swydd Gaerloyw, Plymouth a Bridgwater.
- **Cronfa Trefi:** Bournemouth, Bridgwater, Camborne, Ynys Wydrin, Penzance, St Ives, Swindon, Torquay a Truro.
- **Cronfa Strydoedd Mawr y Dyfodol:** Penzance, Barnstaple, Plymouth, Yeovil, Swindon, Taunton, Newton Abbot, Paignton, Kingswood, Salisbury a Trowbridge.
- **Cronfa Adfywio Cymunedol:** Cernyw, Dyfnaint, Dorset, Ynysoedd Scilly, Gwlad yr Haf, Plymouth, gogledd Gwlad yr Haf, Torbay ac Awdurdod Cyfun Gorllewin Lloegr.
- **Cronfa Perchenogaeth Gymunedol:** Woodcroft (Fforest y Ddena).
- **Prosiect Gigabeit:** Cernyw, Ynysoedd Scilly, Wiltshire, de Swydd Gaerloyw, Swindon, Dorset, Dyfnaint, Gwlad yr Haf a Swydd Gaerloyw.
- **Cronfa Cryfder mewn Lleoedd:** Caerfaddon a Bryste.
- **Porthladd Rhydd:** Plymouth.
- **Ardaloedd Buddsoddi mewn Addysg:** Plymouth, Gwlad yr Haf, Dorset, de Swydd Gaerloyw, Cernyw, Swindon a gogledd Gwlad yr Haf.
- **Uwchraddio trafnidiaeth:** Caerfaddon, Bryste, Wellington (Gwlad yr Haf) a Cullompton (Dyfnaint).

## De-orllewin Lloegr ar y llwyfan byd-eang

Ym mis Mehefin 2021, cynhaliwyd Uwchgynhadledd G7 ym Mae Carbis yn St Ives, gan arddangos Cernyw ar y llwyfan byd-eang. Daeth Prif Weinidog y DU â democratiaethau arweiniol y byd ynghyd i lunio cytundebau newydd pwysig er mwyn helpu'r byd i frwydro yn erbyn COVID-19, ailgodi'n gryfach yn sgil y pandemig a chreu dyfodol gwyrddach a mwy ffyniannus. Amcangyfrifir mai cyfanswm effaith economaidd cynnal Uwchgynhadledd G7 i'r sir yw **£50m**, gan gynnwys **£24m** yn ystod y digwyddiad ei hun, a thros **£26m** o dwf a ragfynegir yn y dyfodol yn y farchnad dwristiaeth ryngwladol dros y pum mlynedd nesaf. Bydd Cernyw hefyd yn elwa ar fuddsoddiad yn ei threfi a'i thirwedd naturiol o dan gynlluniau i greu gwaddol hirdymor yn sgil Uwchgynhadledd G7.

# Mae Llywodraeth y DU wedi bod yn gweithredu i sicrhau ffyniant bro yn ne-orllewin Lloegr:

## Grymuso arweinwyr a chymunedau lleol

**£900m** dros 30 mlynedd mewn bargen ddatganoli ar gyfer Awdurdod Cyfun Gorllewin Lloegr, gan roi pwerau sylweddol i orllewin Lloegr dros drafnidiaeth, cynllunio, sgiliau a chyflogaeth, a rheolaeth dros y buddsoddiad i hybu twf economaidd.

Gwahoddwyd **Cernyw a Dyfnaint, Plymouth a Torbay** i ddechrau trafodaethau ffurfiol i gytuno ar fargeinion datganoli newydd.

Buddsoddwyd **£198m** mewn naw tref drwy'r Gronfa Trefi er mwyn hybu economïau lleol, creu swyddi a chartrefi newydd, trawsnewid lleoedd cyhoeddus, ac ailwampio atyniadau diwylliannol.

Buddsoddwyd **dros £138m** mewn 11 stryd fawr drwy Gronfa Strydoedd Mawr y Dyfodol, gan gynnwys yn Penzance, Barnstaple, Canol Dinas Plymouth, Yeovil, Swindon, Taunton, Newton Abbot, Paignton, Kingswood, Salisbury a Trowbridge.

Buddsoddwyd **£131m** mewn chwe phrosiect drwy'r Gronfa Ffyniant Bro, gan gynnwys yn Ynysoedd Scilly, Caerloyw, Cinderford, Plymouth, Fforest y Ddena a Bridgwater.

## Rhoi hwb i gynhyrchiant, cyflogau, swyddi a safonau byw

Setliad Trafnidiaeth Gynaliadwy Dinas-Ranbarth gwerth **£540m** dros bum mlynedd i drawsnewid rhwydweithiau trafnidiaeth lleol yng ngorllewin Lloegr, ar gyfer cynlluniau megis llwybr bysiau sydd wedi'i flaenoriaethu'n llawn rhwng Bryste a Chaerfaddon.

**£200m** ar gyfer Banc Busnes Prydain i ehangu ei gronfa fuddsoddi yng Nghernyw ac Ynysoedd Scilly ledled de-orllewin Lloegr.

Bydd **Parth Rhydd Plymouth a De Dyfnaint** (Porthladd Rhydd) yn creu hwb rhanbarthol ar gyfer masnach ac arloesedd drwy adeiladu ar alluoedd unigryw'r rhanbarth mewn meysydd morol, amddiffyn a'r gofod, gan arwain at swyddi newydd, medrus iawn yn y rhanbarth.

**£30m** o'r Gronfa Cryfder mewn Lleoedd ar gyfer cydweithrediad MyWorld ym Mryste a Chaerfaddon, sef hwb a fydd yn adeiladu ar gryfderau rhanbarthol mewn cynhyrchu, technoleg ac ymchwil ym maes y cyfryngau creadigol.

**£5m** o gyllid datblygu i ailagor gorsafoedd trenau yn Wellington, Gwlad yr Haf a Cullompton, Dyfnaint.

**£559m** o gyllid i awdurdodau lleol nad ydynt yn cael Setliadau Dinas-ranbarth er mwyn cynnal a chadw ffyrdd lleol rhwng 2022-23 a 2024-25, a dros £76m ar gyfer blaenoriaethau gwelliannau trafnidiaeth llai.

**£241m** o'r Gronfa Trawsnewid Dinasoedd a rennir ar draws Awdurdod Cyfun Gorllewin Lloegr, rhanbarth de-ddwyrain Dorset a Plymouth, er mwyn adeiladu llwybrau beicio a seilwaith blaenoriaethu bysiau.

Cynyddodd **signal band eang a all drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit** yn ne-orllewin Lloegr o 12% ym mis Tachwedd 2019 i 57% ym mis Ionawr 2022, a rhagwelir y bydd yn cyrraedd rhwng 70% ac 80% erbyn 2025.

Crëwyd **266,100 o fusnesau newydd** yn ne-orllewin Lloegr rhwng 2010 a 2020.





## Ehangu cyfleoedd a gwella gwasanaethau cyhoeddus

Rhagwelir y caiff **£229m yn ychwanegol ei wario ar ysgolion prif ffrwd** yn ne-orllewin Lloegr yn ystod 2022-23, cynnydd o 6.1% fesul disgybl, o gymharu â 2021-22. Nid yw'r cynnydd hwn fesul disgybl yn cynnwys cyllid "twf", sy'n gyllid ychwanegol, a ddarperir i ysgolion lle mae nifer y disgyblion yn cynyddu'n sylweddol.

Roedd **952 yn fwy o feddygon a 2,327 yn fwy o nyrsys** yn gweithio mewn ysbytai yn ne-orllewin Lloegr rhwng mis Medi 2019 a mis Medi 2021.

Caiff **11 ysbyty newydd** eu hadeiladu yn ne-orllewin Lloegr sy'n rhan o ymrwymiad Llywodraeth y DU i adeiladu 40 o ysbytai newydd erbyn 2030. Mae'r rhain yn cynnwys ysbyty canser newydd yn Ysbytai Brenhinol Caerfaddon; ailadeiladu Ysbyty Musgrove Park, Ysbyty Torbay ac Ysbyty Rhanbarth Gogledd Dyfnaint; ysbyty newydd yn Plymouth; ysbyty newydd i fenywod a phlant yn Truro; gwasanaethau newydd ledled Dorset, gan gynnwys integreiddio Hwb Twf Dorset â gwasanaethau meddyg teulu a gwasanaethau cymunedol mewn ysbyty newydd; adeilad newydd i Ysbyty St Ann ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant ac Oedolion yn Dorset; ailadeiladu Ysbyty Cymunedol Poole gyda theatrau a gwasanaethau di-haint; ailadeiladu Ysbyty Cymunedol Bournemouth; ac ailadeiladu Ysbyty Cymunedol Christchurch, gan gyfuno gwasanaethau mewn hybiau cymunedol newydd, a buddsoddiad cysylltiedig yn Hwb Twf Dorset a gofal iechyd meddwl.

Cyhoeddwyd **Ardaloedd Buddsoddi mewn Addysg newydd** yn Plymouth, Gwlad yr Haf, Dorset, de Swydd Gaerloyw, Cernyw, Swindon a gogledd Gwlad yr Haf er mwyn llywio gwelliannau pellach drwy ariannu ymyriadau mewn ysgolion sy'n tanberfformio, cefnogi twf ymddiriedolaethau cryf a chadw athrawon o safon.

Sefydlwyd **Tair Athrofa Dechnoleg** yn cwmpasu ardaloedd Partneriaeth Menter Leol Cernyw ac Ynysoedd Scilly, a Heart of the South West; Swindon a Wiltshire yn cwmpasu ardaloedd Partneriaeth Menter Leol Swindon a Wiltshire a GFirst; a gorllewin Lloegr yn cwmpasu ardal Partneriaeth Menter Leol Awdurdod Cyfun Gorllewin Lloegr.

Dechreuwyd **34,690 o brentisiaethau** yn ne-orllewin Lloegr yn ystod 2019-20.

Dechreuwyd **7,160 o swyddi 'Kickstart'** gan bobl ifanc ac agorwyd 7 o ganolfannau ieuenctid i helpu ceiswyr gwaith ifanc i gael gafael ar hyfforddiant a chyfleoedd gwaith lleol.

Cafodd **771,400 o swyddi eu rhoi ar ffyrlo** a'u diogelu yn ne-orllewin Lloegr drwy'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws.

## Adfer balchder lleol

Mae **712 o swyddogion yr heddlu ychwanegol** wedi cael eu recriwtio yn ne-orllewin Lloegr ers dechrau'r rhaglen i gynyddu niferoedd heddlu ym mis Hydref 2019.

**£175,000** ar gyfer prosiect Tafarn Gymunedol Rising Sun Woodcroft yn Fforest y Ddena o gylch cyntaf y Gronfa Perchenogaeth Gymunedol er mwyn diogelu ased cymunedol gwerthfawr.

**Dros £21m** o'r Gronfa Adfywio Cymunedol ar gyfer 36 o brosiectau er mwyn buddsoddi mewn pobl, lleoedd, busnesau a chymunedau ledled de-orllewin Lloegr, gan gynnwys cynllun hyfforddiant a phrofiad gwaith i helpu pobl ifanc i gael swyddi a chefnogi trawsnewidiad y rhanbarth i economi werdd.

**£53m** ar gyfer Hwb Sero Net Lleol de-orllewin Lloegr er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi aelwydydd incwm isel, lleihau tlodi tanwydd, rhoi'r gorau i ddefnyddio systemau gwresogi tanwydd carbon uchel a gwneud cynnydd tuag at ymrwymiad y DU i fod yn Sero Net erbyn 2050.

Rhoddwyd **dros £2.2m** gan y Sefydliad Pêl-droed i wella cyfleusterau chwaraeon llawr gwlad a chynyddu cyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn chwaraeon, yn enwedig mewn cymunedau sydd â'r angen mwyaf.

# Cymru

**Mae Cymru eisoes yn elwa ar fuddsoddiadau i hybu safonau byw, lledaenu cyfleoedd, adfer balchder lleol a grymuso arweinwyr lleol.**

Bydd pedwar rhanbarth ledled Cymru yn cael budd o fuddsoddiad gwerth **£790m** gan Lywodraeth y DU drwy Fargeinion Dinesig a Thwf. Bydd buddsoddiad o **£500m** ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cefnogi prosiectau gan gynnwys strategaeth datblygu technoleg ariannol newydd a Chronfa Her ar gyfer y rhanbarth cyfan gyda'r nod o ailgronni cyfoeth lleol. Bydd buddsoddiad o **£115m** ym Mae Abertawe yn cefnogi prosiectau gan gynnwys adeiladu Ardal Ddigidol Glannau Abertawe, ynni gwynt symudol ar y môr yn safleoedd profi Ardal Forol Doc Penfro, a band eang ffeibr llawn ar draws yr ardal. Bydd **£120m** yng ngogledd Cymru o fudd i brosiectau ym maes gweithgynhyrchu uwch, ynni carbon isel a seilwaith digidol. Bydd **£55m** yng nghanolbarth Cymru yn cefnogi prosiectau gan gynnwys cysylltedd digidol, ymchwil gymhwysol ac arloesedd, ynni a sgiliau.


Mae buddsoddiad o **£121m** drwy Gylch 1 y Gronfa Ffyniant Bro yn cefnogi deg prosiect yng Nghymru. Mae gwelliannau ym maes trafnidiaeth yn cynnwys adeiladu Hwb Trafnidiaeth Porth, creu ffordd ddeuol ar ran o'r A4119 yng Nghoed-elái a chreu llwybr cerdded a beicio 20km o hyd yn Nyffryn Tywi o Gaerfyrddin i Landeilo. Caiff rhan o Gamlas Trefaldwyn o Lanymynech i Ardd-lin, nad yw'n cael ei defnyddio mwyach, ei hadfywio a bydd gwelliannau i Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte, sy'n 11 milltir o hyd, yn trawsnewid cyfleoedd hamdden a thwristiaeth. Caiff Castell Hwlffordd gymorth i ddod yn atyniad pob tywydd hefyd a chaiff Canolfan Gelf y Miwni ym Mhontypridd ei hailagor. Caiff yr Hen Goleg a'r Marina eu hadfywio yn Aberystwyth a bydd Hybiau newydd yn darparu lleoliad canolog ar gyfer iechyd, addysg a chyfleoedd cyflogaeth yng Nghaerfyrddin a Phenfro. Yn sgil buddsoddiadau yn Aberhonddu, caiff Canolfan Celfyddydau Theatr Brycheiniog ei hailddatblygu a chrëir Hwb Amlasiantaethol newydd, ac yn Llandrindod defnyddir tir segur i godi tai fforddiadwy ac ynni effeithlon.

Bydd Llywodraeth y DU yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar amrywiaeth o bolisïau er mwyn ysgogi newid diriaethol mewn lleoedd a gwella cyfleoedd bywyd.










### Allwedd

- **Cronfa Ffyniant Bro:** Aberhonddu, Coed-elái , Sir Drefaldwyn, Caerfyrddin, Llandeilo, Aberystwyth, Pontypridd, Hwlffordd, Porth, Penfro, Llandrindod a Llangollen.
- **Bargeinion Dinesig a Thwf:** Prifddinas-ranbarth Caerdydd, Bae Abertawe, gogledd Cymru a chanolbarth Cymru.
- **Cronfa Adfywio Cymunedol:** Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd, Ynys Môn, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Sir Benfro, Powys, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, Torfaen, Bro Morgannwg a Wrecsam.
- **Cronfa Perchenogaeth Gymunedol:** Llandwrog, Pen-y- Waun a Thredegar.
- **Cronfa Cryfder mewn Lleoedd:** Caerdydd ac Abertawe.
- **Adleoli'r Gwasanaeth Sifil:** Caerdydd.

## Adleoli'r Gwasanaeth Sifil i Gymru

Mae Hwb Llywodraeth y DU yng Nghaerdydd, sef **Tŷ William Morgan** yn gartref i nifer o adrannau'r llywodraeth. Enwyd yr adeilad ar ôl yr Esgob William Morgan i gydnabod ei rôl hanfodol i gynnal cryfder y Gymraeg, a dewiswyd yr enw er mwyn adlewyrchu creadigrwydd ac ymroddiad gweision sifil yng Nghymru ynghyd ag ymrwymiad Llywodraeth y DU i ddiwylliant Cymreig. Mae mwy na 4,000 o staff o asiantaethau ac adrannau amrywiol Llywodraeth y DU yn gweithio o'r hwb 12 llawr, sydd â chapasiti i gynnal cyfarfodydd Cabinet llawn.

# Mae Llywodraeth y DU wedi bod yn gweithredu i sicrhau ffyniant bro yng Nghymru:

## Grymuso arweinwyr a chymunedau lleol

**£2.5bn** o gyllid ychwanegol i Lywodraeth Cymru gan Lywodraeth y DU bob blwyddyn ar gyfartaledd drwy fformiwla Barnett dros gyfnod Adolygiad o Wariant 2021, yn ychwanegol at ei chyllid llinell sylfaen blynyddol, sef £15.9bn. Mae'r cyllid hwn yn galluogi Llywodraeth Cymru i fuddsoddi ymhellach mewn meysydd megis iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg yn y dyfodol.

**£790m** o fuddsoddiad gan Lywodraeth y DU drwy Fargeinion Dinesig a Thwf, gan gwmpasu bob cwr o Gymru, er mwyn sbarduno twf economaidd, gwaith adfywio a swyddi drwy brosiectau a gaiff eu llywio'n lleol.

## Rhoi hwb i gynhyrchiant, cyflogau, swyddi a safonau byw

**£25m** drwy'r Gronfa Cryfder mewn Lleoedd er mwyn sefydlu CSconnected, canolfan ragoriaeth fyd-eang gyntaf y byd ar gyfer technolegau lled-ddargludyddion cyfansawdd, gan roi mantais fyd-eang mewn technoleg i'r DU ar gyfer sectorau megis cyfathrebu 5G a cherbydau awtonomaidd, a £22m i media.cymru er mwyn cyflymu twf sector y cyfryngau yng Nghaerdydd.

**Hwb masnach a buddsoddi newydd** yng Nghaerdydd, a fydd yn sicrhau bod buddion polisi masnach byd-eang y DU yn cael eu sianelu i Gymru.

**£30m** i adeiladu system profi rheilffyrdd o'r radd flaenaf, y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-Eang ar gyfer Rheilffyrdd, ym mlaenau cymoedd Dulais a Thawe yn ne Cymru.

Crëwyd **119,565 o fusnesau newydd** yng Nghymru rhwng 2010 a 2020.

**Dros £4m** ar gyfer Hwb Hydrogen yng Nghaergybi er mwyn treialu'r broses o greu hydrogen gan ddefnyddio ynni adnewyddadwy a'i ddefnyddio fel tanwydd di-allyriadau ar gyfer Cerbydau Nwyddau Trwm.

**£900m** i ffermwyr a rheolwyr tir a £6.2m i gefnogi pysgodfeydd gan Lywodraeth y DU dros gyfnod Adolygiad o Wariant 2021. Mae Llywodraeth y DU wedi estyn argymhellion Adolygiad Bew fel y bydd cyllid ychwanegol yn parhau i gael ei ddarparu i ffermwyr yng Nghymru dros y tair blynedd nesaf.

Cynyddodd **signal band eang a all drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit** yng Nghymru o 11% ym mis Tachwedd 2019 i 47% ym mis Ionawr 2022, a rhagwelir y bydd yn cyrraedd rhwng 70% ac 80% erbyn 2025.

Ymrwymwyd i wario **£500m** ledled y DU drwy'r rhaglen Rhwydwaith Gwledig Cyffredin er mwyn gwella signal 4G erbyn 2025, gan gynyddu'r signal o 90% i 95% yng Nghymru.

**£130m** i Fanc Busnes Prydain sefydlu cronfa newydd yng Nghymru er mwyn cefnogi mynediad at gyllid i fusnesau yng Nghymru, gan weithio'n agos gyda phartneriaid lleol.

## Ehangu cyfleoedd a gwella gwasanaethau cyhoeddus

**Adleoli'r Gwasanaeth Sifil** i Gaerdydd, gan gyfrannu at dros 4,000 o swyddi yn Hwb Llywodraeth y DU yn adrannau niferus y llywodraeth.

Dechreuwyd **5,860 o swyddi 'Kickstart'** gan bobl ifanc ac agorwyd wyth canolfan ieuenctid i helpu ceiswyr gwaith ifanc i gael gafael ar hyfforddiant a chyfleoedd gwaith lleol.

Cafodd **378,400 o swyddi eu rhoi ar ffyrlo** a'u diogelu yng Nghymru drwy'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws.

## Adfer balchder lleol

Mae **479 o swyddogion yr heddlu ychwanegol** wedi cael eu recriwtio yng Nghymru ers dechrau'r rhaglen i gynyddu niferoedd heddlu ym mis Hydref 2019.

**Dros £460,000** o'r Gronfa Perchenogaeth Gymunedol ar gyfer tri phrosiect yn Llandwrog, Pen-y-Waun a Thredegar sy'n diogelu asedau cymunedol gwerthfawr.

**Comisiynydd Cyn-filwyr** i Gymru a fydd yn gweithio i wella bywydau a chyfleodd ymhlith y gymuned cyn-filwyr yng Nghymru.

**£121m** o'r Gronfa Ffyniant Bro ar gyfer deg prosiect ledled Cymru gan gynnwys yn Wrecsam, Sir Drefaldwyn a Chaerfyrddin.

**Dros £45m** ar gyfer mwy na 160 o brosiectau ledled Cymru drwy'r Gronfa Adfywio Cymunedol, gan gynnwys Rhaglen Hyfforddi'r Diwydiannau Creadigol ym Merthyr Tudful, Prosiect Sero Net sy'n cefnogi gwaith i ddatgarboneiddio tai yng Ngwynedd, Cyflymydd Cynhyrchiant ArloesiAber sy'n darparu gwasanaethau i weithgynhyrchwyr a busnesau amaethyddol yng Ngheredigion, a phrosiect Adfywio Llanelli gyda'r nod o gefnogi cynlluniau adfywio'r dref yn dilyn COVID-19.

**£1.3m** o gyllid gan Lywodraeth y DU i wella cyfleusterau chwaraeon llawr gwlad a chynyddu cyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn chwaraeon, yn enwedig mewn cymunedau sydd â'r angen mwyaf.

# Gorllewin Canolbarth Lloegr

**Mae gorllewin Canolbarth Lloegr eisoes yn elwa ar fuddsoddiadau i hybu safonau byw, lledaenu cyfleoedd, adfer balchder lleol a grymuso arweinwyr lleol.**


Mae buddsoddiad cychwynnol o **£196m** drwy Gylch 1 y Gronfa Ffyniant Bro yn cefnogi 11 prosiect yng ngorllewin Canolbarth Lloegr. Caiff lleoedd diwylliannol a hamdden eu trawsnewid, gan gynnwys adnewyddu pwll nofio Moseley Road Baths yn Birmingham a chreu Hwb Gweithgarwch Corfforol newydd yn Bedworth. Mae gwelliannau i gysylltiadau yn cynnwys gwella Llwybr Halio'r Gamlas yn Kidderminster a'r A457, Dudley Road, yn Birmingham. Bydd adfywio safleoedd tir llwyd yng nghanol tref Bromsgrove a'u troi yn lleoedd masnachol a diwylliannol, a chyflawni tri phrosiect adfywio yn Stoke-on-Trent, yn cael effaith bellgyrhaeddol ar gymunedau. Yn nwyrain Birmingham a gogledd Solihull, caiff 20 hectar o dir na ellir ei ddefnyddio ei adfer er mwyn sbarduno gwaith adfywio, caiff theatr Prince of Wales yn nhref Cannock ei hadnewyddu a chaiff Ardal Ddysgu Ddinesig newydd ei datblygu yn Wolverhampton.

Mae'r Gronfa Trefi yn buddsoddi **£328m** mewn 15 tref yng ngorllewin Canolbarth Lloegr gan gynnwys yn Wolverhampton, Henffordd a Nuneaton. Datblygir mannau cymunedol newydd yn Wolverhampton a gwneir gwelliannau i'r stryd fawr a thir y cyhoedd er mwyn adfywio'r ddinas. Yn Henffordd, caiff amgueddfa ac oriel gelf eu hailddatblygu, datblygir cyfleusterau sgiliau newydd a gwneir gwelliannau i fannau gwyrdd. Yn Nuneaton, caiff eiddo masnachol gwag ei addasu at ddibenion gwahanol a chrëir swyddfeydd newydd o safon.










## Allwedd

- **Cronfa Ffyniant Bro:** Birmingham, Bromsgrove, Bedworth, Cannock, Stoke-on-Trent, Wolverhampton, Solihull a Kidderminster.
- **Cronfa Trefi:** Wolverhampton, Kidsgrove, Bloxwich, Dudley, Redditch, Rowley Regis, Smethwick, West Bromwich, Burton-on-Trent, Nuneaton, Newcastle-under-Lyme, Henffordd, Telford, Walsall a Chaerwrangon.
- **Cronfa Strydoedd Mawr y Dyfodol:** Tamworth, Kidderminster, Caerwrangon, Brierley Hill, Leamington Spa, Nuneaton, Wolverhampton, Walsall, Newcastle-Under-Lyme a Stafford.
- **Cronfa Adfywio Cymunedol:** Swydd Henffordd, Swydd Stafford, Stoke-on-Trent, Swydd Warwick, Swydd Gaerwrangon ac Awdurdod Cyfun Gorllewin Canolbarth Lloegr.
- **Prosiect Gigabeit:** Swydd Amwythig, Swydd Gaerwrangon, Swydd Stafford, Swydd Warwick, Swydd Henffordd.
- **Cronfa Rhyddhau Tir Llwyd:** Solihull a Newcastle-under-Lyme.
- **Adleoli'r Gwasanaeth Sifil:** Wolverhampton, Birmingham a Stoke-on-Trent.
- **Ardaloedd Buddsoddi mewn Addysg:** Dudley, Stoke-on-Trent, Walsall, Sandwell a Chofentri.
- **Uwchraddio trafnidiaeth:** Caerwrangon, Birmingham, Cofentri, Amwythig, Walsall a Brierley Hill.
- **Uchafbwyntiau diwylliannol:** Birmingham a Chofentri.

## Gorllewin Canolbarth Lloegr ar y llwyfan byd-eang

Mae Llywodraeth y DU, Cyngor Dinas Birmingham a'i bartneriaid yn buddsoddi **£778m** er mwyn cynnal **Gemau'r Gymanwlad Birmingham** yn 2022. Fel rhan o'r buddsoddiad hwn, caiff stadiwm Alexander ei adnewyddu a gwneir gwelliannau i orsaf Perry Barr a gorsaf y Brifysgol. Hwn fydd y digwyddiad chwaraeon a diwylliannol mwyaf a gynhaliwyd yn y ddinas erioed. Bydd miloedd o athletwyr o safon ryngwladol yn cymryd rhan, dros filiwn o wylwyr ac amcangyfrifir y bydd 1.5bn o bobl yn gwylio'r Gemau ar y teledu ym mhedwar ban byd. Bydd y Gemau yn arwain at fuddion sylweddol i Birmingham, gorllewin Canolbarth Lloegr a'r DU, gan gynnwys swyddi newydd, twristiaeth a buddsoddiad mewn busnesau, gan adael gwaddol pellgyrhaeddol ymhell ar ôl i'r Gemau orffen. Ymrwymwyd **£24m** i gyflawni'r Rhaglen Busnes a Thwristiaeth, gyda'r nod o ddefnyddio'r proffil a grëir yn sgil y Gemau i hybu enw da byd-eang gorllewin Canolbarth Lloegr fel cyrchfan byd-eang ar gyfer twristiaeth, masnach a buddsoddi.

Papur Gwyn **Sicrhau Ffyniant Bro ledled y Deyrnas Unedig**

# Mae Llywodraeth y DU wedi bod yn gweithredu i sicrhau ffyniant bro yng ngorllewin Canolbarth Lloegr:

## Grymuso arweinwyr a chymunedau lleol

Cronfa fuddsoddi gwerth **£1.095m** dros 30 mlynedd fel rhan o fargen ddatganoli Awdurdod Cyfun Gorllewin Canolbarth Lloegr.

**Bargen ddatganoli ddyfnach sy'n torri tir newydd** i gael ei negodi ag Awdurdod Cyfun Gorllewin Canolbarth Lloegr.

Buddsoddwyd **£328m** mewn 15 Bargen drwy'r Gronfa Trefi gan gynnwys yn Rowley Regis, Smethwick, Newcastle-under-Lyme, Henffordd a Chaerwrangon er mwyn hybu economïau lleol, creu swyddi a chartrefi newydd, trawsnewid lleoedd cyhoeddus, ac ailwampio atyniadau diwylliannol.

Dyfarnwyd **£196m** o'r Gronfa Ffyniant Bro i 11 prosiect er mwyn adfywio canol trefi a strydoedd mawr, uwchraddio trafnidiaeth leol, a buddsoddi mewn asedau diwylliannol a threftadaeth yn Birmingham, Bromsgrove, Bedworth, Cannock, Stoke-on-Trent, Wolverhampton, Solihull a Kidderminster.

**£146m** o Gronfa Strydoedd Mawr y Dyfodol i helpu cynlluniau i adfywio ac adfer yn dilyn y pandemig yn Tamworth, Kidderminster, Caerwrangon, Brierley Hill, Leamington Spa, Nuneaton, Wolverhampton, Walsall, Newcastle-Under-Lyme a Stafford.

## Rhoi hwb i gynhyrchiant, cyflogau, swyddi a safonau byw

**Cynllun peilot ar gyfer Sbardunwr Arloesedd** yn ardal Awdurdod Cyfun Gorllewin Canolbarth Lloegr gyda mynediad at £100m o gyllid. Partneriaeth newydd yw hon i gefnogi'r dinas-ranbarth i ddod yn ganolfan ymchwil ac arloesi sy'n gystadleuol ar lefel fyd-eang.

**£25m** ar gyfer cyfrwng profi 5G gorllewin Canolbarth Lloegr, sydd wedi cyflymu'r broses o roi 5G ar waith rhwng pedwar a phum mis yn Awdurdod Cyfun Gorllewin Canolbarth Lloegr, gan roi'r signal 5G gorau yn y DU iddo.

**£1bn** dros bum mlynedd i Awdurdod Cyfun Gorllewin Canolbarth Lloegr ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth tebyg i Lundain sy'n addas ar gyfer yr ardal leol, gan gynnwys drwy estyn system fysiau gyflym gorllewin Canolbarth Lloegr a chwblhau'r estyniad i'r metro o Wednesbury i Brierley Hill.

**£400m** o gyllid newydd ar gyfer Cronfa Buddsoddi ym Mheiriant Canolbarth Lloegr Banc Busnes Prydain, er mwyn cefnogi mynediad ar gyfer busnesau bach a chanolig yn y rhanbarth.

**£16m** o'r Gronfa Twf Lleol tuag at Becyn Trafnidiaeth Canol Dinas Henffordd.

**£306m** o gyllid i awdurdodau lleol nad ydynt yn cael Setliadau Dinas-ranbarth er mwyn cynnal a chadw ffyrdd lleol rhwng 2022-23 a 2024-25, dros £41m ar gyfer blaenoriaethau gwelliannau trafnidiaeth llai a gwaith uwchraddio ffordd strategol ar gyffyrdd allweddol yng Nghofentri, Walsall ac ym Maes Awyr Birmingham.

**£18m** drwy'r Gronfa Cryfder mewn Lleoedd ledled Canolbarth Lloegr er mwyn datblygu gwaith cerameg uwch sy'n defnyddio llai o ynni.

Cynyddodd **signal band eang a all drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit** yng ngorllewin Canolbarth Lloegr o 9% ym mis Tachwedd 2019 i 74% ym mis Ionawr 2022, a rhagwelir y bydd yn cyrraedd rhwng 80% a 90% erbyn 2025.

Crëwyd **242,710 o fusnesau newydd** yng ngorllewin Canolbarth Lloegr rhwng 2010 a 2020.

Cafodd **820,200 o swyddi eu rhoi ar ffyrlo** a'u diogelu yng ngorllewin Canolbarth Lloegr drwy'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws.

Ymrwymwyd i wario **£500m** ledled y DU drwy'r rhaglen Rhwydwaith Gwledig Cyffredin er mwyn gwella signal 4G erbyn 2025, gan gynyddu'r signal i 99% yng ngorllewin Canolbarth Lloegr.

## Ehangu cyfleoedd a gwella gwasanaethau cyhoeddus

Rhagwelir y caiff **£289m yn ychwanegol ei wario ar ysgolion prif ffrwd** yng ngorllewin Canolbarth Lloegr yn ystod 2022-23, cynnydd o 5.9% fesul disgybl, o gymharu â 2021-22. Nid yw'r cynnydd hwn fesul disgybl yn cynnwys cyllid "twf", sy'n gyllid ychwanegol, a ddarperir i ysgolion lle mae nifer y disgyblion yn cynyddu'n sylweddol.

Cyhoeddwyd **Ardaloedd Buddsoddi mewn Addysg newydd** ar gyfer Dudley, Stoke-on- Trent, Walsall, Sandwell a Chofentri, a fydd yn llywio gwelliannau pellach i ysgolion yn yr ardaloedd hyn drwy ariannu ymyriadau mewn ysgolion sy'n tanberfformio, cefnogi twf ymddiriedolaethau cryf a chadw athrawon o safon.

Mae **tair Athrofa Dechnoleg** yn cael eu darparu, ac mae Athrofa Dechnoleg yr Ardal Ddu a'r Gororau ac Athrofa Dechnoleg Birmingham Fwyaf a Solihull eisoes wedi'u sefydlu. Mae Athrofa Dechnoleg newydd yn cael ei datblygu gyda Grŵp Colegau Newcastle a Stafford, gan gwmpasu ardal Partneriaeth Menter Leol Stoke-on-Trent a Swydd Stafford.

Roedd **1,063 yn fwy o feddygon a 2,221 yn fwy o nyrsys** yn gweithio mewn ysbytai yng ngorllewin Canolbarth Lloegr rhwng mis Medi 2019 a mis Medi 2021.

**Symud gwasanaethau gofal brys** o dri ysbyty ledled y rhanbarth i un safle o'r radd flaenaf ym Mhrifysgol Metropolitan Canolbarth Lloegr erbyn 2030.

Caiff **800-900 o swyddi** eu creu yn swyddfa newydd yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau yn Wolverhampton a swyddfa'r Adran Drafnidiaeth yn Birmingham erbyn 2025, ynghyd â Chanolfan Arloesi newydd y Swyddfa Gartref yn Stoke-on-Trent a fydd yn darparu ar gyfer 500 o rolau erbyn 2025.

Dechreuwyd **36,130 o brentisiaethau** yng ngorllewin Canolbarth Lloegr yn ystod 2019-20.

Dechreuwyd **12,000 o swyddi 'Kickstart'** gan bobl ifanc ac agorwyd 12 o ganolfannau ieuenctid i helpu ceiswyr gwaith ifanc i gael gafael ar hyfforddiant a chyfleoedd gwaith lleol.

## Adfer balchder lleol

Mae **1,253 o swyddogion yr heddlu ychwanegol** wedi cael eu recriwtio yng ngorllewin Canolbarth Lloegr ers dechrau'r rhaglen i gynyddu niferoedd heddlu ym mis Hydref 2019.

**£778m** ar gyfer Gemau'r Gymanwlad Birmingham a chyfanswm o dros £18m ar gyfer rhaglen Dinas Diwylliant y DU 2021 yng Nghofentri.

**Dros £2m** o'r Gronfa Rhyddhau Tir Llwyd er mwyn adfywio Canolfan Bentref Kingshurst yn Solihull a Cross Street yn Newcastle-under-Lyme.

**Dros £16m** ar gyfer 29 o brosiectau drwy'r Gronfa Adfywio Cymunedol, gan gynnwys ar gyfer Rhaglen Adfer Twristiaeth Ddiwylliannol a Thwf Creadigol Cyngor Dinas Cofentri.

Rhoddwyd **dros £2.3m** gan y Sefydliad Pêl-droed i wella cyfleusterau chwaraeon llawr gwlad a chynyddu cyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn chwaraeon, yn enwedig mewn cymunedau sydd â'r angen mwyaf.

# Swydd Efrog a Humber

**Mae Swydd Efrog a Humber eisoes yn elwa ar fuddsoddiadau i hybu safonau byw, lledaenu cyfleoedd, adfer balchder lleol a grymuso arweinwyr lleol.**


Mae buddsoddiad cychwynnol o **£187m** drwy Gylch 1 y Gronfa Ffyniant Bro yn cefnogi deg prosiect ledled Swydd Efrog a Humber. Caiff lleoliadau diwylliannol a hamdden eu trawsnewid drwy greu pwll nofio newydd yn Halifax, cwblhau'r ardal diwylliant a hamdden yn Rotherham, datblygu amgueddfa ac oriel newydd yn Wakefield, datblygu Canolfan Llesiant a Menter newydd yn Bradford a chreu canolfannau ymwelwyr a lletygarwch newydd yn Wentworth Woodhouse. Caiff canol trefi a dinasoedd eu gwella drwy adfywio Ardal Castlegate yn Sheffield, Whitefriargate ac Albion Square yn Hull a'r glannau yn Doncaster. Yng ngorllewin Leeds, gwneir gwelliannau i gysylltiadau trafnidiaeth a chaiff Canolfan newydd ar gyfer Technoleg Iechyd Plant ei sefydlu ym Mharc Gwaddol Olympaidd Sheffield yn Attercliffe.

Mae'r Gronfa Trefi yn buddsoddi dros **£422m** mewn 18 tref ledled Swydd Efrog a Humber gan gynnwys yn Brighouse, Doncaster a Scarborough. Drwy greu cysylltiadau gwell, ailwampio ardal y farchnad ac adnewyddu glannau'r gamlas a'r stryd fawr, caiff canol tref Brighouse ei adfywio a'i droi'n gyrchfan sy'n cynnig profiad hamdden, manwerthu a diwylliannol unigryw a chynhwysol. Caiff yr ardal o amgylch gorsaf drenau Doncaster ei hadfywio ymhellach er mwyn darparu lleoedd masnachol a menter newydd, blaengwrt rheilffordd estynedig a chysylltiadau gwell â'r dref. Caiff ardal yr orsaf ei thrawsnewid yn Scarborough a chaiff yr harbwr ei adfywio er mwyn creu ardal gyhoeddus newydd.










**Allwedd**

- **Cronfa Ffyniant Bro:** Doncaster, Halifax, Rotherham, Leeds, Wakefield, Hull, Bradford a Sheffield.
- **Cronfa Trefi:** Brighouse, Castleford, Dewsbury, Doncaster, Goldthorpe, Goole, Grimsby, Keighley, Morley, Rotherham, Scarborough, Scunthorpe, Shipley, Stainforth, Stocksbridge, Todmorden, Wakefield a Whitby.
- **Cronfa Strydoedd Mawr y Dyfodol:** Rotherham, Barnsley, Elland, Halifax, Northallerton, Grimsby, Scunthorpe a Sheffield.
- **Cronfa Adfywio Cymunedol:** Efrog, Hull, gogledd-ddwyrain Swydd Lincoln, gogledd Swydd Lincoln, gogledd Swydd Efrog, de Swydd Efrog a gorllewin Swydd Efrog.
- **Cronfa Perchenogaeth Gymunedol:** Bradford.
- **Prosiect Gigabeit:** Gorllewin Swydd Efrog, gogledd Swydd Efrog, de Swydd Efrog, gogledd-ddwyrain Swydd Lincoln, gogledd Swydd Lincoln a Riding Dwyreiniol.
- **Cronfa Rhyddhau Tir Llwyd:** Halifax.
- **Porthladd Rhydd:** Humber.
- **Adleoli'r Gwasanaeth Sifil:** Leeds.
- **Ardaloedd Buddsoddi mewn Addysg:** Doncaster, Wakefield, Kirklees, Rotherham, Bradford, Leeds a gogledd Swydd Efrog.
- **Uwchraddio trafnidiaeth:** Gorllewin Swydd Efrog, de Swydd Efrog, Sheffield, Selby, Skipton, Harrogate ac Efrog.

## Porthladd Rhydd newydd ar gyfer Swydd Efrog a Humber

Bydd **Porthladd Rhydd Humber**, a fydd yn cwmpasu Hull, Goole, Immingham a Grimsby yn darparu cyfleoedd newydd ar gyfer Swydd Efrog a Humber. Mae gan y lleoliad hwn gysylltiadau ardderchog â chefnwlad gweithgynhyrchu a chadwyn gyflenwi'r DU, ac mae mewn lleoliad delfrydol i wasanaethu'r diwydiant gwynt sy'n datblygu ar Fôr y Gogledd. Bydd y Porthladd Rhydd yn adeiladu ar gryfderau rhanbarthol presennol, gan gynnwys ynni adnewyddadwy, twf glân a gweithgynhyrchu uwch, er mwyn darparu miloedd o swyddi a chyfleoedd buddsoddi newydd.

# Mae Llywodraeth y DU wedi bod yn gweithredu i sicrhau ffyniant bro yn Swydd Efrog a Humber:

## Grymuso arweinwyr a chymunedau lleol

**£1.1bn** dros 30 mlynedd drwy Fargen Ddatganoli Gorllewin Swydd Efrog a gytunwyd ym mis Mawrth 2020. Etholwyd Maer cyntaf gorllewin Swydd Efrog, Tracy Brabin, ym mis Mai 2021.

**£900m** dros 30 mlynedd ar gyfer Bargen Ddatganoli De Swydd Efrog, lle rhyddhawyd cyllid ym mis Medi 2020 a rhoddwyd pwerau dros drafnidiaeth, adfywio strategol a chynllunio, tai a darparu sgiliau ledled y rhanbarth i'r Maer etholedig.

Trafodaethau ynghylch **bargen ddatganoli** i ddechrau gydag Efrog a gogledd Swydd Efrog a Hull a dwyrain Swydd Efrog er mwyn sicrhau bod bargen ddatganoli ar gyfer Swydd Efrog gyfan.

**£30m** o fuddsoddiad rhannu enillion yn parhau'n flynyddol fel rhan o Fargen Dinas-ranbarth Leeds.

**£96m** o fuddsoddiad drwy Gronfa Strydoedd Mawr y Dyfodol, gan gynnwys yn Barnsley, Halifax, Northallerton a Scunthorpe er mwyn adnewyddu ac ail-lunio canol trefi.

**£187m** o'r Gronfa Ffyniant Bro ar gyfer deg prosiect ledled Swydd Efrog a Humber.

**Dros £422m** o fuddsoddiad drwy'r Gronfa Trefi ar gyfer 18 tref ledled Swydd Efrog a Humber er mwyn hybu economïau lleol, creu swyddi a chartrefi newydd, trawsnewid lleoedd cyhoeddus, ac ailwampio atyniadau diwylliannol.

## Rhoi hwb i gynhyrchiant, cyflogau, swyddi a safonau byw

**£33m** o gyllid gan Lywodraeth y DU ar gyfer Menter Ddi-garbon Humber, ynghyd â chymorth ar gyfer Clwstwr Arfordir y Dwyrain, sef cydweithrediad rhwng Humber a Teesside i ddal allyriadau a'u storio'n ddiogel, sydd â'r potensial i waredu oddeutu 50% o holl allyriadau diwydiannol y DU.

**£75m** o fuddsoddiad gan Lywodraeth y DU i ddatblygu cyfleuster porthladd gwynt ar y môr ym Mharc Ynni Able Marine yng ngogledd Swydd Lincoln.

**Dros £1.3bn** drwy Fargeinion Twf Lleol (y Gronfa Twf Lleol) ers 2015, gan ddarparu cyfleoedd twf a phrosiectau seilwaith mawr ledled y rhanbarth.

**Buddsoddiad sylweddol mewn trafnidiaeth**, gyda £830m i Awdurdod Cyfun Maerol gorllewin Swydd Efrog a £570m i Awdurdod Cyfun Maerol de Swydd Efrog mewn Setliadau Trafnidiaeth Gynaliadwy Dinas-Ranbarth dros bum mlynedd i drawsnewid rhwydweithiau trafnidiaeth lleol, ar gyfer cynlluniau megis gwelliannau i fysiau, beicwyr a cherddwyr ar yr A61 rhwng Leeds a Wakefield ac adnewyddu'r gwasanaeth 'Supertram' yn Sheffield.

**Dros £489m** o fuddsoddiad drwy'r Gronfa Trawsnewid Dinasoedd ar gyfer seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus a chynaliadwy ledled gorllewin Swydd Efrog, de Swydd Efrog ac yn Selby, Skipton, Harrogate ac Efrog.

**£194m** er mwyn cynnal a chadw ffyrdd lleol rhwng 2022-23 a 2024-25, a £33m ar gyfer gwelliannau trafnidiaeth ledled Swydd Efrog a Humber.

Cynyddodd **signal band eang a all drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit** yn Swydd Efrog a Humber o 16% ym mis Tachwedd 2019 i 69% ym mis Ionawr 2022, a rhagwelir y bydd yn cyrraedd rhwng 80% a 90% erbyn 2025.

Crëwyd **97,710 o fusnesau newydd** yn Swydd Efrog a Humber rhwng 2010 a 2020.

Cafodd **598,300 o swyddi eu rhoi ar ffyrlo** a'u diogelu ledled Swydd Efrog a Humber drwy'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws.

## Ehangu cyfleoedd a gwella gwasanaethau cyhoeddus

Rhagwelir y caiff **£251m ychwanegol ei wario ar ysgolion prif ffrwd** yn Swydd Efrog a Humber yn ystod 2022-23, cynnydd o 5.8% fesul disgybl, o gymharu â 2021-22. Nid yw'r cynnydd hwn fesul disgybl yn cynnwys cyllid "twf", sy'n gyllid ychwanegol, a ddarperir i ysgolion lle mae nifer y disgyblion yn cynyddu'n sylweddol.

Cyhoeddwyd **Ardaloedd Buddsoddi mewn Addysg newydd** ar gyfer Doncaster, Wakefield, Kirklees, Rotherham, Bradford, Leeds a gogledd Swydd Efrog, a fydd yn llywio gwelliannau pellach i ysgolion yn yr ardaloedd hyn drwy ariannu ymyriadau mewn ysgolion sy'n tanberfformio, cefnogi twf ymddiriedolaethau cryf a chadw athrawon o safon.

Mae **Athrofa Dechnoleg Swydd Efrog a Humber** wedi cael ei sefydlu, gan gwmpasu ardaloedd Partneriaeth Menter Leol Hull a Riding Dwyreiniol ac Efrog a gogledd Swydd Efrog, ac mae un Athrofa Dechnoleg arall ar y gweill, Grŵp Colegau DN, gan gwmpasu ardal Partneriaeth Menter Leol Dinas-ranbarth Sheffield.

Dechreuwyd **36,520 o brentisiaethau** yn Swydd Efrog a Humber yn 2019-20.

Caiff **ysbyty newydd** ei adeiladu yn Swydd Efrog a Humber fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth y DU i adeiladu 40 o ysbytai newydd erbyn 2030. Bydd hyn yn darparu gwasanaethau plant ac oedolion mewn man canolog yn Ysbyty Cyffredinol Leeds a darperir gwasanaethau patholeg yn Ysbyty Prifysgol St James.

Roedd **996 yn fwy o feddygon a 1,643 yn fwy o nyrsys** yn gweithio mewn ysbytai yn Swydd Efrog a Humber rhwng mis Medi 2019 a mis Medi 2021.

Caiff **swyddi newydd** eu creu yn Leeds drwy agor swyddfeydd ar gyfer Banc Seilwaith y DU, ac mae pencadlys cenedlaethol Banc Busnes Prydain eisoes yn Sheffield.

Dechreuwyd **10,550 o swyddi 'Kickstart'** gan bobl ifanc ac agorwyd 14 o ganolfannau ieuenctid i helpu ceiswyr gwaith ifanc i gael gafael ar hyfforddiant a chyfleoedd gwaith lleol.

## Adfer balchder lleol

Mae **1,270 o swyddogion yr heddlu ychwanegol** wedi cael eu recriwtio yn Swydd Efrog a Humber ers dechrau'r rhaglen i gynyddu niferoedd heddlu ym mis Hydref 2019.

**Bron £15m** drwy'r Gronfa Adfywio Cymunedol ar gyfer 28 o brosiectau ledled Swydd Efrog a Humber, gan gynnwys y rhaglen Dyfodol Gwaith Iechyd yn Leeds sy'n cysylltu pobl ifanc â gyrfaoedd gwerth chweil yn y sector iechyd a gofal.

Buddsoddiad o **£77m** ar gyfer ardal ganolog Efrog er mwyn helpu i ddarparu 2,500 o gartrefi ynghyd â chael statws Ardal Fenter.

**£225,000** o'r Gronfa Perchenogaeth Gymunedol i ddiogelu'r Ganolfan Jubilee yn Bradford.

**£15m** ar gyfer Coedwig y Gogledd er mwyn cefnogi gwaith i greu coetir newydd.

Clustnodir **£390,000** o'r Gronfa Rhyddhau Tir Llwyd er mwyn adfywio ystad Beech Hill yn Halifax.

**£77m** i ailddatblygu Llyfrgell Brydeinig Boston Spa.

**£20m** o'r Gronfa Cynhesrwydd Cynaliadwy i helpu cynghorau yn Swydd Efrog a Humber i osod mesurau arbed ynni newydd a systemau gwresogi carbon isel mewn aelwydydd incwm isel.

**Dros £5m** i Leeds a thros £2m i Bradford o Gynllun Cyflawni Awdurdodau Lleol y Grant Cartrefi Gwyrdd er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi aelwydydd incwm isel, gan helpu i leihau tlodi tanwydd.

Rhoddwyd **dros £11.7m** gan y Sefydliad Pêl-droed i wella cyfleusterau chwaraeon llawr gwlad a chynyddu cyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn chwaraeon, yn enwedig mewn cymunedau sydd â'r angen mwyaf.

ISBN 978-1-5286-3017-7
E02694177 02/22